

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Cyfaill pwyl o'r hen wlad?: y wasg gyfnodol Gymraeg a hunaniaeth Cymry America 1838-66

Williams, Rhiannon

Award date:
2012

Awarding institution:
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Pennod 1: CYFLWYNIAD.

Er gadel Cymru lawn ei breintiau,
 Ei lloer, ei ser, a'i goleuadau,
 Wele'n dod, er difa'n alaeth
 A'r colledion, Gyfaill odiaeth.¹

O ganlyniad i'r ymfudo ar raddfa enfawr o Gymru i America yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ymdrechwyd i ail-greu diwylliant Cymraeg ar dir estron a fyddai'n cyfuno'r hunaniaeth Gymreig a ddaethai dros y môr gyda'r ymfudwyr ag amodau byw'r wlad newydd. Un o'r cyfryngau mwyaf grymus yn y cyfnod i ddiffinio cenedligrwydd oedd y wasg gyfnodol, a weithredai fel dull cyfathrebu hanfodol a oedd yn rhoi mynegiant i amrywiol agweddau ar hunaniaeth yr ymfudwyr. Cyhoeddwyd llawer o gerddi tebyg i'r uchod yn y cyfnodolion, sy'n tystio i bwysigrwydd y cyfrwng print yn creu a chynnal diwylliant Cymry America, yn camu i'r adwy fel 'cyfaill' i lenwi bwlch ym mywydau'r ymfudwyr a lleddfu eu hiraeth am yr hen wlad. Yn wir, am bron i ganrif bu arloeswr y maes hwn yn ymdrechu i wireddu arwyddocâd ei enw, *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*.

Maes wedi ei esgeuluso'n ddirfawr yw ymchwilio i brofiadau'r Cymry a ymfudodd i Ogledd America yn y cyfnod hwn, a sut y bu iddynt gadw eu Cymreictod mewn amgylchfyd dieithr. Cafwyd ambell astudiaeth yn archwilio patrwm ymfudiaeth y Cymry i wledydd amrywiol y byd, a chyhoeddwyd toreth o ddeunydd yn archwilio profiadau ymfudwyr i Batagonia yn ystod yr un ganrif, wrth i awduron gael eu swyno gan ramant ac antur y daith i'r Wladfa.² Serch hynny, er bod graddfa yr ymfudo i Ogledd America yn llawer uwch nag i Dde America, prin o'i gymharu yw'r diddordeb yn hynt a helynt yr ymfudwyr aeth yno:

¹ Anerchiad i'r Cyfaill - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1838.

² Un enghraifft yw: Jones, Robert Owen (1992) 'From Wales to Saskatchewan via Patagonia', *Proceedings of 2nd North American Congress of Celtic Studies*, McCurdy: Canada.

Patagonia has enjoyed a degree of historical attention in Wales far beyond what it merits from the scale of the enterprise. At most, the settlement never had more than two or three thousand people of Welsh origin, in contrast to the tens of thousands who could be found in contemporary Ohio or Pennsylvania, to say nothing of Canada, Australia or even England. And while the settlers on the Chubut constructed around themselves a distinctively Welsh world of chapels and newspapers, it is unlikely that they did so any more systematically than their counterparts in north America.³

Er bod ymfudo yn ffenomen sy'n ganolog i hanes y cyfnod modern,⁴ ychydig o waith a wnaed yn ei drafod fel pwnc hanesyddol o bwys a weddnewidiodd holl ddemograffeg Cymru a Phrydain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.⁵ Cyhoeddwyd nifer o astudiaethau cyfoes yn ymateb i'r diddordeb cynyddol mewn ymfudo, a themau fel 'globaleiddio' ac 'amlddiwylliannedd' yn ennill eu plwyf, ond cymharol ychydig yw'r deunydd sy'n ymdrin â'r gorffennol mewn cymhariaeth.⁶ Canolbwyntiodd cyfran sylweddol o haneswyr ar olrhain mudiadau ymfudo mwyaf blaenllaw yr Almaenwyr a'r Gwyddelod i America, ac edrychwyd yn helaeth ar effeithiau'r mewnlifiad ar batrwm cymdeithasol y wlad.⁷ Cyfeiriadau arwynebol yn unig a geir at y Cymry, os o gwbl, mewn llyfrau cyffredinol ar ymfudo i America, gan roi'r prif sylw i'r grwpiau mwy niferus ac amlwg.⁸ Yn wir, anwybyddir Cymru i raddau helaeth hyd yn oed yn yr astudiaethau ar ymfudo Prydeinig yn y cyfnod.⁹

³ Jenkins, Philip (1992) *A History of Modern Wales 1536-1990*, Longman: London, t.321.

⁴ Benmayor, Rina & Skotres, Andor (1994) Some Reflections on Migration and Identity, yn (gol) Benmayor, Rina & Skotres, Andor, *Migration and Identity*, Oxford University Press, t.5. Mae'r enghraifft hon yn nodweddiadol o nifer o astudiaethau o'r fath, ac mae'n cynnwys llyfryddiaeth gynhwysfawr.

⁵ MacDonagh, Oliver (1973) *Emigration in the Victorian Age: Debates on the Issue from Nineteenth Century Critical Journals*, Gregg International Publishers Ltd. Honna fod ymfudo wedi ei anwybyddu fel pwnc hanesyddol, yn enwedig ei arwyddocâd i hanes Prydain yn y 19eg ganrif yn sgil graddfa anferthol y symudiad o boblogaeth. Hefyd gw. Jones, Bill (2003) 'Raising the Wind: Emigrating from Wales to the USA in the late nineteenth century and early twentieth century', Darlith flynyddol Canolfan Uwchefrydiau Cymry America – prifysgol Caerdydd. Mae hefyd yn tanlinellu nad yw ymfudo wedi ei ymchwilio mewn dyfnder fel rhan o hanes Cymru, ac y dadlau ei fod yn brofiad arwyddocaol, canolog hyd yn oed ar adegau, i hanes y genedl. Er bod arwyddocâd ymfudo yn amrywio o le i le ac yn dibynnu ar gyfnod penodol, honna y cafodd y broses effaith ddiwylliannol, economaidd a chymdeithasol ar ddemograffeg Cymru.

⁶ Guibernau, Montserrat (2007) *The Identity of Nations*, Polity Press: Cambridge. Yma, ceir ystyriaeth o ystyr cenedligrwydd i genedl leiafrifol yng nghysgod gwladwriaeth arall, ond mewn cyd-destun cyfoes.

⁷ Rhai enghreifftiau yw: Williams, William .H.A. (1998) Immigration as a pattern in American Culture, yn (gol) Jackson, David, *The Immigration Reader: America in a Multidisciplinary Perspective*, Blackwell: Oxford; Hansen, Marcus Lee (1940) *The Immigrant in American History*, Harvard University Press: Cambridge.

⁸ Jones, Maldwyn Allen (1960) *American Immigration*, University of Chicago Press. Ceir darlun o ymfudo Americanaidd o safbwynt nifer o genhedloedd, ond ymhelaethir ar brofiad y Gwyddelod a'r Almaenwyr, gydag ambell gyfeiriad at Gymru. Hefyd gw. Hartmann, Edward (1979) *American Immigration*, Lerner: Minneapolis,

Er mai ymylol, felly, yw'r sylw a dderbyniodd cenedl leiafrifol y Cymry o ran ei chyfraniad i Ogledd America gan haneswyr yn gyffredinol, tuedda astudiaethau meintiol i lenwi'r bwlch ystadegol i ddynodi symudiad y Cymry ar draws yr Iwerydd. Nid edrychir yn fanwl yn yr ymchwil hwn ar batrymau ymfudo na'r rhesymau am godi pac, oherwydd cafwyd braslun mor gyflawn â phosib eisoes mewn llyfrau hanes.¹⁰

Cafwyd, yn ogystal, rai testunau gan haneswyr Cymreig yn olrhain hanes eu cenedl yn America yn gyffredinol, er eu bod wedi dyddio erbyn hyn.¹¹ Serch hynny, prin yw'r trafodaethau ar oblygiadau ymfudiadau'r Cymry ar ansawdd eu hunaniaeth o safbwynt dadansoddol, ar wahân i ambell astudiaeth dreiddgar.¹² Canolbwyntiwyd yn flaenorol ar godi

Minnesota; Kraus, Michael (1966) *Immigration: the American Mosaic*, D.Van Nostrand: Canada & Jones; Maldwyn.A. (1976) *Destination America*, Weidenfeld & Nicolson: London.

⁹ Coleman, Terry (1972) *Passage to America: A history of emigrants from Great Britain and Ireland to America in the mid nineteenth century*, Hutchinson: London. Darlunia straeon unigolion mewn modd personol a dirdynnol, ond ychydig a ganolbwyntir ar brofiad y Cymry. Hefyd gw. Shepperson, W.S. (1957) *British Emigration to North America: Projects and Opinions in the early Victorian Period*, Basil Blackwell: Oxford. Mae'n rhoi ystyriaeth i Gymru yn ei astudiaeth o safbwyntiau Prydeinwyr ar ymfudo, ond mae prif gorff y drafodaeth yn canolbwyntio ar Loegr a'r Alban. Gwneir ymgais i edrych ar amrywiaeth o ffactorau economaidd a chrefyddol, ond drwy ymestyn sgôp yr ymchwil i Brydain, arwynebol yw'r ffocws ar Gymru yma, fel nifer o astudiaethau Prydeinig i'r perwyl hwn.

¹⁰ Am hanes cymdeithasol a chefnidir y broses ymfudo yn gryno, gw. Jones, Bill (2003) '*Raising the Wind: Emigrating from Wales to the USA in the late nineteenth century and early twentieth century*', Darlith flynyddol Canolfan Uwchefrydiau Cymry America – Prifysgol Caerdydd. Edrychir ar y cymhellion dros ymfudo yng nghyd-destun datblygiadau'r 19eg ganrif, megis trafniadaeth, cyfathrebu a thrwf y masnach ymfudo. Am fraslun o'r ymfudo o Gymru i America ac agweddau eu Cymreictod yn gryno gw. Van Vugt, William E. (1991) 'Welsh emigrants to the USA during the mid nineteenth century', *Welsh History Review*, 15, t.545-61; Jones, Maldwyn A. (1975) 'From the Old Country to the New: The Welsh in nineteenth century America', *Flintshire Historical Society Publication*, 27, t.85-101. Mae Williams, Gwyn A (1976) *Y Baradwys Bell: Cymru a'r Unol Daleithiau 1776-1914*, Darlith Radio Flynyddol BBC Cymru. Qualitex: Caerdydd, yn olrhain profiad yr ymfudwr o Gymro dros gyfnod hir. Ceir y cefndir cymdeithasol mewn cyfrolau hanes megis Davies, John (2007) *Hanes Cymru*, Penguin Books: London; Jenkins, R.T. (1933) *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd; Roderick, A.J. (1982) *Golwg ar hanes Cymru o gyfnod y Tuduriaid hyd heddiw*, Ivan Corbett: Truro; Morgan, Prys (2001) *The Tempus History of Wales*, Tempus: Gloucs; Evans, Gareth D (1989) *A History of Wales, 1815-1906*, University of Wales Press: Cardiff; Williams, Gwyn A (1980) *Locating a Welsh Working Class: the Frontier Years*, yn (gol) Smith, David, *A People and a Proletariat: Essays in the History of Wales, 1780-1980*, Pluto: London; Morgan, Prys & Thomas, David (1984) *Wales: The Shaping of a Nation*, David & Charles: London; Cragoe, Matthew (2004) *Culture, Politics, and National Identity in Wales 1832-1886*, Oxford University Press.

¹¹ Am ddarlun o wahanol agweddau Cymreictod yn y gymunedau Cymreig yn y cyfnod, gw. Thomas, R.D. (1872) *Hanes Cymry America*, T.J.Griffiths: Utica. Edrychir ar amrywiol ardaloedd yn fanwl, a cheir ffrwyth ymchwil swmpus iawn a chasglu data yma. Am hanes cryno, gw. Jones, David (1913) *A Brief History of the Welsh People*, yn *The Royal Blue Book: Prize Productions of the Pittsburgh International Eisteddfod*, Press of American Printing Co: Pittsburgh.

¹² Jones, W. (1993) *Wales in America: Scranton and the Welsh, 1860-1920*, University of Wales Press: Cardiff; Knowles, Anne Kelly (1997) *Calvinists Incorporated: Welsh Immigrants on Ohio's Industrial Frontier*, University of Chicago Press: London; Hartmann, Edward (1967) *Americans from Wales*, Christopher Publishing House: Boston, yw rhai o'r prif astudiaethau dadansoddol i elfennau hunaniaeth Gymreig yn America.

statws y genedl, gan ddarlunio cenedligrwydd drwy gyflwyno hanes Cymry adnabyddus a wnaeth gyfraniad i dwf a datblygiad America mewn gwahanol ffyrdd.¹³ Tueddwyd hefyd i ganolbwyntio ar ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg er mwyn darlunio'r croestoriad rhwng cynnal Cymreictod ac ymdoddi i'r ffordd Americanaidd o fyw, gan fod diwylliant yr hanner cyntaf yn ymdebygu i raddau helaeth i batrwm y famwlad.

Edrychwyd yn fanwl gan gyfran deg o awduron ar amgylchiadau'r Cymry mewn ardal neu dalaith benodol yn America, gan gynnig sylwebaeth fanwl ar ddulliau o gadw a chynnal eu Cymreictod.¹⁴ Serch hynny, er i'r astudiaethau hyn dreiddio'n ddyfn i brofiadau carfan neilltuol o ymfudwyr Cymreig yn America mewn cyfnod arbennig, agor cil llygad i gwmpas eang hunaniaeth y Cymry ar y cyfandir a wneir mewn gwirionedd, er na ellir cyffredlinoli'n ormodol yn sgil y gwahaniaethau rhwng y cymunedau Cymreig.

Prinnach fyth yw'r dadansoddiad o effaith ymfudo ar genedligrwydd drwy lygaid llenyddiaeth Gymraeg America, yn enwedig y wasg, er gwaethaf y ffaith ei bod yn cynnig ystod eang o wybodaeth gyffredinol am arferion cymdeithasol a diwylliannol yr ymfudwyr

¹³ Jones, Alexander (1855) *The Cymry of '76; or Welshmen and their Descendants of the American Revolution, an Address with an appendix, containing notes, sketches and nomenclature of the Cymbri*, Sheldon: New York. Yma darlunir gyfraniad y Cymry a'u disgynyddion i'r Chwyldro Americanaidd, gan edrych ar feysydd diwinyddiaeth, barddoniaeth, y llywodraeth, y celfyddydau a gwyddoniaeth. Hefyd gw. Edwards, Ebenezer (1899) *Welshmen as Factors*, T.J.Griffiths: Utica – traethawd buddugol Eisteddfod Ffair y Byd Chicago yn 1893. Roedd enwogion Cymreig yn bwnc traethodol poblogaidd i nifer o Eisteddfodau yn America. Rhai enghreifftiau eraill o ddarlunio cyfraniad y Cymry i America yw yw: James, Thomas.L. (1913) *The Welshman's Contribution to the Development of the United States and America*, yn *The Royal Blue Book: Prize Productions of the Pittsburgh International Eisteddfod*, Press of American Printing Co: Pittsburgh. Gw. Williams, David (1975) *Cymru ac America*, Cardiff University of Wales Press am gyfraniad y Cymry i dwf a datblygiad yr Unol Daleithiau a hanes ymfudiaeth o'r dechrau mewn pamffled cryno. Gw. Keen, Michael (1968) *The Welsh in the United States*, yn (gol) Thompson, Frank.G, *Maintaining a National Identity*, Baile AthaCliath: Eire am fraslun cryno o gyfraniad y Cymry.

¹⁴ Roberts, Millard F (1914) *A Narrative History of Remsen, New York, including parts of adjoining townships of Steuben and Trenton, 1789-1898*. Cyhoeddwyd gan yr awdur; Hughes, David, [Arfonydd] (1923) *Welsh People of California, 1849 – 1906*, 14st: San Fransisco – traethawd Eisteddfodol yn darlunio hanes y Cymry yn nhalaith California; Evans, Paul De Mund (1914) *The Welsh in Oneida County, New York*, Thesis MA heb ei gyhoeddi: Prifysgol Cornell; Hughes, Pch. Thomas E. et al (gol) (1895) *Hanes Cymry Minnesota, Foreston a Lime Springs, Iowa; wedi ei gasglu gan amryw o'r hen sefydlwyr*, The Free Press: Mankato, Minnesota; Roberts, Ellis.W. (1986) *Journey through Welsh hills and American Valley*, Wyoming Historical and Genealogical Society: Wilkesbarre; Davies, Pch. David (1947) *Oshkosh, Wisconsin, Welsh settlement Centennial: Translation of 'Hanes y Cymry'*, Russell Stationery Co: Amarillo. Mae'r astudiaethau hyn yn edrych ar amrywiol nodweddion hunaniaeth Gymreig ar ystyr grefyddol, diwylliannol, ieithyddol a llenyddol, trwy gyfrwng portread o un sefydliad neu dalaith benodol.

Cymreig dros gyfnod hir o amser.¹⁵ Ceir ambell bennod yn trafod y wasg Gymraeg yng Nghymru mewn cyfrolau ieithyddol gyda chyfeiriadau at y wasg Americanaidd, ond yng nghyd-destun cynhaliaeth a datblygiad yr iaith yn hytrach nag ystyried y materion sy'n nodweddu cyfnodolion fel *genre* yn eu hawl eu hunain.¹⁶ Am flynyddoedd bu'r pwyslais ar lyfryddiaethau, gan roi cynseiliau yn unig ar gyfer ysgolheictod o natur ddadansoddol.¹⁷ Anaml, felly, y caed astudiaeth o rediad y cyfnodolyn a'i ddefnyddio fel deunydd ymchwil cynradd.

Gresyna Aled Jones yn ei drafodaeth dreiddgar ar wasg Cymru fod cyn lleied o ymchwil i gyfnodolion fel etifeddiaeth lenyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan iddynt weithredu fel ffenestr werthfawr i ddigwyddiadau hanesyddol yr oes.¹⁸ Fodd bynnag, mae Beetham yn ystyried fod papurau yn fwy na chofnodion hanesyddol ac yn rhan o broses gymdeithasol gymhleth, sy'n fwy arwyddocaol wrth ystyried hunaniaeth amlochrog Cymry America. Rhoddir pwyslais cynyddol ar rychwant rhyng-ddisgyblaethol astudiaethau ym

¹⁵ MacDonagh, Oliver (1973) *Emigration in the Victorian Age: Debates on the Issue from Nineteenth Century Critical Journals*, Gregg International Publishers Ltd. Dyma gasgliad o erthyglau yn trafod effeithiau ymfudo ar brofiadau unigolion wedi eu tynnu o gyfnodolion Prydeinig amrywiol, ond arwynebol yw'r dadansoddiad ac ni chrybwyllir Cymru o gwbl wrth iddo ddefnyddio cyfnodolion Seisnig ac Albanaidd. Serch hynny, mae'n darlunio rôl y wasg yn y broses ymfudo, a cheir ymdriniaeth o themâu tebyg i'r profiad Cymreig yn y llythyrau, megis rhyddid oddi wrth ormes y meistri tir a thlodi enbyd. Am dystiolaeth cynradd o hunaniaeth Gymreig drwy lygaid profiad yr ymfudwr mewn llythyrau, gw. Conway, Alan (gol) (1961) *The Welsh in America: Letters from the Immigrants*, University of Wales Press: Cardiff.

¹⁶ Jones, Aled (1999) Yr Iaith Gymraeg a Newyddiaduraeth, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.353-75; Walters, Huw (1999) Y Gymraeg a'r Wasg Gylchgronol, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.327-353.

¹⁷ Am lyfryddiaeth o lyfrau ac erthyglau sy'n trafod Cymry a phynciau Cymreig wedi eu cyhoeddi yn America, gw. Blackwell, Henry (1977) *A Bibliography of Welsh Americana*, Aberystwyth. Am lyfryddiaeth sy'n rhoi sylfaen i astudio'n y maes gw. Walters, Huw (1987) 'Cyfarpar Llenyddol gwasg gyfnodol Gymreig y bedwaredd ganrif ar bymtheg', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 25, t.411-45. Ceir rhai gweithiau sy'n croniclo teitlau a braslun o gyhoeddiadau newyddiadurol a chylchgronol yng Nghymru ac America, gw. Jones, T. M. (1893) *Llenyddiaeth fy ngwlad*, P. M. Evans: Treffynnon; Lewis, Idwal (1942) 'Welsh newspapers and journals in the United States', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 2, Haf, t.124-42; Owen, Bob (1950) 'Welsh American newspapers and periodicals' *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, cyfrol 6, rhif 3, t.373-84.

¹⁸ Am ddadansoddiad manwl o ddatblygiadau newyddiadurol yng Nghymru fel cymhariaeth, gw. Jones, Aled Gruffydd (1988) Y Wasg Gymreig yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, yn (gol) Jenkins, Geraint.H. *Cof Cenedl III*, Gomer: Llandysul, t. 89-117; Jones, Aled Gruffydd (1993) *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales*, University of Wales Press: Cardiff; Jones, Aled (2000) 'The Welsh Newspaper Press,' in (ed) Edwards, Hywel Teifi, *A Guide to Welsh Literature, 1800-1900, volume 5*, University of Wales Press: Cardiff.

maes y wasg gyfnodol,¹⁹ elfen sy'n ddelfrydol i astudio hunaniaeth oherwydd ei natur amlgwmpasog hunaniaeth:

Nineteenth century magazines and newspapers are prime sources on economic, political and literary matters. However, a periodical is not a window on to the past or even a mirror of it. Each article, each periodical number, was and is part of a complex process in which writers, editors, publishers and readers engaged in trying to understand themselves and their society; that is, they struggled to make their world meaningful.²⁰

Ystyrir fod y wasg gyfnodol, felly, yn llawn o destunau llenyddol cyfoethog a all fod yn fodd i asesu hanfodion cenedligrwydd, a'r dull yr oedd y cyfrwng yn dehongli ystyron ar ran y genedl. Fel ffynonellau sy'n cyffwrdd â chonglfeini hunaniaeth y gymdeithas yn ei amrywiol agweddau, cynigir mwy na chofnodion moel at ddibenion yr hanesydd yn unig. Un o'r prif gwestiynau, felly, yw i ba raddau yr oedd y wasg fel cyfrwng yn bodloni anghenion cyfranwyr a darllenwyr fel testunau llenyddol, ac yn ymateb i gyd-destun y gymdeithas ehangach ar yr un pryd?

Honna Pykett yn ogystal fod y wasg yn fwy na 'ffenstr' i'r cyfnod, ond yn hytrach yn rhan weithredol o'r strwythur cymdeithasol ac yn greadigaeth ddiwylliannol a oedd yn fan cyfarfod i fyrdd o feysydd ideolegol:

Far from being a mirror of Victorian culture, the periodicals have come to be seen as a central component of that culture – an 'active and integral part,' and they can only be read and understood as part of that culture and society, and in the context of other knowledges about them.....The periodical press is now defined not as a mirror reflecting Victorian culture, nor as a means of *expressing* Victorian culture, but as an inescapable ideological and subliminal environment, a (or perhaps *the*) constitutive medium of a Victorian culture which is now seen as interactive.²¹

Mae damcaniaethwyr yn y maes erbyn hyn yn ffafrio'r model ffurfiannol ('*constructive model*') dros y model adlewyrchiadol ('*reflective model*') er mwyn cydnabod grym deinamig y cyfrwng print. Er ei fod yn adlewyrchu diwylliant a hunaniaeth, mae'r syniadaeth hon yn ei

¹⁹ Pykett, Lyn (1990) 'Reading the Periodical Press: Text and Context,' yn (ed) Brake, Laurel & Jones, Aled & Madden, Lionel, *Investigating Victorian Journalism*, Macmillan: Hampshire.

²⁰ Beetham, Margaret (1990) 'Towards a theory of the periodical as a publishing genre,' yn (ed) Brake, Laurel & Jones, Aled & Madden, Lionel, *Investigating Victorian Journalism*, Macmillan: Hampshire, t.20.

²¹ Pykett, Lyn, 'Reading the Periodical Press,' t.7.

ystyried fel rhan weithredol o'r gymdeithas yn y modd y mae'n atgynhyrchu diffiniadau o hunaniaeth sy'n gofnod byw o feddylfryd a sefyllfa gymdeithasol yr oes.²² Tueddir i gefnu ar astudiaethau meintiol, gan ffafrio safbwynt mwy dadansoddol i asesu neges a symbolaeth y wasg, sy'n deillio o'i disgwrs a'i chymhlethdod mewnol. Gan weddu i natur amlhaenog hunaniaeth, cyfunir technegau o feysydd mor wahanol ag ieithyddiaeth a semioleg i asesu effeithiau'r wasg, sy'n berthnasol i ni yma wrth edrych ar nodweddion amrywiol cenedligrwydd.²³ Fel y pwysleisia Maidment, roedd y cyfnodolion nid yn unig yn cyflwyno neu'n atgyfnerthu ideoleg oes Fictoria, ond yn hanfodol o ran ei chreu.

O ystyried grym pellgyrhaeddol fel system gyfathrebu a oedd yn clymu cymunedau gwasgaredig Cymry America ynghyd, mae'r wasg yn gyfrwng delfrydol i asesu hunaniaeth am ei bod yn cyffwrdd â safbwyntiau crefyddol, gwleidyddol, ieithyddol a llenyddol yr ymfudwyr Cymreig. Serch hynny, parha'r wasg gyfnodol Gymraeg yn America yn ffynhonnell gudd o gyfoeth llenyddol, ac wrth godi cwr y llen ar y deunydd cynradd archifol, ceir llwyfan bywiog yn arddangos Cymreictod yn ei amrywiol wisgoedd. Eisoes, cyhoeddwyd astudiaeth gronolegol dreiddgar o newyddiadur wythnosol cyffredinol y *Drych*,²⁴ a chyfeirir at nifer o bapurau Cymry America gan Jerry Hunter yn ei ymchwil, ond cyfyngir ffocws yr astudiaethau i gyfnod neu unigolion penodol, gan ddefnyddio'r wasg fel rhan o gwmpas enfawr o ffynonellau.²⁵

²² Ibid, t.6.

²³ Ibid.

²⁴ Jones, Aled & Jones, Bill (2001) *Welsh Reflections: Y Drych & America, 1851-2001*, Gomer: Llandysul.

²⁵ Hunter, Jerry (2003) *Llwch Cenedloedd: Y Cymry a Rhyfel Cartref America*, Gwasg Carreg Gwalch: Llanrwst; Hunter, Jerry (2007) *Sons of Arthur, Children of Lincoln: Welsh Writing from the American Civil War*, University of Wales Press: Cardiff. Mae'r astudiaethau hyn yn canolbwyntio ar y cyfnod hwn yn hanes America, ond yn edrych ar wahanol agweddau hunaniaeth Gymreig, yn enwedig o safbwynt gwleidyddol a llenyddol. Hefyd gw. Hunter, Jerry (2007) *I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn erbyn Caethwasanaeth Americanaidd*. Gwasg Carreg Gwalch: Llanrwst, sy'n astudio'r cylechgrawn *Y Cenhadwr Americanaidd* yn bennaf yn ogystal â chyflwyno bywgraffiad o'i olygydd. Ceir cyd-destun y wasg Gymraeg yn America yn yr astudiaethau hyn.

O'r herwydd, mae angen dybryd am astudiaeth sy'n rhoi blaenoriaeth i ddatgloi naratifau cenedlaethol y wasg, er mwyn ymgynraedd at well dealltwriaeth o feddylfryd y genedl ar dir estron yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn enwedig yn anterth y diwylliant print Cymraeg yn America rhwng 1838 a 1866. Mae'r cyfnod toreithiog hwn yn ei hanes yn rhychwantu golygyddiaeth sylfaenydd y *Cyfaill o'r Hen Wlad*, un o'r papurau hwyaf ei gyfraniad a ystyrir yn rheng flaen gwasg gyfnodol Cymry America, ond cyhoeddiad sydd wedi ei anwybyddu'n ddirfawr gan ysgolheigion. Canolbwyntir yn bennaf ar y cyfnodolyn hwn, a rydd ddarlun cwmpasog o gonglfeini Cymreictod y cyfnod ymhell o'r famwlad, gan asesu ei gyfraniad i ffurfio hunaniaeth y genedl drwy ymdriniaeth thematig â'r elfennau hyn, a'i osod yng nghyd-destun oes aur gwasg Gymraeg America.

Edrychir mewn modd dadansoddol ar y *Cyfaill* o fewn y cyfnod penodedig hwn fel rhan arwyddocaol o bennod bwysig yn hanes llenyddiaeth Gymraeg America, gan giledrych yn achlysurol at ddatblygiad newyddiadurol Cymru. Er bod y disgwrs a gyflwynir mewn cyfnodolion yn gymhleth yn sgil eu hymgais i siapio gwerthoedd y gymdeithas, mae darllen y testun yn 'agos' yn allweddol fel methodoleg i ddadansoddi portreadau ac ystyron sy'n deillio o'r wasg, a'u hoblygiadau diwylliannol ehangach i natur cenedligrwydd.

Wrth ddefnyddio'r *Cyfaill* fel ffon fesur i asesu hunaniaeth Cymry America, mae nifer o gwestiynau yn procio'r meddwl ac yn mynnu atebion. I ba raddau yr oedd y wasg yn rhoi mynegiant i grefydd, iaith a diwylliant llenyddol fel nodweddion amlwg o genedligrwydd yr ymfudwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg? Ym mha fodd y cyfrannodd y wasg i ddiwylliant gwleidyddol Cymry America mewn gwladwriaeth ddieithr? I ba raddau yr oedd hi'n bosibl cadw cysylltiad â'r hen wlad a mabwysiadu arferion newydd yr Unol Daleithiau? Sut yr oedd congllfeini arwahanrwydd eu cenedl yn ffynnu yng nghanol cenhedloedd eraill yn America? I ba raddau yr oedd gwasg Gymraeg America yn gorgyffwrdd â llenyddiaeth yr

Unol Daleithiau, ac â diwylliant print Cymru yn y cyfnod? A oedd cynnwys y cyfrwng cyfathrebu hwn yn adlewyrchu amodau cymdeithasol sefydliadau Cymreig America, a'r golygydd yn bodloni disgwyliadau ei ddarllenwyr yn hyn o beth? Beth oedd y berthynas rhwng y golygydd, y gohebwr, a'r darllenwyr a'r testun? Sut y bu'r wasg yn gyfrwng i uno aelodau'r genedl, gan ddiffinio a chynnal hunaniaeth cymunedau Cymreig-Americanaid yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

(i) Hunaniaeth cenedl.

Gorchwyl astrus a phroblematig yw cynnig diffiniad pendant o natur hunaniaeth a chenedligrwydd.²⁶ Er bod cenedligrwydd yn ffenomenon hollgyffredinol sydd wedi ennyn toreth o astudiaethau sy'n mynd i'r afael â chwestiynau dyrys, mae'n parhau i gael ei herio gan ymchwilwyr o wahanol ddisgyblaethau fel cysyniad amwys:

National character is not an explanation, it is something to be explained. In establishing the variation of national character, science has not solved the problem of the nation, but simply posed it. How that relative community of character arises, how it happens that all members of a nation, for all their individual differences, still coincide in a series of features, and for all their physical and mental identity with other people still differ from the members of other nations – this is precisely what science has to grasp.²⁷

Yn gryno, honna Smith, ysgolhaig adnabyddus yn y maes, mai ystyr hunaniaeth cenedl yw cydnabod amrywiaeth o nodweddion hollgyffredinol ym mhrofiad y trigolion, er gwaethaf gwahaniaethau unigol. Un esboniad a ddaw'n agos at gwmpasu'r elfennau angenrheidiol i ddynodi cenedl yn yr ystyr fodern yw eiddo Baycroft, sy'n ategu mai trwy rannu nodweddion pendant mae cynnal hunaniaeth:

²⁶ Kohn, Hans (1955) *Nationalism: its meaning and history*, D. Van Nostrand: London. t.9. Mae nifer o ymchwilwyr wedi cyfeirio at y diffyg damcaniaeth sefydlog yn y maes. Am fraslun o amrywiol gyfraniadau sy'n ceisio egluro cenedligrwydd, gw. Smith, Anthony (1998) *Nationalism and Modernism: A critical survey of recent theories of nations and nationalism*, Routledge: London.

²⁷ Bauer, O (1996) 'The Nation,' in (ed) Balakrishnan, G, *Mapping the Nation*, Verso: London, t.41. Am gyfarpar defnyddiol i'r gwahanol ddamcaniaethau gw. Leoussi, Athena.S. (2001) *Encyclopedia of Nationalism*, Transaction: London.

Nations have several features that distinguish them from other forms of social organisation. A nation is a group of people identified as sharing any number of real or perceived characteristics – such as common ancestry, language, religion, culture, historical traditions and shared territory – the members of which can identify themselves and the others as belonging to the group, and who have the will or desire to remain as a group....²⁸

Mae'r dyfyniad yn ddefnyddiol fel sylfaen i'r drafodaeth oherwydd y modd y mae'n rhestru'r cyfuniad o ffactorau posibl sy'n berthnasol i'r genedl, ond yr hyn sy'n fwy arwyddocaol yw'r cyfeiriad at yr ewyllys sy'n angenrheidiol i gyflawni'r broses, ynghyd â chyd-destun real neu ddychmygol y nodweddion hyn.

Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau arbennig pob cenedl a myrdd nodweddion cenedligrwydd, ni ellir cyffredinoli er mwyn ymgynraedd at un ystyr ddilys. Er gwaethaf ymlyniad Cymru at Brydain yn nhermau gwladwriaethol, ni pheidiodd â bod yn genedl mewn ystyron eraill megis iaith a diwylliant ar wahân.²⁹ O ystyried hynodrwydd y genedl yn ei nodweddion arbennig, prin yw'r cyfeiriadau at Gymru a diwylliannau lleiafrifol yn gyffredinol yn namcaniaethau mwyaf blaengar y maes.³⁰

Yn yr un modd, digon tila yw corff y drafodaeth ar effeithiau ymfudo ar hunaniaeth cenedl yn gyffredinol, wrth i'r ffocws ganolbwyntio'n bennaf ar faterion hil a helyntion lleiafrifoedd.³¹ Ceir nifer o astudiaethau'n trafod cenedl neilltuol, ond ychydig sy'n mynd i'r afael â'r cymhlethdod pellach ynghlwm â deuoliaeth hunaniaeth o ganlyniad i ymfudo, er bod

²⁸ Baycroft, Timothy (1998) *Nationalism in Europe, 1789-1945*, Cambridge University Press, t.3. Cyfeirir at y 'group sentiment' yng nghyd-destun y Cymry gan Jones, R Tudur (1974) *The Desire of Nations*, Christopher Davies: Llandybie.

²⁹ Williams, Gwyn A ((1982) *The Welsh in their History*, Croom Helm: London. Ceir ystyriaeth o hunaniaeth Gymreig yn y cyd-destun Prydeinig yma, ynghyd â braslun o amodau cymdeithasol y 19eg ganrif.

³⁰ Am ddau astudiaeth adnabyddus sy'n cyfeirio at Gymru, gw. Hechter, Michael (1975) *Internal Colonialism: The Celtic Fringe in British National Development, 1536 – 1966*, Routledge: London; Hobsbawm, E.J. (1990) *Nations and nationalism since 1780: Programme, myth, reality*, Cambridge University Press.

³¹ Un astudiaeth sy'n ceisio mynd i'r afael â chymhlethdod damcaniaethol ymfudo mewn perthynas i dechnegau ymchwil, yw Jackson, J.A. (1969) Migration – editorial introduction, yn (gol) Jackson, J.A., *Migration*, Cambridge University Press. Mynega fod prinder astudiaethau cymdeithasegol i ymfudo a'i ganlyniadau i'r gymdeithas. Yn ogystal, mae pwyslais astudiaethau ymfudo ar y broses o gymhathu, ac ychydig o waith sy'n edrych ar ymlyniad at iaith a chynnal diwylliant.

nifer yn tystio i natur ddarniog a chymysgryw diffinio cenedl. Prinnach fyth yw'r ymchwil sy'n ceisio gosod y profiad Cymreig yng nghyd-destun ehangach syniadaeth genedlaethol.³²

Wrth reswm, cynhyrchodd cenedlaetholdeb destunau yn rhamantu a dyrchafu hynodion tybiedig Cymreictod, a gwelir cysondeb yn y cyhoeddiadau hyn o ran y nodweddion a ystyrir yn ganolog i hunaniaeth Gymreig, gan roi sylw dyledus i grefydd, iaith a diwylliant.³³

Rhaid cadw mewn cof fod gan Gymru ei nodweddion cenedlaethol unigryw yn y cyfnod nad ydynt yn cydymffurfio'n daclus â chysyniadau cyffredinol, ac felly mae'n rhaid cysoni'r profiad Cymreig yn erbyn cefnlen y damcaniaethau hyn. Rhaid gosod y casgliadau am hunaniaeth Gymreig wedyn o fewn ystyriaeth bellach y profiad o ymfudo, a hwylusir gan astudiaethau sy'n edrych ar y wedd drawsatlantig i brofiad ymfudwyr. I'r perwyl hwn, gosodir yr astudiaeth ar sail damcaniaeth Gjerde o osod y profiad o ymfudo yn ei gyd-destun hanesyddol, gan asesu nodweddion ideolegol y genedl mewn perthynas ag amodau America yn y cyfnod.³⁴

³² Thompson, Andrew & Day, Graham (1999) *Situating Welshness: Local Experience and national identity*, yn (gol) Fevre, Ralph & Thompson, Andrew, *Nation, Identity and Social Theory: perspectives from Wales*, University of Wales Press: Cardiff. Mae'r gyfrol yn cynnwys cyfraniadau sy'n ymdrin â'r damcaniaethwyr y cyfeirir atynt yn yr astudiaeth hon, megis Anderson, Billig a Bhabha, sy'n awgrymu bod y damcaniaethau hyn yn berthnasol i drafod hunaniaeth Gymreig. Hefyd gw. Jones, Richard Wyn (2007) *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru, cyfrol 1*, Gwasg Prifysgol Caerdydd. Mae pennod gyntaf y gyfrol hon yn enghraifft wych o'r ymgais i berthnasu damcaniaethau cyffredinol gyda sefyllfa arbennig Cymru, er mai prif nod yr astudiaeth yw dadansoddi hanes syniadaeth wleidyddol y genedl. Gw. hefyd Black, Jeremy (2000) *New History of Wales*, Sutton: Gloucs. Mae'n darlunio cynifer o agweddau i hunaniaeth Gymreig fel ei fod yn amhosib treiddio'n ddyfn i'w harwyddcoad o fewn sgôp cyfrol, ond yn cyffwrdd â chonglfeini Cymreictod. Mae astudiaethau dyfnach yn dadansoddi un agwedd yn y berthynas, megis iaith a chrefydd. Am fraslun o sut y ffurfiodd hunaniaeth Gymreig ar drothwy'r 19eg ganrif, gw. Mayo, Patricia Elton (1974) *The Roots of Identity: Three National Movements in Contemporary European Politics*, Allen Lane: London; Carter, Harold (2010) *Against the Odds: The Survival of Welsh Identity*, Institute of Welsh Affairs. Am ddarlun modern o hunaniaeth Gymreig mewn cymhariaeth, gw. Williams, Emyr.W. (1989) *The Dynamic of Welsh Identity*, yn gol Evans, Neil, *National Identity in the British Isles*, Coleg Harlech Occasional Papers in Welsh Studies.

³³ Evans, Gwynfor (1968) *Celtic Nationhood: Fundamental Individuality*, yn (gol) Thompson, Frank.G, *Maintaining a National Identity*, Baile AthaCliath: Eire; Buchanan, Keith & Armstrong, Warwick (1968) *The Roots of Scottish and Welsh Nationalism*, yn (gol) Thompson, Frank.G, *Maintaining a National Identity*, Baile AthaCliath: Eire. Maent yn destunau cenedlaetholgar nad ydynt yn trafod hunaniaeth Gymreig yn wrthrychol.

³⁴ Gjerde, Jon (1998) *Major Problems in American Immigration and Ethnic History*, Houghton Mifflin: New York. Honna mai'r prif ystyriaeth wrth asesu'r profiad o ymfudo yw'r cefndir hanesyddol neilltuol, er mwyn deall yr amrywiaeth sy'n nodweddu grwpiau ymfudo. Hefyd gw. Kedourie, Elie (1960) *Nationalism*. Blackwell: Oxford. Mae hefyd yn tanlinellu'r angen i ystyried nodweddion ideolegol cenedl yn eu cyfnod hanesyddol priodol.

(ii) Damcaniaethau.

Dadleuodd y rhesymolwyr cynharaf fod ymdeimlad o genedligrwydd yn cael ei amgyffred fel cynnyrch absoliwt y meddwl, greddf naturiol yr unigolyn a orfodwyd arno ers ei enedigaeth. Hawliodd y safbwynt primordaid hwn fod y genedl yn gymundeb organig a oedd yn oesol ac yn barhaol, gan bwysleisio nodweddion ethnig, hynafiaeth, ach, etifeddiaeth a thraddodiad.³⁵

Fel y datblygodd y maes, gwadwyd dilysrwydd y dehongliad o'r genedl fel hanfod hollgwmpasog, gan ffafrio'r syniadaeth fodernaidd fod cenedligrwydd yn gyfnewidiol ei natur oherwydd fod amodau cymdeithasol yn newid yn barhaus.³⁶ Yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif, bathwyd y term 'ymwybyddiaeth golectif' ('*conscience collective*') gan Durkheim,³⁷ sy'n awgrymu'r wedd gymdeithasol ar genedligrwydd a oedd yn dod ag unigolion ynghyd. O ganlyniad, daethpwyd i gydsynio fod cenedligrwydd yn broses o greu sy'n esblygu ac yn ymfurfio dros gyfnod o amser, cynnyrch ffordd o fyw a strwythur cymdeithasol sy'n amrywio rhwng cenedloedd.³⁸ Mae hyn yn arwyddocaol o ystyried angen ymfudwyr i greu haenau cymdeithasol newydd a fyddai'n gweddu i'w hamgylchiadau dieithr:

....however adequate the preparation it will never be complete; the new environment will necessitate the making of choices, the definition of new situations and roles. Even where the migration of whole families or even villages has occurred, the new 'world' has brought changes in the demands made upon them, changes which have in turn reflected in the altered social relationships between members of the group.³⁹

Mae'r cysyniad modernaidd a ddatblygwyd gan Gellner o'r genedl fel 'creadigaeth' gymdeithasol sy'n cael ei ffurfio'n fwriadol, felly, yn mynd â ni gam ymhellach i ddeall y

³⁵ Smith, Anthony (1998) *Nationalism and Modernism: A critical survey of recent theories of nations and nationalism*, Routledge: London.

³⁶ Priodolir tarddiad yr ymwybyddiaeth o genedligrwydd i gyfnodau hanesyddol gwahanol, ond mae'r lliaws o ysgolheigion yn gytun ei fod ynghlwm â'r broses o foderneiddio, ac yn elfen hanfodol i'r byd modern. Cred nifer ei fod yn greadigaeth gan genedlaetholwyr yn dyddio o ddechrau'r 19eg ganrif. Gw. Baycroft, Timothy, *Nationalism in Europe, 1789-1945*; Llobera, Joseph (2004) *Foundations of National Identity: From Catalonia to Europe*, Berghann: Oxford, t.5.

³⁷ Mae'r term yn dynodi fod gwerthoedd cyffredin yn sylfaenol i'r strwythur cymdeithasol, a'r diwylliant sy'n deillio o'r patrwm cymdeithasol yn uno unigolion.

³⁸ Gellner, Ernest (1997) *Nationalism*, Weidenfield & Nicholson: London.

³⁹ Jackson, J.A. (1969) Migration – editorial introduction, yn (gol) Jackson, J.A., *Migration*, Cambridge University Press, t.2.

modd yr aeth Cymry America ati i 'greu' hunaniaeth o'r newydd, ac yn gwrthgyferbynnu â'r syniad o genedl fel undod statig.⁴⁰

Credai Gellner, ymhlith eraill, yn yr egwyddor wirfoddol o ran perthyn i genedl a ddeilliai o'r awydd i'w 'chreu,' gan bwysleisio ewyllys a dyhead fel sylfeini cenedligrwydd.⁴¹ Credai mai'r broses o uniaethu â'r gyd-genedl sy'n dyfnhau symbolaeth hanfodion allanol cenedl a'r tir cyffredin rhwng aelodau, ac mai'r 'ymwybyddiaeth dorfol' hon a ganiatâi fynediad yr unigolyn i'r gymdeithas, a ddiffinir mewn termau anthropolegol fel '*self-ascription*' a '*group-ascription*.'⁴² Yn wir, mae'r gair 'cydgenedl' a ddefnyddid mor gyson gan awduron Cymraeg America yn fynegiant o'r gydnabyddiaeth hon o undod y genedl a ddatblygwyd yn ddiweddarach gan Gellner.

Meddai cyfran o'r ymfudwyr yr ewyllys gwladgarol i fod yn weithredol yng nghynhaliadaeth eu Cymreictod yn eu gwlad fabwysiedig drwy sefydlu eu rhwydweithiau cymdeithasol eu hunain, yr hyn y cyfeiria Baycroft ato fel '*active preservation*' yn rheidrwydd i gynnal hunaniaeth.⁴³ O'r herwydd, gellir awgrymu mai ysbryd y frawdoliaeth a'r dewis i gyd-fyw sy'n dyrchafu grŵp o bobl yn genedl, ac yn y sicrwydd o berthyn daw'n gymuned ystyrion.⁴⁴

⁴⁰ Bauer, O (1996) 'The Nation,' in (ed) Balakrishnan, G, *Mapping the Nation*, Verso: London, t.56. Hefyd gw. Gellner, Ernest (1983) *Nations and Nationalism*, Basil Blackwell: Oxford. Ychwanega fod natur y gymdeithas ddiwydiannol fodern yn fwy cyfnewidiol (*fluid*), yn wahanol i strwythur penodedig y gymdeithas wledig. O'r herwydd, nid oedd yn 'mynnu' cymaint o deyrngarwch yr aelodau i'w cenedl fel y cyfryw gan nad oedd nifer o sefydliadau i glymu'r unigolyn i'r gymdeithas, sydd i gyfrif am yr angen i 'greu' synnwyr o hunaniaeth o'r newydd. Hefyd gw. Fevre, Ralph & Thompson, Andrew (1999) *Nation, Identity and Social Theory: perspectives from Wales*, University of Wales Press: Cardiff. Mae cyfranwyr i'r gyfrol olygedig yn trafod patrwm cymdeithasol Cymru oll yn gytun fod angen creu hunaniaeth, sy'n awgrymu perthnasedd y ddamcaniaeth i sefyllfa'r genedl.

⁴¹ Kohn, Hans (1955) *Nationalism: its meaning and history*, D. Van Nostrand: London. Mae hefyd yn tanlinellu ewyllys fel modd i uno'r gymdeithas.

⁴² Barth, Fredrik (2000) *Ethnic Groups and Boundaries: The Social Organization of Culture Difference*, Little, Brown & co: Boston. Mae'r termau yn pontio cred yr unigolyn ei fod yn rhan o'r genedl â chydabyddiaeth y grŵp o'i aelodaeth yn y rhwydwaith cymdeithasol. Mae Barth yn ategu pwyslais Gellner ar rannu nodweddion diwylliannol, ac yn credu fod mynegiant o'r diwylliant hwnnw drwy gyfrwng rhwydweithiau cymdeithasu a chyfathrebu yn arwydd o arwahanrwydd y grŵp ethnig.

⁴³ Baycroft, Timothy, *Nationalism in Europe, 1789-1945*.

⁴⁴ Williams, Gwyn A (1980) *Locating a Welsh Working Class: the Frontier Years*, yn (gol) Smith, David, *A People and a Proletariat: Essays in the History of Wales, 1780-1980*, Pluto: London. Honna fod ymdeimlad cryf o frawdoliaeth barhaol wedi ei chreu yng Nghymru yn ystod yr 1820au, ac erbyn 1830 gan y Cymry hunan-

Datblygodd Gellner ddamcaniaeth hynod ddylanwadol a bwysleisiai ddiwylliant unigryw fel ‘cwlwm cymdeithasol sylfaenol’ i barhad y genedl, gan haeru fod seiliau’r gymdeithas fodern ddiwydiannol wedi ei hadeiladu ar hynodion ieithyddol a diwylliannol a roddai undod iddi.⁴⁵ Mae’r pwyslais modernaidd ar gymdeithas yn rhannu iaith a diwylliant ar wahân yn arwyddocaol wrth ystyried y byddai Cymry America wedi bod yn rhan o’r un gymuned yn rhannu diwylliant unigryw yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn ceisio ‘creu’ hunaniaeth annibynnol yn yr union gyfnod y blodeuai’r syniadaeth genedlaethol yn Ewrop. Roedd rhannu profiadau cyffelyb yn uno unigolion er mwyn adeiladu cymdeithas Gymreig a oedd yn frwdfrydig dros ffyniant eu cenedligrwydd, drwy sefydliadau a goleddai werthoedd crefyddol, ieithyddol a diwylliannol arbennig.⁴⁶

Mae nifer o astudiaethau modernaidd yn adeiladu eu syniadaeth ar sylfeini diriaethol, gan bwysleisio hanfodion dinasyddiaeth, deddfwriaeth a thiriogaeth i ddilysrwydd y genedl.⁴⁷ Fodd bynnag, mae canolbwyntio ar y rheidrwydd o gael annibyniaeth gyfansoddiadol yn diystyru elfennau ideolegol sydd ynghlwm â chreu diwylliant, ac sy’n ganolog i gynifer o ddamcaniaethau anthropolegol a chymdeithasegol.⁴⁸ Yn achos Cymry America, gallai

ymwybyddiaeth o’u cenedligrwydd. Crewyd y frawdoliaeth hon yn yr union gyfnod cyn y twf ymfudo enfawr o Gymru i America, a oedd felly’n sail i’r ewyllys hwn a oedd ei angen i Gymreictod oroesi mewn gwlad dramor.
⁴⁵ Gellner, Ernest, *Nations and Nationalism*, t.7. Wrth i’r gymdeithas foderneiddio gyda dyfodiad diwydiant, trawsnewidwyd patrymau daeryddol a chymdeithasol, ac o’r herwydd, roedd angen diwylliant cyffredin i hwyluso cyfathrebu.

⁴⁶ Baycroft, Timothy, *Nationalism in Europe, 1789-1945*, t.3.

⁴⁷ Miller, David (2000) *Citizenship and National Identity*, Polity Press: Cambridge; Seton-Watson, Hugh (1977) *Nations and States: An Enquiry into the Origins of Nations and the Politics of Nationalism*, Methuen: London. Am ddadansoddiad manwl o’r ymchwil i’r berthynas rhwng cenedl a gwladwriaeth, gw. Smith, Anthony *Nationalism and Modernism*, pennod.4. Yn y gorllewin, tyfodd y cysylltiad rhwng y genedl a’r wladwriaeth ers dechreuadau cenedlaetholdeb yn dilyn y chwyldroadau Ffrengig ac Americanaidd. Mae nifer o’r damcaniaethwyr hyn yn cydnabod rôl diwylliant yn y broses o ffurfio cenedligrwydd, ond yn dyrchafu’r elfen wleidyddol yn uwch na’r ystyriaethau cymdeithasol a diwylliannol O’r herwydd, daeth y wladwriaeth yn gyfystyr â hunaniaeth y genedl. Mae eraill yn gosod diwylliant a gwleidyddiaeth yn elfennau cyfochrog o fewn cymeriad cenedlaethol, gan awgrymu na allant weithredu heb ei gilydd. Hefyd gw. Gellner, Ernest (1983) *Nations and Nationalism*, Basil Blackwell: Oxford. Er iddo roi pwyslais mawr ar arwyddocâd diwylliant i hunaniaeth cenedl, credai mai egwyddor wleidyddol oedd cenedlaetholdeb yn ei hanfod, ac y dylai’r genedl fod yn gyfystyr â gwladwriaeth. Eto i gyd, mae’n cyfeirio at Brydain fel enghraifft o wladwriaeth sy’n cynnwys clwstwr o genhedloedd sy’n ffynnu ar wahân yn sgil diwylliant unigryw. Mae Miller, David (1995) *On Nationality*, Clarendon Press: Oxford, hefyd yn cyfuno’r elfen gymdeithasol gyda gwleidyddiaeth a thiriogaeth.

⁴⁸ Gellner, Ernest, *Nationalism*. Ystyriwyd y genedl fel ‘*cultural artefact*’ mor gynnar â’r ddeunawfed ganrif. Yn wir, mae’r mwyafrif o’r arloeswyr ym maes cenedlaetholdeb yn credu i raddau yn y greadigaeth o genedl o

hegemoni'r genedl rymusach fod wedi dinistrio cwlwm cenedlaethol y genedl leiafrifol oherwydd ei diffyg gwleidyddol, oni bai am yr agweddau haniaethol a oedd yn cynnig achubiaeth rhag trobwll ymdoddi.

Mae damcaniaeth Smith sy'n archwilio perthnasedd y wedd 'ethnig' ar ddiwylliant brodorol yn fwy nodweddiadol o genedl y Cymry na'r cysyniad sifig sy'n dyrchafu elfennau diriaethol, er ei fod yn tueddu i dynnu ar y persbectif primordaid a wrthodwyd gan y modernwyr. Honnir y gall clymau cymuned ethnig oroesi ffiniau daeryddol:

Whether you stayed in your community or emigrated to another, you remained ineluctably, organically, a member of the community of your birth and were forever stamped by it. A nation, in other words, was first and foremost a community of common descent.⁴⁹

Dyma greu cylch cyflawn, a Smith yn coleddu'r union agweddau y mae damcaniaethwyr modernaid yn ymbellhau oddi wrthynt drwy ystyried effaith ymfudo ar genedligrwydd.⁵⁰

Fodd bynnag, yr hyn sydd o bwys yma yw ei haerriad fod cof cenedl am ei gwreiddiau yn fyw o hyd wedi'r ymfudo:

...for a mother community remains for some reason alive, there undoubtedly exists a very specific and often extremely powerful sense of ethnic identity, which is determined by several factors...⁵¹

Yn wir, onid yw'r agwedd brimordaid yn agos iawn at hanfod ymlyniad y Cymry at eu mamwlad ar dir estron, a oedd yn achubiaeth ynghanol llif anwadal moderniaeth?⁵²

safbwynt cymdeithasol neu ddiwylliannol. Diffinir diwylliant yn ei ystyr ehangach, yn nhermau crefydd, iaith, traddodiadau a gwerthoedd.

⁴⁹ Smith, Anthony (1991) *National Identity*, Penguin: London, t.9.

⁵⁰ Smith, Anthony (1999) *Myths and Memories of the Nation*, Oxford University Press.

Creda fod cenedl angen rhyw fath o sicrwydd gwleidyddol, ond mae ei astudiaethau'n gwyro fwy tuag at perthynas hunaniaeth ethnig gyda symbolau a mythau sy'n cynhyrchu rhwydweithiau cymdeithasol a diwylliannol.

⁵¹ Guibernau, Montserrat (1997) Introduction, yn (gol) Guibernau, Montserrat & Rex, John, *Ethnicity Reader: nationalism, multiculturalism and migration*, Blackwell: Cambridge, t.20.

⁵² Williams, Daniel (2003) 'Cymry Ewyrth Sam: Creu hunaniaeth Gymreig yn yr Unol Daleithiau c.1860-1900, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Cof Cenedl XVIII*, Gomer: Ceredigion. Mae'n defnyddio syniadaeth Gwyn A. Williams fel sylfaen i'w astudiaeth am hunaniaeth Cymry America, sy'n gyfuniad o elfennau primordaid a modern, a ddengys fod gorgyffwrdd rhwng y ddau draddodiad yn anochel yn achos y Cymry.

Cyfeiria Nairn at y duw Rhufeinig dauwynebog Janus,⁵³ a ddefnyddir fel trosiad i awgrymu'r modd yr edrychir i'r gorffennol am gyfoeth i sicrhau parhad a dilyniant y genedl ac hefyd i gyfeiriad y dyfodol wrth ail-ddiffinio ei hunaniaeth.

Mae'n disgrifio'r union drefn a ddilynai Cymry America wrth edrych tua'r famwlad am ysbrydoliaeth i greu hunaniaeth a fodlonai anghenion y gymdeithas newydd, a oedd wedi ei gwreiddio ym mhatrwm sylfaenol y famwlad. Hynny yw, defnyddiwyd gwerthoedd hynafol y gorffennol wedi eu haddasu i ofynion y presennol i greu diwylliant ystyrion a fyddai'n adlewyrchu eu hunaniaeth newydd.⁵⁴

Mae Conzen (et al), fel Sollors, yn ymwrthod â'r safbwynt primordaidd, ac mae ei syniadaeth yn trafod sefyllfa America yn uniongyrchol. Creda fod hyd yn oed hunaniaeth ethnig yn greadigaeth yn y modd y mae'n ei addasu ei hun yn barhaus ar lefel ddiwylliannol (*ethnoculture*). Yn wahanol i nifer o ysgolheigion sy'n canolbwyntio ar un achos, mae'n ystyried yr ymgyrch ymwybodol i gwmpasu dwy wedd i genedligrwydd yn America'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (*foreignness* ac *Americanness*), a'r defnydd o dynnu gwahanol elfennau o ddiwylliant ynghyd i gymodi'r ddeuoliaeth hon.⁵⁵ Er bod yr hunaniaeth yn cadw, neu hyd yn oed yn chwyddo arwyddocâd y clymau diwylliannol a hanesyddol gwreiddiol, mae hefyd yn adlewyrchu realiti'r patrwm cymdeithasol newydd.

Honna Glanmor Williams nad oedd y Cymry wedi mynd i America'n neilltuol i sicrhau parhad eu hunaniaeth, gan mai goroesi'n faterol oedd eu blaenoriaeth.⁵⁶ Maentumia

⁵³ Fel duw dauwynebog, dywedir ei fod yn sefyll uwchben y gatiâu – un wyneb tuag yn ôl a'r llall yn edrych ymlaen.

⁵⁴ Bodnar, John (1987) *Transplanted: A History of Immigrants in Urban America*, Indiana University Press, t.208.

⁵⁵ Conzen et al (1989) yn (gol) Sollors, Werner, *The Invention of Ethnicity*, Oxford University Press; Sollors, Werner (1986) *Beyond Ethnicity: Consent and Descent in American Culture*, Oxford University Press.

⁵⁶ Williams, Glanmor (1976) *Y Baradwys Bell: Cymru a'r Unol Daleithiau 1776-1914*, Darlith Radio Flynnyddol BBC Cymru. Qualitex: Caerdydd. Hefyd gw. Hansen, Marcus Lee (1951) *Atlantic Migration 1607-1860: A History of the continuing settlement of the United States*, Harvard University Press: Cambridge, t.11-12. Atega nad oedd yr ymfudwyr yn ymwybodol o'u gorchwyl i ail-greu eu diwylliant. Yn ei eiriau ef, nid oedd yr ymfudwr yn teimlo rheidrydd ('*conscious mission or urge*') i ail-gynhyrchu nodweddion eu diwylliant, ond yn hytrach, arferion personol yn unig.

fod traddodiadau'r hen wlad yn parhau, 'nid yn rhinwedd unrhyw benderfyniad gwladgarol ymwybodol; ond yn hytrach am eu bod yn lliniaru'r broses boenus o addasu at America.'

I'r gwrthwyneb, dadleua Maldwyn Jones fod y Cymry, fel ymfudwyr eraill o Ewrop, yn arddel clymau'r hen wlad yn sgil dymuniad i ddal gafael ar hunaniaeth arbennig yn hytrach na moddion cysur, ac o'r herwydd fod eu hymateb i'r amgylchfyd newydd yn gynnrych sylfeini'r genedl wreiddiol.⁵⁷ Mae llewyrch y pileri diwylliannol hefyd yn tystio fod cynnal Cymreictod yn hollbwysig i gyfran sylweddol o drigolion treflannau Cymreig America, a'u bod yn ymwybodol iawn o'r angen i greu diwylliant newydd i bledio arwahanrwydd hil ac iaith oddi wrth yr awyrgylch Seisnig hollbresennol. Wedi'r cwbl, nid oedd y syniad o 'creu' diwylliant yn wrthun i'r Cymry gan eu bod wedi hen arfer dyfeisio traddodiadau i fynegi eu harwahanrwydd oddi wrth Loegr.⁵⁸

Yn debyg i'r modd y mae Gellner yn diffinio cenedligrwydd fel '*product of deliberate construction*,' roedd rheidrwydd ar Gymry America fel cenedl leiafrifol i ddyfeisio ffyrdd amgen i ddiffinio nodweddion eu hunaniaeth arbennig ynghanol môr o genhedloedd eraill, heb diriogaeth i'w hatgoffa o'u hetifeddiaeth:

Nationalism is not the awakening of nations to self-consciousness; it invents nations where they do not exist . . . but it does need some pre-existing differentiating marks to work on . . .⁵⁹

Mae'r dyfyniad enwog hwn gan Gellner yn hynod gelfydd yn y modd y mae'n darlunio'r cysylltiad hollbwysig rhwng parhad a newydd-deb diwylliant Cymry America. Er bod y cysyniad modernaid o 'creu' hunaniaeth yn addas i ddisgrifio sefyllfa Cymry America, gwelir olion primordaid hefyd ym mharhad nodweddion cymdeithasol a diwylliannol gwaelodol a ffurfiwyd dros gyfnod o amser eisoes yn yr hen wlad:

⁵⁷ Jones, Maldwyn.A. (1976) *Destination America*, Weidenfeld & Nicolson: London, t.21.

⁵⁸ Hobsbawm, E.J. (1990) *Nations and nationalism since 1780: Programme, myth, reality*, Cambridge University Press. Dilynodd Hobsbawm y trywydd fod creu traddodiadau diwylliannol i'r genedl yn dyfnhau'r ymlyniad emosiynol a'u symbol o genedl i grŵp neilltuol o bobl. Defnyddia achos y Cymry a'r Eisteddfod i bortreadu'r modd yr oedd cenedl leiafrifol yn cadw eu hunaniaeth yng nghysgod gwladwriaeth estron.

⁵⁹ Gellner, Ernest, *Nations and Nationalism*.

They could not simply acquire fresh habits; they were tied to old ones which they had to adapt to novel conditions. This applied equally to language, ways of thought and of worship and to pattern of family behavior.⁶⁰

Yn ôl Hechter, byddai ymlyniad y genedl ymylol at ddiwylliant arbennig yn gryfach yn wyneb unrhyw newid cymdeithasol fel modd o ddal gafael ar ei hunaniaeth, proses angenrheidiol i'r ymfudwyr o Gymru.⁶¹ Mae Ezra hefyd yn cadarnhau ymlyniad yr ymfudwyr at sefydliadau diwylliannol cyfarwydd o'r hen wlad, fel modd o bontio'r gorffennol a'r presennol drwy gyfrwng y famiaith:

National consciousness is inevitably accentuated by immigration. Loneliness and an unfamiliar environment turn the wanderer's thoughts and affections back upon his native land. The strangeness of the new surroundings emphasizes his kinship with those he has left ... The nationalistic tendencies of the immigrants find their natural expression and strongest stimulus in the national societies, the Church, and the foreign-language press – the institutions most closely connected with the preservation of the racial languages. In these the immigrant feels the home ties most strongly...⁶²

I grwpiau ymfudo, roedd yr iaith yn cynrychioli cyfrwng cyfathrebu hanfodol i'r diwylliant a gludwyd ar draws yr Iwerydd, ac ni ellir gorbwysleisio ei phwysigrwydd fel un o nodweddion euraid cenedligrwydd, yn enwedig i genhedloedd lleiafrifol na allent frolio gwladwriaeth annibynnol. Yn wir, fe'i hystyrir gan rai yn ffactor anhepgor i ddiffinio hunaniaeth yn y modd y mae'n gweithredu fel llinyn cyswllt rhwng pobl, yn atgyfnerthu'r berthynas gyda'r genedl a'i sefydliadau diwylliannol.⁶³ Pwysleisiodd toreth o astudiaethau

⁶⁰ Handlin, Oscar (1959) *Immigration as a factor in American History*, Prentice Hall Inc: New Jersey, t.76. Hefyd gw. Gellner, Ernest, *Nationalism*. Er ei fod yn gwrthod yr agwedd brimordaid i ddiffinio cenedligrwydd, roedd yn cydnabod fod diwylliant yn barhaol yn y modd y cawsai ei drosglwyddo dros gyfnod o amser, ond y gall hefyd newid i gydfynd ag amgylchiadau cymdeithasol dieithr. Gw. y gymhariaeth rhwng y ddadl brimordaid a modernaid ym mhennod 15, 'Do nations have navels?'

⁶¹ Hechter, Michael (1975) *Internal Colonialism: The Celtic Fringe in British National Development, 1536 – 1966*, Routledge: London. Ym model Hechter, yr ail gam yn natblygiad cenedl yn dilyn diwydiannaeth yw creu mwy o gysylltiadau cryfach rhwng y 'core' a'r 'periphery,' ac felly i ddechrau, mae'r diwylliant ymylol (*periphery*) yn fwy tebygol o ddal gafael ar eu harferion cymdeithasol i wrthsefyll unrhyw fygythiad i'w hunaniaeth. Mae hunaniaeth ethnig y genedl yn parhau oherwydd eu gwahaniaethau diwylliannol, ac oherwydd y newid cymdeithasol, rhoddir mwy o bwyslais ar hunaniaeth a sefydliadau diwylliannol. Byddai'r Cymry felly'n dyheu i ddal gafael ar eu diwylliant arbennig i wrthsefyll bygythiad patrwm cymdeithasol dieithr yn America.

⁶² Park, Robert Ezra (1922) *Immigrant Press and its Control*, Harper and Brothers: New York, t.50-1.

⁶³ Llobera, Joseph (2004) *Foundations of National Identity: From Catalonia to Europe*, Berghann: Oxford; Joseph, J (2004) *Language and Identity*, Palgrave & Macmillan: Hampshire; Williams, Lynn (1999) 'National

penodol ar Gymru berthnasedd yr iaith i hunaniaeth y genedl, ond mae carfan o ddamcaniaethwyr cyffredinol hefyd wedi agosáu at symbolaeth haniaethol iaith i ddiffinio cenedl:

Language is the external and visible badge of those differences which distinguish nations from each other.....the most important criterion by which a nation is recognized to exist.⁶⁴

Fel rhan o'r ymgyrch newydd gan arweinwyr cenhedloedd Ewrop ar droad y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ymledu egwyddorion cenedlaetholdeb, roedd iaith yn gyfrwng mynegiant delfrydol i bortreadu hanfod unigryw cenedl. Yn sgil twf mewn llythrennedd ac addysg, bu'r gair ysgrifenedig a dulliau cyfathrebu modern yn arfau pwerus i'r deallusion hyn sbarduno deffroadau cenedlaethol, a ddefnyddiwyd yn gynyddol fel prawf o arwahanrwydd ieithyddol cenedl.⁶⁵

(iii) Y Cyfrwng Print.

Ar lefel ieithyddol felly, mae'r cyfrwng print ('*discursive construct*') ymysg y ffactorau sy'n fodd o gadw fflam cenedligrwydd ynghyn. Roedd dyfodiad y diwylliant print a thwf y wasg argraffu yn ddigwyddiadau hanesyddol o bwys yn y modd y crewyd cymunedau o ddarlennwyr a roddai fri ar iaith fel grym diwylliannol, a daeth print fel 'glud i ddal y gymdeithas llythrennog at ei gilydd.'⁶⁶ Yn wir, syniai Gellner fod cyfrwng cyfathrebu safonol yn sylfaenol i'r gymdeithas fodern ddiwydiannol er mwyn lledaenu hynodion diwylliannol yn

Identity and the Nation State: Construction, Reconstruction and Contradiction,' in (ed) Cameron, K, *National Identity*, Intellect: Exeter; Bauer, O, *Mapping the Nation*.

⁶⁴ Gellner, Ernest, *Nationalism*.

⁶⁵ Baycroft, Timothy, *Nationalism in Europe*, t.14.

⁶⁶ Jones, Richard Wyn (2007) *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru, cyfrol 1*, Gwasg Prifysgol Caerdydd.

effeithiol.⁶⁷ Daeth yn fodd o fowldio meddyliau pobl a sefydlu strwythur cymdeithasol newydd yn Ewrop a oedd yn ymwybodol o'u cenedligrwydd:

The discursive practice as a special form of social practice plays a central part both in the formation and in the expression of national identity.⁶⁸

Mae'r dyfyniad hwn yn cwmpasu astudiaeth Anderson, un o'r arloeswyr mwyaf dylanwadol ym maes ymchwil i genedligrwydd, sy'n dod ag elfennau o'r traddodiad modernaidd ynghyd drwy bontio'r testun print a'i oblygiadau cymdeithasol. Yn ei ymchwil, mae'n dadansoddi technegau llenyddol a naratifau sy'n cynnal ymdeimlad o genedligrwydd o safbwynt seicolegol ac anthropolegol, yng nghyd-destun grym y cyfrwng cyfathrebu. Maent yn seilïau damcaniaethol defnyddiol wrth fynd ati i astudio'r modd yr oedd gwasg Cymry America yn creu a chynnal hunaniaeth y genedl ar lefel gymdeithasol a diwylliannol.

Fel dilyniant i'r syniad o genedl fel 'creadigaeth,' pwysleisiodd Anderson yr elfen ddychmygol yn y broses o ddiffinio'r hunan fel aelod o gymdeithas neilltuol:

... the nation is always conceived as a deep, horizontal comradeship....It is imagined because the members of even the smallest nation will never know most of their fellow members, meet them, or even know of them, yet in the minds of each lives the image of their communion.⁶⁹

Honna Anderson fod strwythur y papur newydd a flodeuodd yn Ewrop yn y ddeunawfed ganrif, yn hanfodol i egin brawdoliaeth ddychmygol y genedl.⁷⁰ Tra oedd awduron a golygyddion yn bwydo meddyliau preifat darllenwyr, roedd rhannu'r ddefod o ddarllen papur newydd yn creu dolen gyswllt rhwng pobl ac yn darparu mynediad i rwydwaith anweledig a ffurfiwyd ym meddyliau'r darllenwyr:

⁶⁷ Gellner, Ernest, *Nations and Nationalism*. I Gellner, roedd llythrennedd yn arwydd soffistiedig o genedl, ac felly roedd cyfryngau cyfathrebu megis y wasg yn arwydd o ddiwylliant llewyrchus.

⁶⁸ Wodak, R et al (1999) *The Discursive Construction of National Identity*, Edinburgh University Press.

⁶⁹ Anderson, Benedict (1983) *Imagined Communities: Reflections on the origin and spread of nationalism*, Verso: London, t.5.

⁷⁰ *Ibid*, t.24-25.

Yet each communicant is well aware that the ceremony he performs is being replicated simultaneously by thousands of others of whose existence he is confident, yet of whose identity he has not the slightest notion.⁷¹

Dadleua Anderson fod papurau newydd a'u swyddogaeth o fewn y gymdeithas yn brawf o ddilysrwydd cenedloedd modern, ac yn ychwanegu at y sicrwydd o genedligrwydd ar lefel seicolegol, '*confidence of community in anonymity*.' Mae papurau newydd, felly, yn hanfodol i gynnal y syniad dychmygedig o gymdeithas drwy ddarparu cyfrwng ieithyddol sefydlog i'r genedl:

Nothing perhaps more precipitated this search, nor made it more fruitful, than print-capitalism, which made it possible for rapidly growing numbers of people to think about themselves, and to relate themselves to others, in profoundly new ways.⁷²

Y cwestiwn sy'n codi yw pa mor 'real' yw seiliau'r ymdeimlad honedig o gymdeithas ymhlith aelodau'r genedl? Os mai ffrwyth seicolegol unigolion yw sylfaen cenedligrwydd, a yw'r genedl felly wedi ei chreu ar lefel ffug? Heb hunanlywodraeth nag uned ddaearyddol benodol yn America, nodweddion hanfodol i genedl yn nhyb sawl ysgolhaig, ai rhith oedd swm a sylwedd hunaniaeth Cymry America?

Cytuna Miller gydag Anderson na all cenedloedd fodoli'n effeithiol heb gyfryngau cyfathrebu i gynhyrchu'r gred yn hanfodol y genedl:

What holds nations together are beliefs . . . but these beliefs cannot be transmitted except through cultural artefacts which are available to everyone who belongs – books, newspapers, pamphlets . . . So nations cannot exist unless there are available the means of communication to make such collective imagining feasible.⁷³

Fodd bynnag, mae'n honni nad oes unrhyw sylfeini real i gyfraniad llenyddiaeth at greadigaeth hunaniaeth gan mai dehongliadau yn unig a geir yn y cyfrwng llenyddol.⁷⁴ Trwy bwysleisio'r agwedd ddychmygol yn ormodol, mae'n dibrisio gallu'r diwylliant print i

⁷¹ Ibid, t.35.

⁷² Ibid, t.36.

⁷³ Miller, David, *On Nationality*, t.32.

⁷⁴ Ibid, t.32-3.

atgyfnerthu cenedligrwydd, er mai ar sail *dymuniad* yr unigolyn, fel yr amlinellwyd eisoes, yr adeiladwyd ffydd yn rhinwedd y genedl. Yn achos y Cymry a'u diffyg statws gwleidyddol, roedd llenyddiaeth yn hollbwysig fel cyfrwng i gynnal Cymreictod, ac nid yw creu cymuned ar lefel haniaethol yn golygu nad oes seiliau real i'r ymdeimlad o berthyn i genedl. Roedd yn elfen gredadwy tu hwnt fel sylfaen cenedl a'i hetifeddiaeth gyfoethog, ac felly'n esgor ar ddylanwad cryfach nag '*artificial inventions*' yn unig. Mae awgrym rhai fel Hobsbawm a Miller fod cenedligrwydd yn ffug yn diraddio cryfder yr ymlyniad at genedl ac yn ychwanegu elfen o ansicrwydd neu dwyll, yn mynd gam ymhellach na'r ddyfais naturiol a wêl Gellner wrth wraidd y cyfan. Yn hytrach, dylid cofleidio damcaniaeth sy'n priodi gweledigaeth Anderson ar y wedd ddychmygol ar hunaniaeth â'i realiti cymdeithasol yn y broses greu a ddiffinir gan Gellner.

I'r diben hwn, honna James fod y rhwydweithiau cyfathrebu hyn yn rhoi mwy o gadernid i genedligrwydd drwy ddarparu modd i gysylltu â'r gyd-genedl yn niffyg sefydliadau cymdeithasol wyneb yn wyneb, '*disembodied integration*'.⁷⁵ Byddai'r papur newydd yn apelio ar y genedl ar lefel haniaethol, ond hefyd yn ei hannerch fel petai'r berthynas yn real, gan ychwanegu'r ymdeimlad o 'ymwybyddiaeth dorfol' y cyfeiria Gellner ato fel un o hanfodion cenedligrwydd.

Honna James, felly, fod seiliau 'real' i'r syniad o genedl, hyd yn oed yn nhermau dychmygol y diwylliant print, yn sgil y sicrwydd fod cymdeithas ystyrllon yn cael ei chreu ar wahanol lefelau sydd wedi eu seilio ar ddiwylliant byw ac amodau hanesyddol y cyfnod. Er bod Anderson yn canolbwyntio ar yr elfen ddychmygol i'r dehongliadau hyn, mae yntau hefyd yn cydnabod y berthynas rhwng ffactorau diriaethol a haniaethol wrth edrych ar effaith cyd-destunau megis y gwleidyddol a'r economaidd ar y testun, sy'n briodol i'r ymchwil hwn.

⁷⁵ Term i ddisgrifio '*integration*' nad yw'n dibynnu ar system cymdeithasol o gyfarfod wyneb yn wyneb. Yn hytrach, mae'r wasg yn creu cymdeithas ar lefel arall, yn nychymyg y bobl. Gw James, Paul (1996) *Nation Formation: Towards a Theory of Abstract Community*, Sage: London, xii.

O'r herwydd, yr elfen haniaethol hon sy'n pontio rhwng y byd dychmygol â ffordd o fyw weladwy drwy gyfryngau sydd yn ganolog i'r gymuned genedlaethol fodern, ac yn cyfannu'r agendor rhwng seicoleg yr unigolyn a delfrydau'r gymdeithas:

Each of the media contributes in specifiable ways to this sense of concrete consummation..... It is an abstract community but one which always, subjectively and ideologically reaches back to more concrete ways of living and representation.⁷⁶

Ychwanega James fod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyfnod o ddiwreiddio ar raddfa anferthol a oedd yn glastwreiddio'r ymlyniad at genedl, ac felly roedd y gair print yn rhoi undod i'r gymdeithas gynhwysol a fodolai ym meddyliau'r darllenwyr:

At this level the social relation transcends time and space quite apart from any personal intermediation.⁷⁷

Roedd y teimlad o berthyn ar lefel ddychmygol a ganiateid gan y dulliau cyfathrebu, felly, yn esgyn i dir uwch na safle daearyddol, a oedd yn ddelfrydol i glymu cymunedau ar wasgar yn America.

Dadleua James ymhellach mai'r *modd* y caiff y genedl ei dychmygu sy'n rhoi seiliau cadarn i hunaniaeth, drwy gyfrwng portreadau o'r genedl yn y wasg. Iddo ef, y gynrychiolaeth hon o'r genedl sy'n cymodi'r rhwyg rhwng y real a'r haniaethol, drwy wreiddio'r nodweddion ideolegol yn strwythur cymdeithasol real y system gyfathrebu. A oedd y darluniau hyn yn adlewyrchiad real o'r genedl felly? Gofynna Baycroft a all cenedl fodoli'n gyflawn heb bortreadau ohoni?

Trwy gyfrwng delweddau o'r genedl mewn cyfryngau megis papurau newydd, cawsai'r gymuned o ddarllenwyr allwedd i gynnyrch meddyliol cnwd o unigolion ynghyd ag adlewyrchiad o amodau cymdeithasol y genedl.⁷⁸ Rhoesant wedd barhaol i'r gymdeithas

⁷⁶ Ibid, t.33 a t.2.

⁷⁷ Ibid, t.31-2.

⁷⁸ Am enghraifft o ddadansoddiad o'r modd y darlunir Prydain yng nghyd-destun diwylliannol yr oes mewn testunau sy'n hybu ymfudo, gw. Grant, Robert.D (2005) *Representations of British Emigration, Colonisation and Settlement: Imagining Empire, 1800-1860*, Palgrave Macmillan: Hampshire.

brint-ieithyddol wrth i'r disgyrsgiau atgoffa'r darllenwyr o nodweddion cyfarwydd eu cenedligrwydd.⁷⁹ Yn wir, cred Bhabha fod y plethiad rhwng dychymyg a realrwydd yn naratifau cenedlaethol y wasg fel darllen nofel realaidd, proses sy'n dibynnu ar y berthynas rhwng disgyrsgiau a darllenwyr.⁸⁰

(iv) laith gyfarwydd.

Roedd y wasg felly'n fwy na chyfrwng cyfathrebu rhwng pobl ac yn fwy na gwrthrych i'w dreulio ('*object to consume*'); roedd ganddi arwyddocâd dyfnach hefyd fel cyfrwng sy'n gallu cynrychioli portreadau gwahanol, a'r dehongliadau hynny yn eu tro yn rhan o'r system arwyddion ('*signifying system*') sy'n gallu creu a chynhyrchu ystyron.⁸¹ Y gallu hwn sy'n ei gwneud yn gyfrwng delfrydol i astudio hunaniaeth cenedl yn y modd y mae'r disgyrsgiau'n adlewyrchu amrywiaeth o ideolegau, a'r ideolegau hynny wedi'u cynhyrchu ar y cyd â chynulleidfa sy'n rhannu nodweddion tebyg ac yn ymateb iddi fel rhan o berthynas ddwyffordd. Mae maes damcaniaethol sy'n trafod ymateb y darllenydd i destun ('*reader-response*') yn rhoi rôl weithredol i'r darllenydd wrth iddo greu ystyron yn deillio o'r testun, ac mae'n fan cychwyn i ystyried cymhlethdod y berthynas rhwng y wasg a'r gynulleidfa.⁸²

Yn yr un modd ag y cawsai'r gymdeithas ddylanwad ar gynnwys y wasg, roedd y wasg hefyd yn adlewyrchu nodweddion ideolegol, diwylliannol a chymdeithasol y genedl, fel y dywed Billig:

⁷⁹ Smith, Anthony, *Nationalism and Modernism*.

⁸⁰ Bhabha, Homi.K. (1991) Introduction: narrating the nation, yn (gol) Bhabha, Homi.K. *Nation and Narration*, Routledge: London, t.1-8.

⁸¹ Beetham, Margaret, *Investigating Victorian Journalism*.

⁸² McQuillan, Martin (1999) Reader-Response Theories, yn (gol) Wolfreys, Julian, *Literary Theories: A Reader and Guide*, Edinburgh University Press.

...the deixis of homeland is embedded in the very fabric of the newspapers. Beyond conscious awareness, like the hum of distant traffic, this deixis of little words makes the world of nations familiar, even homely.⁸³

Mae'r term '*deixis*,'⁸⁴ sydd â'i wreiddiau ym maes ieithyddiaeth, yn cynnig ffordd hylaw o astudio effaith y wasg ar hunaniaeth cenedl gan ei fod yn plethu manylder y testun a'i oblygiadau diwylliannol ehangach, sy'n adleisio'r gred yng ngrym haniaethol y cyfrwng cyfathrebu i adlewyrchu realiti cymdeithasol.

Yn yr un cyswllt, mae gwedd gymdeithasol ar y gair '*deixis*' yn y modd y cyfeiria at y famwlad yn rhan gyntaf y dyfyniad, tra bod yr ail enghraifft yn manylu ar allu geiriau bychain i awgrymu'r cyd-destun ehangach, a'r modd y mae'r eirfa a chywair y testun yn creu ystyr. Diffinir y pontio hwn rhwng y mewnol a'r allanol gan Fillmore:

By the *internal* analysis of conversation I mean, on the one hand, the analysis of what conversation partners are doing to each other by means of their contributions to the conversation and, on the other hand, the devices by which the utterances that speakers produce establish or reflect information about the identity of the conversation partners, the nature of the social context, or the social relations between the partners.⁸⁵

Mae'r un egwyddor yn berthnasol i'r wasg, wrth i'r geiriau dethol gynhyrchu delweddu neu bortreadau o genedl ar lefel destunol, gan gyfrannu hefyd at fowldio hunaniaeth a chreu cymdeithas o ddarllenwyr sydd â'r gallu i uniaethu â realiti'r disgwrs mewn papurau newydd yn nhermau cymdeithasol ehangach:

Social deixis, then, is the study of that aspect of sentences which reflect or establish or are determined by certain realities of the social situation in which the speech act occurs.⁸⁶

⁸³ Billig, M (1995) *Banal Nationalism*, Sage: London, t.94.

⁸⁴ Matthews, P.H. (2007) *Concise Oxford Dictionary of Linguistics*, Oxford University Press. "The way in which the reference of certain elements in a sentence is determined in relation to a specific speaker and addressee and a specific time and place of utterance." Fodd bynnag, defnyddir y term '*social deixis*' i ddisgrifio'r ffurfiau sy'n awgrymu cefndir cymdeithasol y siaradwr, a '*person deixis*' i ddiffinio hunaniaeth y siaradwr. '*Discourse deixis*' yw'r term am y geiriau unigol sy'n awgrymu'r cyd-destun.

⁸⁵ Fillmore, Charles.J (1997) *Lectures on Deixis*, CSLI Publications: California, t.110.

⁸⁶ *ibid*, t.111-2.

Yn yr un modd ag y mae geiriau rhwng pobl yn datgelu gwybodaeth am eu cefndir cymdeithasol, mae'r defnydd o iaith ym mhortreadau'r wasg o genedl yn fwy na geiriau oeraidd ar bapur, ac yn llwythog â chysylltiadau sy'n atgoffa'r genedl yn barhaus o'i genedigaeth-fraint:

Discourse deixis has to do with the choice of lexical or grammatical elements which indicate or otherwise refer to some portion or aspect of the ongoing discourse.⁸⁷

Edrychir yn bennaf felly ar swyddogaeth y golygydd fel pont rhwng y testun a'r gynulleidfa, a sut mae'r dylanwadau arno'n ffurfio ystyron ar eu rhan.

Fodd bynnag, un cam gwag yn nyfyniad Billig yn yr achos hwn yw'r modd y mae'n cymryd yn ganiataol fod y disgwrs cenedlaethol wedi hydreiddio ymwybyddiaeth aelodau'r genedl i'r graddau nad ydynt yn ymwybodol ohono, '*beyond conscious awareness*,' cysyniad a ddisgrifir ganddo fel '*banal nationalism*.' Mewn gwladwriaeth fel Prydain, cawsai'r trigolion eu hatgoffa'n feunyddiol o'u dinasyddiaeth nes i'r mynegiant o genedligrwydd ddod yn gyfarwydd, '*like the hum of distant traffic*.'⁸⁸ I Gymry America, roedd proses mwy hunanymwybodol ar waith i greu peuoedd i gynnal eu Cymreictod yn wyneb diffyg gwladwriaeth a phellter o'u mamwlad hanesyddol. Hawliai hyn ymdrech fwriadol ar ran y wasg i atgyfnerthu cenedligrwydd, cysyniad sy'n dychwelyd unwaith eto at sylfeini dyfeisgar Gellner.

Er hynny, deil '*deixis*' yn gysyniad ieithyddol defnyddiol sy'n gymorth wrth i ni archwilio'r modd y mae geiriau a thechnegau rhethregol ymddangosiadol syml mewn papurau newydd yn creu gwe o ystyron ar lefel ddyfnach, ac felly'n plannu hadau cenedligrwydd ym meddyliau'r darllenwyr.

⁸⁷ *ibid*, t.103.

⁸⁸ Billig, M (1995) *Banal Nationalism*, Sage: London. Hefyd gw. Jones, Richard Wyn, *Rhoi Cymru'n Gyntaf*, cyflwyniad. Cyfeiria Richard Wyn Jones at y sicrwydd o genedligrwydd o fewn y wladwriaeth: 'byd y pethau bach, di-son amdanynt....yw byd cenedlaetholdeb y wladwriaeth sefydledig a sefydlog, byd y geiriau bach – *ein gwlad, ein pobl, ein cenedl*.' I'r gwrthwyneb, mae angen i genedl leiafrifol fel y Cymry fynegi eu cenedligrwydd mewn modd amlycach, sy'n berthnasol i ymgyrch gwasg Gymraeg America o geisio creu diwylliant newydd, er bod Richard Wyn Jones yn cyfeirio at Billig yng nghyd-destun syniadaeth wleidyddol.

Yn sgil y cyfuniad hwn o bortreadau a thechnegau ieithyddol, cred Anderson yn gryf yng ngrym cymdeithasol y diwylliant print a rhwydweithiau cyfathrebu i siapio hunaniaeth yn rym diwylliannol y gellid ei drawsblannu, syniad perthnasol iawn yng nghyd-destun y wasg a chymunedau gwasgaredig Cymry America. Wrth ystyried y testun fel cynnyrch y diwylliant ehangach, roedd disgyrsiau'r wasg yn meithrin ymlyniad cryf at y genedl yn sgil ei photensial i adlewyrchu amrywiaeth o feysydd ideolegol a oedd yn taro tant gyda'r gymdeithas brint-ieithyddol ddychmygol.

Mae'r cyfuniad hwn o ddamcaniaethau, felly, yn gosod seiliau ar gyfer trafodaeth a fydd yn dadansoddi cyfraniad y wasg at ffurfio hunaniaeth Cymry America yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.⁸⁹ Cynigir dadansoddiad testunol o'r wasg drwy ymateb yn llenyddol, ond hefyd rhoddir ystyriaethau cymdeithasol a hanesyddol i ystyron y naratifau hyn er mwyn eu gwreiddio yn eu cyd-destun ehangach, methodoleg a elwir yn gymdeithaseg testunol ('*sociology of texts*').⁹⁰ Mae astudio cymeriad un cyfnodolyn yn arbennig yn rhoi syniad o'r cefndir hwn, ac ynddo ei hun yn llawn o hunaniaethau cyfansawdd ('*composite identities*'),⁹¹ cyn ei leoli o fewn y cyd-destun print a chymdeithasol ehangach. Er bod sawl ymchwilydd wedi defnyddio'r wasg fel ffynhonnell eilradd, mae ystyried cefndir cymdeithasol cyfnodolion unigol hefyd yn codi cwr y llen ar we o brosesau cymhleth.

Yn y bennod gyntaf, cyflwynir y cefndir hanesyddol a braslun o'r wasg gyfnodol, ynghyd â bywgraffiad o William Rowlands a sefydlodd y *Cyfaill*, sy'n gosod cyswll i ddealltwriaeth o'i bolisi golygyddol. Manylir yn yr ail bennod ar enwadaeth fel un o

⁸⁹ Thompson, Andrew & Day, Graham, *Nation, Identity and Social Theory*. Mae eu hastudiaeth o hunaniaeth Gymreig yn argymhell y dylid asesu'r gwahanol ffyrdd mae unigolion yn dychmygu eu hunain yn aelodau o gymdeithas y genedl, yn hytrach chymryd yn ganiataol nodweddion unigol megis iaith a chrefydd fel man cychwyn. Mae eu pwyslais ar wedd haniaethol cenedligrwydd a'r modd y mae ymdeimlad o'r genedl yn gynnyrch defodau cymdeithasol bob dydd, yn arwyddocaol wrth astudio ymdeimlad o hunaniaeth yn deillio o'r profiad cyffredin o ddarllen papurau newydd, ac yn arwydd fod yr elfennau hyn a godwyd o ddamcaniaethau cyffredinol am genedligrwydd yn berthnasol i'r profiad Gymreig.

⁹⁰ Brake, Laurel & Codell, Julie (2005) Introduction: Encountering the Press, yn (gol) Brake, Laurel & Codell, Julie, *Encounters in the Victorian Press: editors, authors and readers*, Houndmills: Basingstoke, t.3-4.

⁹¹ *Ibid*, t.4.

nodweddion Cymreictod yr oes, a sut yr oedd yn effeithio ar swyddogaeth y cylchgrawn a natur y gynulleidfa drwy ei osod yng nghyd-destun y byd cyhoeddi. Yr un seiliau dadansoddol sy'n arwain at drafodaeth o safiad gwleidyddol y cylchgrawn yn y bedwaredd bennod, a sut y'i cyflwynir yn ôl consensws ei olygyddiaeth. Newidir y cywair o'r hanesyddol i'r llenyddol yn y bumed bennod er mwyn asesu nodweddion haniaethol diwylliant Cymry America ar sail yr iaith, sy'n arwain at drafodaeth am lenyddiaeth fel cyfrwng mynegiant i'w hunaniaeth newydd yn y chweched bennod. Mae'r casgliad yn cloriannu cyfraniad y *Cyfaill* i genedligrwydd Cymry America yn ogystal â'r safbwyntiau a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil.

Pennod 2: Y WASG A BYWGRAFFIAD WILLIAM ROWLANDS.

Cenedl Gomer gymwys hawddgar,
 Boed i'ch gysur heb ddim galar,
 Wele'n dyfod i'ch diddanu
 Mewn estronwlad, Gyfaill mwyngu.¹

Mewn gwlad estron ymhell o angor tir y famwlad, a thros ddau gant o gymunedau Cymreig bychain ar wasgar ar hyd cyfandir eang America, roedd y wasg yn allweddol yn y dasg o ffurfio cymuned Gymreig genedlaethol yn America, oherwydd ei gallu i glymu unigolion ynghyd mewn brawdoliaeth ddychmygol.² Wrth i'r wasg fodloni anghenion cymdeithasol a diwylliannol y gymuned ac atgyfnerthu'r ymdeimlad o berthyn, pylu yr oedd arwyddocâd tiriogaeth neilltuol i hunaniaeth Cymry America. Roedd y wasg yn fodd o greu cymdeithas o ddarllenwyr a oedd yn ymwybodol eu bod yn hannu o'r un genedl, yn bennaf ar sail yr iaith, gan greu rhwydwaith anweledig o drigolion Cymreig yng nghanol môr aml-ddiwylliannol America.

Cyn dyfodiad cyfryngau pellgyrhaeddol yr oes ddigidol, gweithredai'r wasg gyfnodol fel y prif gyfrwng cyfathrebu a gyrhaeddai gynulleidfa eang yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Disgrifia King a Plunkett Brydain oes Fictoria fel '*a society's Being-in-Print,*' sy'n ffordd gelfydd o gyfleu'r diwylliant print fel rhan annatod o'r gymdeithas.³ Fel un o brif gonglfeini byd cyhoeddi'r oes, roedd cyfnodolion yn symbolau allweddol i gynnal yr undod cymdeithasol hwn, yn ffynhonnell wybodaeth ac yn cyflawni swyddogaeth fel fforwm drafod. Yn wir, roedd yr ymwybyddiaeth o ddylanwad y wasg brint yn cydredeg â hinsawdd newyddiadurol America, a roddai bwyslais enfawr ar rym pellgyrhaeddol y cyfnodolion fel prif gyfrwng cyfathrebu'r oes. Roedd chwyldro print y Cymry'n cyd-fynd â'r twf yn America

¹ Anerchiad i'r Cyfaill (Ioan Madog) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1838.

² Williams, Glanmor (1979) *Religion, Language and Nationality in Wales*, University of Wales Press: Cardiff, t.225.

³ King, Andrew & Plunkett, John (2005) *Victorian Print Media: A Reader*, Oxford University Press, t.1.

o 1830 ymlaen pan roddwyd bri ar lythrennedd, a phan gredid fod gan y wasg gyfnodol oblygiadau cymdeithasol cryfach na'r llyfr,⁴ a'i bod yn fodd i ledaenu gweithgarwch deallusol ymysg trwch y boblogaeth.⁵ Dylid cydnabod felly rym ac effaith y wasg fel cyfrwng pwerus i Gymry America gysylltu â'i gilydd, gan astudio rhythmau'r wasg fel cynnyrch cymdeithas a diwylliant eu cyfnod.⁶

(i) Ymfudo i America.

Bu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn drobwynt hanesyddol i Gymru yn wleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol, a thrawsnewidwyd ei holl ddemograffeg.⁷ O ganlyniad i'r twf chwyldroadol ym myd diwydiant, achosai'r boblogaeth gynyddol dreth ar adnoddau a greai adfyd i weithwyr yr ardaloedd diwydiannol a chefn gwlad fel ei gilydd. Fel yn Iwerddon, tyfai anniddigrwydd dwys ymhlith deiliaid tir a ffermwyr wrth iddynt wrthryfela'n erbyn y landlordiaid, gan achosi rhwyg ideolegol a diwylliannol rhwng gwahanol haenau cymdeithas.⁸ Pwysai trethi, rhenti uchel a'r degwm yn drwm ar y cymunedau amaethyddol, a golygai diweithdra a phrinder tir fod nifer yn daer am ddihangfa rhag y caledi. Yn nannedd

⁴ Price, K & Smith, Susan (1995) *Periodical Literature in Social and Historical Context*, yn (gol) Price, K & Smith, Susan, *Periodical Literature in Nineteenth Century America*, Virginia University Press: London, t.3-16.

⁵ Fish, Carl (1913) *The Development of American Nationality*, American Book Company: New York, t.282.

⁶ Jones, Aled Gruffydd (1993) *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales*, University of Wales Press: Cardiff, t.2-3.

⁷ Jones, Ieuan Gwynedd (1988) *People and Protest: Wales 1815 – 1880*, yn (gol) Trevor Herbert & Gareth Elwyn Jones, *People and Protest: Wales 1815-1880*, Cardiff University Press, t.1. Ar drothwy'r 19eg ganrif, cenedl gymharol fechan oedd y Cymry, ond gyda dyfodiad y Chwyldro Diwydiannol chwyddodd y boblogaeth yn afreolus. Rhwng 1821-1881, dyblodd y boblogaeth, gan dyfu o thua 800,000 i fwy na 1,500,000 yn ystod y cyfnod hwn.

⁸ Adamson, David L (1991) *Class, Ideology and the Nation: A Theory of Welsh Nationalism*, University of Wales Press: Cardiff, pennod 4. Dywed Adamson mai'r gwrthryfela hwn oedd nodwedd amlycaf cenedligrwydd y Cymry yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, o safbwynt cymdeithasol, crefyddol ac ieithyddol. Am ddarlun o amodau cymdeithasol y ganrif o safbwynt cefn gwlad a'r byd diwydiannol, gw. Evans, Gareth. D. (1989) *A History of Wales, 1815-1906*, University of Wales Press: Cardiff, t.139; Howell, David.W (1977) *Land and People in Nineteenth-Century Wales*, Routledge: London, t.10-11; Jones, Ieuan Gwynedd (1988) *People and Protest: Wales 1815 – 1880*, yn (gol) Trevor Herbert & Gareth Elwyn Jones, *People and Protest: Wales 1815-1880*, Cardiff University Press, t.2; Morgan, Prys & Thomas, David (1984) *Wales: The Shaping of a Nation*, David & Charles: London; Black, Jeremy (2000) *New History of Wales*, Sutton: Gloucs; Davies, Russell (2005) *Hope and Heartbreak: A Social History of Wales and the Welsh, 1776-1871*, University of Wales Press: Cardiff; Williams, David (1950) *A History of Modern Wales*, John Murray: London.

hyn oll, nid yw'n syndod i nifer sylweddol o Gymry anfodlon ddyheu am osgoi gormes Prydain a cheisio lloches yn America a gwledydd eraill ledled y byd, fel y tystia cerddi'r cyfnod:

Ffarwel Brydain, a'i chwyn a'i chynen,
A'i hingol angen, aflawen floedd;
Ffarwel Gymru a'i thraws arglwyddi,
A'i gwladaidd dlodi sy'n gwaeddi ar g'oedd.⁹

Nid oedd y dwymyn ymfudo'n gwbl ddieithr i'r Cymry, gan i nifer o Grynwyr a Bedyddwyr Cymreig ymgartrefu yn nhrefedigaethau Pennsylvania a Delaware ar drothwy'r ail ganrif ar bymtheg i osgoi erledigaeth grefyddol a gwleidyddol.¹⁰ Yn ddiweddarach yn ystod y ddeunawfed ganrif, cyfres o fudiadau o natur Anghydfurfiol a chenhadol a gyrrhaeddodd o Gymru,¹¹ a chanfuwyd nifer o anturiaethwyr Cymreig yn amrywiol wledydd yr Amerig yn drwm dan ddylanwad addewid y chwedl Fadogaidd.¹²

⁹ Ffarwel i'r Hen Wlad (Cymro Cloff, Cilymeini, Genesee, Wisconsin, gynt Glyn Tarell, sir Frycheiniog) Ar y dôn 'Ffarwel i Brydain' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1855.

¹⁰ Conway, Alan (gol) (1961) *The Welsh in America: Letters from the Immigrants*, University of Wales Press: Cardiff, t.7. Ffynnodd eu Cymreictod am gyfnod, ac yma y cyhoeddwyd y llyfrau cynharaf yn yr iaith Gymraeg yn America.

¹¹ Williams, Gwyn A (1980) *The Search for Beulah Land: The Welsh and the Atlantic Revolution*, Croom Helm: London. Ymfudodd Cymry yn ystod y 1790au oherwydd gwrthdaro ar sail diwylliannol a gwleidyddol. Yn y cyfnod, sefydlwyd gwladfeydd Cymreig yn Cambria, Pennsylvania ac Ohio. Byrhoedlog fu bywyd y cymunedau hyn, a phylodd eu Cymreictod yn gyflym, yn enwedig yn yr ardaloedd diwydiannol. Ceir mwy am ymfudo yn y cyfnod cynnar a'i effeithiau yn y cyfrolau canlynol: Williams, Gwyn A (1985) *When was Wales?* Black Raven Press: London; Dodd, A.H. (1957) *The Character of Early Welsh Emigration to the United States*, University of Wales Press: Cardiff.

¹² Yn yr argyfwng, atgyfodwyd myth i geisio diffinio cenedligrwydd y Cymry, a honnai fod y tywysog Cymreig Madoc ap Owain Gwynedd wedi darganfod America yn 1176. Sbardunwyd rhai i ddilyn trywydd ei ddisgynyddion, y 'Madogwys,' a phrofi eu tras Cymreig. Am drafodaeth helaeth ar chwedl Madog, gw. Williams, Gwyn A (1987) *Madoc: The Making of a Myth*, Oxford University Press. Dywed fod y chwedl wedi goroesi yn y cyfnod fel modd i ddiffinio hunaniaeth a llais i'r Cymry, 'but largely as a matter of after-dinner rhetoric and eisteddfod patriotism, of romantic entertainment and children's verse, and sometimes as licensed eccentricity,' t.199. Hefyd gw. O'Loughlin, Kathleen (1947) *Madoc ap Owain Gwynedd*, St Catherines: Ontario; Stephens, Thomas (1893) *Madoc: An Essay on the discovery of America by Madoc ap Owain Gwynedd in the 12th Century*, Longmans Green: London; Bowen, Benjamin. F. (1876) *America Discovered by the Welsh in 1170 AD*, Lippincott & Co: Philadelphia; Deacon, Richard (1967) *Madoc and the Discovery of America: Some new light on old controversy*, Muller: London. Prawf o ddylanwad parhaol chwedl Madog ar Gymry America yn y 19eg ganrif yw erthyglau a thraethodau yn y cylchgronau Cymreig, ac fe'i defnyddiwyd yn gyson fel testun eisteddfodol.

Erbyn yr 1820au, roedd sôn am ymfudo'n britho papurau newydd a chylchgronau Cymru, a'r awydd am fywyd gwell yn magu nerth yn gyflym.¹³ Yn wahanol i natur afieithus a chenedlgarol yr ymfudo yn ystod y ddeunawfed ganrif, ystyriaethau ymarferol a ddenai nifer i groesi'r Iwerydd erbyn y 1800au. Yn sgil tlodi a chaledi amodau byw'r ganrif llawn newidiadau, rheidrwydd economaidd a'r awydd am fywoliaeth mwy cysurus oedd y prif ffactor a yrrai'r Cymry i godi eu pac, fel y mwyafrif o ymfudwyr o Ewrop, sef cymysgedd o dynfa a gorfodaeth yn ôl model y '*push-pull*.'¹⁴ Denwyd y sawl a ddioddefodd orthrwm ym Mhrydain at y cyfleoedd a gynigiai America:

Os oedd hyfryd cael Caerefrog,
Wlad oludog enwog iawn,
Yn lle Brydain, (gan orthrymder)
Treiddia llymder trwyddi'n llawn.¹⁵

Ymysg breintiau'r wlad newydd, ceid tiroedd ffrwythlon am brisiau rhesymol a mwy o alw am lafur yn y diwydiannau mawrion; a olygai gyflogau uwch yn y gweithfeydd copr, arian, dur, glo a llechi.¹⁶ Yn fwy na hynny, ymddangosai fod America hefyd yn cynnig mwy o ryddid a thegwch gwleidyddol a chrefyddol, nodwedd a oedd yn atyniad arall i 'baradwys' America i'r Cymry democrataidd.¹⁷ Tystia'r gweinidog blaenllaw, Iorthryn Gwynedd i'r

¹³ Jenkins, R.T. (1933) *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.71.

¹⁴ Golyga'r model '*push-pull*' fod amgylchiadau yn y famwlad yn gwthio'r ymfudwyr i adael, a ffactorau'r wlad newydd yn eu denu i groesi'r Iwerydd. Diolch i Dr Kang am drafodaeth ar y ddamcaniaeth hon fel rhan o fodiwl 'Immigration in American History' yn ystod fy nghyfnod ym mhrifysgol Harvard. Yn achos y Cymry, roedd y cyfuniad o ormes Prydain ac atyniad bywoliaeth cysurus yn America yn annog ymfudwyr i godi eu pac. Hefyd gw. Jones, Bill (2003) '*Raising the Wind: Emigrating from Wales to the USA in the late nineteenth century and early twentieth century*', Darlith flynyddol Canolfan Uwchefrydiau Cymry America: prifysgol Caerdydd. Yn ôl athroniaeth Baines, mae'n honni fod rhesymau personol yn ogystal ag amodau cymdeithasol ac economaidd yn annog unigolion i ymfudo. Hefyd gw. Knowles, Anne Kelly (1997) *Calvinists Incorporated: Welsh Immigrants on Ohio's Industrial Frontier*, University of Chicago Press: London, t.225.

¹⁵ Pennill wrth weled mor hyfryd oedd Caerefrog Newydd, ar ol hir fordaith (Dylluan, Llwyn-y-Cymry) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1842.

¹⁶ Williams, David (1975) *Cymru ac America*, Cardiff University of Wales Press, t.84.

¹⁷ Hartmann, Edward (1967) *Americans from Wales*, Christopher Publishing House: Boston, t.25. Ymhlith atyniadau eraill America, ceid gwell addysg a hinsawdd mwy addas i dyfu cnydau. Hefyd gw. Jones, Bill '*Raising the Wind*'. Yn niwedd y ganrif, ceid ffynonellau megis erthyglau, cofiannau a hunangofiannau yn darlunio'r cyfuniad o resymau dros ymfudo e.e. cyfleoedd newydd, cymhellion crefyddol, gwleidyddol, cenedlgarol, diwylliannol, Iwtopaidd, a'r awydd am antur neu ddihangfa. Gw. Williams, Glanmor (1976) *Y Baradwys Bell: Cymru a'r Unol Daleithiau 1776-1914*, Darlith Radio Flynyddol BBC Cymru. Qualitex: Caerdydd, am ddisgrifiad o America fel 'paradwys' i Gymry'r cyfnod oherwydd ei manteision niferus.

rhagoriaethau tybiedig hyn ar ei ymweliad â'r Unol Daleithiau yn 1852, sy'n adlewyrchu'r cysyniadau oedd yn treiddio drwy Gymru benbaladr yn y llenyddiaeth am ymfudo ac yn dylanwadu ar farn y Cymry am wlad fabwysiedig eu cydgenedl:

Darllenais, a chlywais lawer yn yr Hen Wlad am yr Unol Daleithiau; ac yr oeddwn er ys blynyddau yn mawr gymeradwyo eich ffurf-lywodraeth, eich cyfreithiau, eich rhyddid, a'ch rhagorfreintiau gwladol a chrefyddol; ond ni fynegwyd i mi yr hanner, wedi gweled a'm llygaid, a chlywed a'm clustiau, yr wyf yn awr yn gwbl argyhoeddedig o ragoriaethau y wlad eang hon.¹⁸

Yn gyffredinol, fodd bynnag, rhesymau economaidd ac ymryddhau oddi wrth ormes haenau uwch cymdeithas oedd pennaf gymhellion y Cymry dros adael eu cynefin.¹⁹

Tasg amhosibl yw nodi'n union faint o Gymry a ymfudodd i'r Unol Daleithiau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, oherwydd diffyg dogfennau a chofnodion swyddogol dibynadwy.²⁰ Erbyn 1850, a'r don gyntaf o ymfudo wedi cyrraedd y lan ac wedi magu gwreiddiau, amcangyfrifir yn ôl y cyfrifiad Americanaidd fod 29,868 o Gymry'n byw yn yr Unol Daleithiau. Er bod y genedl wedi ei gwasgaru ar hyd y cyfandir, roedd 89% o'r Cymry hyn yn byw yn nhaleithiau Efrog Newydd, Pennsylvania, Ohio a Wisconsin yn unig.²¹

¹⁸ Testynau a gwobrau i feirdd a llenorion Cymreig America (Iorthryn Gwynedd) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1852.

¹⁹ Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.217. Ffieiddiai'r gweinidog adnabyddus Christmas Evans at y ddau fath o greadur a oedd yn ymfudo i America fynychaf, gan eu disgrifio fel 'Mr Gwladaethwr' a 'Mr Mynd-i-America' a oedd yn caru cyfoeth, sy'n awgrymu mai cymhellion gwleidyddol ac economaidd a oedd yn bennaf gyfrifol am ddenu'r ymfudwyr.

²⁰ Howell, Llewelyn.D. (1860) *Traithawd ar ddechreuad a chynnydd y Cymry yn Utica a'i hamgylchoedd*, R.R.Meredith: Rome. Ni chaiff Cymru ei chynrychioli yn ddigonol yn yr ystadegau ymfudol e.e. drwy gydol 1834, cofnodir mai un Cymro yn unig a laniodd yn America! Hefyd gw. Hartmann, Edward (1979) *American Immigration*, Lerner: Minneapolis, Minnesota, t.52. Saif Prydain yn drydydd yn y gynghrair a gofnoda'r niferoedd uchaf a ymfudodd oddi yno rhwng 1815 ac 1860; ond anodd yw dirnad pa gyfran o'r 750,000 o drigolion Prydeinig a ddaethai o Gymru. Cyn 1847, yn aml iawn, ni cheid gwahaniaethu rhwng y Cymry a'r Saeson pan gofnodwyd cenedligrwydd gan swyddogion y porthladdoedd, neu fe roddwyd label '*unclassified*' ar y Cymry, ac felly ni ellir cynnig ystadegau cwbl gywir i ddynodi hyn. Ychwanega Evans, Paul De Mund (1914) *The Welsh in Oneida County, New York*, Thesis MA heb ei gyhoeddi: Prifysgol Cornell, na ellir dibynnu ar y ffigyrau hyd yn oed ar ôl 1847, gan fod y swyddogion yn tueddu i gofnodi llai na'r niferoedd cywir. Rhwng 1820 ac 1845 cofnododd yr awdurdodau ffederal mai 462 yn unig o Gymry a gyrhaeddodd gyfandir America, ond mae tystiolaeth o ffynonellau eraill yn awgrymu y daeth llawer mwy na hynny bob blwyddyn yn ystod y cyfnod yma. Serch hynny, mae'r ffaith fod dros hanner yr ymfudwyr o Brydain rhwng 1815-58 wedi dewis America fel eu gwlad fabwysiedig yn dyst i dynfa'r cyfandir.

²¹ Knowles, Anne Kelly (1997) *Calvinists Incorporated: Welsh Immigrants on Ohio's Industrial Frontier*, University of Chicago Press: London, pennod 1. Wrth gwrs, yr oedd mwy na hyn yn siarad Cymraeg yn y treflannau newydd, wrth i blant ac wyrion yr ymfudwyr gael magwraeth yn yr iaith Gymraeg ar yr aelwyd, yn ôl Hunter, Jerry (2003) 'Y Traddodiad Llenyddol Coll,' *Taliesin*, 118, Gwanwyn, t.16. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, amcangyfrifir fod dros gan mil o drigolion o dras Cymreig yn byw yn yr Unol Daleithiau, a

Yn 1812, pum treflan Gymreig yn unig oedd yn yr Unol Daleithiau, ond codwyd nifer o rai newydd yn ystod y degawdau canlynol - yn enwedig yn siroedd Oneida a Lewis yn rhan uchaf talaith Efrog Newydd.²² Yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sir Oneida a gynhwysai'r nifer uchaf o Gymry ar yr holl gyfandir, ym mhentrefi Remsen a Steuben yn neilltuol; ac erbyn y 1830au, daeth y ddinas agosaf, Utica, yn ganolbwynt masnachol a diwylliannol pwysig i'r Cymry.²³ Cynrychiolai'r 1840au gyfnod gwaeth fyth o galedi yng Nghymru,²⁴ a gyflymodd y raddfa ymfudo yn aruthrol:

Cyn hir nid oedd talaith nac yng Nghanada na'r Unol Daleithiau heb Gymry ynnddi, a phrin y ceid teulu yn ardaloedd gwledig Cymru heb fod ganddynt berthnasau agos yn America.²⁵

ddengys fod y broses ymfudo fel caseg eira: Williams, David (1975) *Cymru ac America*, Cardiff University of Wales Press, t.78. Hefyd gw. Hartmann, Edward, *Americans from Wales*, pennod 4.

²² Evans, Paul De Mund, *The Welsh in Oneida County*. Nid oes prawf ar gael ym mhapurau newydd y cyfnod yng Nghymru o niferoedd ymfudo, ac yn sgil diffyg papur newydd Cymreig-Americanaidd, ni ellir cynnig ffigyrau pendant i'r perwyl hwn. Serch hynny, yn sgil tystiolaeth mewn teyrngedau yn dyddio glaniad nifer yn America yn y cyfnod hwn, ynghyd â chofnodion sir Oneida am niferoedd cynyddol y boblogaeth, mae'n weddol sicr fod nifer uchel o Gymry wedi ymgartrefu yn sir Oneida yn nechrau'r 19eg ganrif. Hefyd gw. Ellis, D. Maldwyn (1961) 'The Welsh in Oneida County in New York State', *Transactions of Honourable Society of Cymmrodorion*, t.115-25; Ellis, David Maldwyn (1973) 'The Assimilation of the Welsh in Central New York', *Welsh History Review*, cyfrol 6, rhif 4, t.424-47.

²³ Berthoff, Rowland (1980) Welsh, yn (gol) Thernstrom, Stephan & Orlov, Ann, *Harvard Encyclopedia of American Ethnic Groups*, Harvard University Press: Cambridge, Mass. Ychwanega fod amcangyfrif o 700 o Gymry wedi ymgartrefu mewn dwsin o dreffannau yn siroedd Oneida a Lewis yn 1812, ac wedi tyfu i 7,000 erbyn 1838. Hefyd gw. Dodd, A.H. (1957) *The Character of Early Welsh Emigration to the United States*, University of Wales Press: Cardiff, t.24; Evans, Paul De Mund, *The Welsh in Oneida County, New York*. Prawf o sir Oneida fel cadarnle'r Cymry yn America, yn enwedig trefi Remsen a Steuben, yw'r amcangyfrif fod tri chwarter poblogaeth Remsen yn Gymry erbyn 1850, ac erbyn 1859, fod 7 allan o 8 o boblogaeth Remsen a Steuben yn Gymry. Atega gweinidog ar daith mai'r sefydliad Cymreig rhwng Utica a Remsen oedd un o'r treflannau hynaf a phwysicaf yn y wlad: Thomas, John (1865) *Traethodau, Pregethau, yn nghyd a hanes ei daith yn America*, T.J.Griffiths: Utica; Howell, Llewelyn.D., *Traithawd ar ddechreuad a chynnydd y Cymry yn Utica a'i hamgylchoedd*.

²⁴ Evans, Paul De Mund, *The Welsh in Oneida County, New York*. Erbyn hyn mae papurau newydd Cymraeg yn America yn trafod amodau byw adfydus yr hen wlad yn helaeth, ac yn hysbysu Cymry America fod niferoedd yr ymfudwyr a laniai ar ei thraethau yn cynyddu. Hefyd gw. Hartmann, Edward, *Americans from Wales*, pennod 4. Dioddefodd y Cymry yn sgil rhenti uchel, tollau ar y ffyrdd, treth ar gynnyrch, a phrinder bwyd dybryd. Cyfeirir at y cyfnod gan Brydain fel yr '*hungry forties*' a dihangodd nifer rhag y cyni sylweddol, yn enwedig o siroedd Meirion, Maldwyn a Maesyfed yng Nghymru.

²⁵ Williams, David (1975) *Cymru ac America*, Cardiff University of Wales Press, t.78. Ymfudo cymhedrol a chyson a welwyd o Gymru tan 1840, ond daeth ffyrddau o ymfudwyr wedi eu gorthrymu i geisio gwell bywyd yn America o 1840 hyd at y Rhyfel Cartref ugain mlynedd yn ddiweddarach Gwasgarodd y Cymry ymhellach i ddechrau bywyd newydd yn Indiana, Illinois, Wisconsin a Minnesota. Wrth i'r genedl Gymreig fagu hyder symudwyd mor bell â thalaith Formonaidd Utah, Oregon, California ac i Ganada yn ystod canol y ganrif.

Tueddai'r Cymry i ymsefydlu ymysg eu cyd-genedl, ac i raddau helaeth, yn glwstwr o gymunedau o'r un ardal. O'r herwydd, gellid ail-gynhyrchu strwythur cymdeithasol yr hen wlad yn ddi-drafferth, gan roi elfen gref o hunaniaeth i'r grŵp ethnig:

The strange and often hostile environment in which they found themselves sharpened the nostalgia of immigrants for their homelands, led them to cherish old loyalties, and drove them in upon themselves. The most obvious expression of immigrant yearnings for the familiar was tendency to congregate in distinct areas.²⁶

Gan fod nifer yn uniaith Gymraeg o hyd, roedd clywed iaith y famwlad o'u cwmpas yn rhoi sicrwydd yn y wlad ddieithr, ac yn lleddfu hiraeth.²⁷ Mae sefydlu yn yr un safle daearyddol â gweddill y gymuned yn nodweddiadol o fudiadau ymfudol eraill o Ewrop yn y cyfnod, er bod Alan Conway a Glanmor Williams yn dadlau fod y Cymry wedi glynu at ei gilydd yn fwy clos na'r rhelyw oherwydd yr arwahanrwydd ieithyddol.²⁸

Mae'r tueddiad i ymsefydlu mewn grwpiau penodol yn adlewyrchu'r system gyfathrebu ar draws yr Iwerydd, a oedd yn cysylltu cymunedau yn Ewrop gyda'u cydgenedl yn America.²⁹ Yn sgil pwyslais cynyddol ar lythrennedd, medrai nifer cynyddol o'r hen wlad erbyn hyn gael eu trwytho ym mendithion y wlad bell drwy amrywiol gyfryngau.³⁰ Byddai gohebiaethau gan y sefydlwyr yn America yn rhestru rhinweddau'r wlad newydd yn cael darlenniad gan drwch y gymuned, ac felly'n ffactor hollbwysig i ddylanwadu ar y Cymry

²⁶ Jones, Maldwyn Allen (1960) *American Immigration*, University of Chicago Press, t.134. Honna Jones mai ymlyniad at ardal leol oedd gryfaf ymhlith ymfudwyr o Ewrop, gan nad oedd yr ymfudwyr yn ymwybodol iawn o'u cenedligrwydd yn Ewrop. Roedd crefydd ac iaith hefyd yn ffactorau a oedd yn uno'r grwpiau hyn. Hefyd gw. Evans, Neil (1989) Gogs, Cardis, Hwntws: Regions, nation and state in Wales, 1840-1940, yn gol Evans, Neil, *National Identity in the British Isles*, Coleg Harlech Occasional Papers in Welsh Studies. Mae Evans hefyd yn ymdrin â natur lleol hunaniaeth yn y cyfnod, sy'n awgrymu'r modd yr oedd y dwymyn ymfudo yn cydio mewn cymunedau cyfan.

²⁷ Hartmann, Edward (1979) *American Immigration*, Lerner: Minneapolis, Minnesota, t.57.

²⁸ Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.225; Conway, Alan (gol) (1961) *The Welsh in America: Letters from the Immigrants*, University of Wales Press: Cardiff.

²⁹ Yn ystod y modiwl 'Immigration in American History' a astudiwyd ym mhrifysgol Harvard, trafodwyd pwysigrwydd llenyddiaeth i'r ymgyrch ymfudo a'r modd yr oedd gwahanol genhedloedd yn defnyddio'r cyfrwng i gadw mewn cysylltiad.

³⁰ Jones, Bill, 'Raising the Wind'. Darparwyd gwybodaeth am ymfudo mewn nifer o ffynonellau megis papurau newydd, cyfnodolion, llyfrau tywys, ymfudwyr yn dychwelyd ac ymwelwyr, a llythyrau. Erbyn ail hanner y ganrif, roedd y pwnc o ymfudo yn fater dadleuol ar yr agenda genedlaethol, a daeth yn rhan o fywyd dyddiol i nifer o Gymry wrth iddo dreiddio i ymwybyddiaeth y genedl.

gartref i ymuno â hwy a'u tywys i fan penodol lle byddai'r gymuned gynt yn eu croesawu unwaith eto.

Gwelir tystiolaeth o erthyglau, dyddiaduron a cherddi yn codi blys y Cymro am fywyd gwell yn fynych mewn cyfnodolion enwadol a phapurau newydd yng Nghymru, ac ymfudwyr yn dylanwadu ar drigolion yr hen wlad i ddilyn eu trywydd trwy gyfrwng sawl ffurf lenyddol. Nid yw'n syndod iddynt ddwyn perswâd ar gynifer o'r Cymry i ymfudo gyda'u sôn am Iwtopia a pharadwys y tir rhad a ffrwythlon, cnydau toreithiog a chyflogau uchel.³¹ Apeliwyd at afiaith grefyddol y Cymry drwy ddisgrifio America mewn termau Beiblaidd megis Eden, Seion, Gwlad yr Addewid a Chanaan, a'i darlunio fel dihangfa rhag gormes.³²

Yn ychwanegol, darparwyd llyfrau tywys a phamphledi ar gyfer ymfudwyr trwy gyfrwng y Gymraeg,³³ a fyddai'n cynnwys gwybodaeth fanwl ynghylch amgylchiadau'r wlad newydd, ac felly'n hwyluso'r broses drafferthus o godi pac.³⁴ Dychwelai gweinidogion megis Ben Chidlaw a Chymry blaengar eraill i Gymru yn achlysurol, ac yn ystod eu

³¹ Shepperson, W.S. (1957) *British Emigration to North America: Projects and Opinions in the early Victorian Period*, Basil Blackwell: Oxford. Soniwyd am dirwedd, hinsawdd, iaith, arferion a sefydliadau America, yn ogystal ag adlewyrchu'r twf cynyddol ym myd y celfyddydau, llenyddiaeth a masnach. Am ddadansoddiad o'r disgwrs Iwtopaidd, gw. Hunter, Jerry (2001) 'O'r Ymfudwr Ffuglennol i'r Twrist Barddol, yn (gol) Thomas, M.Wynn, *Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd. Fel rhan o'r 'propaganda gwladgarol' a ddefnyddiwyd i argyhoeddi'r Cymry fod America yn wlad ddelfrydol drwy gyfrwng llythyrau a llenyddiaeth boblogaidd, apeliwyd iddynt drwy bwysleisio'r cyfoeth ar gael ynghyd â rhyddid gwleidyddol a chrefyddol. Y rhesymau hyn a ystyrir gan haneswyr yn gymhellion pennaf dros ymfudo, a ddengys ddylanwad y deunydd ar y Cymry. Honna hefyd fod y deunydd yn plethu ymchwil haniaethol a'r broses lythrennol o ymfudo.

³² Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.217. Ceir trafodaeth am ddelweddau Beiblaidd ac Iwtopaidd America ym mhropaganda'r wasg a llenyddiaeth yn Williams, Gwyn A, *Y Baradwys Bell*.

³³ Cynhwysai pamffledi o'r fath gyfarwyddyd manwl a gwybodaeth ar y broses o ymfudo, ac fe'u dosbarthwyd yn helaeth yng Nghymru. Gwelid gweinidogion eraill yn cyflawni'r orchwyl yn y cyfnod er mwyn ceisio lleddfu tlodi'r Cymry wrth gynnig dihangfa, er enghraifft Samuel Roberts, Llanbrynmair a Ben Chidlaw. Cyhoeddwyd nifer o lyfrau teithio yn ogystal, a oedd yn boblogaidd iawn ym Mhrydain, ac yn dyfnhau'r awydd i ymfudo, gw. Hansen, Marcus Lee (1951) *Atlantic Migration 1607-1860: A History of the continuing settlement of the United States*, Harvard University Press: Cambridge.

³⁴ Conway, Alan, *The Welsh in America*, cyflwyniad. Soniwyd am ymfudo hefyd mewn cyfnodolion coloneiddio, cyfrolau teithio a llythyrau gan ymfudwyr, yn ogystal â phapurau newydd Prydeinig, cylchgronau a llyfrau. Trafodwyd y ffenomen ymhellach mewn darlithiau, cyfarfodydd undebau a chylchoedd llenyddol; a daeth yn bwnc gwleidyddol a drafodwyd yn helaeth gan awdurdodau lleol a'r Llywodraeth, ac ym myd masnach. Mae'r ffaith i'r mater o ymfudo dreiddio i gynifer o feysydd yn tystio i anferthedd y ffenomenon yn y cyfnod. Hefyd gw. Shepperson, W.S. (1957) *British Emigration to North America: Projects and Opinions in the early Victorian Period*, Basil Blackwell: Oxford.

hymweliadau byddai darlithiau a sgysiau ganddynt yn canmol y wlad yn ddigon i sicrhau lledaeniad y dyhead i ymfudo.³⁵ Yn yr un modd, anfonwyd deunydd o America i hybu'r mudiad ymfudol, a thyst o gyfraniad y Cymry i'r wlad yw cyhoeddi pamffledi am rai taleithiau drwy gyfrwng y Gymraeg.³⁶ Fel y tystia'r toeth o ddeunydd apelgar, roedd America erbyn hyn yn fwy na llecyn penodol i ymgartrefu ynddo, roedd yn feddylfryd grymus ac yn addewid.³⁷

Roedd y rhan fwyaf o'r treflannau yn gymharol fychan, yn cynnwys llai na dwy fil o drigolion, ac eto roedd nifer yn frwd ac yn weithgar dros gadw gwerthoedd yr hen wlad. Er mai nifer pitw o Gymry a droediodd y tir mawr o'i gymharu â chenedloedd eraill Ewrop, mae ffyniant eu diwylliant yn arddangos eu balchder ac awydd i gadw eu Cymreictod yn y wlad estron. Nid oedd y famwlad yn angof i nifer ohonynt wedi iddynt groesi'r Iwerydd, yn wahanol i haeriadau cysyniad y '*tabula rasa*',³⁸ ac yn hytrach roedd atgofion o'r hen wlad yn

³⁵ Hartmann, Edward, *Americans from Wales*, pennod 4. Roedd hyd yn oed ffigyrau o bwys o'r tu allan i Gymru, megis Thomas Rawlings (golygydd cyhoeddiadau megis *The Old Countryman* ac *Emigrant's Friend*) yn cyfarch cyfarfodydd yng Nghymru, gan ganu clodydd America fel gwlad gyfoethog drwy gyfrwng cyfieithydd. Bu hefyd yn cyhoeddi cyfarchiadau i weinidogion Lloegr, Iwerddon, Cymru a'r Alban o Efrog Newydd yn darlunio amodau byw gwell i'r dosbarth gweithiol. Mae hyn yn dangos fod Cymru, er ei maint a'i diwylliant ymylol yn teilyngu deunydd i hybu ymfudo, sy'n awgrymu fod ganddi gyfraniad i'w wneud i gyfandir America. Hefyd gw. Coleman, Terry (1972) *Passage to America: A history of emigrants from Great Britain and Ireland to America in the mid nineteenth century*, Hutchinson: London. Enghraifft o anferthedd y dyhead i ymfudo yw'r ffaith i Iorthryn Gwynedd, gweinidog blaenllaw yn yr ymgyrch drawsatlantig i ymfudo, werthu tair mil o gopiâu o'r canllaw *Yr Ymfudwr* mewn chwe mis yn 1854. Hefyd gw. Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.224. Tystiolaeth o afael y mudiad ymfudo ar Brydain yw y cyhoeddwyd bron i 250 o weithiau gan Brydeinwyr am America rhwng 1836-60.

³⁶ Bernard, William.S. (1998) *Immigration: History of United States Policy*, yn (gol) Jackson, David, *The Immigration Reader: America in a Multidisciplinary Perspective*, Blackwell: Oxford. Wrth i'r ymfudo gynyddu, anfonodd y taleithiau gorllewinol bamffledi i wahanol wledydd yn Ewrop yn hysbysebu'r tir ar werth. Cyflogwyd clerics yn Minnesota i anfon deunydd i ffrindiau a pherthnasau y sefydlwyr yn Ewrop, ac anfonwyd hysbysebion mewn ieithoedd megis Saesneg, Cymraeg, Almaeneg, Iseldireg, Norwyeg a Swedeg.

³⁷ Jackson, David (1998) Introduction: An American Journey, yn (gol) Jackson, David, *The Immigration Reader: America in a Multidisciplinary Perspective*, Blackwell: Oxford, t.1. Un enghraifft nodweddiadol yw - Englynion a achlysurwyd wrth glywed y dirfawr ddadwrdd sydd yn rhai parthau o Gymru yn y dyddiau hyn ynghylch ymfudo i'r America (Ieuan Glan Einion), O'r *Gwladgarwr: Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1840. Hefyd gw. rhai cerddi yn rhestru bendithion America ac annog ymfudo rhag gormes Prydain: Thomas, R.D. (1872) *Hanes Cymry America*. T.J.Griffiths: Utica, cyflwyniad i ran 2.

³⁸ Honnai'r cysyniad fod yr ymfudwr yn anghofio'r hen glymau, ac yn y broses ymfudo, yn barod i gymathu'n llwyr â'r amgylchiadau newydd. Hefyd gw. Jackson, J.A. (1969) Migration – editorial introduction, yn (gol) Jackson, J.A., *Migration*, Cambridge University Press. I'r gwrthwyneb, haera fod clymau'r hen wlad yn fyw o hyd ac yn elfen bwysig ym mhrofiad yr ymfudwr, elfen sydd wedi ei hanwybyddu'n helaeth mewn gwaith ymchwil.

rhan o brofiad yr ymfudwyr ac yn ffurfio eu traddodiadau a'u ffordd o fyw yn y wlad newydd:

...they came over quietly, modestly, willing to accept what opportunities the new environment might have to offer. Yet they were rightfully proud of their own peculiar past and ever conscious of their own cultural achievements.³⁹

Yr hyn sy'n allweddol wrth ystyried profiadau ymfudwyr yw symud oddi wrth bwyslais rhai haneswyr ar ddiwreiddio a dieithrwch, ac yn hytrach arddel y trosiad o drawsblannu i ddisgrifio'r broses o ail-greu hunaniaeth ddiwylliannol gyfarwydd y famwlad yn America.⁴⁰

Yn sgil yr ymfudo helaeth o fewn terfynau Prydain o ganlyniad i'r twf diwydiannol, roedd rhai Cymry eisoes yn gyfarwydd â'r orchwyl o wreiddio mewn cymunedau newydd:

Uprooted this migrant society may have been, but it was not rootless or lonely. Surviving customs and beliefs were blended with the different demands and opportunities of the new order.⁴¹

Creu microcosm o Gymru oedd dyhead sawl ymfudwr yn ôl Davies,⁴² proses gymharol rwydd cyn belled â'u bod yn rhannu'r un nodweddion o hyd:

So immigration need not pose problems, provided only that the immigrants come to share a common national identity, to which they may contribute their own distinctive ingredients.⁴³

Er bod Cymry America'n creu hunaniaeth newydd, roedd gwreiddiau'r diwylliant hwn yn ddwfn yn etifeddiaeth yr hen wlad, ac felly roedd yn broses a olygai gadw elfennau diwylliannol yn ogystal â chreu rhai newydd yr un pryd, paradocs a elwir gan Walker yn '*radical attempt to conserve*.'⁴⁴ Ar un wedd, roedd yr ymfudwyr yn teimlo'n chwerw iddynt

³⁹ Hartmann, Edward, *Americans from Wales*, t.9.

⁴⁰ Jones, Maldwyn Allen, *American Immigration*. Mae'n gwrthgyferbynnu disgrifiad Handlin o ymfudo fel proses o ddiwreiddio gyda throsiad John Bodnar am drawsblannu nodweddion cenedl yr ymfudwr mewn gwlad estron. Cafwyd trafodaethau ar y cysyniad o drawsblannu, a oedd yn briodol i asesu ymfudo o wahanol genhedloedd yn y modiwl 'Immigration in American History.' Am gefndir y cysyniad gw. Bodnar, John (1987) *Transplanted: A History of Immigrants in Urban America*, Indiana University Press.

⁴¹ Jones, Ieuan Gwynedd (1988) *The Urbanization of Welsh Society*, yn (gol) Trevor Herbert & Gareth Elwyn Jones, *People and Protest: Wales 1815-1880*, Cardiff University Press, t.19.

⁴² Davies, John (2007) *Hanes Cymru*, Penguin Books: London, t.377.

⁴³ Miller, David (1995) *On Nationality*, Clarendon Press: Oxford, t.26.

⁴⁴ Gjerde, Jon (1998) *Major Problems in American Immigration and Ethnic History*, Houghton Mifflin: New York, pennod 4. Defnyddiodd yr hanesydd Mark Walker y frawddeg hon i ddisgrifio taith yr ymfudwyr hyn i wlad newydd yn yr ymgais i gadw hen werthoedd. Er bod yr ymfudwyr yn adeiladu diwylliant o'r newydd,

orfod ffoi oddi wrth ormes eu hamgylchiadau a cheisio rhyddid gwleidyddol yn America o dan amgylchiadau tebyg i'r Gwyddelod. Serch hynny, gellid dadlau eu bod yn ymdebygu mwy i'r Almaenwyr yn eu balchder cenedlgarol mewn ystyr ddiwylliannol ac ieithyddol, yn yr ymgais i drawsblannu hen werthoedd mewn amgylchfyd newydd.⁴⁵

Er i'r hunaniaeth blethu nodweddion y ddwy wlad, ffurfiwyd creadigaeth cwbl newydd yn ei hanfod, fel y gwnaethpwyd gan nifer o genhedloedd Ewrop. Yn ôl Miller, roedd modd i sawl hunaniaeth ethnig a chenedlaethol gyd-fyw yn America, gan nad oedd hunaniaeth Americanaidd ystrydebol yn sgil yr amrywiaeth o genhedloedd a drigai yn y wlad. Yn wir, roedd America ei hun y profi newidiadau enfawr yn ei demograffeg, a'r ymwybyddiaethau ethnig amrywiol yn rhan o'i phatrwm cymdeithasol.⁴⁶ Roedd yr Unol Daleithiau'n llawn o '*hyphenated groups*' a gyfunai elfennau pegynnol eu hunaniaeth yn llwyddiannus:

Even nations that originally had an exclusive ethnic character may come, over time, to embrace a multitude of different ethnicities.⁴⁷

Rhwyrstr felly fyddai meddwl am '*homogeneous ethnic community*' sy'n dibynnu ar berthyn i un genedl yn absoliwt er gwaetha'r naratifau cenedlaethol a gynhyrchir, gan fod nifer o gymunedau yn uniaethu â dwy genedl (*dual loyalties*):

The American example is a helpful one because it suggests how a common identity can evolve that is accessible to all cultural groups, an identity that is expressed partly through allegiance to a body of principles embedded in the Constitution, but also

roedd y cymunedau hefyd yn trawsblannu gwerthoedd, fel y gallai'r ymfudwyr gadw'r ffordd o fyw flaenorol. Roeddent felly yn geidwadol eu golygon, ond yn ymgeisio i gadw'r gwerthoedd hyn mewn dull radical.

⁴⁵ Daniels, Roger (1990) *Coming to America: A History of Immigration and Ethnicity in America Life*, Harper Collins: New York, t.135-6. Disgrifia'r hanesydd Kerby Miller ymfudo'r Gwyddelod fel un o 'alltudiaeth' yn sgil gormes llywodraeth Prydain a landlordiaid, safbwynt a allai fod yr un mor berthnasol i sefyllfa'r Cymry hefyd. Dadleua y teimlai nifer o'r Gwyddelod iddynt gael eu gorfodi i adael annhegwch yr hen wlad, ac felly nid oeddent yn teimlo dyletswydd i arddel yr hen glymau gan nad oedd yr ymfudo'n gwbl wirfoddol. Mae'n wir y mynegai nifer o Gymry eu hoffter o ryddid newydd America a'r cyfleoedd a ddarparwyd ganddi, fel nifer o ymfudwyr o Ewrop a anfonai lythyrau adref, ond mae'r sefydliadau diwylliannol llewyrchus a drawsblannwyd yn tystio nad oedd y Cymry i gyd wedi anghofio eu genedigaeth-fraint.

⁴⁶ Miller, Douglas (1970) *The Birth of Modern America 1820-1850*, Pegasus: New York. Cavaioli, Frank & La Gumina, Salvatore (1974) *The Ethnic Dimension in American Society*, Hollbrook Press Inc: Boston, t.1.

⁴⁷ Miller, David, *On Nationality*, t.20-1. Hefyd gw. Berthoff, Rowland (1971) *An Unsettled People: Social Order and Disorder in American History*, Harper & Row: New York.

includes the more concrete ideas of common membership and shared history that are essential to nationality.⁴⁸

O'r herwydd, dadleua Miller fod cenedligrwydd Americanaidd yn ychwanegiad yn hytrach na'i fod yn cymryd lle'r hunaniaeth wreiddiol, gan nad yw'r wedd ddeublyg sy'n datblygu'n naturiol (*hyphenated identities*) ond yn bosibl pan mae'r ail elfen yn cynhyrchu ystyron nad ydynt yn dibynnu ar ffactorau ethnig.⁴⁹ Atega Hechter fod posib i'r broses gymathu a chenedlaetholdeb (*assimilation a nationalism*) gyd-fynd i raddau helaeth gan nad oedd angen dewis rhwng y ddau. Yng ngeiriau Linda Colley:

Identities are not like hats. Human beings can and do put on several at a time.⁵⁰

Mae Gellner hefyd yn darlunio'r trawsfudiad hwn drwy dynnu cymhariaeth â gerddi. A chymhwyso'i drosiad, mae planhigion gwyllt yn cynrychioli Cymry'r hen wlad a oedd yn rhannu nodweddion sy'n rhan elfennol o fywyd megis iaith ac arferion cymdeithasol, ac yn atgynhyrchu eu hunain o genhedlaeth i genhedlaeth yn naturiol. Ar y llaw arall, byddai diwylliant Cymry America wedi ei drin, er ei fod yn deillio o'r hadau gwreiddiol, a chreda mai llythrennedd a system gyfathrebu oedd y gwreiddyn hanfodol.⁵¹ Awgryma Iorthryn Gwynedd hefyd mai cyfuniad o'r wasg, y capel a'r iaith a oedd yn seiliau anhepgor i'w hunaniaeth, nodweddion cyffredin yn y ddwy wlad:

Y mae peidio dysgu a siarad Cymraeg, ac esgeuluso cefnogi yr eglwysi, a'r weinidogaeth, a'r wasg Gymreig, yn ddirmyg ar ein hanrhydedd, ac yn amcanu at roddi ergyd farwol i'n bodolaeth fel cenedl Gymreig.⁵²

(ii) Crefydd a Chymreictod.

Prin fod angen nodi bod crefydd ymhlith y nodweddion amlycaf o hunaniaeth Gymreig yn y cyfnod dan sylw, yr hyn a ddiffinir gan Hobsbawm fel '*religio-ethnic*

⁴⁸ Ibid, t.141-2.

⁴⁹ Ibid, t.136. Mae '*hyphenated identities*' yn golygu cyplysu dwy wedd e.e. Cymry Americanaidd.

⁵⁰ Colley, Linda (1992) *Britons: Forging the Nation*, Pimlico: London, t.5.

⁵¹ Gellner, Ernest (1983) *Nations and Nationalism*, Basil Blackwell: Oxford, t.50.

⁵² Thomas, R.D., *Hanes Cymry America*, t.14.

identification.⁵³ Roedd yn agwedd hynod ddylanwadol ar ddiwylliant y Cymry a ymledodd dros yr Iwerydd, fel yn hanes nifer o genhedloedd eraill a ymfudai i America.⁵⁴ Yn wir, roedd crefydd hefyd yn rhan sylweddol o strwythur cymdeithasol America, a'i threfn foesol yn un o gonglfeini'r wlad yn dilyn y Datganiad Annibyniaeth.⁵⁵

I sawl grŵp ethnig, gweithredai'r capel fel canolbwynt i'r treflannau mewn ystyr gymdeithasol a diwylliannol, yn ychwanegol at fod yn fannau addoliad:

The important thing was that a place existed where the mother tongue was spoken, where one's compatriots gathered from miles around, where customs were familiar.⁵⁶

Roedd yn ffocws gweithgarwch y gymuned fel man cyfarfod i nifer o gymdeithasau ac yn lle i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau nad oeddent o reidrwydd yn grefyddol eu naws:

Religion was not just a one-day-a-week chore. Chapels and churches reverberated throughout the week to the cheery noise of reading classes, Bible discussion groups, missionary society talks and lectures, singing practices and performances, penny reading, theatrical productions and the magical moving images of magic-lanterns. Religion used entertainment to reinvigorate its central messages.⁵⁷

⁵³ Hobsbawm, E.J. (1990) *Nations and nationalism since 1780: Programme, myth, reality*, Cambridge University Press, t.69. Mae Smith, Anthony (1991) *National Identity*, Penguin: London, t.6, hefyd yn lladmerydd brwd dros bwysleisio'r cysylltiad rhwng hunaniaeth ethnig a chrefyddol, a'i ffocws yn bennaf ar leiafrifoedd. Er iddo gydnabod fod hunaniaeth yn trawsnewid ei ffurf yn barhaus ac yn gorgyffwrdd ag elfennau eraill, mae'n gredwr cryf fod crefydd yn un ffactor yn y cysyniad o greu hunaniaeth genedlaethol. Hefyd gw. Jenkins, Daniel (1975) *The British: Their Identity and their religion*, SCM Press: Gloucs; Pope, Robert (2001) *Religion and National Identity: Wales and Scotland, c.1700-2000*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.

⁵⁴ Morgan, Prys & Thomas, David (1984) *Wales: The Shaping of a Nation*, David & Charles: London; Bodnar, John, *Transplanted*, t.144; Van Vugt, William.E. (2006) *British Buckeyes: The English, Scots and Welsh in Ohio, 1700-1900*, Kent State University: Kent, Ohio, t.223; Edwards, Ebenezer (1899) *Welshmen as Factors*, T.J.Griffiths: Utica; Hastings, Adrian (1997) *The Construction of Nationhood: Ethnicity, Religion and Nationalism*, Cambridge University Press, t.186. Ceir trafodaeth hylaw yma am y berthynas rhwng crefydd a chenedligrwydd, ond cyfeiria at Loegr, yr Alban a'r Iwerddon, heb sôn am Gymru.

⁵⁵ Brock, William (1975) *The United States, 1789-1890*, Cornell University Press: Ithaca, New York, t.257.

⁵⁶ Hansen, Marcus Lee (1940) *The Immigrant in American History*, Harvard University Press: Cambridge, t.136-7. Hefyd gw. Turner, Christopher (1988) *The Nonconformist Response*, yn (gol) Trevor Herbert & Gareth Elwyn Jones, *People and Protest: Wales 1815-1880*, Cardiff University Press, t.77-80: "During its formative years it was unarguably a movement from below. Chapels became the means by which ordinary people organized their lives. They were social centres providing access to literary and musical entertainment..."; Evans, D. Gareth (1989) *A History of Wales, 1815-1906*, University of Wales Press: Cardiff, t.242: "Nonconformity had triumphed in the early and middle part of the century largely for the reason that it was not 'wholly' religious. It had brought all kinds of activities, cultural, theological, and recreational under the umbrella of religion, and under the chapel and vestry roof. Music, drama, poetry and even sport, had no separate existence as the chapels assumed an ever-growing cultural role."

⁵⁷ Davies, Russell (2005) *Hope and Heartbreak: A Social History of Wales and the Welsh, 1776-1871*, University of Wales Press: Cardiff, t.350.

Yn y cyfnod hwn, disodlwyd dylanwad yr eglwys wladol ar y Cymry gan rym ysgubol Anghydfurfiaeth, a gafodd effaith bellgyrhaeddol ar feddylfryd y genedl oherwydd ei apêl i'r bobl gyffredin.⁵⁸ Daethai'r capel o'r herwydd yn angor i'r gymdeithas ac yn rhan o ffordd o fyw i'r Cymry a wasanaethai eu hanghenion arbennig, ac a oedd yn rhan naturiol o'u Cymreictod oherwydd iddo ddeillio o'r awydd i addoli yn eu mamiaith:

...most Welsh people lived their lives within the orbit of, or in reaction to, the chapels. Their literacy, their world outlook, increasingly their politics, were deeply affected by the morality of the chapel, its often cramped narrowness and its often sweeping spiritual vision...⁵⁹

O'r herwydd, ymdreiddiodd yr argyhoeddiad crefyddol hwn i wahanol agweddau ar eu bywydau.⁶⁰ Bu'r deffroadau hyn yn gyfrifol am chwyldroi natur a golygon y Cymry, gan gynyddu eu moesoldeb a'u hymlyniad at grefydd, a daeth yn un o brif fynegbyst eu cenedligrwydd yng Nghymru ac yn y cymunedau diasporaidd.⁶¹

Ernes o'u sêl grefyddol yw mai un o flaenoriaethau'r treflannau Cymreig yn aml iawn oedd adeiladu capel yn fuan ar ôl ymsefydlu a hwnnw'n cynnig gwasanaethau yn eu mamiaith, tuedd a oedd hefyd yn nodweddiadol o genhedloedd eraill ac un a oedd yn ddilyniant i'r cynnydd aruthrol a welwyd eisoes yng Nghymru.⁶² I nifer, roedd yn ffordd o

⁵⁸ Davies, John (2007) *Hanes Cymru*, Penguin Books: London, t.328. Amcangyfrifir fod capel yn cael ei adeiladu bob wyth niwrnod yng Nghymru, a ddengys graddfa'r twf aruthrol. Adeiladwyd cyfanswm trawiadol o 2,813 o gapeli yng Nghymru yn ystod hanner cyntaf y ganrif yn unig.

⁵⁹ Williams, Gwyn A (1985) *When was Wales?* Black Raven Press: London, t.206.

⁶⁰ Davies, Russell, *Hope and Heartbreak*, t.324; Davies, John (2007) *Hanes Cymru*, Penguin Books: London, t.328-9: "Reality was bent into shape by means of one of the Welsh people's favourite sedatives, religion. The years 1776-1871 witnessed a remarkable awakening in the spiritual life of Wales which penetrated and permeated almost every fibre of the fabric of life."

⁶¹ Rhys, John & Brynmor-Jones, David (1900) *The Welsh People: Chapters on their origin, history, laws, language, literature and characteristics*, T. Fisher Unwin: London, t.474; Kinealy, Christine (1999) *A Disunited Kingdom? England, Ireland, Scotland and Wales, 1800-1949*, Cambridge University Press; Lloyd, D. Tecwyn (1987) *Drych o Genedl*, Tŷ John Parry: Abertawe, t.9. "...pe gofynnid i Gymro neu Gymraes gyffredin ym 1850, dyweder, beth a farment hwy oedd bod yn genedl Gymreig, byddai'r ateb ond odid yn ffwdrus a chymysg. Tebyg y sonnid am grefydd ac mai llewyrch achosion crefyddol oedd y prif beth a wahaniaethai'r wlad oddi wrth Loegr neu'r Alban neu'r Cyfandir..."

⁶² Humphreys, Emyr (2000) *The Taliesin Tradition*, Seren: Bridgend, t.193; Daniels, Roger (1990) *Coming to America: A History of Immigration and Ethnicity in America Life*, Harper Collins: New York, t.140; Davies, John (1996) *The Making of Wales*, Alan Sutton: Cardiff.

fyw cyfarwydd na ellid ei adael ar ôl, a gellid tybio bod y sicrwydd y byddai achos crefydd ffurfiol yn y cymunedau hyn yn ysbrydoli nifer i godi pac:

The immigrants in departing had no desire to abandon their religion, and most of them struggled earnestly to reconstruct the familiar ways of worship in the New World. Their attachment was not simply theological; it was as much a matter of form as of substance. Each newcomer wished to see exactly re-created what he had left behind and could not therefore accept the existing churches whether of the native Americans or of other immigrants groups. All established their own.⁶³

Adlewyrchir y pwyslais ar grefydd ac iaith yn y llythyrau a anfonai'r Cymry i'w mamwlad yn rhoi cyngor am ymfudo, a ddengys fod y nodweddion hyn ymysg ystyriaethau pennaf y Cymry wrth adael cartref:

There are three things a Welshman must think about when emigrating, his country, his language, and his religion.⁶⁴

Cynrychiolai hyn fuchedd foesol y Cymry a oedd yn rhan hanfodol o'r patrwm cymdeithasol a darddodd o'r hen wlad, yn ogystal â gweithredu fel magwrfa i ddiwylliant a oedd wedi ei seilio ar yr iaith. Yn hyn o beth, nid oedd y Cymry'n wahanol i genhedloedd eraill yn yr angen am ganolfur sefydlog i warchod eu traddodiadau arbennig:

The need for such religious activity was the constant refrain of endless letters and articles. It was an aspiration showed by other emigrant nationalities; not only because they belonged to an unusually pious generation that yearned for the consolation of religion in a hard and alien environment, but also because their church was the sheet-anchor of their distinctive language and society.⁶⁵

Cynrychiolai'r capel yr elfen geidwadol yn eu hunaniaeth Gymreig yn yr ystyr bod naws gartrefol i'w bresenoldeb yn y treflannau,⁶⁶ ac adlewyrchir ei bwysigrwydd i'w Cymreictod yn nhwf cyflym yr enwadau Anghydfurfiol yn America.

Erbyn yr 1830au, roedd niferoedd digonol o gapeli i sicrhau mudiadau lleol a chenedlaethol, ac amcangyfrifir fod cyfanswm o fwy na 600 o gapeli Cymreig wedi eu ffurfio

⁶³ Handlin, Oscar (1959) *Immigration as a factor in American History*, Prentice Hall Inc: New Jersey, t.77.

⁶⁴ Conway, Alan, *The Welsh in America*, t.124. 'A nice cup of tea in china cups' (T.R.Evans yn Plymouth, sir Carroll, Missouri).

⁶⁵ Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.228-9.

⁶⁶ Park, Robert Ezra (1922) *Immigrant Press and its Control*, Harper and Brothers: New York, t.52.

gan y gwahanol enwadau yn yr Unol Daleithiau yn ystod y ganrif.⁶⁷ Ar ôl ymfudo, ac mewn amodau economaidd mwy ffafriol, gallai'r Cymry fforddio sefydlu capeli i'w gwasanaethu, ac yn aml gwelid capeli gan y Methodistiaid, yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn yr un dref:

...the good pay available to a largely skilled work force permitted them to recreate and sustain a Welsh environment with considerable authenticity.⁶⁸

Sylweddolid bod modd efelychu llewyrch y gwerthoedd Anghydfurfiol a fegid yng

Nghymru:

In their religious faith immigrants recognized almost the only pillar of the old life that had not crumbled in the course of the Atlantic crossing. To it, therefore, they clung both as a means of preserving their identity and as a source of security and solace in a bewildering world.⁶⁹

Roedd arwyddocâd crefydd i genedligrwydd y Cymry yn adlewyrchu ymdrechion

ymfudiadau blaenorol i ail-greu'r diwylliant brodorol drwy feithrin y cysylltiad trawsatlantig

a oedd mor sylfaenol i'r orchwyl:

In the colonial period, religion and ethnicity were important interdependents which tied the Welsh to the old world as well as giving them the background, connections and resources to enable them to flourish in the new.⁷⁰

Yn America fel yng Nghymru felly, deilliai agweddau eang ar Gymreictod o ddylanwad y capel, megis gwyliau diwylliannol, ymgynulladau gwladgarol a'r cynnyrch print.⁷¹ Ymdrechwyd yn galed i greu brawdoliaeth drwy ffurfio cymdeithasau amrywiol, ac roedd dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn flynyddol yn symbol o arwahanrwydd a roddai gyfle i gofio etifeddiaeth y famwlad. Bu'r cyfarfodydd llenyddol a'r Eisteddfodau hefyd yn allweddol yn y frwydr i hybu hunaniaeth Gymreig, gan feithrin doniau'r Cymry yn y celfyddydau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg:

⁶⁷ Evans, D. Gareth, *A History of Wales*, t.63.

⁶⁸ Jenkins, Philip (1992) *A History of Modern Wales, 1536-1990*, Longman: London, t.320.

⁶⁹ Jones, Maldwyn Allen (1960) *American Immigration*, University of Chicago Press, t.136.

⁷⁰ Davies, Hywel.M (1995) *Transatlantic Brethren: Rev. Samuel Jones (1735-1814) and his friends. Baptists in Wales, Pennsylvania and beyond*, Associated University Presses: London, t.276-7. Hefyd gw. Hansen, Marcus Lee, *The Immigrant in American History*, t.83; Owen, Bob (1958) 'Cymry ac Addysg America', *Lleufer*, 14, t.29.

⁷¹ Williams, Gwyn A, *Y Baradwys Bell*, t18.

Significant movements in the future were to strengthen this cultural nationalism, prevent the Welsh from becoming Anglicized, and account for their arrival in America as a distinctive self-conscious ethnic group far different from their British neighbours.⁷²

Roedd yr achlysuron hyn yn fodd i drafod yr hen ffordd o fyw a chadw cysylltiad gyda'r famwlad ar dir estron, ac i raddau helaeth, plannwyd y sefydliadau diwylliannol Cymreig yn ddwfn yn y pridd tramor fel rhan o ymgyrch ymwybodol i gynnal Cymreictod.⁷³ Yn wir, honna Shepperson fod y Cymry'n eithriad i'r norm Prydeinig wrth iddynt arddangos arwahanrwydd eu diwylliant ar sail yr iaith, ac yn hyn o beth ymdebygu i grwpiau o ymfudwyr Ewropeaidd eraill.⁷⁴ Er nad oedd gan y Gymraeg statws ffurfiol, roedd yn wreiddyn i'w diwylliant yn America fel yng Nghymru:

Llifodd ffrwd y bywyd gwir Gymreig y tu allan i'r ysgolion a gadwyd y gorchwyl o nawddogi'r diwylliant brodorol i sefydliadau gwirfoddol ac answyddogol fel yr Ysgol Sul, yr Eisteddfod, y wasg Gymraeg, y Cyfarfod Llenyddol, yn gweithredu heb na chefnogaeth na nawddogaeth o du'r wladwriaeth.⁷⁵

Ohoni llifai dŵr bywiol yr hunaniaeth Gymreig wrth i'r elfennau cymysg ymffurfio i greu ideoleg o genedl. Gwnaeth yr Ysgol Sul ei rhan i hybu llythrennedd a phorthi awch y Cymry am gyhoeddiadau a llenyddiaeth grefyddol, tra bu'r Eisteddfodau a'r cyfarfodydd llenyddol a ddeilliai o'r capel yn fagwrfa werthfawr i'r cynnyrch llenyddol hwn. Bu'r wasg yn enau i'r diwylliant llenyddol a ddatblygai o'r sefydliadau crefyddol a diwylliannol, ac yn eu tro, bu'r peuoedd hyn yn gynhysgaeth i'r iaith a oedd eisoes yn gwllwm i'w dal ynghyd. Roedd y

⁷² Hartmann, Edward, *Americans from Wales*, t.31.

⁷³ Evans, D. Gareth, *A History of Wales*, t.63.

⁷⁴ Jones, Maldwyn.A. (1976) *Destination America*, Weidenfeld & Nicolson: London. Mae hefyd yn amlinellu'r gwahaniaeth rhwng y Cymry a gweddill yr ymfudwyr o Brydain, drwy danlinellu'r prinder papurau newydd, eglwysi a chymdeithasau a oedd wedi eu sefydlu i fodloni'r ymfudwyr Seisnig ac o rannau isaf yr Alban. Yn wahanol i ymfudwyr eraill a rwystrwyd gan yr iaith, gallai'r garfan hon gymhathu'n weddol rhywydd i'r diwylliant Seisnig Americanaidd, gan nad oedd angen sefydliadau arbennig i gynnal eu hunaniaeth a'u hatgoffa o'u hetifeddiaeth. Tila oedd eu hymdrechion, mewn cymhariaeth, i greu diwylliant ar wahân. Methodd eu papurau newydd mewn byr amser oherwydd diffyg darllenwyr, gan fod y wasg Seisnig Americanaidd yn hygyrch iddynt, ac ni fu'n rhaid iddynt sefydlu eu capeli eu hunain gan fod cynrychiolaeth gref o'u henwadau ar y cyfandir mawr. Ar brydiau, sefydlwyd cymdeithasau neilltuol i ymfudwyr Prydenig, ond ni ellid atal yr Americanwyr rhag ymuno â hwy.

⁷⁵ Edwards, D.Miall (1927) *Iaith a Diwylliant Cenedl*, Y Brodyr Hughes: Dolgellau, t.105.

patrwm diwylliannol hwn eisoes yn bod yng Nghymru, a chafodd ei drawsblannu yn America.

(iii) Y wasg gyfnodol Gymraeg.

Nid oedd Cymry'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ddall i rym pellgyrhaeddol y wasg fel cyfrwng cyfathrebu, wrth iddi ddatblygu mewn byr amser i adlewyrchu datblygiadau chwyldroadol a weddnewidiai seiliau'r genedl ['In this rhetorical sense, Wales defined its modernity in its media.']*⁷⁶ Meddai'r wasg y gallu i adlewyrchu amodau byw'r gymdeithas Gymreig a oedd yn trawsnewid yn barhaus,⁷⁷ proses a nodweddi wasg Cymry America maes o law. Cyflawnai swyddogaeth hollbwysig, a chât'r cyfnodolion eu cydnabod fel agwedd allweddol ar fywyd llenyddol y genedl. Nid yw hynny'n syndod o ystyried bod tua phum cant o bapurau newydd gwahanol wedi eu sefydlu yng Nghymru yn ystod bwrlwm newyddiadurol y ganrif, proses a fagodd fomentwm y ystod yr 1820au.⁷⁸ Nid yw'n gyddigwyddiad mai yn yr 1830au y seiniwyd yr alwad am wasg Gymraeg yn America, yn ddrych i'r datblygiadau ymhlith cymunedau Cymreig alltud eraill megis Cymry dinasoedd Lerpwl, Llundain ac Awstralia.⁷⁹

⁷⁶ , Jones, Aled (2000) 'The Welsh Newspaper Press,' in (ed) Edwards, Hywel Teifi, *A Guide to Welsh Literature, 1800-1900, volume 5*, University of Wales Press: Cardiff, t.23.

⁷⁷ Jones, Aled Gruffydd (1993) *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales*, University of Wales Press: Cardiff, t.10. Dadleua fod papurau newydd yn adlewyrchu'r broses o foderneiddio a oedd yn newid natur y gymdeithas Gymreig a esgorodd ar y wasg, ynghyd ag addysg, diwydiant a symud i'r ardaloedd dinesig.

⁷⁸ Jones, Aled, 'The Welsh Newspaper Press,' t.1 e.e. *Y Gwyllydydd, Y Dysgedydd, Lleuad yr Oes, Goleuad Cymru, Y Drysorfa a'r Efenglydd*. Roedd y 30au yn chwyldroaadol i'r wasg Gymraeg oherwydd blagur sefydlu papurau, a'r 50au yn sgil dileu treth stampiau yn 1855. Hefyd gw. Jones, Robert Owen (1997) '*Hir Oes i'r Iaith*': *Agweddau ar hanes y Gymraeg a'r Gymdeithas*, Gomer: Llandysul, t.257-8. Roedd y rhain yn cynnwys 9 chwarterolyn, 95 misolyn, 25 wythnosolyn, a thybia fod cynnwys y cyfnodolion yn cyrraedd tuag ugain person am bob copi a gylchredai. Erbyn diwedd yr 1820au daeth sawl cyfnodolyn i fod, gan gyrraedd penllanw yn negawd y pumdegau. Cyhoeddwyd cyfanswm nodedig o thua 129 o gylchronau gwahanol yng Nghymru rhwng 1800 ac 1857 mewn ymgais i borthi'r newyn am ddeunydd darllen amrywiol, er mai buan y trengodd cyfran sylweddol ohonynt.

⁷⁹ Walters, Huw (1987) *Y Wasg Gyfnodol Gymreig 1735-1900 – arddangosfa 1987 yn y Llyfrgell Genedlaethol*. Gwasg breifat, t.26.

Cyn hyn, gallai Cymry a fedrai'r Saesneg ddarllen *The Old Countryman*, papur wythnosol ar gyfer ymfudwyr o Brydain yn America. Er ei fod yn cynnwys adran ar gyfer newyddion o Gymru fel cenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig, ynghyd â newyddion o weddill y byd, nid oedd yn ddigon i fodloni chwaeth darllen y Cymry yn y wlad dramor.⁸⁰ O'r herwydd, roedd angen dybryd i lenwi'r bwlch gyda chyhoeddiad yn yr iaith Gymraeg a fyddai'n gwasanaethu eu hanghenion newydd:

The Welsh early felt the need of a paper in their own language devoted to the interests of their people in this country. Many of them knew no language but the Welsh and those who spoke English were, but a few of them, able to read the written language. They were as a consequence unable to benefit from the American journals and they found the periodicals from the old country expensive and, as they gave little attention to things in this country, far from satisfactory. A paper was needed which would give the news of both Wales and America.⁸¹

O ystyried bod cyfran helaeth o'r Cymry yn parhau i fod yn uniaith Gymraeg, nid oeddent yn chwenychu newyddion Cymreig ac Americanaidd yn unig; deisyfent yr wybodaeth hon, yn anad dim, drwy gyfrwng eu mamiaith. Mae dadl Aled Jones y câi cynnwys y wasg ei siapio gan anghenion y gymdeithas yn egluro'r duedd hon, ac fel y newidiai seiliau cymunedau Cymry America yn sgil y ffrwd ymfudol parhaus, roedd gofyn i'r wasg addasu i gwrdd â disgwyliadau newydd ei chymuned o gyfranwyr a darllenwyr a ffurfiwyd gan y symudiad rhwng dwy wlad. Mae'n wir bod y wasg yn gyfrwng cyfathrebu allweddol i bob grŵp ieithyddol ac yn nodwedd o'u harwahanrwydd. Eto i gyd, o ystyried presenoldeb lleiafrifol y Cymry yn America, mae natur lewyrchus y wasg Gymraeg ar y cyfandir yn cael ei ystyried yn destun rhyfeddod gan ysgolheigion yn y maes.⁸² Honna Park nad y niferoedd sy'n ddadlennol wrth asesu effaith y wasg ar ymfudwyr o wahanol genhedloedd, ond y ffaith fod aelodau'r genedl wedi sylweddoli'r angen am lais i'w cynrychioli fel grŵp ar wahân:

⁸⁰ Evans, Paul De Mund, *The Welsh in Oneida County, New York*, t.17. Er bod asiant yn gwerthu'r papur yn Utica ble'r oedd nifer o Gymry wedi ymsefydlu, mae'n annhebyg fod y cylchrediad yn uchel yn eu plith.

⁸¹ Ibid, t.17.

⁸² Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.229.

As long as there are people in this country who have common racial or nationalist interests; they will have papers to interpret events from their own peculiar point of view.....The press has become an organ of speech. Every group has its own.⁸³

I ateb y diben hwn, cyhoeddwyd cyfanswm trawiadol o bump a thrigain o gyfnodolion, cylchgronau neu bapurau newydd Cymraeg amrywiol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn yr Unol Daleithiau. Er mai byrloedlog oedd y mwyafrif, ffynnodd rhai cylchgronau'n rhyfeddol.⁸⁴ Yn gyffredinol, y cylchgronau diwinyddol a'r newyddiaduron a fyddai'n sefyll yn gadarn am amser hir, tra byddai'r cyhoeddiadau llenyddol neu arbenigol yn trengi'n gyflym.⁸⁵ Sefydlwyd nifer o bapurau newydd a chylchgronau i wasanaethu'r Cymry yn ninas Utica yn nhalaith Efrog Newydd, a fyddai maes o law yn gadarnle i'r byd cyhoeddi Cymraeg.⁸⁶ Nid oedd yn syndod i'r wasg fwrw ei gwreiddiau mewn daear ffrwythlon yma, o ystyried y câi'r ddinas ei chydabod yn gynyddol fel canolfan ddiwylliannol i Gymry America.⁸⁷

Fel y tyfodd cymunedau Cymreig yn America yn sgil ymfudo cynyddol o'r hen wlad, cynyddodd brwdfrydedd sawl Cymro chwilfrydig i fentro i fusnes y diwydiant cyhoeddi. Amcangyfrifir fod 15-20,000 o Gymry yn Utica a'r cyffiniau erbyn 1860, cynnydd dirfawr

⁸³ Park, Robert Ezra, *Immigrant Press and its Control*, t.12-13.

⁸⁴ Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*. Ni oroesodd nifer o'r cyhoeddiadau hyn yn hwy na phum mlynedd, sy'n adlewyrchu natur fregus y byd cyhoeddi cyfnodol yn ystod y ganrif. Cyhoeddwyd cannoedd o lyfrau yn ystod y ganrif.

⁸⁵ Hartmann, Edward, *Americans from Wales*, t.127.

⁸⁶ Knowles, Anne Kelly, *Calvinists Incorporated*, t.25. O'i gymharu, roedd gan Gymru 30 o gyfnodolion yn ffynnu erbyn 1870, y rhan fwyaf o natur grefyddol, a sawl papur newydd yn eu gwasanaethu. Hefyd gw. Mayo, Patricia Elton (1974) *The Roots of Identity: Three National Movements in Contemporary European Politics*, Allen Lane: London; Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.142. Yn ôl ffynhonnell arall, cyhoeddwyd 13 o chwarterolion a misolion yng Nghymru, ynghyd â chwe phapur newydd yng Nghymru erbyn 1855, i gyd yn yr iaith Gymraeg. gw. Jones (1855) *Appendix – Historical Sketch of The St David's Benevolent Society of the cities of New York and Brooklyn*, supplied by a member.

⁸⁷ Thomas, R.D., *Hanes Cymry America*, t.81. Sefydlwyd eglwys y Trefnyddion Calfinaidd yn Utica yn ystod yr 1830au, a froliai gynulleidfa o 450 hyd yn oed yn ei ddechreuad. Amcangyfrifir fod 3,000 o boblogaeth y ddinas o 30,000 yn Gymry, sy'n awgrymu presenoldeb cryf y genedl yn y ddinas. Hefyd gw. Evans, Paul De Mund, *The Welsh in Oneida County*. Ychwanega fod sir Oneida yn ganolfan allweddol i'r byd cyhoeddi Cymraeg yn America ers y dechrau, gan fod y mwyafrif o gyfnodolion, llyfrau a phamffledi Cymraeg y cyfandir wedi eu cyhoeddi yn ardal Utica. Roedd hyd yn oed y cyhoeddiadau a gynhyrchwyd mewn ardal arall yn denu tanysgrifwyr o sir Oneida, a nifer o'r rhain hyd yn oed yn meithrin cysylltiadau gyda chyhoeddi yn y sir hon. Am fraslun o hanes y Cymry yn y ddinas gw. Ellis, David M. (1981) 'The Welsh in Utica', *Transactions of Honourable Society of Cymmrodorion*, t.127-37.

mewn deugain mlynedd.⁸⁸ Gwelwyd ymdrechion byrhoedlog i sefydlu papurau newydd yn rhychwantu pynciau eang, gan gynnwys cyhoeddiadau i ddibenion yr Ysgol Sul ac ar gyfer plant, cylchgronau gwleidyddol, llenyddol ac addysgiadol.⁸⁹ Cynrychiolai'r pedwardegau a'r pumdegau oes aur y wasg Gymraeg ar y cyfandir, fel yng Nghymru, ac mae'r ffaith i'w datblygiad gyd-fynd ag ymdrechion grwpiau mwy niferus fel y Gwyddelod a'r Almaenwyr i gynhyrchu diwylliant print llewyrchus yn dyst diamheuol i frwdfrydedd y Cymry yn y byd cyhoeddi, er gwaetha'r ffaith mai bychan oedd eu niferoedd mewn cymhariaeth.⁹⁰

Y cyfnodolyn cyntaf yn America i arddel y famiaith yn y cyfnod oedd *Cymro America*, cyhoeddiad pythefnosol dwyieithog a gyhoeddwyd yn ninas Efrog Newydd yn 1832. Cynhwysai newyddion tramor a chenedlaethol a mynega farn ar bynciau'r dydd, ond methiant fu ei hanes ar ôl deuddeg rhifyn.⁹¹ Bu gwasg gyfnodol Gymraeg yr Unol Daleithiau yn hesb tan ddiwedd y degawd, ond yn 1838 torrodd gwawr newydd yn ei hanes pan

⁸⁸ Howell, Llewelyn.D., *Traithawd ar ddechreuad a chynnydd y Cymry yn Utica a'i hamgylchoedd*, t.29.

⁸⁹ Evans, Paul De Mund, *The Welsh in Oneida County*, t.19. Gwelwyd ymgeisiau byrhoedlog i sefydlu papurau newydd megis yr *Haul Gorllewinol* yn 1852, a'r *Gwlyiedydd Americanaidd* yn 1854, ac yn 1855 cyhoeddwyd papur wythnosol addawol yn ninas Efrog Newydd, *Y Cymro Americanaidd* a gyhoeddwyd gan gyn-olygydd y *Drych*, John.M.Jones. Papurau eraill na oroesodd am gyfnod hir na wyddom lawer amdanynt yw *Baner y Bobl* ac *Y Negesydd* yn y 1860au, *Y Bardd* yn y 1850au yn ogystal ag *Y Brython*, *Cyfaill yr Aelwyd* a *Tarian y Bobl*. Ymgeisiwyd hefyd i sefydlu cylchgronau llenyddol e.e. *Haul Gomer* yn Utica yn 1847, a gyhoeddwyd fesul deufis gan Evan.E.Roberts. Blwyddyn fu ei oes oherwydd diffyg cefnogaeth, er gwaethaf sylwadau canmoladwy, a golygwyd y golofn farddol gan fardd adnabyddus ymhlith Cymry America, Eos Glan Twrch. Hefyd – *Y Detholydd* rhwng 1850-2, misolyn llenyddol gan Everett & misolyn *Y Cylchgrawn Cenedlaethol* yn 1853 yn Efrog Newydd, a olygwyd gan John.M.Jones, a ail-ddefnyddiai ddarnau o gyfnodolion Cymru yn helaeth. Am restr eithaf cyflawn a manylion am gyhoeddiadau'r wasg Gymraeg yn America, gw. Thomas, R.D., *Hanes Cymry America*, rhan 1, t.47. Ceir trafodaeth bellach am sefydlu cyhoeddiadau amrywiol i fodloni'r genedl mewn 'Ymddiddan rhwng Gruffydd a Morgan mewn perthynas i gylchgronau Cymreig tua 1822.' *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1839.

⁹⁰ Jones, Maldwyn Allen, *American Immigration*. Oherwydd tlodi ac anllythrennedd, roedd gweisg rhai ymfudwyr yn araf i fwrw gwreiddiau, er enghraifft gwasg y Gwyddelod yn America, a oedd yn ansefydlog tan i ymchwydd ymfudol y 40au a'r 50au gynyddu darllenwyr. Collai'r wasg Almaenig yn America ei thir yn hanner cyntaf y 19eg ganrif, ond profodd adfywiad yn ystod yr 1830au a sicrhodd ei bod yn hirhoedlog, gan gyrraedd penllanw yn yr 1840au.

⁹¹ Evans, Paul De Mund, *The Welsh in Oneida County*. Cychwynnwyd y fenter gan J.A.Williams (Don Glan Towy), ond ni wyddys llawer am y papur gan nad oes nifer o rifynnau wedi goroesi, ar wahân i'r ffaith iddo gael ei gyhoeddi yn gyfangwbl yn Gymraeg i ddechrau, ac yna'n ddwyieithog. Cynhwysai newyddion cyffredinol am y genedl, megis rhestr farwolaethau, priodasau a genedigaethau, yn ogystal â cholofn farddol. Honna T. M. Jones ei fod wedi trengi oherwydd rhesymau economaidd, gan fod y salwch cholera wedi effeithio masnach yn Efrog Newydd. Gw. Jones, T. M. (1893) *Llenyddiaeth fy ngwlad*, P. M. Evans: Treffynnon, t204-5. Hefyd gw. Walters, Huw (1987) *Y Wasg Gyfnodol Gymreig 1735-1900 – arddangosfa 1987 yn y Llyfrgell Genedlaethol*, Gwasg breifat, t.28.

ddechreuwyd cyhoeddi *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, cyfnodolyn a oedd i newid y tirlun print yn gyfan gwbl. Misolyn o natur grefyddol ydoedd, a sefydlwyd gan William Rowlands, gweinidog blaenllaw gyda'r Methodistaidd Calfinaidd. Cynrychiola'r *Cyfaill* ymgais lwyddiannus gyntaf Cymry America i sefydlu cyfnodolyn ar gyfer y genedl yn gyfan gwbl yn y famiaith, gweithred a esgorodd ar gyfnod toreithiog i'r wasg Gymraeg ar y cyfandir. Roedd yn fenter a fyddai'n gwasanaethu'r genedl yn America drwy gydol y ganrif, ac, yn rhyfeddol, hyd at yr ugeinfed ganrif a'r flwyddyn 1933.

(iv) William Rowlands .

Un o brif arweinwyr y wasg Gymraeg yn America oedd William Rowlands, sylfaenydd y *Cyfaill*. Syndod yw canfod mai yn Llundain y cafodd ei eni yn 1807, a'i fagu ar aelwyd ddi-Gymraeg. O Dregaron y deuai ei rieni; ac ni ddysgodd yr iaith nes iddo orfod symud i Dregaron i fyw at berthnasau yn ddiweddarach yn ystod ei blentyndod, ac eironig yw'r ffaith iddo gael ei ddychanu gyda'r enw 'Bili Sais' o ystyried ei fod wedi ymroi i wasanaethu'r genedl a'r iaith am weddill ei oes. Bu'n olygydd i'r cyhoeddiad am 29 o flynyddoedd, hyd ei farwolaeth yn 1866.

Yn rhyfeddol hefyd, ni chafodd ychwaith ei fagu ar aelwyd grefyddol, er iddo ddod yn weinidog blaenllaw gyda'r Methodistaidd Calfinaidd a'u gwasanaethu am 41 o flynyddoedd.⁹² Er nad oedd amgylchiadau bore ei oes yn cyd-fynd â thrywydd ei yrfa, gellir priodoli nifer o nodweddion ei olygyddiaeth i ddylanwadau a brofwyd ganddo cyn ymadael â Chymru.⁹³

Er nad oedd yr un o'i rieni o anian grefyddol, dywedir bod William Rowlands yn 'gweddio Duw mewn dirgel leoedd' ac yn derbyn 'argraffiadau crefyddol' dwys er pan oedd

⁹² Powell, Parchedig Howell (1873) *Cofiant y diweddar Barchedig William Rowlands, D.D., Utica Efrog Newydd*, Mrs Catherine Rowlands: Utica, NY.

⁹³ Ibid.

yn ifanc. Wedi i'w rieni farw, roedd ei lysdad, dyn annuwiol, yn mynd ag ef i gyfarfodydd dawnsio gyda'r nos ac yn ei orfodi i gysgu yn y cloddiau gydag ef pan oedd yn feddw, arferion a oedd yn 'wasgfa' ar ei feddwl ac yn peri 'dychrynfeydd cydwybod' iddo, sy'n brawf pellach o'i ymwybyddiaeth grefyddol yn ystod ei ieuentid.

Yn 1820, o dan nawdd ei ewythr, fe'i hanfonwyd i ysgol Ystradmeurig a hyfforddai fechgyn ar gyfer bod yn offeiriaid yn yr Eglwys Sefydledig. Fodd bynnag, perai arferion llygredig ei gyd-ddisgyblion ofid mawr iddo, a chyn hir dechreuodd wrando pregethau yng nghapel y Trefnyddion Calфинаidd yn Swyddffynnon. Ymbellhaodd oddi wrth yr eglwys, gan adael Ystradmeurig yn 1822, yn groes i ddymuniadau ei berthnasau.

Mae'r ffaith iddo bechu ei deulu er mwyn dilyn y Methodistiaid yn awgrymu cryfder y dynfa i'w gwasanaethu. Aeth i athrofa Llangeitho, ynghanol y 'Jerusalem Fethodistaidd,' lle yr addysgwyd aelodau blaenllaw o'r enwad megis y Ebenezer Richard a Lewis Edwards, a chafodd William Rowlands hefyd fanteisio ar ffrwyth llafur yr athro John Jones (Glanleri). Yn ôl ei gofiannydd, Howell Powell, dywedir ei fod yn dysgu'n gyflym a bod gan yr athro feddwl mawr ohono wrth iddo weddio'n gyhoeddus yn yr ysgol. Erbyn iddo adael yr ysgol yn 1824, fe'i hystyrid yn ysgolhaig medrus.⁹⁴ Yn 1823, fe'i derbyniwyd yn gyflawn aelod o gapel y Trefnyddion Calфинаidd yn Llangeitho, a hynny ar yr un adeg â Thomas Jenkins a fyddai'n gyd-olygydd y *Cyfaill* ymhen blynnyddoedd. Yma, teimlodd effeithiau crefydd yn ddwys a phrofi'r angerdd cynharaf am wybodaeth drwy ddarllen a myfyrio. Yn ogystal, daeth i'w ran brofiadau ysbrydol dwfn a ysgogwyd gan Mary Deubit, hen wraig a oedd yn byw ar ei phen ei hun. Pan fyddai'n ymweld â'i thŷ, byddai'n darllen y Beibl iddo, yn gweddïo drosto ac yn rhoi cyngor crefyddol iddo, nes ei fod o dan deimlad mawr.⁹⁵ Roedd gan y teulu hefyd gysylltiad pellach â'r Methodistiaid gan fod eu hachos yn Llanddewibrefi wedi cychwyn yn nhŷ ewythr ei fam, Thomas Jones, Pant-bach. Daeth William Rowlands, yn ei

⁹⁴ Ibid, t.27.

⁹⁵ Ibid, t.31-3.

dro, yn brif arweinydd y cyfarfod gweddi a'r seiat yn yr achos hwn. Yn 1824, ymadawodd â Cheredigion gan fynd yn athro ysgol i ardal Merthyr Tydfil ac yna yn Nantyglo. Yn fuan wedyn dechreuodd bregethu a chafodd brofiad i genhadu ar ran y Methodistiaid Calфинаidd yn rhai o siroedd y gororau.

Cyn i William Rowlands ymfudo i America, magodd ddiddordeb dwfn ym myd cyhoeddi wedi iddo brynu argraffwasg Richard Jones ym Mhontypŵl yn 1829, a dysgu crefft yr argraffydd, y llyfr-rwymydd a'r llyfr-werthydd. Diddordebau masnachol a'i cymhellodd i ddechrau, ond daeth y fasnach yn sylfaen i'w ddiddordeb ysol mewn llyfrau a chyhoeddiadau, ac yn sylfaen i'w yrfa yn y dyfodol. Un o'i gyhoeddiadau cynharaf oedd cylchgrawn yr *Athraw* a fwriadwyd ar gyfer disgyblion yr ysgolion Sul.⁹⁶

Er ei fod yn bregethwr addawol gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, mwynhai brysurdeb y byd masnach, ac arwydd pellach o hynny oedd y ffaith iddo ddod yn gyd-berchennog glofa Coed Duon ac agor siop yno. Yn 1832, cafodd ei urddo i'r weinidogaeth yng Nghymdeithasfa Llangeitho. Fodd bynnag, daeth caledi i'w ran yn 1833 pan aeth yn fethdalwr a cholli ei holl eiddo ar ôl cael ei dwyllo gyda'r busnes glo yn y Coed Duon. O ganlyniad i hyn, cafodd ei atal rhag pregethu. Ychydig yn ddiweddarach, bu farw ei wraig a'i blentyn, treialon a drodd ei olygon tuag America. Fel y dywed yn ei ddyddlyfr:

Yr ydwyf yn bresenol mewn tywydd mawr – o ran fy meddwl yn derfysglyd iawn. Y mae arnaf fwy o chwant myned i America nag a fu erioed. Pe gwybyddwn fod llais yn y pethau hyn i fy ngyru tuag yno, awn yn ewyllysgar; ond y mae arnaf ofn weithiau mai dianc oddiar ffordd y wialen sydd yn fy ngolwg; ac eto y mae rhyw duedd ynof am wasanaethu fy nghenedlaeth; y mae yn amser y cynhauaf, ni ddylai neb fod yn segur.⁹⁷

⁹⁶ Walters, Huw (1993) *Llyfryddiaeth Cylchgronau Cymreig 1735-1850*, Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Aberystwyth, t.6.

⁹⁷ *Ibid*, t.225.

Efallai'n wir fod y dynfa i'r cyfandir yn ei waed gan ei fod o'r un teulu â Rowland Selby o blwyf Tregaron a ymfudodd yno yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg, a diau y byddai'n ymwybodol o gyfraniad disgynyddion Selby i'r wlad.⁹⁸

Wrth reswm, cymhelliad amlwg arall dros ymfudo oedd erledigaeth aelodau o'r Cyfundeb a chosb yr eglwys am y ddyled a ddeilliodd o'i fethiant ariannol. Yn America, roedd 'llais cyffredinol a pharhaus...am weinidogion yr efengyl,'⁹⁹ a derbyniodd alwad ffurfiol gan eglwys y Trefnyddion Calфинаidd yn nhalaith Efrog Newydd ar sail argymhellion gan nifer o'i gymdeithion a wyddai am ei allu a'r awydd ynddo am anturiaeth newydd yn America.¹⁰⁰

Glaniodd yn ninas Efrog Newydd yn ystod haf 1837, a derbyniodd groeso brwd wrth i tua deugain o aelodau eglwys y Methodistiaid Calфинаidd ymweld ag ef ar ei noson gyntaf.¹⁰¹ Ni fu'n ymarhous cyn ymroi i'w waith efengylu yn America, wrth iddo bregethu drannoeth ei laniad, a gwnaeth gryn argraff ar ei eglwys a sicraodd dderbyniad gwresog ymhlith sawl cymuned Gymreig arall. Wrth i'r sôn amdano ledaenu. Mae'n amlwg, fodd bynnag, nad fel dechrau newydd yr ystyriai William Rowlands y cam hwn. Ac ystyried ei eiriau wrth gyrraedd America, roedd elfen o barhad i'r cwbl:

Yn awr, ffarwel Brydain, ffarwel Gymru, ffarwel gwlad fy ngenedigaeth, gwlad fy nhroedigaeth, a gwlad fy ngalwedigaeth i'r hoff waith o bregethu anchwiliadwy olud Crist.¹⁰²

O ystyried ei fedrusrwydd cynhenid yn y Saesneg, ei iaith gyntaf, gallai fod wedi gweinigogaethu yn 'eglwysi lluosocaf a chyfoethocaf y wlad,' ac er gwaethaf teimladau surion pan adawodd Cymru, parodd ei ymrwymiad i'r 'Hen Gorff' ei fod yn arddel yr

⁹⁸ Ibid, t.18-19: Roedd mab Rowland Selby wedi dod yn Gadben Evan Selby, ac o'r un teulu deuai'r Cadfridog Isaac Selby a fu'n rhan o'r Rhyfel Annibyniaeth. Selby oedd yr enw a ddefnyddiai'r awdures Stowe ar gyfer ei chymeriadau yn y nofel arloesol 'Caban F'Ewyrth Twm' yn yr 1850au.

⁹⁹ Ibid, t.225.

¹⁰⁰ Ibid, t.228.

¹⁰¹ Ibid, t.238.

¹⁰² Ibid, t.234.

alwedigaeth i wasanaethu'r Cymry yn eu mamiaith.¹⁰³ Atega ei gofiant fod nifer yn ninas Efrog Newydd, lle yr ymgartrefodd i ddechrau, wedi ymbellhau oddi wrth eu Cymreictod, ond 'glynodd ef i wasanaethu ei genedl,' oherwydd yr 'awydd angerddol am eu crefyddoli a'u dyrchafu yn mhob rhinwedd.'¹⁰⁴ Serch hynny, roedd agwedd genhadol ei weinidogaeth yn golygu ei fod hefyd yn pregethu yn Saesneg i'r Americanaid ac yn teithio'n helaeth, ac felly'n croesi ffiniau ieithyddol a daearyddol yn y dasg o ledaenu'r efengyl.¹⁰⁵

Yn sgil ymfudo cynyddol o'r hen wlad, roedd angen taer am arweinwyr i'r gymdeithas newydd, ac ufuddhaodd William Rowlands, ymhlith eraill, i'r alwad. Teithiodd o amgylch nifer o'r treflannau Cymreig yn nhaleithiau Efrog Newydd, Pennsylvania ac Ohio bron yn syth ar ôl ymfudo ac yn ystod y flwyddyn ganlynol. Ymchwiliodd yn drwyadl i'w sefyllfa a chymryd y cyfle i ledaenu'r Gair. Ond roedd yr ymweliadau hyn yn gyfle hefyd i fraenaru'r tir ar gyfer cyfnodolyn er budd y Cymry:

Yr oedd yn mryd Rowlands cyn iddo ymadael â Chymru wasanaethu ei gydgenedl yn America, drwy lafur llenyddol; ac yn y flwyddyn 1837, ymgwymerodd â'r daith fawr baratoadol ar ddwyn cylchgrawn misol allan. Cafodd allan fod y genedl yn awyddus am gyhoeddiad cyfnodol.¹⁰⁶

Synhwyrodd ddymuniad dwys am gyfnodolyn yn eu mamiaith ymhlith y Cymry alltud, ac roedd yn argyhoeddedig na fedrai'r eglwys gyflawni ei chenhadaeth yn gyflawn heb gyfrwng o'r fath. Dychwelodd i ddinas Efrog Newydd yn fuan i roi ei gynlluniau ar waith, wedi sicrhau nifer o gefnogwyr brwd a goruchwylwyr cynorthwyol i'r misolyn yr oedd â'i galon ar ei sefydlu.

Mae'n deg, felly, ystyried William Rowlands yn brif arloeswr gwasg gyfnodol Gymraeg yr Unol Daleithiau. Nid ar hap y sefydlodd y *Cyfaill* yn America, gan fod ganddo eisoes brofiad o fwrlwm twf y wasg yng Nghymru ar y pryd, fel yn achos golygyddion

¹⁰³ Williams, Jay G (1993) *Memory Stones: A History of Welsh-Americans in Central New York and their churches*, Purple Mountain Press: Fleischmanns, New York.

¹⁰⁴ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.241.

¹⁰⁵ Ibid, t.318.

¹⁰⁶ Ibid, t.391.

diweddarach yn America.¹⁰⁷ Fel y nodwyd, fe'i paratowyd at y byd cyhoeddi gan brofiad sefydlu misolyn bychan, *Yr Athraw*, at wasanaeth yr Ysgol Sul yng Nghymru,¹⁰⁸ a dengys hyn y cysylltiad agos rhwng pregethwyr a'r diwylliant print.¹⁰⁹

Fel golygydd a chyhoeddwr yr *Athraw*, cafodd William Rowlands flas o'r hyn y dylai cyfnodolyn ei gynnig a chyfle i hogi ei grefft fel newyddiadurwr, ac awgrymir gan ei gofiannydd i'r cylchgrawn gael derbyniad croesawus a chylchrediad eang.¹¹⁰ Yn wir, dyma ragflas o'r math o ganmoliaeth a fynegwyd yn gyson am y *Cyfaill* maes o law.

Ystyrid golygyddion a phregethwyr yn ddynion o statws uchel yng nghymdeithas y cyfnod, ac mae eu rhestru ymhlith 'enwogion Cymreig America' gan Iorthryn Gwynedd yn awgrymu'r pwys a roddid ar y ddwy alwedigaeth a'u gwasanaeth i'r gymuned Gymraeg yn America:

Gan mai y pwlpudd a'r wasg yw y ddau offeryn mawr er gwareiddio ac efengyleiddio y byd, mae o annhraethol bwys pa fath ddynion a ddringa i'r pwlpuddau, ac a eistedda yn y cadeiriau golygyddol, i olygu ein newyddiaduron a'n cylchgronau. Ystyriwn fod y swydd olygyddol i'w rhestru yn agosaf at weinidogaeth fawr yr efengyl. Dylai pob *golygydd* fod yn ddyn dysgedig, o gymeriad da, yn feirniad craffus yng ngwahanol ganghenau llenyddiaeth, yn hollol ddiduedd a gonest, ac o chwaeth goethedig.¹¹¹

Dyma ddisgrifiad addas o waith William Rowlands ac eraill yn America yn cyfuno dyletswyddau gweinidogol a golygyddol. Yn ôl Jones, roedd pwysigrwydd y wasg fel sefydliad diwylliannol i ymfudwyr yn gyffredinol yn gyfartal â'r eglwys, ac roedd yn

¹⁰⁷ Hunter, Jerry (2007) *I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn erbyn Caethwasanaeth Americanaidd*, Gwasg Carreg Gwalch: Llanrwst. Roedd Robert Everett, golygydd y *Cenhadwr*, hefyd yn ymhel â'r byd cyhoeddi yng Nghymru cyn ymfudo, ac yn rhannol gyfrifol am olygu a chyhoeddi cylchgrawn yr Annibynwyr, *Y Dysgedydd*, gweithgaredd a oedd yn 'rhagweld agweddau ar ei yrfa yn yr Unol Daleithiau.'

¹⁰⁸ Lloyd, Syr John Edward et al (1953) *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940*, Bedford Square: Llundain, t.842.

¹⁰⁹ Roberts, Parchedig Gomer Morgan (1973) *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru: cyfrol 1, Y Deffroad Mawr*, Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd: Caernarfon. Sefydlodd Griffith Jones, Llanddowror ysgolion cylchlynol yn y ddeunawfed ganrif fel modd i roi addysg Gymraeg i'r Cymry uniaith anlythrennog. Roedd Ysgolion Sul y Methodistiaid hefyd yn hwb i gynydd llythrennedd drwy ddiwyllio'r aelodau gyda chynnyrch print crefyddol yn yr iaith Gymraeg, sy'n darlunio'r cyswllt rhwng crefydd, llythrennedd a'r byd cyhoeddi.

¹¹⁰ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.160.

¹¹¹ Thomas, R.D., *Hanes Cymry America*, t.42. Cyfeiria hefyd at Gymry a oedd yn golygu papurau'r *New York Mirror*, *The New World*, *Utica Morning Herald*, ac *Yale Literary Magazine*, sy'n awgrymu fod mwy nag un Cymro wedi mentro i'r gadair olygyddol yn America.

ddisgwylidig iddynt sefydlu gwasg a chapeli yn fuan ar ôl glanio fel mynegiant o'u cenedligrwydd.¹¹²

(v) *Y Cyfaill o'r Hen Wlad.*

Daeth rhifyn cyntaf *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* o wasg argraffu William Osborn yn ninas Efrog Newydd ym mis Ionawr 1838. Trwytho'r Cymry mewn dysgeidiaeth grefyddol oedd ei brif amcan yn unol â phatrwm y wasg enwadol Gymraeg, ond yn wahanol i'w gymrodyr yn yr hen wlad, nid gwasanaethu athrawiaeth ei olygydd oedd pwrpas y misolyn newydd hwn. Er mwyn sicrhau gwerthiant digonol, roedd yn rhaid i'r golygydd wasanaethu cenedl y Cymry yn gyffredinol yn yr Unol Daleithiau mewn nifer o feysydd, tuedd sydd yn nodweddu gweisg trefedigaethau Cymreig eraill yn y cyfnod yn ogystal.¹¹³ Roedd cyhoeddiadau o'r fath hefyd yn adnoddau diwylliannol a oedd yn atgynhyrchu ystyron cenedligrwydd, cymhelliad a welid yng Nghymru ac yn America fel ei gilydd, ac a ddengys y gorgyffwrdd helaeth rhwng y ddwy wlad. Roeddynt hefyd yn nodweddiadol o weisg eraill a phapurau newydd ymfudwyr o wahanol genhedloedd a'u hymdrech i sicrhau parhad yr iaith gysefin a sefydliadau diwylliannol y genedl, yn unol ag ethos grefyddol benodol.¹¹⁴ Swyddogaeth y wasg yn y cyfnod oedd rhoi arweiniad cymdeithasol, moesol a diwylliannol i'w darllenwyr, ac felly adlewyrchid hunaniaeth y genedl yn y peuoedd hyn y ddwy ochr i'r Iwerydd. Yn ogystal â chyfleu a chynrychioli hunaniaeth, rhoddodd y wasg fynegiant i fywiogrwydd diwylliannol y Cymry drwy gyfrwng dadleuon crefyddol a gwleidyddol yn ogystal.¹¹⁵

¹¹² Jones, Maldwyn Allen, *American Immigration*.

¹¹³ Tyler, Robert (2008) 'Y Wasg Gymraeg yn Nhrefedigaeth Awstralia,' *Llafur*, cyfrol 10, rhif 1, t.21-32. Roedd gan olygyddion y wasg Gymraeg yn Awstralia gymhellion ehangach na swyddogaeth grefyddol yn unig, gyda'r amcan o 'wasanaethu ein cenedl mewn llenyddiaeth, moesoldeb a chrefydd.' Gwnaed hefyd gais am farddoniaeth, adroddiadau ar gyfarfodydd crefyddol a llenyddol, a digwyddiadau nodedig yng ngwahanol rannau o'r wlad, sy'n adleisio cynnwys y *Cyfaill*.

¹¹⁴ Ibid, t.21-32; Robert Ezra, *Immigrant Press and its Control*.

¹¹⁵ Jones, Aled (2000) *The Nineteenth Century Media and Welsh Identity*, yn (gol) Brake, Laurel et al, *Nineteenth Century Media and the Construction of Identities*, Palgrave: New York, t.315. "Members and

Camp fawr y *Cyfaill* oedd rhoi mynegiant i'r holl elfennau hyn drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Cludwyd patrwm print yr hen wlad a'i ddefnyddio i drafod materion cwbl ddieithr y wlad fabwysiedig. Yn wir, yr iaith oedd yr allwedd i lwyddiant y cyhoeddiad a nod amgen ei arwahanrwydd oddi wrth y wasg Seisnig, fel ag yn achos y wasg yng Nghymru.¹¹⁶ Yn sgil diffyg gwladwriaeth annibynnol felly, câi cymeriad unigryw'r wasg Gymraeg y ddwy ochr i'r Iwerydd ei ddiffinio'n bennaf gan iaith a chrefydd, a oedd yn adlewyrchiad triw o gywair cymdeithas y cyfnod.¹¹⁷ Roedd y cyd-destun crefyddol hefyd yn darparu rhwydwaith barod o ddarllenwyr, a oedd yn llythrennog yn sgil addysg yr Ysgol Sul, ac yn sail fasnachol i'r byd cyhoeddi Cymraeg.¹¹⁸

Fodd bynnag, fel ag yn achos cyfnodolion crefyddol Saesneg yn America megis y *Christian Examiner* a'r *Christian Register*, cynrychiolent lawer mwy,¹¹⁹ ac mae'r ffaith bod William Rowlands yn benthyca deunydd o'r cyfnodolion Saesneg hyn yn awgrymu, o bosibl, fod eu cynnwys eang yn dylanwadu ar fformat y *Cyfaill*. Fel y nododd Robert Owen Jones, daeth y wasg brint yng Nghymru 'yn gyfrwng ymestyn gorwelion ac yn llwybr ymddiwyllio i filoedd na dderbyniasant addysg ffurfiol o unrhyw werth.'¹²⁰ Yn sicr, mae hynny'n nodwedd ganolog yn hanes y *Cyfaill*, ac roedd rheidrwydd ar y cylchgronau i borthi'r awch am addysg.¹²¹

supporters of the numerous religious and political organizations of nineteenth century Wales developed a language which, while being predominantly centered on their particular theological or political identities, also took on the semblance of a national identity.”

¹¹⁶ Prin oedd y cyfeiriadau at Gymru yn y wasg Brydeinig ar y gorau, a fu'n ysgogiad cryf i gymwynaswyr yr iaith Gymraeg fentro i ddarparu newyddion drwy gyfrwng yr unig iaith a wyddai cyfran o boblogaeth y genedl.

¹¹⁷ Jones, Aled, 'The Welsh Newspaper Press'.

¹¹⁸ Walters, Huw (1999) *Y Gymraeg a'r Wasg Gylchgronol*, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.349.

¹¹⁹ Rydw i'n ddiolchgar am sgwrs gyda'r Athro Elisa New yn adran Saesneg, prifysgol Harvard, am gyd-destun y wasg gyfnodol Saesneg yn America.

¹²⁰ Jones, Robert Owen (1997) *'Hir Oes i'r Iaith': Agweddau ar hanes y Gymraeg a'r Gymdeithas*, Gomer: Llandysul, t.257.

¹²¹ Williams, G.J. (1970) *Y Wasg Gymraeg ddoe a heddiw*, Llyfrau'r Faner: Y Bala, t.17.

(vi) Addysg.

Yn deillio o'i gymhellion crefyddol a gwladgarol, un o brif weledigaethau'r golygydd oedd darparu addysg i'r genedl. Disgrifia'r *Cyfaill* yn y rhifyn cyntaf fel 'cyfrwng o wybodaeth fuddiol,' sy'n cwmpasu ei ddeunydd addysgiadol, ei natur fel llawlyfr ymarferol a newyddiadur. Adlewyrcha hyn yr anfodlonrwydd gydag amodau cymdeithasol ac economaidd yn yr hen wlad, y cynnydd yn yr alwad am addysg well er cynhaliaeth i genedl wâr, a rhan golygyddion y gweisg yn camu i'r adwy yn wyneb diffyg addysg ffurfiol i'r bobl gyffredin.¹²²

Roedd gwedd grefyddol gref ar amcan addysgiadol *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* yn sgil cred William Rowlands fod addysg yn llesol i eneidiau'r Cymry. Fel y dadleuodd Glanmor Williams, roedd y wasg yn estyniad o'r pwlpuad a'r weinidogaeth, a dengys hyn y math o orgyffwrdd rhwng crefydd ac addysg a nodweddiad ddiwylliant Anghydfurfiol Cymraeg y cyfnod.¹²³ Wedi'r cwbl, roedd cyflwyno addysg i'r werin yn rhan hanfodol o genhadaeth y Methodistiaid o'r dechrau drwy gyfrwng ysgolion cylchynol, seiadau ac ysgolion Sul, a'r pwyslais ar fod yn ddysgedig, sef union amcan William Rowlands gyda'r *Cyfaill*.¹²⁴

Darlunia R. Tudur Jones hefyd y plethiad rhwng gwybodaeth a chrefydd, gan honni fod gweithgaredd addysgol a gwyddonol gwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ymgais at 'ddealwtwriaeth o berthynas dyn â'r cread a'r Ysgrythur.' Plannwyd yr argyhoeddiad dwfn ymysg crefyddwyr mai Duw oedd awdur gwybodaeth, ac felly mabwysiadodd golygyddion y wasg enwadol y gred fod addysg yn bont rhwng unigolion a'r efengyl.¹²⁵

¹²² Shepperson, W.S., *British Emigration to North America*.

¹²³ Roberts, Parchedig Gomer Morgan (1973) *Hanes Methodistiaeth Galffinaidd Cymru: cyfrol 1, Y Deffroad Mawr*, Llyfrfa'r Methodistiaid Calffinaidd: Caernarfon, t.19-20. Hefyd gw. Rhys, John & Brynmor-Jones, David, *The Welsh People*.

¹²⁴ Bennett, Richard (1909) *Blynyddoedd Cyntaf Methodistiaeth*, Llyfrfa'r Cyfundeb: Caernarfon, t.69.

¹²⁵ Jones, R. Tudur (1970) Rhyddiaith Grefyddol y Bedwaredd Ganrif ar bymtheg, yn Bowen, Geraint (gol) *Y Traddodiad Rhyddiaith: Darlithiau Rhydychen*, Gomer: Llandysul, t.328. Roedd cylchgronau megis y *Gwladgarwr* yn cynnwys deunydd gwyddonol, a'r *Dysgedydd* er enghraifft yn rhoi pwyslais ar anianyddiaeth.

Roedd addysg hefyd yn rhan annatod o dduwioldeb sylfaenydd y *Cyfaill* ers ei ieuenctid, wrth i'r ddwy elfen gyd-dyfu pan oedd yn ysgolfeistr cynorthwyol i William Morris, blaenor enwog gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yng Nghefn-coed-Cymmer yn 1824. O dan arweiniad y blaenaf a oedd yn llenor medrus ac a ddaeth yn ohebydd newyddion o Gymru i'r *Cyfaill* o dan yr enw 'Cyfaill i'r Cyfaill' maes o law, derbyniodd addysg mewn rhifyddiaeth, masnach ac ieithyddiaeth, dylanwad sy'n cael ei adlewyrchu yn y *Cyfaill*. Ym Mhontypŵl yn 1825, bu William Rowlands yn ysgolfeistr ei hun, a bu hyn yn gymorth iddo hogi'r grefft o hunan-ddiwyllo a throsglwyddo ei ddysg mewn pynciau megis byd natur a chelfyddyd, ynghyd â 'phethau hynod yr amseroedd' ym myd gwleidyddiaeth a chrefydd. Unwaith eto, dyma elfen gref a welir yn y *Cyfaill*.¹²⁶

Yn ôl ei gofiannydd, yn ddim ond dwy ar bymtheg oed, cynorthwyai William Rowlands awduron crefyddol hŷn gyda chyfieithiadau o'r Lladin i'r Gymraeg, sy'n awgrym o aeddfedrwydd ei feddwl yn gynnar yn ei yrfa.¹²⁷ Yn wir, dyfynnir sawl un yn ei gofiant yn edmygu helaethrwydd a 'nertholrwydd' ei wybodaeth, gan nodi fod ei feddwl goleuedig 'yn mhell o flaen ei oedran.'¹²⁸ Fel ysgolhaig ifanc a oedd yn awchu am ddysg, nododd un tro mewn dadl mai addysg a ddewisai dros gyfoeth.¹²⁹

Ffactor sy'n codi ei ben yn barhaus wrth astudio'r *Cyfaill* yw cyfochredd y wasg gyfnodol yng Nghymru ac America o ran dilyn yr un tueddiadau er eu bod mewn amgylchiadau a thiriogaethau gwahanol iawn i'w gilydd. Yn hyn o beth, mae'n bosibl fod William Rowlands yn efelychu hoelion wyth yr hen wlad, megis y Bedyddiwr Gomer, (Joseph Harris, 1773-1825) a gaiff ei gydnabod fel 'syflaenydd ein llenyddiaeth gyfnodol.' Ei amcan oedd darparu gwybodaeth gyffredinol i'w gyd-genedl yn enw crefydd. Credai Gomer

¹²⁶ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.37.

¹²⁷ Ibid, t.45.

¹²⁸ Ibid, t.47. Dywedodd Mr John Davies, sir Frycheiniog, 'pa faint dros gant oed yw'r dyn yna? Nis gwelais ddyn mor hened erioed.' Galwodd Mr William Williams a oedd yn lleyta yno ryw noson ef yn 'fy nhad-cu' oherwydd eu syndod yn hynodrwydd meddwl mor aeddfed a gwybodaeth eang a feddai gwr mor ifanc.

¹²⁹ Ibid, t.39. Gofynnwyd iddo: "Pe buasit ti mewn llong, a dy gyfoeth gyda thi, ac iddi fyned yn llongdrylliad, ac i tithau allu dianc, pa un ai dy gyfoeth fyddai yn y llong neu'r dysg fyddai yn dy ben gymeret gyda thi i dir?"

yn gryf fod angen maeth o feysydd eang a ffynonellau ar wahân i'r Beibl, a lluniwyd arddull a fformat y mwyafrif o gylchgronau ar lun a delw *Seren Gomer*, a sefydlwyd ar ei newydd wedd yn 1818.¹³⁰

Gellir dadlau hefyd fod dyhead William Rowlands i addysgu'r genedl yn adlais o hinsawdd deallusol Ewrop yn y cyfnod, o ystyried fod addysg yn un o brif ddelfrydau'r mudiadau cenedlaetholgar a ymledai'n gyflym yno. Hybodd y cynnwrf hwn y syniad fod gwahaniaeth ieithyddol i'w feithrin fel cyfrwng i fynegi diwylliant, ac apeliai hyn at ddiwylliannau lleiafrifol a oedd yn ceisio ymryddhau o ormes gwladwriaethau mwy.¹³¹ Daeth addysg yn ffordd i ddiwyllio cenedloedd a chyfleu eu hunaniaeth arbennig, ac yn sgil twf mewn llythrennedd a'r diwylliant print, hyrwyddwyd addysg yn yr ieithoedd brodorol. Yn ôl Gellner, agorodd llythrennedd y drws i undod diwylliannol ac addysgiadol drwy gyfrwng print.¹³² Roedd addysg, felly, yn un o'r cyfryngau a ddefnyddid i ddwysáu ymwybyddiaeth genedlaethol cenedloedd, ac roedd y wasg brint yn rhan annatod o'r symudiad hwnnw.

Dadleuodd Hroch ac eraill fod deallusion cenedl yn allweddol i drosglwyddo nodweddion cenedlaethol, ac yn ôl y camau a ddisgrifir gan Richard Wyn Jones, gellid dadlau'n hawdd fod William Rowlands yn cynrychioli'r ail gam mewn creu mudiad cenedlaethol fel deallusyn a oedd yn cyflwyno'r naratif cenedlaethol i drwch y boblogaeth drwy gyfrwng y wasg.¹³³ Ar y naill law, ceisiai ehangu gornelion a diwyllio aelodau unigol y genedl, a hynny er eu lles personol ar lefel eneidol. Ond gwnâi hynny hefyd mewn ystyr

¹³⁰ Ymddiddan rhwng Gruffydd a Morgan mewn perthynas i gylchgronau Cymreig - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1839. Mewn ymddiddan ffuglennol yn y *Cyfaill*, nodir fod nifer o gyhoeddiadau 'fel y Seren o ran natur a threfn ei defnyddiau,' a bod y 'tad Gomer, rhaglwybrydd (*pioneer*) wedi gosod enghraifft a thori y rhew.' Hefyd gw. Williams, Glanmor (1989) *Grym Tafodau Tân: Ysgrifau Hanesyddol ar Grefydd a Diwylliant*, Gomer: Llandysul; Walters, Huw, 'Y Gymraeg a'r Wasg Gylchgronol', t.329.

¹³¹ Guibernau, Montserrat (1997) Introduction, yn (gol) Guibernau, Montserrat & Rex, John, *Ethnicity Reader: nationalism, multiculturalism and migration*, Blackwell: Cambridge, t. 4-5.

¹³² Gellner, Ernest (1983) *Nations and Nationalism*, Basil Blackwell: Oxford.

¹³³ Jones, Richard Wyn (2007) *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru, cyfrol 1*, Gwasg Prifysgol Caerdydd, pennod 1. Dadleua mai'r cam cyntaf i'r mudiad cenedlaethol yw tanlinellu hynodion y genedl gan weithgaredd ysgolheigaidd fel sail ar gyfer 'datblygiad ymwybyddiaeth gymdeithasol ehangach.' Parha'r deallusion â'r ail gam o geisio trosglwyddo'r ymwybyddiaeth hon i'r cyhoedd, gwaith efenyglu a wnaed dros y mudiad Cymreig gan rai fel Michael D Jones ac Emrys ap Iwan yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif. I gwblhau'r broses yn llwyddiannus, mae'r cam olaf yn dibynnu ar gryfder hunaniaeth genedlaethol ymhlith cyfran sylweddol o aelodau'r genedl.

genedlaethol er mwyn eu gosod ysgwydd wrth ysgwydd â chenhedloedd eraill Ewrop a laniai ar gyfandir America. Fel y dadleuodd Beetham, roedd yr awydd ymhlith golygyddion oes Fictoria i addysgu – boed mewn cyd-destun crefyddol neu wleidyddol – cyn gryfed â'u dyhead i wneud elw.¹³⁴

Yn amlwg, roedd gan William Rowlands y cyneddfau deallusol i addysgu'r genedl a dethol deunydd o fyrdd o wahanol ffynonellau ar gyfer ei ddarllenwyr. Gwnâi ddefnydd helaeth o'r hyn a ddarllenai, ac roedd cynnwys nifer o gyhoeddiadau a chyfnodolion yr oes ar flaenau ei fysedd. Yng ngeiriau ei gofiannydd, yr oedd fel golygydd yn meddu 'llygad craff i ganfod, calon i deimlo, barn i dethol, a threfn at gyfleu.'¹³⁵ Defnydd o amrywiol ffynonellau oedd un o ragoriaethau pennaf y *Cyfaill*, a sicrhâi hyn ddarlleniad y tu hwnt i gylchoedd crefyddol a oedd yn awchu am wella eu byd.

Fodd bynnag, dylid cadw mewn cof nad dethol deunydd o ffynonellau eraill yn unig a nodweddai waith golygydd y *Cyfaill*, gan ei fod yn hynod gynhyrchiol fel awdur darnau gwreiddiol i'r cyhoeddiad a llenyddiaeth grefyddol yn gyffredinol.¹³⁶ Mae'r ysgrifau o'i eiddo yn y *Cyfaill* ar ystod eang o bynciau yn arddangos cwrmpas eang ei ddysg a'i ddarllen ynghyd â'r awydd i rannu ei wybodaeth â'r darllenwyr, a hynny mewn cytgord perffaith ag ethos amrywiol y cylchgrawn. Yn y *Cyfaill*, haerai William Rowlands fod addysg yn hybu achos crefydd:

Y mae hanesiaeth, athroniaeth, barddoniaeth, a Gair Duw, yn cael eu cyd-ddefnyddio er amlygu gogoniant, gwirionedd, crefydd a Duw.¹³⁷

Yn ôl ei gofiannydd, roedd wedi ei anelu at 'yr ieuanc a'r hen, y tlawd a'r cyfoethog, y dysgedig a'r annysgedig, y crefyddol a'r digrefydd,' a cheid ynddo 'laeth i fabanod a bwyd

¹³⁴ Beetham, Margaret (1990) 'Towards a theory of the periodical as a publishing genre,' in (ed) Brake, Laurel & Jones, Aled & Madden, Lionel, *Investigating Victorian Journalism*, Macmillan: Hampshire, t.21.

¹³⁵ Ibid, t.395-6.

¹³⁶ Ibid, t.394. Ysgrifeniad o dan ffugenwau megis 'Cyfaill', 'Guto o'r Allt', 'Chwareu Teg', 'Hebog Du', 'Ysbiwr', 'Glan Tafwys', 'Gwilym Glan Tafwys'. Gwelid ysgrifau o'i eiddo, e.e. 'Ysgrifau ar ddyn', 'Ein daiarol dŷ', llythyrau yn erbyn drama, 'Pum mlynedd ar hugain yn ol' a oedd yn darlunio ei gyfnod cynnar ar ôl ymfudo. Ar 'Ddaiareg' a'i ganiadau a 'Genesis a'i gynwys' oedd yr ysgrifau olaf.

¹³⁷ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.415-6.

cryf i'r rhai cryfion.¹³⁸

(vii) 'Cylchgrawn o wybodaeth fuddiol.'

Nodweddir yr amcan addysgiadol hwn yn fformat y misolyn gan yr amrywiaeth a geir o dan wahanol benawdau, a hynny mewn rhifynnau sydd fel arfer tua thri deg dau tudalen o hyd. Rhwng cloriau'r cyhoeddiad, er bod y pwyslais cryfaf ar grefydd, byddai traethodau a hanesion ar bynciau megis diwinyddiaeth, celfyddyd, anianyddiaeth a gwyddoniaeth. Er mai cyfrwng i ledaenu'r neges Gristnogol yn y bôn oedd misolyn o'r fath, roedd yr ystod eang o wybodaeth a gynhwysid yn ychwanegu at fywiogrwydd meddwl a pharhad diwylliant y Cymry yn ogystal, ac yn bodloni rhychwant eang o ddisgwyliadau. Yn wir, mae cynnwys eang y *Cyfaill* yn ein hatgoffa o sylw R. Tudur Jones fod 'cylchgronau'r ganrif a'r prysurdeb ynglŷn â hwy'n dystiolaeth i'r argyhoeddiad fod Duw wedi ordeinio dyn i fod yn weithiwr diwylliannol.¹³⁹ Yn wir, aiff mor bell â honni fod traethodau ffeithiol a gwybodaeth fuddiol ac ymarferol yn rhan ganolog o 'lennyddiaeth' yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan fod yr angen i sicrhau lles a chynnydd addysgol yn gyrru diwylliant llenyddol y ganrif. Fel rhan o weithgaredd sylfaenydd y *Cyfaill* i'r perwyl ffeithiol hwn, cyflwynwyd traethodau ar amrywiol agweddau o hanes y genedl a'r iaith Gymraeg fel modd i atgoffa'r Cymry yn America o'u hetifeddiaeth ddiwylliannol, a chynyddu eu hymwybyddiaeth o'r hunaniaeth a brofai'n anos ei chynnal mewn gwlad estron. Roedd William Rowlands felly'n dehongli ystyr cenedligrwydd Cymry America drwy bontio eu profiadau â'r hen wlad. Ymhellach, amrywai cynnwys y *Cyfaill* o wersi gramadegol a cherddorol i draethodau gwleidyddol a chymdeithasol.

¹³⁸ Ibid, t.414.

¹³⁹ Jones, R. Tudur, 'Rhyddiaith Grefyddol y Bedwaredd Ganrif ar bymtheg', t.329.

Byddai'r adran farddoniaeth ac emynyddol yn dod ag ychydig o hamdden a mwynhad at y darnau ffeithiol, a cholofn y 'Gwybodaethau' yn cyfuno posau barddonol a mathemategol, sydd eto'n dangos pa mor greiddiol oedd addysg yn niwylliant y cylchgrawn. Roedd yr amrywiaeth hynod o adrannau yn y cylchgrawn yn cadw cydbwysedd angenrheidiol rhwng nodweddion hunaniaeth newydd y Cymry ac elfennau amlochrog golygyddiaeth William Rowlands, fel y crynhoir ar y dudalen flaen:

Y Cyfaill o'r Hen Wlad yn America; sef cylchgrawn o wybodaeth fuddiol i'r Cymry, yn cynnwys amrywiaeth o bethau o natur grefyddol, moesol a dyddorol, yn nghyda Hanesiaeth Brydeinaidd ac Americanaidd; hefyd, cyfansoddiadau mewn barddoniaeth a pheroriaeth.¹⁴⁰

Mae'r ymadrodd 'Darllena, cofia, ystyria' fel is-bennawd ar y dudalen flaen – sy'n adlais o waith Ellis Wynne - hefyd yn cyfleu bwriadau'r golygydd ac amcanion deallusol, ysbrydol a diwylliannol y cyhoeddiad. Yn ogystal â'r ddarpariaeth eang mewn amryw o deithi, ceid adran helaeth wedi ei neilltuo i newyddion a fyddai'n adlewyrchiad o gwmpas y cyfnodolyn.

(viii) 'Pob Hanesiaeth.'

Er bod gweisg y grwpiau ethnig llai niferus yn America yn tueddu i ogwyddo at y crefyddol, ac er bod golygyddion yn weinidogion yn amlach na pheidio, roeddent yn cyflawni yr un swyddogaeth â phapurau newydd cyffredinol ymfudwyr o genhedloedd eraill. Trwy ddarparu ffocws i'r gymuned a chynnig cymorth i ddygymod â'r amgylchfyd newydd, ynghyd ag amrywiaeth o newyddion, roeddent yn driw i ddisgwyliadau'r darllenwyr am 'newyddiadur' at wasanaeth y genedl ymfudedig.¹⁴¹

¹⁴⁰ *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

¹⁴¹ Jones, Maldwyn Allen, *American Immigration*, t.141. Mae Jones yn defnyddio'r Cymry a'r Norwyaid fel enghreifftiau o grwpiau lleiafrifol a oedd yn meddu ar wasg grefyddol gref.

Roedd adran newyddion y *Cyfaill* yn adlewyrchu amrywiol agweddau hunaniaeth yr ymfudwyr, yn gyfuniad o elfennau Cymreig, Americanaidd, a Chymreig-Americanaidd, tuedd a welwyd yng ngwasg cenedloedd eraill, ac a ddisgrifir yn gelfydd gan Jones:

Though most immigrants had little previous experience of newspapers, they welcomed the appearance of journals that kept them in touch with the happenings in the old country, acquainted them with developments in the immigrant community itself, and interpreted for them a variety of American events and issues.¹⁴²

Roedd yr amrywiaeth o adrannau a oedd yn cyflenwi'r newyddion yn gwasanaethu anghenion sawl agwedd ar hunaniaeth yr ymfudwyr Cymreig yn America, gan eu cysylltu â'i gilydd yn y wlad newydd, ac yn fwy arwyddocaol, â'u cyd-genedl yn yr hen wlad.

Darparwyd gofod helaeth i golofn newyddion Cymry America a gwmpasai weithgareddau crefyddol a diwylliannol amrywiaeth o dreffannau Cymreig ar wasgar ar y cyfandir, ynghyd â chyhoeddiadau personol am briodasau, marwolaethau a genedigaethau. Er mai newyddion lleol y cymunedau unigol a ddarparwyd, cyflawnai'r *Cyfaill* swyddogaeth y wasg o weithredu fel dolen gydiol rhyngddynt ar lefel genedlaethol.

Yn unol ag amcanion y wasg Gymraeg mewn trefedigaethau eraill, ceisiai'r golygydd hefyd gadw cydbwysedd yn y trawsfudiad rhwng yr hen wlad a'r wlad fabwysiedig. Rhoddai'r *Cyfaill* gyfarwyddyd ymarferol i'r dinasyddion newydd, ond sicrhawyd sylwebaeth gyson ar newyddion Cymru a Phrydain i atgoffa'r trigolion o'u genedigaeth-fraint. Ar un llaw felly, ceid braslun o hanes y treflannau newydd a'r gweithleoedd, megis gwybodaeth ddefnyddiol a hysbysebion am brisiau marchnad, tiroedd a masnach i esmwytháu'r broses o setlo yn y wlad newydd, ynghyd â newyddion neu ffeithiau gwleidyddol. Ar y llaw arall, ceisiai'r *Cyfaill* leddfu hiraeth yr ymfudwyr drwy roi'r cyfle iddynt gadw eu bysedd ar guriad yr hen wlad, ac y mae hynny'n unol â'r patrwm mewn

¹⁴² Ibid, t.140.

papurau newydd a chyfnodolion a sefydlwyd mewn amrywiol ieithoedd yn America.¹⁴³ Yn unol felly â'r broses a amlinellwyd eisoes, meddai'r wasg y gallu i adlewyrchu amodau byw newydd America, a hynny heb dorri'r clymau gyda'r famwlad, fel y mynega cerdd yn y

Cyfaill:

O fro'n genedigaeth cawn bob hanesyddiaeth,
A hyny'n ein mamiaith yn helaeth gan hwn.¹⁴⁴

Y gair allweddol yma sy'n cyfleu craidd ei apêl yw fod y *Cyfaill* yn cynnig gwledd o eitemau drwy gyfrwng y famiaith, a'r newyddion o Gymru yn abwyd i gynnal cenedligrwydd ynghyn mewn tiriogaeth estron. Deuai'r *Cyfaill* â 'newyddion i'n haneddau,' er gwaethaf 'rhwystrau daear estron' yn ôl y bardd Gwilym ab Ioan, a'r newyddion drwy gyfrwng y Gymraeg yn hwyluso sefyllfa'r ymfudwyr yn fawr.¹⁴⁵

Yn fwy na dim, cawsai Cymry America synnwyr cryf o faterion cyfoes yr hen wlad oherwydd ailadroddid y newyddion gwreiddiol o gyfnodolion Cymru yng nghawl eildwym y wasg Gymraeg yn America.¹⁴⁶ Yn ogystal, defnyddid 'Gohebwr o Gymro,' ac yn ddiweddarach gohebydd o'r De a'r Gogledd i grynhoi prif eitemau newyddion Cymru, a'u trosglwyddo i'r gynulleidfa y tu hwnt i'r Iwerydd, gweithred a nodweddaid grwpiau ymfudol Ewropeaidd eraill:

The local editor stepped into the breach, armed with paste pot and shears. Page after page of news, lifted from European sources, attests the continuing interest in the homeland...though perhaps two months late, the settler was transported back to the politics and official gossip of the world he had left...¹⁴⁷

Golygai'r dull hwn o newyddiadura 'ail-law' fod rhaid hefyd troi at bapurau newydd Saesneg, a gwelid cyhoeddiadau Cymraeg yr hen wlad ac America o'r herwydd yn defnyddio

¹⁴³ Hartmann, Edward, *American Immigration*, t.58.

¹⁴⁴ Anerchiad i'r *Cyfaill* (B.T.Glyniaen, Ebensburg) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

¹⁴⁵ Anerchiad idd y *Cyfaill* ar ei ymddangosiad cyntaf (Gwilym ab Ioan) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1838.

¹⁴⁶ Jones, Aled Gruffydd, *Press, Politics and Society*, t.5.

¹⁴⁷ Hansen, Marcus Lee (1940) *The Immigrant in American History*, Harvard University Press: Cambridge, t.137.

cyfieithiadau o gylchgronau enwadol a phapurau newydd eu cymrodyr Seisnig yn y ddwy wlad yn sgil cyfleustra a chost isel ‘*scissors and paste journalism*.’¹⁴⁸

Sylweddolodd William Rowlands hefyd yr angen i ymdrin â newyddion Cymru a Phrydain ar wahân, er budd y sawl a ddymunai arddel eu cysylltiad â'r Deyrnas Gyfunol. Mae'r cyfeiriadau mynych at weithgareddau'r teulu brenhinol a llwncdestunau Gŵyl Ddewi i'r Frenhines Victoria a'r 'Ymerodraeth Brydeinaidd' hefyd yn awgrymu fod rhai o'r ymfudwyr yn arddel Prydeingarwch, a ychwanegai haen arall i'w hunaniaeth.¹⁴⁹

Nid oedd y *Cyfaill* ychwaith yn eithriad i duedd y wasg gyfnodol Gymraeg o gynnwys newyddion cyffredinol gydag gogwydd fydeang, a rhoddwyd dogn helaeth o newyddion tramor i ddiwallu anghenion y genedl y ddwy ochr i'r Iwerydd yn y cyfnod.¹⁵⁰ Cynhwysid adran sylweddol o newyddion o'r fath o dan y pennawd 'Crynodeb o Helyntion y Byd' a ysgrifennid gan William Rowlands ei hun, sef cipolwg cryno ar hynt a helynt gwahanol wledydd, a oedd yn driw i strwythur papur newydd.¹⁵¹ Darllenai doreth o ffynonellau a'i galluogai i roi braslun o ddigwyddiadau ledled y byd ynghyd ag ymwybyddiaeth o faterion cyfoes, 'arwyddion yr amseroedd.'¹⁵² Er mai papur crefyddol oedd y *Cyfaill* yn ei grynswth, roedd darparu newyddion tramor wedi ei gyfieithu i'r famiaith yn hollbwysig i amcan y wasg gyfnodol Gymraeg o ehangu gorwelion ers cyfnod cynnar yn ei hanes.¹⁵³

¹⁴⁸ Jones, Aled Gruffydd, *Press, Politics and Society*, t.24. Defnyddid darnau o bapurau Saesneg o ardaloedd penodol e.e. *New York Observer*, *Madison Journal*, ac o Lloegr – *Alliance News*, *Methodist Times*. Anfonir y rhestrau marwolaethau gan ohebwy'r papurau Cymru e.e. *North Wales Chronicle*, *Caernarfon Herald*, *Cambrian*, *Carmarthen Journal*. Defnyddiai misolion a chyhoeddiadau chwarterol Cymru ddeunydd o gyfnodolion yr Alban a Lloegr i feithrin bywyd deallusol y genedl. Roedd y deunydd ar gael yn rhwydd gan fod nifer o bapurau newydd a argraffwyd yn Lloegr yn denu darllenwyr dros Glawdd Offa, ac felly deuai'n arferol i ddefnyddio darnau o amrywiol gyhoeddiadau oherwydd cyfleustra a chost isel yr dull hwn o newyddiadura. Hefyd gw. Betts, Clive (1976) *Culture in Crisis: the future of the Welsh Language*, Ffynnon Press: Wirral. Mae hefyd yn tystio i duedd y wasg Gymraeg i gymryd darnau o gyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg. Ceir trafodaeth bellach am y duedd o gynnwys yr un deunydd mewn gwahanol gyhoeddiadau a chyfieithu newyddion o bapurau Seisnig yn y wasg Gymraeg yn 'Ymddiddan rhwng Gruffydd a Morgan mewn perthynas i gylchgronau Cymreig tua 1822' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1839.

¹⁴⁹ Seton-Watson, Hugh (1977) *Nations and States: An Enquiry into the Origins of Nations and the Politics of Nationalism*, Methuen: London, t.34.

¹⁵⁰ Betts, Clive, *Culture in Crisis*.

¹⁵¹ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.396.

¹⁵² Ibid.

¹⁵³ Jones, Aled, 'The Welsh Newspaper Press', t.17.

Fodd bynnag, nid yw adrannau newyddion y *Cyfaill* yn cydymffurfio'n llwyr â newyddiaduraeth arferol, gan na chyhoeddid rhyw lawer o newyddion 'poblogaidd,' ar wahân i adran neilltuol o weithrediadau'r brawdlysoedd. Roedd y tueddiad i osgoi apêl deunydd mwy syfrdanol ('*sensational*') yn adlewyrchiad o ddylanwad gwerthoedd mwy ceidwadol y gymdeithas Anghydfurfiol ar yr ymateb golygyddol i ddisgwyliadau'r darllenwyr.¹⁵⁴ Amgylchiadau'r genedl Gymreig oedd y prif gonsyrn yn y cyfnod hwn, boed ar dir America neu'r hen wlad.

(ix) Cysylltiad 'trawsatlantig.'

Fel y crybwyllwyd eisoes, roedd meithrin clymau â Chymru'n hollbwysig er mwyn ymwybyddiaeth genedlaethol Cymry America ddal ei thir mewn gwlad estron, ac roedd holl gyhoeddiadau eu gwasg yn driw i'r nod hwnnw. Roedd y *Cyfaill* hefyd yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r cyfandir, ac yn rhan o gysylltiad 'trawsatlantig.'¹⁵⁵ Cynhelid y cyswllt hwn gan amrywiol sefydliadau diwylliannol, ac roedd yr argraffwasg yn hwylusydd amlwg iddo yn sgil proses o gyfnewid deunydd darllen – boed lyfrau neu gylchgronau – rhwng Cymru ac America. Atgyfnerthwyd y cysylltiad hwn gan olygydd y *Cyfaill* drwy ddefnyddio ystod helaeth o ddarnau eang eu rychwant gan awduron yr hen wlad a chyfnodolion yng Nghymru, yn enwedig yn ei gyfnod cynharaf.¹⁵⁶ Tystia cofiant William Rowlands fod gan y *Cyfaill* ddarllenwyr yng Nghymru. Mae'n amlwg hefyd fod William Rowlands yn ymwybodol o'i ddarllenwyr yr ochr arall i'r Iwerydd wrth iddo roi ystyriaeth i argraffiad

¹⁵⁴ Ibid, t.7.

¹⁵⁵ Term wedi ei fathu i ddynodi'r berthynas rhwng cymunedau Cymry America â'u cydgenedl yng Nghymru.

¹⁵⁶ e.e. y *Drysorfa & Amserau*. Defnyddid darnau o un o gyhoeddiadau'r hen wlad, megis y *Pregethwr*, neu ailadroddwyd geiriau pregethwyr enwog yng Nghymru e.e. Christmas Evans, John Elias.

arbennig o'r cyfnodolyn er mwyn hwyluso ei gylchrediad ymhlith 'ein cyfeillion' yng Nghymru.¹⁵⁷

Mae'r ffaith fod cyhoeddiadau Cymru yn defnyddio deunydd o wasg Gymraeg America hefyd yn tystio i'r wedd ddwyffordd ar ddiwylliant print Cymraeg. Yn wir, honna Jones fod y gynulleidfa newyddiadurol yng Nghymru yn awyddus i wybod am sefyllfa'r Cymry alltud, a bod deunydd o'r fath yn ymateb i'w disgwyliadau fel darllenwyr.¹⁵⁸ Yn hyn o beth, roedd y Cymry'n cydymffurfio â phatrwm hanesyddol hir o feithrin cysylltiad rhwng Ewrop a'r Unol Daleithiau ym myd crefydd a llenyddiaeth wrth i systemau cyfathrebu ddatblygu, heb sôn am lythyrau ymfudwyr a oedd yn tynhau'r cwlwm yn sylweddol.¹⁵⁹ Honnir, yn wir, mai'r diwylliant 'trawsatlantig' hwn yw'r sylfaen ar gyfer arwyddocâd teitl y cyfnodolyn. Dywedir i William Rowlands drafod cyhoeddi cylchgrawn Cymraeg yn America gyda ffrind yng Nghymru, ac mai ei awgrym ef oedd y teitl 'Y Cyfaill o'r Hen Wlad.' Fe'i mabwysiadwyd gan ei fod yn adlewyrchu'r arferiad o ddefnyddio deunydd awduron yr hen wlad yn y cyfnod cynnar, ynghyd â gweithredu fel trosiad am y llwybrau diwylliannol rhwng Cymru ac America.¹⁶⁰

Ar y dudalen gyntaf, cyferchid y darlennydd yn ogystal gan ddarlun o ymfudwr yn glanio, a oedd yn atgyfnerthu symbolaeth y teitl drwy roi sicrwydd o safon byw uchel yn America, ac yn fwy na dim, o gyfeillgarwch ymhlith y gyd-genedl.¹⁶¹ Dadleua Bhabha fod trosiadau o'r fath yn fodd effeithiol iawn o gyfannu'r rhwyg o groesi ffiniau.¹⁶² Nid yn America'n unig yr oedd William Rowlands yn ceisio pontio'r ffiniau daearyddol hyn, gan fod

¹⁵⁷ *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1844.

¹⁵⁸ Jones, Aled, 'The Welsh Newspaper Press', Nid oedd yn beth dieithr i'r Cymro glywed am hanesion anturiaethau Cymry yn America.

¹⁵⁹ Hansen, Marcus Lee, *The Immigrant in American History*. Yn aml, sefydlodd yr ymfudwyr eu harferion yn ôl patrwm yr hen wlad, ond yn achos nifer, parhawyd i gyfnewid syniadau yn helaeth ar draws yr Iwerydd yn nhermau crefyddol, diwylliannol a llenyddol.

¹⁶⁰ Williams, Daniel Jenkins, D.D. (1937) *One Hundred Years of Calvinistic Methodism in America*, Westminster Press: Philadelphia, t.331.

¹⁶¹ Knowles, Anne Kelly, *Calvinists Incorporated*, t.10-11.

¹⁶² Bhabha, Homi.K. (1991) *DissemiNation: time, narrative, and the margins of the modern nation*, yn (gol) Bhabha, Homi.K. *Nation and Narration*, Routledge: London, t.291.

y Cymry ble bynnag yr ymgartrefent yn rhan o'r gymuned genedlaethol y ceisiai'r *Cyfaill* ei chynnal.

(x) Cymunedau'r Diaspora.

Mae llythyr gan Iago Trichrug, gweinidog yn Llundain ar y pryd, yn rhifyn cyntaf y *Cyfaill*, yn enghraifft gynnar o gyhoeddi anerchiadau i Gymry America yn y wasg gyfnodol. Roedd cyhoeddi llythyrau a chyfarchion gan ohebwy'r Gymru a threflannau Cymreig eraill, gweinidogion yn enwedig, ar y cyd â deunydd Cymreig-Americanaid yn duedd a fyddai'n nodweddu'r *Cyfaill* am flynyddoedd lawer. Dyma awgrym clir o bwysigrwydd y *Cyfaill* fel llinyn cyswllt i'r Cymry - nid yn unig yn drawsatlantig - ond hefyd fel rhan o rwydwaith ehangach y diaspora Cymreig. Dywed Chidlaw, gweinidog blaenllaw gyda'r Annibynwyr, mewn anerchiad arall, y gall y *Cyfaill* ymffrostio yn ei gylchrediad ymhlith Cymry yr Unol Daleithiau, yr hen wlad a phrif drefydd Lloegr, a dengys hyn fod y cyhoeddiad yn taflu'r rhwyd yn eang i ddenu darllenwyr.

Roedd y broses gyfnewidiol o ddarllen cyhoeddiadau y ddwy ochr i'r Iwerydd hefyd yn bwysig ar gyfer meithrin sylwebaeth ar y wasg yng Nghymru ac America. Mae Iago Trichrug ymysg awduron eraill o'r tu allan i'r cylchoedd Cymreig-Americanaid sy'n croesawu'r *Cyfaill* â chanmoliaeth ac yn annog y gyd-genedl i'w ddarllen. Ar ôl gofidio nad oedd llyfrau Cymraeg yn cael eu cyhoeddi ar y cyfandir, meddai:

Gobeithiwyf yn ddiragrith y cefnogir ef yn mhob modd genych, yn yr anturiaeth hon. Chwi sydd yn fedrus mewn ysgrifenu ar wahanol bethau, diwallwch ef a defnyddiau buddiol i lenwi y Gréal Americanaidd hwn; a chwithau, fy nghydwladwyr Americanaidd oll, derbyniwch y Cyhoeddiad yn helaeth....darllenwch ef yn efrydawl, er eich difyrwch, eich lles, a'ch adeiladaeth fuddiol.¹⁶³

¹⁶³ Llythyr y Pch. James Hughes (Iago Trichrug) o Lundain, at y Cymry yn America, trwy gyfrwng y *Cyfaill* - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

Awgryma ei ddelwedd grefyddol o'r *Cyfaill* fel 'Grëal Americanaidd' swyddogaeth werthfawr y cylchgrawn fel rhan o lenyddiaeth Gymraeg America, ond roedd ei ddylanwad yn ymestyn llawer pellach. Roedd hefyd yn ymgorfforiad o'r frawdoliaeth grefyddol drawsatlantig a oedd yn greiddiol i ffyniant Ymneilltuaeth. Nid pregethwyr yn unig a groesai'r Iwerydd yn gyson,¹⁶⁴ ond byddai cyfnewid gohebiaeth am achos crefydd yn y ddwy wlad yn adfywio'r cysylltiad Cymry America â'u Cymreictod wrth iddynt edrych tua'r famwlad am arweiniad ysbrydol. Yn union fel y Bedyddwyr a ymfudai ganrif ynghynt, roedd y rhwydwaith cyfathrebu gyda Chymru'n bywiogi'r achos. Fel y nododd Hywel Davies yn eu hachos hwy, '*their faiths literally spawned the Atlantic.*'¹⁶⁵

Mae taerineb yr anerchiadau hyn wrth erfyn ar yr ymfudwyr i beidio ag anghofio'r efengyl, a gofid trigolion yr hen wlad am ddarpariaeth 'moddion gras' ddigonol yn eu cynefin newydd, yn dyst eu bod yn ystyried crefydd yn edafedd anhepgor yng ngwead cenedligrwydd y Cymry.¹⁶⁶ Roedd llythyrau o'r fath yn ffurf boblogaidd i gynghori cymunedau Cymreig ar eu sefyllfa grefyddol a'r gymdeithas yn gyffredinol, yn ogystal â dangos eu cefnogaeth iddynt drwy ddymuno eu llwyddiant.¹⁶⁷

Yn y cyswllt hwn, ceir hanes nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau crefyddol yn yr adran newyddion, gan gynnwys adroddiadau cymdeithasau o natur grefyddol yn ogystal â chyflwr yr efengyl a'r Ysgolion Sul yn y treflannau Cymreig.¹⁶⁸ Byddai clywed hanesion am

¹⁶⁴ Roedd natur deithiol i'r efengyl, wrth i bregethwyr ymweld ag America gyfnewid syniadau dros yr Iwerydd fel rhan o broses ddwyffordd drwy gyfrwng y wasg. Daethai nifer o Gymru ar deithiau pregethu i America er mwyn asesu'r enwad yn y wlad newydd, a dychwelai nifer o'r gweinidogion Cymreig i'r Hen Wlad yn achlysurol er mwyn cael eu hatgoffa o'r enwad gwreiddiol, gan fod y rhelyw o'r gweinidogion Cymreig yn America yn y cyfnod cynnar yn enedigol o Gymru ac wedi eu hyfforddi yno.

¹⁶⁵ Davies, Hywel.M (1995) *Transatlantic Brethren: Rev. Samuel Jones (1735-1814) and his friends. Baptists in Wales, Pennsylvania and beyond*, Associated University Presses: London, t.74.

¹⁶⁶ Llythyr Iago Trichrug. Hefyd gw. 'Y Cymry All-fudawl' – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1838. Awgryma'r awdur hyd yn oed fod yr amgylchfyd Americanaidd yn llesol i'r genedl, a moesoldeb y Cymry yn uwch yn America wedi iddynt adael nifer o bechodau yng Nghymru. Mae'r anerchiad yn awgrymu angen y garfan i feithrin crefydd ar fyrder, a'r defnydd o'r *Cyfaill* i ysgogi'r achos drwy gyhoeddi ysgrifau yn dymuno llwyddiant i achos crefydd a moesoldeb y Cymry Americanaidd.

¹⁶⁷ Rhys, Robert (2007) *James Hughes: Iago Trichrug*, Gwasg Pantycelyn: Caernarfon, t51 a 92.

¹⁶⁸ Mae'r newyddion crefyddol yn cynnwys - cyfarfodydd pregethu, cyfarfodydd henaduriaethau, cymanfaoedd, cymdeithasfaoedd, urddiadau, agoriad addoldai, symudiad neu ymadawiad gweinidogion ayyb. Cynhwysir

amgylchiadau crefydd mewn cymunedau eraill yn America a'r hen wlad yn eu cysylltu o fewn rhwydwaith gyfathrebu eang, gan roi ymdeimlad o undeb mewn ystyr grefyddol a daearyddol. Cafodd y *Cyfaill* sylw blaenllaw yng nghofnodion y cyfarfodydd hyn, a gwelir bwysigrwydd y newyddion hwn i'r cyhoeddiad yn sgil anogaeth i Gymry America gyfrannu eitemau am eglwysi newydd a sefydlwyd ganddynt.

Roedd y Cymry felly'n ymwybodol iawn o ddatblygiadau crefyddol eu cyd-genedl wrth i'r wasg argraffu bontio'r pellter daearyddol rhwng y gwahanol gymunedau Cymreig. Gofynna'r gweinidog Chidlaw am wybodaeth ar sefyllfa'r efengyl ymhlith Cymry America, gan 'ddyfod i'w cydnabyddiaeth drwy gyfrwng y *Cyfaill*...' ¹⁶⁹ Amlyga'r anerchiadau hyn fod gweinidogion y tu allan i'r cylchoedd Cymreig-Americanaidd yn cyfarch y gyd-genedl fel grŵp unedig yn y cyd-destun crefyddol. A oedd y *Cyfaill* felly'n caniatáu i'r Cymry uno o dan faner crefydd yn America? Beth oedd safiad golygyddol William Rowlands fel gweindiog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd?

(xi) Egwyddorion golygyddol.

O ystyried ei pherthnasedd i'w cenedligrwydd, roedd yn briodol mai crefydd fyddai nod amgen y wasg gyfnodol Gymraeg yng Nghymru ac America yn y cyfnod. Roedd yn pennu natur y deunydd i raddau helaeth, boed newyddion, boed drafodaethau neu ohebiaeth gan ddarllenwyr. ¹⁷⁰ Roedd ei sawr yn drwm ar gyfraniadau llenyddol a thraethodol gan fod diwylliant y Cymry hefyd yn annatod glwm â'r capel. ¹⁷¹

adroddiadau amrywiol gymdeithasau megis y Gymdeithas Feiblaidd, y Gymdeithas Genadol a'r Gymdeithas Ddirwestol.

¹⁶⁹ Llythyr Chidlaw at y golygydd - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1838.

¹⁷⁰ Mae sawl gohebiaeth yn gofyn neu'n cynnig ateb i bwnc crefyddol, fel gwasg enwadol y Cymry dramor mewn mannau eraill. Gw. Tyler, Robert, 'Y Wasg Gymraeg yn Nhrefedigaeth Awstralia', t.21-32: roedd y wasg Awstralaidd yn cynnwys yr un math o ddeunydd, sy'n adlewyrchu sel grefyddol y golygyddion a'r gymdeithas. Roedd y cyhoeddiad hefyd yn cyflawni swyddogaeth ymarferol o ddarparu deunydd i gyfarfodydd addoli, ar adegau o brinder pregethwyr neu bellter oddi wrth eglwys. Yn rhagymadrodd y Golygydd, *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, 1849 – noda ei fod wedi cyhoeddi mwy o bregethau na'r arfer, 'ar ddymuniad derbynwyr yn

Yn unol â phatrwm y byd cyhoeddi Cymraeg, gorchwyl y *Cyfaill* yn anad dim felly oedd cynnig arweiniad ysbrydol er budd ei ddarllenwyr a hybu achos crefydd a moesoldeb, prif ddelfrydau'r oes ymysg y Cymry yn America. Del y dywedir ar glawr y gyfrol gyntaf:

Y Cyfaill o'r Hen Wlad yn America, sef cylchgrawn o wybodaeth fuddiol i'r Cymry, yn cynnwys amrywiaeth o bethau o natur grefyddol, moesol a dyddorol.¹⁷²

Er bod yn y cylchgrawn elfen gref o amrywiaeth yn ei wahanol adrannau, crefydd oedd yn llyw i'r cwbl. Fel y nododd y golygydd yn 1841 y nod oedd 'cynhyrchu gogoniant i Dduw, lleshad ysbrydol i anfarwolion, gwasgaru goleuni iachusawl yn mhlith cenedl allwladedig y Cymry.'¹⁷³

Roedd crwsâd bersonol sylfaenydd y *Cyfaill* i ledaenu'r ffydd ymhlith cymunedau drwy'r cyfrwng print yn rhan o ymgyrch ehangach ar ran arweinwyr enwadol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y ceffylau blaen hyn a fyddai'n arwain y wasg gyfnodol yng Nghymru ac America maes o law, ac yn ei defnyddio fel arf grymus i drosglwyddo'r genhadaeth grefyddol.¹⁷⁴ O dan arweiniad y gwŷr crefyddol hyn, lledaenai'r wasg brint ddelwedd barchus o'r genedl a oedd mor ganolog i'w diffinad o'u hunaniaeth Gymreig, yr hyn a elwir yn 'gymeriadu cadarnhaol y grŵp' gan Tyler.¹⁷⁵ Roedd rhestru rhinweddau duwiol a moesol y genedl yn draddodiad cryf yn yr hen wlad a gariwyd dros yr Iwerydd.¹⁷⁶

preswyllo mewn sefydliadau amddifaid o weinidogaeth cyson yr Efyngyl, fel y byddai ganddynt bregeth i'w darllen yn eu cyfarfodydd crefyddol ar Ddyddiau yr Arglwydd.' Gofynna i'r brodyr yn y weinidogaeth ei 'anrhegu weithiau ag ambell ysgub o gynnyrch eu llafur gweinidogaethol.'

¹⁷¹ Fel cyfrwng i hybu llenyddiaeth ddiwinyddol Gymraeg-Americanaid, mae'r adran 'dduwinyddol' ymysg y mwyaf swmpus o fewn y *Cyfaill*, ac yn cynnwys nifer o fyfyrddodau a thrafodaethau ar bynciau ysbrydol. Ceir cyfran helaeth o ysgrifau a thraethodau yn rhybuddio rhag pechodau a darparu cyngor ar rinweddau byw'n ddae.e. peidio â 'chysgu dan foddion gras' a sylwadau ar waharddiadau fel eillio, gwneud caws a gwerthu llaeth ar y Sabboth - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1864. Rhwir cyngor i lanhau eu hesgidiau cyn mynd i dŷ addoliad Duw, rhag 'eira a mud' - 'Gwylia ar dy draed wrth fyned i dŷ Dduw' (JBW) *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Rhagfyr 1847. Mae nifer o ysgrifau yn condemnio pechodau megis alcohol, chwareuyddiaeth, tybaco, *parties*, *tea parties*, *dances*. Y darn a gymerai'r lle blaenllaw ar ddechrau'r cylchgrawn yw pregeth neu draethawd gan bregethwyr nodedig o Gymru ac America.

¹⁷² Clawr y gyfrol gyntaf - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

¹⁷³ Anerchiad y golygydd - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, 1841.

¹⁷⁴ Jones, Aled, 'The Welsh Newspaper Press'.

¹⁷⁵ Tyler, Robert, 'Y Wasg Gymraeg yn Nhrefedigaeth Awstralia', t.21-32.

¹⁷⁶ Davies, Russell, *Hope and Heartbreak*, t.325.

Yn wir, arferiad cyson yn yr ysgrifau hyn oedd dyrchafu'r Cymry uwchlaw cenedloedd eraill oherwydd eu gwerthoedd ysbrydol:

...er cymmaint gwybodaeth y Sais, medrusrwydd y Ffrencyn, a chyfoeth yr Ellmyn, y mae crefydd y Cymro yn eu gorbwyso.¹⁷⁷

Pwy felly oedd yn cael mynediad i'r 'grŵp cadarnhaol' hwn, a beth oedd y meini prawf i ddarllenwyr y *Cyfaill*?

(xii) Cyfarchiad y golygydd.

Er gwaethaf ei ymlyniad enwadol personol fel gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfaidd, un o brif gonglfeini polisi golygyddol William Rowlands o'r dechrau fyddai gwasanaethu'r Cymry'n ddiwahân drwy gynnig llwyfan niwtral, tuedd a oedd yn nodweddu'r wasg gyfnodol Gymraeg yn gyffredinol pan oedd yn ei babandod.¹⁷⁸ Cyflwyno'r golygydd y gyfrol gyntaf i Gymry America wrth gyfeirio atynt fel ei 'anwyl gydgenedl,' cyfarchiad y byddai Bhabha yn ei ddiffinio fel '*discursive address*,' sy'n fodd i ddiffinio grŵp ethnig ieithyddol mewn dull uniongyrchol.¹⁷⁹ Ymdrecha i uno'r gymdeithas brint-ieithyddol gynhwysol na ffafriai unrhyw blaid nac enwad o dan faner y *Cyfaill*:

Gwnaethom ein goreu i ochelyd gosod dim i mewn a ddoluriai deimladau neb, o ba farn grefyddol bynag y byddai, os byddai ganddo barch i'r Beibl, gan na fwriadwyd y *Cyfaill* yn offeryn plaid, ond yn gyfrwng o wybodaeth fuddiol i'r genedl yn gyffredinol.¹⁸⁰

Roedd yr amod 'os byddai ganddo barch i'r Beibl' yn diffinio cylch penodol o ddarllenwyr yn y modd yr oedd yn targedu cynulleidfa grefyddol; ond o fewn y gymdeithas hon

¹⁷⁷ 'Y Cymry All-fudawl' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1838. Hefyd, gw. Ysgrif 'Y Gomeriaid,' (Iorwerth, Dyffryn Tawel) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1838.

¹⁷⁸ Jones, Philip Henry (1990) *Yr Amserau: The First Decade 1843-52*, yn (gol) Brake, Laurel et al, *Investigating Victorian Journalism*, Macmillan: Llundain. e.e. *Yr Amserau*, Lerpwl. Jenkins, R.T. (1933) *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Byntheg*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd. Yn yr un modd, sefydlwyd y cylchgrawn *Seren Gomer* yn 1814 er budd y genedl gyfan, heb arddel plaid nag enwad.

¹⁷⁹ Bhabha, Homi.K. (1991) Introduction: narrating the nation, yn (gol) Bhabha, Homi.K. *Nation and Narration*, Routledge: London, t.1-8.

¹⁸⁰ Rhagymadrodd - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

ymdrechir i bontio rhwng enwadau er mwyn hybu achos crefydd ymhlith y Cymry.

Pwysleisir yr egwyddorion hyn yn y rhifyn cyntaf ar ffurf ymddiddan ffuglennol am y *Cyfaill*

a'i wasanaeth i'r gyd-genedl:

Cym. Yr ydych yn edrych fel dyn crefyddol. I ba blaid neu enwad o grefyddwyr yr ydych yn perthyn?

Cyf. [...] Nid wyf yn perthyn i un blaid grefyddol, yn neillduol, eithr i genedl y Cymry yn gyffredinol.

Cym. Ow! Does *bossibl* eich bod yn ddyn digrefydd wedi'r cwbl?

Cyf. Na: nid wyf yn foddlon i chwi fy ngalw yn ddigrefydd 'chwaith, oblegid fy nyben yw pleidio crefydd, yn mhob modd hyd eithaf fy medr a'm gallu. Eithr ni ydwyf yn codi baniar plaid nac enwad yn fy ymdrechion presenol. Efallai y meddyliwch fy mod yn rhyw greadur hynod, erbyn y rhoddaf i chwi ychydig o'm hanes. Mewn un ystyr yr wyf y mwyaf anhleidiol o bawb, oblegid yr wyf yn diarddel pob perthynas bleidiol; ond mewn ystyr arall yr wyf y mwyaf pleidiol o bawb, oblegid yr wyf yn foddlon cyfeillachu a phob plaid – gwrando ar eu cwynion – rhedeg ar eu negesau – cyfranu fy nhrysorau iddynt, a'u coleddu yn ddiwahaniaeth.¹⁸¹

Hanfod y cyhoeddiad yn sylfaenol, felly, fyddai cyfuno amcanion efengylaidd a chenedlgarol

drwy fodloni pob enwad ymhlith y Cymry ymfudedig yn y gwahanol dreflannau gyda

'gwybodaeth fuddiol.' Ar un llaw, ymdrechai'r *Cyfaill* i achub eneidiau unigolion drwy

gyfrannu at eu datblygiad personol a moesol; ac ar y llaw arall, ymdrechai i feithrin dolen

gyswllt rhwng y cymunedau Cymreig gwasgaredig er mwyn creu un gymuned genedlaethol.

Yn wir, proffesai cylchgrawn misol *Y Cymro* a sefydlwyd ar gyfer Cymry Llundain yn 1830 yr un amcan cyffredinol o gymryd safiad golygyddol diragfarn. Er mai papur crefyddol ar gyfer yr eglwys ydoedd, cynigiai amrywiaeth o bynciau er lles y genedl, fel y dywed clawr y gyfrol, sy'n adlais gryf o'r *Cyfaill*: 'Trysorfa Celfyddyd a gwybodaeth fuddiol a chyffredinol.'¹⁸² Roedd y cyfnodolion yn y gwahanol gymunedau alltud felly'n rhannu'r un weledigaeth am y ffordd orau i wasanaethu eu cenedl.

¹⁸¹ Ymddiddan rhwng 'Y Cyfaill a'i Gydgenedl' – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

¹⁸² Tudur, Rhys (2000) *Y Cymro 1932-45: Hanes sefydlu Y Cymro, ei ddatblygiad a'i gynnwys hyd ddiwedd yr Ail Ryfel Byd*, Traethawd Phd: Prifysgol Bangor. Sonir am y cyhoeddiad yn y traethawd hwn, er bod ei ffocws ar gyhoeddiad diweddarach a elwir 'Y Cymro'.

(xiii) 'Wele y gyfrol gyntaf.'

Yn ôl Bhabha, mae technegau ieithyddol darnau golygyddol yn agor y drws i fynegiant amrywiol o deithi cymdeithasol a llenyddol y genedl.¹⁸³ O'r herwydd, rhydd darnau golygyddol William Rowlands ddarlun cynhwysfawr o'i fwriadau a'i obeithion ar gyfer y cyhoeddiad, gan amlinellu ei gynlluniau i gynnig cymorth i'r Cymry yn y wlad ddieithr. Mae dadansoddi cynnwys y colofnau golygyddol, felly, yn rhoi darlun clir o amcanion William Rowlands gyda'r cyhoeddiad. Mae gweld eu perthynas ymhellach â'i benderfyniadau wrth ddedhol testunau yn dadlennu llawer am ddehongliad William Rowlands o hunaniaeth ddiwylliannol ei ddarlennwyr a sut i gwrdd â'u disgwyliadau. Yn fwy na hynny, er mai nod y golygydd yw hyrwyddo menter ymarferol, nid darnau golygyddol mecanyddol ydyw'r rhagymadroddion o'i eiddo, ond yn hytrach darnau coeth o lenyddiaeth sy'n gyforiog o ddelweddau a chyfoeth o addurniadau llenyddol. Roedd y mudiad Rhamantaidd a oedd yn lliwio naratifau cenedlaetholgar yn Ewrop hefyd wedi cydio yn lenyddiaeth Cymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac fel y deallusion Ewropeaidd a geisiai apelio at gynulleidfa enfawr,¹⁸⁴ defnyddiai William Rowlands amrywiaeth o ffurfiau rhethregol i ymrestru'r Cymry yn y frwydr dros barhad eu cenedligrwydd yn America.

Disgrifia Iorthryn Gwynedd ef fel 'un o'r llenorion mwyaf chwaethus a ddaeth o Gymru i America,'¹⁸⁵ ac felly nid yw'n syndod iddo gyfleu ei genadwri yn ei ddarnau golygyddol a'i bregethau gydag adnoddau creadigol, yr hyn a ddisgrifia awdur ei gofiant fel 'prydfferthwch ei feddwlddrychau.'

Yr oedd mor naturiol yn ei gydmariaethau, a dedwydd yn ei engreiffitiai, a'i ddefnyddiad o hanes, er arlunio ac effeithioli ei ddrychfeddwl.¹⁸⁶

¹⁸³ Bhabha, Homi.K. (1991) *DissemiNation: time, narrative, and the margins of the modern nation*, yn (gol) Bhabha, Homi.K. *Nation and Narration*, Routledge: London, t.292.

¹⁸⁴ Nairn, Tom (1977) *The Break-up of Britain: Crisis and neo-nationalism*, NLB: London, t.340.

¹⁸⁵ Thomas, R.D., *Hanes Cymry America*, rhan 3, t.175-6.

¹⁸⁶ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.373.

Roedd rhagymadroddion eisoes wedi eu sefydlu fel cyfrwng llenyddol pwysig yn eu hawl eu hunain fel modd i awduron wyntyllu eu meddyliau, ac nid fel arweiniad yn unig i'r testun llenyddol. Ers i'r iaith Gymraeg groesi trothwy'r byd argraffu gyda'r llyfr cyntaf 'Yny llyvyr hwnn' yn 1547, fe'u defnyddiwyd yn helaeth gan ddyneiddwyr yn yr unfed ganrif ar bymtheg fel cyflwyniad i rai o brif destunau'r oes. Yn wir, cynhwysir rhai o'r rhagymadroddion hyn yn y canon llenyddol Cymraeg arferol ymysg testunau llenyddol pwysicaf y cyfnod modern cynnar.¹⁸⁷

Gellid cymhwyso'r un meini prawf arddulliol wrth drafod darnau golygyddol William Rowlands yntau, a oedd yn pendilio rhwng celfyddyd a sylwebaeth gymdeithasol. Rhy bwyslais ar ieithwedd y darnau hyn er mwyn rhoi cnawd am esgyrn ei fyfyrddodau, ac felly clywn awdurdod ei lais personol a llenyddol fel sylfaenydd y *Cyfaill* drwy gyfrwng y darnau hyn ar ddechrau pob rhifyn. Yn rhagymadrodd y gyfrol gyntaf defnyddir trosiad estynedig o'r byd cyfreithiol er mwyn atgyfnerthu neges fod *Y Cyfaill* yn barod am feirniadaeth:

Wele y gyfrol gyntaf o'r *Cyfaill o'r Hen Wlad*, ger eich bron yn awr, yn agored i'w brawf, ac yn barod i dderbyn ei ddedfryd o gymeradwyaeth, neu gollfarniad yn ôl fel y'ch tueddir. Ofer i ni gynhyg dyweyd dim mewn ffordd o ganmoliaeth iddo – gwrthodir ein tystiolaeth am ein bod yn berthynasau rhy agos, a gwyddom oni chanmola ef ei hun, mai diwerth fydd canmoliaeth pawb eraill.¹⁸⁸

Amlyga'r rhagymadrodd fod rhagolygon llewyrchus ar gyfer y *Cyfaill*, a bod nifer y derbynwyr yn uwch na'r disgwyl hyd yn oed ar ddechrau'r fenter:

Yr oeddem yn mhell oddiwrth fod yn galonog yn ei gychwyniad – dygwyd y Rhifyn cyntaf trwy y wasg, o'r braidd, gan lusgedd ac iselder ein dysgwyliadau; ond yr oeddem wedi penderfynu cyn erioed sôn am dano, aberthu yr hyn a feddem, ac a allem o blaid yr anturiaeth – gan hynny allan y daeth. Er ein siomedigaeth foddhaol, cyn pen y mis yr oedd ei dderbynwyr wedi cynnyddu cymmaint, fel nas gallem eu diwallu oll; ac y mae llawer yn awr a'i hymofynnent o'r dechreuad, yn amddifaid o'r rhifynau cyntaf.¹⁸⁹

¹⁸⁷ Hughes, Garfield.H. (1976) *Rhagymadroddion 1547-1659*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.

¹⁸⁸ Rhagdraeth - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

¹⁸⁹ Ibid.

Awgrymir uchod fod William Rowlands wedi buddsoddi'n bersonol yn y prosiect cyhoeddi (sylwer at y cyfeiriad at 'aberth'), a chadarnha ei gofiant fod y *Cyfaill* yn eiddo iddo drwy gydol ei olygyddiaeth.¹⁹⁰ Byddai ariannu'r *Cyfaill* ei hun yn hytrach na mynd ar ofyn ei enwad am gymorth fel y gwnaethai cynifer o gylchgronau'r wasg gyfnodol Gymraeg yn sicrhau ei fod yn driw i'w bolisi niwtral - mewn cyd-destun economaidd o leiaf - rhinwedd y mae'n ei frolio'n aml yn ei anerchiadau golygyddol.

Megid ag yng Nghymru, nid tasg syml o bell ffordd oedd sefydlu cyfnodolion yn yr oes honno. Fel y noda Aled Jones, nid yw'n rhyfedd i gynifer o gylchgronau Cymraeg fethu, ac yn ei eiriau ef, 'y syndod yw fod y wasg gyfnodol Gymraeg wedi cael ei thraed dani o gwbl.'¹⁹¹ Byddai'n rhaid i'r golygyddion oresgyn amryw o anawsterau i gynnal cyhoeddiad, ac felly ni ddylid dibrisio mentergarwch unigolion fel William Rowlands yn sefydlu cylchgrawn o ystyried sefyllfa economaidd fregus y mentrau cyhoeddi Cymraeg yn gyffredinol.¹⁹² Yn ddiamau, bu cynllunio gofalus ymlaen llaw yn gyfrifol am lwyddiant cychwynol y cylchgrawn.

(xiv) 'Y blaenred croesawgar.'

Disgrifia William Rowlands y gobeithion am lwyddiant *Y Cyfaill* yn y rhifyn cyntaf yn sgil llythyrau o ganmoliaeth ar ddechrau'r fenter, sy'n awgrymu fod y misolyn wedi cydio yn awydd rhai o Gymry America am gylchgrawn o'r fath:

Hyfryd genym allu hysbysu fod y llythyrau yr ydym yn eu derbyn o bob parth lle y cylchreda y cyhoeddiad, mewn perthynas i'w deilyngdod, yn foddhaol iawn. Ac er nad ymddangosodd llyfryn erioed a foddlonai bawb, y mae y farn gyffredinol am y *Cyfaill* yn gymeradwyol.¹⁹³

¹⁹⁰ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.398.

¹⁹¹ Davies, John, *Hanes Cymru*, t.327.

¹⁹² Jones, Aled, 'The Welsh Newspaper Press', t.9.

¹⁹³ Rhagdraeth - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

Yn y rhifyn cyntaf, fe'i croesewir yn frwd gan anerchiadau sy'n cofleidio'r bwriad i 'oleuo'r genedl,' ac awgrymir bod syched ymhlith Cymry America am gyhoeddiad o'r fath. Yn amlwg, byddai ei lwyddiant i raddau helaeth yn ddibynnol ar lafur cariad ei sylfaenydd ac ar anturiaeth bersonol hynod uchelgeisiol nad oedd yn medi manteision economaidd. Cymeradwyir seiliau gwladgarol ac anhunanol cymhellion addysgiadol William Rowlands, chwedl un sylwebydd yn y rhifyn cyntaf, 'Ein gwella heb elwa yw' i alwad.'¹⁹⁴

Mae cerdd i gyfarch y cyhoeddiad mor fuan â'r ail rifyn yn dystiolaeth fod y *Cyfaill* yn barod yn llenwi bwlch ym mywydau'r ymfudwyr. Anerchir y 'Cyfaill mwyngu' sy'n diddanu'r Cymry mewn 'estronwlad' gan fardd sy'n teimlo gorfoledd llesmeiriol yn sgil ei ddyfodiad: 'Ti gei fy nghalon.' Oherwydd ei 'duedd at feithrin dysg a moesau da,' teimla reidrwydd, 'oddiar gariad yn hytrach na medrusrwydd' i ddangos ei 'ewyllys da' i'r cyhoeddiad gyda cherdd yn pentyrru ei rinweddau,¹⁹⁵ a cheir llu o gerddi tebyg yn y rhifynnau cynnar yn dathlu genedigaeth y *Cyfaill*.

Er gwaethaf ansicrwydd y byd cyhoeddi, mae'n amlwg fod y golygydd yn cychwyn ei brosiect uchelgeisiol ar nodyn hynod obeithiol yn y sicrwydd bod angen cyhoeddiad o'r fath, ac ymgwymerodd â'r anturiaeth yn dilyn anogaeth gan nifer o'i gydwladydd:

O barthed ein golygiadau presennol, yr ydym yn dra sicr fod yn y wlad hon ddigon o Gymry ewyllysgar i gynnal Cyhoeddiad Misol...¹⁹⁶

Naturiol felly oedd fod y *Cyfaill*, fel un o bileri diwylliannol y genedl, yn atgyfnerthu hunaniaeth Gymreig yr ymfudwyr drwy ddarparu ar gyfer eu hanghenion mewn gwahanol beuoedd:

Y blaenred croesawgar, sydd gyflym gludai newyddion o wlad anwyl ein genedigaeth; gofalus Geidwad Iaith a barddoniaeth ein cyn-deidiau; ac amhleidgar amddiffynydd y ffydd Gristionogol, yn mhurdeb cynhenid ei phrif bynciau sylfaenol. Caffed gefnogaeth ddigonol, yr hyn a wir haedda.¹⁹⁷

¹⁹⁴ Anerchiad i'r *Cyfaill* (B.T.Glyniaen, Ebensburg) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

¹⁹⁵ Anerchiad i'r *Cyfaill* - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1838.

¹⁹⁶ Rhagdraeth - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

¹⁹⁷ Gwledd y Cymry ar Wyl Ddewi, Caerefrog Newydd - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1839.

Trwy blethu'r elfennau hyn ynghyd, atega Jerry Hunter fod y wasg gyfnodol yn ddi-os yn cynorthwyo'r ymfudwyr i greu eu 'cymuned ystyrion' eu hunain ar lefel genedlaethol.¹⁹⁸ Fel y mynegir gan un darlennydd: '...cyfaill yw, a chyfrwng cyfeillgarwch rhwng cyfeillion gwasgaredig yn America a'u gilydd.'¹⁹⁹ Mae'n amlwg fod y darlennydd hwn yn credu yng ngrym cymdeithasol y wasg i weithredu fel rhwydwaith cysylltiol rhwng treflannau Cymreig y cyfandir, ffactor nid dibwys yng nghynhafiaeth eu hymdeimlad o Gymreictod. Cynigiai'r wasg y dull a'r modd i droi'r cymunedau lleol hyn yn frawdoliaeth genedlaethol a ymestynnai ar draws y cyfandir, ac ar draws yr Iwerydd hefyd.

(xv) 'Glew yw y gwir am y goleu.'

Câi ymlyniad gwladgarol y *Cyfaill* at grefydd fynegiant yn ei ddatganiadau o amhleidgarwch, ac un o'r prif themâu a fyddai'n britho anerchiadau William Rowlands drwy gydol ei olygyddiaeth fyddai gwahardd unrhyw ymryson ac ymosodiadau o natur bersonol. Serch hynny, roedd yn gredwr mawr mewn cyfiawnder, ac yn union fel yn achos *Seren Gomer*, un o'r dulliau i sicrhau yr apêl eang a oedd yn rhan ganolog o'i gonsensws oedd cynnig fforwm drafod agored i Gymry America drafod rhychwant eang o wahanol faterion.²⁰⁰ Ynghyd â disgrifio ei amcan yn ei grynsyth, mae William Rowlands yn y rhifyn cyntaf yn pwysleisio mai proses amlochrog yw cynnal misolyn, gan gydnabod y cydweithrediad allweddol rhwng y gohebwy'r darllenwyr i ffyniant y *Cyfaill*.

¹⁹⁸ Hunter, Jerry (2003) 'Y Traddodiad Llenyddol Coll,' *Taliesin*, 118, Gwanwyn, t.13-44.

¹⁹⁹ At dderbynwyr y *Cyfaill*. (H Gwalchmai) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1845. Hefyd Anerchiad i'r *Cyfaill - Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1838.

²⁰⁰ Williams, Glanmor (1989) *Grym Tafodau Tân: Ysgrifau Hanesyddol ar Grefydd a Diwylliant*, Gomer: Llandysul, t.266. Fel William Rowlands, ceisiai Gomer roi arweiniad i'r gymdeithas fel diwygiwr a gwladgarwr drwy sefydlu fforwm agored i Gymry oes Fictoria, 'a luniodd farn genedlaethol Cymru ac a roes fynegiant iddi.'

Un o nodweddion unigryw'r wasg gyfnodol yn y cyfnod oedd y berthynas rhwng awduron a darllenwyr, a oedd yn rhan o strwythur cymdeithasol cymhleth, a thasg anodd yw canfod damcaniaeth lenyddol sy'n gwbl addas i ymgyrraedd at ddealltwriaeth cyflawn o'r prosesau ar waith. Fel y dengys Aled Jones, un o greadigaethau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yw'r cysyniad bod y papur newydd yn llywiwr barn ac yn fowldiwr ideoleg.²⁰¹ Ond y cwestiwn tyngedfennol yw ai'r *Cyfaill*, a'r golygydd felly, a oedd yn dylanwadu ar hunaniaeth y diwylliant Cymreig-Americanidd a'i ddarllenwyr, neu ai'r gynulleidfa a oedd yn pennu cynnwys eu cyfrwng cyfathrebu?

Hynod ddefnyddiol yw'r datblygiad ym maes damcaniaeth lenyddol '*reception theory*', yn y modd y mae'n ystyried rôl weithredol y darllenydd wrth ddehongli ystyron yn y testun. Mae syniadaeth Stanley Fish am 'gymunedau dehongliadol' yn addas i asesu'r berthynas rhwng y testun a'r gynulleidfa yn y modd y mae'n rhoi pwys ar y darllenydd unigol yn dehongli naratif fel rhan o gymuned:

...not as a free agent making literature in any old way, but as a member of a community whose assumptions about literature determine the kind of attention he pays and thus the kind of literature 'he' 'makes.'²⁰²

Yn ei dyb ef, y darllenydd sy'n 'creu' llenyddiaeth wrth iddo'i dehongli yn ôl y themâu cyfarwydd y mae'n eu rhannu eisoes â'r rhwydwaith gymdeithasol ar wahanol lefelau, a'r ymwybyddiaeth dorfol hwn sy'n llywio ei ymateb:

Interpretive communities are made up of those who share interpretive strategies not for reading (in the conventional sense) but for writing texts, for constituting their properties and assigning their intentions. In other words, these strategies exist prior to the act of reading and therefore determine the shape of what is read rather than, as is usually assumed, the other way around.²⁰³

Fel y dengys y penodau canlynol, roedd y darllenwyr yn weithredol yn y dasg o ddehongli ystyron crefyddol, gwleidyddol, llenyddol ac ieithyddol drwy gyfrwng y wasg:

²⁰¹ Jones, Aled Gruffydd, *Press, Politics and Society*, t.4.

²⁰² Fish, Stanley (1980) *Is There a Text in this class?: The Authority of Interpretive Communities*, Harvard University Press: Cambridge, Massachusetts, t.11.

²⁰³ *Ibid*, t.171.

For the reader, of course, the periodical is not only a product to be consumed. It also enters into the processes of signification or meaning-making. To put it another way, reading a periodical is itself a productive process and what is produced is meaning.²⁰⁴

Eto i gyd, mae cysyniad Fish yn broblematic yn y modd y mae'n cymryd yn ganiataol fod y gynulleidfa'n rhannu'r un 'strategaeth ddehongliadol.' Fel y'n rhybuddiwyd gan Brake:

...the identity of the reader is not the unity it is often imagined, but rather the product of a complex set of negotiations and exchanges between historically informed discursive practices and the individuals and communities with whom they came into contact.²⁰⁵

Er bod y Cymry yn America yn rhan o gynulleidfa ieithyddol unedig y ceisia'r *Cyfaill* ei gwasanaethu, roedd cywasgu cymaint o safbwyntiau gwahanol yn rhwym o ddarnio'r undod hwn, ac esgor ar isgymunedau llai ymhlith ei gefnogwyr. Nid oedd y ddelfryd o feithrin trafodaeth iach bob amser yn llwybr esmwyth wrth i'r sylwebaeth a geir yn y cyhoeddiad ddod yn rhan o strwythur cymdeithasol cymhleth a oedd yn gynnrych ideolegol cefndiroedd tra gwahanol i'w gilydd. Roedd ceisio pontio cymunedau crefyddol, gwleidyddol a diwylliannol o wahanol argyhoeddiadau o dan faner un genedl ar adegau yn achosi gwrthryfel a gâi ei wyntyllu drwy'r cyfrwng print, ond a oedd hefyd yn ddigon hyblyg i'w trawsnewid eu hunain yn ôl gofynion y gynulleidfa.

Nid yw Fish ychwaith yn rhoi ystyriaeth i ddylanwadau allanol, ac yn achos y wasg gyfnodol mae'n rhaid cydnabod swyddogaeth y golygydd yn rheoli'r cymunedau hyn. Er bod y darllenwyr yn rhan o bethynas symbiotig â'r testun, yn nwylo'r golygydd y mae'r penderfyniad terfynol ynghylch siapio'r cynnwys. Disgrifia King a Plunkett fodel cyfathrebu a ddatblygwyd gan Robert Darnton, sy'n darlunio'r berthynas rhwng y golygydd a'r darlennydd (*producer a consumer*) fel cylch, gyda'r naill yn dylanwadu ar y llall. O'r herwydd, mae'r testun yn dibynnu ar driongl cymdeithasol cymhleth rhwng y golygyddion, y

²⁰⁴ Beetham, Margaret, 'Towards a theory of the periodical as a publishing genre', t.21.

²⁰⁵ Brake, Laurel et al (2000) Introduction, yn (gol) Brake, Laurel et al, *Nineteenth Century Media and the Construction of Identities*, Palgrave: New York, t.3.

gynulleidfa a'r gymdeithas, wrth iddynt ddylanwadu ar ei gilydd ac ymateb i'w gilydd yn barhaus.²⁰⁶

Un o'r prif ffyrdd i liniaru effaith y gwrthdaro rhwng gwahanol garfanau ar lwyddiant y cylchgrawn oedd darparu fforwm agored a gynigiai ryddid i'r gynulleidfa wyntyllu ei barn ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â'i hunaniaeth amlweddol. Roedd cyfnewid gohebiaeth a chynnal dadleuon am bynciau pwysig y cyfnod ar lwyfan y wasg, yr hyn a elwir gan Brake a Codell yn '*encounters*,' yn fodd i gysylltu'r ymfudwyr a geisiai ddal gafael ar ryw fath o gymuned Gymreig mewn gwlad mor eang. Roedd distyllu'r materion a ysgogai'r cyfranwyr i roi pin ar bapur hefyd yn fodd i Gymry America wneud synnwyr o'u hunaniaeth yn yr amgylchfyd newydd, drwy drin a thrafod pynciau cyffredin a oedd yn berthnasol iddynt. O'r herwydd, daethent yn rhan weithredol o ddiwylliant yr oes wrth i'r wasg roi awdurdod i'w hagweddau cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol, gan roi cyd-destunau amrywiol i hunaniaeth unigol cyfnodolyn:

Encounters determined the contexts and structure of many journals. Most nineteenth century periodicals, whether review, magazine, miscellany, or newspaper, consist of individuals' contributions patched together and fitted, very practically, to the space, readership, and politics of the structure of a single periodical issue.²⁰⁷

Yn hytrach nag ystyried y gynulleidfa fel cynnyrch unedig y genedl, dylid cydnabod y ddeialog rhwng y golygydd, yr awduron a'r darllenwyr, yr hyn a elwir gan Brake a Codell yn '*multivocal discourse of periodical text*'. Fel y nodir ymhellach ganddynt:

The concept of encounters is important not only because it mediates periodicals' social functions, but also because it offsets another tendency: a journal title promises a false unity, appearing to present, despite its many articles, topics, and illustrations, a unified policy, or set of beliefs, as if the journal itself were a single author.²⁰⁸

Er bod aelodau'r genedl yn rhannu cefndir cyffelyb i ryw raddau, mae'n rhaid hefyd archwilio'r gwahaniaethau yn eu safbwyntiau sy'n rhoi bod i amrywiaethau o ran eu

²⁰⁶ King, Andrew & Plunkett, John, *Victorian Print Media*, t.5.

²⁰⁷ Brake, Laurel & Codell, Julie (2005) Introduction: Encountering the Press, yn (gol) Brake, Laurel & Codell, Julie, *Encounters in the Victorian Press: editors, authors and readers*, Houndmills: Basingstoke, t.1.

²⁰⁸ Ibid.

hunaniaeth. Yn aml, roedd cyfnodolion yn creu rhwygiadau yn ogystal ag uno cymunedau, ac felly mae sylweddoli nad cynnyrch ideoleg un grŵp yw'r wasg gyfnodol yn mynd â ni gam yn nes at ddealltwriaeth o'i chyfraniad i hunaniaeth ar wahanol lefelau.

Dadleua Robert Owen Jones hefyd mai'r lleisiau lluosog hyn oedd priod nodwedd cyhoeddiadau Cymreig fel y *Cyfaill*, gan mai'r werin gyffredin Gymraeg a'u cynhaliai.²⁰⁹ Un o gerrig sylfaen apêl eang y wasg Gymraeg oedd y ffaith ei bod yn rhoi llwyfan i awduron profiadol, ac ar yr un pryd yn ysgogi cyfraniadau gan ddarllenwyr nad oeddynt yn ymhel â llenyddiaeth fel arall. Felly y crewyd 'diwylliant bywiog o ysgrifennu poblogaidd' nad oedd wedi ei gyfyngu i hufen y byd llenyddol.²¹⁰ Pe na bai ysgrif yn plesio William Rowlands, cyhoeddai sylw byr ar y clawr yn nodi ei resymau dros ei gwrthod, ond yn gyffredinol dibynnai'r *Cyfaill* a'r wasg gyfnodol Gymraeg yn America yn sylweddol ar gyfraniadau digymell am eu llwyddiant. Fel y dadleuodd Aled Jones:

I'r golygydd yr oedd y cyfraniadau hyn ar eu gorau yn creu dadl a fyddai'n hybu gwerthiant, ac ar eu gwaethaf yn ddull rhad o lenwi gofod, ond i'r darlennydd yr oeddynt o gryn ddiddordeb am ddau reswm: rhoddent amcan o farn unigolion ac, mewn rhai achosion, o'r farn gyhoeddus ar adegau neilltuol, a chynhwysent hefyd, yn anfwriadol yn aml, bytiau gwerthfawr o newyddion a allai fod wedi mynd i ddifancoll.²¹¹

Mae llythyrau yn enwedig, yng ngeiriau King a Plunkett '*demotic form of writing*'²¹² yn pennu gogwydd cyhoeddiad i raddau helaeth, ac o'r herwydd yn ffynonellau hynod ddefnyddiol sy'n caniatáu i ni blymio i fyd y mewnfudwr Cymraeg yn America'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae eu cyfoeth o arddulliau amrywiol a'u cyfeiriadaeth ddiwylliannol yn datgelu agweddau eu hawduron am ystod eang o bynciau a effeithiai gymdeithas y cyfnod.

²⁰⁹ Jones, Robert Owen, '*Hir Oes i'r Iaith*', t.258-9. Datganodd y Pch. John Blackwell mewn araith yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych yn 1825 fod cyhoeddiadau misol Cymru ar y pryd wedi eu hanelu at y werin gyffredin, ac y deuai'r prif gyfrannwyr o'r dosbarth hwnnw.

²¹⁰ Jones, Aled (1999) *Yr Iaith Gymraeg a Newyddiaduraeth*, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.364-5.

²¹¹ *Ibid.*, t.365.

²¹² King, Andrew & Plunkett, John, *Victorian Print Media*.

Yn y cyd-destun hwn, ymdrechai William Rowlands i ymwrthod â'i swyddogaeth olygyddol yng nghymhlethdod y gwedd cymdeithasol, gan arddel pellter beirniadol oddi wrth y cylchgrawn a'i ddylanwad ar y gynulleidfa. Canlyniad cynnig llwyfan rhydd i safbwyntiau amrywiol fyddai'r rheidrwydd i bwysleisio ei wrthrychedd a gosod amodau ar fynegiant y dadleuon hyn:

Nid yw y Golygydd yn gyfrifol am wahanol farnau ei ohebwy. Rhaid cyfyngu pob dadl o fewn terfynau rhesymol, ac ymgadw oddiwrth ddifriaeth bersonol. – 'Nid gwaeth cywir er ei chwilio.' – 'Glew yw y gwir am y goleu.'²¹³

Tarddai ei ymrwymiad i wrthrychedd o'i bolisi diduedd, ac oherwydd yr egwyddor hon, nid yw'n hoff o gamu i faes y ddadl. Er hynny, pan gaiff ei gyflyru i gymryd rhan, pan fydd materion crefyddol neu wleidyddol yn ei gyffroi, adlewyrchir ei ddull 'gonest, miniog a didderbyn wyneb' o weinidogaethu yn ei ysgrifau.²¹⁴ Y dechneg a ddefnyddiai i fynegi ei farn bersonol oedd cyhoeddi ysgrifau o dan ffugenw. Rhoddai hyn rwydd hynt iddo gyflwyno ei safiad yn annuniongyrchol, gan osgoi unrhyw gyhuddiadau ei fod yn defnyddio grym y swydd olygyddol i'w ddibenion ei hun. Roedd ganddo farn bendant felly y dymunai ei rhannu, ond roedd hanfod swyddogaeth y cylchgrawn yn ei atal rhag ei datgan yn agored.

A oedd y *Cyfaill* felly'n beiriant hunangynhaliol a oedd yn ddibynnol ar gysylltiad uniongyrchol rhwng y testun a'r genedl yn unol â dymuniad y golygydd i sefyll y tu allan i'r cylch cymdeithasol, neu a oedd dylanwad William Rowlands yn troi'r olwynion trwy ddulliau mwy annuniongyrchol? I ba raddau yr oedd ei ddaliadau fel unigolyn yn effeithio ar y gymdeithas yr oedd yn ei gwasanaethu?

²¹³ Is-bennawd y golofn 'Gohebiaethau' mewn cromfachau.

²¹⁴ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.143.

(xvi) 'Y Cyfaill mwyn tirion.'

Er gwaethaf ymdrechion i'r gwrthwyneb, mae'n anochel yn y pen draw mai golygyddion y cyfnod a oedd yn bennaf gyfrifol am gynhyrchu 'ystyron' eu cyhoeddiadau ar ran y genedl. Fel y nododd un sylwebydd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg:

Cymeriad golygydd unrhyw gyhoeddiad, yn gyffredin, fydd yn penderfynu cymeriad ysgrifenydd y cyhoeddiad hwnw, a chymeriad y naill a'r llall, i raddau pell, fydd yn penderfynu cymeriad ei ddarllenwyr...²¹⁵

Anochel felly fyddai i elfennau o argyhoeddiad personol William Rowlands fel gweinidog a 'thad y Methodistiaid Calffinaidd yn America'²¹⁶ ymdreiddio i'w gyhoeddiad gan fod y ddwy alwedigaeth mor glos. Fel gweinidog, mae tystiolaeth helaeth yn nodi fod William Rowlands yn Fethodist pybyr a bregethai yng nghymanfaoedd amrywiol daleithiau, gan hybu cydweithio rhwng yr eglwysi er mwyn atgyfnerthu'r enwad.²¹⁷ Profiad angerddol ac emosynol oedd crefydd i'r Methodistiaid, yn hytrach na phwnc athrawiaethol i ddadlau yn ei gylch, ac o'r herwydd teimlai ei broffeswyr yr angen i rannu'r genadwri yn eang, heb unrhyw gyfyngiadau.²¹⁸ Yn gryno, y brif amcan oedd 'troi'r dyn cyffredin yn ddyn duwiol' drwy achub eneidiau unigolion.²¹⁹ Mae elfennau o ddysgeidiaeth y Methodistiaid felly yn amlwg iawn yng ngolygyddiaeth William Rowlands o'r dechrau, er gwaethaf ei safiad niwtral proffesedig, ac yn mynd â ni gam ymhellach i ddeall ei gymhellion golygyddol. Wedi'r cwbl, roedd ysbryd cenhadol ei gyhoeddiad yn un o'r nodweddion a roddodd i Fethodistiaeth ei chymeriad unigryw o'r cychwyn,²²⁰ ac roedd natur deithiol ei weinidogaeth a'i genhadaeth drwy gyfrwng y wasg yn tarddu o'r un argyhoeddiad personol.

²¹⁵ Jones, T. M. (1893) *Llenyddiaeth fy ngwlad*, P. M. Evans: Treffynnon, t.181-2.

²¹⁶ Williams, Jay G, *Memory Stones*.

²¹⁷ Williams, Daniel Jenkins, D.D. (1937) *One Hundred Years of Calvinistic Methodism in America*, Westminster Press: Philadelphia, t.118-122. Teithiai drwy daleithiau Efrog Newydd a Phensylfania yn helaeth.

²¹⁸ *Ibid.*, t.71.

²¹⁹ Roberts, Parchedig John (1931) *Methodistiaeth Galffinaidd Cymru: ymgais at athroniaeth ei hanes, Darlith Davies 1930*, Foyle: Llundain, t.152.

²²⁰ Williams, Parchedig D.D. (1927) *Llawlyfr Hanes Cyfundeb y Methodistiaid Calffinaidd*. Pwyllgor Llenyddiaeth y Cyfundeb: Caernarfon, t.150; Williams, Daniel Jenkins, D.D., *One Hundred Years of Calvinistic Methodism in America*, t.2. Deillia enw'r Methodistiaid o fudiad crefyddol a gychwynwyd yn Rhydychen yn 1729, a defnyddir yr enw i ddisgrifio natur ddiwygiadol yr arweinwyr cynnar hyn. Cyfarfyddai John Wesley,

Roedd ei brif egwyddorion golygyddol o osgoi cecru enwadol ac ymosodiadau personol, er mwyn gwneud y *Cyfaill* yn gyfrwng buddiol i holl Gymry America, yn gwbl gydnaws â ‘rheolau dysgyblaethol’ y Methodistiaid yng Nghymru a oedd yn rhybuddio’n erbyn ‘dadleuwyr ymrysongar.’²²¹ Roedd ei ddyhead i feithrin trafodaeth rydd hefyd yn unol ag ethos y Methodistiaid o roi rhyddid i bob un ‘lefaru ar yr achos mewn llaw’ yn y cymdeithasfaoedd.²²² Mae ei ddull o ymdrin â dadleuon yn debyg i lywodraethiad y cyfundeb yn y modd y rhoddid pwyslais ar degwch a phrofi haeriadau drwy gyflwyno tystiolaeth yn y materion ger eu bron. Yn anad dim, pwysleisiai’r rheidrwydd i gyflwyno’r ddadl mewn dull ‘boneddigaidd,’ gan ddefnyddio rhesymeg ac ieithwedd a fyddai’n deilwng o’r efengyl.

Mae’r ffaith i William Rowlands ailgyhoeddi nifer o draethodau diwinyddol o’r wasg enwadol yng Nghymru, yn enwedig o gyfnodolyn Methodistiaid fel y *Drysorfa*, hefyd yn awgrymu fod dylanwad yr enwad yn drwm arno wrth ddedol deunydd. Ar un llaw, mae amharoddrwydd William Rowlands i ddefnyddio ei rym yn agored fel golygydd, drwy osod ei enw priod ynghlwm wrth ei ysgrifau yn awgrymu ei fod yn awyddus i’w ddarllenwyr bwysu a mesur ei ddadleuon a ffurfio barn yn annibynnol. Eto i gyd, mae’r ffaith iddo gyhoeddi’r ysgrifau hyn o gwbl yn adlewyrchu dymuniad i ddiwyllio’r Cymry a thywys y darllenwyr mewn dull cynilach at ei ffordd ef o feddwl. Caiff agenda’r cyhoeddiad ei lywio gan

myfyriwr brwd dros achos crefydd, â dynion ifanc eraill yn Rhydychen er mwyn darllen llyfrau o ansawdd, a theithio o amgylch y ddinas yn darllen a gweddio gyda’r anghenus, ac yn 1735, ymunodd George Whitefield gyda’r grŵp. Am gyfnod hir, ymroddai’r dynion hyn i astudio crefydd yn ddwys a theithio o amgylch trigolion llai ffodus yn lledaenu’r efengyl, ac fe’i galwyd yn ‘Fethodistiaid’ oherwydd eu hymddygiad trefnus a pharhaus.

²²¹ *Hanes cyfansoddiad, rheolau dysgyblaethol yn nghyda Chyffes Ffydd y corph o Fethodistiaid Calfiniaid yn Nghymru a gytunwyd arnynt yn Nghymdeithasfaoedd Aberystwyth a Bala, 1823.* (1852) Argraffiad Americanaidd 1af. E.E.Roberts: Utica, t.26. Mae’n bosibl fod y consensws hwn yn deillio o gonglfeini’r enwad Methodistiaid a gredai fod undeb a brawdgarwch yn hanfodol i ‘lwyddiant a defnyddioldeb’ y corff, a bod dadleuon ac ymrysonau yn ‘attal yn fawr fuddioldeb ac adeiladaeth ysbrydol,’ sy’n adleisio ple William Rowlands a’i flaenoriaeth grefyddol yn gryf.

²²² *Ibid.* Crefydd oedd sylfaen y Gyffes Ffydd, ac felly ni oddefwyd dadlau i amharu ar burdeb crefydd: “Na byddont yn ddadleuwyr ymrysongar, yn amhwylllo ynghylch cwestynau, ac yn ymryson ynghylch geiriau; ond yn ostyngedig, yn addfwyn, yn hawdd eu trin, yn dangos paroddrwydd gymryd eu haddysg yn fanylach yn ffordd Duw.”

safbwyntiau gwleidyddol a diwylliannol y golygydd, a chaiff y darlennydd, yn ei isymwybod, ei wthio at yr agweddau a wyntyllir ynddo.²²³

Mae'r diffinad o 'niwtral' felly yn amwys yn ei berthynas â'r dadleuon yn y *Cyfaill*. Er ei fod beunydd yn atgoffa ei ddarllenwyr o bolisi heddwch y cyhoeddiad a'i hoffter o ddilorni dadlau, ni ellir ei gyhuddo o fod yn llywaeth fel golygydd gyda rhai materion. I'r gwrthwyneb, dengys ei ddannedd heb betruso wrth amddiffyn rhai egwyddorion, gan geisio lledaenu'r 'gwirionedd' a goledai ef. Nid yw cefndir ideolegol y *Cyfaill* yn anwahanadwy oddi wrth athrawiaeth enwad y golygydd fel unigolyn, a'r seiliau hyn sy'n cynnal ei safiad diwro yn rhyferthwy tymhestloedd y wasg Gymreig-Americanaid.

Mae Gellner yn tanlinellu ymwybyddiaeth arweinwyr diwylliannol o'u swyddogaeth o ran cylchredeg syniadau ymysg y genedl, '*men with literary and propagandist gifts*.'²²⁴ Yn yr un modd, mae'n anodd credu fod gweithredoedd golygyddol William Rowlands yn gwbl anfwriadol, gan ei fod mor effro i effeithiau arddull ac ieithwedd y gair print. Mae'r naratifau o'i eiddo yn awgrymu ei fod yn feistrolgar yn y modd y mae'n cynghori darllenwyr, er ei fod, meddai, am i'r darllenwyr benderfynu drostynt eu hunain, ac yn cyson bwysleisio ei amhleidgarwch.

Eto i gyd, dengys y duedd i ailgyhoeddi deunydd o gylchgronau eraill ehangder y *Cyfaill* yn ei wasanaeth i Gymry America. Cyhoeddir cyfieithiadau o wahanol destunau o bapurau Saesneg a gyhoeddwyd yn Lloegr ac America,²²⁵ sy'n dangos nid yn unig ehangder darllen y golygydd yn gyffredinol, ond ei fod hefyd yn rhan o'r gymuned ddehongliadol Saesneg fel darlennydd, yn cyfranogi ohoni ac yn trosglwyddo agweddau arni i'r Cymry. Mae'r duedd i ddefnyddio testunau o gylchgronau enwadau eraill yng Nghymru hefyd yn

²²³ Jones, Aled Gruffydd, *Press, Politics and Society*, t.54.

²²⁴ Gellner, Ernest, *Nations and Nationalism*.

²²⁵ e.e. *Family's Magazine, Todd's Sunday School Teacher, Simpson's Discourse, Robinson and Smith's Travels, Protestant, Lesson System Magazine, American Messenger, Christian Witness, Christian Mirror, Dick's Christian Philosopher, Pastor's Sketch Book*, ac eraill.

awgrymu bod William Rowlands yn ymdrechu i godi uwchlaw enwadaeth. Drwy hyn oll, gellir dweud ei fod yn croesi nifer o ffiniau ieithyddol, daearyddol ac enwadol.²²⁶

Mae rhai beirdd hefyd yn cadarnhau ei fod yn gwireddu ei amcan genedlgarol a swyddogaeth ei deitl ar ddechrau ei yrfa, fel y mynega Gwilym ab Ioan:

Cluda goron eu gwladgarwch;
Ol llaw gywrain *Cyfeillgarwch*
Ydyw addysg da a heddwch,
Amlhad gwir ac a'mhleidgarwch.²²⁷

Mae bardd arall yn argyhoeddedig o fwriad y *Cyfaill* i beidio ag ymdrybaeddu yn arferiad y wasg o daflu baw:

Y Cyfaill mwyn tirion, heb drais na dichellion,
Un tyner o galon, tra hylon yw hwn.²²⁸

Mae tystiolaeth gwahanol gerddi yn y rhifynnau cynharaf yn awgrymu y profai undeb y ffydd yn gryfach na'r rhaniadau enwadol, a meddai'r *Cyfaill* y gallu i'w pontio cyn dyfodiad cyhoeddiadau eraill i'w gwasanaethu'n unigol:

I foddiaw pawb yn grefyddol – e gafwyd
Teg gyfaill cyfryngol;
Daw'n glau enwau gwahanol
I'r un ffydd, heb 'forwyn ffol.'²²⁹

Yn yr un gerdd, mae'r bardd yn gwbl argyhoeddedig nad yw'r cyhoeddiad yn 'rhagrithio' nac yn coleddu 'rhagfarn mewn credo,' a'i fod yn gwrthwynebu unrhyw 'erlid a brad' ar faes y wasg. Yn wir, un o reolau'r Methodistiaid yng Nghymru y parhawyd i'w harddel yn America oedd na chaniateid 'aelodau fo'n byw mewn anghariad a rhagfarn parhaol tuag at neb o'u brodyr, neu mewn ymrafaelion a'u cymdogion.'²³⁰

²²⁶ Mae cyhoeddiadau eraill yn cynnwys y *Gwladgarwr*, *Cronicl yr Oes*, y *Dysgedydd*, y *Gwylidydd*, y *Greal*, y *Diwygiwr*, yr *Athraw*, *Brython*, y *Goleuad*, y *Geiniogwerth*, *Y Wawr*, *Y Gymraes*, *Seren Gomer*, *Ystorfa y Bedyddwyr*, *Eurgrawn Wesleyaidd*.

²²⁷ Anerchiad idd y *Cyfaill* ar ei ymddangosiad cyntaf. (Gwilym ab Ioan) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1838.

²²⁸ Anerchiad i'r *Cyfaill* (B.T.Glyniaen, Ebensburg) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

²²⁹ Anerchiad idd y *Cyfaill* ar ei ymddangosiad cyntaf (Gwilym ab Ioan) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1838.

²³⁰ *Hanes cyfansoddiad, rheolau dysgyblaethol yn nghyda Chyffes Ffydd y corph o Fethodistiaid Calffinaidd yn Nghymru a gytunwyd arnynt yn Nghymdeithasfaoedd Aberystwyth a Bala, 1823*. (1852) Argraffiad

Beth, felly, fyddai effaith athrawiaeth ei enwad ar olygyddiaeth William Rowlands, ac ar swyddogaeth y cylchgrawn? I ba raddau y llwyddodd i gadw'r cydbwysedd rhwng gweithredu'r egwyddorion amhleidiol, ac ymwrthod â hybu buddiannau ei enwad ei hun yn ormodol ac yn weladwy drwy gyfrwng y *Cyfaill*? A oedd yn bosibl cyhoeddi dadleuon er budd cyfiawnder, ac ar yr un pryd meithrin heddwch ar faes y *Cyfaill* er mwyn budd y genedl?

Pan oedd ganddo'r monopoli ar y wasg gyfnodol Gymraeg yn America, cawsai rwydd hynt i impio ei egwyddorion ar aelodau'r genedl, ond petai mwy o gyhoeddiadau yn ymuno ag ef ar faes y wasg argraffu, a fyddai'r patrwm cymdeithasol yn cael ei gymhlethu ymhellach? Pa effaith a gaent ar egwyddorion golygyddol y *Cyfaill*, ac yn ei dro ar y dynameg rhwng y cymunedau dehongliadol a sefydlwyd eisoes?

(xvii) Twf y wasg gyfnodol.

Gweithredodd y *Cyfaill* fel sbardun i dwf y wasg gyfnodol Gymraeg yn America, yn fisolyn a oedd yn porthi anghenion croestoriad o'r Cymry, a'r unig ddarpariaeth ar eu cyfer i'r perwyl hwn yn niwedd yr 1830au. Fodd bynnag, yr enwadau Anghydfurfiol oedd yn cynnal y byd cyhoeddi erbyn canol y ganrif yng Nghymru. Yn wir, gogwydd enwadol oedd i'r mwyafrif o'r cyfnodolion yn y cyfnod, boed y rheini'n wythnosol, yn fisol neu'n

Americanaid 1af. E.E.Roberts: Utica, t.26. Hefyd gw. Williams, Daniel Jenkins, D.D. (1937) *One Hundred Years of Calvinistic Methodism in America*, Westminster Press: Philadelphia, t.58. Nid yr enw'n unig a fenthyciwyd gan yr enwad yng Nghymru, ond ffurfiwyd yr eglwys Fethodistaidd Galfinaidd yn America ar lun a delw ei chwaer eglwys yn yr hen wlad, gan ddilyn yr un ddsgeidiaeth a oedd wedi ei chymhathu cymaint â phosib i'r amgylchiadau newydd. O'r dechrau, byddai capeli Cymreig yn America yn troi eu golygon tua'r famwlad am gyfarwyddyd neu gyngor ar faterion crefyddol, a defnyddient yr un canllaw o safonau â'r eglwys yng Nghymru. Yn ogystal, cadwent at yr un drefn gyfansoddiadol o ran ffurf y cymanfaoedd a'r cyfarfodydd. Pwysleisiai'r penderfyniadau a wnaed yn yr ymgynulliadau hyn y pwysigrwydd o gadw'r cysylltiad â Chymru, ond yn fwy na hynny, lluniwyd y penderfyniadau dros reolaeth a grym ar awdurdod y cyfansoddiad yng Nghymru. Meithrinwyd y cysylltiad hwn drwy anfon adroddiadau o gyflwr yr eglwysi yn America a drafodwyd yn y cyfarfodydd, i'r prif gorff yng Nghymru. Byddai gohebiaeth debyg o'r Hen Wlad i Gymry America yn creu proses ffrwythlon o gyfnewid syniadau a fyddai'n sbarduno gwelliannau, wrth i swyddogion o boptu'r Iwerydd gymharu'r achos yn y ddwy wlad a thynnu maeth o'r awgrymiadau i gryfhau'r enwad ar y naill gyfandir.

chwarterol.²³¹ Nid oedd pall ar dwf y cymunedau Cymreig yn America erbyn dechrau'r 1840au, ac yn fuan ysbrydolwyd yr enwadau eraill i sefydlu cyfrwng cyfathrebu eu hunain i hybu'r achos dros barthau eang a bodloni anghenion cylchoedd llai o ddarllenwyr.²³² Daeth *Y Cenhadwr Americanaidd* yn gydymaith i'r *Cyfaill* fel cylchgrawn ar gyfer enwad yr Annibynwyr yn 1840. Fe'i sefydlwyd gan y gweinidog enwog, y Parchedig Robert Everett o Steuben, Efrog Newydd, a pharhaodd hyd at drothwy'r ugeinfed ganrif yn 1901. Penderfynodd y Bedyddwyr sefydlu eu cyfnodolyn eu hunain, ac er gwaethaf methiant pythefnosolyn *Y Beread* ar ôl blwyddyn yn 1842, ymunodd *Y Seren Orllewinol*, a gyhoeddwyd yn Utica o 1844 hyd 1867, â'i gymrodyr ar faes y wasg gyfnodol. Cyrhaeddodd y wasg Gymraeg yn America benllanw yn 1851 gydag ymddangosiad y *Drych*, papur newyddion cyffredinol a gyhoeddwyd yn Utica wedi 1860.²³³

Dywed Roberts fod y wasg enwadol yng Nghymru yn ffurfio rhwydwaith barod o ddarllenwyr:

They were basically group journals, catering for a defined readership, providing mutually interesting items of news on one another's activities within the group, informing, educating, correcting, enlightening, confirming the identity of the group.²³⁴

Mae'n rhoi pwyslais ar y ffaith fod y cylch o ddarllenwyr wedi ei ffurfio yn ôl ffyddlondeb i'r un dosbarth cymdeithasol (*group loyalty* a *group identification*), ieithyddol a chrefyddol

²³¹ Davies, E.T. (1981) *Religion and Society in the Nineteenth Century*, Christopher Davies: Llandybie, t.42.

²³² Jones, Aled, 'The Welsh Newspaper Press'.

²³³ Am ddadansoddiad cronolegol treiddgar o'r papur, gw. Jones, Aled & Jones, Bill (2001) *Welsh Reflections: Y Drych & America, 1851-2001*, Gomer: Llandysul; ac am adolygiad ohono gw. Caulkins, D.Douglas (2002) *Welsh Reflections: Y Drych and America 1851-2001 – review*, *Journal of American Ethnic History*, Hydref, t.103-4. Am astudiaeth graff ar nodweddion diwylliannol ac ieithyddol y *Drych*, o'r cyfnod cynnar hyd at y modern, gw. Coupland, Nikolas et al (2003) *Home Truths: Globalisation and the Iconising of Welsh in a Welsh-American Newspaper*. *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, vol.24, no.3, t.153-77. Llwyddodd i orosi'r cyfnod bregus a wynebair gyfnodolion yn yr adeg pan roedd arian yn brin wrth ddisgwyl i'r cylchrediad gynyddu. Priodolir ei lwyddiant i'w natur gynhwysfawr, awydd y golygyddion i gynnwys amrywiaeth eang o ddeunydd, a mwy o newyddion a gwybodaeth ymarferol megis cyfleoedd gwaith na'r hyn a gynygiwyd gan y cylchgronau enwadol. Hefyd gw. Hartmann, Edward (1967) *Americans from Wales*, Christopher Publishing House: Boston, t.128-9 - roedd hyn yn cynnwys newyddion o'r cymunedau Cymreig amrywiol, megis priodasau, marwolaethau, eisteddfodau a chymanfaoedd canu, ynghyd â newyddion cyffredinol o'r famwlad.

²³⁴ Roberts, Brynley F. (1990) 'Welsh Periodicals: A Survey.' in (ed) Brake, Laurel & Jones, Aled & Madden, Lionel, *Investigating Victorian Journalism*, Macmillan: Hampshire, t.77-8.

ac wedi ei bennu gan deyrngarwch enwadol.²³⁵ Er bod y capeli'n darparu rhwydwaith ddosbarthu a chylchrediad parod, dewisodd William Rowlands wasanaethu Cymry America drwy osod y wedd grefyddol yng nghyd-destun y syniad o gyd-genedl a diffinio'i holl ddarllenwyr fel cymdeithas estynedig. Wedi'r cwbl, roedd gwreiddiau cynhenid Gymreig i'r holl enwadau Anghydfurfiol, ac yr oeddynt oll yn ymgorfforiad o arwahanrwydd ieithyddol a diwylliannol y Cymry; felly nid oedd gwrthdaro rhwng yr amcanion crefyddol a gwladgarol hyn yng nghyfnod cynnar y wasg gyfnodol:

Cyflwynodd y wasg Gymry cyffredin i feysydd, pynciau a syniadau newydd ond gan roi stamp Anghydfurfiol a thrwyadl Gymreig arnynt....Yn hyn o beth bu'n wrthglawdd pendant yn erbyn sialens diwylliant y Saesneg.²³⁶

Dengys y tebygrwydd rhwng y *Cenhadwr*, y *Cyfaill* a'r *Seren* hefyd fod gorgyffwrdd helaeth rhwng cyhoeddiadau Cymraeg y wasg gyfnodol yn America, a'u bod yn cynnwys yr un elfennau sylfaenol ac yn trafod yr un pynciau. Yn wir, roedd yr elfen ryngdestunol hon yn siapio cymeriad y wasg Gymraeg i raddau helaeth:

Furthermore, writers for one title were often all too aware of what was being written in others; the degree of intertextuality ranging from the knowing, ironic, even playful use of quotation from other titles, through venomous criticism to downright plagiarism, indicates that the writers not only read a wide range of titles, but defined their own journalism in relation to the journalism of others.²³⁷

Dadleua Jones ymhellach fod y cyfranwyr yn cyfarch ei gilydd yn hytrach na'r gynulleidfa o ddarllenwyr ar brydiau, sy'n dangos y berthynas gymhleth a fyddai'n bodoli rhwng y cyfnodolion maes o law.²³⁸

Beth fyddai effaith datblygiadau'r wasg gyfnodol ar swyddogaeth benodol y misolyn, a sut y byddai egwyddorion y *Cyfaill* yn ymaddasu i her newidiadau? Nid oedd y bwriad o apelio'n eang yr un mor gyraeddadwy wrth i'r cyhoeddiadau eraill gymylu ffiniau ei swyddogaeth, felly sut yr âi ati i dargedu ei selogion o hyn ymlaen? Beth fyddai oblygiadau

²³⁵ Ibid., 78-9.

²³⁶ Jones, Robert Owen, *'Hir Oes i'r Iaith'*, t.256.

²³⁷ Jones, Aled (2000) 'The Welsh Newspaper Press', t.22.

²³⁸ Ibid.

creu ‘cymunedau dehongliadol’ newydd ym maes y wasg brint Americanaidd i’r *Cyfaill* mewn ystyr economaidd, enwadol a gwleidyddol?

Ceisiodd William Rowlands ddiwallu anghenion y Cymry yn America gyda darpariaeth mewn sawl maes, ond amcan crefyddol oedd i’r *Cyfaill* yn bennaf. Yn y bennod nesaf, edrychir ar swyddogaeth crefydd yn y wasg, ac yn neilltuol ar enwadaeth fel rhan annatod o gefndir ideolegol cymunedau Cymreig America’r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Sbardunodd y rhaniadau hyn rwyg yng ‘nghymunedau dehongliadol’ cyhoeddiadau’r wasg Gymraeg, er siom dirfawr i olygydd honedig diduedd y *Cyfaill*.

Gweledigaeth William Rowlands wrth sefydlu’r *Cyfaill* oedd gwasanaethu’r gymuned ieithyddol yn ei chyfanrwydd drwy bledio polisi niwtral a gwahardd cecru yn y cylchgrawn.

Credda Iorthryn Gwynedd ei fod wedi arddel ei fwriad:

Fel golygydd y *Cyfaill* am flynyddau...dangosodd a’i rym fel traethodydd a dadleuydd Cristionogol; ac ni oddefai efe i’w ddalenau gael eu llygru a difriaeth bersonol, dan yr esgusawd twyllodrus nad oedd efe yn gyfrifol am eu cyhoeddiad. Pe buasai pob golygydd wedi ymddwyn fel efe, buasai y wasg Gymreig yn America yn llawer purach, ac yn llawer mwy llesol i feddyliau y miloedd.²³⁹

A oedd yr atgofion hyn yn gwbl gywir? Mae tystiolaeth yn y bennod nesaf yn dangos fod y misolyn yn gwyntyllu’r dadleuon chwerw a ddeilliai o’r gwahaniaethau athrawiaethol rhwng yr enwadau, er mai hanfod y *Cyfaill* oedd creu undod ar seiliau crefyddol. Yn union fel yr ‘undeb’ rhwng yr enwadau Cymreig yn America, tra chyfnewidiol oedd y berthynas rhwng y wasg gyfnodol, y golygyddion a’r gynulleidfa.

²³⁹ Atgofion Iorthryn Gwynedd - Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.453.

Pennod 3: ‘Heb Dduw heb ddim, Duw a digon’: ENWADAETH A CHREFYDD.

Mewn pethau naturiol, a gwybodaeth bydd,
 A phyngciau ysbrydol, crefyddol cryf wyt,
 Deallus mewn dulliau, a gwahanol farnau
 Yn mhlith enwadau – iawn ydynt.¹

Yn y gerdd hon a gyhoeddwyd fel cyfarchiad i'r *Cyfaill* yn 1843, deil y bardd i ganmol y cyhoeddiad am wasanaethu'r amrywiaeth o enwadau Anghydfurfiol Cymreig, er bod cyhoeddiadau eraill wedi dyfod i'r maes. Mae'n arwyddocaol iddo nodi fod y *Cyfaill* yn 'ddeallus mewn dulliau a gwahanol farnau,' o ystyried ymffrost cyson William Rowlands ynghylch ei safbwynt golygyddol diduedd. Yn fwy na dim, cyfeirir at hanfod y *Cyfaill*, sef ei fod yn gyhoeddiad crefyddol ar gyfer Cymry America ac yn ystyried crefydd yn ganolog i'w cenedligrwydd. I ba raddau y llwyddodd y golygydd, felly, i uno'r gymdeithas gynhwysol o gefnogwyr i'r cylchgrawn yn enw crefydd, o ystyried y rhaniadau enwadol a geid yn eu mysg ac a oedd yn bod eisoes yng Nghymru?

(i) ‘O dan faniar yr un Bendigedig Iesu?’

Nid oedd gweledigaeth William Rowlands yn freuddwyd afreal, oherwydd gorfodwyd y Cymry yn aml i addoli gyda'i gilydd mewn capeli undebol pan nad oedd modd na niferoedd digonol i gynnal achosion enwadol ar wahân yn America.² Y peth pwysicaf iddynt oedd y cyfle i addoli, ond yn fwy na hynny, gyda'u cyd-genedl ac yn eu mamiaith. Dyrchafent y genedl uwchlaw'r egwyddorion a'u gwahaniaethai, a'r rheidrwydd i rannu'r efengyl uwchlaw'r ffiniau rhwng enwadau. Fel y sylwodd Bill Jones:

¹ ‘Cyfarchiad i'r Cyfaill’ (Ab Cinmerchyn) – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1843.

² Williams, Daniel Jenkins, D.D. (1937) *One Hundred Years of Calvinistic Methodism in America*, Westminster Press: Philadelphia, t.37.

In many ways, Welsh Nonconformity presented a united front and, consequently, religion was perhaps the most powerful of the forces which forged the community's societal cohesion and exclusive identity, especially as its impact was reinforced linguistically.³

Yn yr un modd, roedd capeli undebol Cymry America yn cynnig sefydlogrwydd yn y cyfnod cynnar, fel man cyfarfod cymdeithasol i gymunedau crefyddol o bob enwad ddod ynghyd. Ceir nifer o enghreifftiau o gyd-addoli yn gynnar yn hanes y treflannau Cymreig yn America, ac, yn gyffredinol, synhwyrir goddefgarwch tuag at y syniad o addoli gydag 'aderyn o liw arall.' Mae nifer yn datgan eu bod yn agored i ddysgeidiaeth enwadau eraill er mwyn hybu achos crefydd yn gyffredinol:

...yn wir teimlwn radd o gydlawenychiad yn fy yspryd, a hiraethwn am y boreu pan yr 'ymgyfarfyddom oll yn undeb ffydd a gwybodaeth Mab Duw.⁴

Enghraifft o'r cydweithio hwn er lles crefydd y genedl oedd agoriad capel y Trefnyddion Calfaidd yn ninas Pottsville yn nhalaith Pennsylvania. Ymfalchïa'r gohebydd nad yw'r clwstwr o enwadau a oedd wedi ymgynnull yn y capel undebol wedi anghofio'r efengyl, er iddynt orfod dygymod â newidiadau'r wlad estron. Yn yr achos hwn mae'r frawdoliaeth yn gytûn yn yr amcan o 'dderchafu baniar yr un Bendigedig Iesu,' a lledaenu'r Gair yn cael blaenoriaeth ar raniadau enwadol. Eto i gyd, awgrymir ar yr un pryd mai'r nod terfynol yw sefydlu cangen annibynnol i bob enwad:

Eto, amlwg yw nas gallem fod mor gysurus ag yn ein ty ein hunain. Dwy wraig yn yr un ty, ni chytunant - ymrysonant am y plentyn byw...⁵

Mae nifer o ffynonellau eraill yn gwyro tuag at y safbwynt hwn, ac yn cefnogi'r dystiolaeth fod enwadaeth yn nodwedd gref a gludwyd gan y Cymry i America.⁶ Roedd William

³ Jones, W. (1993) *Wales in America: Scranton and the Welsh, 1860-1920*, University of Wales Press: Cardiff, t.92; Evans, D. Gareth (1989) *A History of Wales, 1815-1906*, University of Wales Press: Cardiff, t.77. Dadleua fod y genedl leiafrifol wedi eu clymu ynghyd gan amodau byw sigledig y ganrif cyn croesi'r Iwerydd, ac felly cynigiai crefydd dir niwtral iddynt ddygymod â'u sefyllfa. Hefyd gw. Hughes, Pch. Thomas E et al (gol) (1895) *Hanes Cymry Minnesota, Foreston a Lime Springs, Iowa; wedi ei gasglu gan amryw o'r hen sefydlwyr*, The Free Press: Mankato, Minnesota, t.42-3.

⁴ Y Cyfarfod Gwersyllawg – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1839.

⁵ Ibid.

Rowlands eu hun, er enghraifft yn Galfin trwyadl, ac er i ymfudwyr o'r hen wlad glystyru gyda'i gilydd i addoli i ddechrau, buan yr amlygwyd yr angen am eglwysi annibynnol, a sefydlwyd gan yr enwadau gwahanol yn yr Unol Daleithiau wrth iddynt fagu nerth gyda chynnydd ymfudwyr o Gymru.⁷ Er i nifer o'r enwadau gydweithio mewn nifer o'r treflannau Cymreig, gwelwyd hefyd ddylanwad yr 'ysbryd sectol' a'u dilynodd dros yr Iwerydd ac a ysgogai rai i weithio er 'lles a chynnydd' eu henwad eu hunain drwy 'ddirmygu, enllibio a drygu enwadau eraill.'⁸

Roedd enwadaeth yn ymgorffori gallu crefydd i uno neu rwygo cymunedau Cymreig America. Ar y naill law, a hwythau'n ganolbwynt cymdeithasol a diwylliannol, yn gynheiliaid y cwlwm ieithyddol, roedd y capeli yn un o brif arwyddion undod y genedl, a'r enwadau neu achosion crefyddol yn cysylltu'r cymunedau gwasgaredig.⁹ Ar y llaw arall, roedd enwadaeth yn gyfrifol am greu rhaniadau a oedd yn dinistrio'r undeb hwn mewn modd hynod o Anghristnogol ar adegau. Yn hynny o beth da cofio bod y carfanau crefyddol yng Nghymru yn fwy ymwybodol o'r gwahaniaethau rhyngddynt nag yr oeddent o unrhyw glymau cenedlaethol.¹⁰

Mae'r wasg gyfnodol yn adlewyrchu'r tensiynau a oedd yn cyniwair o dan yr wyneb ym mywyd crefyddol Cymry America, fel yn yr hen wlad, a cheir enghreifftiau aneirif o

⁶ Ellis, David Maldwyn (1973) 'The Assimilation of the Welsh in Central New York', *Welsh History Review*, cyfrol 6, rhif 4, t.434. Mae nifer o gyfrolau hanesyddol yn cyfeirio at y cecru rhwng enwadau yng Nghymru, un enghraifft yw: Davies, Russell (2005) *Hope and Heartbreak: A Social History of Wales and the Welsh, 1776-1871*, University of Wales Press: Cardiff, t.326.

⁷ Williams, Daniel Jenkins, D.D., *One Hundred Years of Calvinistic Methodism in America*, t.39: Cofleidiai'r naill garfan athrawiaeth Galfinaidd o dan adain yr arweinydd blaengar Whitefield, a'r llall yn coleddu Arminiaeth fel dilynwyr i Wesley. Dilynwyd y diwygiwr Howel Harris, gan yr enw 'Methodist' yng Nghymru yn 1735, a ddisgrifiai'n berffaith ei amcan ddiwygiadol o deithio o amgylch ei fro genedigol yn Nhrefeca yn lledaenu'r Gair, a efelychai wreiddiau'r mudiad crefyddol yn Rhydychen. Cyfarfyddodd Howel Harris â Whitefield yn 1739 mewn cynhadledd Gristnogol, a theithiodd y ddau drwy Gymru benbaladr a chynnal seiadau er mwyn denu mwy i'r gorlan. Ymhen tair blynedd bathwyd y term 'Methodistiaid Calfinaidd' ar eu cyfer, blwyddyn yn unig cyn i'r Methodistiaid Wesleyaidd neu Arminiaidd ffurfio o dan adain John Wesley. Gw. hefyd Williams, Jay G (1993) *Memory Stones: A History of Welsh-Americans in Central New York and their churches*, Purple Mountain Press: Fleischmanns, New York, t.22.

⁸ Thomas, R.D. (1872) *Hanes Cymry America*, T.J.Griffiths: Utica., t.22 a t.36.

⁹ Williams, Glanmor (1979) *Religion, Language and Nationality in Wales*, University of Wales Press: Cardiff, t.229.

¹⁰ Jenkins, Philip (1992) *A History of Modern Wales, 1536-1990*, Longman: London.

ddadlau chwyrn wrth i'r enwadau lynu at eu nodwedddion unigryw - yn enwedig yn hanner cyntaf y ganrif. Cwmpasai'r dadleuon hyn bynciau athronyddol, haniaethol, moesol a diwinyddol,¹¹ ac mae'r cwyno cyson gan ddarllenwyr am y fath anghydweld yn tystio'i fod yn elfen gref yn y diwylliant print.

(ii) 'Trwy y porth bychan.'

Yn y rhifyn cyntaf o'r *Cyfaill* ceir 'cynghorion buddiol' gan Gymro o'r hen wlad i osgoi cecru rhwng enwadau, ffaith a ddengys fod hynny'n un o flaenoriaethau'r cylchgrawn:

Ond er dim fy nghydgenedl, na wnewch y llyfryn misol hwn yn drosglwydd enllib, difriaeth, ac ymladdfaes i'r gwahanol enwau crefyddol i guro eu gilydd. Mae yn Nghymru, ers ys blynyddoedd ysywaeth, ormod o lawer o'r cyfryw sothach misawl. Mawr yw y niweid a wnaethant i gariad brawdol, a gwell o lawer a fuasai i'n gwlad fod heb rai o honynt. Hyderaf y gofala fy anwyl frawd parchedig y cyhoeddwr, na chaffo y 'Cyfaill o'r Hen Wlad' drosglwyddo dim i'ch plith, ond a duedda at feithrin heddwach, cariad, ac adeiladaeth y genedl.¹²

Roedd yr 'ymgecru ac ymbleidio ffyrnig' yn hysbys i nifer yng Nghymru,¹³ a dadleuon yn cynnwys cyfeiriadau personol yn lleng,¹⁴ ac felly aethpwyd ati'n gynnar i rybuddio Cymry America i beidio â'u hefelychu yn hyn o beth.

Un o'r ffurfiau mwyaf poblogaidd a ddefnyddid i drafod ffactorau a effeithiai ar y wasg gyfnodol o boptu'r Iwerydd yw ymddiddan rhwng y *Cymro* a'r *Cyfaill*. Defnyddir delweddau milwrol dramatig i gyfleu'r pryder dybryd am yr elyniaeth rhyngddynt, gan

¹¹ Walters, Huw (1999) *Y Gymraeg a'r Wasg Gylchgronol*, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.346.

¹² Llythyr y Pch. James Hughes (Iago Trichrug) o Lundain, at y Cymry yn America, trwy gyfrwng y *Cyfaill - Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

¹³ Jenkins, R.T. (1933) *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.47.

¹⁴ Jones, T. M. (1893) *Llenyddiaeth fy ngwlad*, P. M. Evans: Treffynnon, t.55.

gyffelybu maes y wasg i frwydr lle mae 'bwlets papyr yn chwyrru heibio fy nghlustiau, a'u dudalenau yn gochion gan waed y gwahanol bleidiau.'¹⁵

Pwysleisir fod y *Cyfaill* yn agored i ddadl ac yn fforwm drafod gyffredinol i Gymry'r cyfnod, ond fod yn rhaid cadw dadleuon 'o fewn terfynau rheolaidd a buddiol,' gan nad yw'n caniatáu i unrhyw 'arfau' gael mynediad drwy'r 'porth bychan,' sef y rhwyd golygyddol. Y cyngor yw defnyddio 'rhesymau' yn hytrach nag 'arfau,' ymddwyn yn 'foneddgiaidd, heb gnoi na thraflyncu.'¹⁶ Cwta chwe mis ar ôl ei sefydlu, mae'r *Cyfaill* yn datgan cynnydd yn y darllenwyr, ac felly ategir ei addewid i fod yn 'was y genedl Gymreig yn gyffredinol' a'i fod yn 'dysgwyl nawdd a chymhorth y Cymry yn America,' beth bynnag fo'u teyrngarwch enwadol.¹⁷

Serch hynny, nid oedd cynghorion a bwriadau daionus yn darian digon cref i warchod y *Cyfaill* rhag beirniadaeth. Aflonyddwyd ar yr heddwch o fewn ychydig fisoedd yng ngyrfa'r *Cyfaill*, pan dderbyniodd y golygydd 'luaws o achwyniadau oddiwrth rhai o bleidwyr ffyddlonaf y *Cyfaill*,' oherwydd ymddangosiad ysgrifau yn cynnwys 'pethau tueddol i gyffroi tymherau a dolurio teimladau ein derbynwyr.' Cymerai sylw difrifol o'r cyhuddiad, ac oherwydd natur fentrus sefydlu cyhoeddiad o'r fath ac awydd taer iddo lwyddo, cyfaddefa iddo 'ollwng gwyr drwy y porth bychan, heb eu chwilio yn ddigon manwl.'¹⁸ Golygir ymrwymiad i 'ymgeleddu a lluosogi gohebwy'r *Cyfaill* yn ei fabandod' fod William Rowlands wedi caniatáu mynediad i'r 'arfau' drwy'r 'porth bychan.'

Ffynhonnell amheuthun o wybodaeth am y gorgyffwrdd helaeth yn nodweddion y wasg Gymraeg yng Nghymru ac America yw'r ymddiddan rhwng 'Gruffydd a Morgan' am gylchgronau a gyhoeddwyd yn *Seren Gomer* yn 1811, blwyddyn ei sefydlu yn ei ffurf gynharaf. Mae'r ffaith i William Rowlands ei ailgyhoeddi yn awgrymu bod tebygrwydd yn y

¹⁵ Ymddiddan rhwng 'Y *Cyfaill* a'i Gydgenedl' – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

¹⁶ *Ibid.*

¹⁷ Hysbysiad – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1838.

¹⁸ Geiriau'r Golygydd – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1838.

ffactorau a effeithiai ar gyfnodolion cynharaf y wasg brint Gymraeg yn y ddwy wlad, er mai Bedyddiwr oedd sylfaenydd *Seren Gomer*. Cynrychiolir dau begwn gan y cymeriadau: Morgan yn amheus o gymhellion yr unig gyhoeddiad ar faes y wasg Gymraeg, a Gruffydd yn ei amddiffyn yn gadarn. Amlygir fod cwestiwn amhleidgarwch yn broblem ddyrys a wynebwyd gan *Seren Gomer* hefyd:

Morgan.- Pa fodd y gall Seren Gomer fod yn amhleidgar tra y mae ei golygydd yn caniatáu i draethodau yn cynnwys athrawiaethau *cyfeiliornus* ymddangos ynddi?

Gruffydd.-Ie, cyfeiliornus yn *ol dy farn di*, ond rhaid it oddef i eraill farnu yn wahanol; a chofia nad yw y golygydd yn atebol dros farnau ei ohebwy. Nid chwareu teg a fyddai iddo gyfnewid eu hysgrifau ychwaith; a phe gwrthodai er lythyrau ar un tu i ddadl, cyhuddid ef o fod yn bleidgar. Mor anhawdd yw boddio pawb!¹⁹

Mae'r broblem baradocsaidd hon o geisio bodloni pawb drwy sicrhau llais i wahanol farnau ar y naill law, a chadw heddwch ar y llaw arall, yn rhan o gyd-destun ehangach y diwylliant cyhoeddi yn y cyfnod. Mae'r barnau a gynrychiolir gan Gruffydd a Morgan yn ddrych perffaith i sefyllfa William Rowlands fel sylfaenydd y *Cyfaill*, a'r croesdynnu rhwng safbwyntiau a oedd yn ei wynebu.

Testun nifer o'r ysgrifau dadleuol yn y *Cyfaill* oedd pwnc llosg dirwest, a feddiannai feddylfryd nifer o Gymry'r cyfnod. Yn unol â sylfeini ei olygyddiaeth, teimla William Rowlands reidrwydd i wrthod amryw o'r ysgrifau o natur cynnen bersonol er mwyn gwrthsefyll yr haerriad o bleidgarwch. Cymaint yw ei daerineb i sicrhau fod y *Cyfaill* yn apelio'n eang at genedl y Cymry, heb arddel unrhyw blaid, fel ei fod yn datgan 'nad oes dim sydd yn well na dysgyblaeth lem' wrth ddethol ysgrifau, gan 'aberthu cefnogaeth *rhai*, i ymgadw at les y *llawer*.' Serch hynny, ymddengys fod rhai tyllau yn ei ddaliadau pendant:

Y peth a ddylai fod yn gyssylltiedig a *chyfaddefiad* yw *diwygiad*, gan hyny bydded hysbys i'n gohebwy y byddwn yn fwy gofalus rhagllaw [...] Yr ydym wedi gwrthod llawer o ymosodiadau personol o amryw fanau; ond dihangodd hwy yn rhywfodd, yn bennaf oblegid ein meddyliau uchel am ei hawdwr; ac mae yn ddiaw genym mai ei sel

¹⁹ Ymddyddan Gruffydd a Morgan – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1839.

dros ddirwestiaeth a'i harweiniodd i hyn, er nad yw hynny yn esgusodi byr ymosodiad.²⁰

Er gwaethaf ei addewid i beidio â chaniatáu ymosodiadau o natur bersonol, mae'n ei wrth-ddweud ei hun drwy gyfiawnhau'r eithriad i'r rheol o gyhoeddi'r ysgrif neilltuol hon, gan ei fod wedi ei 'rwymo' gan ei sêl dros 'gyfiawnder' ynghyd â'i gysylltiadau â'r awdur. Mae'r gwrthdaro hwn rhwng gwrthod ysgrifau i feithrin agwedd niwtral y cyhoeddiad ar y naill law, a chyhoeddi dadleuon er mwyn cyfiawnder ar y llaw arall, yn achosi rhwyg yn ei uniondeb golygyddol. Gellir cydymdeimlo ag achwyniadau'r gohebwywr wrth iddynt, o bosibl, ddehongli ei eiriau fel rhagrith, a bod hepgor rheol euraid y cyhoeddiad yn ôl mympwy'r golygydd yn tanseilio ei hygrededd. Serch hynny, pwysleisia ei fod yn gwbl ddiwyro yn ei ymrwymiad tuag at grefydd a lles y genedl, ac yn effro iawn i ymgais rhai i gyflwyno ymosodiad personol:

Oherwydd ein bod wedi gwrthod amrai ysgrifau o'r natur uchod, rhai a haerant eu bod yn *bleidgar*, yr ydym yn cyfaddef ein bod yn bleidgar i grefydd y Beibl, moesgarwch, heddwch, a lles ein cydgenedl; ond am unhryw bleidgarwch arall, yr ydym yn gwrthod y cyhuddiad, ac yn herio profion. O'r ochr arall, digrif genym weled weithiau fel y mae ambell un yn gwenieithio, neu mewn geiriau cyffredin, yn ein *seboni* wrth geisio cyfleu rhyw ymosodiad personol i mewn i'r Cyhoeddiad; ond, yn araf deg, yr ydym wedi cymeryd rhai gwersi mewn 'trap' cyn dyfod i America.²¹

Mae'n eironig iddo nodi ei fod yn 'gwrthod y cyhuddiad ac yn herio profion' o unrhyw bleidgarwch, er iddo gyfaddef yn y paragraff blaenorol iddo ganiatáu i rai ysgrifau o natur bersonol lithro drwy'r rhwyd golygyddol yn sgil ei deimladau tuag at awdur. Dengys hyn fod ffin denau iawn rhwng teimladau personol ac amcan niwtral y swydd olygyddol gyda chyhoeddiad o'r fath, er gwaethaf cymhellion cwbl glodwiw.

Ailadroddir ei egwyddorion unwaith eto ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y cyhoeddiad, wrth i'r golygydd fwrw golwg ar ei lwyddiant, gan ddatgan ei fod wedi gwrthod nifer o

²⁰ Geiriau'r Golygydd – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1838. Gw. Hefyd gw. Hunter, Jerry (2007) *Sons of Arthur, Children of Lincoln: Welsh Writing from the American Civil War*, University of Wales Press: Cardiff, t.37-8.

²¹ Geiriau'r Golygydd – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1838.

ysgrifau a fyddai'n debyg o 'rwygo heddwch yr holl genedl.'²² Mae'n gwbl bendant fod y cyhoeddiad yn 'rhydd' yn ei wasanaeth i bob enwad crefyddol, a heria unrhyw un sy'n anghytuno â'r gosodiad i'w hamlygu eu hunain er mwyn iddo gael y cyfle i lunio amddiffyniad yn gyhoeddus, yn unol ag ethos 'chwarae teg' y cylchgrawn.

Rhy bwyslais hefyd ar arddel rheolau llymach wrth ddethol ysgrifau yn y dyfodol, wrth gyfaddef iddo gyhoeddi 'ambell ysgrif heb nemawr o deilyngdod,' yn sgil ei awydd i 'fagu gohebwy'r ieuaingc, boddi pawb, a gochelyd pob lliw o bleidgarwch.' Awgrymir mai ei gymhelliant pennaf yw sicrhau undod y genedl, er iddo ildio i egwyddorion cyfiawnder wrth iddo ddewis cyhoeddi rhai ysgrifau dadleuol. Mae'r gorgyffwrdd rhwng elfennau niwtral ac amddiffyn y gwirionedd honedig yn cymylu ei amcanion golygyddol yn achlysurol; ond yr hyn na ellir ei amau yw ei ymdrech i sicrhau cyhoeddiad 'buddiol' er lles crefydd a Chymreictod, amcan a bwysleisir yn gyson.

Rhoddir hygredded y *Cyfaill* fel cylchgrawn 'rhydd' ar brawf yn ystod ail flwyddyn ei gyhoeddi, pan awgryma un o'r darllenwyr y dylid gostwng pris y *Cyfaill* er mwyn ehangu ei gylchrediad, cam a fyddai'n golygu ceisio cymorth ariannol gan enwad crefyddol a'i droi'n 'gyhoeddiad plaid.' Fodd bynnag, nid oedd gwawrio'r flwyddyn newydd wedi sigo dim ar amcan y golygydd o gyhoeddi'r *Cyfaill* ar yr un amodau, sef 'yspryd o anmhleidgarwch diledryw,' ac mae'n gwbl argyhoeddedig mai meithrin egwyddor niwtral sy'n gwasanaethu'r genedl orau, gan ei fod yn sefyll yn y bwlch fel yr unig gyfnodolyn Cymraeg yn America ar y pryd:

Cyhoeddiad Rhydd ac agored i bob plaid ac enwad – crefyddol a digrefydd, a farnym fwyaf cymhwys i'r Cymry yn y wlad hon ar y cyntaf; ac yr ydym yn parhau o'r un farn, a diau genym, fod y rhan fwyaf o'n cydgenedl yn cydweled a ni.²³

²² Geiriau'r Golygydd – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Rhagfyr 1838.

²³ Rhagymadrodd – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1839.

Mae'r ffaith i William Rowlands ddatgan ei fod yn gwrthod yr awgrym o'i 'osod o dan aden crefyddol,' gan barhau â'r *Cyfaill* fel 'anturiaeth *bersonol*' yn dystiolaeth ymarferol ei fod yn gwbl ymroddedig i sefydlu 'CYHOEDDIAD RHYDD I GENEDL Y CYMRY YN AMERICA,' nod a bwysleisir yn weledol gan lythrennau breision.²⁴ Nid yw am roi ei hygredd ymysg cenedl y Cymry yn y fantol, 'Yr ydym yn fodlon anturio cymeriad y *Cyfaill* er ei ddechreuad ar farn ei dderbynwyr...' Nid yw ychwaith yn fodlon rhoi elw'r *Cyfaill* i achosion crefyddol, a olygai gysylltiad enwadol, ond yn hytrach ei fwydo yn ôl i'r cylchgrawn fel y 'cynaliad pob achos ei hun ar ei deilyngdod ei hun.'²⁵

Serch hynny, yn sgil diffyg cyhoeddiad o'u heiddo eu hunain gan yr enwadau Cymreig eraill yn America yn niwedd y tridegau, naturiol oedd iddynt arddel y *Cyfaill* fel cyhoeddiad crefyddol cyffredinol i'r Cymry. Yn ôl tystiolaeth gan ohebwy'r o wahanol enwadau, cafodd dderbyniad cynnes yn eu mysg nes i'r enwadau gryfhau digon i sefydlu cyhoeddiadau annibynnol. Gweithredai'r *Cyfaill* swyddogaeth aml-bwrpas yn ystod cyfnod llwm y wasg gyfnodol Gymraeg yn America, a chyhoeddai newyddion crefyddol yr enwadau eraill. O'r herwydd, mynegai'r enwadau hyn eu cymeradwyaeth i'r *Cyfaill* a'u dymuniad am ei lwyddiant, gan 'roddi anogaeth i dderbyn a chalonogi y 'Cyfaill' fel cyfrwng gwybodaeth amhleidgar yn mhlith Cymry America,²⁶ sylwadau tebyg i'r rhai a fynegwyd am *Seren Gomer* a weithredai mewn sefyllfa gyffelyb yng Nghymru.²⁷

Yn eu tro, lleisiodd cymafoedd enwadau'r Bedyddwyr, yr Annibynwyr a'r Wesleyaid ar draws y treflannau Cymreig gyfarchion a chefnogaeth i'r *Cyfaill*, gan nodi, yng ngeiriau'r Wesleyaid, eu bod yn 'llawenychu wrth ei weled mor rhydd tuag at bob enwad

²⁴ Rhagymadrodd – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1839 & Anerchiad y Golygydd – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1839.

²⁵ Rhagymadrodd – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1839.

²⁶ Penderfyniadau cyfarfod trimisol y Bedyddwyr, swydd Oneida - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1839.

²⁷ Yr un oedd sefyllfa *Seren Gomer* yng Nghymru a olygwyd gan Fedyddiwr, pan ddaethpwyd i'w arddel gan gyfrannwyr o wahanol enwadau fel cyhoeddiad 'amhleidiol' yn ôl amcan ei olygydd oherwydd absenoldeb cyhoeddiadau i wasanaethu'r enwadau unigol.

crefyddol.²⁸ Roedd y *Cyfaill*, felly, yn cyflawni dwy amcan greiddiol i ffyniant y Cymry yn America: hybu achos crefydd y genedl yn gyffredinol, a phontio'r enwadau er mwyn tynhau clymau cenedligrwydd.²⁹

Ar sail y dystiolaeth uchod, gellid casglu bod William Rowlands wedi llwyddo ar y cyfan yn ei amcan i glymu'r genedl ynghyd gyda chylchgrawn cydenwadol yng nghyfnod cynnar y wasg, a gwerthfawrogi'r enwadau eraill gyfrwng i ddapraru gwybodaeth am eu gweithrediadau. Os felly, golygai'r broses ddwyffordd hon fod y *Cyfaill* yn denu cefnogaeth y genedl, ond câi'r maeth hwn ei chwistrellu yn ôl i'r gymuned Gymreig wrth iddo fodloni ei henwadau amrywiol, gan greu ymdeimlad cryf o Gymreictod drwy undod crefydd. Ond a fyddai'r undod hwn yn parhau wrth i'r diwylliant cyhoeddi ddatblygu?

(iii) 'Canu i diwn y cyfundeb?'

Maes o law, amlygodd llwyddiant y *Cyfaill* yr angen am gyfryngau print i warchod buddiannau'r enwadau eraill.³⁰ Gwelodd arweinwyr yr enwadau eraill yr angen am gyfryngau cyfathrebu i sicrhau eu ffyniant, ac ar ôl hynny, tueddwyd i gydnabod y *Cyfaill* fel llais i'r Methodistiaid Calfinaid, er gwaethaf protestiadau croch gan ei olygydd a barhâi i arddel yr egwyddor o wasanaethu'r genedl gyfan. Eto i gyd, nid cyhoeddiadau a safai'n gyfangwbl ar wahân i'w gilydd oedd y wasg gyfnodol, ond rhwydwaith gyfathrebu a fyddai'n cyfnewid darnau amrywiol ymysg ei gilydd ac yn sylwebu ar ddeunydd y naill a'r llall, tuedd na

²⁸ Sefydliad eglwys Wesleyaidd yn Cincinnati – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1838.

²⁹ Adroddiad Cymanfa Pittsburgh – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1838. "Penderfynwyd i ymdrechu cynnal yn mlaen y Cyfaill o'r Hen Wlad, tra y parhao yn ddibartiöl, ac i dueddu at fuddioldeb ein cenedl yn gyffredinol." Am eng. arall gw. Adroddiad y Gymdeithas Feiblaidd Americanaidd a Thramor – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1840 a chymanfa Bedyddwyr Utica a'r cymydogaeu yn cyfeirio ato fel 'cyhoeddiad diduedd' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1840.

³⁰ Er nad oedd gan yr enwadau eraill gyhoeddiadau cyfnodol cyn yr 1840au, cyhoeddwyd llyfrau Cymraeg gan y mudiadau crefyddol amrywiol ymhell cyn hyn e.e. cyhoeddwyd llyfrau byrion gan y Crynwyr a'r Bedyddwyr Cymraeg yn ddeunawfed ganrif, ynghyd â chasgliadau o emynau.

chroesawyd yn aml gan y golygyddion a geisiai gadw rhyw fath o reolaeth ar eu cynnwys ac ymateb y gymdeithas iddo.

Roedd y cwestiwn o briodoli cyhoeddiadau i enwadau yn fater a effeithiai ar y diwylliant print yn Nghymru ac America fel ei gilydd yn ystod rhan gyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chynhyrchai hyn safbwyntiau tra gwrthgyferbyniol. Ofnai lladmeryddion y wasg Gymraeg ar y ddwy ochr i'r Iwerydd y byddai sefydlu cyhoeddiadau 'pleidgar' yn gulni ac yn 'faen tramgwydd i luddias eu *defnyddioldeb cyffredinol*,' a bod un 'cyhoeddiad amhleidgar' yn ddigonol i ddiwallu anghenion y genedl. I'r gwrthwyneb, teimlid y byddai sefydlu cyhoeddiadau i wasanaethu anghenion ungiol pob enwad yn 'gyfle i ddangos ei ddaliadau i'r byd, ac i bwysu athrawiaethau rhai eraill yn nghlorian Gair Duw.'³¹

Mae anerchiad i fisolyn yr Annibynwyr yn ystod ei flwyddyn gyntaf yn gofyn am gefnogaeth i'r *Cyfaill* a'r *Cenhadwr* fel ei gilydd, ac yn dymuno iddynt 'gyd-deithio a chyd aneddu a'u gilydd.'³² Mae'r ffaith iddo ofyn am weld cariad brawdol rhyngddynt, 'fel na bo cyfngen a'i cholyn gwenwynllyd byth eu niweidio tra ar eu taith' yn dangos pryderon ynghylch natur y wasg gyfnodol yn y cyfnod hwn. Pa effaith a gâi'r *Cenhadwr* felly ar fuddioldeb y *Cyfaill* i'r gyd-genedl, sylfaen creadigaeth William Rowlands, ac a fyddent yn cyd-fyw o fewn sefydliad diwylliannol y wasg brint unedig?

Er i'r Annibynwyr sefydlu cylchgrawn i wasanaethu'r enwad yn 1840, roedd golygydd y *Cyfaill* yn benderfynol na fyddai'n amharu ar 'ddefnyddioldeb cyffredinol' ei gylchgrawn ef. Nid yw dyfodiad y *Cenhadwr Americanaidd* yn amharu dim ar ei ewyllys i gyhoeddi'r *Cyfaill* 'yn yr un ysbryd o amhleidgarwch ag o'r dechreuad,' a pharhâi William

³¹ Ymddiddan rhwng Gruffydd a Morgan mewn perthynas i Gylchgronau (Magazines) Cymreig – yr hon ni argraphwyd erioed, o blith hen ysgrifeniadau eraill. Cymerodd le yn Nghymru oddeutu 17 mlynedd yn ol. (W.J. Williams, C.N.) – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1839. Ar un llaw, mae Morgan yn croesawu cyhoeddiadau gan enwadau eraill yn 'gyffelyb o ran natur a threfn eu defnyddiau i *Seren Gomer*,' er mwyn gwasanaethu eu hanghenion unigol. Ofnai fod un cyhoeddiad rhydd yn 'gwenieithio ac yn ofni briwio teimladau dynion' drwy gyhoeddi 'ysgrifau llymion yn cynnwys gwirionedd noeth.' Ar y llaw arall, creda Gruffydd fod *Seren Gomer* yn ddigonol i ddiwallu'r genedl fel 'cyhoeddiad amhleidgar, ac fel y cyfryw, yn haeddu cefnogaeth pob Cymro gwladgarol,' sy'n adlais o gri'r *Cyfaill* y cyfnod.

³² Anerchiad i'r *Cenhadwr* (Eth glan Connenugh) - *Y Cenhadwr Americanaidd*, Mai 1840.

Rowlands i bwysleisio egwyddorion niwtral yn ei anerchiad ddiwedd y flwyddyn honno. Yn fwy na hynny, efallai ei bod yn arwyddocaol iddo roddi hyd yn oed mwy o sylw i'r amcan hwn wrth iddo gyfarch ei ddarllenwyr ar drothwy'r flwyddyn newydd:

Cynnygir y 'Cyfaill' eto am y flwyddyn 1841, yn hollol ar yr un ammodau, ac yn yr un yspryd *anmhleiddgar* ag y cyhoeddwyd ef er ei gychwyniad, y rhai erbyn hyn ydynt ddigon adnabyddus. Ac yr ydym, nid yn unig yn dysgwyl, ond yn *gorchymyn* cefnogaeth pob Cymro sydd yn caru CYHOEDDIAD RHYDD; a dylent gofio fod ei barhad yn gyhoeddiad *rhydd* yn dibynu ar eu cefnogaeth hwy. Nid ydym yn amheu na ellid gostwng ei *bris* pe cai ei droi yn *gyhoeddiad plaid*, oblegid yn yr amgylchiad hwnw dysgwyliem ei gynnalïaeth mewn rhan trwy gyfrodion ewyllysgar y blaid i ba un y perthynai, megys y cyhoeddir llawer o gyhoeddiadau pleidiawl eraill, ond tra y parhau yn gyhoeddiad *rhydd* ac *annibynawl*, y mae yn sefyll neu yn syrthio yn ol nifer ei dderbynwyr.³³

Er mai ailadrodd yr un agenda o lynu at 'ammodau anmhleiddgar' y mae'r golygydd yn ei anerchiad, agenda sydd eisoes yn 'ddigon adnabyddus' yn dilyn ei gyfeiriadau mynych i'r perwyl hwn, mae naws y darn hwn yn wahanol. Meddiannir y geiriau gan bendantrwydd a thaerineb na welwyd eu tebyg hyd yn hyn, ynghyd â thôn awdurdodol o 'orchymyn' cefnogaeth y Cymry wrth iddo geisio apelio at eu cydwybod fod y 'cyhoeddiad *rhydd*' yn dibynnu ar eu cefnogaeth hwy. Mae ailadrodd y gair 'rhydd' drwy gydol y darn hefyd yn awgrymu ei fod am i'r *Cyfaill* barhau i fod yn gyhoeddiad i'r Cymry yn gyffredinol, wrth iddo deimlo bygythiad o du'r *Cenhadwr* newyddanedig. Ni all ychwaith ymwrthod â'r demtasiwn o edliw nad yw'r *Cyfaill* yn ddibynol ar drugaredd ariannol enwad ei olygydd, yn wahanol i'r *Cenhadwr*, nodwedd a bwysleisir unwaith eto yn 1842.³⁴ Mae'r cyhoeddiad, felly yn wirioneddol 'rhydd ac annibynawl' ar lefel economaidd, ac yn nhermau ei ddarllenwyr yn yr ystyr nad yw'n dibynnu ar gylchoedd un enwad penodol. Dibynna

³³ Anerchiad y Golygydd idd ei gydgenedl, Y CYMRY YN AMERICA, ar ddiwedd y flwyddyn 1840 - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, 1840.

³⁴ Ymateb y Golygydd i benderfyniadau cyfarfod y Cymry yn Blossburg, Pa, i bleidio y Cyfaill – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1842. " ...pryd y mae *dau* eraill ar y maes, y rhai ydynt yn cael eu cefnogi a chyfoeth a dylanwad pobl o gyfundeb cyfrifol o grefyddolion, tra y mae'r Cyfaill, hyd yn hyn, fel ar y dechreu, wedi gorfod teithio ar rym ei deilyngdod unigol i raddau mawr, ac ymddibynu yn hollol ar anturiaeth bersonol am ei gynnalïaeth." Mae'r ymadrodd 'dau ar y maes' yn cyfeirio at y *Cenhadwr* a'r *Beread*, cyhoeddiad pythefnosol y Bedyddwyr a fu'n fethiant cyn i'r *Seren Orllewinol* gael ei sefydlu.

llwyddiant y cylchgrawn o'r herwydd ar barhad yr apêl eang y llafuriodd mor galed i'w sefydlu.

Er bod cyhoeddiadau eraill yn herio goruchafiaeth y *Cyfaill*, haera'r golygydd fod nifer y derbynwyr wedi codi erbyn diwedd y flwyddyn 1842, ac mae'n datgan ei ddiolch i'r Trefnyddion Calffinaidd a'r enwadau eraill. Priodola ei lwyddiant i'r ffaith ei fod yn gyhoeddiad cyffredinol, ac mae'n atgoffa'r genedl ei fod wedi 'ei godi a thori ffordd iddo ei hun, i blith holl Gymry America, trwy lawer o draul a llafur, pryd yr oedd pawb eraill yn ddigon dystaw am ddiwallu y genedl a gwybodaeth fuddiol.'³⁵

Er iddo daeru ei fod yn croesawu'n llawen unrhyw gyhoeddiad arall sy'n gwasgaru gwybodaeth i Gymry America, ni ellir ond synhwyro ychydig o wenwyn tuag at ei gyd-gystadleuydd am ddarllenwyr. Mae ysgrif yn ymddangos yn rhifyn cyntaf y *Cenhadwr* sy'n dymuno'r gorau iddo, yn annog y Cymry i'w gefnogi a'i rybuddio y dylai 'wisgo mewn llawn arfogaeth' ac ymosod rhag blaen ar y 'fyddin sydd fwyaf peryglus i ni, cenfigen a malais.'³⁶ Er nad yw'n enwi William Rowlands yn uniongyrchol, mae'n bosibl mai ef sydd dan y lach gan yr awdur yn sgil ei gyfeiriadau at 'gymydog' ac 'ymyraeth ag achosion na pherthynant iddo,' sef cyfeiriad at y ffaith y byddai'r *Cyfaill* yn ymdrin â materion y gwahanol enwadau cyn sefydlu'r *Cenhadwr*. Yn ei dro, gwelwn y *Cyfaill* yn pwysleisio drachefn nad yw'n ffafrio plaid, yr hyn a'i gwahaniaethai oddi wrth y *Cenhadwr*. Fodd bynnag, wrth i'r wasg Gymraeg yn America ehangu, gallai'r *Cyfaill* ymffrostio yng ngallu'r Cymry alltud i sefydlu cyhoeddiadau mewn gwlad estron:

³⁵ Anerchiad y Golygydd ar ddiwedd y flwyddyn 1842, *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*.

³⁶ Cenfigen a Malais. (Gelyn Enllib) - *Y Cenhadwr Americanaidd*, Ionawr 1840. "Dyn maleisus sy'n gwanu gwr yn ei gymeriad a'i gysuron yn ddiarwybod iddo, heb ganddo gyfle i amddiffyn ei hun, a gwna hyny trwy adrodd chwedlau yn y lliw duaf, gan gymeryd bob amser y cyfle goreu er llunio ffrwyth ei falais yn debyg i wir; a thrwy hyny, enllibio ei gymydog yn ddirgel, ac yntau yn trigo yn ddiotal wrth ei ymyl. Dyn ffol yw yr hwn sydd yn ymyraeth ag achosion na pherthynant iddo, ac ymhyfrydu mewn adrodd hen chwedlau halogedig er gyru yr ynyd i chwerthin."

Ac os medr y Cymry yn America gynnal tri Chyhoeddiad yn gysurus, bydd yn anrhydedd mawr iddynt, tra nad yw y Cymry yn Nghymru yn medru ond o'r braidd gynnal cynnifer arall.³⁷

Mae'r undeb hwn rhwng y cyhoeddiadau yn ymestyn i'r adran newyddion crefyddol. Nid ymddengys fod gelyniaeth rhwng y *Cyfaill* a'r *Cenhadwr* parthed cyhoeddi gweithrediadau enwadau eraill yn y cyfnod cynnar hwn, wrth i'r darnau gael eu hailadrodd yn y ddau bapur.³⁸ O hynny ymlaen, canfyddir mynych gyfeiriadau gan gymdeithasau yn teimlo 'dyledswydd arnom hysbysu trwy gyfrwng y Cyhoeddiadau Cymreig yn y wlad hon,'³⁹ ac i raddau llai yn y papurau crefyddol Saesneg.⁴⁰ Dengys hyn fod nifer o'r cymdeithasau Cymreig yn ceisio cefnogi'r wasg yn ei chyfanrwydd, yn hytrach na chyhoeddiadau unigol.

Gyda dyfodiad misolion eraill, mae'r golygydd yn datgan yn falch fod y *Cyfaill* yn parhau i gyhoeddi gweithrediadau cymanfaoedd a gwybodaeth 'pob plaid yn ddiwahaniaeth ac ewyllysgar.'⁴¹ Flynyddoedd yn ddiweddarach, ceir cyfeiriadau ganddo tuag at 'y gwahanol enwadau crefyddol yn mhlith ein cenedl yn America,' a 'dylanwad daionus ac hyfrydlawn' traethodau'r *Cyfaill* arnynt,⁴² er bod gweithrediadau'r Trefnyddion Calfinaidd yn gormesu'r gofod yn gynyddol. Yn yr un modd, parha'r sylwadau ynghylch ei 'amhleidgarwch' yn ei wasanaeth i Gymry America ym mhenderfyniadau cyfarfodydd yn hir ar ôl sefydlu cyfnodolion eraill:

Pasiwyd yn unlleisiawg fod: Dyolchgarwch yn cael ei gyflwyno i Mr William Rowlands, am ei amhleidgarwch fel Golygydd, a pharodrwydd hynaws i wasanaethu ei gydgenedl yr ochr hyn i Fôr Werydd.⁴³

³⁷ Anerchiad y Golygydd ar ddiwedd y flwyddyn 1842 - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*.

³⁸ *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1841. Gwelir yr arferiad hwn ar ei orau gyda Chymdeithas Feiblaidd Gymreig swydd Oneida, gan fod Robert Everett yn ysgrifennydd iddo, a ddengys nad yw golygydd y cyhoeddiad newydd yn cenfigennu at ei ragflaenydd.

³⁹ Hanes ffurfiad Cymdeithas Ddirwestol Gymreig Newport, swydd Herkimer, CN - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1842.

⁴⁰ e.e. Agoriad addoldy yn Utica - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1846. Papurau Saesneg e.e. *Central Christian Herald* ac eraill.

⁴¹ Anerchiad 1841, *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*.

⁴² Anerchiad y Golygydd - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, 1846.

⁴³ Cyfarfod y Cymry yn Blossburg, Pa, i bleidio y Cyfaill - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1842.

Yn wir, er i'r capeli undebol cynnar edwino a gwasgaru'n enwadau ar wahân fel y tyfai'r angen am ddarpariaeth grefyddol ymhlith Cymry America, parhâi cydweithio rhwng enwadau yn bwysig i arweinwyr yr amrywiol garfanau hyn. Er bod William Rowlands yn Fethodist i'r carn o ran athrawiaeth, mae'r dystiolaeth yn ei gofiant yn awgrymu ei fod yn frawdol tuag at enwadau eraill. Yn wir, yr arwyddair ar ei '*envelopes*' am flynyddoedd oedd, 'parhaed brawdgarwch':

Nid oedd y gwahaniaeth syniadau, fel Calvin amlwg, yn peri i'r brodyr parchus a gredient yn wahanol iddo leihau yn eu cariad tuag ato, na'u meddyliau parchusaf am dano.⁴⁴

Roedd yn lladmerydd brwd dros gydweithio gydag enwadau eraill drwy gyfrwng cymanfaoedd ac yn pregethu mewn cyfarfodydd undebol ar hyd y gwahanol daleithiau,⁴⁵ a cheisiai sicrhau fod crefydd yn magu nerth ymhlith y Cymry alltud yn gyffredinol, fel y mynega yn ei ddyddiadur personol:

Yr ydym yn teithio tua'r un wlad – yr un Beibl fel rheol – yr un Gwaredwr i obeithio ynddo. Paham, ynte, na charwn ein gilydd yn rhwymau Cristionogaeth?⁴⁶

Fel y tystia cerdd goffa iddo, roedd yn esiampl o arweinydd i enwadau eraill ar wahân i'r Methodistiaid, ac yn 'genadwr heddwch' yn eu mysg:

Mae llawer cylch crefyddol yn y wlad
Yn edrych arno fel ei borth a'i dad...
Chwi weinidogion Cymru ac Amerig
Dilynwch ef.⁴⁷

⁴⁴ Powell, Parchedig Howell (1873) *Cofiant y diweddar Barchedig William Rowlands, D.D., Utica Efrog Newydd*, Mrs Catherine Rowlands: Utica, NY, t.326. Dywed mai dyma'r farn gyffredinol yn y manau yr ymgartrefodd, yn ôl aelodau o wahanol eglwysi a gweinidogion o enwadau eraill a fu'n cydweithio ag o. Roedd yr awydd hwn i feithrin undeb gyda gwahanol enwadau yn gryf ganddo ers ei waith cenhadol yn siroedd Henffordd a Mynwy yn yr hen wlad, t.114.. Yn fwy na hynny, dywedir fod 'mwy o gydymdeimlad a thynnerwch' tuag at William Rowlands gan enwadau crefyddol eraill nag yn ei enwad ei hun, yn anterth y tralod a'i gyrrodd i America, t.200.

⁴⁵ Cymanfa & Ysgol Sul Pittsburg – Annibynwyr, Wesleyaidd & TC - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Rhagfyr 1842. Ni fyddai'n ddieithr i weld cofnodion cymanfa a gwmpasai enwadau'r Annibynwyr, Wesleyaidd, y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Bedyddwyr yn achlysurol. Gwelir enghraifft arall ymhen amser, yn y *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Rhagfyr 1860.

⁴⁶ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.114 – geiriau William Rowlands yn ei ddyddylyfr.

⁴⁷ Ibid - Cerdd goffa Llew Llwyfo.

Tystia aelodau gwahanol eglwysi yn y manau y bu'n pregethu ynddynt ynghyd â gweinidogion eraill, i'w frawdgarwch tuag at wahanol enwadau, a pharai hyn ei fod yn 'wrthddrych eu parch a'u hedmygedd cyffredinol.'⁴⁸ Hyd ddiwedd ei oes ar ei deithiau pregethu, ymunai gwahanol enwadau yn yr addoliad, a byddai eglwysi eraill hyd yn oed yn gohirio eu cyfarfodydd i fynychu ei bregeth.⁴⁹ Mae Iorthryn Gwynedd, a oedd yn weinidog gyda'r Annibynwyr, yn ategu hyn oll yn ei atgofion am William Rowlands.⁵⁰ Noda ei fod yn selog dros ei enwad, ond fod ganddo hefyd 'wir barch i eglwysi a gweinidogion ffyddlon enwadau crefyddol eraill.' Ar brydiau, byddai William Rowlands yn pregethu yng nghapel yr Annibynwyr yn Rome, ac Iorthryn yn mynd i'w gapel ef, sy'n dangos ei fod yn ceisio gweithredu'r ysbryd cydenwadol yn ymarferol fel gweinidog yn ogystal â thrwy gyfrwng y wasg argraffu:

Cydlafuriasom yn yr ardaloedd hyny am lawer o amser, yn frawdol a dedwydd, heb ddigter na dadl, yn dra llwyddianus.⁵¹

Mae ysgrifau achlysurol 'Crwydr-daith trwy eglwysi Caerefrog Newydd' gan awdur o'r enw 'Ysbīwr,' sef William Rowlands yn ôl tystiolaeth ei gofiant, yn y *Cyfaill* yn ystod yr 1840au, hefyd yn dangos ei fod yn dymuno i'r Cymry ddod i wybod am ddiwylliant crefyddol ehangach America drwy ddarlunio amgylchiadau ymfudwyr eraill megis yr Almaenwyr.

A oedd y cydweithio ymarferol enwadol hwn fel gweinidog yn ymledu i'r wasg argraffu yn ogystal, neu ai'r byd cecrus a'i nodwedddai yng Nghymru a deyrnasai yno?

(iv) 'Ni chynwys ei amlen na chynhen na llid?'

Mynegir ofnau cyffelyb yn y ddwy wlad am effaith dyfodiad cyhoeddiadau eraill i'r maes ar y brawdgarwch enwadol. A thro'i'n ôl at 'Morgan a Gruffydd,' awgryma Morgan y

⁴⁸ Ibid, t.326.

⁴⁹ Ibid, t.259.

⁵⁰ Thomas, R.D., *Hanes Cymry America*, rhan 3, t.171-6.

⁵¹ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands* - atgofion Iorthryn Gwynedd, t.449-51.

gellid ffeirio gwahanol gylchgronau rhwng cymdogion, gan groesawu cystadleuaeth iach rhwng cyhoeddiadau er mwyn gwella safonau. Ar y llaw arall, ofna Gruffydd y gall ‘*cyhoeddiadau pleidgar* beri mwy o ddyeithrwech, gelyniaeth ac ymryson’ rhwng enwadau, ac oherwydd y niwed a wna cenfigen a rhagfarn, mae’n ffafrio ‘un cylchgrawn misol rhydd, a chyffredinol.’⁵² I raddau, mae’r ddau safbwynt yn nodweddiadol o natur y wasg yng Nghymru ac America yn y cyfnod, ac yn adlewyrchu teimladau’r gynulleidfa ehangach.

Bwriad ymarferol ceffylau blaen yr enwadau Anghydfurfiol Cymreig yn America oedd meithrin undeb er lles crefydd y genedl leiafrifol ar gyfandir enfawr. Mae holl gyhoeddiadau’r wasg gyfnodol yn cynnwys anerchiadau gan ddarllenwyr yn ystod eu rhifynnau cynharaf yn gofyn iddynt beidio ag enllibio ei gilydd ac yn eu cymell i feithrin cariad brawdol. Dengys hyn bryder y darllenwyr am y duedd ffraegar a oedd yn bla yng Nghymru yn y cyfnod hwn. Ymateb y golygyddion yn unfrydol yw eu sicrhau na fyddant yn ymostwng i’r fath bechod, ond ar eu gwarthaf deuai ymryson i gorddi’r dyfroedd ar adegau, gan osod y dadleuon ar lwyfan cyhoeddus y wasg. Ai geiriau gweigion i fodloni disgwyliadau’r darllenwyr oedd wrth wraidd yr addewidion hyn, neu a oeddent o ddifrif yn barod i gydweithio er lles crefydd, er y golygai hyn nad oedd eu henwadau eu hunain yn cael eu sylw penodol?

Ceir llith o anerchiad wedi ei gyfieithu at olygyddion cyhoeddiadau crefyddol gan y Pch. Charles G. Finney yn y *Cenhadwr* yn ystod ei flwyddyn gyntaf sy’n dangos fod y pwnc o’r pwys mwyaf yn y cyfnod.⁵³ Mynega ofid dwfn am yr enllib a’r rhagfarn a ddeilliai o raniadau enwadol yn yr eglwysi, ond hefyd yn y wasg argraffu a oedd yn gyfryngau dylanwadol fel arweiniad i’r gymdeithas:

⁵² Ymddyddan Gruffydd a Morgan – *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Chwefror 1839.

⁵³ Anerchiad at olygwyr cyhoeddiadau crefyddol (Pch. Charles G Finney, athraw diwinyddol coleg Oberlin, O) - *Y Cenhadwr Americanaidd*, Rhagfyr 1840.

Yr wyf yn ystyried Golygwyr ein Cyhoeddiadau yn dal y berthynas fwyaf pwysig â'r byd o neb dynion sydd yn y byd, gan eu bod trwy eu Cyhoeddiadau megis yn bresenol yn mhob lle.⁵⁴

Mae Robert Everett yn 'deisyfu yn ostyngedig' ar olygyddion y cyhoeddiadau Cymraeg yng Nghymru i'w ailgyhoeddi, ond ni chyfeiria at y *Cyfaill*. A dybiai fod cyfnodolyn Cymraeg cyntaf America uwchlaw y fath feirniadaeth, neu a oedd dylanwad y *Cenhadwr* yn ddigonol i sicrhau fod y neges yn cyrraedd Cymry America o ystyried cefnogaeth rhai i'r ddau fisolyn?

Mae'r duedd i gyhoeddi sylwadau ar ysgrif neu ar fater pwysig mewn cylchgrawn a berthyn i enwad arall yn un gyffredin ymhlith yng ngwasg gyfnodol y Cymry yn America yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn sgil y gorgyffwrdd rhyngddynt. Er gwaethaf ymdrechion y golygyddion yn rhinwedd eu dyletswydd fel arweinwyr y gymdeithas i frwydro'n ddygn dros gydweithio enwadol, dadleuon yn bennaf a ysgogai rai Cymry i roi inc ar bapur a chyfrannu i gylchgrawn enwad nad oeddynt yn perthyn iddo. Fel gweddill y cyfnodolion y ddwy ochr i'r Iwerydd, deilliai'r agendor rhwng y cyhoeddiadau o raniadau enwadol. O'r herwydd, nid yw barn un bardd am y *Cyfaill* bob amser yn wir, 'Ni chynnwys ei amlen, na chynhen, na llid...'⁵⁵

Yn ystod y ddeunawfed ganrif, roedd y berthynas rhwng y Methodistiaid a'r enwadau Ymneilltuol eraill yn ddigon simsan yn y cyfnod cynnar oherwydd gwahaniaethau athrawiaethol, yn enwedig cyn i'r cyfundeb Methodistiaid ymwahanu oddi wrth yr eglwys wladol.⁵⁶ Ceisiai'r Methodistiaid ymbellhau oddi wrth y cyrddau dadlau a oedd yn nodweddu'r eglwysi Ymneilltuol, a rhoi'r prif bwyslais yn ôl ar grefydd, ac y mae hynny'n adleisio consensws golygyddol William Rowlands:

⁵⁴ Ibid.

⁵⁵ Cerdd 'Cefnogi y Cyfaill' (D. Wynne, Centreville, Ohio) – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1841.

⁵⁶ Roberts, Parchedig John (1934) *The Calvinistic Methodism of Wales*, Llyfrfa'r Cyfundeb: Caernarfon, t.44. Yn ystod y ddeunawfed ganrif, diarddelwyd y Methodistiaid o'r eglwysi Ymneilltuol fel ymgais i'w cadw ar wahân oherwydd 'gwahaniaeth mewn egwyddor a'r gwahaniaeth dyfnach fyth yn eu teithi.'

Ciliai y Methodistiaid yn reddfod oddi wrth yr ymdaeru hwn, a blinai eu hysbryd arno.⁵⁷

Mae'r gerdd 'Theomemphus' gan Williams Pantycelyn yn darlunio agweddau'r Methodist tuag at y difrod a wnaethai'r dadleuon i burdeb yr efengyl:

Terfysgwyd pennau'r bobol,
Fe ranwyd yma a thraw
Dau biniwn mewn un eglwys...
Un pulpud yn fflangellu'r
Athrawiaeth yn y llall...
Didolwyd, gwnawd partion
o'r bobol oedd gytun...⁵⁸

Fel Methodist brwd o ran ei agweddau a'i ddull o bregethu,⁵⁹ mae'n bur debyg mai'r ymwybyddiaeth o'r dadlau hwn oedd un o'r ffactorau a bennodd lwybr golygyddol William Rowlands o ymwrthod ag ymrysonau.

Eto i gyd, roedd yn anochel y byddai peth anghytuno rhwng yr enwadau ar gyfrif eu dysgeidiaeth wahanol. Mynegiant o'r cecru enwadol mewn print yw cynnen rhwng y Trefnyddion Calфинаidd a'r Annibynwyr, sy'n ymddangos yn y *Cyfaill* yn 1841. Gwraidd y ddadl yw amharodrwydd golygydd y *Cenhadwr*, Robert Everett, i gyhoeddi ysgrif gan William Williams (Gwilym Fardd) a hawliai atebion gan y Pch. E. Blunt, yn dilyn geiriau honedig 'enllibus' gan y gweinidog yn y *Cenhadwr*. Mae'r ddadl yn enghraifft gampus o wedd ddeublyg y *Cyfaill* yn cyhoeddi dadleuon i'w datrys er mwyn cyfiawnder, a cheisio glynu at egwyddorion heddychol yr un pryd. Yn hyn o beth, mae'n ddadlennol fod William Williams wedi dewis y *Cyfaill* a'i 'anmhleidgarwch arferedig' i unioni'r cam honedig a

⁵⁷ Roberts, Parchedig John (1931) *Methodistiaeth Galфинаidd Cymru: ymgais at athroniaeth ei hanes, Darlith Davies 1930*, Foyle: Llundain, t.90-1

⁵⁸ Ibid.

⁵⁹ Roberts, Parchedig John (1934) *The Calvinistic Methodism of Wales*, Llyfrfa'r Cyfundeb: Caernarfon, t.69. Roedd ei bregethau yn ddeallusol, wedi ei hymchwilio'n fanwl, yn cynnwys beirniadaeth a ffraethineb, chwarae ar eiriau ac yn meddu ar arddull resymegol. Roedd yn apelio at y teimlad a'r galon, yn unol ag anian y Methodistiaid.

wnaed gan olygydd y *Cenhadwr*.⁶⁰ Yn wir, defnyddiwyd y *Cyfaill* i geisio cymodi'r rhwyg rhwng y ddau enwad yn 1839, drwy gyfrwng llythyr gan weinidog yr Annibynwyr fel 'brawd yn yr Efengyl.' Gofidiai fod y ddau gorff mwyaf nerthol ymhlith Cymry America, a oedd wedi 'cydrodio fel y cyfryw tros flynyddoedd mewn amryw o'r treflannau Cymreig yn y wlad hon' yn anghytuno, a gofynna gymorth golygydd y *Cyfaill* i 'feithrin cariad brawdol' rhyngddynt.⁶¹

Er nad oedd gan yr Annibynwyr eu cyhoeddiad eu hunain yr adeg hon, mae'n arwyddocaol i weinidog o enwad arall ofyn am gymorth y *Cyfaill* i feithrin undeb rhwng y gwahanol enwadau, sy'n awgrymu potensial y cyhoeddiad i weithredu fel cyfrwng i glymu aelodau o amrywiol bleidiau a chyflwyno'r neges o gymod. Cyfaddefa fod y ddwy ochr wedi beio ei gilydd a 'dweyd geiriau caledion,' ond dengys barch mawr yn ei lythyr at William Rowlands fel gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd. Mae yntau o'r un farn â'r gweinidog a 'llaweroedd' yn yr angen i 'anadlu awyr burach nag awyr rhagfarn ac yspryd pleidiol' ac uno fel 'brodyr a chynorthwywyr' yn achos crefydd.⁶² Mae'r cyfeiriad at yr arweinydd cynnar Whitefield hefyd yn awgrymu bod yr undeb hwn yn rhan o ethos ehangach y mudiad Methodistiaidd o fod yn oddefgar tuag at wahaniaethau enwadol er mwyn efengylu mewn parthau eang. Mae William Rowlands a'i gyhoeddiad, felly, yn ceisio bod yn driw i greddo'r enwad drwy gyhoeddi ysgrifau a erfyniai am undeb.

Yn ei ohebiaeth sy'n dwyn y teitl 'Enllib Pwysig,' rhy William Williams bwyslais ar y gair 'enllib' drwy gyfrwng llythrennau breision:

Y mae y pechod atgas a ffiaidd, a enwyd uchod, yn ddimaheu, yn uchel iawn ei ben yn mhlith meibion Gomer, yn y byd gorllewinol hwn, ac yn peri llawer o ofid i'r ffyddloniaid . . . gan obeithio y bydd i hyn ddyfod dan sylw rhai o'r cyfryw ag sydd

⁶⁰ Gofyniadau i'r Pch. E Blunt – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1841.

⁶¹ Ymgais yn erbyn rhagfarn ac o blaid heddwch – llythyr at Olygydd y *Cyfaill* gan G.R. yn gofyn am gyhoeddi llythyr gan weinidog yr Annibynwyr at y TC - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1839. "Fe fyddai yn dda genyf pe gallech fod yn offerynol yn rhyw fodd, i beri i'r pleidiau a enwyd fod yn dangnefeddus, ac yn frawdol, y naill tuag at y llall. Efallai nad oes un peth yn tueddu cymmaint i attal llwyddiant crefydd a bod ei phroffeswyr mor angharedig wrth eu gilydd."

⁶² Ibid.

yn gwneyd arferiad o'r gwaith aflan, gwaethus, ac ysgeler hwn; a chan obeithio y bydd iddynt weled gradd o'r mawr ddrwg sydd ynddo, ac y bydd o fendith iddynt er attal eu tafodau athrodgar, absengar, a'u gwefusau gweniaethgar . . . Oh! Na fyddai i ni oll fel cenedl, ymdrechu i gael y ffolineb hwn o'n mysg.⁶³

Teimla William Williams fod y pechod hwn wedi ei gyflawni yn erbyn y Trefnyddion Calфинаidd ar dudalennau'r *Cenhadwr*, a oedd yn awgrymu'r 'anwiredd noeth a phwysig' nad yw'r enwad yn 'derbyn pawb yn ddiwahân at Grist.'⁶⁴ O ganlyniad, tynnir golygyddion y *Cyfaill* a'r *Cenhadwr* i'r ymladdfa, gan arddangos tebygrwydd a gwahaniaethau trawiadol ym mholisi golygyddol y ddau.

Mae'r ysgrif 'Cymhell Pawb' gan Robert Everett a gyhoeddwyd drwy gyfrwng y *Cyfaill* yn egluro ei benderfyniad fel golygydd i beidio â chyhoeddi'r ysgrif yn y *Cenhadwr* er mwyn amddiffyn y Trefnyddion Calфинаidd. Ymddengys ei fod yn arddel yr un egwyddorion â'i gyfoeswr William Rowlands drwy roi 'chwarae teg' i ddarllenwyr y *Cenhadwr* benderfynu drostynt eu hunain. Awgryma y dylai William Williams drafod achos o'r fath mewn llythyr cyfrinachol yn hytrach na chynhyrfu'r wasg brint:

Meddyliais na buasai cyhoeddi y llythyr yn gwneyd un lles i neb – nac i gorph y Trefnyddion Calфинаidd, nac i achos yr efengyl yn gyffredinol...⁶⁵

Ychwanega nad oedd yn ymddangos iddo ef fod 'enllib yn cael ei fwriadu,' ac felly nad oes 'un dyben daionus...i gynyrfu yn yr achos.'⁶⁶ Roedd setlo dadl drwy 'ymresymiad personol' yn hytrach na'i gosod ar lwyfan cyhoeddus y wasg cyhyd ag yr oedd modd hefyd yn bwysig i olygyddion yr hen wlad wrth geisio meithrin heddwch ymhlith y cyhoeddiadau.⁶⁷

⁶³ Traethawd 'Enllib' (JDN) – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1840.

⁶⁴ Enllib Pwysig, at gorph cyfrifol o grefyddwyr (At y Pch. R Everett) gan Gwilym Fardd - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1841.

⁶⁵ Ymateb Robert Everett – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1841. Hefyd gw. Hunter, Jerry (2007) *I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn erbyn Caethwasanaeth Americanaidd*, Gwasg Carreg Gwalch: Llanrwst. Trafodaeth Jerry Hunter ar ymdrechion Robert Everett i ymwrthod ag enwadaeth – t.27-8 a 107.

⁶⁶ *Y Cenhadwr Americanaidd*, Awst 1841.

⁶⁷ Ymddyddan Gruffydd a Morgan – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1839.

Mae sensitifrwydd Everett tuag at enwad arall a'i ddatganiad ar ddiwedd y flwyddyn mai ei amcan yw 'gwylio rhag ysbryd cynhenus – rhag ymgeisio at niweidio ereill wrth geisio llesau ein hunain,'⁶⁸ yn awgrymu'n gryf nad yw'n dymuno aflwyddiant i enwad arall fel 'CYDWEITHWYR yn achos yr efengyl.'⁶⁹ Mae gohebydd arall yn ailadrodd pwynt a wnaed droeon flwyddyn ynghynt ynghylch yr 'amhriodoldeb o ymddadleu.'⁷⁰ Dengys hyn fod disgwyliadau'r darllenwyr yn cyd-fynd ag amcanion golygyddion y cyfnodolion Cymraeg. Mae Robert Everett hefyd yn pwysleisio cyfrifoldeb y cyhoeddiadau i feithrin cariad brawdol rhwng enwadau, ac mae fel petai'n rhybuddio William Rowlands yn gynnwl i anrhydeddu'r egwyddor hon.

Fodd bynnag, cyhoeddir yr ysgrif ymfflamychol gan William Williams yn y *Cyfaill*, er syndod i olygydd y *Cenhadwr*.⁷¹ Diddorol yw mesur ymateb William Rowlands i ysgrif Everett, ac yntau wedi teimlo fod ei gyd-olygydd yn ei 'ledfeio' am gyhoeddi'r ysgrif ddadleuol. Noda'n glir nad 'awyddfryd i gyhoeddi unrhyw beth yn dynoethi 'dywediadau camsyniol dynion' oedd wrth wraidd ei benderfyniad golygyddol, a gallai brofi ei fod wedi gwrthod 'amrywiaeth o ysgrifion achwyniadol' oddi wrth 'rai o'n cefnogwyr ffyddlonaf.' Ni fyddai oblygiadau'r ysgrifau hyn 'o bwys mawr y naill ffordd na'r llall,' ond mae'n stori wahanol pan drafodir mudiad neu enwad yn ei gyfanrwydd:

Eithr cyn belled ag yr ydym ni yn deall yr amgylchiad presennol y mae yn dra gwahanol: y mae yr awgrym gyhuddawg yn erbyn *corff* lluosog o '*frodwr*' crefyddol Mr. E, ac yn cael ei gyhoeddi dan olygiad nifer o weinidogion, a'i daenu cyn belled ag y cyrhaeddo dylanwad y gweinidogion hyny yn Nghymru ac America; ac o

⁶⁸ Anerchiad y Golygydd – *Y Cenhadwr Americanaidd*, Ionawr 1841.

⁶⁹ Ymateb Robert Everett – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1841. "Nid oeddwn yn amcanu ymddwyn yn anfrwdol at William Williams, nac at fy mrodyr y Trefnyddion Calffinaidd. Yr wyf bob amser, cyn belled ag yr wyf yn fy adnabod fy hun, yn dymuno eu llwydd hwy a'r gwahanol enwadau eraill yn ein plith fel cenedl, fel CYDWEITHWYR yn achos efengyl ein Harglwydd Iesu Grist. Ond fy nymuniad yw gosod allan y gwirionedd yn deg fel yr wyf yn ei ddeall, heb ymryson. Onid dyma y ffordd oreu, anwyl frawd? Ac onid oes llawer yn ymddibynu ar y modd y byddom yn dwyn yn mlaen y Cyhoeddiadau Cylchawl sydd yn ein llaw yn awr, er meithrin ysbryd cariad a thangnefedd yn y gwahanol enwadau crefyddol." Ar ddiwedd 1841, cyhoedda mai ei unig flaenoriaeth yw 'gogoniant ein Meistr a lles ein cenedl; gadewch i ni gydweithio ac ni a lwyddwn yn ddiau.' *Y Cenhadwr Americanaidd*, Tachwedd 1841.

⁷⁰ Ychydig mewn dull o ymddyddan (O.B.) - *Y Cenhadwr Americanaidd*, Rhagfyr 1841.

⁷¹ 'Cymhell Pawb' – hunan-amddiffyniad y Parchedig Edward Blunt - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1841.

herwydd hyny gellid dysgwyl iddo effeithio yn bwysig ar gymeriad a defnyddioldeb y corff hwnw.⁷²

Yr hyn sy'n arwyddocaol yw fod hygredd yr enwad yn bwysig i William Rowlands, er ei fod yn rhan o glytwaith enwadol ehangach y Cymry crefyddol yn America. Nid yw William Rowlands yn croesawu'r orfodaeth arno i gamu ar faes y frwydr, rhywbeth sy'n mynd yn groes i'w egwyddorion brawdol; ond nid yw ei ymlyniad cryf i enwad y Methodistiaid Calфинаidd yn caniatáu iddo aros yn y cysgodion. Ymddengys yn yr achos hwn fod William Rowlands wedi dewis ei sêl dros gyfiawnder i ddinoethi'r 'gwirionedd' gerbron y cyhoedd yn hytrach na chadw heddwch y wasg:

Gan hyny yr ydym yn ei ystyried yn ddyledswydd arnom roddi cyfle teg i'r Gwirionedd gael ei amlygu ar y pwngc. Ac os ydyw yn ddyledswydd arnom ni, yr ydym yn ei ystyried yn fwy o ddyledswydd ar Mr. E yn gymaint ag mai trwy gyfrwng y Cyhoeddiad Cylchawl dan ei olygiad ef y lledaenwyd y brawddegau a wrthwynebir; ac nid yw ond ofer siarad am 'ysbryd cariad a boneddigeiddrwydd Cristionogol' hyd nes y cyhoeddir trwy yr *un cyfrwng* ddarluniad cywir o olygiadau y Trefnyddion Calфинаidd ar ALWEDIGAETH YR EFENGYL.⁷³

Ar y mater hwn, amlinellir y cyferbyniad rhwng amcanion y ddau olygydd dylanwadol o fewn eu henwad, o ran y berthynas rhwng y cyrff. Er bod Robert Everett yn adnabyddus am fod yn lladmerydd agored dros bynciau llosg y cyfnod, ef sy'n gyndyn o gyhoeddi ysgrif er mwyn atal unrhyw ddadleuon a chadw'r heddwch rhwng y cyrff crefyddol. Ar y llaw arall, teimla William Rowlands reidrwydd i 'amddiffyn y gwirionedd' drwy fentro i ganol y ddadl yn y wasg pan mae enw da'r Trefnyddion Calфинаidd o dan fygythiad, a chreda'n gryf mai trwy ddefnyddio yr un cyfrwng i leisio barn yn agored y mae atal unrhyw ddadlau pellach. Mae'r ffaith fod William Rowlands yn fwy tebygol o godi ei lais i amddiffyn yr enwad yn eironig o ystyried ei fod yn proffesu egwyddor 'amhleidiol' yn fwy pybyr na chyhoeddiadau eraill gwasg Gymraeg America:

⁷² Ymateb William Rowlands – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1841.

⁷³ Ibid.

Yr oedd yn ofalus i amddiffyn y gwirionedd... ac mor ddisygog y safai dros, ac y pleidiai athrawiaeth y cyfundeb parchus y perthynai iddo, pan yr ymosodid arno, neu y dygid camdystiolaeth am dano.⁷⁴

Yn fwy na dim, amlygir dylanwad pellgyrhaeddol y gair print yn sgil ei ofn y byddai'r ysgrif gyhuddgar yn cael ei lledaenu ymhlith gweinidogion y ddwy wlad, ac felly defnyddia'r wasg fel arf amddiffynnol i warchod buddiannau'r enwad. Yn yr un modd, gellir dehongli penderfyniad golygydd y *Cenhadwr* ar y mater fel ymgais i beidio â rhoi cyfle i William Williams gwestiynu ensyniadau 'enllibus' o eiddo'r Pch. E. Blunt a ymddangosodd yn y cylchgrawn, a dyrchafu'r Annibynwyr yn ei sgil. Mae'n bosibl felly bod eu safbwyntiau yn debycach nag y byddent yn fodlon ei gyfaddef: er eu bod mewn egwyddor yn frwd dros gydweithio enwadol a meithrin heddwch, roedd hybu eu henwadau personol hefyd yn effeithio ar eu penderfyniadau golygyddol wrth ddethol deunydd.

Yn anterth y ddadl, cyhoeddwyd cerdd gan un o ddarllenwyr y *Cyfaill* yn annog Cymry America i'w gefnogi, ac awgryma hyn bod rhai yn synhwyro bygythiad o du'r cyhoeddiad newydd:

Er dyfod ymwelydd, un newydd ei naws,
A misol ymosod i drafod ar draws,
Ymlynwch yn ffyddlon wrth Gyfaill mwyneiddlon,
A hen Egwyddorion enwogion yn wir;
O sefwch eich tir tra caffoch ddwfr clir...⁷⁵

Mae'n arwyddocaol fod y darlennydd yn teimlo fod y *Cenhadwr* wedi corddi'r dyfroedd a'i 'fisol ymosod' a'i fod yn erfyn ar y genedl i gefnogi'r cylchgrawn cyntaf a'i 'ddwfr clir,' sef cyfeiriad at lwyddiant ei bolisi amhleidiol.

Er gwaethaf natur bigog ysgrif William Rowlands mewn manau, yn ei diwedd glo gwelwn fod y ddau olygydd, trwy ddefnyddio dulliau gwahanol, yn ymgynraedd at yr un amcan o feithrin cymod rhwng yr enwadau:

⁷⁴ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.393-4.

⁷⁵ Annogaeth i'r Cymry gefnogi y 'Cyfaill o'r Hen Wlad' (D. Wynne, Centreville, Ohio) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1841.

Hyderym nad oes dim yn y nodiadau uchod a ddoluria deimladau ein Parchedig frawd, Mr. Everett. Gofidus genym fyddai deall fod; oblegid gan nad pa mor wahanol yr ydym yn bresennol yn ein golygiadau ar bethau, yr ydym yn gobeithio cael cyfarfod rywbyrd ‘yn undeb ffydd;’ a charem fwynhau cymaint o heddwch a chariad brawdol ag a ganiatao yr amgylchiadau nes cyrhaedd hyny; a diau genym y bydd iawn ddeall, ac iawn ddarlunio golygiadau y naill a’r llall, trwy y wasg a thrwy yr areithfa, y moddion goreu er gostegu amryson a meithrin heddwch rhwng y Trefnyddion Calфинаidd a’r Cynulleidfaolion.⁷⁶

Rhybuddia William Rowlands yn erbyn ‘difriäeth bersonol’ a cheidw’r ddadl yn ‘rhesymol.’

Dengys hyn mai ei flaenoriaeth yw cadw’r heddwch cenedlgarol er lles crefydd, yn debyg iawn i’w gyfoeswr Robert Everett.

Fodd bynnag, mae ysgrif arall gan Gwilym Fardd, gwraidd y ddadl uchod, yn 1847 yn codi cwestiynau pellach am gymhelliad y ddau olygydd. Y tro hwn, ufuddha golygydd y *Cenhadwr* i’w gais i gyhoeddi ysgrif, wedi i’r bardd gydnabod ‘mai y Cyfaill a fyddai y lle mwyaf priodol iddo,’ ond fod ‘pob peth o’r eiddof yn wrthodedig yn y Cyhoeddiad hwnw.’⁷⁷ Ynddi, mae’n collfarnu ‘Hanes Crwydrdaith trwy eglwysi Caerefrog Newydd’ gan awdur a’i geilw ei hun yn ‘Ysbiwr’ yn y *Cyfaill*:

Meddyliaf y buasai yn llawn cystal iddo yn lle crwydro ymuno gyda ei frodyr a’i chwirydd Cymreig ar y pryd i addoli, (gan ei fod mor hoff o fod yn eu plith) yn lle esgeuluso cydgynulliad. Pe buasai un o’i frodyr yn gwneuthur *unwaith* yr hyn sydd gan Mr Y yn *arferiad*; ond odid na basai atalfa yn cael ei roddi arno rhag dywedyd dim yn gyhoeddus gyda’r gwaith am rai misoedd o leiaf.⁷⁸

Mae cofiant William Rowlands yn nodi’n glir fod ‘Ysbiwr’ yn un o’r ffugenwau a ddefnyddiai’r golygydd, ac felly daw’n glir pam y byddai mor anfodlon i gyhoeddi ysgrif a fyddai’n dwyn anfri personol arno.

Yr hyn sydd wedi codi gwrychyn Gwilym Fardd yn fwy na dim yw sylwadau yr awdur, ‘Gresyn garw na allai’r Cymry aros gyda’i gilydd &c,’ a daw’n amlwg fod tensiynau o dan yr wyneb yn y cylchoedd crefyddol ynghylch gweithredoedd William Rowlands i’r perwyl hwn:

⁷⁶ Ymateb William Rowlands – *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Ebrill 1841.

⁷⁷ ‘Yr Ysbiwr’ - *Y Cenhadwr Americanaidd*, Mai 1847.

⁷⁸ *Ibid.*

...gresyn garw fod un Cymro wedi bod yn euog o hau hadau anghydfod yn eu plith, yn lle bod yn dangnefeddwr yn ol ei broffes. Pe buasai i'r gwr urddasol edrych i mewn idd ei fynwes ei hun, (oddieithr fod rhagfarn wedi ei gwbl ddallu) gwelais yr achos pa ham y ceisiai llawer o honynt le yn Nhy'r Arglwydd ymhlith y Saeson; gellir dywedyd am y gwr enwog yma fel y dywedwyd am Eli gynt, 'Yn anwiredd a wyr efe.' Ymddengys nad yw y gwr wedi cael digon o foddlonrwydd trwy eu gorfodi i ymadael a'r Cymry, heb eu herlid hyd yn nod mewn eglwysi eraill hefyd; a pha nifer bynag a'u pleidiasant yn yr achos gwaradwyddus hwn, gellir dywedyd fel y dywedwyd yn Llyfr Ezra ar achos arall, 'A llaw y penaethiaid a'r tywysogion fu gyntaf yn y camwedd hyn.'⁷⁹

Trwy awgrymu fod Cymry sy'n ymadael ag eglwysi'r genedl i ymuno â'r Saeson yn 'gwerthu eu defnyddioldeb am eu hoes,' mae wedi digio Gwilym Fardd sy'n teimlo fod Cymry sy'n hyddysg yn yr iaith Saesneg yr un mor ddefnyddiol i achos crefydd, 'i adeiladu ac nid i dynu i lawr.' Mae'n mynd ati mewn barddoniaeth i herio goruchafiaeth William Rowlands fel gweinidog uchel ei barch ymhlith Cymry America:

Ni fynnwn yn fy einioes,
Oera' fy nghri er fy nghroes,
Honaf fi yn hyn o fan
Gario baich y gwr bychan.⁸⁰

Mae'n amlwg fod Gwilym Fardd yn teimlo'n chwerw tuag at olygydd y *Cyfaill* am wrthod ei ysgrifau yn unol â pholisi'r cylchgrawn o beidio ag ymosod ar gymeriadau unigol. Roedd y rhod wedi troi er pan oedd Gwilym yn ymddiried yn y *Cyfaill* i ddweud ei gŵyn am gylchgrawn yr Annibynwyr yn 1841, a dengys hyn natur gyfnewidiol y 'cymunedau dehongliadol.'

Ymddengys bod y wasg Gymraeg yn faes dadlau wedi'r cwbl, a bod modd addasu teyrngarwch y cyfranwyr a'r darllenwyr drwy gyfrwng penderfyniadau golygyddol a'u gyrrai i chwilio am loches cyhoeddiad arall. Y cwestiwn mawr na ellir ei ddirnad yw a fyddai Robert Everett yn ymwybodol mai ymosodiad ar ei gyfoeswr yr oedd, ac a fyddai hyn yn

⁷⁹ Ibid.

⁸⁰ Ibid.

egluro ei barodrwydd i gyhoeddi'r ysgrif er gwaethaf egwyddor ei gylchgrawn o beidio ag ymosod ar unigolion?

(v) 'Parhaed brawdgarwch?'

Mae dadl arall rhwng yr un golygyddion yn 1844 hefyd yn amlygu'r duedd o warchod buddianau ac enw da enwadol. Yn wahanol i'r ddadl yn 1841 pan oedd golygydd y *Cenhadwr* yn ceisio meithrin heddwch drwy beidio â chyhoeddi ysgrif ddadleuol, yn yr achos hwn, bernir fod Robert Everett wedi cyhoeddi ysgrif gyhuddgar a sylwadau golygyddol yn erbyn enwad y Trefnyddion Calфинаidd. Fel gêm fwrdd, teflir y dis yn ôl ac ymlaen rhwng cyfranwyr a golygyddion y ddau gyhoeddiad, er bod William Rowlands yn cyhoeddi yn ei anerchiad ar ddechrau'r flwyddyn ei fod yn 'gochelyd pob peth a feithrinai anfoesoldeb, cenfigen, ac amryson anfuddiol.'⁸¹

Eisoës, trafodwyd uchod y duedd o gyfeirio at faterion un enwad mewn cyhoeddiad gan enwad arall. Yn y cyfamser yn 1843, gwelwn Robert Everett yn honni bod William Rowlands wedi 'camfeddwl amdanom' drwy ei gyhuddo o 'ysbryd erledigaethus' ar glawr y *Cyfaill*.⁸² Mae'n sicrhau golygydd y *Cyfaill* na fydd yn derbyn 'cyhuddiadau nac achwyniadau *disail* yn erbyn neb,' er nad yw'n gyfrifol am farnau ei ohebwy, a'i fod yn fodlon cyhoeddi eu hamddiffyniad 'o'r hyn a ystyriont yn wirionedd o bwys' wrth drafod gweithiau a gyhoeddwyd yn y *Cyfaill* neu o eiddo'r golygydd. Mae'n amlwg felly nad yw William Rowlands yn croesawu trafodaeth ar ddeunydd y *Cyfaill* mewn cyhoeddiad arall, yn enwedig am fanylion athrawiaethol neilltuol ei enwad y mae'n eu gwarchod mor daer.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod Robert Everett yn edrych ar y darlun ehangach drwy nodi ei bod yn well ganddo ddadlau ynghylch dirwest, caethwasanaeth a diwygiadau

⁸¹ Anerchiad y Golygydd ar ddechrau 1844 - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*.

⁸² Clawr Ionawr 1843 - *Y Cenhadwr Americanaidd*.

crefyddol yn hytrach na dadlau â chyd-Gristnogion am bynciau ‘nad ydym wedi y cyfan yn mhell iawn o fod o’r un feddwl yn mherthynas iddynt,’ gan arddel mwy o gydweithio mewn perthynas i faterion cymdeithasol. Maentumia mai ei ‘ddymuniad difrifol’ yw meithrin tangnefedd rhyngddynt er mwyn ‘cydlafurio yn ngwinllan yr Arglwydd’ ac ‘ymosod ar y gelyn cyffredinol’ yn hytrach nag ymgecro a ‘niweidio ysbryd y darllenwyr.’

Mae dau ymddiddan yn y *Seren Orllewinol* yn 1844, misolyn at wasanaeth y Bedyddwyr a sefydlwyd yn ystod y flwyddyn honno, yn pryderu am natur gythryblus y tirlun print y mae ar fin dod yn rhan ohono:

...y byd crefyddol wedi myned yn *lopscows* y dyddiau hwn – adar o bob lliw yn ymgynnill i’r un llwyn, lle y lleisiant am y goreu rhyw donau dyeithriol i ferched Salem, nes y creir y *discord* mwyaf yn athrawiaeth cynganeddol y groes.⁸³

Cefndir y sylw hwn yw gohebiaeth gan un a’i geilw ei hun yn ‘Mehffin’ yng ngholofn ‘Dadleuaeth’ y *Cyfaill*. Mewn ysbryd dychanol, aiff ‘Mehffin’ ati i gyfleu ei siomedigaeth o weld ysgrif gyhuddgar yn y Cenhadwr (gan ohebydd o’r enw ‘Ionawr’) ynghylch camweddau moesol honedig aelodau benywaidd o enwad y Trefnyddion Calfinaidd ym mhentref Remsen.⁸⁴ Nid yn annisgwyl bu hyn yn fan cychwyn ffræ benboeth ynghylch y priodoldeb o gyhoeddi deunydd dilornus am un enwad mewn cyhoeddiad yn perthyn i enwad arall.

Fodd bynnag, nid yw’r ysgrif wreiddiol gan ‘Ionawr’ yn y *Cenhadwr* yn nodi’n benodol i ba enwad y mae’r garfan anfoesol yn Remsen yn perthyn, ac atega Robert Everett ar ddiwedd y darn nad yw’n gwybod pwy sy’n euog. Serch hynny, mae’n ‘cywilyddio dros ein cenedl’ ac yn teimlo dyletswydd i ‘rybuddio pob dyn ac addysgu pob dyn,’ ac felly’n cyhoeddi’r ysgrif er mwyn ‘dwyn dylanwad ar ein cenedl.’⁸⁵ Ychwanega’r awdur ‘Ionawr’ ar waelod yr ysgrif nad oedd wedi enwi’r Trefnyddion Calfinaidd yn uniongyrchol, ac mae

⁸³ *Y Seren Orllewinol*, Medi 1844. Hefyd gw. Hanes y Byd a’r Amseroedd, neu ymddyddan rhwng un o ddosparthwyr y Seren a’i gymmydogion. *Y Seren Orllewinol*, Awst 1844. Mae’r ymddiddan hwn hefyd yn mynegi pryder nad yw’r misolion yn ‘ddim amgen na phlanfa i feithrin annghariad a chenfigen rhwng pleidiau crefyddol.’

⁸⁴ Crefyddwyr Ieuange Remsen – *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Gorffennaf 1844.

⁸⁵ Geiriau’r golygydd ar ddiwedd ysgrif Ionawr - *Y Cenhadwr Americanaidd*, Mehffin 1844.

William Rowlands dan y lach ganddo am wrthod cyhoeddi'r ysgrif a gwneud sylw arni ar glawr y *Cyfaill* cyn ei hymddangosiad o gwbl yn y wasg:

Mae yn syndod i mi fod gwr o gyrhaeddiadau mor eang a Mr.R. yn ymddarostwng i arferyd y fath resymeg; pe buasai pethau yn bod fel ag y myn *ef* i ni ddeall; mae hyny yn rheswm lled garbwll dros wrthod yr ysgrif...⁸⁶

Mae'n eironig nad yw'n enwi unrhyw enwad crefyddol a oedd ynghlwm â'r gweithredoedd anfoesol yn ei ysgrif wreiddiol, ond yn sgil sylwadau William Rowlands rhag blaen ar yr ysgrif, caiff ei gythruddo i'r graddau iddo gyfaddef ei fod yn gwybod am aelodau o'r Trefnyddion Calфинаidd sy'n ymhél ag arferion annuwiol, ac nad ydynt yn fwy 'sanctaidd' nag unrhyw enwad arall.

Syndod yw iddo nodi ei fod yn gorfod anfon yr ysgrif o'r *Cenhadwr* drwy law cydymaith er mwyn i olygydd y *Cyfaill* asesu'r mater, gan i William Rowlands honni mai yn 'anfynych' y mae'n darllen cyhoeddiad yr Annibynwyr. O ystyried y rhychwant eang o ffynonellau a ddefnyddid i gywain deunydd ar gyfer y *Cyfaill*, teg yw holi pam nad yw William Rowlands yn cadw golwg ar weddill y wasg Gymraeg yn America, o ystyried y tebygrwydd rhwng yr holl gyhoeddiadau a'r gorgyffwrdd rhyngddynt mewn materion crefyddol. Maes o law, mynega William Rowlands ei farn ar yr ysgrif, gan ddatgan gydag ergyd gynnil ei fod wedi teimlo dyletswydd i ymchwilio i'r mater yn uniongyrchol, 'cyn cyhoeddi y fath anair gwaradwyddus ar gymeriad neb o'n cyd-genedl,' yn wahanol i olygydd y *Cenhadwr*.⁸⁷

Fe sylwir bod ymateb William Rowlands hefyd yn defnyddio 'iaith a dullwedd' gyfreithiol yn ei amddiffyniad, fel petai'n cyflwyno achos gerbron llys barn, ac mae hyn yn

⁸⁶ Geiriau ychwanegol 'Ionawr' ar ddiwedd ei ysgrif - *Y Cenhadwr Americanaidd*, Mehefin 1844. Cyfeiria 'Ionawr; at Mr.R fel Mr Rowlands, "...ond peidied y Parchedig Olygydd a llafurio dan gymaint camgymeriad mewn perthynas i'r 'enwad Methodistiaidd.' Mae yn wir fod 'rhagor rhwng crefyddwyr a chrefyddwyr,' ond nid ydyf yn deall fod rhagoriaeth o sancteiddrwydd yn ganfyddadwy yn y Trefnyddion Calфинаidd mwy na rhyw enwad crefyddol arall."

⁸⁷ Crefyddwyr Ieuangc Remsen - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1844. Sylw ar amlen y *Cyfaill* - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1844. Sicrha William Rowlands y gohebydd 'Ionawr' nad oedd unrhyw un o aelodau'r Methodistiaid yn euog o'r 'cyfryw arferion llygredig' yn ôl tystiolaeth y swyddogion eglwysig yn ôl ei ganfyddiadau.

gydnaws â'i egwyddor o drin cyhuddiad gyda 'rhesymau' yn hytrach nag 'arfau.' Cyflwyno ei ddadl mewn modd uniongyrchol ac ymarferol er mwyn ymgynghraedd at gyfiawnder, gan herio'r awdur i gyflwyno tystiolaeth, a dengys hyn ei agwedd ddifrifol tuag at warchod yr enwad:

Nid yw ond ofer taeru a galw enwau, a dolurio teimladau o un tu – y peth goreu i derfynu y ddadl ydyw PRAWF; ac i'r dyben hyn y cyduna y Cymry yn gyffredinol â ni ei fod yn deg ac yn gyfiawn i Ionawr ateb y cwestiynau canlynol, gyda phrawf o wirionedd ei atebion...⁸⁸

Gwelwn brawf o'i ymrwymiad at degwch wrth iddo ddewis dau ddiakon o eglwys ei enwad, ac un o eglwys Robert Everett i roi prawf ar honiadau 'Ionawr,' ynghyd ag apêl i ateb y cwestiynau drwy gyfrwng y *Cenhadwr*.

Mae'r ffaith i'r gohebydd 'Ionawr' gyflwyno'r camweddau hyn i lygaid y byd drwy gyfrwng cyhoeddiad enwad arall – a hynny heb i arweinwyr y corff fod yn ymwybodol o'r mater - yn sarhad o'r mwyaf iddo, a theimlir bod darllenwyr y *Cenhadwr* yn chwethin am ben enwad y Trefnyddion Calfinaidd o'r herwydd. Yn wir, roedd cyhoeddi ysgrif mor ddeifiol o ddychanol o dan ffugenw yn groes i egwyddorion cychwynnol y *Cenhadwr* o sicrhau tegwch drwy nodi enw priodol wrth ysgrif, a chyflwyno'r ddadl 'mewn ysbryd ac iaith dirion a boneddaidd.'⁸⁹ O'r herwydd, mae William Rowlands yn cwestiynu'n helaeth gymhelliad golygyddol Robert Everett wrth gyhoeddi'r ysgrif, ac ymddengys fod hyn yn fwy o ddraenen yn ei ystlys na'r cyhuddiadau eu hunain:

Dywedwch mai ystyriaeth o'ch dyledswydd i rybuddio pob dyn, a'ch cymellodd i'w chyhoeddi. Ai gwir hynyna? Ai nid er mwyn cael mantais (ddychnmygol) i roi sen i Olygydd y 'Cyfaill' am ei gwrthod, ac i ddarostwng y Methodistiaid, y darfu i chwi ei chyhoeddi?⁹⁰

Mae'r ymosodiad honedig hwn gan un golygydd ar olygydd cyhoeddiad enwadol arall yn codi nifer o gwestiynau am natur y berthynas rhyngddynt ar lefel bersonol, crefyddol ac

⁸⁸ Crefyddwyr Ieuangc Remsen – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1844.

⁸⁹ Tudalen gefn – *Y Cenhadwr Americanaidd*, Ebrill 1841.

⁹⁰ Crefyddwyr Ieuangc Remsen – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1844.

yng nghyd-destun y wasg gyfnodol. Wrth i'r ddau bwysleisio droeon ar dudalennau eu cyhoeddiadau eu bod yn frwd dros gydweithio enwadol er budd y Cymry yn gyffredinol, mae dulliau'r ddau o sicrhau hyn yn dra gwahanol wrth ymdrin â'r ddadl hon.

Yn ei osodiad cyntaf i Robert Everett, mynega William Rowlands ei anfodlonrwydd fod y gweinidog yn 'offeryn yn llaw' yr awdur 'Ionawr' wrth iddo ganiatáu cyhoeddi ei ysgrif yn 'dynoethi gwaeleddau crefyddwyr.' Roedd y ffaith i Robert Everett wneud sylwadau ar yr ysgrif yn mynd yn gwbl groes i ethos niwtral William Rowlands o fod yn niwtral a'i bwyslais cyson ei fod yn ymddihatru oddi wrth ensyniadau ei ohebwy, ac adlewyrcha hyn wahaniaethau dadlennol rhwng y ddau olygydd. Ar y llaw arall, amddiffyna Robert Everett ei benderfyniad i gyhoeddi'r ysgrif ar y sail ei fod yn rhybuddio'r genedl rhag drygioni, er ei fod yn mentro 'codi tymestl o eiriau a thymherau drwg rhai.'⁹¹ Serch hynny, credai William Rowlands fod dinoethi'r pechodau yn y modd hwn yn 'iselu crefydd yn ngolwg y byd,' ac mai trwy ddangos daioni y gellir troi'r rhod at grefydd. Yn ychwanegol at hynny, er bod Robert Everett yn honni fod ieuenctid y gymdogaeth yn ddiolchgar iddo am gyhoeddi'r ysgrif,⁹² mae'n glir fod William Rowlands yn gweld penderfyniad golygydd y *Cenhadwr* i gyhoeddi ysgrif o'r fath yn sarhad arno ef fel unigolyn, er ei fod ef yn ei dro yn ymosod ar Robert Everett yn uniongyrchol drwy gyfrwng y *Cyfaill* am ei drywydd golygyddol yn y *Cenhadwr*.

Daw'r ymosodiad i benllanw gyda diwedd glo pigog yn cynnwys cyngor gan William Rowlands i olygydd y *Cenhadwr* adael llonydd iddo ef a'i enwad, a cheir awgrym fod golygydd y *Cyfaill* wedi syrffedu ar glywed y sôn am 'heddwch' nad yw wedi ei weithredu yn yr achos hwn:

Os ydych mor bleidiol i heddwch ag y dymunwch i ereill gredu eich bod weithiau, dylynwch ef a gadewch Olygydd y 'Cyfaill' a'r Methodistiaid Calфинаidd yn llonydd

⁹¹ Clawr – *Y Cenhadwr Americanaidd*, Gorffennaf 1844.

⁹² Ibid.

tra byddoch yn cael llonydd. Mae hwn yn gynghor nad edifarhewch o'i gymeryd – Gol y Cyf.⁹³

Nid dyna ddiwedd y mater, a gwelwn effaith y colyn yn dyfnhau fis yn ddiweddarach pan nad yw William Rowlands yn derbyn ymateb i'r materion a godwyd ganddo. Unwaith eto, ymddengys y gwrthdaro hwn yn un o natur bersonol, wrth i olygydd y *Cyfaill* feirniadu Robert Everett yn hallt am ei lwfrdra yn osgoi ateb y cwestiynau mewn modd rhesymegol, er iddo wneud sylw i egluro'i 'ymddygiad':

Mae y Golygydd yn rhedeg oddiwrthynt, ac yn llechu dan leni dirgeledig ei ddybenion. Peth hawdd iawn yw honi dybenion pur – gwnelai y Pabyddion hyny wrth ferthyru y Protestaniaid – ond hyderwn bethau gwell am Olygydd y Cenhadwr. Bydded rhyngddo ef a'i Farnwr cyfiawn am hyny. Ond, ai tawel iddo ef ar wely angeu, a phan ar ymddangos o flaen ei Feistr ef a ninau, fydd adgofio ei fod wedi bod yn offerynol i daflu llysnafedd ar Flaenoriaid corff o grefyddwyr, a phan y gelwid am brofion, ysgrifenu rhywbeth, a gadael y cyhuddiadau mewn niwl o amheuaeth?⁹⁴

Mae cymharu gweithred golygydd y *Cenhadwr* gyda merthyrdod y Protestaniaid a'i rybuddio o ganlyniadau Dydd y Farn yn awgrymu pa mor ddifrifol yng ngolwg William Rowlands oedd amddiffyn buddiannau ei enwad, er ei fod yn parhau i bwysleisio apêl y *Cyfaill* i'r genedl yn gyffredinol yn y cyfnod.

Mae'n cau pen y mwdwl gyda thôn lem mewn ymateb i eiriau gohebydd ar glawr y *Cenhadwr* y dylai'r Trefnyddion Calфинаidd 'ymostwng yn yr amgylchiad hwn,' a thrwy ddatgan na fydd yn cilio o'r ddadl nes y bydd y cyhuddiad wedi ei brofi, dengys ei ymrwymiad i warchod ei enwad i'r pen.⁹⁵ Mae'n ymddangos nad yw William Rowlands yn ceisio pardduo golygydd cyhoeddiad arall yn fwriadol, ond fod ei 'ddyledswydd' i roi cyhoeddusrwydd i unrhyw gam i'r enwad yn enw cyfiawnder gryfed nes ei fod yn fodlon

⁹³ Crefyddwyr Ieuangc Remsen – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1844.

⁹⁴ Clawr - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1844.

⁹⁵ Ibid. "...cant hwy ymostwng os mynant; ond ni ymostwng y Trefnyddion Calфинаidd nes profi fod y cyhuddiad yn wirionedd, o leiaf cyn belled ag y mae yn son am flaenoriaid; ac nid ymostyngant wed'yn ond caiff yr euog ymostwng, a'r ddysgyblaeth anrhydeddus sydd genym sefyll yn ei lle . . . Yr ydym yn attal ar hyn yn awr, gan ofyn yn ostyngedig i Meistri Everett a Davies (gan eu bod hwy erbyn hyn fel yn cefnogi y cyhuddiad), enwau y BLAENORIAID sydd yn euog o gadw eu tai yn chwareufa hyd ddau ar gloch y boreu, yn ol desgrifiad Ionawr. Os na wnant hyn, nid oes iddynt ond cymeryd y canlyniadau."

cymryd pob mesur posibl i'r diben hwn, gan gynnwys cystwyo golygydd yn bersonol am ei benderfyniadau.

Yn ystod yr un mis, mae golygydd y *Cenhadwr* yn gresynu ei fod wedi 'digio yn aruthr ein brawd Olygydd' trwy gyhoeddi ysgrif 'Ionawr,' ond mae'n ymwrthod â chyhuddiadau William Rowlands drwy ddatgan na fyddai 'o fawr les i neb i ni ymryson a'r Cyfaill o barthed *ein dybenion yn ein gweithrediadau cyhoeddus*.'⁹⁶ Unwaith eto, defnyddia swyddogaeth y cyhoeddiadau i atgoffa William Rowlands o bwysigrwydd peidio ag ymryson, er ei fod wedi cyhoeddi ysgrif a fyddai'n debygol o bechu'n erbyn y Methodistiaid. Honna fod yr ysgrif wreiddiol wedi ei hanfon i'r ddau gyhoeddiad, ac o weld ôl-ysgrif William Rowlands yn gwrthod ei chyhoeddi, teimlai y byddai'n ddoeth cyflwyno'r darlun llawn gerbron y darllenwyr.

Ar sail y dystiolaeth, mae'n ymddangos fod William Rowlands wedi gorymateb i'r ysgrif yn amlinellu diffygion moesol rhai crefyddwyr, gan dybio ei fod yn gyfeiriad neilltuol at ei enwad ei hun. Mae hyn yn awgrymu ei fod yn ymwybodol pwy oedd gwrthrychau'r ysgrif, a'i fod yn defnyddio ei rym fel golygydd i amddiffyn eu henw da. Eto i gyd, Robert Everett sy'n cael y gair olaf ar y mater ym mis Hydref 1844 wrth ddatgan bod y dystiolaeth y gofynnwyd amdani gan William Rowlands i'w chael ar glawr rhifyn y *Cenhadwr* am fis Awst.⁹⁷ Mae'n argymhell peidio â dweud dim mwy ar y mater, gan annog y pechaduriaid i broffesu 'y ffoledd a wnaethum nis gwnaf ef mwy.' Yn rhyfedd ddigon, mae William Rowlands wedi ymdawelu erbyn hyn, ac mae'r diffyg ymateb o bosibl yn awgrymu ei fod wedi derbyn y dystiolaeth am gamweddau honedig aelodau o'i enwad.

⁹⁶ At y Cyhoeddus (Robert Everett) - *Y Cenhadwr Americanaidd*, Awst 1844. "...nid ydym yn gweled y byddai o fawr les i neb, i ni sefyll i ymryson â'r Cyfaill o barthed *ein dybenion yn ein gweithrediadau cyhoeddus* – oddieithr tystio yn syml ger bron yr Hwn a wyr bob peth nad ydym yn yn coleddu y dybenion a briodolir i ni gan Mr. R. yn y peth hyn. Ein dymuniad a'n hymgais yw ac fydd yn mhob achos, gweithredu yn y modd goreu ag a allom dan yr amgylchiadau, er lles ein cyd-ddynion a gogoniant yr Arglwydd, gan ystyried ein bod yn gyfrifol am ein dybenion wrth orsedd y Barnwr cyfiawn."

⁹⁷ *Y Cenhadwr Americanaidd*, Hydref 1844.

Wrth i'r wasg gyfnodol gyhoeddi safbwyntiau gwahanol mewn fforwm agored, y mae ar y naill law yn anrhydeddu egwyddor cyfiawnder, ond ar y llaw arall, yn parhau â'r duedd a ddirmygir yn gyffredinol gan yr arweinwyr enwadol o aflonyddu ar yr undeb rhyngwadol. Honna'r ymddiddan rhwng y *Cymro* a'r *Cyfaill* fod y cyhoeddiad yn 'lanach' na gweddill y wasg Gymraeg o ran 'dangos beiau ar gyhoedd,' ac nad yw'n 'ymosod yn gyntaf ar bersonau na chyfundebau.' Fodd bynnag, yn sgil 'ymosodiad cyhoeddus o'r wasg a'r pulpud,' teimla ddyletswydd i 'amddiffyn y gwir ac argyhoeddi y cam-gyhuddwr' parthed materion pwysig 'personol, crefyddol neu wladol,' ac mae hyn yn crisialu union egwyddorion William Rowlands a'r croesdynnu parhaus rhwng ei reddf amddiffynnol a'i oddefgarwch.

Tasg amhosib yw bodloni'r holl ddarllenwyr, ac felly amcan y *Cyfaill* yw cyhoeddi dadleuon o bwysigrwydd neilltuol, nid ymostwng i gecru personol, fel y mynegir yn ei anerchiad golygyddol yn niwedd y flwyddyn gythryblus:

Hefyd nid y lleiaf o'i rhagorion yw ein gochelgarwch i beidio gwarthruddo nag enllibio cyfunbau na phersonau; nis geill ein cyhuddo o *ymosodiadau* bwriadol, ac hwyfrydig iawn ydym mewn amddffyniad. Yr ydym yn goddef yn hytrach bob amser oddyeithr ar achosion pwysig, a phryd y gelli esponio ein goddefgarwch er niweid i'r gwirionedd. Lles ein cydgenedl oedd ein hamcan dechreuol, a'r un peth yw ein bwriad parhaol, ac yn hytrach na bod yn foddion i hau cynnen, amryson ac anghydfod yn eu plith, byddai yn well genym ymgais at eu lles mewn rhyw lwybr arall.⁹⁸

Yn achos Robert Everett, dadleuon am faterion cymdeithasol neu foesol cyffredinol oedd yn mynd â'i fryd golygyddol, ond trafodaethau yn ymwneud â'i enwad ei hun oedd yn ennyn ymateb William Rowlands.

Mae'r dadleuon cyhoeddus hyn yn taflu amheuaeth ar yr awgrym mai'r *Cyfaill* yw'r 'glanaf' o'r cyhoeddiadau Cymraeg yn hyn o beth, ond defnyddir yr ymddiddan i ddatgan cred barhaus William Rowlands yn swyddogaeth y *Cyfaill* fel cyfrwng cytbwys i gyflwyno pob ongl i'r ddadl. Ond a oedd un ongl i'r ddadl a gâi fwy o sylw ganddo?

⁹⁸ Anerchiad y Golygydd ar ddiwedd 1844 - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1844.

(vi) 'Tanllyd bicellau...'

Yng nghanol y gwrthdaro ar dudalennau'r wash yn ystod 1844, ceir dadl arall rhwng y ddau enwad sy'n ehangu ar y beirniadu a fu ar olygydd y *Cyfaill*, ac yn codi holl fater cyhoeddi ysgrifau o dan ffug-enw gan ohebwy'r yn gyffredinol. Cyhoedda Jenkin Jenkins ysgrif yn rhifyn Gorffennaf o'r *Cenhadwr* yn ei amddiffyn ei hun a gweinidogion eraill gyda'r Annibynwyr, gan fod golygydd y *Cyfaill* wedi 'agor llif-ddôr yr argraffwasg' i ysgrif sy'n llawn o 'haeriadau llidiog a chelwyddog.' Cyhoeddodd William Rowlands ysgrif gan ohebydd a'i geilw ei hun yn 'Eyddwen,' Methodist o Pittsburgh, a deimlai fod y 'rhyfelwr' Jenkin Jenkins wedi 'erlid enwad crefyddol' drwy farnu fod Cyffes Ffydd y Methodistiaid 'fel hen Almanac wedi mynd allan o ddate.'⁹⁹ Byddai hyn yn sarhad o'r mwyaf ar y corff gan ei fod yn sylfaen athrawiaethol i'w ffydd, a theimla fod yr Annibynwyr yn eu diffrïo, yn wahanol i'r Bedyddwyr a'r Wesleyaid.

Mae ymateb Jenkin Jenkins yn syndod o ystyried ei fod wedi anfon dwy ysgrif i'r *Cenhadwr* yn 1840 a oedd yn tanio'n erbyn 'ysbryd cul a rhagfarnllyd yr oes ymysg crefyddwyr o bob enwad.' Sylwadau eithafol o chwerw a geir gan Jenkin Jenkins yn 1844 fodd bynnag, ac mae wedi ei gythruddo yn bennaf am fod y gohebydd dan sylw yn cuddio y tu ôl i ffugenw mewn 'ysfa i dduo cymeriadau gweinidogion yr efengyl,' a daw'n amlwg fod yr arferiad hwn sy'n nodweddu'r wasg gyfnodol yn atgas ganddo. Mae'n apelio ar i'r ysgrifennwr i roi ei enw priodol wrth ysgrif pan mae'n ymdrin â 'chymeriadau ei gydgreaduriaid,' neu fe ymddengys fel 'dichelldd yn awyddus i niweidio ei well.'¹⁰⁰ Yna, mae William Rowlands yn rhoi olew ar olwynion y ddadl drwy gyhoeddi hyn mewn ôl-ysgrif, cyfrwng byr sy'n llefaru cyfrolau am safbwyntiau unrhyw olygydd:

Blin genym gyhoeddi llythyrau o'r fath hwn, ond y maent yn dyfod atom mor aml ac o gynnifer o fanau, fel yr ydym dan anghenrheidrwydd i gyhoeddi un yn awr ag eilwaith er amddiffyniad.¹⁰¹

⁹⁹ Y Cyffes Ffydd a'r Cynulleidfaolion. (Eyddwen) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1844.

¹⁰⁰ Gohebyddion y Cyfaill a'r Cenhadwr (Jenkins Jenkins) - *Y Cenhadwr Americanaidd*, Gorffennaf 1844.

¹⁰¹ Ol-Ysgrif y Golygydd – ysgrif 'Y Cyffes Ffydd a'r Cynulleidfaolion' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1844.

Awgryma Jenkins Jenkins mai cynllwyn ar y cyd rhwng y gohebydd a chyhoeddwr y *Cyfaill* yw'r ysgrif, a'i bod yn ymdrech i 'daflu picellau gwenwynig' yn ei erbyn ef yn bersonol. Ymhellach, nid yw'n cymeradwyo arfer y cyfrannwr hwn o 'lechu mewn ymguddfa wrth saethu ei danlyd bicellau,' yn hytrach na 'gwisgo ei arfogaeth yn deg ac ymddangos ar y maes yn gyhoeddus.' Mae ymosodiad Jenkin Jenkins hefyd yn ymestyn i dargedu'r *Cyfaill*, ynghyd â'i natur fel cyhoeddiad, oherwydd awydd ei ohebwy i 'ddrwgliwio ereill':

...nid priodol yw galw y fath gyhoeddiad yn 'gyfaill' i ddyngarwyr mwy, ond un o'u prif elynion.¹⁰²

Mae hefyd yn anelu ei lid tuag at olygydd y *Cyfaill* yn uniongyrchol, gan awgrymu fod Rowlands yn gwybod pwy yw'r gohebydd 'Eyddwen,' ac os nad ydoedd – y dylid amau ei grebwyll fel golygydd yn caniatáu ysgrifau di-enw:

...dywedaf yn ddigryd na ddarfu i un cyhoeddwr erioed wneuthur tro mwy byrbwyll – mwy anesgusodol – a mwy di-synwyr. Y mae yn llawn bryd cymeryd y fath orchwyl pwysig o'i ddwyllaw. Nid oes un dyn a wyr pa bryd y gwel y gwr yn dda ail-godi ei lif-ddôr, a gollwng cenllif lifeiriol o enllib a chelwydd am ben rhyw ddieuog arall, a hyny heb iddo gael gwybod o ba le y bydd y ffrwd wenwynig yn tarddu! Pe byddai i holl Arolygwyr ein Cyhoeddiadau Cymreig a Seisnig ymddwyn fel hyn, buan y chwythid tân cenfigen ac anghydfod i fflamio yn ddychrynlyd trwy ein holl eglwysydd.¹⁰³

Ar y llaw arall, os ydyw'n gwybod pwy yw awdur yr ysgrif, mae lle i'w gondemnio'n

llymach fyth am ei gymhellion golygyddol:

Ond, gydwladwyr hawddgar, yr wyf yn cwbl gredu fod Cyhoeddwr y *Cyfaill* yn rhy gyfrwys a gochelgar i wneuthur hyn. Nid allasi diffyg synwyr na rhagfarn ychwaith, byth ei arwain i wneuthur tro mor wallgofus a chyhoeddi y fath lythyr cableddus heb adnabod ei ysgrifenydd. Na-na-gwyr y gwr yn burion pwy yw ei ohebydd celwyddog –ac y mae hyny yn gwneuthur ei ymddygiad yn waeth fyth. Hawddach maddeu i ddyn

¹⁰² Gohebyddion y *Cyfaill* a'r *Cenhadwr* (Jenkins Jenkins) - *Y Cenhadwr Americanaidd*, Gorffennaf 1844.

¹⁰³ Ibid. Trafodir defnydd William Rowlands o ffugenwau maes o law, ond dylid nodi nad oes tystiolaeth i awgrymu mai ef yw'r gohebydd 'Eyddwen.' Caiff ei feirniadu yn y ddaol hon am benderfyniadau golygyddol wrth drin deunydd yn unig. Gw. hefyd *Y Seren Orllewinol*, Awst 1845: "Carem i'r gohebwy gofio na chyhoeddwn yr un ysgrif, pa mor gampus bynag fyddo ei chyfansoddiad, heb i'r awdur ein hanrhegu a'i enw priodol." Fis yn ddiweddarach, cyhoeddodd golygyddion y *Seren* na fyddai'n cyhoeddi unrhyw ysgrif heb enw priod yr awdur, a chyhoeddodd Robert Everett sylwadau i'r un perwyl flynyddoedd yn ddiweddarach, sy'n awgrymu fod gwybod enw'r awdur cyn cyhoeddi'r ysgrif yn bolisi gan olygyddion y wasg gyfnodol. Hefyd gw. *Y Cenhadwr Americanaidd*, Gorffennaf 1848: Mae Robert Everett yn gofyn am enw priodol pob gohebydd o leiaf yn gyfrinachol, 'er ein boddlonrwydd fod rhyw un cyfrifol yn traethu ar y pethau.'

byrbwyll a disynwyr nag i ddyn rhagfarnllyd a dichellgar. Ie, hawddach maddeu i bawb nag i ddichellddyn yn ngwisgoedd y cysegr.¹⁰⁴

Gyda'i arddull lem, mae Jenkins yn herio golygydd y *Cyfaill* i ddatgelu enw'r 'gohebydd dichellgar-brad-fwrddwr fy nghymeriad!-mewn noddfa celwydd, dan gysgod mantell ei falais anghyfiawn.' Beth bynnag fo cam nesaf y golygydd, mae'n nodi'n glir na fydd modd gwneud iawn am y 'fath gyngrair uffernol' rhwng y gohebydd di-enw a'r golygydd, ac mae'n 'diolch i'r nefoedd nad yw rhyddid y wasg ddim wedi ei hymddiried yn eu dwylaw hwy yn unig.'¹⁰⁵

Mae'n terfynu ar nodyn ffyrnicach fyth drwy nodi y byddai 'golwg annedwydd heddyw' ar y byd crefyddol petai pawb yn 'arferyd y fath gyfrwystra dichellgar i ddrwg liwio eu gilydd,' ac y bydd cenhedlaeth yn mynd heibio cyn y gellir anghofio 'dichellion eu calonau rhagfarnllyd yn y mater hwn.' Mae hyd yn oed yn mynd mor bell â chyhoeddi na fydd eu hymddygiad yn 'perarogli nemawr ar eu coffadwriaethau, pan y bydd eu tafodau wedi dystewi a'u dwylaw wedi llonyddu yn llwch y bedd.'

Nid yw William Rowlands yn ymateb yn uniongyrchol i'r ysgrif, ac mae'n datgan yn 'nosran y golygydd' y mis canlynol nad yw'n cymryd sylw o ysgrifau ymosodol; yn hytrach na chynnig amddiffyniad, y moddion gorau yw peidio ag ymateb o gwbl:

Ofnai rhai o'n cyfeillion rhag i ni ateb ysgrif ddifriawl a ymddangosodd yn y Cenhadwr diweddfaf. Nid rhaid iddynt; ni wnaethom erioed. Ac nid ydym yn bwriadu gwneyd un sylw o ddifriaeth wag, ond gadael iddi basio am ei llawn werth. Mae y rhai a ymollyngant i arfer y cyfryw foddion yn iselu eu hunain, heb fedru gwneyd dim niwed i neb arall. Ar yr un pryd, os tybiai rhyw un ei fod yn cael cam trwy unrhyw beth a ymddangoso yn y *Cyfaill*, ysgrifened atom ni, a defnyddied y cyfryw iaith ac ymadroddion ag a weddai fod rhwng Cristionogion a'i gilydd, a chaiff ateb dioed, yn gyhoeddus neu yn gyfrinachol, yn ol fel y barnom bod yr amgylchiadau yn gofyn...¹⁰⁶

¹⁰⁴ Gohebyddion y *Cyfaill* a'r Cenhadwr (Jenkins Jenkins) - *Y Cenhadwr Americanaidd*, Gorffennaf 1844.

¹⁰⁵ Ibid. Ychwanega '...nad yw cymeriad pawb ddim yn ddarostyngedig i'w dichellion hwy – ac nad yw hoedlau pawb ddim yn troi ar eu hanathema hwy.'

¹⁰⁶ Dosran y Golygydd - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1844.

Ymddengys ei fod yn cael ei ddal rhwng yr egwyddor o beidio â chymryd rhan yn y ddadl ar y naill law, a chyhoeddi, ar y llaw arall, amddiffyniad yn enw cyfiawnder, a hynny mewn ymgais i blesio carfannau gwahanol o ddarllenwyr yn ôl natur y ddadl.

Mae'r enghraifft hon yn awgrymu fod y *Cyfaill* a'r *Cenhadwr* erbyn hyn yn gyhoeddiadau enwadol, gan fod gwahanol weinidogion yn eu defnyddio i gyhoeddi amddiffynad yn unol â'u hargyhoeddiad personol. Serch hynny, mae Iorthryn Gwynedd, a oedd hefyd yn perthyn i'r Annibynwyr, yn haeru nad oedd dull William Rowlands o weithredu dros ei enwad yn cynnwys dirmyg at gyfundebau eraill, ac awgrym hyn yw nad oedd gweinidogion y corff cyfan yn arddel yr un teimladau tuag ato:

Ni ddeallai ei fod ef erioed, trwy gulni a rhagfarn enwadol, wedi gwneyd dim i geisio codi ei hunan a'i blaid, er ceisio darostwng a dirmygu eraill. Yr oedd efe yn rhy fawr, ac yn rhy bur i wneyd iselwaith felly. Ymddyrfhafodd Rowlands i'w boblogrwydd a'i anrhydedd trwy ei lafur, ei gymeriad, ei ddoniau a'i ddefnyddioldeb priodol ei hunan, a than eneiniad a nawdd y Nef; ar hynny methodd cydnerth ei holl elynion maleisddrwg ei ddarostwng na lladd ei ddefnyddioldeb, er iddynt arferu pob dichellion a difriaeth er ceisio gwneyd hyny.¹⁰⁷

(vii) 'Nes at yr argraffwasg?...'

Er bod nifer o ysgrifau'n awgrymu bod William Rowlands yn amddiffyn y Methodistiaid Calфинаidd yn agored yn wyneb ymosodiadau, mae'n arddel ffugenw mewn rhai dadleuon crefyddol. Mae'r awdur 'Chwarae Teg i Bob Ochr,' sef William Rowlands yn ôl tystiolaeth ei gofiant, yn sbarduno dadl hirhoedlog rhyngddo â'r Annibynwr Iorwerth o dan y pennawd 'Iawn Cyffredinol a Chadwedigaeth Neillduol' yn 1844, ac mae'r ddadl yn parhau i rygnu drwy gydol 1845. Gofynna am gysoni dwy athrawiaeth sy'n wahanol i eiddo'r Methodistiaid, gan gyfeirio'r cais yn bennaf at Iorwerth, 'o blegyd fy mod yn dysgwyl y

¹⁰⁷ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands* - atgofion Iorthryn Gwynedd, t.449-51. Am ddadl bellach sy'n ymwneud â'r ffiniau rhwng enwadau yn ystod yr un flwyddyn, gw. Golygydd – *Y Cenhadwr Americanaidd*, Tachwedd 1844.

gwnai efe ymresymu yn deg, heb wylltio a galw enwau, yr hyn sydd yn rhy gyffredin mewn cyhoeddiadau misol.¹⁰⁸

O ystyried fod Rowlands mor llafar ei argyhoeddiad dros y ddysgeidiaeth Fethodistaidd, a ellir dirnad pam ei fod yn cyhoeddi'r darn hwn o dan ffugenw? Er ei fod William Rowlands yn arddel ysbryd cenhadol yr enwad fel gweinidog a golygydd yn yr ystyr ei fod yn ymrwymedig i ledaenu'r genhadaeth grefyddol yn eang, roedd hefyd yn coleddu'r wedd Galfinaidd a broffesai fod nifer dethol wedi eu rhagordeinio gan Dduw.¹⁰⁹ Mae'n bosibl nad oedd yn dymuno i grefyddwyr wybod am ddyfnder ei ymrwymiad i'r athrawiaeth Galfinaidd, a oedd yn gynyddol amhoblogaidd ar y pryd, tra oedd yr egwyddor o 'gymhell pawb at Grist' a goledai Annibynwyr y 'System Newydd'¹¹⁰ yn magu nerth. Yn wir, noda ei gofiant ei fod wedi dioddef 'gwg ac erledigaeth'¹¹¹ o'i herwydd, a dyma hefyd wraidd dadl flaenorol William Williams yn 1841, wrth i rai gymryd fod yr enwad yn gwasanethu'r etholedig rai yn unig.

Haera Aled Jones fod celu enw awdur gohebiaeth gyda ffugenw yn gwarchod cysondeb y testun a phreifatrwydd yr awdur,¹¹² ac felly byddai'n ymgais i warchod polisi honedig niwtral y *Cyfaill*. Rhaid cadw mewn cof hefyd fod cuddio gwir enw'r awdur yn arferiad poblogaidd yn y wasg gyfnodol fisol a chwarterol yng Nghymru tan yr 1890au, ac felly'n rhan o'r diwylliant print trawsatlantig.¹¹³ Ychwanega Jones fod y ffugenw'n awgrymu arwyddocâd arbennig, ac yn sicr roedd enwau megis 'Chwarae Teg i Bob Ochr' yn cyfleu

¹⁰⁸ Iawn Cyffredinol a Chadwedigaeth Neillduol.' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1844. Hefyd gw. *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1844.

¹⁰⁹ Evans, Pch. John. *Bywyd ac Athrawiaeth John Calfin*, Llyfrfa y Cyfundeb: Caernarfon.

¹¹⁰ Mudiad diwinyddol newydd a oedd yn magu nerth yn y cyfnod hwn.

¹¹¹ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.305.

¹¹² Jones, Aled (2000) 'The Welsh Newspaper Press,' in (ed) Edwards, Hywel Teifi, *A Guide to Welsh Literature, 1800-1900, volume 5*, University of Wales Press: Cardiff, t.17.

¹¹³ Jones, Aled Gruffydd (1993) *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales*, University of Wales Press: Cardiff, t.39. "Anonymity allowed writers to undertake work for different periodicals, ventriloquizing the required viewpoints without literally subscribing to them."

gwrthrychedd, a'r 'Hebog Du' o bosibl yn awgrymu ei fod yn wylidwrus o faterion cyfoes a effeithiai Gymry America'r cyfnod.¹¹⁴

Er bod ei wrthrychedd yn sigo o dan bwysau'r rheidrwydd a deimlai i amddiffyn y 'gwirionedd' yn ei dyb ef, roedd defnyddio ffugenw yn dacteg ddelfrydol a'i galluogai i fynegi ei safbwynt fel unigolyn, a hynny heb wrthdaro gyda'i gred fel golygydd mewn consensws. Trwy ddefnyddio'r strategaeth hon, câi'r gorau o ddau fyd drwy fod yn rhan o'r un 'gymuned ddehongliadol' â'i gyfranwyr (a ganiatâi rwydd hynt i'w ddaliadau personol), ond ar yr un pryd ymddangosai ei fod yn sefyll y tu allan i'r cylch fel golygydd gwrthrychol.

Mae 'Chwarae Teg i bob ochr' yn cyfleu ei siom gydag ymateb Iorwerth, gan awgrymu ei fod yn 'cilio oddiwrth byngciau y mae ef a'i frodyr o'r gyfundraeth newydd yn son cymaint am danynt, am na fedrai lunio rhyw fath o amddiffyniad iddynt.'¹¹⁵ Ymfalchïa Iorwerth ei fod yn aelod o'r garfan sy'n coleddu 'athrawiaeth iachus Iawn Cyffredinol' nad yw'n cyfyngu crefydd i garfan benodedig, fel y Calfiniaid.¹¹⁶ Ar ddiwedd ei ysgrif, gofynna i'r awdur anhysbys roi ei enw priodol wrth yr ysgrif nesaf, gan ychwanegu ei enw yntau o dan y ffugenw 'Iorwerth,' sy'n brawf fod William Rowlands yn celu ei olygiadau yn llwyddiannus. Mae'n bur debyg felly ei fod eisiau ysgogi dadl ar seiliau gwrthrychol, ynghyd â pheidio digio Iorwerth a oedd yn gyfranwr cyson i'r cylchgrawn, yn ôl ei ymateb i'r cais:

Nid yw ond gwael; ond fel y mae, yr wyf am i'r gwir gael chwareu teg heb ddylanwad fy enw o un tu. Gosododd I. ddau enw wrth ei ysgrif ddiweddaf. Mae iddo roesaw i roddi dau eto os myn. Y gwirionedd feddyliwyf yn ddi-ragrith sydd genyf fi mewn golwg i'w ymofyn, ac nid derchafiad fy enw fy hun, nac iselhad ei enw yntau.¹¹⁷

Dyma eglurhad yn rhannol am ei safbwynt niwtral, wrth iddo hybu athrawiaeth ei enwad yn null cyffredinol y 'gwirionedd', fel y cyfeiria ato'n fynych, yn hytrach na'i gysylltu ag unigolion. Cyfaddefa nad ei fwriad yw 'dadleu er mwyn dadleu i geisio gwastraffu eich

¹¹⁴ Jones, Aled, 'The Welsh Newspaper Press', t.18.

¹¹⁵ 'Iawn Cyffredinol a Chadwedigaeth Neillduol' – sylwadau ar ateb Iorwerth - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Hydref 1844.

¹¹⁶ Ibid.

¹¹⁷ – Iawn cyffredinol a Chadwedigaeth Neillduol: adolygiad ar yr hyn a eilw Mr Iorwerth yn ateb i ysgrif ChwareuTeg - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1845.

tudalenau,' ond yn hytrach i 'ymresymu dros y gwirionedd,' sef ei olwg ef, wrth gwrs, ar athrawiaeth Gristnogol.

Erbyn canol 1845 fodd bynnag, mae'r ddadl yn poethi a'r sylwadau dadlennol yn cynyddu. Disgrifia Iorwerth 'blentynrwydd' ysgrifau 'Chwarae Teg,' gan awgrymu nad yw'n synnu ei fod yn cuddio y tu ôl i ffugenw oherwydd fod 'cymaint o wenwyn cyfeiliornadau yn eu colyddion:'

Drwg genyf fod Chwareu Teg yn gorfod cuddio ei enw rhag iddo, meddai, ef, ddylanwadu o blaid y gwirionedd; ond os nad yw yn addas i'w amlygu, nid wyf yn meddwl y 'dylanwada' ef o blaid y gwirionedd. Dichon fod ar Mr Chwareu Teg ofn cael ei fwrw allan o'r synagog am ei gyfeiliornadau, a'i fod yn cywilyddio ar ddal ei ysgrifau afresymol.¹¹⁸

Cynghora ddarllenwyr y *Cyfaill* rhag credu 'golygiad annuwiol Chwareu Teg,' gan wneud datganiad sy'n datgelu ei fod yn synhwyro pwy yw'r gohebydd yn sgil ei ddaliadau:

Dichon fod ei hawdwr hi yn nes i'r argraffwasg nag y mae rhai yn feddwl...¹¹⁹

Mae'n amlwg fod Iorwerth wedi taro man gwan golygydd y *Cyfaill*, ac wrth iddo ei ateb y mae'n taranu yn erbyn 'lled-grybwylliadau' Iorwerth 'mai y Golygydd, o dan ffug-enw, yw ei wrth-ddadleuydd,' er na ddywedodd hynny'n uniongyrchol:

Pe felly – pa wahaniaeth? Os bydd y Golygydd yn dewis ysgrifenu i'r ddsran ddadleuawl – onid oes ganddo gystal hawl a rhywun arall; a thra na byddo yn defnyddio ond enwau ffugiol, a thrwy hyny ymwadu a'i fanteision golygyddawl, ac yn gosod ei hun ar yr un tir a'i gyd-ddadleuydd – onid ydyw yn gymaint tegwch iddo ef gyhoeddi ei olygiadau a rhywun arall? Pe gellai Iorwerth, neu ryw ddadleuydd arall, ddangos ein bod wedi gwneyd y cam lleiaf a'i hysgrifion, o ddechreu y *Cyfaill* hyd yn awr, byddai ganddynt sail i'w hachwyniadau; ond tra yr ydym yn cyhoeddi ysgrifion ein gohebwy'r yn ddigyfnewidiad, oddyeithr diwygio ambell wall amlwg mewn ieithaduraeth, ac yn gynnwyl iawn tori tipyn bach ar flaen ambell ewin hir...¹²⁰

Mae'r sylwadau yma'n hollbwysig i'n dealltwriaeth o gymhelliad William Rowlands dros ddefnyddio ffugenwau; mae'n credu bod ganddo'r hawl i fynegi barn heb golli ei wrthrychedd golygyddol ymddangosiadol.

¹¹⁸ Iawn Cyffredinol a Chadwedigaeth Neillduol – adolygiad ar ysgrif 'Chwareu Teg i Bob Ochr' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1845.

¹¹⁹ Ibid.

¹²⁰ Sylw'r Golygydd ar 'Iawn Cyffredinol a Chadwedigaeth' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1845.

Fel Calfin pybyr, gwelwn felly mai ceisio cyflwyno ei ddaliadau crefyddol i'r Cymry y mae Rowlands mewn gwirionedd, gan ddefnyddio ffugenw i amddiffyn ei wrthrychedd honedig fel golygydd. Ond, fel y dengys dadleuon pellach a gododd rhyngddo a'r *Seren Orllewinol* yn 1845, roedd yn dra pharod hefyd i roi rhwydd hynt yn ei gylchgrawn i rai a fynnai feirniadu daliadau crefyddol a oedd yn groes i'r hyn a goleddant hwy, a bu iddo orfodi un a fu unwaith yn defnyddio'r *Cyfaill* fel tir niwtral i wyntyllu eu dadleuon i droi at gyhoeddiad ei enwad ei hun i'w amddiffyn ei hun yn yr enghraifft hon.¹²¹

Mewn anerchiad o Gymru a gyhoeddwyd yn y *Seren* yn 1846, mynegir gofid fod gormod o 'enllibio crefyddwyr' yn America, a bod tuedd y cyfnodolion o '*backbit*o, cnoi a thraflyngcu eu gilydd' ac ymosod ar unigolion yn cael effaith negyddol ar achos crefydd y gyd-genedl:

Wyled *eglwys* Dduw wrth feddwl fod meusydd Cyhoeddiadau misol yn cael eu defnyddio i ddrwgliwio cymmeriadau da.¹²²

A fyddai'r olwg negyddol hon ar bethau yn cael unrhyw effaith ar anerchiadau golygyddol y *Cyfaill*?

(viii) Niweidio'r enwad.

Mae anerchiad William Rowlands yn 1844 yn parhau i bwysleisio mai cynnal consensws yw ei nod fel golygydd, ac mae'n honni bod derbyniad gwresog i'r *Cyfaill* 'yn mhlith pob plaid ac enwad yn lled gyffredinol,' er gwaethaf dadl chwynn gyda'r Annibynwyr yn ystod y flwyddyn honno a phresenoldeb dau gyhoeddiad Cymraeg arall yn America.¹²³ Fodd bynnag, gwelir bod newid yn yr arfaeth yn anerchiad golygyddol 1845 gyda'r cyfeiriad

¹²¹ Bwyall ar y Ceubren (Delta) - *Y Seren Orllewinol*, Hydref 1845 & Congl y Beirdd – *Y Seren Orllewinol*, Hydref 1845.

¹²² Ibid.

¹²³ Anerchiad y Golygydd – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, 1844.

cyntaf uniongyrchol at ei enwad ei hun ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'n bosibl fod y gynnen hirhoedlog gyda'r Annibynwyr, ynghyd â thwf y wasg enwadol erbyn diwedd yr 1840au, yn golygu fod rheidrwydd arno i apelio at ddarllenwyr yng nghylch ei enwad yn erbyn ei ewylllys. Noda fod cannoedd o Gymry yn perthyn i'r Trefnyddion Calфинаidd wedi ymfudo yn ystod y flwyddyn, 'ac er nad yw y cyfundeb hwnw yn rhwym drosot, y mae genym, feddyliem, beth hawl i ddysgwyl yn hyderus am eu cynnorthwy,' a hynny i lafurio dros 'ein misolyn diymffrost.'¹²⁴ Cyn hyn, ei arferiad oedd osgoi crybwyll ei enwad ei hun, a hynny er mwyn cynnal natur ddiuedd ei olygyddiaeth. Ond, ac yntau'n un o arweinwyr pennaf y Methodistiaid Calфинаidd yn America, prin y gallai'r *Cyfaill* fodoli y tu hwnt i ddylanwad ei argyhoeddiadau personol. Yn fwy na hynny, y Methodistiaid Calфинаidd oedd yr enwad a ffynnodd fwyaf yn nhreflannau Cymreig America yn y cyfnod,¹²⁵ ac felly roedd yn anochel bod y cynnydd hwn yn cynnig rhwydwaith barod o ddarllenwyr a chefnogaeth barhaus i'r *Cyfaill*. Roedd y cyd-destun economaidd hefyd ei orfodi i ail-ddiffinio ei ddarllenwyr ac i apelio am gefnogaeth y Methodistiaid Calфинаidd pan oedd y cylchgrawn yn dioddef. Serch hynny, yn ei anerchiad ar ddiwedd y flwyddyn ganlynol, mae'n erfyn am ffyddlondeb y 'cyfundeb Methodistaidd' ynghyd â'r enwadau eraill 'ag sydd wedi dwyn mawr sel dros ein hanturiaeth o'i ddechreuad,' a dengys hyn nad yw'n fodlon anghofio ei selogion cynharaf.¹²⁶ Mae hefyd hyd yn oed yn nodi ei amcan i wasanaethu 'rhai heb fod yn perthyn i un enwad crefyddol,' sy'n wahanol i'w genadwri pan ddechreuodd y *Cyfaill*. Yn 1838, y meini prawf ar

¹²⁴ Anerchiad y Golygydd - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1845.

¹²⁵ Williams, Daniel Jenkins, D.D., *One Hundred Years of Calvinistic Methodism in America*. O'r cyfanswmo 34 o gapeli, roedd 17 yn nhalaith Efrog Newydd, 7 ym Mhennsylvania a 10 yn Ohio. Mae'r ystadegau ar gyfer y Methodistiaid Calфинаidd yn y cyfnod cynnar yn brin, ond ceir braslun o'r niferoedd yn yr atodiad. Yn ychwanegol i'r capeli a dderbyniwyd yn ffurfiol gan yr enwad, ni ellir dirnad faint o eglwysi bychain a manau pregethu neu genhadu a ffurfiwyd gan y Cymry a ymdrechai dros achos crefydd. Hefyd gw. Knowles, Anne Kelly (1997) *Calvinists Incorporated: Welsh Immigrants on Ohio's Industrial Frontier*, University of Chicago Press: London, t.146; Dodd, A.H. (1957) *The Character of Early Welsh Emigration to the United States*, University of Wales Press: Cardiff, t.25; Thomas, R.D., *Hanes Cymry America*, t.81; Williams, Daniel Jenkins, D.D., *One Hundred Years of Calvinistic Methodism in America*, t.55. Erbyn diwedd 1841, roedd gan y Methodistiaid Calфинаidd gyfanswm o 34 o gapeli ffurfiol ar gyfandir America, mewn gwahanol daleithiau. Llwyddodd y Methodistiaid Calфинаidd i godi 236 o gapeli erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nifer uwch na'r enwadau eraill, ynghyd â chyfundeb cenedlaethol i arwain eu henaduriaethau a'u cymanfaoedd.

¹²⁶ Anerchiad - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Rhagfyr 1846.

gyfer derbynwyr y cyhoeddiad oedd bod yn Gymry ac o natur grefyddol. Yn 1846, er iddo barhau i bwysleisio fod y *Cyfaill* yn gyhoeddiad crefyddol yn ei grynswth, mae'r ffaith ei fod yn ymestyn y tu allan i'r cylch crefyddol i apelio am ddarllenwyr - yn ogystal ag erfyn am ffyddlondeb ei enwad ei hun - yn awgrymu ei fod yn pryderu am ffyniant y *Cyfaill* ac yn targedu cynulleidfa wahanol i hybu gwerthiant.

Yn ystod yr un flwyddyn, nid cyd-ddigwyddiad yw i'r pryderon hyn gael eu mynegi drwy ddull ymddiddan ffuglennol, a oedd yn fodd i wyntyllu materion amserol a oedd yn ymwneud â'r wasg Gymraeg. HOLA'r 'Cymro' a yw'r 'Cyfaill' erbyn hyn wedi ei 'rwymo at wasanaeth' y Methodistiaid Calфинаidd yn unig yn sgil y cynnydd yn newyddion y corff. Ond yr ymateb yw ei fod yn parhau i gael ei gyhoeddi yn yr ysbryd o fod yn 'agored bob amser at wasanaeth pob cyfundeb.' Pwysleisia nad yw'r 'corff' wedi 'gosod rhwymau arno' gan ei fod yn 'fwy haelfrydig nag a feddyliech,' ond fod yn rhaid i'r cyhoeddiad ddibynnu ar gefnogaeth y Methodistiaid wrth i'r enwadau eraill sefydlu eu cyhoeddiadau annibynnol, er bod yma honiad fod cylchrediad y *Cyfaill* yn uwch na'r gweddill. Er gwaethaf y datganiad o amhleidgarwch, mae'n amlwg fod William Rowlands yn gwyrō'n gryf ac yn agored tuag at ei enwad ei hun erbyn hyn, ac ychwanega 'bod eu gwasanaethu hwy yn dra hoffus gan fy archwaeth hefyd; a gobeithiwyf gael treulio fy oes yn eu gwasanaeth.'¹²⁷

(ix) 'Cynnydd llenyddiaeth Gymreig.'

Pan sefydlwyd y *Drych* yn 1851, roedd ganddo bolisi golygyddol a oedd yn drawiadol o debyg i'r *Cyfaill* pan sefydlwyd ef yn 1838. Fe'i disgrifiwyd fel newyddiadur i 'lesoli ein cenedl' nad oedd yn 'perthyn i un enwad crefyddol na phlaid wladol' ac fel 'cyhoeddiad rhydd.' Mabwysiadodd yr arwyddair 'Rhydd i bawb ei feddwl, ac i bob meddwl ei lafar' i

¹²⁷ Ymddyddan rhwng y 'Y Cyfaill a'r Cymro' – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1846.

gyfleu ei natur fel fforwm agored, a cheir yma adlais cryf o egwyddorion cychwynnol y

Cyfaill:

Ni wneir sylw o unrhyw ysgrif o duedd i ddifrio personau, pleidiau neu enwau. Canfyddir rhagfarnau ynddo er gochelyd, enllib er ei ddynoethi, a sel bartiol er ei hysgoi.¹²⁸

Er y byddai cyhoeddiad newydd arall ym maes y wasg gyfnodol Gymraeg yn America yn rhwym o ansefydlogi'r ffiniau rhwng y cyhoeddiadau a fodolai eisoes a'u 'cymunedau dehongliadol,' cyhoedda'r *Drych* ei fwriad i gydweithio o ran ei wasanaeth i Gymry America. Ymhyfryda yng nghynnydd y wasg a dymuna lwyddiant i'r cyhoeddiadau eraill:

...credwn fod cymaint o anwyldeb gan *Gymry America at gynnydd llenyddiaeth Gymreig*, fel nas goddefant i un o'r cyfryngau clodwiw sydd wedi ein blaenori yn yr amcan gwiwglodus o'u llesoli a'u dyddori, byth fethu o eisiau derbyniad. Yn awr ffarfeliwn a'r *Cenhadwr*, ysgydw'n law a'r *Cyfaill*, a thynwn ein golwg oddiar y *Seren*, hyd nes y bydd i ni gael y fraint o gyfarch 'blwyddyn newydd dda' iddynt,' pan gyfarfyddom.¹²⁹

Er y croestynnu achlysurol rhyngddynt, roedd cynnig sylwebaeth ar gyhoeddiadau eraill – a'r sylwebaeth honno yn ffafriol gan fwyaf – yn un o nodweddion y wasg Gymraeg yn America. Awgryma hynny bod rhyw fath o undod rhyngddynt ynghyd ag awydd cyffredinol i'r genedl gefnogi'r wasg fel sefydliad diwylliannol yn hytrach nag fel mentrau unigol.

Mae'r safbwynt hwn yn cynrychioli agwedd sawl gohebydd sy'n croesawu cyfryngau newydd fel modd i ehangu'r ddarpariaeth a chynnig rhywbeth gwahanol, yn sgil yr angen i 'fyw mewn cyflawnder.' Awgrymir felly fod agwedd o'r fath yn bodloni disgwyliadau'r darllenwyr hynny a ddymunai gydweithrediad y wasg brint yn eu gwasanaeth i'r gymuned Gymreig yn America:

Da genyf weled bod cyhoeddiadau ein mam iaith ar gynydd yn ngwlad ein mabwysiad. Dymunwyf am i'r *Cyfaill* fod yn GYFEILLGAR, tramwyed y CENHADWR ei deithiau, adlewyrched y SEREN o nen ei ffurfafen, bydded y Detholydd, ymddifryu ar wrid y *Seren*, cyfeillachu a'r *Cyfaill* a derbyn cenadwri y *Cenhadwr*.¹³⁰

¹²⁸ *Y Drych*, Ionawr 9 1851.

¹²⁹ *Y Drych*, Ionawr 1 1851.

¹³⁰ Jenkin Jenkins, *Welsh Prarie, Wisconsin - Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1860.

Yn wir, honnai'r *Drych* ei fod yn ceisio gweithredu fel cyfrwng i ehangu cylchrediad y cylchgronau yn gyffredinol:

Nid ydym ni nac un o'n goruchwylwyr ffyddlon a chenedlgarol wedi ceisio darbwyllo un tanysgrifwr i roddi fynu y MISOLION, i'r gwrthwyneb, yr ydym wedi eu hanog ar air, ac yn ein colofnau i barhau yn ffyddlon i gynnal y CYLCHGRONAU ENWADOL yn gystal a thanysgrifio at y *Drych*, a hyn yw ein dymuniad gwastadol.¹³¹

Fodd bynnag, roedd hefyd yn ei osod ei hun ar wahân i weddill y cylchgronau drwy eu trafod fel un endid, 'y cyhoeddiadau enwadol,' ac mae llythrennau breision yn y dyfyniad yn arwyddoca ei gynlluniau i osod ffiniau penodedig rhyngddo a hwy. I'r perwyl hwn, mae sylfaenydd y *Drych* yn tanlinellu ei swyddogaeth wahanol fel newyddiadur yng ngŵydd y golygyddion eraill, ynghyd â'u sicrhau o'r angen am gyhoeddiad o'r fath.

Atgoffir ei ddarllenwyr yn barhaus mai newyddiadur ar gyfer Cymry America yw'r *Drych*, ei fod yn gyfrwng i uno'r treflannau Cymreig, ac nid yn fagwrfa i 'amrafaelion personol a lleol o barthed materion gwladol neu grefyddol.'¹³² Awgryma hyn fod y wasg gyfnodol Gymraeg yn frith o 'amrafaelion' sy'n hybu buddiannau enwadau penodol, ac felly bod angen hawlio'r tir canol unwaith eto i gynrychioli gwahanol farnau'r gymuned:

Yr ydym yn apelio at ein cyfeillion fel gwladgarwyr, a chefnogwyr rhyddid y wasg, a lledaeniad gwybodaeth fuddiol, ac nid fel enwadau crefyddol, na phleidiau gwladyddol, i ymgnio o hyn hyd ddiwedd y flwyddyn er eangu cylchrediad y *Drych*, a lluosogi nifer ei dderbynwyr.¹³³

Byddai datganiadau o'r fath yn gorfodi'r golygyddion eraill i ail-asesu swyddogaeth eu cyfnodolion, tasg na fyddent o reidrwydd yn ei chroesawu, yn enwedig wrth i'r *Drych* ddatgan yn ystod ei fis cyntaf nad yw 'rhai o'r Golygwyr Cymreig wedi ymddwyn yn gwbl

¹³¹ J.M.J. *Y Drych*, Rhagfyr 6 1851. "Duw yn rhwydd i bob anturiaeth o duedd i lesoli ein cenedl. Os yw yn perthyn i ryw blaid arall o grefyddwyr, deallai mai nid cyhoeddiad *enwadol* na *phleidiol* yw yr eiddom; a bod ein colofnau yn agored i dderbyn pob NEWYDDION buddiol a dyddorol mewn perthynas i unrhyw enwad, plaid, neu gymdeithas. Gwrthodir pob athrod a phersonod."

¹³² *Y Drych*, Medi 27 1851.

¹³³ *Y Drych*, Rhagfyr 20 1851. Gw. hefyd y modd mae'n disgrifio eu safle o fewn y wasg Gymraeg Americanaidd, a'r angen am gyhoeddiad o'r fath: Cyfarchiad Golygyddawl, *Y Drych*, Ionawr 2 1851.

frawdol' tuag at y newydd-ddyfodiad.¹³⁴ Roedd pwyslais y *Drych* ar ei ogwydd niwtral yn enwedig yn ysgogiad pellach i'r berthynas gythryblus a ddatblygodd rhyngddo a'r *Cyfaill* yn ystod y blynyddoedd dilynol.

Mae'r dull yr â golygydd y *Drych* ati i i apelio at Gymry America ar lefel wladgarol gyffredinol yn hytrach nag ar wastad crefyddol neu wleidyddol, yn ymdrech amlwg i greu 'cymuned ddehongliadol' newydd ehangach a fyddai'n fygythiad i'r cyhoeddiadau eraill, ac hefyd yn boendod i William Rowlands a'i bwyslais o hyd i raddau ar apêl eang y *Cyfaill*. Gellir deall sut y byddai anerchiadau'r *Drych*, a oedd yn hybu'r cyhoeddiad fel cyfrwng unigryw yn sgil ei apêl eang, yn ennyn teimladau surion ymhlith golygyddion eraill, a oedd eisoes yn pledio eu gwasanaeth i Gymry America yn gyffredinol mewn ymgais i ddenu darllenwyr yn anterth y wasg brint. Yn fwy na hynny, mae'r *Drych* yn apelio ar ei ohebwyrr i 'gyfyngu gofyniadau duwinyddol i'r cyhoeddiadau enwadol,' gan nad ydynt yn briodol i 'newyddiadur teuluaidd wythnosol.'¹³⁵ Gwelir felly fod y *Drych* yn ceisio cyfleu bod agenda neilltuol i'r cyhoeddiadau hyn a'u bod yn gwasanaethu isgymunedau penodol, tra mae ef yn gwasanaethu darllenwyr y wasg gyfnodol yn ei chyfanrwydd, fel ag y gwnaethai'r *Cyfaill* yn ei gyfnod cynnar. Byddai hyn oll yn bilsen chwerw i'w llyncu i olygydd y *Cyfaill* a oedd bob amser wedi brolio ei arwahanrwydd golygyddol ac annibyniaeth economaidd ei gyfnodolyn.

Nodir yn y *Drych* yn 1851 mai rhifyn yn niwedd y flwyddyn honno oedd y 'tro cyntaf feddyliem i'r Golygydd gydnabod yn onest mai cyhoeddiad enwadol yw y Cenhadwr,'¹³⁶ Awgryma hyn fod y *Drych* wedi gwthio'r cyhoeddiadau eraill i ddiffinio pwy oedd eu darllenwyr o'r newydd, a hynny yn gynyddol ar linellau enwadol er mwyn sicrhau eu ffyniant. Gellir casglu felly fod y cyfnodolion crefyddol yn pryderu am eu dyfodol yn sgil dyfodiad y newyddiadur 'annibynol,' ar ôl iddynt geisio bodloni disgwyliadau'r darllenwyr ers dros ddegawd gyda darpariaeth eang. Honna Aled Jones fod y cylchgronau enwadol yn

¹³⁴ *Y Drych*, Ionawr 9 1851.

¹³⁵ *Y Drych*, Ionawr 9 1851.

¹³⁶ *Y Drych*, Rhagfyr 21 1851.

croesawu'r *Drych* fel cyfrwng di-enwad nad oedd yn gwbl seciwlar, ond a roddai noddfa iddynt rhag y cecru mewnol, gan ddarparu adnodd diwylliannol ehangach i'r genedl.¹³⁷ Fodd bynnag, ceir tystiolaeth i'r gwrthwyneb o ddefnyddio'r *Cyfaill* fel ffynhonnell. Awgrymir yno nad noddfa rhag y cecru oedd y *Drych*, ond cyfrwng a oedd yn cyfrannu at y dadlau ym marn y *Cyfaill*.

Cyhuddir y *Drych* fwy nag unwaith drwy gyfrwng y *Cyfaill* o ymosodiadau yn erbyn cyfundeb y Methodistiaid, a rhoddwyd amcanion y ddau gyhoeddiad yn y glorian gan fwy nag un gohebydd. Teimla un cyfrannwr i'r *Cyfaill* yn 1853 fod y *Drych* wedi bwrw sen ar enwad y Methodistiaid Calфинаidd yn fwriadol drwy addasu ysgrif o'i eiddo a'i chyhoeddi 'yn ol archwaeth lygredig ac erlidgar y golygydd.'¹³⁸ Er nad oedd y *Drych* yn gysylltiedig ag unrhyw enwad penodol, honna fod y cyhoeddiad yn eiddigeddus o lwyddiant y Methodistiaid, a theimla reidrwydd i'w hamddiffyn yn yr ysgrif 'Gwir o flaen y byd.' Awgryma mai'r farn gyffredinol ydyw fod y *Cyfaill* a'r *Cenhadwr* yn 'glymedig wrth bleidiau crefyddol,' a'r *Drych* yn 'bloeddio yn nghlustiau'r werin' ei fod yn 'bapyr rhydd.' Mae'r awdur yn anghydweld â'r farn hon oherwydd ymyrraeth golygydd y *Drych* â'i ysgrif, ac yn 'hysbysu i fy nghyd-genedl yn mhob man' y dylid dileu y frawddeg 'yn annibynol a rhydd oddiar wyneb ei Ddrych.'¹³⁹ Yn wir, awgrymir ganddo mai'r *Cyfaill* yw'r unig gyhoeddiad sy'n ateb y diben o gynnig lloches rhag ymosodiadau gelynion, a'r unig gyfrwng niwtral i leisio cwynion mewn awyrgylch deg:

Dymunaf arnoch adael yr hyn a ganlyn i ymddangos yn eich anghydmorol gyhoeddiad, yr hwn sydd wedi bod, bob amser yn dŵr cadarn ac yn amddiffynfa glud i'r gwan a'r digymhorth rhag llid creulawn eu gelynion, ac ymddygiadau anghyfiawn eu gormeswyr. Mewn gobaith mai felly y byddwch i minau yn awr, gan hyny trefnaf fy mater ger eich bron.¹⁴⁰

¹³⁷ Jones, Aled & Jones, Bill (2001) *Welsh Reflections: Y Drych & America, 1851-2001*, Gomer: Llandysul.

¹³⁸ Y Gwir o flaen y byd – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Hydref 1853.

¹³⁹ Ibid.

¹⁴⁰ Ibid.

(x) 'Diffyg boneddigeiddrwydd digonol.'

Yn nechrau 1856, mae William Rowlands yn canmol y *Drych* mewn adolygiad yn y *Cyfaill*, gan ddymuno ei lwyddiant fel 'cyfrwng newyddion derbyniol a buddiol.'¹⁴¹ Atega fod 'ychwanegiad cyfryngau newyddion yn hytrach yn foddhaol na dim arall,' ac yn ei alluogi ef i 'gyfyngu y *Cyfaill* yn fwy at grefydd a'i hamgylchiadau, yn gartrefol a phellennig,' sef un o'i flaenoriaethau ers ei ddechreuad. Mae'n parchu 'archwaeth y genedl yn y wlad' am newyddion gwleidyddol yn amlach nag unwaith y mis, sy'n awgrymu ei fod wedi derbyn swyddogaeth newydd y *Cyfaill* yn ôl diffiniadau golygydd y *Drych*. Mae hefyd yn sicrhau ei ffyddloniaid nad yw 'cyfnewidiadau nac ychwanegiadau cyfryngau gwybodaeth yn effeithio dim ar yr hen *Bioneer*, y mae yn dal ei ffordd ac yn ychwanegu cryfder eleni eto.'¹⁴²

Fodd bynnag, rai misoedd yn ddiweddarach teimla William Rowlands reidrwydd i gamu i faes y frwydr yn sgil sylw anffafriol am bris llyfr emynau'r Methodistiaid Calfinaidd yn y *Drych*, ac mae hyn yn ymestyniad o'r ddadl flaenorol ynghylch ymgyrch honedig y *Drych* i sarhau'r cyfundeb yn ôl gohebwy'r *Cyfaill*:

Am yr ymosodiad hwn ar ein cymeriad a'n hamgylchiadau, yr ydym yn dal perchnogion y 'Drych,' &c., yn gyfrifol, a hwy yn unig...ai teg? Ai gonest? Ai gwneyd i eraill fel y carent i eraill wneuthur iddynt hwy, oedd cyhoeddi y fath enllib? Gwyddent y gallai, er nad oedd un enw wrtho, ein niweidio ni, ac nis gwyddent pa faint.¹⁴³

Beia olygyddion y cyhoeddiad am eu diffyg 'boneddigeiddrwydd digonol' yn caniatáu ysgrifau sy'n diffrō'r Methodistiaid Calfinaidd, ac mae'n eu disgrifio gyda geiriau cryfion fel 'enllibwyr maleisus.'¹⁴⁴ Ond yn y man anfonir llythyr i'r newyddiadur wythnosol gan y sawl a anfonodd y darn am y llyfr emynau,¹⁴⁵ sy'n ei sichrau mai eu 'hegwyddor amhleidiol' a barodd fod y *Drych* yn ei gyhoeddi yn hytrach na drwgdeimlad. Yn fwy na hynny, sbarduna'r

¹⁴¹ *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1856.

¹⁴² *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1856.

¹⁴³ *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1856.

¹⁴⁴ *Ibid.*

¹⁴⁵ At y Pch. William Rowlands, Hyde Park (Hugh.E.Williams, Slatington,) - *Y Drych*, Gorffennaf 12 1856.

cwynion ymchwil i'r mater gan lywydd perchnogion cwmni'r *Drych*, sy'n dod i'r casgliad fod ymddygiad y golygyddion yn 'ddiniwed a theg,' a bod beirniadaeth William Rowlands 'y tu draw i ddirnadaeth rhesymol.'¹⁴⁶ Y maent hwy yn honni fod mwy o ofod wedi ei ddarparu ar gyfer deunydd yn ymwneud ag enwad y Methodistiaid Calфинаidd rhagor nag unrhyw enwad arall, nes eu bod wedi cael eu cyhuddo fwy nag unwaith o 'drin y *Drych* yn newyddiadur y MC.' Nodir bod y golygyddion wedi derbyn cyfarwyddiadau pendant i fod yn amhleidiol. Yn wir, er ei fod yn cynnwys newyddion am enwadau, nid yw'r *Drych* yn 'dewis ymyrraeth dim â chwerylon enwadol o un natur' gan mai'r misolion enwadol yw'r lle priodol ar eu cyfer.¹⁴⁷

Rhan o rwystredigaeth William Rowlands oedd y ffaith fod y *Cyfaill* bellach, o ran ei swyddogaeth, yn syrthio rhwng dwy stol. Ar un wedd, mae'n bosibl ei fod yn chwerw fod y *Drych* yn ailadrodd ei bolisiau golygyddol cychwynol gan ei fod yn parhau i geisio pwysleisio ymrwymiad ei gyhoeddiad i ymdrin â chrefydd yn ddiuedd. I'r gwrthwyneb, os oedd y *Cyfaill* – yn answyddogol o leiaf - yn cael ei gydnabod erbyn hyn fel cyhoeddiad y Methodistiaid Calфинаidd, byddai gweld cyhoeddi newyddion y cyfundeb yn y *Drych* yn arwydd i William Rowlands fod y *Drych* yn bygwth swyddogaeth newydd y *Cyfaill* fel rhan o'r wasg gyfnodol Gymraeg. A bwrw ei fod yn arddel ffiniau newydd y *Cyfaill* fel cyhoeddiad crefyddol, ac enwadol i raddau helaeth, ni chroesewai weld y *Drych* yn cymylu'r ffiniau newydd hynny drwy ymdrin â materion y Methodistiaid Calфинаidd.

Wrth ymateb i helynt y llyfr emynau, ceir y geiriau a ganlyn gan William Rowlands:

¹⁴⁶ Y Pch. William Rowlands a'r llyfr hymnau (W.B.Jones) - *Y Drych*, Gorffennaf 12 1856. Mae'n debyg hefyd fod William Rowlands hefyd wedi eu beirniadu am gyhoeddi ysgrif 'Beread' a gyhuddir o ymosod ar athrawiaeth a gweinidogion y Methodistiaid Calфинаidd, a'i fod wedyn yn 'ceisio sychu ei safn oddiwrth glafoerion y bytheiriadau cableddus uchod.'

¹⁴⁷ *Y Drych*, Ionawr 5 1856.

...am y llyfrau Hymnau, ein heiddo ni ydynt – yr ydym wedi talu am danynt – ni raid i gwmpeini y ‘Drych,’ &c, na’u gohebwyd, eu prynu, os na fyddont yn dewis, na gofidio dim yn eu cylch.¹⁴⁸

Mae ei ofnau y gallai’r *Drych* efelychu swyddogaeth y *Cyfaill* yn peri iddo ddiffinio’r sawl sy’n gysylltiedig â’i gystadleuydd fel uned ar wahân, sy’n cadarnhau fod isgymunedau ymhlith y genedl o ran eu ffyddlondeb i’r wasg Gymraeg gyfnodol. Mae’r defnydd o ragenwau unigol yn y lluosog yn strategaeth effeithiol i gyfleu bod cylchoedd ar wahân ymysg ‘cymunedau dehongliadol’ y wasg brint, ac mae hyn yn wrthgyferbyniad i anerchiadau William Rowlands yn nyddiau cynnar y *Cyfaill*. Yn y dull hwn, mae’n sicrhau teyrngarwch darllenwyr y *Cyfaill*, a oedd, i bob pwrpas, yn Fethodistiaid Calфинаidd erbyn hyn, ac yn cymryd safiad yn erbyn cefnogwyr y *Drych* drwy wahaniaethu rhwng y cymunedau y mae’n eu gwasanaethu, a hynny’n gynyddol ar linellau enwadol. Yn wir, erbyn y pumdegau, teg yw gofyn a oedd y *Cyfaill* yn llais i’r Methodistiaid Calфинаidd mewn ystyr swyddogol?

(xi) ‘Ein gwyfr hysbysydd.’

Er bod gohebydd un o gyfarfodydd y Trefnyddion Calфинаidd, mor hwyr ag 1854, yn canmol y *Cyfaill* fel storfa o ‘draethodau buddiol’ i’r genedl yn gyffredinol,¹⁴⁹ ceid cyfeiriadau cynyddol at wasanaeth penodol y *Cyfaill* i’r cyfundeb ers diwedd yr 1840au mewn cofnodion o’u gweithrediadau:

Gwnawd sylw cymeradwyol o’r *Cyfaill*, yn nghyda’i olygydd, fel un ag sydd wedi bod o wasanaeth mawr i’r Cymry yn y wlad hon, yn neillduol i ni fel enwad; efe yw ein gwyfr hysbysydd o’r naill gwrr i’r llall o’r wlad...¹⁵⁰

¹⁴⁸ *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Gorffennaf 1856. O edrych ar destunau eraill yn y *Drych*, mae’n ymddangos bod y gair ‘cwmpeini’ yn cyfeirio at gwmni o berchnogion a golygyddion y *Drych*, ac fe’i defnyddir mewn cyd-destun economaidd.

¹⁴⁹ Vestry Flynyddol Remsen – *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Ebrill 1854.

¹⁵⁰ Cyfarfod chwemisol y TC ac agoriad addoldy newydd yn Lehigh Gap, Pa – *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Mai 1851.

Erbyn diwedd y degawd, gwelir y manteision o drosglwyddo'r *Cyfaill* i feddiant cyfundeb neilltuol, a thrafodir hyn yn helaeth o fewn cloriau'r cyhoeddiad ac mewn cymanfaoedd.¹⁵¹

Gwneir cynnig gan gymanfa Efrog Newydd yn 1857 i brynu'r *Cyfaill* fel cyhoeddiad swyddogol i enwad y Methodistiaid Calфинаidd, gan dybio y byddai'n denu mwy o gefnogaeth ym meddiant y cyfundeb.

Fodd bynnag, yn ystod yr un flwyddyn, rhoddwyd cymeradwyaeth gan gymanfa Utica i gylchgrawn newydd ymddangos y flwyddyn ganlynol a elwid *Yr Arweinydd*, 'cyhoeddiad *anmhleidiol*' ar gyfer ieuenctid a'r Ysgol Sul. Achosodd dyfodiad y cylchgrawn gryn boendod i ffyddloniaid y *Cyfaill*, ac fe'i cyhuddwyd o geisio ei ddisodli drwy ymdebygu yn ei ddarpariaeth. Mae'r anghydfod hwn yn olrhain y newid ym mhattrwm y wasg Gymraeg Americanaidd yn ystod golygyddiaeth William Rowlands, a swyddogaeth benodol y cyhoeddiadau unigol erbyn trothwy'r chwedegau.

Roedd dyfodiad yr *Arweinydd* a'i gystadleuaeth uniongyrchol â'r *Cyfaill* ar dir enwadol y Methodistiaid Calфинаidd, yn arwydd o newid mawr yn ffocws y cylchgrawn. Erbyn diwedd y pumdegau, roedd yn gwasanaethu anghenion penodol enwad ei sylfaenydd fel un cyhoeddiad ymhlith nifer yn hanes Cymry America, yn wahanol iawn o ran ei nod i'r cylchgrawn arloesol a sefydlwyd yn 1838 at wasanaeth y genedl gyfan. Yn fwy na hynny, byddai apêl yr *Arweinydd* am gefnogaeth y genedl gyfan yn adlais cryf o ymgais wreiddiol William Rowlands i dargedu'r un 'gymuned ddehongliadol,' gan orfodi caredigion y *Cyfaill* i gydnabod eu bod yn awr yn gwasanaethu'r is-gymuned Fethodistaidd yn unig i raddau helaeth.¹⁵² Yn wir, cyfeirir at yr enwad yn gynyddol fel ffynhonnell cefnogaeth i'r

¹⁵¹ Cyfarfod Trimisol y TC yn Carbondale – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1857. "Gwnaed amryw sylwadau ar y *Cyfaill* o ran ei ragoriaethau a'i feiau – ei fod wedi bod o wasanaeth mawr i ni fel enwad trwy y blynyddoedd, ac na allwn ymlwybro ymlaen yn hyderus hebddo, a bod ambell i draethawd neu bregeth ynddo yn werth y *Cyfaill* am flwyddyn, a'i fod bellach yn myned ar ei un ar hugain oed, ac y dylai gael mwy o gefnogaeth. Meddyliai rhai y teimlid mwy o ddyddordeb ynddo, pe byddai yn eiddo yr enwad, ac nid yn eiddo personau. Atebodd y perchenog ag oedd yn bresenol ei fod ef yn hollol foddlon iddo fod felly, ac nad oedd un amehuaeth ganddo nad oedd ei gyd berchenog yr un modd..."

¹⁵² *Yr Arweinydd*, Chwefror 10 1858: 'Yr Arweinydd; sef cylchgrawn crefyddol a moesol: yn cynnwys materion a hanesion buddiol a dyddorol, yn nghyda darnau byrion o farddonaieth.' & *Yr Arweinydd* am 1860 – *Yr*

cyhoeddiad erbyn diwedd y pumdegau, sy'n gwrthgyferbynnu â'r ymfalchïo cynnar yn natur annibynnol a rhydd y *Cyfaill* fel 'anturiaeth bersonol.'¹⁵³

Mae'r ddadl ynghylch y priodoldeb aros o fewn terfynau penodedig cyhoeddiad yn taflu ei chysgod dros sawl rhifyn o'r *Cyfaill* yn ystod 1860 ac ymhell i'r flwyddyn ganlynol, wrth i'r golygydd dros dro Thomas Jenkins feirniadu'r *Arweinydd* am dresmasu dros ffiniau'r *Cyfaill* drwy ailgyhoeddi'r un deunydd.¹⁵⁴ Yn gwbl groes i'r 1840au, pan oedd llawer o orgyffwrdd rhwng y cyhoeddiadau, erbyn yr adeg hon mae gan bob cylchgrawn ei le arbennig sy'n llenwi bwch neilltuol yn y wasg, ac felly ni oddefir amharu ar amcanion neilltuol pob cyhoeddiad. Serch hynny, ceir tystiolaeth fod rhai o hyd yn ymdeimlo â swyddogaeth y *Cyfaill*, fel y dengys llythyr o ganmoliaeth gan ddarllenwydd yn 1860, sy'n darlunio'r *Cyfaill* fel 'cyhoeddiad rhydd' sy'n apelio at amrywiaeth enwadol Cymry America, yn ogystal â'r Trefnyddion Calfinaidd yn benodol:

Dymunaf bob llwyddiant i gyhoeddiadau eraill sy'n dyfod allan yn fisol, bythefnosol, ac yn wythnosol. Dimaheu iddynt wneuthur llawer o leshad i'n cydgenedl, ac yn enwedig dymunaf lwyddiant i'r *Cyfaill* oddiar mai ef yw'r henaf, a pharha i wella rhyw gymaint bob blwyddyn, ac oddiar ei fod yn gyhoeddiad rhydd i bawb, ac hefyd mor wasanaethgar i'r TC, a phe na b'ai was i neb ond hwy eu hunain, nis gwn sut y gall yr un Methodist grefyddda hebdo, ac a fyddo yn caru clywed am lwyddiant ei frodyr ei hun yn nghyd a phob enwad crefyddol arall; oblegid ceir ynddo brif hanes llwyddiant crefyddol pawb. Dymunaf fod mwy o sylw arno yn ein cymanfaoedd a chyfarfodydd eraill, gan ein gweinidogion, pregethwyr, blaenoriaid a holl aelodau ein heglwysi yn gyffredinol, am ei fod yn ein gwasanaethu mor ffyddlon ers ei gychwyniad.¹⁵⁵

Fodd bynnag, oherwydd llesgedd y golygydd, trosglwyddir perchnogaeth y cyfnodolyn i'r cyfundeb Methodistiaidd yn 1861.

Arweinydd, Rhagfyr 25 1859. "...yn gyhoeddiad teilwng o gefnogaeth ein cenedl yn gyffredinol. Mae amryw o ysgrifenywyr galluog wedi ymrwymo i gynnorthwo Mr. Hughes i'w lanw â dysgleidiau o ddanteithion gwir fuddiol...Cofier hefyd nad ydym yn bwriadu cyhoeddi dim a fyddo a thuedd ynddo i iselhau cymeriad unrhyw berson na chymdeithas, ond yn unig yr hyn a fyddo yn debyg o fod yn wir fuddiol ac adeiladol, ac o duedd i ychwanegu gwybodaeth neu feithrin rhinwedd a moesoldeb yn meddyliau ein cydgenedl." Mae'r geiriau hyn yn blasu'n gryf o arddull ddechreuol William Rowlands wrth sefydlu'r *Cyfaill* yn 1838.

¹⁵³ Anerchiad 1858 – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*. Thomas Jenkins fel golygydd.

¹⁵⁴ Gw. rifynnau *Yr Arweinydd* am 1860: Ionawr 10, Ebrill 10, Mehefin 25, Medi 10, Rhagfyr 25, a Mai 1861.

¹⁵⁵ Canmoliaeth i'r *Cyfaill* ynghyd a chefnogaeth iddo (E Jones, Cincinnati) – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1860.

Mae tystiolaeth helaeth o gydweithio ac anghydfod rhwng yr enwadau yn britho'r wasg gyfnodol Gymraeg yn America, felly ni ellir cynnig casgliad cryno am natur y berthynas rhyngddynt. Fodd bynnag, darlunia'r dadleuon hyn effaith ddeublyg crefydd ar hunaniaeth Cymry America yn oes Fictoria. Ar un llaw, bu'n fodd i gryfhau Cymreictod drwy feithrin undod ieithyddol, a'r wasg gyfnodol yn fynegiant o'u genedigaeth-fraint a gludwyd o Gymru. Er hynny, trwy dargedu carfanau penodol ymhlith cynulleidfa brint y genedl, câi rhai aelodau o'r 'gymuned ddehongliadol' genedlaethol eu heithrio ar sail enwadol, yr hyn a âi'n groes i holl ethos sylfaenol y *Cyfaill*. Yn ogystal, golygai dyfodiad cyhoeddiadau enwadol eraill fod yn rhaid i'r *Cyfaill* dargedu cynulleidfa yn gynyddol mewn cyd-destun enwadol.

Mae'r amrywiol ddisgyrsiau hefyd yn amlinellu tuedd y golygydd i hybu agenda ei enwad ei hun fel Methodist pybyr. Er nad oes rheswm i amau diffuantrwydd ei gymhellion dros gydweithio enwadol, ni lwyddodd i gadw at ei addewid yn ei anerchiadau i weithredu consensws amhleidiol gan fod ei amddiffyniad i'w enwad yn helaeth ac yn amlwg. Roedd hyd yn oed ei egwyddorion golygyddol o ganiatáu rhyddid barn yn deillio o athrawiaeth ei enwad, a oedd yn ddylanwad anochel ar ethos y cylchgrawn.

Er i'r cylchgrawn ddod i feddiant y Trefnyddion Calфинаidd yn 1861, parha i ddatgan ei ymlyniad at gyfiawnder drwy gyflwyno gwahanol ochrau unrhyw ddadl, hyd yn oed pe bai hynny'n niweidio'r cylchgrawn:

....y moddion goreu i gael allan y gwirionedd, sef gweled y ddau du. *Y gwir yn erbyn y byd* fydd ein harwyddair; a 'phe'n lleddir am y gwir, pa waeth?¹⁵⁶ Cyfeiria William Rowlands at y 'gwirionedd' yn gyson wrth iddo ddefnyddio'r gair i bwysleisio ei ymrwymiad at degwch cyffredinol yng nghyd-destun y cylchgrawn, ond defnyddir y gair ganddo hefyd wrth sôn am athrawiaeth crefyddol y Methodistiaid Calфинаidd. Amwys, felly, yw'r defnydd o'r gair, ac er ei fod yn daer dros heddwch, yn y

¹⁵⁶ *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Rhagfyr 1860.

wasg fel yn ei grefydd, ni wna ar unrhyw gyfrif aberthu'r 'gwirionedd' ar allor y polisi niwtral. Er mwyn amddiffyn y 'gwirionedd' yn gyffredinol ac yn athrawiaethol, roedd yn barod i gamu i faes y frwydr yn groes i'w egwyddorion golygyddol. A fyddai mor barod i gamu i'r ymladdfa ym maes gwleidyddiaeth, a pha mor amlwg yw ei ddaliadau gwleidyddol o'u cymharu â'i argyhoeddiad enwadol agored? I ba raddau y mae'r naratifau gwleidyddol yn crisialu islais athrawiaeth ei enwad? Cawn weld yn y bennod nesaf.

Pennod 4: ‘Cyhoeddiad rhydd ac anhleidgar’? GWLEIDYDDIAETH AC**ETHOLIADAU.**

Tra haul, tra lloer, tra Chymro hawddgar,
Byw fo’r Cyfaill cu, anhleidgar,
A’i Olygydd, Rowlands enwog,
Boed, er pob rhwystrau, yn galonog.¹

Mae rhychwant eang o ddisgyrsiau yn y *Cyfaill* yn adlewyrchu parodrwydd William Rowlands i fod yn lladmerydd agored dros ei enwad ei hun fel Methodist brwd, sy’n gwrthgyferbynnu’n llwyr â’i ymhel ym myd gwleidyddiaeth fel golygydd un o gyhoeddiadau’r wasg gyfnodol. Yn wahanol i’r modd yr oedd yn ildio ei gonsensws golygyddol ‘anhleidiol’ pan oedd bygythiad i enw da ei enwad, roedd yn hynod o amharod i ddangos ffafriaeth amlwg tuag at unrhyw blaid wleidyddol drwy gydol rhan helaeth o’i olygyddiaeth, fel yr awgryma’r gerdd uchod gan un o gefnogwyr y *Cyfaill*. Yn wir, ychydig a wyddom am ei deyrngarwch pleidiol o astudio’r *Cyfaill* fel ffynhonnell, ac ar wahân i’r dystiolaeth yn ei gofiant sy’n nodi ei fod yn Ddemocrat ar un adeg, tasg anodd yw dyfalu natur ei deyrngarwch gwleidyddol, yn enwedig yng nghyfnod cynnar y cyhoeddiad. Er mwyn canfod ei dueddiadau gwleidyddol, rhaid darllen rhwng y llinellau’n helaeth, yn ogystal â sylwi ar y modd y mae’n pennu agenda’r wasg drwy hepgor a chynnwys ysgrifau.

Serch hynny, ymddiddorai’n helaeth mewn gwleidyddiaeth, a rhoddai bwys mawr ar addysgu Cymry America am hinsawdd gwleidyddol eu gwlad fabwysiedig drwy gyfrwng y *Cyfaill*. Roedd yn gymwys i ymgymryd â’r orchwyl hon oherwydd haerir ei fod yn hyddysg yng nghyfansoddiad a deddfau America cystal â chyfreithwyr cyffredin, ac y byddai sawl Cymro yn dod ar ei ofyn am gyfarwyddyd cyfreithiol, er na ddaeth yn ddinasydd cyflawn tan

¹ Cefnogaeth eto i’r *Cyfaill* (Wm.H.Thomas) - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Ionawr 1840.

1851.² Nodir yn ei gofiant ei fod yn ‘sylwedydd manylgraff ar arwyddion yr amserau;’ ei fod yn darllen pob ‘newyddlen’ o fewn ei gyrraedd, ac y byddai’n hoff o drafod materion gwleidyddol a digwyddiadau a effeithiai ar y gymdeithas.³

Gan nad oedd cyfran o’r ymfudwyr Cymraeg i America yn deall Saesneg, gweithredai’r *Cyfaill* fel cyfrwng allweddol i borthi’r newyn am wybodaeth am gyfundrefn wleidyddol y wlad yn eu mamiaith, a’u cynorthwyo i ddod yn ddinasyddion Americanaidd. Yn wir, cymaint oedd yr angen am eglurhad o’r tirwedd gwleidyddol newydd, fel y penderfynodd William Rowlands gynnwys gwersi ar ffurf gofyniadau ac atebion am amrywiaeth o faterion yn ymwneud â gwleidyddiaeth yn ystod 1839, flwyddyn yn unig ar ôl sefydlu’r cylchgrawn.⁴ Adlewyrchir hyn ymhellach gan y toreth o newyddion gwleidyddol Americanaidd a gynhwysid yn y *Cyfaill*, ynghyd â braslun o weithrediadau’r Senedd Brydeinig a oedd yn cysylltu’r ymfudwyr â Chymru. Roedd cyhoeddi deunydd am y Cymry hynny oedd eisoes wedi gwasanaethu eu gwlad mabwysiedig a darlunio eu ‘breintiau a’u dyledswyddau fel dinaswyr’ yn awgrymu fod William Rowlands yn ymfalchïo yng nghyfraniad ei gyndadau i batrwm gwleidyddol y wlad, ac yn ceisio meithrin gwladgarwch deuol.⁵

Roedd diddordeb eang y golygydd yn y byd gwleidyddol felly’n hydreiddio tudalennau’r cyhoeddiad o’r dechrau. Mae’n amlwg ei fod yn gwbl ymwybodol o’i gyfrifoldeb i ddatblygu dealltwriaeth gwleidyddol cymdeithas Gymraeg America, yn enwedig o gofio nad oedd cyfrwng arall i ddiwallu’r angen hwn pan sefydlwyd y *Cyfaill*.

² Powell, Parchedig Howell (1873) *Cofiant y diweddar Barchedig William Rowlands, D.D., Utica Efrog Newydd*, Mrs Catherine Rowlands: Utica, NY, t.320.

³ *Ibid* - Atgofion y Pch. Morgan Howells, t.463.

⁴ Rhagarweiniad y Golygydd i’r gyfres o ofyniadau ac atebion am gyfansoddiad gwleidyddol yr Unol Daleithiau – *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Ebrill 1839.

⁵ Yn ogystal, rhoddwyd lle amlwg i fywgraffiadau gwahanol wleidyddion ar ddechrau’r cylchgrawn, fel ag y gwneid gyda gweinidogion crefyddol blaenllaw, a ddengys bwyslais y golygydd ar feithrin ymwybyddiaeth Cymry America o’u harweinwyr yn y wlad estron.

Eto i gyd, yr hyn sy'n peri penbleth yw iddo ddewis cyhoeddi ysgrifau o natur wleidyddol bron yn ddieithriad o dan ffugenwau tan ddiwedd yr 1840au. Pam felly na welir mwy o'i stamp personol ar ddeunydd gwleidyddol y cyhoeddiad, o'i gymharu â'r toreth o erthyglau a gyfrannodd ym maes crefydd? Yn rhinwedd ei swydd fel golygydd cyfnodolyn arloesol gwasg Gymraeg America a oedd yn arwain y ffordd mewn cymaint o bynciau, yn ogystal â'i ddylanwad amlwg fel un o arweinwyr ysbrydol y gymdeithas, pam na fyddai'n cofleidio grym ei safle o fewn y cyfrwng print i siapio'r farn gyhoeddus?

(i) Y Cymry a'u gwleidyddiaeth, 1838-1840.

Ceir sawl honiad nad oedd y Cymry mor flaenllaw â nifer o genhedloedd ymfudedig eraill ym myd gwleidyddol America, yn bennaf yn sgil y rhwystr ieithyddol a phrinder addysg.⁶ Cofnododd sawl hanesydd ddifaterwch honedig trigolion Cymru yn y maes gan nodi bod crefydd a diwylliant yn bileri amlycach ym mywydau'r cylchoedd Anghydfurfiol Cymreig ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.⁷ Serch hynny, erbyn 1841 roedd mwy o'r Cymry'n croesawu'r cyfle i ddod yn ddinasyddion Americanaidd yn sgil areithiau cymdeithasau Cymreig yn pwysleisio eu dyletswydd.⁸ Atega Williams fod y Cymry'n fwy

⁶ Evans, Paul De Mund (1914) *The Welsh in Oneida County, New York*, Thesis MA heb ei gyhoeddi: Prifysgol Cornell. Nid anfonid yr un cynrychiolydd o dras Cymreig i Gynulliad Taleithiol Efrog Newydd er gwaetha'r don ymfudol anferth o Gymry a groesai'r Iwerydd. Er bod y Cymry mewn rhai taleithiau eraill megis Ohio wedi cyfrannu'n helaeth i'r byd gwleidyddol, tueddu i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth ar lefel leol yn unig a wnai'r lliaws. Hefyd gw. Hughes, Pch. Thomas E et al (gol) (1895) *Hanes Cymry Minnesota, Foreston a Lime Springs, Iowa; wedi ei gasglu gan amryw o'r hen sefydlwyr*, The Free Press: Mankato, Minnesota, t.114; Ellis, David Maldwyn (1973) 'The Assimilation of the Welsh in Central New York', *Welsh History Review*, cyfrol 6, rhif 4, t.424-47. Maent yn honni nad oedd gan yr ymfudwyr cynharaf ran weithredol amlwg yn y byd gwleidyddol.

⁷ Roderick, A.J. (1982) *Golwg ar hanes Cymru o gyfnod y Tuduriaid hyd heddiw*, Ivan Corbett: Truro.

⁸ Cyfarfod y Cymry yn Mhottsville - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1841. "At ddyledswydd yr oll o honom fel cenedl i dyngu Llw o Ffyddlondeb, yn nghyda gwneyd ein hun yn ddinasyddion o'r wlad hon."

eiddgar nag unrhyw genedl arall i ddod yn ddinasyddion Americanaidd, gan eu bod yn ‘ddigon balch o’u tarddiad cyndadol ond o ran teyrngarwch yn Americanaid i’r carn.’⁹

Er i Maldwyn Jones ddadlau fod trigolion o Brydain yn gyffredinol yn fwy ymarhous nag eraill i wneud cais am ddinasyddiaeth, honnai Bob Owen mai canlyniad naturiol sêl y Cymry dros yr Ysgol Sul oedd dod yn ‘bleidiol i ryddid ac addysg,’ cyn arwain at y dyhead i ddod yn Americanaid swyddogol.¹⁰ Roedd crefydd y Cymry felly - un o brif nodweddion eu hunaniaeth - yn pennu eu trywydd gwleidyddol yn eu gwlad fabwysiedig.

Golygai eu hargyhoeddiad crefyddol dwfn eu bod yn awyddus i leisio barn ar faterion gwleidyddol a oedd o’r cychwyn yn wrthun i’w gwerthoedd moesol, materion megis caethwasanaeth yn bennaf.¹¹ Er bod William Rowlands yn maentumio ei fod yn coleddu safiad niwtral yn ei olygyddiaeth, golygai ei ymrwymiad i sicrhau cyfiawnder fod rheidrwydd arno i gyhoeddi dadleuon am faterion o bwys i ddyfodol y Cymry yn America, yn enwedig y cwestiwn moesol ynghylch caethwasanaeth. Yn union fel ag yn yr hen wlad, er mai erthyglau diwinyddol a llenyddol oedd swm a sylwedd y cyfnodolion, cawsant hefyd gyfle i drafod ‘pynciau’r dydd.’¹² Mae tomen o ysgrifau yn y wasg yn dangos na ddylid tanbriso ymwybyddiaeth y Cymry o’u tirwedd cyfansoddiadol newydd a’u syched am drafodaeth wleidyddol, ac o’r cychwyn cyntaf roedd nifer yn ymwybodol o rym ysol y cyfrwng print fel offeryn yn yr ymgyrch yn erbyn caethwasanaeth.¹³

⁹ Williams, Gwyn A (1976) *Y Baradwys Bell: Cymru a’r Unol Daleithiau 1776-1914*, Darlith Radio Flynyddol BBC Cymru. Qualitex: Caerdydd, t.21-22.

¹⁰ Jones, Maldwyn.A. (1976) *Destination America*, Weidenfeld & Nicolson: London, t.114. Yn wahanol i genhedloedd eraill Ewrop, roedd eu ffyddlondeb i’r goron a’r amharodrwydd i dyngu llw i ymladd yn erbyn unrhyw wlad yn atal Prydeinwyr rhag dod yn ddinasyddion yn syth. Hefyd gw. Owen, Bob (1958) ‘Cymry ac Addysg America’, *Lleufer*, 14, t.30. Roedd yr Ysgol Sul nid yn unig yn fodd i warchod Cymreictod ‘ar iaith Gymraeg, ond yn gyfrwng i achub eneidiau’n gyffredinol, ac roedd nifer yn eiddgar dros sefydlu Ysgol Sul ymhlith yr Americanaid, a olygai fod y Cymry’n fwy awyddus i ddod yn ddinasyddion Americanaidd a a chymysgu â thrigolion y wlad newydd. Un o’r hyrwyddwyr pennaf i’r ymgyrch hon oedd Chidlaw, pregethwr blaenllaw gyda’r Annibynwyr, a galwyd ef gan y Cymry’n ‘Thomas Charles yr UDA.’

¹¹ Davies, Pch David (1947) *Oshkosh, Wisconsin, Welsh settlement Centennial: Translation of ‘Hanes y Cymry’*, Russell Stationery Co: Amarillo, t.73.

¹² Davies, John (2007) *Hanes Cymru*, Penguin Books: London, t.327.

¹³ Rees, Henry & Parry, Moses (1841) *Y Genadaeth i’r America: Golygiad byr ar agwedd crefydd y ‘mhlith y Methodistiaid Calfinaidd yn Unol Daleithiau America, y nghyd â hanes taith Henry Rees a Moses Parry i ymweled â’r eglwysi yno*, T.Thomas: Caerlleon, t.42. Sylwodd dau ymwelydd o Gymru yn 1839 fod yr

(ii) Dulliau Diddymiaeth.

Aeth arloeswr gwasg gyfnodol Gymraeg America ati'n ddisymwth i wyntyllu dadleuon yn erbyn caethwasanaeth, gan fod y mater yn cynyddol ddod yn rhan o blethwaith ideolegol cymdeithas y cyfnod.¹⁴ Gwelai llawer o Gymry America ymroddiad i fudiadau diwygiadol fel dyletswydd i'w gwlad fabwysiedig, ac yn erbyn yr un math o anghyfiawnder llywodraethol yr oeddent wedi ffoi rhagddo yn yr hen wlad.¹⁵ Yno, roedd grym y grefydd Anghydfurfiol wedi cyfrannu at greu rhyw fath o gydwybod cymdeithasol a wrthwynebai ffaelecteddau moesol yr oes, a chawsai'r delfrydau hyn, yn ddeallusol a chrefyddol, eu ffrwythloni yn America yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.¹⁶

Braenarwyd y tir ar gyfer yr ymgyrch wrthgaethiwol yn ystod y ddeunawfed ganrif,¹⁷ ac erbyn y ganrif ganlynol, roedd ffrwd ymfudol newydd o Gymry'n rhan o glytwaith cymdeithasol y wlad. Roedd gwasg brint Cymry America yn cofleidio'r safiad yn erbyn caethwasanaeth yn unfrydol, drwy resymegu moesol yn bennaf, ac yn wahanol i rai o'r papurau Saesneg a gynrychiolai'r ddwy ochr i'r ddadl, ni welir yr un ysgrif o blaid y fasnach ar ei thudalennau.¹⁸ Fodd bynnag, fel yr unig gyfnodolyn Cymraeg yn America rhwng 1838 a 1840, roedd gan y *Cyfaill* swyddogaeth bwysig yn siapio eu barn ar bwnc llosg mwyaf dyrys y cyfnod.

Americaniaid yn 'llawn o ysbryd pethau gwladol' ac mai 'un brif destynau'r ymddiddan yn mhob man, y pryd hyny oedd yr etholiad nesaf.

¹⁴ Kolchin, Peter (1993) *American Slavery, 1619-1877*, Penguin: London, t.186-7; Franklin, John Hope & Moss, Alfred.A Jr (1994) *From Slavery to Freedom: A History of African Americans, 7th edition*, Alfred A.Knopf: New York, t.173. Roedd y grwsâd foesol a gydiodd o ddifrif yn nechrau'r 1830au yn rhan o feddylfryd ddyngarol ehangach a dreiddiai drwy Ewrop a thaleithiau gogleddol America, ac yn rhan o blethwaith ideolegol y cyfnod a gynhwysai fudiadau diwygiadol eraill megis heddychiaeth, dirwest a hawliau merched. Am gefndir caethwasanaeth fel rhan o strwythur cymdeithasol y wlad gw. Kelly, Alfred & Harbison, Winfred (1948) *The American Constitution: Its Origins and Development*, WW Norton and Company: New York.

¹⁵ Williams, Glanmor, *Y Baradwys Bell*, t.25.

¹⁶ Hunter, Jerry (2007) *Sons of Arthur, Children of Lincoln: Welsh Writing from the American Civil War*, University of Wales Press: Cardiff, t.51.

¹⁷ *Ibid*, t.50. Er bod ymfudwyr cynnar o Gymru megis Goronwy Owen yn gaethfeistri, roedd y tir eisoes wedi ei fraenaru ar gyfer yr ymgyrch wrthgaethiwol, wrth i ddyinion blaenllaw fel Morgan John Rhys yn America a Iolo Morgannwg neu Williams Pantycelyn yng Nghymru gyfnewid syniadau radicalaidd am ddileu caethwasanaeth yn ystod y ddeunawfed ganrif.

¹⁸ Hunter, Jerry (2007) *I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn erbyn Caethwasanaeth Americanaidd*, Gwasg Carreg Gwalch: Llanrwst.

Yr hyn a rwystrai unoliaeth ymhlith Cymry America wrth wrthwynebu'r drefn oedd gwahaniaeth barn ynghylch diddymiaeth. Taflwyd y cylchgrawn i gyfnod cythryblus o ddadlau yn 1839, o ganlyniad i ymholiad gan awdur y geilw ei hun yn 'Hebog Du' ynghylch y dull mwyaf addas o sicrhau diddymiaeth.¹⁹ Dywed yr awdur ei fod wedi ei ysgogi i roi inc ar bapur yn sgil 'ysgrifau tra rhagorol yn gosod allan erchylldra y Gaethwasanaeth,' a oedd eisoes wedi ymddangos yn y *Cyfaill*. Mae'r ysgrifau 'eglwyr a chadarn' wedi'i ddefro i'r alwad am ryddid yn ddisymwth, ond mynegai benbleth o ran pa un y dylai ei chefnogi, y Gymdeithas Wrthgaethiwol neu Drefedigaethol. Ymgyrchai'r Gymdeithas Drefedigaethol Americanaidd dros anfon yr Affricaniaid-Americanaid i Liberia yng Ngorllewin Affrica,²⁰ tra credai'r Gymdeithas Wrthgaethiwol mewn '*immediate, uncompensated, unconditional emancipation*.'²¹ Esgorodd y pwnc llosg ar ddadlau penboeth rhwng y ddwy garfan yn gyhoeddus ac mewn print ledled y wlad, ac mae'n amlwg fod y *Cyfaill* yn gyfrwng a alluogai Gymry America i drafod yr ymrafael cenedlaethol cyfoes hwn yn eu mamiaith:

It was a topic that people of all social ranks and conditions turned to during informal conversation and during organized rhetorical sparring matches. At public forums in churches and schoolhouses, citizens debated with one another.²²

Atebwyd yr 'Hebog Du' gan awdur a ddefnyddiai'r enw 'Chwarae Teg i Bob Ochr,' a oedd yn cefnogi'r Gymdeithas Drefedigaethol yn agored. Roedd am bwysleisio fod y ddwy Gymdeithas yn gwrthwynebu'r drefn, ond ffafriai ef y Gymdeithas Drefedigaethol:

Ar y pen hyn yr wyf yn mawrygu fy mraint o ryddid i farnu drosyf fy hun, a rhyddid i ysgrifenu fy marn yn fy iaith fy hun, ar faes anmhleidgar y *Cyfaill*, sef yw hyny, mae y Gymdeithas Drefedigaethawl ydyw y fwyaf priodol mewn amgylchiadau presennol, ac efelly dylai gael cefnogaeth pawb.²³

¹⁹ Gofyniad am y Gaethwasanaeth (Hebog Du) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1839.

²⁰ Sernett, Milton.C (2002) *North Star Country: Upstate New York and the crusade for African American Freedom*, Syracuse University Press, t.25.

²¹ Franklin, John Hope & Moss, Alfred.A Jr, *From Slavery to Freedom*, t.173. Mynegwyd y geiriau hyn gan un o'i harweinwyr mwyaf blaenllaw, William Lloyd Garrison yng nghylchgrawn y *Liberator* yn 1831. Hefyd gw. Boorstin, Daniel.J. (1965) *The Americans: The National Experience*, Random House: New York.

²² Sernett, Milton.C, *North Star Country*, t.35.

²³ Ateb i ofyniad yr Hebog Du, 'Y Gaethwasanaeth' (Chwarae Teg i Bob Ochr) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1839.

Fel y nodwyd eisoes, ac fel y dengys ei gofiant, roedd y ffugenwau ‘Chwarae Teg i Bob Ochr’ a’r ‘Hebog Du’ ymhlith y rhai a ddefnyddid gan William Rowlands, a chwyd hyn nifer o gwestiynau ynghylch ei gymhelliad yma a’i ddaliadau personol.²⁴ Ai ei fwriad o’r dechrau oedd lleisio ei gefnogaeth i’r Gymdeithas Drefedigaethol, gan ddefnyddio’r ymholiad i godi’r mater? A oedd yn rhoi ‘chwarae teg’ felly i’r ddadl o ‘bob ochr’?

O ystyried pendantrwydd ei argyhoeddiad yn ochri â’r Gymdeithas Drefedigaethol yn ei ysgrif, mae’n debyg ei fod eisoes wedi dewis ei drywydd ei hun, a’i fod yn ceisio troi’r rhod o blaid y gymdeithas yn hytrach na phrocio’r Cymry i ystyried eu dewisiadau wrth i’r Gymdeithas Wrthgaethiwol ddenu mwy a mwy o Gymry America i’w rhengoedd. Yn wir, fe’i siomir nad oes ‘rhyw Wrthgaethiwedydd gwyllt’ wedi ateb ‘cais pryderus’ yr Hebog Du, sy’n awgrymu ei fod wedi ei orfodi i leisio ei gefnogaeth i’r Trefedigaethwyr gan nad oedd neb wedi cymryd yr abwyd i drafod daliadau’r ddau fudiad:

Mae llu o honynt yn fy ardal Gymry a Saeson, yn ddigon parod i areithio ar y pwngc, oblegid na oddefir i neb eu hateb rhag aflonyddu yr addoliad; ond paham na ddygant eu rhesymau allan mewn ysgrifen, fel y gellid eu chwilio gan y Cymro uniaith ‘yn ngwydd haul a llygad goleuni,’ a’u profi.²⁵

Mae’r dyfyniad hwn yn crisialu themâu a fyddai’n ganolog i’w safbwynt gwleidyddol a’i olygyddiaeth tan y diwedd. Nid yw adeg addoliad yn cynnig cyfle i gynnal fforwm drafod gan mai proses unffordd yw trosglwyddo’r genadwri rhwng y gweinidog a’i gynulleidfa, tra mae dadleuon mewn ysgrifen yn y wasg yn hybu cyfathrach gyfoethocach rhwng cyfranwyr a darllenwyr. O’r herwydd, mae’n cystwyo’r Cymry hynny yn y rhengoedd gwrthgaethiwol, sydd mor ‘hoff o bethau newydd, ac yn barod iawn i gymeryd gair eu blaenoriaid am bob peth heb eu chwilio.’ Yn unol â’i bwyslais golygyddol o gyflwyno rhesymau a phrofi

²⁴Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.394. Er na ellir bod yn gwbl sicr o’r ffeithiau hyn, gan mai’r cofiant yw’r unig ffynhonnell y gwyddys amdano sy’n rhestru’r ffugenwau, mae’n rhaid dibynnu arno fel tystiolaeth gredadwy. Mae adnabyddiaeth bersonol y Pch. Howell Powell o William Rowlands, ynghyd â chofnodion o wybodaeth gan rychwant eang o unigolion yn rhoi lle i ni gredu fod awdur ei gofiant yn cyflwyno ymchwil o ddyfnder, ac felly’n bur gadarn. Mae natur yr ysgrifau o dan y ffugenwau hyn hefyd yn nodweddiadol o arddull William Rowlands, sy’n arwyddo’n gryf fod tystiolaeth y cofiant yn ddibynadwy.

²⁵Ateb i ofyniad yr Hebog Du, ‘Y Gaethwasanaeth’ (Chwarae Teg i Bob Ochr) - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Tachwedd 1839.

haeriadau, mae'n amlwg ei fod yn ymddiried yn y wasg argraffu fel cyfrwng mwy addas i archwilio'r dadleuon hyn, yn hytrach na 'nerth ysgyfeinniawl' nad yw'n paratoi'r gynulleidfa yn ddigonol i ddewis yn ddoeth mewn etholiad gwladol.

Ymglywir yn gryf â llais William Rowlands yn yr ysgrifau hyn wrth iddo nodi nad oes gan nifer resymau digonol dros eu daliadau. Byddai ganddo awdurdod dros farn y Cymry mewn amrediad eang o feysydd yn sgil ei fynediad i rwydwaith o gymunedau fel gweinidog a golygydd. Mae'n amlwg felly ei fod yn ceisio arwain y gynulleidfa darged i gyd-fynd â'i ideoleg bersonol, ac yn creu ystyron ar eu rhan yn unol â'i ddaliadau, tuedd gref yng ngwasg gyfnodol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.²⁶

Rhynodd y drafodaeth yn ei blaen, fel y dengys ysgrif William H. Thomas yn rhifyn Ionawr 1840. Noda'r gŵr hwn nad oedd 'Chwarae Teg' yn anrhydeddu ei enw ei hun gan ei bod yn ymddangos ei fod eisoes wedi tyngu llw o ffyddlondeb i'r Gymdeithas Drefedigaethol.²⁷ Eto i gyd, mae Thomas hefyd yn canmol y cyhoeddiad am adael i 'farn lluosog y darllenwyr benderfynu pa gymdeithas sydd fwyaf teilwng o gefnogaeth,' heb wybod mewn gwirionedd mai yr un oedd y y golygydd a'r gohebydd o dan ffugenw. Awgryma'r ysgrif hon, a chyfraniadau eraill, mai methiant fu ymdrech William Rowlands i ddenu cefnogaeth i'r Trefedigaethwyr o dan gochl rhesymeg gytbwys.²⁸ Mae'n deg cofio hefyd am ei ymrwymiad i gyflwyno newyddion o sawl ochr. Fe'i gwelir yn cyhoeddi manylion amryfal gylchwyliau cymdeithasau - a'r Gymdeithas Wrthgaethiwol yn eu plith - ynghyd â newyddion o'r *Emancipator*, cylchgrawn y Gymdeithas Drefedigaethol. Fodd bynnag, er ei fod yn cyhoeddi gweithrediadau seneddol am gaethwasanaeth yn gwbl

²⁶ Brake, Laurel et al (2000) Introduction, yn (gol) Brake, Laurel et al, *Nineteenth Century Media and the Construction of Identities*, Palgrave: New York, t.4.

²⁷ Sylw ar ysgrif 'Chwareu Teg i Bob Ochr' - y Gaethwasanaeth (William H Thomas, Utica) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1840. "Pwy bynag ydyw Mr Chwareu Teg, &c., nid wyf eto wedi dysgu; ond bernais fod ei ysgrif yn galw am adolygiad gan rywun a wnelai *chwareu teg* â'r ddwy Gymdeithas, yn lle cymeryd yr enw, a dim ond hynny."

²⁸ Sylw ar y ddadl o barthed y Gaethwasanaeth. (Idloes, alias John M Jones, ieuaf, CN) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1840.

wrthrychol gan adael i'r darllenwyr 'i wneuthur sylwadau eu hunain' ar eu penderfyniadau,²⁹ ni allai ochel rhag ychwanegu gair o ganmoliaeth i'r Trefedigaethwyr yn y pytau newyddion.

(iii) Y Gymdeithas Drefedigaethol.

O gofio mai prin oedd yr awduron Cymraeg a leisiai eu cefnogaeth iddi, mae ei sêl dros y Gymdeithas Drefedigaethol yn codi'r cwestiwn pam ei fod yn dilyn trywydd gwahanol i fwyafrif ei gyd-genedl. Er bod ei gofiant yn nodi fod modd ei oleuo gan reswm, ychwanega ei fod o gymeriad mor 'ystyfnig' a 'phenderfynol' nes bod ei olygon yn 'ddidroi yn ol,' sy'n mynd â ni gam yn nes o bosibl at egluro ei gyndynrwydd i newid ei farn er gwaethaf gwrthwynebiad.³⁰

Roedd caethwasanaeth hefyd yn cael ei ystyried fel problem ehangach ynghylch hil a chydaddoldeb yn yr Unol Daleithiau. Mae un o wŷr amlwg y Gymdeithas Wrthgaethiwol yn swydd Oneida, y Parchedig Thomas H. Williams, yn cyhuddo 'Chwarae Teg' o atal dynion duon a gwynion rhag cyd-fyw, y math o farn a fyddai'n gyfystyr â hiliaeth heddiw, a mater y condemnir y Trefedigaethwyr droeon yn ei gylch ar dudalennau'r *Cenhadwr* yn y cyfnod hwn.³¹ Fodd bynnag, mae'n ymddangos mai cymhellion dyngarol i atal mwy o ddiodef oedd gan William Rowlands dros gefnogi'r safiad, gan y credai nad mater cyfreithiol syml oedd eu rhyddhau, ond, yn hytrach, mater dyrys o newid agweddau'r cyhoedd gwyn cyn y gellid eu derbyn i'w plith. Honna Maldwyn Jones fod nifer o'i gyfoedion yn y cyfnod - gan gynnwys Abraham Lincoln - yn credu na allai'r bobl dduon ffynnu yn yr Unol Daleithiau, ac mai

²⁹ *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1840. Dywed fod angen 'cyfnewidiad' yn nhrefn y Senedd o wrthod deisebau yn erbyn caethwasanaeth, gan ddatgan ei fod 'o'r pwys mwyaf.'

³⁰ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.302-3.

³¹ *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1840. Roedd ef yn weinidog gyda'r Bedyddwyr yn Utica, sy'n dangos nad yr Annibynwyr yn unig oedd yn cefnogi Everett. Mae ysgrif gan Cadwalader Jones yn y *Cenhadwr Americanaidd*, Ionawr 1840, yn beirniadu'r Gymdeithas Drefedigaethol 'gan nad ydynt yn rhoddi un cynorthwy i'r caethion, ond yn unig y rhai a anfonant i Affrica, gallwn benderfynu na ddeuant byth a chaethiwed i ben.' Mae hyd yn oed yn eu cyhuddo o gydweithio â'r caethfeistri i 'anfon ymaith y Negroaid rhyddion.'

trefedigaeth yn Affrica oedd fwyaf buddiol iddynt. Yn wir, ychwanega fod Chidlaw yn cefnogi'r mesur hwn yn ogystal,³² ac o ystyried ei fod yn gyfrannwr cyson i'r *Cyfaill* ac yn ffigwr blaenllaw yn y cylchoedd Cymreig Americanaidd – nid yw'n gwbl amhosibl ei fod wedi dylanwadu ar William Rowlands. A theg cofio, fel y nodwyd gan Henry Louis Gates Jr, fod ymgodymu â rhyddid (proses a elwir yn 'reconstruction') wedi bod yn un araf a olygai fod y cyn-gaethweision yn dioddef yn fwy na chynt hyd yn oed, gan fod ceisio ymdoddi i'r gymdeithas ar ôl dymchwel y gyfundrefn yn fwy o her.³³ Pe bai'r Gwrthgaethiwedyddion yn llwyddo i ddiddymu'r fasnach yn ddisymwth, byddai 'teimpladau a thybiau' trigolion y cyfandir yn parhau i'w caethiwo, gan mai'r 'farn gyffredin yw y gadwyn anhawsaf ei thori ar y dynion.'³⁴ Caiff 'Chwareu Teg' ei gystwyo gan William H. Thomas am wadu crefydd, ond ar yr un gwynt mae'n gofyn i'r golygydd 'anfon gwybodaeth iachusol ar bob rhan o ddyledswyddau Cristnogol,' sy'n dangos fod William H. Thomas yn credu eu bod yn rhannu'r un safbwynt.³⁵ Mae hefyd yn datgan cefnogaeth i'r cyhoeddiad am ei ran yn 'bloeddio i'r gad gan waeddi Rhyddid i'r Caethion' yn dilyn llofruddiaeth y Gwrthgaethiwedydd Lovejoy.³⁶

³² Jones, Maldwyn A. (1985) Welsh Americans and the anti-slavery movement in the United States, *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, t.118-9. Ysgrifennodd i'r *Dysgedydd*, cylchgrawn yr Annibynwyr yng Nghymru yn 1837 yn cefnogi'r dull Drefedigaethol o ddiddymu, cylchgrawn yr oedd William Rowlands hefyd yn ei ddarllen yn ôl tystiolaeth yn y *Cyfaill* sy'n dangos ei fod yn defnyddio detholion ohono. Hommir hefyd ei fod yn frwd dros arwain y bobl dduon at dröedigaeth yn hytrach na'u rhyddhau, a fyddai'n gydnaws ag amcanion efengylu William Rowlands, er bod Chidlaw wedi peidio â chefnogi'r Trefedigaethwyr erbyn yr 1850au – yn wahanol i olygydd y *Cyfaill*.

³³ Rydw i'n ddiolchgar am drafodaeth am y cyfnod ar ôl diddymu'r gaethwasanaeth yn narlithoedd yr Athro Henry Louis Gates Jr ym mhrifysgol Harvard ar lenyddiaeth Affro-Americanaidd.

³⁴ Y Gaethwasanaeth – ateb i sylwadau y Pch Wm H Thomas (Chwareu Teg i Bob Ochr) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1840.

³⁵ Y Gaethwasanaeth – atebiad i sylwadau 'Chwareu Teg i Bob Ochr' (William H Thomas) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1840. "“Terfynaf y tro presennol, gan ddymuno ar Mr.C.T. newid ei ochr, rhag i *public opinion* ddyfod i'r orsedd a barnu nad yw Crist, Eneiniog y Tad, yn Dduw, o ganlyniad gwadu rhinwedd ei Aberth; canys os *public opinion* yw rheol ffydd ac ymarferiad C.T., er i fod yn awr yn un o deulu cred, fe wad ei grefydd os bydd *public opinion* yn gofyn hyny; ac i chwithau, Mr.Golygydd, i anfon gwybodaeth iachusol ar bob rhan o ddyledswyddau Cristionogol.” Am wybodaeth ar effeithiau crefydd ar wleidyddiaeth gw. Perry, Lewis (1973) *Radical Abolitionism: Anarchy and the Government of God in Antislavery Thought*, Cornell University Press, t.45.

³⁶ Cefnogaeth eto i'r *Cyfaill* (Wm.H.Thomas) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1840. “Nis gallaf yn yr amgylchiad presenol lai na meddwl am yr effaith a ga' dd llofruddiaeth yr hybarch a'r anfarwol Lovejoy ar y wladwriaeth. Tybiodd gelynyon rhyddid y caeth ond cael pen Lovejoy i lawr, y buasai taw tragwyddol ar Wrthgaethiwedyddion; ond yn lle hyny, wele yn codi o lwch Lovejoy, rym, gwroldeb a thaerineb mwy nac

Os oedd William Rowlands yn fodlon cyhoeddi newyddion ac ysgrifau'r Gwrthgaethiwedyddion, pam felly nad oedd yn rhannu argyhoeddiad William H. Thomas a gweinidogion eraill, a dioddef ensyniadau hyd yn oed am ddilysrwydd ei grefydd? Wedi'r cwbl, mae'n amlwg fod polisi crefyddol y Gymdeithas Drefedigaethol o ddarparu addysg i'r caethion rhydd a'u hanfon i Affrica fel cenhadon Cristnogol wedi apelio ato, yn sgil ei gyfeiriad at 'freintiau yr efengyl' yn Liberia. Serch hynny, roedd nifer o weinidogion ledled y cyfandir a oedd yn perthyn i'r naill gymdeithas yn arddel yr un egwyddor genhadol. A oedd rhywbeth pellach yn gwahaniaethu eu golygon crefyddol am wleidyddiaeth a fyddai mor gryf nes atal William Rowlands rhag ymuno â hwy?

Bu'r *Cyfaill* yn faes cyfnewid cyson i'r o ddadl am ddiddymiaeth tan 1841,³⁷ ac mae canmoliaeth William H. Thomas i'r 'Cyfaill amhleidgar' yn dangos fod ei olygydd wedi llwyddo yn y pen draw yn ei amcan i'w ddatgysylltu ei hun oddi wrth ei ymlyniad i'r Trefedigaethwyr ac wedi cyflwyno dadleuon o'r ddwy ochr. Fodd bynnag, er nad yw William Rowlands yn ymateb o gwbl pan atgyfodir y mater unwaith eto yn 1844 gyda chais am eglurhad 'gyda brys,'³⁸ ynghyd ag amhoblogrwydd cynyddol y gymdeithas, mae'r pytiâu o newyddion yn canmol eu gweithredoedd yn awgrymu nad oedd wedi gadael ei rhengoedd o gwbl. Beth felly oedd union natur ei gynnen gyda'r Gwrthgaethiwedyddion a'i hataliai rhag eu cefnogi?

erioedd yn y rhai oedd eisoes yn bleidiol i rydd y caeth, a channoedd ag ydoedd o'r blaen heb feddwl am natur rhyddid, a rhai ag ydoedd yn wrthwynebol i ryddid y caeth, yn bloeddio i'r gad gan waeddi 'Rhyddid i'r Caethion.' Ac felly y mae o berthynas i'r Cyfaill clodwiw; ac er prawf o hyn danfonwech ugain yn fy enw i minau a ofalaf dalu am daynt yn brydlon."

³⁷ Rhagymadrodd i sylwadau Idloes ar y Gaethwasanaeth - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1840. Sylwadau J.M.Jones, ieuaf, CN, at William H Thomas - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Rhagfyr 1841.

³⁸ Gofyniad: Rhyddhad y Caethion (Amorugydd) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1844. Haera fod nifer o Gymry uniaith fel yntau yn credu fod 'eithafoedd rhwng y ddwy...gymaint ac sydd rhwng lladrad a gonestrwydd,' gan fod y Gymdeithas Drefedigaethol yn ei dyb ef yn golygu 'rhyddhad trwy bryniad.' Mae'n gofyn am eglurhad er mwyn 'iawn weithredu dros y trueiniaid sy mewn gorthrymderau.'

(iv) ‘Dosparth neillduol o dybiau pleidiawl.’

Ceir newid yng ngoslef anerchiad golygyddol William Rowlands yn 1840, sy'n dynodi ei fod yn ymwybodol o newid yn yr arfaeth. Mae'n llywio ei eiriau i diriogaeth newydd, wrth iddo addasu ei bolisi niwtral i ddatgan nad yw'n 'cyfyngu buddioldeb' y *Cyfaill* at 'daeniad dosparth neillduol o dybiau pleidiawl – crefyddol na gwladwriaethol,' ond yn amcanu at les ei dderbynwyr drwy ehangu eu gwybodaeth.³⁹ Cyn hyn, sonniod am natur 'amhleidiol' y cyhoeddiad mewn cyd-destun cyffredinol yn unig, ond yn sgil sefydlu'r Blaid Rhyddid a ffurfiwyd yn arbennig i'r amcan o ddileu caethwasanaeth, roedd y broblem Americanaidd yn cynyddol ddod yn agwedd ar ddiwylliant y Cymry ar y cyfandir.⁴⁰

Ymfalchïa William Rowlands ar ddechrau'r flwyddyn fod y *Cyfaill* yn gwneud yn dda oherwydd ei 'egwyddorion uchelryw' sy'n apelio at y genedl yn gyffredinol, 'hyd yn oed lle dysgwyliem i deimladau pleidiawl, ond camsyniol effeithio yn erbyn ein Cyhoeddiad Rhydd.' Mae cynnydd y derbynwyr yn profi yn 'ddiamheuawl' nad yw'n 'ymddibynu ar gefnogaeth rhyw nifer neillduedig o'n cydgenedl,'⁴¹ sylw sy'n cyfeirio at deyrngarwch y Gwrthgaethiwedyddion ac aelodau'r blaid newydd i'r *Cenhadwr*. Ymddengys, felly, nad oedd wedi ei ysgubo ymaith gan y llifeiriant hwn, ac mae ei gyfeiriad at 'deimladau pleidiawl camsyniol' yn ddatganiad anuniongyrchol nad oedd yn cytuno â safiad ei gyfoeswr golygyddol, Robert Everett.

Ar drothwy'r 1840au, roedd rhan uchaf talaith Efrog Newydd, a chadarnle'r wasg Gymraeg, yn ganolfan allweddol i'r frwydr dros ddiddymu caethwasanaeth. Roedd gwreichion y diwygiadau crefyddol grymus a sbardunwyd gan y pregethwyr Finney yn yr

³⁹ Anerchiad y Golygydd idd ei gydgenedl, y Cymry yn America - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Rhagfyr 1840.

⁴⁰ Evans, Paul De Mund (1914) *The Welsh in Oneida County, New York*, Thesis MA heb ei gyhoeddi: Prifysgol Cornell. "In that year was begun the abolition movement among them which was destined to excite more political feeling than any thing before or after. Up to that time little attention was paid by the Welsh to the subject of slavery. They were opposed to the institution on principle but it did not immediately concern them and they were content to leave it alone. They had no more love for the abolitionist than the ordinary Northerner at that time."

⁴¹ Clawr - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1840.

1830au yn dal i fudlosgi yn y 'Burned-Over District,'⁴² a rhoddwyd gwedd grefyddol ar y broblem wleidyddol. Penllanw'r deffroad oedd ysgogi awydd cyffredinol i wrthwynebu'r fasnach yn enw'r efengyl drwy sefydlu mudiadau cymdeithasol a ddeilliai o'r capel. Haera Tocqueville fod cysylltiad cynhenid rhwng crefydd a gwleidyddiaeth, yn sgil ei effaith ar gyflwr moesol a deallusol y bobl:

By the side of every religion is to be found a political opinion, connected with it by affinity...Religion in America takes no direct part in the government of society, but it must be regarded as the first of their political institutions; for if it does not impart a taste for freedom, it facilitates the use of it.⁴³

Ymhlith ymfudwyr eraill hefyd o wahanol genhedloedd Ewropeaidd hefyd, gwyntyllid dadleuon rhwng arweinwyr crefyddol ceidwadol a radicalwyr drwy gyfrwng y wasg,⁴⁴ sy'n dangos fod mater caethwasanaeth wedi dod yn rhan ganolog o'u hunaniaeth, ac yn bwnc a effeithiai ar eu crefydd, eu gwleidyddiaeth a swm a sylwedd eu deunydd print. Ond i ba raddau yr oedd y cysylltiad yn cael ei groesawu gan Gymry America, yn y capeli, a chan William Rowlands ei hun ar dudalennau'r *Cyfaill*? Beth oedd y berthynas, ac yn anad dim, y ffiniau rhwng crefydd a gwleidyddiaeth?

Sbardunwyd trafodaeth am gaethwasanaeth ar seiliau crefyddol yn y *Cyfaill* yn 1839 gan awdur a'i geilw ei hun yn Jonathan, a oedd yn gofidio fod rhai'n cyfiawnhau'r drefn gaethiwol drwy ddefnyddio'r Hen Destament. Ymbilia am gymorth i wrthbrofi'r gosodiadau hyn, 'a rydd foddlonrwydd nid bychan i mi ac eraill o dderbynwyr y *Cyfaill*.' Roedd gan y Cymry ymfudedig ddewisiadau i'w gwneud ar fyrder am eu rhan fel Cristnogion yn y frwydr yn erbyn caethwasanaeth,⁴⁵ ac mae'r dymuniadau da iddo fel fforwm niwtral i rannu barn yn dadlennu llawer am swyddogaeth y *Cyfaill* fel ffynhonnell wybodaeth i Gymry America yn y

⁴² Sernett, Milton.C, *North Star Country*, cyflwyniad. Roedd William Lloyd Garrison, un o geffylau blaen yr ymgyrch yn mynnu mai yn nhalaith Massachusetts oedd ei chalon, dinas Boston yn enwedig yn ardal New England o'r dalaith. Hefyd gw. Franklin, John Hope & Moss, Alfred.A Jr, *From Slavery to Freedom*, t.173. Am fwy o wybodaeth ar y cysylltiad rhwng crefydd a gwleidyddiaeth yn y cyd-destun Prydeinig gw. Hempton, David (1996) *Religion and Political Culture in Britain and Ireland*, Cambridge University Press.

⁴³ Tocqueville, Alexis de (1998) *Democracy in America*, Wordsworth Editions Ltd: Herts, t.118-20.

⁴⁴ Daniels, Roger (1990) *Coming to America: A History of Immigration and Ethnicity in American Life*, Harper Collins: New York, t.171-2 e.e. Swediaid.

⁴⁵ Sernett, *North Star Country*, cyflwyniad, tud xx.

cyfnod hwn.⁴⁶ Trwy gyfrwng y wasg, teimlid fod y Cymry'n rhan o'r ymgyrch ehangach i newid annhegwch cymdeithasol fel 'ychydig surdoes yn y blawd,'⁴⁷ sy'n amlinellu pwysigrwydd y cyhoeddiad fel rhwydwaith i'w cysylltu yn America.

Dyfnhaodd nifer o weinidogion a goleddai resymau Beiblaidd dros ddiwedd y caethwasanaeth y cysylltiad rhwng crefydd a gwleidyddiaeth, wrth iddynt leisio barn wleidyddol ar seiliau moesol. O'r dechrau, gweithredai'r Beibl fel arf dehongliadol yn yr ymgyrch o blaid ac yn erbyn caethwasanaeth ar draws y cyfandir, '*an anchor of religious authority in a churning sea of demographic, social and political turmoil.*'⁴⁸ Codwyd nifer o gwestiynau athrawiaethol a fyddai'n effeithio ar farn wleidyddol nifer o drigolion America,⁴⁹ a'r Cymry yn awr yn eu plith.

Gresyna'r gweinidog William H. Thomas yn ei lythyr i'r *Cyfaill* fod 'gwlad rydd! Gristionogol!!' fel yr Unol Daleithiau yn caniatáu'r fasnach anfoesol, a galwa am weithredu yn erbyn trefn sy'n groes i hanfod crefydd.⁵⁰ Ceisia ddwyn perswâd ar Gymry America i ymuno yn rhengoedd y gwrthwynebwyr 'fel dyledswydd tuag at Dduw a dyn,' gan apelio at eu hunaniaeth Gymreig:

A chymerwch eich tadau yn Nghymru yn esiampl, mewn ymdrech barhaus, nes cael buddygoliaeth ar gaethiwed...gweddiwch am ryddid i'r caethion, trwy ymarfer â phob moddion addas, er dwyn y gwaith gogoneddus i ben, ac na adewch lonydd i'r Llywodraeth nes cael y caeth yn rhydd.⁵¹

⁴⁶ Llythyr William H Thomas, Utica – 'Y Gaethfasgnach' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1839. "Terfynwyf y tro presennol, gan dymuno llwydd i'r Cyfaill clodwiw i gario trysorau amhrisiadwy gwybodaeth i bob Cymro a Chymraes yn America fawr, ac i ymlid pob gelyn (i wybodaeth a chyhoeddiad amhleidgar) ar ffô." Llythyr G.R. – 'Y Gaethfasgnach' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1839.

⁴⁷ Llythyr Owen Jones, Philadelphia – 'Y Gaethfasgnach' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1839. "... gan obeithio y gwna pob Cymro yr hyn a allo yn y man a'r sefyllfa y mae tuag at gael rhyddid i'r caethion yn America. (Cofiwch pa beth a wnaeth ychydig surdoes yn y blawd)."

⁴⁸ Noll, Mark.A (2002) *America's God: From Jonathan Edwards to Abraham Lincoln*, Oxford University Press, t.373. Yn ystod egin yr ymgyrch wrthgaethiwol yn y 1830au, cyhoeddwyd llythyr at bregethwyr a blaenoriaid yn apelio am hyrwyddo gwrthgaethiwaeth o safbwynt grefyddol gan Birney yn 1834, ac yn 1837 cyhoeddwyd 'The Bible against slavery' gan Weld, a oedd yn defnyddio seiliau crefyddol i gyfleu eu neges. Y ddadl gryfaf a ddefnyddiwyd oedd fod caethwasanaeth yn groes i'r ethos Gristnogol o frawdoliaeth a chydarddoldeb.

⁴⁹ Holifield, E.Brooks (2003) *Theology in America: Christian Thought from the Age of the Puritan to the Civil War*, Yale University Press: New Haven, t.494-5.

⁵⁰ Llythyr William H Thomas, Utica – 'Y Gaethfasgnach' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1839.

⁵¹ Llythyr William H Thomas – 'Y Gaethfasgnach' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1839.

Mae atgoffa'r Cymry o'u genedigaeth-fraint fel tacteg i ddenu eu cefnogaeth i newid trefn wleidyddol Americanaidd yn awgrymu bod ganddynt hunaniaeth newydd ddeublyg. Roedd gwedd drawsatlantig ar y mudiad gwrthgaethiwol eisoes, a chyfnewidid gohebiaeth, cyfnodolion, diwygwyr a syniadau yn gyson.⁵² Trwy lynu at ideoleg grefyddol a moesol yr hen wlad i frwydro'n erbyn amgylchiadau dieithr America, maent yn dal gafael ar werthoedd Cymreig ac hefyd yn ceisio diffino eu presenoldeb yn America.

Fodd bynnag, nid oedd rhai o Gymry America yn cytuno'n llwyr â galwad William H. Thomas i weithredu drwy ddefnyddio 'pob moddion addas' i ddiddymu caethwasanaeth, galwad a oedd yn rhagflaenu'r math o bropaganda radicalaidd a ddefnyddid yn helaeth gan Robert Everett yn y *Cenhadwr* maes o law. Mae ei sylwadau yn crisialu'r prif agendor rhwng penderfyniadau William Rowlands a Robert Everett ar lefel olygyddol a phersonol, yn ogystal â'r anghytuno rhwng carfanau crefyddol ymhlith Cymry America.

Mae'r penderfyniad golygyddol i gyhoeddi'r ysgrifau hyn yn dangos fod William Rowlands yn ymroddedig i'r frwydr yn erbyn caethwasanaeth.⁵³ Fodd bynnag, yr hyn a oedd yn peri anghydweld cyson yn y cyfnodolion a'r cylchoedd crefyddol oedd y dulliau o weithredu. Ar y naill law, teimlai rhai fod cyfuno crefydd â gweithredoedd ymarferol i ddiddymu caethwasanaeth ar fyrder yn ddyletswydd Gristnogol, tra roedd ymhel â materion gwleidyddol yn groes i ddysgeidiaeth yr efengyl yng ngolwg llawer, a'r Methodistiaid yn enwedig.⁵⁴ Cyfeiria Iorthryn Gwynedd at 'ragfarn mewn llawer o Gymry crefyddol America

⁵² Jones, Maldwyn A (1983) *The Limits of Liberty: American History 1607-1980*, Oxford University Press, t.162. Teithiodd nifer o'r diwygwyr hyn yn ôl a blaen, a chynhaliwyd cyfarfodydd rhyngwladol megis y 'World Anti-slavery Conference' yn 1840. Hefyd gw. Hess, Andreas (2000) *American Social and Political Thought: A Concise Introduction*, Edinburgh University Press, t.16.

⁵³ Llythyr William H Thomas, Utica – 'Y Gaethfasgnach' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1839. "Gan ddyuno llwyddiant i Jonathan a'i frodyr yn y gwaith clodfawr o ymdrechu dangos idd ei gymydogion y drwg mawr sydd yn y Gaethfasgnach Americanaidd, ac i chwithau, Mr.Golygydd, i fod yn gyfaill ffyddlon i ledaenu y gwir fel y mae yn Nghrist Iesu ein Harglwydd, trwy glod ac anghlod, parch ac anmharch, hyd ddiwedd eich oes, mewn gwlad a gamenwir (yn ei pherthynas a chaethion) yn wlad rhyddid, y parhawyf mewn ymbiliau, &c."

⁵⁴ 'Dyledswydd Cristnogion i ganiatau eu capeli er cynal cyfarfodydd gwrthgaethiwol ynddynt' (A Harris, Remsen) - *Y Cenhadwr Americanaidd*, Awst 1848. Tra oedd golygydd y *Cyfaill* a nifer o'i ohebwyr o dan sel bendith yr enwad Methodistiaid, yn gofyn am barchu'r capel fel sancteiddle; cyhoeddai'r *Cenhadwr* ysgrifau yn pwysleisio dylanwadu'n gyhoeddus ar bleidleisiau Cymry America a'r ddyletswydd ar Gristnogion i ganiatau

yn erbyn i neb o'u pregethwyr ac aelodau eu heglwysi ymyrryd dim mewn gwleidyddiaeth,⁵⁵
fel y mynegodd 'Chwarae Teg i Bob Ochr:'

Mr. Golygydd, gan i mi ochelyd cyhyd ag y gellais 'eiriau pigog,' yn ol rheolau eich Cyhoeddiad, yr wyf yn dysgwyl gweled yr ysgrif uchod yn eich Cyfaill enwog. Yr wyf hefyd, yn dysgwyl yr un moesau gan Mr. W.H.T., i'r hwn y mae genyf barch calon fel Gweinidog yr Efengyl, er nas gallaf gymeradwyo ei fesurau mewn undeb a'r Gwrthgaethiwedyddion.⁵⁶

Mae sawl agwedd ar y diwylliant Methodistiaidd a Chalfinaidd sy'n cynnig esboniad i ni ar y modd y rhagbaratowyd William Rowlands i ymateb i syniadau gwleidyddol Americanaidd, a'r modd y gosodwyd cynseiliau ei lwybr golygyddol.

Mae craffu ar y symudiadau diwinyddol a oedd yn cyniwair yng Nghymru yn ystod yr 1820au hefyd yn rhoi golwg ehangach i ni o'r dylanwadau a fyddai wedi ffurfio gogwydd gwleidyddol y sawl a ymgartrefai yn America. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod William Rowlands yn Fethodist pybyr a goleddai'r hen syniadaeth ddiwinyddol a elwid yn Uchel-Galfiniaeth, a'i fod yn 'selog dros yr athrawiaeth fel y dysgwyd hi gan y tadau:'

Pob gradd, pob oedran, a phob gweinidogaeth
Offrymant i'w enwogrwydd barch gwarogaeth,
Er bod yn gadarn *Fethodist* mewn barn,
Ac yn anhyblyg *Galfin* hyd y carn.⁵⁷

Roedd Calfiniaeth yn fwy na dysgeidiaeth ddiwinyddol,⁵⁸ a gellir honni gyda chryn sicrwydd fod William Rowlands yn dilyn prif feddylfryd y mudiad:

cynnal cyfarfodydd gwrthgaethiwol yn y capeli. Am wybodaeth o ran Robert Everett yn yr ymgyrch ddiddymol gw. Hunter, Jerry (2010) 'What can the Welsh do? Robert Everett and the Welsh-American Abolition Movement 1840-4,' yn (goln) Charles-Edwards, T. M. a Evans, R. J. W. *Wales and the Wider World: Welsh history in an International Context*, Shaun Tyas: Donnington, t.157-83.

⁵⁵ Thomas, R.D., *Hanes Cymry America*, rhan 3, t.67-8.

⁵⁶ Y Gaethwasanaeth – ateb i sylwadau y Pch. Wm H Thomas (Chwarae Teg i Bob Ochr) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1840.

⁵⁷ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands* - Cerdd goffa Llew Llwyfo. Mae Iorthryn Gwynedd hefyd yn dweud ei fod yn 'dra Chalfinaidd ei olygiadau.' t.93. Mae tystiolaeth y Cyffes Ffydd yn arwyddocaol i asesu egwyddorion William Rowlands, gan ei fod yn sail i'r gredo Fethodistaidd, sef rheolau eu ffydd a'u gweithredoedd. Gw. *Hanes cyfansoddiad, rheolau dysgyblaethol yn nghyda Chyffes Ffydd y corph o Fethodistiaid Chalfinaidd yn Nghymru a gytunwyd arnynt yn Nghymdeithasfaoedd Aberystwyth a Bala, 1823*, (1852) Argraffiad Americanaidd 1af, E.E.Roberts: Utica.

⁵⁸ Roberts, Pch.T (1894) *Llenyddiaeth, Chalfiniaeth a Methodistiaeth*, W.Evans: Caernarfon.

Nid oedd gan y diwygwyr hyn ddelfrydau uchel am y wladwriaeth fel sefydliad dwyfol, nac am berthynas y Cristion unigol â threfn gymdeithasol. Etifeddasant syniad yr hen oesau, bod y brenin a'i swyddogion yn 'ordinhad Duw' a'i bod yn ddyledswydd gysegredig ar bawb i ufuddhau iddynt, a'u dioddef, os byddent yn ormeswyr.⁵⁹

Prif flaenoriaeth y Methodistiaid oedd efengylu, gan ymwrthod ag unrhyw eithafion radicalaidd, a chanolbwyntio ar gyflwr ysbrydol unigolion yn unig yn hytrach nag ymyrryd â'r 'drefn gymdeithasol.'⁶⁰ Credai dilynwyr Calfin felly y dylid derbyn y drefn lywodraethol fel awdurdod i reoli'r bobl a benodwyd yn ôl ewyllys Duw, gan wrthwynebu newid chwyldroadol neu unrhyw derfysg:

Ac o'r holl gyrff crefyddol yng Nghymru, y Methodistiaid oedd y rhai a gymerai leiaf o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth. Yr oedd y Cyfundeb yn dra cheidwadol ei olygiadau. Edrychid yn wgus ar weinidogion a wnai unrhyw ymdrech ymhlaid diwygiadau gwleidyddol.⁶¹

O ystyried tystiolaeth ei gofiant fod William Rowlands yn edrych tuag at gyfundeb Cymru yn aml am arweiniad, a bod Methodistiaeth Gymreig yn America wedi ei sefydlu ar lun a delw'r hen wlad, rhaid casglu fod yr un agweddau yn nodweddiadol o'r enwad yn y ddwy wlad.⁶²

⁵⁹ Williams, Parchedig D.D. (1927) *Llawlyfr Hanes Cyfundeb y Methodistiaid Calфинаidd*, Pwyllgor Llenyddiaeth y Cyfundeb: Caernarfon, t.164; Jones, R Tudur (1986) *Duw a Diwylliant: Y Ddadl Fawr, 1800-30*, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, t.6-7. e.e. Gwilym Hiraethog, Thomas Charles, Thomas Jones, Dinbych. Hefyd gw. Schmidt, Albert-Marie (1960) *John Calvin and the Calvinistic Tradition*, Longmans: London, t.78. "But he forbade those who were subject to earthly monarchs to attempt to overthrow the regime or to take any initiative, whatever the provocation, in rebelling against the royal authority. If man suffered injustice and persecution, he recommended them to implore help from heaven." Hefyd gw. Dakin, A (1940) *Calvinism*, Duckworth: London.

⁶⁰ Roberts, Parchedig John (1934) *The Calvinistic Methodism of Wales*, Llyfrfa'r Cyfundeb: Caernarfon, t.47.

⁶¹ Williams, Parchedig D.D., *Llawlyfr Hanes Cyfundeb y Methodistiaid Calфинаidd*, t.163. Mae pamffled 'Gair yn ei Amser' gan Thomas Jones, un o geffylau blaen y corff, yn crisialu agweddau'r Methodistiaid at wleidyddiaeth yn y cyfnod, mai pechod oedd yn achosi anghyfiawnder gwladol o ganlyniad i farnedigaeth Duw, nid y sawl oedd yn llywodraethu: "Yr oedd Thos Jones yn erbyn y diwygwyr gwleidyddol. Ar y pryd, yr oedd plaid gynhyddol o Gymru yn dadleu ac yn ysgrifennu dros hawliau'r werin i'r etholfraint, a diwygiad gwladwriaethol. Un o amcanion eglur *Gair yn ei Amser* oedd gwrthweithio dylanwad y blaid hon. Yn mhlith prif arweinwyr y blaid yng Nghymru yr oedd Morgan John Rhys, Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi), ac eraill...Nid oedd gan Thomas Jones ddim i'w ddywedyd dros ddiwygiad gwleidyddol. Nid ar y gwladweinwyr, fel y cyfryw, y rhydd efe y bai am y rhyfel, a'r caledi mawr yr oedd y wlad yn dioddef o'u herwydd; nac ychwaith am y cwynion a'r anfoddogrwydd cyffredinol oedd yn y blynyddoedd hynny...Pechod oedd yr achos gwreiddiol a phenaf ohonynt." Nid oedd y rhyfel ond 'llais Duw,' a 'barn Duw.'" Hefyd gw. Schmidt, Albert-Marie (1960) *John Calvin and the Calvinistic Tradition*, Longmans: London, t.79.

⁶² Williams, Parchedig D.D., *Llawlyfr Hanes Cyfundeb y Methodistiaid Calфинаidd*. Gwrthwynebodd John Elias Fesur Rhyddfrefniad y Pabyddion yn 1829, sy'n adlewyrchu'r un safiad geidwadol â William Rowlands am burdeb yr athrawiaeth. Mae ysgrifau gwrth-Babyddol yn amlwg iawn yn y *Cyfaill*, ac mae'r ffaith ei fod yn rhannu'r un safbwyntiau â mawrion y cyfundeb megis John Elias hefyd yn awgrymu ei fod yn anrhydeddu eu daliadau.

Yn wir, yng nghymanfa'r Methodistiaid yn 1845, parheir i ddatgan eu bod yn gweithredu 'Rheolau Dysgyblaethol' a gludwyd o Gymru, 'nad ydym am newid rheolau y ty, na symud yr hen deyrn yr hwn a osododd y tadau.'⁶³

Roedd hoelion wyth eraill y Methodistiaid megis y Parchedig James Hughes, Llundain, gohebydd cyson i'r *Cyfaill*, hefyd yn arddel 'ceidwadaeth oddefol' a olygai ei fod yn gwrthwynebu diwygiadau radicalaidd y tybiai eu bod yn niweidiol i achos crefydd.⁶⁴ Ceir cymariaethau trawiadol yn ogystal rhwng cynnwys y *Cyfaill* a'r *Drysorfa*, cyfnodolyn y Methodistiaid yng Nghymru yn y cyfnod 1830-40, yn y modd yr oedd y ddau fisolyn yn cadw'r ddysgl yn wastad drwy gynnwys newyddion gwleidyddol, ond yn ceisio osgoi cynhyrfu'r dyfroedd.⁶⁵

Mae'r dystiolaeth uchod i gyd yn ein harwain i gredu mai Calfiniaeth William Rowlands oedd sail ei ddymuniad am ethos niwtral a heddychlun ei gylchgrawn, ond roedd hefyd yn effeithio ar ei ddaliadau gwleidyddol a'r ymdriniaeth â chaethwasanaeth yn y wasg gyfnodol ac yn y pwlpud. Yn ychwanegol, roedd y ddysgeidiaeth Galfinaidd yn nodweddu

⁶³ Cymanfa Chwarterol Utica - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Hydref 1845. O ystyried y graddau yr aeth William Rowlands ati fel gweinidog a golygydd i sicrhau'r flaenoriaeth o feithrin heddych yr eglwys yn enw crefydd, mae'n werth craffu ar hoelion wyth eraill y mudiad Methodistaidd. Gw. Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*. Roedd y Pch. Morgan Howell hefyd yn gyfaill mynwesol iddo a safodd yn gadarn wrtho yng nghanol ei helbulon cyn gadael Cymru i ymfudo i America. Mae'n werth craffu hefyd ar y dylanwadau a gawsai ei gyfeillion arno. Dywed golygydd y *Cyfaill* mewn llythyr a ysgrifennodd am nodweddion y Pch. Morgan Howells, y dechreuodd ei weindogaeth o dan ei arolygiad, ac a oedd hefyd yn ei gynghori ac yn ei gyfarwyddo at lyfrau defnyddiol: "syniadau cywir a goleddai mewn athrawiaeth, a dysgyblaeth gywir, yn ddiofn a diduedd, a bleidiai mewn llywodraethiad eglwysig...Meddyliwn y pryd hwnw na lefarodd dyn erioed fel y dyn hwnw. Efe oedd fy Paul a'm Apolos i o'r dydd hwnw allan." Yr awduron a wnaeth yr argraff ddyfnaf ar y Pch. Morgan Howell oedd: Watson Gurnal, Secker, Clark, Henry, Dr Owen*, cyngor Rowland Hill.

⁶⁴ Rhys, Robert (2007) *James Hughes: Iago Trichrug*, Gwasg Pantycelyn: Caernarfon, t.42-3. "...byddai'n rhesymol ei leoli o fewn y garfan Fethodistaidd honno a ddrwgdybiai gynyrfiadau radicalaidd am resymau ysgrythyrol ac ymarferol, gan ofni'r drwg a wneid i'r corff hwnnw o'i gysylltu ag anniddigrwydd gwladol."

⁶⁵ Roberts, Parchedig John (1931) *Methodistiaeth Galfinaidd Cymru: ymgais at athroniaeth ei hanes*, *Darlith Davies 1930*, Foyle: Llundain, t.99-100: "Y mae'n amlwg fod darllenwyr y *Drysorfa* yn cymryd diddordeb deallus yng ngweithrediadau'r senedd, ond na thwymai'r brwydrau seneddol ddim ar eu gwaed. Nid oes yr un nodyn o orfoledd am fod y mesurau wedi cael eu pasio, nac o ddigofaint oherwydd y rhwystrau a godai'r gwrthwynebwyr yn eu herbyn. Yr unig sylw y teimlai'r *Drysorfa* ar ei chalon i'w wneud pa fyddai un o'r mesurau mawr a chwyldroadol (y gwelai y wasg Ymneilltuol destun cân a moliant ynddo) wedi cael ei basio, oedd gobeithio y buasai'n sicrhau tawelwch i'r wlad." Mae'r *Drysorfa* yn rhoi ffenest glir i ni o berthynas y wasg a'r cyfundeb â gwleidyddiaeth, a chan fod y ddau fudiad yn America yn gorgyffwrdd yn helaeth â Chymru, gwelir cymariaethau trawiadol rhyngddynt. Cynhwysa'r ddau fisolyn adroddiadau seneddol cynhwysfawr a chrynodeb o areithiau arweinwyr o'r ddwy ochr, ond er eu bod yn credu'n gryf mewn iawnderau moesol, hanfod y cylchgronau yw peidio â chorddi'r dyfroedd.

diwylliant crefyddol rhan uchaf talaith Efrog Newydd yn y cyfnod, ac aelodau gwahanol eglwysi a oedd yn ei dilyn yn ddylanwadol ym mywyd gwleidyddol a diwylliannol yr ardal.⁶⁶

Ar y llaw arall, croesawai Robert Everett fudiad diwinyddol y 'System Newydd' a oedd ar gynnydd yn y cyfnod hwn, gan arddel 'Calfiniaeth Gymedrol' a roddai bwyslais ar weithredoedd ymarferol y Cristion er mwyn newid unrhyw anghyfiawnder yn y byd.⁶⁷

Dywedir yng nghofiant William Rowlands ei fod yn bryderus fod yr athrawiaeth a goleddai yn colli tir, gan 'boeri hyfdra mewn brodyr o ddawn i ddysgu pethau dyeithr ac amheus,' a oedd yn peri 'annghydwelediad' a 'blinderau a cholledion' i'r Trefnyddion Calфинаidd.⁶⁸ Yn wir, roedd yr un gwrthwynebiad i'r ddiwinyddiaeth draddodiadol yn America hefyd:

During the antebellum period, hundreds of popular writers launched a wholesale attack on Calvinistic religion, which was considered harsh and inflexible...⁶⁹

Gwelwyd eisoes sut yr oedd Williams Rowlands yn amddiffyn cyfansoddiad y Tadau

Methodistaidd i'r carn, ac felly mae'n rhaid casglu ei fod yn gwrthwynebu'r newydd gyda'r un arddeliad mewn ystyr wleidyddol hefyd:

Gwan ac araf oedd gyda mesurau newyddion, ond yn ofnadwy o rymus i amddiffyn yr hen. Yr oedd drwy hyn yn gymwysach i sefydlu cangen o hen gyfundeb mewn gwlad newydd na phe buasai yn fwy rhyddfrydig, oblegid yr oedd yn cau allan ormod o newydd bethau, nes cael profiad pa bethau yr oedd amgylchiadau a bywyd yn ei ddysgu a fuasai yn fanteisiol.⁷⁰

A oedd William Rowlands, felly, yr un mor frwd â'i gyfoeswr dros ddiddymu

caethwasanaeth wrth fod yn driw i egwyddorion ei enwad?

⁶⁶ Ellis, David Maldwyn (1973) 'The Assimilation of the Welsh in Central New York', *Welsh History Review*, cyfrol 6, rhif 4, t.435.

⁶⁷ Hunter, Jerry, *I Ddeffro Ysbryd y Wlad*, t.24.

⁶⁸ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.276.

⁶⁹ Reynolds, David.S. (1995) From periodical writer to poet: Whitman's journey through popular culture, yn (gol) Price, K & Smith, Susan, *Periodical Literature in Nineteenth Century America*, Virginia University Press: London, t.42.

⁷⁰ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.278-9.

(v) Yr araith neu'r ysgrifbin?

Un o wreiddiau'r anghydfod am y dull o ymrestru Cymry America yn yr ymgyrch yn erbyn caethwasanaeth oedd y dulliau a ddefnyddid i drosglwyddo'r genadwri. Ymledai cyffro gwleidyddol rhan gyntaf yr 1840au i'r dalennau print a'r pwlpudd, a chynyddai'r tyndra ymhlith cynulleidfaoedd Cymry America am yr egwyddor o ddefnyddio cyfryngau crefyddol i ddibenion gwleidyddol. Cwynai rhai nad ymdriniai Cymdeithasfa'r Methodistiaid â phynciau cymdeithasol, ond sylfaen y gredo Galffinaidd oedd sefydlu deddf foesol yn gyfraith gwlad, a'r pwyslais hwn ar yr ysbryd cenhadol a olygai mai crefydd oedd y flaenoriaeth yn ddiwahân:

...yr awydd i ddwyn dynion at Grist oedd yr hyn roddodd fod i'r Methodistiaid. Fe'u codwyd nid i bwysleisio unrhyw athrawiaeth arbennig, unrhyw sacrament, unrhyw ffurf newydd ar lywodraeth eglwysig, ond i efengyleiddio'r wlad i ennill Cymru i Grist.⁷¹

Mae cyfres o ddigwyddiadau cythryblus yn niwedd y ddeunawfed ganrif rhwng y Methodistiaid a'r Hen Ymneilltuwyr, pan oedd y Methodistiaid yn dal i fod yn gysylltiedig â'r eglwys wladol, yn mynd gam o'r ffordd i egluro'r rhwyg ideolegol rhyngddynt. Tra oedd yr Ymneilltuwyr, a gysylltid yn draddodiadol â'r Chwigiadaid yn dechrau dadlau, pregethu a sefydlu cymdeithasau i wella cyflwr cymdeithas, nid oedd yr un awydd i ddiwygio'r drefn yn taro tant gyda'r Methodist ceidwadol:

Gweddiai ar y nefoedd a phleidiai gyda'r ddaear am dawelwch, a chynghorai bawb a'i ddisgbylion i osgoi pob cwestiwn dadleuol. Dyma dduwioledeb, meddai'r Methodist.⁷²

Er bod y Methodistiaid wedi eu huno o dan faner yr enwadau Ymneilltuol yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, parhâi'r gwahaniaethau athrawiaethol rhyngddynt, a olygai fod eu hagweddau at wleidyddiaeth yn dra gwahanol i'w gilydd:

And so while the Nonconformist thundered against the citadels of privilege and unrighteousness and sounded the trumpet of war, the Methodist would hope now that the objects, of slight importance and doubtful value, had been obtained, these

⁷¹ Williams, Parchedig D.D., *Llawlyfr Hanes Cyfundeb y Methodistiaid Calffinaidd*, t.150.

⁷² Roberts, Parchedig John, *Methodistiaeth Galffinaidd Cymru*, t.97.

distracting agitations would be stilled and he and his brethren have a little peace and quietness.⁷³

Mae'r dyfyniad felly'n taflu goleuni ar anghymeradwyaeth 'Chwarae Teg i Bob Ochr' o ddylanwad llafar y Gwrthgaethiwedyddion ar y cylchoedd crefyddol. Er bod sefydliad megis caethwasanaeth yn gwbl anfoesol yn llygaid y Methodistiaid, dewisent ddulliau tawelach ac unigolyddol i fynegi eu barn, sy'n egluro ffafriaeth William Rowlands o'r ysgrifbin.

Eto i gyd, mae tystiolaeth fod William Rowlands yn arddel ei swyddogaeth gyhoeddus fel gweinidog. Roedd yn ddirwestwr brwd ac yn 'areithiwr godidog dros yr achos,' felly mae'n codi'r cwestiwn pam na fyddai wedi defnyddio'r un dulliau i gyfeirio at gaethwasanaeth, gan gofio fod ffocws cylchgrawn y *Dyngarwr* a gyhoeddwyd gan Robert Everett yn 1843 yn gyfartal ar y ddwy ymgyrch.

Mae tystiolaeth gan wahanol weinidogion a blaenoriaid yn ei gofiant yn tystio i 'effeithiau uniongyrchol' ei bregethu nerthol.⁷⁴ Yn ôl ei gofiant, gallai 'gyffroi eglwysi i weithgarwch' crefyddol drwy ei bregethau cystal â'i ysgrifeniadau, ac mae hyn yn codi'r cwestiwn pam na fyddai wedi defnyddio mwy o'i rym fel pregethwr i ysgogi'r gynulleidfa i weithredu yn erbyn caethwasanaeth? Er hynny, haerir fod William Rowlands yn 'gyfaill cynes i'r caeth a'r gorthrymedig,' a'i fod wedi ysgrifennu a siarad llawer yn 'wresog a grymus' dros eu hachos.⁷⁵ Honnir ei fod 'gyda'r blaenaf' yng nghynadleddau'r Methodistiaid 'i'n dwyn at ein dyletswyddau.'⁷⁶ Wedi'r cwbl, roedd y Gyffes Ffydd, arweiniad ideolegol y Methodistiaid, wedi ei seilio ar weithredoedd daionus, heddwch cydwybod a deddf foesol.

Mae ysgrif gan John Howes yng nghylchgrawn y *Dyngarwr* hefyd yn disgrifio pregeth gan olygydd y *Cyfaill* yng nghymanfa'r Trefnyddion Calфинаidd yn Remsen yn

⁷³ Roberts, Parchedig John (1934) *The Calvinistic Methodism of Wales*, Llyfrfa'r Cyfundeb: Caernarfon, t.44.

⁷⁴ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.452 – Atgofion Iorthryn Gwynedd; *ibid*, t.330-31 – Pch. J.J. Jones; *ibid*, t.463 – Pch. Morgan Howells. Dywed fod ei bregethau â'r gallu i 'drydanu cynulleidfa' yn ôl tystion yng nghymanfa Utica yn 1855, gan beri i rai neidio ac eraill yn disgyn i'r llawr yn canu. Er bod rhai yn amau cywirdeb ei athrawiaeth, noda sawl un a oedd yn ei adnabod ei fod ymhlith y 'blaenaf o bregethwyr Cymraeg yn America' i drafod materion grymus gyda 'hwyl.'

⁷⁵ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.330.

⁷⁶ *Ibid*.

niwedd 1842, pan adroddodd ‘chwedl effeithiol’ i’r gynulleidfa am gaethwas crefyddol a gâi ei gosbi am weddio:

...yr hon sydd yn ddigon i waedu cydwybodau gelynion ‘Gwrthgaethiaeth,’ i lethu teimladau pob dyngarwr, ie, i wneud pob cristion, tebygwyf, yn wrthgaethiwydd ar unwaith, fel ag yr oedd y *Proffwyd a’r Apostolion*...⁷⁷

Fodd bynnag, yr hen athrawiaeth hon a sefydlwyd gan y ‘Proffwyd a’r Apostolion’ a roddai reswm moesol dros wrthwynebu caethwasanaeth oedd hefyd yn ei atal rhag defnyddio capeli i wrthweithio’r drefn. Yn hytrach, defnyddiai hanesion o’r fath yn y pwlpudd ac yn y *Cyfaill* i ennyn tosturi, gan newid barn unigolion yn hytrach na phregethu uniongyrchol, ei gri yn yr ysgrifau cefnogol i’r Gymdeithas Drefedigaethol.

Mae’r ffaith i aelodau Cynhadledd Wrthgaethiwol fawr yn 1844 benderfynu cyhoeddi’r hanes yn y *Cenhadwr* a’r *Cyfaill* yn dangos fod y cyhoeddiad yn gyfrwng niwtral yn eu tyb hwy. Byddai’n gamarweiniol tybio bod William Rowlands yn cydsynio â’r cynnwys, gan fod y penderfyniadau yn nodi y dylai arweinwyr crefyddol ‘ryfela yn ddi-ildio a’r gyfundrefn gaethiwol’ wrth ddefnyddio eu dylanwad ‘yn y gymydogath, yn yr eglwys, wrth y *Ballot box*’ gan fod ‘Cristionogrwydd a rhyddid gwladol yn cydweini i’w gilydd.’⁷⁸ Dyma egwyddorion a oedd yn gwbl groes i flaenoriaeth diamwys crefydd, ond roedd polisi golygyddol William Rowlands o degwch yn ei orfodi i gyhoeddi’r deunydd hwn, fel ag y gwnaethai gydag ysgrifau William H. Thomas, ysgrifennydd y gymdeithas, er bod ei ddaliadau personol ac enwadol yn dra gwahanol.

Yn wir, erbyn 1844 ymddengys fod rhai wedi dirnad beth oedd daliadau gwleidyddol William Rowlands, yn wahanol i anwybodaeth lwyr William H. Thomas yn 1840. Mae gohebydd i’r *Cenhadwr* yn honni ei fod wedi teithio’n helaeth o amgylch cymunedau

⁷⁷ ‘Chwedl Effeithiol’ – *Y Dyngarwr*, Ionawr 1843

⁷⁸ Cyfarfod Gwrthgaethiwol - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Mawrth 1844. Noda’r penderfyniadau fod ‘Cristionawgrwydd a rhyddid gwladol yn cydweini i’w gilydd, yn cydgynnal a chynorthwyo y naill y llall, a bod eu cynydd yn y byd yn gydradd.’ Ymhellach, fod llwyddiant Cristnogaeth yn dibynnu ar ‘iawn brisiad y bobl o’u dyledswyddau gwladwriaethol a pholitaidd...o ganlyniad, mewn trefn i fod yn Gristion da, rhaid yw bod yn ddinasydd da.’ Gofynnai’r cyfarfod am anfon deiseb i bob gweinidog Cymraeg yn swydd Oneida yn awgrymu eu bod yn credu yn arfer eu dylanwad yn gyffredinol.

Cymreig yn Ohio, a bod amryw yn derbyn y cyhoeddiad ‘ar gyfrif neillduol eich bod yn amddiffyn rhyddid cyffredinol,’ a’u bod wedi ‘rhoddi heibio gyhoeddiad arall, sef y ‘C___ll,’ yn sgil ei ‘ddiflasod’ yng nghyd-destun yr achos hwn.⁷⁹ Mae’r gohebydd yn cyfaddef iddo yntau fod yn ‘bleidiwr i’r Cyhoeddiad hwnnw, ond nis gallaf mwy tra ar y tir y mae yn sefyll arno yn awr,’ oherwydd ei fod yn ‘ddiameu’ ei fod yn cefnogi’r Gymdeithas Drefedigaethol. Rhestra cofiant William Rowlands y gwahanol gymdeithasau crefyddol, gwladgarol a dyngarol yr oedd golygydd y *Cyfaill* yn ‘bleidiwr gwresog’ iddynt ar ‘air a gweithred.’⁸⁰ Ond mae’r ffaith nad yw ei gofiant yn enwi unrhyw gymdeithas wrthgaethiwol yn siarad cyfrolau.

Er ei fod yn cyhoeddi gweithrediadau’r Gymdeithas Drefedigaethol a Gwrthgaethiwol mewn ymgais i broffesu golygyddiaeth niwtral, mae ei ganmoliaeth agored i’r Trefedigaethwyr yn dangos nad yw’n gwbl wrthrychol. Mae’n cael ei feirniadu hefyd am beidio â ‘llefaru yn eglur yn erbyn caethiwed,’ er bod ei egwyddorion yn ‘ddigon dealladwy,’ sy’n dangos fod carfan o Gymry America yn ffafrio blaengaredd Robert Everett yn y pwlpuad ac mewn print. Yn wir, fel y dengys y sylwadau uchod, mae’n bosibl fod nifer o Gymry America yn teimlo croesdynnu rhwng eu ffyddlondeb i’r ddau gyhoeddiad.⁸¹

⁷⁹ Achos Rhyddid a’r Cenhadwr (Thomas.D.Thomas, Pittsburg) - *Y Cenhadwr Americanaidd*, Mawrth 1844.

⁸⁰ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.296. “Y dystiolaeth a gawn gan frodyr anwyl, adnabyddus â Dr Rowlands ydyw ei fod yn barod i gydweithredu gyda phob sefydliad a ystyriai oedd yn tueddu i lesoli ei gyd-ddynion mewn gwybodaeth, moesoldeb, a chrefydd, ac yn un hawdd iawn i gydweithio ag ef” Ef oedd y ‘prif offeryn’ yn sefydlu cangen o’r Gymdeithas Feiblaidd Americanaidd yn ninas Efrog Newydd yn 1844, ymhlith mannau eraill, a bu’n llywydd arni tra roedd yn ymgartrefu yno. Fe’i gwnaed yn aelod oes o’r Gymdeithas Draethodol Americanaidd yn 1851, ac yn Gyfarwyddwr oes y Gymdeithas Feiblaidd Americanaidd yn 1852, sy’n dangos maint ei wasanaeth iddynt. Roedd yn ‘aelod defnyddiol’ o Gymdeithas Fuddiol yr Hen Frytaniaid a Chymdeithas Haelionus Dewi Sant. Roedd hefyd yn arwain dosbarth Beiblaidd yn Efrog Newydd, ac yn noddi’r Ysgol Sul drwy gyhoeddi llyfrau ar gyfer eu defnydd. Dywedir fod ganddo gadernid a golau yn ei bregeth ‘A wyt yn iach?’ ac ar y testun ‘Hwn a osododd Duw yn iawn’ yn Hanes Cymanfa Remsen yn 1838 pan oedd dadlau yn swydd Oneida am ‘Athrawiaeth yr Iawn.’ Mewn cymanfa arall, a ddisgrifir fel ‘cyfarfod pen Carmel’ pan y torrwyd y ddadl am yr athrawiaeth, dywedir iddo ennill llawer drwy beri cynnwrf yn y gynulleidfa drwy bregethu yn erbyn y Milleriaid. Hefyd gw. Howell, Llewelyn.D. (1860) *Traithawd ar ddechreuad a chynnydd y Cymry yn Utica a’i hamgylchoedd*. R.R.Meredith: Rome, t.14-7. Profodd y gynulleidfa dawelwch mawr ar ôl iddo bregethu ar y testun ‘Eithr am yr amserau a’r prydiau...’ am beryglon gwyro oddi ar yr athrawiaeth mewn cymanfa arall. Mewn eglwys ym Mhensylfania, sonnir fod rhywun wedi dod yno i hau syniadau’n groes i athrawiaeth y Methodistiaid a llwyddo i hudo rhai, ond eu bod wedi cywilyddio ar ôl clywed pregeth William Rowlands.

⁸¹ *Y Cenhadwr Americanaidd* e.e. Rhagfyr 1840, Hydref 1844. Yn ogystal, cyfrannodd Iorwerth nifer o gerddi ac erthyglau i’r *Cyfaill* yn amlinellu’r rhesymau dros ymuno a’r Gymdeithas Wrthgaethiwol yn ystod yr 1840au, a ysgogodd William Rowlands i’w herio dros burdeb yr athrawiaeth grefyddol o dan ffugenw yn 1845.

Mae'n debygol fod sylwadau o'r fath wedi ysgogi'r Methodistiaid fel corff, yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn, i ddatgan eu hanghymeradwyaeth o ddefnyddio crefydd i ddylanwadu'n wleidyddol. Roedd William Rowlands eisoes wedi annog darllenwyr y *Cyfaill* i ymwrthod â 'Gwrthgaethiwaeth Boliticaidd,' gan gyfeirio'n uniongyrchol at Gerrit Smith yn 1843. Roedd ei safiad personol ar y mater hefyd yn cyd-fynd ag ethos ei enwad, wrth i gymanfa'r Trefnyddion Calфинаidd yn Remsen ddatgan yn unfrydol nad oeddent 'fel Corff yn caniatáu i'r Gwrthgaethiwyr Politicaidd gael benthg ein capeli i gynal eu cyfarfodydd ynddynt.'⁸² Cynhwysai hyn holl gapeli y Methodistiaid Calфинаidd yn y dosbarth Gogledd-Ddwyreiniol i fynyddoedd yr Alleghenies, a gwmpasai diriogaeth gymharol eang:

*Dangoswyd ein bod mor wrthwynebol a neb i'r Gaethwasanaeth, ac y carem lwyr ryddhad y caethion gyda y buandra mwyaf, ond nas gallwn ganiatau y capeli a adeiladwyd i'r dyben o addoli Duw, i unrhyw blaid wladol a pholiticaidd, ac nas gallwn olygu yr ABOLISIONIAID presennol yn ddim amgen na phlaid boliticaidd.*⁸³

Mae'r dyfyniad hwn yn crisialu safiad personol William Rowlands fel Methodist ynghyd â chynrychioli teimladau rhai o Gymry America yn y cyfnod i'r dim.

Er bod y Cymry'n gyffredinol yn wrthwynebus i gaethwasanaeth, teimlai aelodau mwyaf ceidwadol y gwahanol enwadau fod y capel yn fan cysegredig ar gyfer addoliad, ac y byddai cynhyrfu'r aelodau yn niweidio'r efengyl. Mynegir hyn yn groyw iawn mewn erthygl yn y papur *Seren Oneida* (a gyhoeddwyd cyn etholiad 1844 i hybu achos y Chwigiaid), sy'n amlinellu amharodrwydd y Cymry i gysylltu'r capel â gwleidyddiaeth mewn unrhyw fodd.⁸⁴

Yn ogystal, ystyriai William Rowlands y Gymdeithas Wrthgaethiwol fel 'plaid boliticaidd' yn ei hanfod a oedd hefyd yn gysylltiedig â'r Blaid Rhyddid, ac ni chaniatâ'r athrawiaeth Fethodistaidd unrhyw ymyrryd â materion gwladol yn enw heddwch, sydd hefyd

⁸² Cymanfa Remsen - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1844; Davies, Hugh (1898) *Hanes Cymanfa Dwyreinbarth Pennsylvania 1845-1896*, Utica, t.36. Yma ceir cyfeiriad at 'gynhyrfwyr,' sy'n awgrymu ethos yr enwad o beidio â chynhyrfu'r dyfroedd, sydd i'r gwrthwyneb i'r Annibynwyr o dan law Everett, ac mae'n crisialu bwriad niwtral William Rowlands gyda'r *Cyfaill* o beidio â dadlau a gweithredu drwy gyfrwng dull mwy dirgel yr ysgrifbin.

⁸³ Cymanfa Remsen - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1844.

⁸⁴ Evans, Paul De Mund, *The Welsh in Oneida County*. Roedd D.E.Morris yn ddyn blaenllaw yn yr ardal. Ceir cyfeiriad moel at y cyhoeddiad yn 'Dosran y Golygydd' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1844.

yn adlais o'i bolisi golygyddol. Yn y cyfnod hwn, cyhuddwyd rhai gweinidogion o 'bregethu *politics* o'r pwlpudd' i ddylanwadu ar y gynulleidfa i ymuno â'r gymdeithas a rhoi eu pleidlais i'r Blaid Rhyddid mewn etholiad. Roedd Robert Everett yn enwedig wedi dioddef erledigaeth yn y capel a therfysg yn ystod yr addoliad, ac mae'n amlwg fod y Methodistiaid yn teimlo rheidrwydd i godi llais yn eu cymanfaoedd yn sgil pryder fod dylanwadu'n wleidyddol ymarferol yn tarfu ar yr orchwyl o ledaenu'r efengyl. Fel cymedrolwr a llywydd neu bregethwr gwadd yn y cymanfaoedd mewn gwahanol dreflannau Cymreig,⁸⁵ mae'n dra thebygol fod gan William Rowlands ran allweddol yn ffurfiad penderfyniadau o'r fath. Byddai ei weithgarwch gyda chymdeithasau ledled y wlad hefyd yn caniatáu iddo ddylanwadu ar rwydweithiau crefyddol mewn cylchoedd eang. Roedd y penderfyniadau hyn, fel y dangoswyd yn barod, yn adleisio egwyddor bwysig gan y cyfundeb a ddygwyd o Gymru wrth ymdrin â chwestiynau cymdeithasol a dinesig, yng ngeiriau Cymdeithasfa'r Bala yn 1831:

Nid ydym fel Corff o Grefyddwyr yn dewis ymyrraeth mewn un modd â phethau gwladol, ond annog pob distawrwydd a llwyddiant.⁸⁶

Ond nid oedd William Rowlands am anwybyddu'r caethion. Yn hytrach, dewisodd ddull mwy annuniongyrchol o weithredu drwy gyhoeddi cyfres o ysgrifau ffeithiol ar 'Gaethiwed Americanaidd' gan W. E. Ellis yn ystod 1844 ac 1845, ac roedd hynny'n sicrhau fod y pwnc yn cael sylw cyson yn y cyhoeddiad. Noda'r awdur fod lliaws o'i gyd-Gymry yn America yn cytuno fod caethwasanaeth yn drosedd yn erbyn hawliau dynol, ond fod y 'modd o unioni'r cam' yn parhau i fod yn destun dyrys iddynt. Er iddo golli cefnogaeth rhai am nad oedd yn 'llefaru yn eglur' yn erbyn caethwasanaeth, sicrha ei ddarllenwyr nad yw'n fodlon i'r cyhoeddiad 'dewi a son' ar y mater. Teimla fod ei gyd-genedl yn haeddu 'gwybodaeth o'r gwir ar y pwngc,' a chreda fod y *Cyfaill* yn 'gyfrwng teilwng o'r wybodaeth honno,' sy'n

⁸⁵ Ibid, t.278.

⁸⁶ Williams, Parchedig D.D., *Llawlyfr Hanes Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd*, t.165. Penderfyniad Cymdeithasfa y Bala, 1831.

golygu ei fod yn ymdrechu i ddarlunio realiti'r sefyllfa fel y cyfryw yn hytrach nag ailgylchu propaganda a oedd eisoes yn wybyddus i nifer.

Eto i gyd, mae'r ffaith i William Rowlands deimlo dyletswydd i ddiwallu syched y genedl am wybodaeth am y pwnc yn awgrymu nad yw'r *Cyfaill* yn rhoi darpariaeth ddigonol i drafod y mater, yn wahanol i'r *Cenhadwr* nad oedd prin rifyn ohono yn anwybyddu caethwasanaeth. Mae W. E. Ellis yn ei ysgrifau hefyd yn awgrymu y dylai William Rowlands arddel mwy o'i ddylanwad fel golygydd i ddarbwylo ei ddarllenwyr:

Gwn y dadleu rhai, nad ydyw yn amser cyfaddas i son am *Abolitionism*, pan y mae y byd ac eglwys yn berwi gan gynhwrf yn ei gylch. Atebaf mai, 'Tra mae yr haiarn yn boeth mae *taro*,' neu, os oes ymryson rhwng gwir a gau, deued pleidwyr y gwirionedd i'r maes. Pan fyddo y tân, yr agerdd, a'r peiriant ar waith, mae llywydd doeth yr agerlong, yn achub yr adeg gyda'r llyw, er cyfeirio y llestr yn iawn, i ochelyd y perygl a chyrhaedd y porthladd dymunol. Tithau Gyfaill doeth, nac aros i'r tân ddiffodd, i'r agerdd beidio, ac i'r peiriant lonyddu, rhag i 'Anwiredd agor ei safn,' ac i 'Wirionedd syrthio ar yr heol;' o herwydd atat ti yr edrych llawer o honom ni, am gyfarwyddyd.⁸⁷

Mae'r awdur yn pryderu fod ymlyniad y *Cyfaill* at yr athrawiaeth Fethodistaidd, y cyfeirir ati fel y 'Gwirionedd,' yn effeithio ar allu'r cyhoeddiad i brotestio'n amserol yn erbyn caethwasanaeth oherwydd ei ddymuniad i beidio ag amharu ar genhadaeth yr eglwysi. Mae'r defnydd o ddelweddau morwrol yn awgrymu dylanwad golygyddion y wasg gyfnodol yn lliwio barn gyhoeddus ar adeg mor dyngedfennol yn eu hanes. Eto i gyd, mae geiriau'r awdur ei fod yn 'gobeithio fod pob *Cymro* yn chwilio i'r mater' yn awgrymu fod golygydd y *Cyfaill* yn ceisio hybu ei ddarllenwyr i sylweddoli anghyfiawnder y drefn drostynt eu hunain, a'i benderfyniad i gyhoeddi'r ysgrifau yn ymgais i bortreadu gwir erchylltra'r gaethfasnach yn hytrach na phregethu'n uniongyrchol.

Mae'n amlwg fod cri W. E. Ellis wedi ei chlywed, wrth i Wm. J. Jones gyfansoddi penillion yn diolch am glywed hanes y caethion 'o'r *Cyfaill* gwiw,' gan ofyn i'w gefnogwyr ddefnyddio eu doniau llenyddol i ddiwygio'r drefn:

Gohebwy'r 'CYFAILL' cu,

⁸⁷ Caethiwed Americanaidd (W. E. Ellis) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1844.

O cynnorthwywch ni,
O! Gyda brys...⁸⁸

Byddai anogaeth i ddefnyddio'r ysgrifbin wrth fodd William Rowlands a gyhoeddodd ysgrif gan 'Carwr Rhyddid i Bob Lliw' yn dwyn y teitl eironig 'Y Gwrth-gaethiwedyddion yn pleidio caethiwed mewn cyfarfod cyhoeddus.' Gofynna'r awdur, sy'n arddel y math o ffugenw y byddai William Rowlands yn ei ddewis, am ran o'r 'misolyn gwerthfawr' gan fod 'achos gwirionedd a gonestrwydd' yn galw am amddiffyniad. Dywed mai pwrpas yr ysgrif yw dangos y dylai 'pleidwyr *rhagrithiol* rhyddid gael eu dangos ar gyhoedd...fel na chylch-arweinier y Cymry gyda phob awel dysgeidiaeth.' Ynndi mae'n collfarnu'r Blaid Rhyddid, neu'r 'Abolisioniaid' mewn enw, am 'wirioni yn nghylch Politicaidd bethau...yn gymaint eu trwst a neb,' ac am 'waeddi a bloeddio...yn lle rhesymu' yn y cyfarfod gwrthgaethiwol yng Nghapel Annibynwyr Utica, a oedd yn cynnwys nifer o weinidogion Cymreig.

Byrdwn yr ysgrif yn y bôn yw fod y cyfarfod wedi difenwi corff y Methodistiaid Calфинаidd drwy awgrymu fod y cyfundeb yng Nghymru ac America 'yn ddifater am ryddhad y caethion,' gan fod cymanfa'r corff ar un adeg wedi gwrthod arwyddo deiseb i'r Senedd i'r diben hwn. Sicrha'r darllenwyr nad oes unrhyw Fethodist ledled y byd yn cefnogi'r drefn, ond y dylid ei diddymu yn ôl eu hathrawiaeth hwy yn hytrach na dilyn dull '*heb iawn*' y Gwrthgaethiwedyddion:

Ond, os nad oedd, ac os nad yw y Cyfundeb Methodistaidd yn dewis ymyrraeth ag achosion Politicaidd, Paham na chant ryddid i weithredu yn ol eu cydwybodau? A ydyw rhyddid dynion duon yn *fwy* gwerthfawr na'r eiddo dynion gwynion?...Ac os na oddefant eu dystewi, rhaid eu herlid, a dadguddio cyfrinach eu Cymanfaoedd, pe b' ai o ryw wahaniaeth ar g'oedd cynnulleidfaoedd cymysgedig? A ydyw rhyddid corfforol yn fwy i'w ddymuno na rhyddid meddwl a chydwybod? Bloeddir yn groch am ryddid y caethion, ac ar yr un anadl am dân o'r nefoedd i losgi y rhai na allant o gydwybod gyd-weithredu a hwynt! Och! Ai dyna fel y mae'r Gwrth-gaethiwyr yn deall natur rhyddid?... Nid bloeddio rhyddid, a gwneyd sŵn wban a chrio dros y caethion, a brawf gariad at ryddid, ond 'wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt;' buan y canfyddir dannedd y blaidd dan groen oen.⁸⁹

⁸⁸ Caethiwed Americanaidd: Llinellau a gyfansoddwyd wedi darllen Traethawd Mr W.E.Ellis (Wm. J. Jones) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1844.

⁸⁹ Y Gwrthgaethiwedyddion (Carwr Rhyddid i Bob Lliw) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1844.

Gan fod safiad gwleidyddol golygyddion y wasg yn deillio i raddau helaeth o athrawiaeth eu henwad, mae unrhyw farn groes yn ymddangos fel ymosodiad personol ar y corff, sy'n egluro'r anghydfod rhwng y cyhoeddiadau enwadol – hyd yn oed ar faterion gwleidyddol. Cynghorir yr 'Abolisioniaid' i adael llonydd i'r sawl sy'n ddigon 'goddefol i gael rhyddid cydwybod i weithredu fel y barnont oreu,' gan gyffelybu anghymeradwyaeth y Gwrthgaethiwedyddion o benderfyniadau cymanfa'r Methodistiaid i'r 'Gag Law'⁹⁰ a basiwyd gan y Senedd yn rhwystro rhyddid barn. Mae ailadrodd y gair 'rhyddid' yn cyffwrdd â sawl cyd-destun, wrth i'r cyfeiriad gyffelybu'r ymgyrch dros ryddid â hawl yr unigolyn i fynegi barn yn rhydd - adlais o un o'r themâu a nodweddi ymgyrch William Rowlands o'r dechrau.⁹¹

Roedd y syniadaeth hon yn deillio o bwyslais y Diwygiad Methodistiaidd ar hunanddisgyblaeth, ac felly gweithredai'r arferiad o hunan-holi ar lefel breifat, yn 'unigolygyddol yn hytrach nag yn gymdeithasol.' Trwy apelio at y dyn cyffredin, fe'i hanogwyd i ffurfio ei benderfyniadau mewn cymuned â Duw ac mewn tawelwch drwy 'ymson a'i gydwybod,' ac felly dylai pob un gael ei argyhoeddi'n fewnol o'i ran i newid anghyfiawnderau.⁹² Credid felly fod newid y gymdeithas yn broses raddol a ddeilliai'n naturiol o ledaenu'r Gair, yn hytrach na chwyldroi'r gymdeithas mewn byr amser.⁹³ Dyma un o'r prif wahaniaethau barn a rwygai undod carfanau crefyddol ymfudwyr o wahanol genhedloedd yn y cyfnod yn America.⁹⁴ Arweinwyd William Rowlands yn reddfoll felly at y

⁹⁰ Pasiwyd y 'Gag-Law' gan y llywodraeth yn 1836, ac ni ddychwelodd y rhyddid i leisio barn tan 1844. Cyhuddir yr Abolisioniaid o roi 'gag-law' ar enau cymanfaoedd y Methodistiaid.

⁹¹ Dywedodd Tocqueville yn 1831 nad oedd rhyddid barn yn America, ac roedd William Rowlands yn adleisio'r un gri oherwydd fod ei ddaliadau yn groes graen i feddylfryd y System Newydd.

⁹² Roberts, Parchedig Gomer Morgan (1973) *Hanes Methodistiaeth Galffinaidd Cymru: cyfrol 1, Y Deffroad Mawr*, Llyfrfa'r Methodistiaid Calffinaidd: Caernarfon. Hefyd gw. George, Parchedig Stephen. *Ein Heglwys: ei hystyr, ei hanes a'i bywyd: Llyfr rhodd i gymunwyr ieuanc*, Llyfrfa'r Methodistiaid Calffinaidd: Caernarfon.

⁹³ Roberts, Parchedig Gomer Morgan (1978) *Hanes Methodistiaeth Galffinaidd Cymru: cyfrol 2, Cynnydd y Corff*, Llyfrfa'r Methodistiaid Calffinaidd; Caernarfon; *Hanes cyfansoddiad, rheolau dysgyblaethol yn nghyda Chyffes Ffydd y corph o Fethodistiaid Calffinaidd yn Nghymru a gytunwyd arnynt yn Nghymdeithasfaoedd Aberystwyth a Bala, 1823*, (1852) Argraffiad Americanaidd 1af, E.E.Roberts: Utica.

⁹⁴ Bodnar, John (1987) *Transplanted: A History of Immigrants in Urban America*, Indiana University Press, t.198.

cyfrwng llenyddol fel modd o dargedu meddyliau unigolion o dan yr wyneb yn hytrach na 'bloeddio' yn gyhoeddus. Hynny, drwy addysgu a meithrin trafodaeth, a roddai'r 'Gwir Ryddid' i benderfynu ar y dull doethaf o weithredu.

Mae'n amlwg felly dulliau o weithredu oedd y prif bwnc a rwygai heddwch y cylchoedd crefyddol, a bod seiliau athrawiaethol ac enwadol i'r cyfan. Y sefyllfa gymdeithasol oedd yn ysgogi crefydd Robert Everett a'i ddilynwyr a'u hawydd angerddol i ddileu caethwasanaeth, ac o'r herwydd dyletswydd y Cristion oedd defnyddio cyfuniad o foddion crefyddol ac ymarferol i'r diben. Ar y llaw arall, Cyffes Ffydd y Methodistiaid oedd manifesto William Rowlands, a dilynai ei arweiniad wrth ymdrin â phob mater. Gan mai'r byd ysbrydol oedd ei brif gonsyrn, bod yn ddefnyddiol i achub eneidiau dynion oedd byrdwn William Rowlands yn ei 'ddyddlyfr' a'i bregethau. Os mai William Rowlands yw awdur yr ysgrif hon, dengys unwaith eto ei fod yn camu i'r adwy pan fo ymosodiad uniongyrchol ar ei enwad.

Ceir ysgrif arall o dan ffugenw ddeufis yn ddiweddarach, 'Carwr Uniondeb,' sy'n adleisio arddull William Rowlands ac yn dyfynnu gwrthwynebiad y gwleidydd J.Q.Adams i 'fesurau Gwrthgaethiwawl (*Abolition*) y dydd.' Tanlinella'r awdur ei gred ddiysgog mewn diddymu caethwasanaeth, ond dywed na fu'n aelod o unrhyw gymdeithas wrthgaethiwol na'r Blaidd Rhyddid gan ei fod yn credu na ddylid newid cyfreithiau heb 'gydsyniad y bobl.' Ystyria'r awdur fod newid y drefn ar gais un garfan yn groes i ddymuniad y bobl, ac yn 'drais ar egwyddorion Cyffrediniaeth,' sydd, o bosibl, yn adleisio cred William Rowlands.

(vi) ‘Pa le mae fy nghyfaill?’

Parhai'r gynnu enwadol i danio eu sen o bryd i'w gilydd, a gwnaed William Rowlands yn gocyn hitio oherwydd ei bolisi o dawedogrwydd ymddangosiadol ar faterion gwleidyddol yn y *Cyfaill*. O'i gymharu â rhaeadr fyrlymus Everett yn y pwlpuad ac yn y wasg, fe'i beirniadwyd am ei dawedogrwydd gan gyfrannwr i'r *Cenhadwr*, gan ei fod yn gyfystyr bron â llwfrdra yn yr ymgyrch:

Pa le mae fy nghyfaill Rowlands sydd yn cyhoeddi ‘Cyfaill o'r Hen Wlad?’ A ydyw y Cyfaill ddim i fod yn Gyfaill i iawnderau dynion, a Chyfaill i Blaid Rhyddid?⁹⁵

Yn wir, achosodd ei ddaliadau golygyddol gythrwfl tanlyd rhwng y cyhoeddiadau enwadol Cymreig, a hynny oherwydd un ysgrif. Anfonodd Gwilym Hiraethog ‘Anerchiad at y Cymry yn America,’ anerchiad at y tri misolyn crefyddol Cymraeg yn America yn pledio rhyddid, ond y *Cenhadwr* a'r *Seren* yn unig a'i cyhoeddodd. Cododd hynny amheuan ynghylch cymhellion William Rowlands fel golygydd.⁹⁶ Ymddengys fod William Rowlands felly, yn dewis peidio â chydymffurfio â'r ddau gyhoeddiad arall, ac nad oedd yn ofni torri ei gwys ei hun wrth ddethol deunydd i'r *Cyfaill*.

Ac yntau'n un o lenorion mwyaf cydnabyddedig Cymru a golygydd wythnosolyn *Yr Amserau* ar y pryd, roedd peidio â chyhoeddi ysgrif wrthgaethiwol ffigwr dylanwadol o'r hen wlad fel Gwilym Hiraethog yn weithred feiddgar ar ran William Rowlands. Wedi'r cwbl, roedd eisoes wedi cyhoeddi gweithrediadau cyfarfodydd gwrthgaethiwol a oedd yn groes i'w egwyddorion ei hun, ac a oedd yn brawf o'i allu i anrhydeddu ei bolisi niwtral. Y tro hwn ysywaeth, ni ellid cuddio y tu ôl i ffug-enwau a bu'n rhaid i'r golygydd amddiffyn ei benderfyniad dros beidio â dilyn trywydd y cyhoeddiadau eraill, er gwaethaf taerineb Everett fod yr ysgrif yn deilwng o'i hargraffu ‘mewn llythyrenau o aur dilin.’

⁹⁵ Llythyr Mathias Philips – *Y Cenhadwr Americanaidd*, Tachwedd 1845.

⁹⁶ Hunter, Jerry, *I Ddeffro Ysbryd y Wlad*. Ceir dadansoddiad llawn ym mhennod 8.

Derbyniad digon cymysg a gafodd anerchiad Gwilym Hiraethog gan nifer o darllenwyr y *Seren*, wrth i un darlennydd deimlo ‘arswyd anghyffredinol’ fod gwleidyddiaeth yn ‘distrywio heddwch yn eglwys Dduw.’⁹⁷ Mae’n amlwg fod y mater gwleidyddol yn creu rhaniadau yn yr eglwysi, wrth i’r gohebydd gyfeirio at ‘y dosparth hyny a arferent fygythiadau cyhoedd ar bawb nad ydynt yn mabwysiadu eu golygiadau cyhoedd hwy o barth dilead caethiwed,’⁹⁸ union gri William Rowlands ers blynyddoedd. Serch hynny, cyhoeddodd golygydd y *Cenhadwr* ysgrif atodol i ysgrif Gwilym Hiraethog yn atgyfnerthu ei ble, ac amddiffynnodd golygydd y *Seren* ei benderfyniad i’w chyhoeddi yn sgil teilyngdod yr ysgrif a’r awydd i roi’r cyfle i’r darllenwyr ‘farnu drostynt eu hunain.’

Mae’n rhyfedd fod William Rowlands wedi gwrthod cynnwys ysgrif Gwilym Hiraethog o ystyried y llu o awgrymiadau blaenorol ei fod yn arddel yr un egwyddor â golygydd y *Seren*, ynghyd â’i bwyslais cyson ar gynnal fforwm agored i amrywiaeth o farnau. Fel arfer, byddai’n cyhoeddi ysgrifau o argyhoeddiad gwahanol iddo ef ei hun er mwyn tegwch, gan ddefnyddio’i gyfraniadau ei hun fel awdur i lastwreiddio eu dylanwad. Fodd bynnag, cadwai ei hawl i wrthod ysgrifau o natur ddifriol, ac felly a oedd yn ei gwrthod am y rhesymau cywir?

Mewn amddiffyniad golygyddol dros beidio â chynnwys yr anerchiad yn y *Cyfaill*, dywedir ei fod yn ‘arogli mor drwm o *ysbryd caethiwed* fel mai rhaid oedd ei chyfrif yn mhlith y gwrthodedigion.’ A oedd yr ysgrif hon felly o eiddo Gwilym Hiraethog mor drawiadol o eithafol nes na feiddiai ei chyhoeddi, neu a oedd rheswm arall yn bod?

Nid oes amheuaeth nad oedd William Rowlands yn daer dros ddiddymu caethwasanaeth, a dywed mai ei fwriad gwreiddiol oedd cyhoeddi ‘darluniadau bywiog y gwr hyawdl o orwychedd RHYDDID a ffeidd-dra CAETHIWED mewn llythyrenau o aur.’ Fodd bynnag, camwedd cyntaf Gwilym Hiraethog yn ei dyb ef oedd myn ati i ‘gollfarnu cyn profi,’

⁹⁷ Anerchiad y Pch. W. Rees ar gaethwasiaeth (L. James) - *Y Seren Orllewinol*, Gorffennaf 1845. Mae’r golygydd yn ychwanegu mewn cromfachau fod darllenwyr eraill wedi ymateb yn yr un modd.

⁹⁸ Ibid.

un o gas egwyddorion William Rowlands, gan mai dim ond ‘*ymresymwr*’ a gaiff groeso yng ngholofn y dadleuon. Ond mae’n datgan yn agored mai’r hyn a’i hataliodd rhag cyhoeddi’r ysgrif yw fod Gwilym Hiraethog yn beirniadu ‘egwyddorion prydfert haf yr efengyl’

Fethodistaidd sydd mor annwyl iddo:

ymddarostwng i bob dynol ordinhad – ymddwyn megys ‘pererinion a dyeithriaid,’ a dyiolch am y fraint o gael ‘byw yn llonydd,’ ac heb ymyraeth â llywod-ddysg gwladol.⁹⁹

Mae’n ymddangos, unwaith eto felly, mai gwarchod enw da’r cyfundeb sy’n atal William Rowlands rhag cyhoeddi’r ysgrif yn erbyn caethwasanaeth, a dengys hynny drachefn ei fod yn dyrchafu ei grefydd yn uwch nag unrhyw fater gwleidyddol. Yr hyn sydd wedi ei gorddi’n fwy na dim yw bod Gwilym Hiraethog yn galw’r garfan Galfinaidd hon yn rhagrithwyr ‘am eu bod yn ystyried pregethu yr Efengyl yn gymhwysach i’r Sabboth, na thaeru yn nghylch egwyddorion y *Whigs*, *Locofocos*, ac *Abolitionists*,’ a chan fod Gwilym Hiraethog o’r farn fod dyletswydd gymdeithasol ar ysgwyddau’r Cristion. Ateba golygydd y *Cyfaill* fod y cyhoeddiad yn pleidio rhyddid cyffredinol, ‘nid naill-ochrog...mewn llythyren ac ysbryd drwy y byd,’ ond ni all gymeradwyo hynny ar draul dysgeidiaeth grefyddol. Pwysleisia ei fod yn gweddïo am ryddhau pob caethddyn ledled y byd ac yn ‘barod bob amser i wneyd yr hyn a allom,’ ond ‘mewn llwybr cydunawl ag egwyddorion yr Efengyl’ yn unig y gweithreda:

...pell oddiwrthym fyddo gwaeddi Rhyddid! RHYDDID! RHYDDID!!! i’r dyn du, ac â’r un anadl am dân o’r nefoedd i ddifa pawb na dderbyniont ein dysgeidiaeth ni. Mae y Cyfaill, fel y gwyr ei ddarllenwyr, wedi bod ac yn parhau i fod, yn rhydd i ymresymiaeth Efengylaidd am y llwybr goreu i amcanu at ryddid caethion y Talaethau Deheuawl, yr hyn yw y ddadl yn unig yn mhlith y Cymry; ni fu, ac ni fydd, pa un a yw caethiwed yn ddrwg neu beidio erioed yn ddadl, ond pa foddion ydynt y goreu i gael gwared o’r drwg yw y ddadl.¹⁰⁰

⁹⁹ Abolition, Dosran y Golygydd - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Mehefin 1845.

¹⁰⁰ Ibid. Hefyd gw. Jones, Maldwyn A. (1985) ‘Welsh Americans and the anti-slavery movement in the United States’, *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, t.117. Cyhoeddwyd llythyr gan awdur a’I geilw ei hun yn ‘Gelyn Rhyddid’ mewn rhifyn o *Seren Oneida* ym mis Ebrill 1845, a oedd yn cynghori Gwilym Hiraethog i fynd i’r afael â phechodau a oedd o’i gwmpas yn hytrach nag ymhel â materion gwlad arall. Er nad oes tystiolaeth i’w gefnogi, mae’n codi’r cwestiwn ai William Rowlands oedd yr awdur hwn.

Mae'r datganiad yn cadarnhau heb amheuaeth ei fod yn erbyn caethwasanaeth, ond yn gwrthwynebu dulliau'r Gwrthgaethiwedyddion ar seiliau crefyddol.

Mae'n bosibl hefyd fod cyd-destun pellach i'r ddadl, gan fod Robert Everett wedi cyhoeddi llythyr gan Gwilym Hiraethog at y *Dysgedydd*, cyfnodolyn yr Annibynwyr yng Nghymru, fis yn ddiweddarach a oedd yn collfarnu William Rowlands.¹⁰¹ Mae golygydd y *Cenhadwr* wedi ei 'ddolurio' gan ysgrif yn y *Cyfaill* a oedd wedi ei hail-argraffu o'r *Drysorfa*, cylchgrawn y Methodistiaid yng Nghymru, yn honni fod cofiant y pregethwr adnabyddus, Williams o'r Wern, yn datgan ei fod wedi 'cyffesu drygedd y System Newydd' ar ei wely angau. Mynega Gwilym Hiraethog, awdur y cofiant, dystiolaeth i'r gwrthwyneb mewn ysgrif yn condemnio gweithredoedd golygyddol William Rowlands, a'i fod yn ofidus ganddo am syniadau Uchel-Galfinaidd golygydd y *Cyfaill*.¹⁰²

Mae'n arwyddocaol fod William Rowlands wedi cyhoeddi'r ysgrif yn y *Cyfaill* gyda nodyn golygyddol yn tynnu sylw'r darllenwyr ati, sy'n awgrymu fod ystyriaethau athrawiaethol yn gefnlen i'r frwydr wleidyddol ar dudalennau'r cyhoeddiadau. Yn fwy na hynny, defnyddir cyhoeddiadau'r hen wlad fel carreg ateb wrth i Gwilym Hiraethog ofyn i olygydd y *Cenhadwr* gyhoeddi ei ysgrif, fel ag y gwnaethai'r *Cyfaill* gyda'i chwaer yng Nghymru, sy'n awgrymu fod y diwylliant print trawsatlantig yn cefnogi ei gilydd ar linellau enwadol.

Ychwanegwyd ysgrif arall i faes yr ymrafael gan Morris Roberts, un o gyfeillion Robert Everett. Er ei fod yn gyn-Fethodist, roedd William Rowlands wedi codi ei wrychyn, fel y gwelir mewn llythyr i'r *Cenhadwr*. Cyflwyna feirniadaeth finiog yn erbyn golygydd y

¹⁰¹ Y *Cyfaill Americanaidd* a'r *Drysorfa* (W.Rees, Liverpool) - *Y Cenhadwr Americanaidd*, Gorffennaf 1845. Gresyna Gwilym Hiraethog fod William Rowlands wedi cymryd sylw o'r 'ysgrif gampus-wael hon,' ac y byddai 'unrhyw Olygydd o dosturi at yr ysgrifenydd, a gofal am anrhydedd ei Gyhoeddiad, yn peri i'r tân arfer ei ddylanwad arni er mwyn y naill a'r llall.'

¹⁰² Williams, Ioan (2000) Gwilym Hiraethog (William Rees 1802-83), Williams, Ioan (1989) *Capel a Chomin: Astudiaeth o Ffugchwedlau y pedwar llenor Fictoriaidd*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.48-69. Atega hyn ddadl Ioan Williams fod Gwilym Hiraethog wedi mabwysiadu'r Galfiniaeth gymedrol newydd a oedd yn effeithio ar ei ddaliadau cymdeithasol a gwleidyddol.

Cyfaill am ei ysgrifau amddiffynnol a oedd yn ‘cynwys cymaint o gamsyniadau, neu gamgymeriadau bwriadol neu anfwriadol.’¹⁰³ Gresyna fod William Rowlands wedi ymddwyn yn ‘ochrog’ ac ‘annheg’ drwy gymryd ymaith hawl ei ddarllenwyr i farnu teilyngdod yr anerchiad, a dywed fod felly’n ‘camsynied am dano ei hun ac egwyddor ei gyhoeddiad’ o bleidio rhyddid cyffredinol:

...defnyddia y cyfleusdra yna hefyd i ganmol ei hun a’i Fisolyn, fel gorwych bleidiwr rhyddid, - seintioli egwyddor gollfarnedig eisoes, gan Arglwydd y Sabboth, - a dangos ei hun yn ffuantwr ymholgar i achosion Eglwysi, gan honi ei fod yn gwybod y taeru sydd ynddynt ar y Sabbothau yn lle pregethu yr Efengyl – ac yn y diwedd, heb wybod testyn y ddad!¹⁰⁴

Ymddengys iddo ef fod William Rowlands yn dweud na ddylid ‘dylanwadu dim er cael diwygiad a gwellhad mewn llywodraeth gwladol,’ ond iddo ef a Robert Everett a’u tebyg, roedd cysylltiad cryf rhwng Cristnogaeth a’r ymgyrch wrthgaethiwol yn wyneb barnedigaeth Duw, ‘rhag i dân o’r nef ddifa ein gwlad euog.’ I’r gwrthwyneb, teimla William Rowlands fod yr enwad yn cael ei erlid ar sail eu gwahaniaeth athrawiaethol, a ddatblygodd yn ymrafael rhwng y ddau gorff wrth i aelodau amddiffyn William Rowlands:

Anwyl frawd, Peidiwch a thori eich calon er fod y ‘Parchedigion’ yn ymosod mor llidiog arnoch yn y Cenhadwr am fis Gorphenaf. Trwy ras Duw, fe ddichon y gellwch sefyll ergydion y Pch Morris Roberts, yn ysgrifenu o dan addysg a nawdd y gwr mwyn Mr RE... Hyderwyf y gwna y Methodistiaid ymddwyn yn gall, a pheidio a chymeryd eu hudo gan neb, ond y byddant yn parhau i ddiolch am y fraint o gael byw yn llonydd.¹⁰⁵

Diolcha William Rowlands am gydymdeimlad ei gyfeillion, gan grisialu ei olygon am y

Gwrthgaethiwedyddion:

Am bwngc yr Abolisioniad, ein bwriad yw ysgrifenu ein meddwl arno yn onest bryd bynag y delo dan ein sylw – dyoddef yr erledigaeth, a pheidio amrafaelio hyd ag a allom. Yr ydym yn meddwl yr amrysonent hwythau lai pe bai mwy o’u serch ar y ‘pethau sydd uchod,’ a llai arnynt eu hunain. Yr ydym, meddyliem, o galon yn teimlo dros y caeth, ond nid ydym yn gallu gweled hyd yn hyn, fod eu mesurau hwy wedi bod, nac yn debyg o fod, yn un lleshad iddo, ac y mae yn sicr nad yw eu hysbryd wrth

¹⁰³ Amddiffyniad i ‘Anerchiad at y Cymry’ yn erbyn ysgrif Golygydd y *Cyfaill* (Morris Roberts) - *Y Cenhadwr Americanaidd*, Gorffennaf 1845.

¹⁰⁴ Ibid.

¹⁰⁵ Dosran y Golygydd: Byw yn Llonydd (H) - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Awst 1845.

bleidio eu mesurau, yn tueddu i wellhau dim arnynt, nag o ennill dynion difrifol i'w cynnorthwyo.¹⁰⁶

Mae'n amlwg felly fod ei weithredoedd gwleidyddol, crefyddol a golygyddol yn gorgyffwrdd mewn plethwaith ideolegol sydd wedi ei wreiddio yng nghred sylfaenol y Methodistiaid y dylid osgoi unrhyw aflonyddwch er mwyn canolbwyntio ar grefydd. Mae'n atgoffa ei ddarllenwyr yn gynnil ar ddiwedd y flwyddyn nad oes gan y *Cyfaill* 'unrhyw gymdeithas boliticaidd na chrefyddol i'n digolledu' fel 'anturiaeth bersonol,' sef ergyd i Robert Everett a oedd yn denu cefnogaeth y Gwrthgaethiwedyddion.¹⁰⁷ Er iddo gyfaddef fod gan y cyhoeddiad 'amryw o wrthwynebwyr ar y maes a llawer o elynion,' mae'n hyderu fod ei egwyddorion adnabyddus yn dderbyniol gan 'luaws mawr o'r Cymry yn y wlad yma.'

(vii) 'Wele o'r diwedd esgynfwrdd': Carreg filltir diwedd yr 1840au.

Er gwaethaf y feirniadaeth a ddioddefodd William Rowlands am beidio â chyhoeddi ysgrif Gwilym Hiraethog, mae'n gwneud yr un math o benderfyniad golygyddol eto yn 1847. Mae'n ddadlennol ei fod yn gwrthod ysgrif sy'n beirniadu sylwadau gwleidyddol a wnaed ganddo yn rhifyn mis Chwefror o'r *Cyfaill*:

Credym fod barn dynion deallus yn y Taleithiau Gogleddol yn benderfynol ac unfrydawl ar yr achos, sef yn ei herbyn; a buasai hyny wedi ei gyrrhaedd er ys blynyddoedd yn ol, a hyny gyda chydysyniad y Talaethau Caethion, oni buasai gweithrediadau cynhyrfus, cableddus a theyrnfradwrus yr Abolisioniaid Politicaidd.¹⁰⁸

Fe'i cyhuddir o enllibio'r 'Abolisioniaid,' gan orfodi'r awdur gwrthodedig i droi at y *Cenhadwr* a'r *Seren*, a pheri iddo gwestiynu integriti golygyddol y *Cyfaill*:

Diolch Syr, mai nid wrth wregys Cyhoeddwr y *Cyfaill* yr hongia agoriadau y Wasg.¹⁰⁹

¹⁰⁶ Ibid.

¹⁰⁷ Dosran y Golygydd: y *Cyfaill* am 1846 - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1845.

¹⁰⁸ Gwrthgaethiwaeth Politicaidd – At Olygydd y *Cyfaill* (Richard.T.Jones) - *Y Cenhadwr Americanaidd* a'r *Seren Orllewinol*, Mehefin 1847.

¹⁰⁹ Ibid.

Fel y gwnaethai yn achos ysgrif Gwilym Hiraethog, fe ymddengys ei fod wedi cefnu ar ei ymrwymiad i gynnal fforwm agored unwaith eto yn wyneb bygythiad i enw da'r cyfundeb.

Ond cymharol dawel fu'r dadlau o natur wleidyddol yn y *Cyfaill* ar ôl 1845 hyd nes yr atgyfodwyd pwnc caethwasanaeth unwaith eto yn 1848 gan W. E. Ellis, awdur yr ysgrifau ar gaethiwed yn ystod 1844-45. Anfona'r ysgrif mewn ymgais i 'leihau neu ddi-ddymu' rhagfarn y Cymry yn erbyn y gwrthgaethiwedyddion ac i herio'r cysyniad eu bod yn 'ddinystyr ar wlad ac eglwys,' yn sgil cyhuddiad mewn rhifyn blaenorol o'r *Cyfaill* fod y '*Gwrthgaethwyr* yn *Wrth-Sabbothwyr*' ac yn erbyn y Beibl.¹¹⁰

Ni all William Rowlands gadw ei bellter o'r ddadl hon oherwydd ei ymlyniad i'r ymgyrch yn erbyn caethwasanaeth, ac mae ei eiriau'n hynod ddadlennol am ei deimladau at y Gwrthgaethiwedyddion:

Rhoisom le i'r llythyr blaenorol, er ei fod, nid yn unig o duedd ddadleugar, eithr hefyd yn beiddio dadl, fel na'n cyhudder o wrthwynebu holl amcanion yr Abolisioniaid; yr ydym yn eu cymeradwyo, can belled ag y gweithredant o blaid rhyddhad y caeth. Ond eu hymdrechion i ddinystrio pob ordinhad, dynol a Dwyfol, nis gallwn eu cymeradwyo o gydwylod.¹¹¹

Tra oedd y Gwrthgaethiwedyddion yn credu fod angen addysgu'r werin mewn materion gwleidyddol ar y Sul, credai William Rowlands a'i debyg fod y diwrnod wedi ei gysegru ar gyfer gwasanaethu Duw yn unig.¹¹² Er ei fod yn gwrthwynebu caethwasanaeth ar sail foesol, byddai defnyddio'r pwlpudd i ddibenion gwleidyddol yn amharu ar drosglwyddo'r ddysgeidiaeth yr oedd mor daer am ei gwarchod. Pery unrhyw fygythiad i burdeb yr efengyl ei fod yn mentro o'r cysgodion golygyddol ar unwaith, fel y gwelwyd yn y cyd-destun enwadol. Credai William Rowlands o hyd yng ngrym yr efengyl i wrthweithio effeithiau'r gyfundrefn annynol, ac yn ôl ei harweiniad hi yn unig y mae'n fodlon gweithredu:

¹¹⁰ Llythyr W.E.Ellis – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1848. Roedd yn hysbys fod y *Liberator*, organ y Gwrthgaethiwyr wedi galw cymansa 'Wrth-Sabbothol' ar alwad y radicalydd Garrison, ac eraill, 'y rhai nid ydynt yn credu fod cadw y Sabboth yn ddyledswydd dan oruchwyliaeth yr Efengyl.' Pwysleisia'r awdur mai cyfran fechan o'r Gwrthgaethiwyr sydd hefyd yn 'Wrth-Sabbothwyr,' gan fod y Cymry yn gyffredinol yn parchu'r Sul, ac ni ddylid felly gondemnio'r garfan i gyd oherwydd lleiafrif 'anghyfiawn.'

¹¹¹ Sylw y Golygydd ar lythyr W. E. Ellis – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1848.

¹¹² Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.320 - Daniel.H.Roberts, Efrog Newydd.

Mae genym bob parch gweddus i deimladau cynnes ein hanwyl frawd dros y caethion, ond, efallai na fyddai yn niweid iddo yntau wyllo rhag i'w deimladau cynnes ei arwain, fel y gwnaethant lawer o'i flaen, i 'ieuo yn anghymarus gyda'r rhai digred.' Yr ydym ni yn ymddiried i arfau milwriaeth yr Efengyl, y rhai nad ydynt gnawdol, i fwrw cestyll i'r llawr – pob sefydliad annuwiol, er iddynt feddu cadernid cestyll, ac yn eu plith y gaethwasanaeth Americanaidd; ac yn barod i ddefnyddio pob moddion o fewn ein cyrhaedd, unol ag egwyddorion yr Efengyl, tuag at hyny.¹¹³

Mae'r ffaith iddo gyhoeddi gweithrediadau'r Gymdeithas Drefedigaethol yn yr adran newyddion ddwywaith yn ystod y flwyddyn honno hefyd yn awgrymu ei fod yn parhau i'w harddel ar yr un seiliau ag y proffesodd yn 1839:

Ac er yr edrych arni yn gilwgus gan wrthgaethwyr politicaidd, daw pob dyngarwr didwyll i'w mynwesu yn anwyl yn y man.¹¹⁴

Fodd bynnag, er iddo barhau i broffesu egwyddorion a oedd erbyn hyn yn dra amlwg mewn perthynas â'r Gwrthgaethiwedyddion, mae 1848 yn garreg filltir bwysig yng ngolygyddiaeth William Rowlands. Roedd ei safbwynt gwleidyddol yng nghyd-destun crefydd yn wybyddus, ond dyma'r tro cyntaf yn hanes y *Cyfaill* iddo fentro dangos cefnogaeth agored i blaid wleidyddol. Cyn hyn, glynai'n daer at ei bolisi diduedd o beidio â ffafrio plaid wleidyddol, ac ofer fyddai dyfalu natur ei deyrngarwch pleidiol – os meddai un o gwbl - oherwydd prinder tystiolaeth, hyd yn oed yn ystod y blynyddoedd etholiadol 1840 ac 1844.

Yn yr adran newyddion yn 1848 - sydd fel arfer yn cyflwyno gweithredoedd llywodraethol yn wrthrychol - mae ei olygon ar gaethwasanaeth yn peri iddo ddatgan ei fod yn 'llawn bryd rhanu' dinasyddion yr Unol Daleithiau yn ddwy blaid ar y mater. Ychwanega fod 'plaid boliticaidd newydd' wedi ei ffurfio, sef 'Pleidwyr Tiriogaeth Rydd' a oedd yn gwrthwynebu ehangu tiriogaeth caethwasanaeth, y disgwylir iddi fod yn 'aderyn cryf yn fuan.'¹¹⁵ Mewn gwrthgyferbyniad llwyr i'w ymlyniad di-wyro at safiad niwtral ar ddechrau'r *Cyfaill*, mae'n datgan yn agored ei gefnogaeth i'r blaid yn 1848:

¹¹³ Sylw y Golygydd ar lythyr W. E. Ellis – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1848.

¹¹⁴ *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1848 a Chwefror 1848.

¹¹⁵ Hanesiaeth Gartrefol - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1848.

Er nad ydym yn cymeryd arnom brophwydo, ein dymuniad a'n dysgwyliad yw, gweled y blaid yma mewn goruchafiaeth, wedi llyngcu pob plaid arall iddi ei hun. Mae yn llawn bryd cyfyngu y gaethwasanaeth i'r Taleithiau lle y mae... ac yr ydym yn dra sicr y cytuna pob Cymro o blaid hyn...Bydd yn hawdd deall y gwahaniaeth rhwng y pleidiau politicaidd o hyn allan – y naill dros gyfyngu y gaethwasanaeth, a'r lleill dros ei helaethiad neu o leiaf ei adael yn amheus. Nid ydym heb ofni y canlyniadau, eto da genym weled pwngc y gaethwasanaeth wedi ei ddwyn i ryw le yn mha un y geill pawb ddangos ei ochr.¹¹⁶

Mae'r ffaith fod William Rowlands yn cyhoeddi egwyddorion y 'Blaid Rydd' fis yn ddiweddarach hefyd yn atgyfnerthu'r dystiolaeth ei fod erbyn hyn yn barod i 'ddangos ei ochr,' sy'n brawf o drobwynt yn ei wleidyddiaeth a'i olygyddiaeth:

Llwyddiant iddynt...Mae'n hyfryd genym ddeall, fod holl wrthwynebwyr caethwasanaeth, o wahanol olygiadau am y llwybr goreu i'w ddileu, yn cyttuno yn hyn; a mae'n ddiau y gwna llawer anghofio eu teimladau politicaidd blaenorol, i daro ergyd yn awr o blaid rhyddid. Wele, o'r diwedd esgynfwrdd (platform) ar yr hwn y geill holl wrthwynebwyr caethwasanaeth gyd-sefyll.¹¹⁷

Parha felly i geisio gwireddu ei weledigaeth gychwynnol o uno cymunedau o wahanol farnau ymhlith Cymry America, a hynny ym mhob cyd-destun. Awgrymodd Robert Everett y byddai'r 'Blaid Unol' yn enw da ar gyfer y '*Free Soil Party*,' ac mae'r ffaith bod William Rowlands yn uno â gwrthgaethiwedyddion yn y blaid newydd yn cyfiawnhau'r enw hwnnw yng nghyd-destun y wasg Gymraeg.

Eto i gyd, mae William Rowlands yn parhau i broffesu elfen o degwch i'r pleidiau gwleidyddol wrth iddo amddiffyn ei benderfyniad i gynnwys darlun o'r 'pendefig urddasol' a Llywydd Plaid y Tir Rhydd, Martin Van Buren, 'nid am ei fod yn pleidio unrhyw ddsbarth neillduol o ddaliadau politicaidd.' Dywed ei fod wedi cynnwys darlun o ymgeisydd y Chwigiadaid y flwyddyn flaenorol, ac y byddai'n gwneud yr un fath i Lywydd y Democratiaid 'pe caem gyfleustra i hyny.' Er hynny, mae'n arwyddocaol ei fod wedyn yn datgan cefnogaeth y *Cyfaill* yn gwbl ddiflwyn-ar-dafod i'r blaid:

Eto, da yw cydnabod y gwirionedd, mae rhywbeth yn egwyddorion y Blaid Rydd ag sydd yn hynod o hoff gan y Cyfaill, a chan belled ag y pleidiant ryddid yn ddidwyll a

¹¹⁶ Ibid.

¹¹⁷ Y Blaid Rydd, Hanesiaeth Gartrefol - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Medi 1848.

gwirioneddol, y mae yn rhwym o’u cefnogi...Yr oedd llawer o garwyr cyneasaf rhyddhad y caethion, er ys blynyddoedd mewn pryderwch a phetrusder mawr yn nghylch hyn: ni fedrent gyduno â’r rhai hyny a ddinistriant bob ammod a chynghrair er cael y caethion yn rhydd, ac ni fedrent fod yn dawel heb wneuthur dim yn yr achos; ond yn awr, yn annisgwyladwy iawn, taflwyd hedyn yn y Gyngorfa ag sydd wedi gwreiddio, egino, a thyfu yn bren mawr eisoes, a’i gangenau yn ymestyn gyda chyflymdra anghygoel trwy y Talaethau, dan gysgod yr hwn y geill pob dyngarwr ymrestru a gwneyd ei ran. Nid oes un ammod yn cael ei thori wrth hyn...¹¹⁸

Mae ei gyfeiriad at ‘dorri amod’ dysgeidiaeth yn awgrymu mai ei anghymeradwyaeth o ddulliau gweithredu’r Gwrthgaethiwedyddion a’i hataliodd rhag cefnogi’r Blaid Rhyddid yn rhan gyntaf yr 1840au, er bod y blaid newydd wedi ei chreu ar yr un sylfeini. Mae’r ffaith ei fod yn datgan iddo wynebu’r un pryder â nifer o’i gyd-Gymry am y ffordd orau o ddileu caethwasanaeth yn awgrymu nad oedd yn teimlo y gallai gefnogi unrhyw blaid cyn 1848, ond yn awr ei fod yn argyhoeddedig o rinweddau’r blaid newydd. Fodd bynnag, sylwer nad yw unwaith eto, yn nodi’n uniongyrchol yn ei anerchiadau golygyddol y dylai ei ddarllenwyr roi eu pleidlais i’r blaid hon. Mae’n gwneud hynny yn hytrach mewn atodiadau i erthyglau a newyddion gwleidyddol mewn dull annuniongyrchol ac awgrymus na fyddai’n denu gormod o sylw.

Ategir cenadwri William Rowlands mewn ysgrif yn y *Cyfaill* gan gyfrannwr o’r enw James Owen, sydd hefyd yn amlinellu’r athrawiaeth Fethodistaidd ynghylch y dull o ddiddymu,¹¹⁹ ac yn dangos fod rhai o aelodau’r enwad yn dilyn arweiniad golygydd y *Cyfaill*. Mae hefyd yn adleisio’n gynnil bryder William Rowlands am ddadlau’r Gwrthgaethiwedyddion a’i effaith ar grefydd, ac yn ymfalchïo fod ‘rhyw drwst rhyfedd

¹¹⁸ Martin Van Buren - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Tachwedd 1848.

¹¹⁹ Achos y Caethion (James Owen, hynaf) – *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Tachwedd 1848. “Byddaf yn ystyried cyngor yr Apostol &c. Ordeiniodd Duw lywodraeth wladol fel ei osodiad ef, er heddwch ac iawn drefn cymdeithas; ond gadawodd y ffurf neillduol o lywodraeth iw threfnu gan ddoethineb dynion, dan gyfarwyddyd Rhagluniaeth. Felly dyledswydd Cristnogion yw ymostwng i’r llywodraeth hono, a sefydlwyd yn y gwahanol wledydd lle y maent hwy yn byw, heb gynnyg unrhyw gyfnewidiad, oddigerth mewn modd heddychol, tirion a chyfreithlawn, yn ol eu graddau a’u sefyllfaoedd yn y wladwriaeth.” Ni chyhoeddodd William Rowlands sylwadau ar yr ysgrif.

megys yn mrig y morwydd y flwyddyn hon.¹²⁰ A fyddai'r undod rhwng y carfanau a oedd gynt yng ngyddfau ei gilydd yn parhau yn negawd yr 1850au?

(viii) Degawd o gyfnewidiadau: yr 1850au.

Byrhoedlog fu hanes Plaid y Tir Rhydd, ac felly parhâi'r ymgyrch i greu plaid newydd a fyddai'n cyfuno safiad gwrthgaethiwol ac yn apelio at y bobl gyffredin, er bod y ddelafryd hon yn ymddangos ymhell i ffwrdd pan wawriodd degawd cythryblus yr 1850au o dan gwmwl y 'Fugitive Slave Law.'¹²¹ Er hynny, ni phallodd ymrwymiad William Rowlands i'r Gymdeithas Drefedigaethol, wrth iddo lawenhau yn 1852 ei bod wedi galluogi cannoedd o gaethion i ymfudo, ac mae'n pryderu 'ein bod yn diystyru dydd y pethau bychain wrth fod mor ddisylw o'r gymdeithas haelionus hon.'¹²²

Roedd ei ran yn yr ymgyrch wrthgaethiwol mewn print hefyd yn gryfach nag erioed. Er ei fod o'r dechrau'n deg wedi troedio'r tir canol o'i gymharu â'i gyfoeswr Robert Everett, gwelir y ddau olygydd yn cyhoeddi nofel '*Uncle Tom's Cabin*' ar ffurf cyfres yn eu cylchgronau yn 1853.¹²³ Teimlai golygydd y *Cyfaill* reidrwydd i gyhoeddi 'pennod o lyfr mawr yr oes, ar bechod mawr yr oes yn America,'¹²⁴ er ei fod yn dylanwadu'n ymfflamychol ar feddyliau pobl.¹²⁵ Trwy gyhoeddi'r nofel, roedd yn dinoethi creulondeb caethwasanaeth ar adeg dyngedfennol codi tymheredd y ddadl yn ei erbyn, er ei fod wedi cael ei 'feio' a'i

¹²⁰ Ibid. "Dylem ni sydd yn proffesu, ofalu llawer mwy am attal ein tafod, rhag mai crefydd ofer sydd, ac a fydd genym. Y mae gormod o ymddyddanion penrhydd, a siarad ofer a rhodresgar, yn enwedig wrth ddadleu yn nghylch llywod-ddysg (*politics*), &c."

¹²¹ Deddf a oedd yn gorfodi'r caethion a oedd wedi dianc i ddychwelyd at eu meistri.

¹²² Hanesiaeth Gartrefol - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1852.

¹²³ Franklin, John Hope & Moss, Alfred.A Jr, *From Slavery to Freedom*, t.193.

¹²⁴ Anerchiad y Golygydd – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, 1854. "ac er fod rhai yn blino arno, fe ddichon, y llais cyffredin a eilw am ei barhad, gan mai hwn yw yr unig lwybr, meddant, iddynt hwy a'u plant gael gafael arno."

¹²⁵ Carroll, Peter & Noble, David.W (1988) *The Free and the Unfree: A New History of the United States*, Penguin: London, t.204; Parini, Jay (2008) *Promised Land: 13 books that changed America*, Doubleday: New York, t.133.

‘ganmol’ am ei chyhoeddi.¹²⁶ Roedd y nofel hefyd wedi ymddangos fel cyfres yn y cyfnodolyn Saesneg *National Era*,¹²⁷ sy’n dangos fod y golygyddion Cymraeg ar flaen y gad yn defnyddio’r cyfrwng print i ddibenion gwrthgaethiwol yr oes.

Defnyddid amrywiaeth o ffurfiau llenyddol a barddonol yn yr ymgyrch yn gyffredinol, ac roedd hyn yn ymestyn ffiniau’r *Cyfaill* i drafod pynciau dadleuol, nid mewn arddull ffeithiol yn unig ond hefyd mewn modd creadigol a oedd yn ddull mwy dyfeisgar o ran effeithio ar feddyliau’r darllenwyr. Cyhoeddai holl gylchgronau Cymraeg America gyfuniad o ysgrifau, cerddi a darnau o newyddion yn darlunio erchylltra’r prynu a’r gwerthu. Gan nad oedd William Rowlands yn hoff o ddefnyddio’r wasg brint fel arf pregethwrol i ddylanwadu’n uniongyrchol ar Gymry America o ran eu golygon gwleidyddol, roedd y deunydd hwn hefyd yn fodd mwy cynnil ac annuniongyrchol i ddarlunio gwir sefyllfa’r caethion. Roedd y *Cyfaill*, i raddau llai na’r *Cenhadwr*, wedi defnyddio’r traddodiad barddol a llenyddol i hybu’r achos ers y dechrau, gan ddefnyddio amrywiaeth o ffurfiau i daro’r neges adref, ond daethai’r ymgyrch yn erbyn caethwasanaeth i awr ei hanterth erbyn canol yr 1850au.¹²⁸ Roedd cyfran helaeth o lenyddiaeth wleidyddol y cyfnod hefyd yn gyfieithiadau o’r Saesneg, sy’n awgrym o ddymuniad y Cymry i ddehongli agweddau o’u hunaniaeth newydd drwy gyfrwng eu mamiaith,¹²⁹ a i roi gwedd Gymreig i’r pynciau dyrys Americanaidd.

Yn 1854, cymhellwyd yr arweinwyr gwrthgaethiwol i weithredu’n fwyfwy gwleidyddol oherwydd Deddf Kansas-Nebraska. Caniatâi’r ddeddf i fater caethwasanaeth gael ei benderfynu gan bleidleiswyr y ddwy dalaith, gan olygu, yn ddamcaniaethol, y gallai

¹²⁶ *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Rhagfyr 1853.

¹²⁷ Smith, Susan (1995) *Serialization and the nature of ‘Uncle Tom’s Cabin,’* yn (gol) Price, K & Smith, Susan, *Periodical Literature in Nineteenth Century America*, Virginia University Press: London.

¹²⁸ Hunter, Jerry, *Sons of Arthur, Children of Lincoln*, t.50. “Abolition had been gaining support in the Welsh-speaking communities of the United States, and by the middle of the 1850s anti-slavery declarations were a central part of Welsh America’s communal ideology.”

¹²⁹ Roper, Moses (1841) *Hanes bywyd a ffoedigaeth Moses Roper o gaethiwed Americanaidd*, Rees a Thomas: Llanelli.

caethwasanaeth ledaenu i'r tiriogaethau newydd hyn. O'r cnewyllyn hwn o wrthwynebwy'r i'r Ddeddf, ffurfiwyd y blaid Weriniaethol a oedd yn gyfuniad o Chwigiaid 'cydwybodol,' aelodau o Blaid y Tir Rhydd a'r Democratiaid. Ni welwyd plaid debyg iddi hyd yn hyn o ran ei gallu i uno trawstoriad eang o bobl mewn ymgyrch wrthgaethiwol ac mewn modd a osodai'r mater ar flaen yr agenda wleidyddol.¹³⁰

Er i William Rowlands brotestio'n ddi-dor yn erbyn cymysgu crefydd a gwleidyddiaeth, cyhoeddodd ddwy bregeth yn y *Cyfaill* yn 1854 gan J. P. Thompson a Thomas Foulkes a oedd yn ymateb i Ddeddf Kansas-Nebraska.¹³¹ Er bod y pregethau'n ddilornus o grefyddwyr megis ef a oedd yn gwrthwynebu'r arferiad o gyfuno crefydd a gwleidyddiaeth, mae parodrwydd golygydd y *Cyfaill* i'w cyhoeddi yn awgrymu ei fod fwy agored i ddaliadau eraill erbyn hyn, yn enwedig wedi iddo ennyn beirniadaeth hallt am wrthod rhai ysgrifau yn y gorffennol.¹³² Yn sgil hyn, atgyfodir dadl hirhoedlog yn ystod 1855 o natur debyg i'r ymryson cyntaf yn 1839 sy'n ymholi a yw'r Beibl yn cyfiawnhau neu'n condemnio caethwasanaeth. Mae awdur a'i geilw ei hun yn 'Ymdeithydd' yn pryderu fod y Cymry o hyd mor ansicr eu barn ar y pwnc nes y teimla reidrwydd i ofyn cymorth y *Cyfaill*,¹³³ gan esgor ar ddadl rhwng 'Tudur' a'r bardd Eos Glan Twrch ynghylch tystiolaeth y Beibl am gaethwasanaeth. Gwelir bod Tudur yn ymateb gyda syndod i bryder 'Ymdeithydd,' gan fod 'teimlad cryf yn mynwes ein cydgenedl yn erbyn caethwasanaeth' erbyn y cyfnod hwn.¹³⁴ Dengys y ddadl hon fod y *Cyfaill* yn parhau i fod yn fforwm agored i drafod materion

¹³⁰ Franklin, John Hope & Moss, Alfred.A Jr, *From Slavery to Freedom*, t.193.

¹³¹ Dim Caethwasiaeth yn Nebraska – crynodeb o bregeth y Pch.J.P.Thompson, New York - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1854. "Dylem ddwyn pob dylanwad, moesol a pholiteicaidd, dichonadwy i weithredu ar feddyliau ein llywodraethwyr o blaid uniondeb . . . Byddwn gydwybodol yn ein pleidleisiau, onide byddwn gyfranogion yn y bai."

¹³² Caethwasiaeth a Meddwdod – y moddion goreu a mwyaf effeithiol er dileu y gaethfasnach a'r fasnach feddwol o'r byd (Thomas Foulkes, Utica) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Rhagfyr 1854. "Ond dichon y cyhuddir ni gan rywrai, ein bod yn cymysgu crefydd â llywod-ddysg (*politics*); ac y dywedant nad yw yn gweddu i grefyddwyr, ac yn enwedig pregethwyr ddyfod allan dros beth fel hyn!! Ond, yn enw pob rheswm, pwy ddylai flaenori mewn gweithredoedd da, ond crefyddwyr? Ac ai tybed y dylai pregethwyr *flaenori mewn dyweyd* yn erbyn pechod, a bod y *rhai olaf i weithredu* yn ei erbyn?"

¹³³ Gofyniad – Caethwasanaeth a'r Beibl (Ymdeithydd) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Medi 1855.

¹³⁴ Caethwasanaeth – ateb i ofyniad 'Ymdeithydd' (Tudur) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1855.

gwleidyddol, er bod nifer o gyhoeddiadau eraill wedi dod i'r maes er y dadleuon cynharaf ar yr un thema. Ond a oedd William Rowlands wedi anghofio ei egwyddorion cychwynnol erbyn hyn?

(ix) 'Cleddyf yr ysbryd': Etholiad 1856.

Prin y cafwyd unrhyw flwyddyn a oedd yn fwy cyffrous yn wleidyddol nag 1856, ac adlewyrchwyd hyn yn y wasg gan fwrlwm o lythyrau, ysgrifau a cherddi yn trafod yr etholiad. Yn ôl y dystiolaeth, gellir dweud yn bur bendant fod Cymry America bron yn unfrydol eu cefnogaeth i'r blaid Weriniaethol erbyn y flwyddyn hon oherwydd ei safiad yn erbyn caethwasanaeth:

It was an ideology which combined moral opposition to slavery with an appeal to personal and sectional self-interest and, as such attracted support from numerous Americans who could never have been brought to support abolitionism of the Garrisonian variety.¹³⁵

Brithwyd yr holl gyfnodolion Cymraeg yn America gan lythyrau a cherddi o amrywiol dreffannau Cymreig yn pleidio'r Gwerinwyr, a defnyddiwyd eu cenedligrwydd i atgoffa'r Cymry o'u dyletswydd i roi pleidlais dros ryddid yn eu gwlad fabwysiedig.¹³⁶ Roedd nifer o'r cyfraniadau hyn hefyd yn datgan eu cefnogaeth i'r golygyddion Cymraeg yn gyffredinol am eu rhan yn yr ymgyrch:

Ein bod yn cydnabod Golygyddion y gwahanol gyhoeddiadau Cymreig, am eu hymdrech diflino (ar yr adeg gynhyrfus bresenol yn ein gwlad,) i bleidio rhyddid ac iawnderau dynol, ac am ein hanrhegu a'r gwirionedd yn ddi-duedd yn eu

¹³⁵ Jones, Maldwyn A. (1985) 'Welsh Americans and the anti-slavery movement in the United States', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, t.122. Hefyd gw. Thomas, R.D. (1872) *Hanes Cymry America*, T.J.Griffiths: Utica, rhan 3, t.68. Yng ngeiriau R.D.Thomas, roedd 'dinaswyr Cymraeg bron yn ddiethriad yn pleidleisio dros egwyddor rhyddgarol Plaid y Gwerinwyr' gan fod eu 'platform yn seiliedig ar wirionedd a chyfiawnder.' Roedd y blaid yn gwrthwynebu helaethu terfynau caethwasanaeth, yn wahanol i'r pleidiau eraill, ac felly cefnogai nifer y blaid oherwydd y safiad hwn dros ryddid a'i gwahaniaethai oddi wrth y pleidiau eraill.

¹³⁶ Gwerinwyr Cymreig Racine – *Y Drych*, Awst 2 1856. Hefyd gw. Evans, Paul De Mund (1914) *The Welsh in Oneida County, New York*, Thesis MA heb ei gyhoeddi: Prifysgol Cornell. Fe'i llanwyd gyda maniffesto'r blaid Weriniaethol a manylion o gyfarfodydd y Cymry yn ymwneud â'r blaid.

cyhoeddiadau, y rhai, fel y gostyngedig farnym, sydd yn teilyngu cymorth pob Cymro yn America...¹³⁷

Roedd y Cymry hyn yn falch fod y wasg ac aelodau'r genedl yn codi llais o'r diwedd, ac roeddent yn annog eu cyd-genedl i gynnal y pileri diwylliannol hyn. Roedd polisi niwtral y *Cyfaill* o beidio â dangos ffafriaeth i blaid wleidyddol (polisi yr ailgydiwyd ynddo ers 1848) yn awr yn diflannu yn y cynnwrf a dreiddiai drwy gymunedau Cymreig yr Unol Daleithiau. Er bod cofiant William Rowlands yn nodi iddo fod yn 'Republican selog a gweithgar' o ddechrau'r Rhyfel Cartref ymlaen,¹³⁸ mae'n ddigon posib ei fod wedi profi'r dröedigaeth wleidyddol yn ystod yr 1850au, o ystyried natur y deunydd a gyhoeddwyd yn y *Cyfaill*.

Ymhyfrydai'r cyhoeddiadau Cymraeg yn unfrydol felly yn eu teyrngarwch i'r blaid, ac eto gwelwyd mwy o daflu baw ar eu tudalennau yn 1856 nag a welwyd er eu dechreuad. Cyhuddwyd golygydd y *Cyfaill* nid yn unig o beidio â gweithredu'n ddigonol yn yr ymgyrch yn erbyn caethwasanaeth, ond hefyd o ochri gyda'r Democratiaid, plaid yr ystyrid yn awr ei bod o blaid caethwasanaeth wrth i'r prif wrthwynebwyr ymhel yng nghorlan Gweriniaeth. A oedd unrhyw wirionedd yn yr haeriadau hyn?

Mae craffu ar yr ymladdfa brint ffyrnig rhwng y *Cyfaill* a'r *Drych* yn ystod y flwyddyn hon yn dadlennu llawer am natur y wasg gyfnodol a'i hagweddau gwleidyddol. Nid oedd pob un yn cefnogi'r holl gyhoeddiadau yn ddiwahân, fel y dengys llythyr yn y *Drych* gan y Pch. Rees Evans y gellir ei ddehongli fel beirniadaeth uniongyrchol ar y *Cyfaill* a'i egwyddorion:

Mae rhai yn ymfrostio mewn bod yn amhleidiol, a pheidio ymyrryd â pethau gwladol. Tebyg mai hyn sydd oreu gyda phethau *dibwys*; ond pan fyddo Sobrwydd a Meddwdod, Gwirionedd ac Anwiredd, Caethiwed a Rhyddid, Duw a Diafol, yn gwneyd i fyny y pleidiau gwrthwynebol. Yna mae bod yn amhleidiol yn peidio bod yn rhinwedd, a dweyd y lleiaf. Y dyn na fedd ei ochr, ac na fedd onestrwydd a gwrolder digonol i'w dangos, mae yn anghyfaddas i'r amserau, ac ar du sicr i gael rhaid Meroziaid, beth bynag arall...Mae gan y rhai a 'garant y Gwirionedd' waith mawr i'w wneyd *eleni* yn y Taleithiau Unedig, a'r neb nad yw gyda Rhyddid, mae yn

¹³⁷ Cymry New York Mills. *Y Drych*, Tachwedd 1 1856. Mae ysgrif gan Edward Jones, Cincinnati hefyd yn ymfalchio fod 'yr holl gyhoeddiadau Cymreig yn dyfod allan i'r maes mor gryno ag y maent.'

¹³⁸ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.320.

ei erbyn. Mae amser anmhleidgarwch ar ben. Mae dystawrwydd y rhai sydd mewn cysylltiad a'r wasg Gymreig, yn gyru cenedl gyfan i amheu cywirdeb eu hegwyddorion.¹³⁹

Dywed anerchiad arall at Gymry America yn y *Cenhadwr* eu bod yn llawenhau gweld y cyhoeddiadau Cymreig 'o'r bron yn dyfod allan fel un gwr dros yr achos – y Drych, y Seren a'r Cenhadwr, a'r Cyfaill braidd yn gwella rhyw ychydig.'¹⁴⁰

Cafwyd ymosodiadau cyson chwyrn ar y *Cyfaill* ar dudalennau'r *Drych* gan wahanol Weriniaethwyr Cymreig o Racine, Wisconsin, a gredai ei fod yn haeddu y 'condemniad cryfaf' fel cyhoeddiad crefyddol gan mai dyletswydd golygyddion yw 'gwneyd rhywbeth o blaid rhyddid.'¹⁴¹ Mae adolygiad o'r misolion gan olygydd y *Drych* hefyd yn codi amheuron ynghylch cymhellion golygyddol William Rowlands, wrth iddo synnu at brinder sylwadau'r *Cyfaill* ar helyntion Kansas:

Ni raid i ni gynghori y darlennydd pa fath gasgliad i'w dynu oddiwrth hyn!¹⁴²

Mae cyfrannwr i'r *Drych* o'r enw William G. Roberts hyd yn oed yn cyhuddo cymanfa'r Methodistiaid Calфинаidd yn Dodgeville a William Rowlands o gefnogi'r 'blaid gaethiwol,' y Democratiaid, 'hen dybiau yn fy meddwl er ys llawer dydd bellach.'¹⁴³ Ond mae'r ysgrif hon yn ysgogi nifer o gyfranwyr i amddiffyn William Rowlands a'r cyfundeb.¹⁴⁴

¹³⁹ Llythyr y Pch. Rees Evans - *Y Drych*, Gorffennaf 5 1856.

¹⁴⁰ Ibid.

¹⁴¹ Gwerinwyr Cymreig Racine (Thomas Foulkes, Ysg) - *Y Drych*, Awst 2 1856. "Ein bod yn uchel gymeradwyo ymddygiadau y Golygyddion Cymreig Americanaidd, sydd wedi ac yn dangos ffyddlondeb parhaus i achos rhyddid. Ac ymffieiddio ymddygiadau yr unig gyhoeddiad Cymreig yn y wlad hon sydd yn ymgadw heb roddi cefnogaeth i rydd Dalaethwyr Kansas; ac heb foddloni ar hyny, yn defnyddio *llysenwau enllibaid*, a arferir gan bleidwyr caethiwed at bleidiwyr rhyddid, yn camddarlunio agwedd pethau yn Nhiriogaeth Kansas, ac â chusan rhith sancteiddiol yn bradychu egwyddorion y grefydd Gristnogol." Hefyd gw. Gwerinwyr Cymreig Racine – y Cyhoeddiadau Cymreig a chaethwasiaeth (Ll.I.Evans) - *Y Drych*, Hydref 18 1856. "...ac na waeth ganddynt pa dderbyniad a ro'dd y 'Cyfaill' i 'Nhwyrth Twm' na pha mor rith sancteiddiol y dyrchafodd ei lais yn erbyn drygau caethiwed, (os gwnaeth hyny) na pha faint o 'lesmeiriad eneidiau,' a 'distylliad cawodydd o ddagrau' a achosodd o dro i dro; ie, nad ydyw yr holl bethau hyn ond yn *mwynhau euogrwydd*, os yw yn awr, yn y flwyddyn 1856, pan y mae caethiwed a rhyddid yn cyfarfod ar y maes, a phan y gellir, nid croesaw negroaid i'r parlyrau, nid llesmeirio ein heneidiau, a distyllio cawodau o ddagrau..."

¹⁴² Adolygiad misolion Cymreig - *Y Drych*, Gorffennaf 12 1856.

¹⁴³ Cymanfa y Methodistiaid Calфинаidd yn Dodgeville (Wm.G.Roberts), *Y Drych*, Gorffennaf 5 1856. Honna fod golygydd y *Cyfaill* yn 'tori allan, megys mewn llef gorfoledd' oherwydd ei llwyddiant yn y dalaith, "...ond am fod golygydd y *Cyfaill* yn cynorthwyo y blaid hon, nid oedd yn rhyfedd genyf, eithr yn hytrach yn ail sicrhau yr hen dybiau oedd yn fy meddwl er ys llawer dydd bellach, sef fod golygydd y *Cyfaill*, o ran egwyddorion, yn eithaf rhydd i werthu a phrynu ei gyd-ddyn, pe b' ai amgylchiadau a chyfleusderau yn caniatáu hyny. Na thybied golygydd y *Cyfaill* fy mod i yn dywedyd hyn oddiar ddim teimladau drwg personol ag sydd

Ymysg toreth o ddarnau eraill a oedd yn erbyn caethwasanaeth, roedd golygydd y *Cyfaill* yn cyhoeddi cerddi megis ‘Ymson y caethwas’¹⁴⁵ a oedd yn darlunio erchylltra’r fasnach, pryddest fuddugol y bardd Llew Llwyfo yn Eisteddfod Cendl. Byddai defnyddio deunydd o’r fath yn dangos ei fod yn tynnu egni o wahanol agweddau o’r diwylliant Cymreig – llenyddol, eisteddfodol a chrefyddol - i argyhoeddi Cymry America’n wleidyddol, ac roedd hynny felly’n brawf amlwg o’i safiad. Mae’r ffaith na chymerodd y cyhoeddiadau Cymraeg eraill sylw o ysgrif William G. Roberts, a bod golygydd y *Drych* hyd yn oed yn gwrthod cyhoeddi ail ysgrif ganddo ar gyfrif ‘cyfeiriadau personol’ a oedd ynnddi hefyd yn awgrymu mai cynnen bersonol oedd ganddo yn erbyn William Rowlands.¹⁴⁶

Serch hynny, parhau wnâi’r ensyniadau fod William Rowlands yn sefyll o blaid caethwasanaeth yn sgil ei dawelwch ar helyntion Kansas a’i rybuddion rhag defnyddio arfau.¹⁴⁷ Ond aeth ati i esbonio mai anghymeradwyaeth o ddulliau treisgar y

genyf tuag ato, fel y cyfryw. O nage; yr wyf wed manwl sylwi ar dôn y *Cyfaill* er ys pymtheng mlynedd; ac yr wyf, mewn gofid, yn gorfod tystio y farn uchod am danol!”

¹⁴⁴ Cymanfa Dodgeville, Wisconsin - *Y Drych*, Gorffennaf 19 1856. Fel ymateb, cyhoeddir ysgrif gan Robert.E.Hughes yn gresynu fod awyrgylch y cyhoeddiadau Cymreig yn llawn o ‘wefrebiant dialgar,’ gan nad yw erioed wedi gweld ‘y rhithyn eiddilaf o bleidgarwch i gaethwasiaeth’ ar eu tudalennau, a bod ‘yr hen *bioneer*’ yn rhoi’r croesaw anrhydeddusaf i’r nofel wrthgaethiwol, ‘Caban F’Ewyrth Twm.’ Dywed ei fod yn ei gyfleu ‘yn yr un parlwr a’r boneddigion urddasolaf a llenorion coethusaf yr oes yn mhlith cenedl y Cymry yn America.’ Hefyd gw. Amddiffyn y *Cyfaill* (Hen Golier) - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Awst 1856. Daw gohebydd arall i’r maes yn amddiffyn William Rowlands rhag ‘llywydd hunanol cwmpeini amryliw y *Drych*,’ sy’n dangos nad oedd ei gefnogwyr selocaf yn credu ei fod yn rhy dawel ar y mater.

¹⁴⁵ *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Chwefror 1856.

¹⁴⁶ Gwrthododd William Rowlands gyhoeddi ysgrif Wm.G.Roberts gan fod gormod o ddfriaeth bersonol i ‘gael mynedfa drwy borth moesau y *Cyfaill*,’ gan awgrymu ei fod yn dial arno am wrthod nifer o’i ysgrifau ymddangos yn y *Cyfaill*. Mae’n arwyddocaol nad yw’r *Cenhadwr* na’r *Seren* yn cymryd unrhyw sylw o’r ysgrif, a bod hyd yn oed golygydd y *Drych* yn nodi nad yw’n fodlon cyhoeddi ail ysgrif Wm.G.Roberts ar y pwnc ‘ar un cyfrif’ am ei fod yn cynnwys ‘cyfeiriadau personol distadl a llwyr anwedus.’ Gellir casglu felly na roddir llawer o bwyslais ar ensyniadau’r gohebydd hwn yn gyffredinol ymhlith y cyhoeddiadau, wrth i William Rowlands ergydio’n erbyn y *Drych* drwy ddatgan nad oes ‘unrhyw gyhoeddiad cyfrifol arall’ yn barod i ‘ledaenu eich difriaeth.’ Hefyd gw. Clawr - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Ebrill 1856. WGR, Racine - “Dylasech wybod cyn cynnig y fath sarhad personol, na chawsoch gymorth cylchrediad y *Cyfaill*, nag unrhyw gyhoeddiad cyfrifol arall, i ledaenu eich difriaeth. Os oes genych ryw wybodaeth fuddiol, gwladol neu grefyddol, i gyfranu ich cydgenedl, mewn iaith weddus, byddwn yn barod i’ch gwasanaethu. Yn niwedd y flwyddyn cyhoeddir cais pobl Racine, sydd wedi ei arwyddo gan nifer o’r trigolion, i’r *Drych* gyhoeddi amddiffyniad Wm.G.Roberts yn sgil petruster y golygyddion i’w gyhoeddi.” Fodd bynnag, mae’r tawelwch sy’n ei ddilyn ar faes y wasg yn awgrymu fod y mater wedi ei ddatrys.

¹⁴⁷ *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Mai 1856. Dywed fod ei bleidgarwch dros y Beibl yn ei atal rhag defnyddio ‘*Sharpe’s Rifles* yn nilead y gaethwasiaeth.’ Yn ogystal, perodd ei anghymeradwyaeth o ddefnyddio arfau iddo alw Gwerinwyr ‘cynhyrfus’ dros ryddhad caethion yn ‘Black Republicans’ a oedd yn ‘fwy o addolwyr y negro nac addolwyr Duw,’ gan eu bod yn dioddef ‘caethwasiaeth ysbrydol llawer mwy parhaol ac enaid-ddinystriol’ os ydynt yn pleidio rhyddid ar draul crefydd. Er bod William Rowlands yn amddiffyn ei newyddion o Kansas ar

Gwrthgaethiwedyddion yn Kansas a oedd yn groes i egwyddorion Cristnogol yn ei olwg ef oedd yr achos am ei ddiffyg ymddangosiadol yn yr ymgyrch:

Nid yw bod dyn yn methu cydreddeg a'r Abolisïoniaid mewn rhoddi blaenoriaeth i *Sharp's Rifles* ar y Beibl Sanctaidd, yn ei wneyd yn bleidiwr caethwasiaeth. 'Cleddyf yr Ysbryd' yw unig arf ymosodawl y Cristion, a 'na ladd' yw deddf ei Dduw.¹⁴⁸

Wrth i'r ysgrifau beirniadol amlhau yn y *Drych*, mae'n atgoffa ei ddarllenwyr o feini cadarnaf y mudiad Methodistaidd a gludwyd o Gymru, 'fod gennym wasanaeth uwch, a neges bwysicach a'n cydgenedl...nag ymyrraeth â'u *politics*,' neges a ategwyd gan Gymdeithasfa Wisconsin.¹⁴⁹ Mae'n sicrhau Cymry America fod yr enwad yn rhan o'r ymgyrch yn erbyn caethwasanaeth 'fraich ac ysgwydd,' ar yr amod y defnyddir 'bob moddion goddefol dan ddeddfau Cristionogaeth i'r dyben hwnnw.'¹⁵⁰ Mae'n debyg felly ei fod yn gefnogol i'r Gweriniaethwyr ar yr adeg hon, ond fod ei safbwynt crefyddol yn ei atal rhag cefnogi'r digwyddiadau treisgar yn Kansas, yn union fel ei feirniadaeth o ddulliau gweithredu'r Gwrthgaethiwedyddion flynyddoedd ynghynt.

Mae'r ffaith i'r Gymdeithasfa ddyddio i'r *Cyfaill* 'oleuo ychydig ar y wlad pa fodd i'w gwrthsefyll' yn awgrymu bod Methodistaidd Calffinaidd Cymraeg America yn disgwyl i'r cylchgrawn - a ystyrid yn gyhoeddiad enwadol ganddynt – amlinellu safiad yr enwad parthed caethwasanaeth. Yn wyneb yr ymgais i 'wanhau y Cyfaill,' apelia William Rowlands ar Gymry America i ddefnyddio 'moddion moesol...i gael pob castell annuwiol i'r llawr,' yn ôl

sail ei bolisi golygyddol o gyflwyno'r gwirionedd, am fod 'cynifer o chwedlau yn y paprau i ddibenion politicaidd,' mae'r ffaith iddo ychwanegu mwy o fanylion am y tywallt gwaed yn y rhifynnau dilynol yn dangos ei fod yn sensitif i'r feirniadaeth. Mae'n ddiddorol nodi hefyd fod Robert Everett yn gwrthwynebu trais a chodi arfau yn erbyn caethiwed yn Kansas, ond ni chafodd ei amau yn yr un modd. Yn hytrach, cawsai ei ganmol yn ei ran yn yr ymgyrch ddi-drais.

¹⁴⁸ Clawr - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1856. "Yr ydym bob amser, hyd ag y medrwn, yn cyhoeddi y gwirionedd o bob ochr, ar achos y caeth fel achosion eraill, heb ofalu am wêg na gwên un dyn, ond cymeradwyaeth ein cydwybod a'n Duw."

¹⁴⁹ Cymdeithasfa Wisconsin - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1856. Mae Cymdeithasfa Wisconsin yn ategu eu bod yn 'hollol anghymeradwyo caethfasgnach a chaethiwed,' ac er nad ydynt yn rhoi anogaeth i un blaid, eu bod yn annog pawb i 'ddefnyddio pob cyfle, yn mhob modd cyfreithlon' i wrthwynebu'r fasnach annynol."

¹⁵⁰ Cymanfa y Methodistaidd Calffinaidd yn Dodgeville, Wis (W Rowlands) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1856.

yr athrawiaeth o'i eiddo a oedd yn groes i ddulliau gweithredu Robert Everett a'i ffyddloniaid:

... ni allant lai na gwerthfawrogi un cyhoeddiad cylchynol o leiaf yn mhlith y Cymry yn America yn cefnogi yr un arfau, ac yn foddlon i sefyll neu syrthio wrth hyny. Meddyliem nad rhaid i ni ofni llawer wrth rodio yn ol traed Crist a'i Apostolion.¹⁵¹

Yn unol â'r flaenoriaeth a roddai i grefydd mae'n eu cynghori i 'ofalu am gyflyrau ysbrydol eu praidd' yn hytrach na dod i faes y cyhoeddiadau i 'uchel-floeddio i'r gad.'

(x) 'Dros Fremont.'

Mae'r hen gwestiwn ynghylch priodoldeb defnyddio ffugenw a chyhoeddi ymateb mewn un cylchgrawn i ysgrif mewn cyhoeddiad arall yn parhau i nodweddu'r wasg yn ystod yr 1850au. Gwelir awdur yn y *Cyfaill*, sy'n defnyddio'r enw 'Beth waeth pwy?', yn rhybuddio'n erbyn 'gwyllt-grefyddiaeth' a '*phenrhyddid direol*,' mewn ymateb i sylwadau Thomas Foulkes (gweinidog Methodistaidd a gyhoeddodd bregeth wrthgaethiwol yn y *Cyfaill* ac ysgrifennydd Gweriniaethwyr Cymreig Racine) – a ymddangosodd yn y *Drych* ac a oedd yn tanlinellu dyletswydd eglwysi yn yr ymgyrch wrthgaethiwol.¹⁵² Fodd bynnag, nid oedd William Rowlands bellach yn cuddio ei safiad gwleidyddol y tu ôl i ffugenwau, fel y dengys ei ragymadrodd golygyddol yn Awst 1856:

...fel golygyddion cyhoeddiad, yr hwn sydd o'i ddechreuad bellach, wedi bod yn rhydd, ond ystyriwn yn ddyledswydd arnom ddyweyd, rhag fod neb heb ddeall: Pwy bynag sydd yn dewis cyfnewidiad gyda golwg ar ryddhad y caethion deheuol, mai dros Fremont &c y dylent roddi eu pleidlais, felly yr ydym yn bwriadu gwneyd yn bersonol.¹⁵³

Unwaith eto, nid yw'n dwyn pwysau ar ei ddarllenwyr yn uniongyrchol, ond mae'n pwysleisio ei fod yn 'fater cydwybod' i'r Cymry bleidleisio i'r Gweriniaethwyr, ac yn nodi

¹⁵¹ Ibid.

¹⁵² 'A'r neb nid oes ganddo, gwerthed ei bais a phryned gleddyf' (Pch Thomas Foulkes) - *Y Drych*, Hydref 4 1856. Anela un o'i ysgrifau at grefyddwyr o bob enwad, gan danlinellu fod angen i eglwysi America 'roddi yr ergyd marwol i Gaethfasnach,' neu bydd yn euog o gyfrannu at ei pharhad.

¹⁵³ Pleidiau Politicaidd ar y maes - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1856.

mai oherwydd y berw gwleidyddol ynghylch caethwasanaeth ‘y gelwir arnom ddangos ein hochr yn benaf ar yr adeg bresenol.’ Eto i gyd, mae ysgrif hynod ddadlennol ganddo y mis canlynol sy’n dangos na all ildio egwyddorion cychwynol y cyfnodolyn yn gyfangwbl:

Nid yw y ‘Cyfaill’ ychwaith yn ‘annog neb i bleidio unrhyw blaid wladyddol fel y cyfryw;’ ganwyd ef yn wr rhydd – mewn golygiadau crefyddol a gwleidiadol – ac nid yw eto wedi gwerthu ei ryddid unrhyw blaid... y mae yn meddwl byw, a marw, pan ddelo yr amser, yn wr rhydd. Ar yr ammodau hyn y cynnygiwyd ei wasanaeth i Gymry America, er ys mron ugain mlynedd yn ol, a phe dangosai amgylchiadau erbyn hyn ei fod wedi ‘tyngu i’w niweid ei hun,’ nid yw y rheol fawr Ysgrhythrol yn caniatáu iddo ‘newidio’ heb o leiaf rybudd prydlon o’i fwriad.¹⁵⁴

Serch hynny, mae natur ei berswâd yn gwbl amlwg wrth iddo eithrio unrhyw un sy’n anghytuno o’r ‘gymuned ddehongliadol’ a wasanaethai: ‘gyda’r Republicaniaid a Fremont y dylsent roddi eu pleidlais,’ fel mwyafrif y genedl a darllenwyr y *Cyfaill*.¹⁵⁵ Yn ystod yr un mis, cyhoeddodd ysgrif gan ‘Gwerinwr’ ac erthygl gan ‘Myrddin’ yn tanlinellu’r angen i weddio a phleidleisio’n addas, sy’n awgrymu ei fod yn ymdaflu i ddylanwadu ar bleidlais y genedl cyn yr etholiad. Croesawodd y blaid Weriniaethol yn agored ynghyd â llywio pleidlais y genedl - tueddiadau yr oedd wedi eu beirniadu ers cychwyn y fenter newyddiadurol.

Mae ei sylwadau ar gyfieithiad Cymraeg o araith ‘gynyrfiol a gwerthfawr’ Charles Sumner, un o areithwyr mwyaf blaenllaw’r Gweriniaethwyr,¹⁵⁶ hefyd yn adlewyrchu ei fod wedi ei hudo gan y blaid. Mae’r araith gan y ‘gwr athrylithgar’ sydd wedi gwneud llawer dros ryddhad Kansas, yn cynrychioli cyfyng-gyngor William Rowlands dros ddyheu am ‘ddatrys dadleuon poenus ein gwlad’ ar fyrder, ond mewn modd heddychlon. Mae ei ddymuniad taer dros ‘ledaeniad helaeth’ copïau o’r araith drwy’r holl dreflannau Cymreig, ynghyd â’i feirniadaeth ar ddiffyg ‘iawnder henafol rhyddid ymadrodd’ y llywodraeth, yn dangos ei fod yn parhau i roi gwerth ar y cyfrwng print fel arf grymus, ond di-drais.¹⁵⁷

¹⁵⁴ Yr Etholiad Dyfodol (William Rowlands) – *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Medi 1856.

¹⁵⁵ Ibid. “Eto, gwyddom fod corff y genedl, yn gystal a rhan luosocaf ein derbynwyr, o blaid rhyddid mewn cysylltiad â Fremont, ac am y gweddill anturiwn ar eu hynawsedd, tra yn ceisio ateb dymuniad y Gymdeithasfa yn Wisconsin, ac os camgymerwn (nid ydym yn gyfarwydd mewn *politics*), cymerwn ein hargyhoeddi.”

¹⁵⁶ ‘Y Trosedd yn erbyn Kansas – araeth Sumner’ - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Hydref 1856.

¹⁵⁷ *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Mehefin 1856.

Yn wir, er iddo gefnu ar rai o'i egwyddorion golygyddol, nid yw'n anghofio conglfeini crefyddol ei enwad, gan ei fod yn bwrw pleidlais mewn modd sydd yn 'addas i efengyl Crist, yn gymhwysiadol i'r amgylchiadau presenol.'¹⁵⁸ Ar sail egwyddorion y Methodistiaid, mae'n cynghori'r Cymry i 'ddwys ystyried yr achos rhyngom â Duw, a rhoddi ein pleidlais i mewn yn dawel a digynhwrf gyda'r blaid ddewisiedig, yn foreu ar ddydd yr Etholiad.' Yn niwedd ei ysgrif, mae'n cadarnhau ei fod yn ymfalchïo y gall uno â'r Cymry o dan faner y Gweriniaethwyr, er nad yw o hyd yn cefnogi'r 'Abolisioniaid' o fewn y blaid o ran eu dull o ddiddymu caethwasanaeth:

O'n rhan ein hunain, er bob amser yn bleidgar i ryddid y caeth, ni fedrem o gydwybod rodio yn llwybrau yr *Abolisioniaid*, ac o herwydd hynny caem ein gwaradwyddo yn fynych ganddynt hwy fel yn bleidgar i gaethiwed; mae cryn ddsbarth o'r teulu hyn yn awr wedi dyfod allan dan fanierau *Republicanism*, ond y mae eu lleferydd yn eu cyhuddo mai Abolisioniaid ydynt, a bygythiant yn eu hagweddau wneyd llawer mwy o niwed nag o les i achos rhyddid ar y tymhor hwn; ond y mae yn llawenydd calon genym ni, wedi dysgwyl am flynyddau, gael Plaid wladol y gallwn roddi ein pleidlais gyda hi yn gydwybodol o dir rhyddid, ac yn erbyn caethwasiaeth . . .¹⁵⁹

Eto i gyd, parhau a wnâi'r honiadau fod William Rowlands yn cefnogi'r Democratiaid fel yr oedd yr etholiad yn nesáu.¹⁶⁰ Cyhoedda'r *Drych* eu bod wedi derbyn tri llythyr o Racine yn eu hysbysu eu bod yn 'rhoddi y ____ i fyny oherwydd ei bleidgarwch o gaethwasiaeth y dehau,' ynghyd â phenderfyniad a basiwyd gan gyfarfod Cymry sir Portage, Ohio eu bod yn ystyried golygyddion nad ydynt 'wedi dyfod allan i amddiffyn Rhyddid...yn annheilwng o unrhyw gefnogaeth.'¹⁶¹ Er y gallwn gasglu gyda sicrwydd fod William Rowlands yn pleidleisio i'r Gweriniaethwyr erbyn 1856, mae cryn amwysedd o hyd ynghylch ei safiad

¹⁵⁸ *Hanes cyfansoddiad, rheolau dysgyblaethol yn nghyda Chyffes Ffydd y corph o Fethodistiaid Calffinaidd yn Nghymru a gytunwyd arnynt yn Nghymdeithasfaoedd Aberystwyth a Bala, 1823.* (1852) Argraffiad Americanaidd 1af. E.E.Roberts: Utica. Dywed nad oes angen o hyd 'myned ar draws llwybrau Gwirionedd, - mae duwioldeb yn fuddiol i hyn fel pob peth arall.' Mae'n atgoffa'r darllenwyr o ddwy reol Fethodistaidd benodol, sef peidio â bod yn 'enllibaidd a thrahaus,' a bod rhaid 'ymostwng i bob dynol ordinhad o osodiad dwyfol,' sef ufuddhau i'r llywodraeth yn ôl ewyllys Duw.

¹⁵⁹ Yr Etholiad Dyfodol (William Rowlands) – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Medi 1856.

¹⁶⁰ Gwerinwyr Cymreig Racine – y Cyhoeddiadau Cymreig a chaethwasiaeth (L.I.Evans) - *Y Drych*, Hydref 18 1856. Haera L.I.Evans fod y *Cyfaill* yn 'rhoddi cefnogaeth i'w gorthrymwyr' drwy fod yn 'gareg ateb' i Pierce, ymgeisydd y Democratiaid, tra mae ei 'eiddgedd duwiol' yn golygu ei fod yn 'tori allan yn fflam angerddol' yn erbyn Beecher.

¹⁶¹ *Y Drych*, Medi 20 1856.

gwleidyddol yn ystod y blynyddoedd ar ôl 1848, a cheir awgrym ei fod wedi bod yn aelod o'r blaid Ddemocrataidd ar un adeg.

Er i Jerry Hunter awgrymu fod William Rowlands yn Chwig cydwybodol, a hynny'n rhannol ar sail yr hyn a wyddom am ymlyniad gwleidyddol y mwyafrif o Gymry America'r cyfnod, nodir yn ei gofiant gan un ffynhonnell ei fod yn Ddemocrat hyd nes iddo ddod yn aelod 'selog a gweithgar' o'r Gweriniaethwyr ar ddechrau'r Rhyfel Cartref yn 1861.¹⁶² Fodd bynnag, mae'r Parchedig J. J. Jones, a oedd yn cyd-weinidogaethu ag ef, yn honni ei fod yn 'wladgarwr cynes gyda y blaid Ddemocrataidd er pan wnaeth ei hun yn ddinasydd.'¹⁶³ Gan na ddaeth yn ddinesydd Americanaidd tan 1851, ac o ystyried ei ddatganiadau cefnogol dros Blaid y Tir Rhydd yn 1848, mae lle i gredu ei fod wedi gwyro at y blaid yn ystod y cyfnod hwn yn unig. Yn wir, mae'n ateb gohebydd ar glawr un o rifynnau'r *Cyfaill* yn 1856 nad yw'r *Cyfaill* erioed wedi 'pleidio unrhyw blaid boliticaidd,' ond gan gadarnhau fod ei olygyddion 'bob amser hyd yma wedi rhoddi eu pleidlais dros ryddid y caethion, ac yn *Free Soilers*.'¹⁶⁴

Fodd bynnag, yn ei anerchiad yn 1856, awgryma ei fod hyd yn ddiweddar, yn wir tan y gynhadledd yn Cincinnati pan gytunwyd ar Buchanan fel llywydd y blaid Ddemocrataidd, yn cefnogi adain o'r blaid:

...ystyriem fod y naill ran o'r blaid hono, dan yr enwau *Free Soilers*, *Softs*, &c yn bleidgar i gaethiwo caethiwed, sef attal ymledaeniad caethwasiaeth i Diriogaethau newyddion y TU, a gwrthod derbyniad Taleithau caethwasaawl newyddion i'r Undeb...¹⁶⁵

Wedi hynny, mae'n datgan fod y ddwy blaid – '*Hards*' a '*Softs*' wedi uno, a 'dyfod allan braidd yn fwy ffafrifol i ymledaeniad caethwasiaeth na dim arall.' O'r herwydd, mae'r

¹⁶² Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.320 & 329. Am gefndir gwleidyddol y Cymry yn y dalaith hon, gw. Benson, Lee (1961) *The Concept of Jacksonian Democracy: New York as a test case*, Princeton University Press. Am gefndir cyffredinol, gw. Brogan, D.W. (1933) *The American Political System. (Government of the People)*, Hamish Hamilton: London; Heale, M.J. (1977) *The Making of American Politics*, Longman: London; Hofstadter, Richard (1962) *The American Political Tradition, and the men who made it*, Jonathan Cape: London.

¹⁶³ Ibid, t.330.

¹⁶⁴ Clawr - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1856.

¹⁶⁵ Yr Etholiad Dyfodol (William Rowlands) – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Medi 1856. Am fwy o wybodaeth ar y cefndir Democrataidd gw. Riker, William (1953) *Democracy in the United States*, Macmillan Company: New York.

Gweriniaethwyr presennol yn eu hareithiau yn honni mai hwy yw 'yr hen Ddemocratiaid mewn gwirionedd, a bod y rhai a elwir felly yn bresennol wedi gwro oddiar drac eu hynafiaid, megys Jefferson &c.' Atega Howell fod nifer o Gymry Utica a'r cylch wedi bod yn 'gyndyn i newid eu golygon gwleidyddol am amser hir...ac aros gyda phleidwyr caethiwed,' ac eraill 'y mysg y Meroziaid, heb ddyfod i'r maes i bledio iawnderau.'¹⁶⁶ Mae'n bur debyg felly fod William Rowlands yn aelod o'r adain a wrthwynebai gaethwasanaeth o fewn y blaid Ddemocrataidd cyn 1856, a'i fod wedi newid plaid o ddilyn y garfan hon at y Gweriniaethwyr fel cynifer o Gymry'r ardal erbyn etholiad 1856.

Mae'n rhaid cydnabod mai braslun eithaf petrus yw hwn o hanes ei wleidyddiaeth bersonol, gan nad yw ei bapurau personol wedi goroesi, fel rhai Robert Everett. Fodd bynnag, o ddefnyddio'r *Cyfaill* a'r cofiant fel ffynonellau, gellir casglu nad oedd yn pleidleisio i un blaid benodol yn y cyfnod 1838-48 oherwydd ei wrthwynebiad i gymysgu crefydd a gwleidyddiaeth. Fodd bynnag, mae'n ymddangos ei fod yn rhoi ei bleidlais am y tro cyntaf i Blaid y Tir Rhydd yn 1848, ac yn troi at y Democratiaid erbyn etholiad 1852, ac yna'n uno â nifer o'i gyd-Gymry wrth gefnogi'r Gweriniaethwyr o etholiad 1856 ymlaen. Mae cyfeiriadau cyson at y Gymdeithas Drefedigaethol yn y pytau newyddion, a'r sôn am lwyddiant y weriniaeth newydd yn Liberia drwy gydol y pedwardegau a'r pumdegau hefyd yn awgrymu ei fod yn parhau'n aelod ohoni drwy gydol y cyfnod hwn.

Ym mis Hydref 1856, ymddangosodd y *Gwron Democratiaidd*, pamffled propagandyddol i'r blaid a drengodd ar ôl dau rifyn.¹⁶⁷ Aeth y *Gwron* ati i honni bod golygyddion y *Cyfaill* a'r *Drych* yn cefnogi ymgeiswyr y Democratiaid. Gwelir bod William Rowlands yn crybwyll iddo dderbyn sawl copi o'r *Gwron*, ond y byddai'n 'fwy

¹⁶⁶ Howell, Llewelyn.D. (1860) *Traithawd ar ddechreuad a chynnydd y Gymry yn Utica a'i hamgylchoedd*, R.R.Meredith: Rome, t.27.

¹⁶⁷ Hunter, Jerry, *Sons of Arthur, Children of Lincoln*, t.71. Hefyd gw. Owen, Bob (1958) 'Cymry ac Addysg America', *Lleufer*, 14, t.29-30. Honna Bob Owen fod y newyddiadur, o dan berchnogaeth Thomas Jones, Efrog Newydd wedi peri anghydfod gwleidyddol yn y wasg gyfnodol Gymraeg, ac wedi sbarduno dadl 'boethlyd' gyda'r *Drych* ar ei ymddangosiad cyntaf drwy ei gyhuddo o 'ganiatau cadw caethweision.'

cymeradwy...pe buasai yn ymdrin mwy ag egwyddorion, a llai â phersonau.¹⁶⁸ Mae'n cyfaddef ei fod yn 'hoffi egwyddorion Democrataidd, can belled ag y cynnwysant fod y gornifer i reoli,' ond fod cythrwfl Kansas yn golygu ei fod yn 'rhwym o'u gadael yn yr ymdrechfa Lywyddol bresenol.' Mae ei ddatganiad yn yr un rhifyn ei fod yn disgwyl i'r Cymry yn gyffredinol 'wneyd eu dyletswydd...o ochr rhyddid, attal caethwasiaeth a derchafiad Fremont i'r gadair Lywyddol,' yn dystiolaeth gadarn ei fod bellach wedi gadael y Democrataid i ymuno â'r Gweriniaethwyr.

Nid yw'r wasg yn cymryd sylw o ddifrif o ensyniadau'r *Gwron*, ac mae'n amlwg hefyd fod cyfnodolion Cymru'n cadw llygad ar gyhoeddiadau Cymraeg America, wrth i'r *Amserau* ganmol y *Drych*, y *Cenhadwr* a'r *Seren* am fod mor unfrydol yn erbyn Buchanan a'r 'blaid gaethol', gan ychwanegu:

...ac er y carasem weled y Cyfaill yn dyfod allan dipyn yn fwy eglur a phenderfynol ar adeg a phwnc o'r fath bwys, y mae genym le cryf i gredu mai ofer a siomedig ydyw ymfrost y Democrataid fod y Pch. W. Rowlands yn bleidiwr iddynt.¹⁶⁹

Er gwaethaf ymlyniad William Rowlands wrth y blaid Democrataidd ar un adeg, ynghyd â'r safiad niwtral a oedd yn ei atal rhag cyhoeddi cefnogaeth agored i blaid wleidyddol yn y *Cyfaill*, mae ei ddatganiadau agored yn ystod y flwyddyn hon a'r farn gyffredinol yn ôl sawl gohebydd yn awgrymu mai gwag yw'r cyhuddiadau ei fod yn parhau i gofleidio'r Democrataid erbyn etholiad 1856. Serch hynny, hawdd gweld paham ei bod yn ymddangos i rai ei fod o blaid caethiwed. Roedd ei dawedogrwydd mewn materion gwleidyddol ynghyd â'r ffaith fod nifer o gaethfeistri yn aelodau o'r Gymdeithas Drefedigaethol yn porthi'r camsyniad. Ond pam mai'r *Drych* a oedd fwyaf parod i gyhoeddi'r ensyniadau hyn, yn wahanol i weddill gwasg gyfnodol Gymraeg America?

¹⁶⁸ Hanesiaeth Gartrefol - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1856.

¹⁶⁹ Barn yr 'Amserau' am gyhoeddiadau Cymraeg America - *Y Drych*, Tachwedd 29 1856.

Ar wahân i'r gwahaniaethau athrawiaethol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod y berthynas gythryblus rhwng y *Cyfaill* a'r *Drych* yn deillio o wedd isdestunol ar y berthynas ehangach rhwng cyhoeddiadau Cymraeg America.¹⁷⁰ Mae'n bosibl fod William Rowlands wedi sbarduno drwgdeimlad y *Drych* drwy ddatgan cefnogaeth i'r *Cymro Americaidd* yn ystod 1856, newyddiadur a sefydlwyd fel cystadleuaeth uniongyrchol i'r *Drych* a thestun cythrwfl a gawsai fynegiant drwy ddadleuon gwleidyddol a chrefyddol a ysgogwyd gan y ddwy ochr. Er bod Rowlands wedi mynegi ei edmygedd o'r *Drych* ar ddechrau'r flwyddyn, byddai ei ffyddlondeb cyson o hynny allan i anturiaeth J. M. Jones, cyn-olygydd y *Drych* a oedd ynghanol anghydfod ariannol dwys gyda golygyddion presennol y cyhoeddiad,¹⁷¹ ynghyd â golygydd y *Cymro* - Dr. J. Henry Puleston - a feiwyd am gamddarlunio safiad gwleidyddol y *Drych*, yn siŵr o ennyn ymateb ffyrnig.¹⁷²

¹⁷⁰ *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1856. Mae dadl ar seiliau crefyddol amlygu is-destun gwleidyddol yn nisgwrs golygyddol William Rowlands mewn ymateb i'r cyhuddiadau yn ei erbyn yn y *Drych*. Trwy gyfrwng ysgrif yn condemnio'r *Drych* ym mis Gorffennaf am fater ymddangosiadol ddiwbys o gyhoeddi pris llyfr hymnau'r cyfundeb yn anghywir, mae William Rowlands yn rhoi ergyd ar ddiwedd y baragraff drwy wneud sylwebaeth ar sylw blaenorol un o gefnogwyr y *Drych* am ei wroldeb yn yr ymgyrch wrthgaethiwol: "O! Na allem ddileu y duedd enllibgar sydd mewn dosbarth o'n cydgenedl. Maent yn rhy anwaraidd i gyflawni gweithred yn peryglu eu rhyddid neu eu bywyd, ond i wneyd peth sydd lawer gwaeth yn fynych, mewn lled-grybwylliadau, moes-eiriau, a mân-gelwyddau enllibaidd, maent yn *wroniaid* hyfion a dewrwyh!"

¹⁷¹ *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1856. Ar ddechrau'r flwyddyn mae William Rowlands yn dymuno llwyddiant y *Drych* 'fel cyfrwng newyddion derbyniol a buddiol iawn,' gan fod 'angen ac archwaeth y genedl' yn gofyn am newyddion gwleidyddol yn amlach nag unwaith y mis. Fodd bynnag, mae ffynhonnell yn ei gofiant hefyd yn dweud ei fod yn cymdeithasu ar yr heol gyda J.M.Jones, sy'n dangos rhyw fath o adnabyddiaeth bersonol ohono, ac yn y mis canlynol mae'n dangos yr un gefnogaeth tuag at ei 'gymydog aiddgar' y *Cymro Americaidd*, ac yn canmol J. M. Jones am 'yni nid cyffredin yn ei anturiaethau': *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1856. Byddai datganiad golygydd y *Cyfaill* o ffyddlondeb iddo a'r hysbysebion mynych i'r newyddiadur yn dân ar groen caredigion y *Drych* a oedd yn cyhoeddi ysgrifau yn fynych am yr anghydfod, er i William Rowlands gynghori J.M.Jones 'i dori tipyn bach ar ei ewinedd, hyd yn nod wrth ymddyddan a'i gymydog unedig; ond odid na theimla yn y pen draw fod yr *olew* yn fwy treiddgar na'r *gwinegr*': Camdystiolaeth Maleisus, *Y Drych*, Medi 13 1856. Hefyd gw. Griffiths, Huw (2002) *Report of a research project on Y Drych and Welsh-American identities, 1851-1951*, University of Wales, Board of Celtic Studies: History and Law Committee. Mae'n cynnwys bywgraffiad o berchnogion a golygyddion y *Drych*, ac yn dweud fod John M. Jones wedi gwerthu'r papur i 'gonsortiw m o Gymry' yn 1854, a bod ei anfodlonrwydd gyda'r perchnogion newydd a'i honiadau nad oeddent wedi ei ddigolledu'n llawn yn ei arwain i sefydlu'r papur *Cymro Americaidd* ar Fai 1, 1856 i gystadlu ag o.

¹⁷² Er bod Bob Owen yn nodi mai J. M. Jones, Dr. Puleston a Thomas Gwallter Price oedd sylfaenwyr y *Gwron Democrataidd*, mae astudiaeth ddiweddarach gan Maldwyn Jones yn honni fod y *Cymro* yn bapur propagandyddol Gwerinaethol, a bod Dr. Puleston yn trefnu clybiau Fremont ym Mhennsylvania ac yn areithio ynddynt. Creda fod cyhuddiadau'r *Drych* ei fod yn Ddemocrat ac yn cefnogi caethwasanaeth yn deillio o gynnen bersonol rhwng y golygyddion yn dilyn datganiad gan Puleston ei fod yn bwriadu parhau i gyhoeddi'r *Cymro*, a fyddai'n fygythiad i gylchrediad y *Drych*. Noda Jones, T. M. (1893) *Llenyddiaeth fy ngwlad*, P. M. Evans: Treffynnon, t.206, fod gan y *Cymro* gylchrediad eang iawn a'i fod yn denu cyfraniadau gan lenorion blaenllaw megis Eos Glan Twrch a Iorthryn Gwynedd. Ymatebodd Puleston i'r cyhuddiadau drwy ddadlennu fod golygydd y *Drych*, J. W. Jones wedi caniatáu i'w argraffwyr gyhoeddi'r *Gwron*, a fyddai'n egluro'r

Erbyn diwedd y flwyddyn, mae William Rowlands yn cyfeirio at y *Drych* fel ‘gelyn’ ac yn beio’r golygyddion am ‘ddinystrio ei lafur a’i ddefnyddioldeb.’ Mae’n bosibl ei fod yn chwero o gael ei orfodi gan y *Drych* i gefnu ar ei safiad niwtral arferol er mwyn atal unrhyw si ei fod yn gefnogol i’r blaid Ddemocrataidd. Er gwaethaf tystiolaeth i’r gwrthwyneb, mae’n parhau i ddatgan nad ei fod yn ‘tewi yn ddystaw dan lawer oer-frath lem’ pan gyhoeddir beirniadaeth yn erbyn y *Cyfaill*, ond teimla reidrwydd i ymateb i gyhuddiadau’r *Drych* er mwyn ‘gwanhau ysbryd enllibgar.’¹⁷³

Yn ei anerchiad golygyddol ar ddiwedd blwyddyn fawr William Rowlands yn 1856, mae’n ymfalchïo ei fod wedi cael yr anrhydedd ‘o wasanaethu ein cenedlaeth’ gyda chydwybod dawel ac yn ôl ewyllys Duw, er gwaethaf ‘pob gofid a helbul’:

Afraid dweyd na bu erioed y fath farnu, cam-farnu a cholffarnu ar egwyddorion gwleidiadol y *Cyfaill* a’i olygwyr yn nghyffroad yr Etholiad Llywydddawl diweddar. Fel cyhoeddiad crefyddol, ni ddarfu i ni erioed feddwl fod ei egwyddorion gwladwriaethol o gymaint pwys yn ngolwg ein cydgenedl. Ein dull adnabyddus ni o’r dechreuad yw cyhoeddi pob peth hyd y goddefo ein gofod, ag a farnom o bwys a dyddordeb i’n darllenwyr, o bob ochr, am bob plaid, yn ddiofal hollol o’r dylanwad pleidiol. Nid ydym yn amddifad o olygiadau gwladwriaethol, nag yn ei ystyried yn bechod pleidio y golygiadau hyny, tra yn ymddwyn yn addas i Efengyl Crist; ond hyn a gadarnhawn, ‘yn ngwyneb haul a llygad goleuni,’ na chafodd ein golygiadau gwleidiadol na chrefyddol erioed ein harwain i wneuthur cam gwirfoddol a’r gwirionedd. Ac:

‘Ar y gwir y mae rhagoriaeth
O’n lleddir am y gwir, ba waeth!’¹⁷⁴

amheuaeth fod y *Drych* yn cefnogi’r Democratiaid. Mae’n bur debyg felly fod William Rowlands wedi ei ddal yn y frwydr rhwng y ddau bapur yn sgil ei ddatganiad o gefnogaeth i’r *Cymro*, ac o bosibl ei adnabyddiaeth o’r sawl a oedd yn gysylltiedig â’r papur gan ei fod yn byw ym Mhennsylvania erbyn hyn. Gw. Jones, Maldwyn A., ‘Welsh Americans and the anti-slavery movement in the United States’, t.124-5; Owen, Bob (1950) ‘Welsh American newspapers and periodicals’ *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, cyfrol 6, rhif 3, t.373-84.

¹⁷³ *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Gorffennaf 1856.

¹⁷⁴ Anerchiad golygyddol - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, 1856.

Pennod 5: ‘Oes y byd i’r iaith Gymreig?’ DYFODOL YR IAITH GYMRAEG YN

AMERICA.

Bydd bechgyn gwyllt Walia mi goelia mewn gwir,
Yn cywir ddymuno ‘Boed iddo oes hir,’
I gario’i drysorau trwy’r Unol Daleithiau,
Yn hen iaith eu mamau deg eiriau digoll.¹

Mae nifer helaeth o astudiaethau academiaidd yn pwysleisio iaith fel elfen annatod o hunaniaeth yn eu diffiniadau, yn enwedig i genedl leiafrifol nad oes ganddi statws gwladwriaethol.² Yng nghyd-destun cenedligrwydd Cymreig y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd y Gymraeg yn gwbl ganolog, ac amcangyfrifir bod 90% o’r boblogaeth yn defnyddio’r iaith fel eu prif gyfrwng cyfathrebu.³ Ar ddechrau’r ganrif yng Nghymru, roedd cymaint â hanner miliwn yn uniaith, a chyfran helaeth o’r boblogaeth yn defnyddio’r Gymraeg yn gyson,⁴ ac felly nid yw’n syndod bod gan y *Cyfaill* rwydwaith barod o ddarllenwyr hyd yn oed ymhlith ymfudwyr yn America, a’r gynulleidfa honno’n dibynnu arni fel un o bileri’r iaith, fel y dengys y gerdd uchod.

Er nad oedd darn o dir penodol lle gallai’r Cymry ymwreiddio ar ôl ymfudo i America, parhai’r iaith yn y cyfnod yn un o’r prif gyfryngau i ddynodi arwahanrwydd y genedl mewn cyd-destun crefyddol, cymdeithasol a diwylliannol, ac fel llinyn cyswllt rhwng yr elfennau hyn:

Er bod eu hunaniaeth yn hanfodol glwm wrth diriogaeth benodol ac wrth gof hanesyddol a oedd yn seiliedig ar fythau a symbolau yn ogystal ag ar ffeithiau moel, y cwlwm grymusaf rhyngddynt oedd eu hiaith frodorol...Y Gymraeg a deyrnasai yn y

¹ Annogaeth i’r Cymry i gefnogi y ‘Cyfaill o’r Hen Wlad’ - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Mai 1841.

² Kedourie, Elie (1960) *Nationalism*, Blackwell: Oxford, t.56 .

³ Kinealy, Christine (1999) *A Disunited Kingdom? England, Ireland, Scotland and Wales, 1800-1949*, Cambridge University Press, t.124.

⁴ Jenkins, Geraint.H. (1999) ‘Cymru, Cymry a’r Gymraeg’: Rhagymadrodd, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a’i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.1.

cartref, yn y gweithle ac yn yr addoldai, a chyfoethogid y rhain i gyd gan ddiwylliant cynhenid cymunedol arbennig.⁵ Er bod patrymau hynt yr iaith amrywio'n fawr rhwng unigolion a threflannau yn ôl grym cerrynt y dyhead i ymdoddi, roedd yr iaith i nifer yn rhan o'u bywydau preifat a chyhoeddus yn y cynefin newydd ac yn atgof o ffordd o fyw yr hen wlad, 'only this language could bind the present in an organic continuum with the past.'⁶ Roedd nid yn unig yn gwllwm â'r gorffennol, ond yn gymwys i ymgodymu â phatrwm cymdeithasol y wlad fabwysiedig, ac felly, trwy gyfrwng y wasg brint yn annuniongyrchol, cawsai'r iaith gryn ddylanwad ar agweddau'r gynulleidfa. Yn wir, tybir fod pob rhifyn o'r cyfnodolion yn cylchredeg rhwng tuag ugain o bobl, a oedd yn rhoi amlygrwydd i'r iaith yn eu plith:

'Roedd yn arferiad i bobl wrando ar ddarlleniadau cyhoeddus o gynnwys cyfnodolion a thrwy hynny, deuent yn gyfarwydd â phatrymau a rhythmau'r iaith ysgrifenedig ac yn ogystal caent gyfle i gyfoethogi eu geirfa mewn amrywiol gyweiriau. Y nodwedd bwysig oedd bod yr iaith 'ar waith' ac yn cael lle amlwg a pherthnasol wrth fynegi syniadau, ymagweddiadau ac, wrth drafod pynciau, problemau a digwyddiadau a oedd yn gyfoes i'r cyfnod.⁷

Er gwaethaf gelyniaeth at yr iaith yn achlysurol a'r pwysau i gymhathu â'r ffordd Americanaidd o fyw, gallai sefyll ei thir i raddau helaeth yn y treflannau Cymreig gan ei bod yn sylfaen i fwllwm diwylliannol y cymunedau hynny. Mae dyfyniad William D. Jones, sy'n trafod natur y cymunedau hyn yn ddiweddarach yn ystod y ganrif, yr un mor berthnasol i'r cyfnod a drafodir yma:

Yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd hynny lle'r oedd y Cymry wedi ymsefydlu yn niferus yn yr Unol Daleithiau, fe'u hystyrid yn grŵp bychan, ond ar wahân, a chanddynt gryn ddylanwad lleol. Elfen allweddol o'u harwahanrwydd oedd eu bod yn meddu ar y Gymraeg ac yn ei defnyddio... Y mae agweddau'r grwpiau eraill di-Gymraeg yn awgrymu bod i'r Gymraeg swyddogaeth bwysig o ran rhoi hunaniaeth arbennig a neilltuedig i ymfudwyr o Gymru, ynghyd â chryn fesur o undod fel grŵp.⁸

⁵ Ibid.

⁶ Jones, Ieuan Gwynedd (1992) *Mid-Victorian Wales: The Observers and the Observed*, University of Wales Press: Cardiff, t.77; Jones, William.D. (1998) 'Y Gymraeg a Hunaniaeth Gymreig mewn Cymuned ym Mhennsylvania,' yn Jenkins, Geraint.H. *Iaith Carreg fy Aelwyd: Iaith a Chymuned yn y Bedwaredd Ganrif a Bymtheg*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.256-8; Gruffydd, Heini (2001) 'Pen Draw Cymreictod,' yn (gol) Thomas, M.Wynn, *Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd – dywed fod yr iaith wedi bod yn hollbwysig i ddiffinio hunaniaeth Cymry America.

⁷ Jones, Robert Owen (1997) *'Hir Oes i'r Iaith': Agweddau ar hanes y Gymraeg a'r Gymdeithas*, Gomer: Llandysul, t.258.

⁸ Jones, William.D., 'Y Gymraeg a Hunaniaeth Gymreig mewn Cymuned ym Mhennsylvania', t.264.

I nifer o Gymry America, yn enwedig yr ymfudwyr cynharaf, roedd y dyhead hwn i warchod yr iaith fel cyfrwng cyfathrebu yn un o seiliau'r gymuned:

The nation can thus be defined as a community of character that grows out of a community of destiny rather than from a mere similarity of destiny . . . This is also the significance of language for a nation. It is with the people I stand in closest communication with that I create a common language; and it is with the people with whom I share a common language that I stand in closest communication.⁹

Fodd bynnag, er bod trwch y bobl yn siarad y famiaith ar droad y bedwaredd ganrif ar bymtheg, datblygodd teimpladau cymysglyd tuag at ei phwysigrwydd yng Nghymru ac ymhlith cymunedau alltud yn ystod y ganrif:

Roedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ganrif y cyfnewidiadau a'r deuoliaethau. Bu'n ganrif hogi cleddyfau yn erbyn yr iaith, ond hefyd gwelwyd cryn weithgarwch a fu'n llesol iddi ac a sicrhodd ei bod yn goroesi newidiadau ysgytwol y cyfnod.¹⁰

Dioddefai'r genedl yr hyn a elwir gan Hywel Teifi Edwards yn 'seicoleg glwyfus y ganrif,' a effeithiai ar agweddau tuag at yr iaith mewn amryw o ffyrdd:

Gwelodd Cymry oes Victoria ymwrthod torcalonnus â'r Gymraeg, amharodrwydd i wynebu ei pherygl gan y lliaws ac awydd taer i'w nerthu ymlaen gan ychydig rai.¹¹

Pa ran a chwaraeai'r wasg brint felly yng nghadwraeth yr iaith Gymraeg yn America yn wyneb lluo o newidiadau?

(i) Cadw'r Gymraeg.

Roedd perthynas symbiotig rhwng yr iaith Gymraeg a'r diwylliant print yn America, gan mai'r agendor ieithyddol rhwng y Cymry uniaith a'r Americanaid a danlinellodd yr

⁹ Bauer, O (1996) 'The Nation,' in (ed) Balakrishnan, G, *Mapping the Nation*, Verso: London, t.52.

¹⁰ Jones, Robert Owen (1997) '*Hir Oes i'r Iaith*': *Agweddau ar hanes y Gymraeg a'r Gymdeithas*, Gomer: Llandysul, t.242.

¹¹ Edwards, Hywel Teifi (2001) 'Llef dros y Ganrif fwyaf,' yn (gol) Jenkins, Geraint.H., *Cymru a'r Cymry 2000 – Trafodion Cynhadledd Milflwyddiant Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru*, Gomer: Llandysul, t.72-3.

angen am gyfnodolion Cymraeg, ond datblygodd y wasg hefyd i fod yn gynhysgaeth i'r iaith ar dir estron.

Cyfeiria Aled Jones at 'swyddogaeth ddeublyg' newyddiaduraeth Gymraeg gan ddefnyddio'r papur *Seren Gomer* yn 1818 fel enghraifft. Dengys fod y cyhoeddiad hwnnw yn ceisio diwallu nifer o anghenion ac hefyd yn cynrychioli 'ymgais fwriadol' i hybu iaith goeth yn sgil ei ddylanwad ar y gynulleidfa ieithyddol:

Er bod pob papur, i raddau, yn ceisio cyflwyno gwybodaeth ac addysgu a diddanu ei ddarllenwyr, yr oedd gan y papurau hefyd genhadaeth, uniongyrchol neu annuniongyrchol i ddiogelu, gwella ac estyn yr iaith Gymraeg. Rhoddai'r dimensiwn ieithyddol a diwylliannol hwn sêl genhadol a phwysigrwydd i'w gwaith (a hunanbwysigrwydd hefyd, efallai) a oedd ymhell y tu hwnt i'r hyn a awgrymid gan eu helw neu eu ffigurau cylchrediad.¹²

Fel cenedloedd ymfudedig eraill, er bod y Cymry ar wasgar mewn gwahanol dreflannau ar hyd y cyfandir, roedd y wasg yn creu ymdeimlad o berthyn i grŵp ieithyddol arbennig, er bod aelodau'r grŵp hwnnw wedi eu diwreiddio o'u tiriogaeth hanesyddol:

The immigrant press serves at once to preserve the foreign languages from disintegrating into mere immigrant dialects, hyphenated English, and to maintain contact and understanding between the home countries and their scattered members in every part of the United States and America.These functions of the press naturally tend to preserve the national feeling; but beyond this there is an intrinsic connection between the desire to preserve national identity and the written mother tongue. This feeling is most defined among members of the 'oppressed' races....¹³

Fel yn achos nifer o wledydd eraill Ewrop, o ddiwedd y ddeunawfed ganrif ymlaen bu rhyw fath o adfywiad ieithyddol yng Nghymru, a bu'r wasg argraffu'n fodd i'w atgyfnerthu a'i ymestyn. Amlinellwyd ymhellach ymwybyddiaeth cyffredinol o iaith fel symbol mewnol y genedl gan Fichte yn 1806,¹⁴ oherwydd ei grym i ffurfio clymau anweledig rhwng aelodau'r genedl a ddwysai'r ymdeimlad o berthyn:

¹² Jones, Aled (1999) *Yr Iaith Gymraeg a Newyddiaduraeth*, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.363.

¹³ Park, Robert Ezra (1922) *Immigrant Press and its Control*, Harper and Brothers: New York, t.55.

¹⁴ Joseph, J (2004) *Language and Identity*, Palgrave Macmillan: Hampshire, t.110.

The bonding, and, where necessary, assimilating functions of language are thus crucial to national ideology.¹⁵

Gellid dadlau felly bod William Rowlands yn rhan o fudiad ehangach i godi statws iaith a oedd heb unrhyw hawliau cyfreithiol, er mwyn ennyn parch iddi fel adnodd diwylliannol toreithiog. Yn wir, dywed un gweinidog yn ei gofiant ei fod yn dymuno ‘oes y byd’ yn aml yn gyhoeddus i’r iaith.¹⁶ Cyflawnodd y wasg sawl swyddogaeth yn y cyd-destun ieithyddol gan ei bod yn caniatáu i’r iaith fod yn rhan weladwy o ddiwylliant llythrennog y genedl:

Rhoes y papurau newydd lwyfan cyhoeddus i’r iaith Gymraeg, llwyfan y gellid ei weld oddi mewn ac oddi allan i Gymru, gan Gymry Cymraeg a di-Gymraeg. Ysgogodd ddiddordeb yn yr iaith a’i ffurfiau, gan annog darllenwyr ar yr un pryd i feithrin yr un rhugledd a llythrennedd yn y Saesneg. Yn bwysicach fyth, gwnaeth y papurau newydd hi’n bosibl i nifer mawr o bobl ddarllen Cymraeg yn rheolaidd, gan sicrhau ei pharhad fel iaith lenyddol boblogaidd. Er gwaethaf cyfyngiadau ariannol a rhaniadau enwadol, daeth y wasg newyddiadurol â’r iaith Gymraeg i lygad y cyhoedd ar ffurf ddynamig a modern.¹⁷

Fel arloeswr cydnabyddedig gwasg gyfnodol Gymraeg America, roedd gan y *Cyfaill* swyddogaeth hanfodol i feithrin cadwraeth yr iaith fel rhan ganolog o hunaniaeth yr ymfudwyr. Roedd y wasg yn biler i’r iaith, nid yn unig drwy fod yn sylfaen i’r gymuned brint fel cyfrwng mynegiant (*‘discursive construct’*)¹⁸ ac yn rym diwylliannol ynddo ei hun, ond hefyd roedd yn adnodd gweithredol mewn ymgyrchoedd dros barhad yr iaith.

Roedd gweithredoedd megis eiddo Llywodraeth Talaith Ohio yn gorchymyn argraffu mil o gopïau o ‘Genadwri y Llywydd Taleithiol’ yn yr iaith Gymraeg yn dangos bod ganddi bresenoldeb pendant yn America. Yn fwy na hynny, roedd balchder rhai o dderbynwyr y *Cyfaill* fod Talaith Ohio yn ‘dangos anrhydedd i’r genedl’ yn y modd hwn yn cynyddu eu hyder yn addasrwydd y Gymraeg ar gyfer dibenion mwy ffurfiol.¹⁹ Yn yr un modd, bu

¹⁵ Williams, Lynn (1999) ‘National Identity and the Nation State: Construction, Reconstruction and Contradiction,’ in (ed) Cameron, K, *National Identity*, Intellect: Exeter, t.8.

¹⁶ Powell, Parchedig Howell (1873) *Cofiant y diweddar Barchedig William Rowlands, D.D., Utica Efrog Newydd*, Mrs Catherine Rowlands: Utica, NY, t.330 - Dyfyniad o lythyr y Pch. J. J. Jones.

¹⁷ Jones, Aled (1999) *Yr Iaith Gymraeg a Newyddiaduraeth*, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a’i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdyddt.373.

¹⁸ Joseph, J, *Language and Identity*, t.120.

¹⁹ Cyfarfod Dirwestol yn Remsen - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Ebrill 1839. Hefyd gw. ‘Eu hiaith a gadwant’ – yr iaith Gymreig yn Ohio - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Chwefror 1839. Teimlant fod y weithred yn ‘arwydd o barch

galwad yn y *Cyfaill* ar Gymryr Pennsylvania i efelychu'r cyfeillion yn Ohio, a dengys hynny fod y *Cyfaill* yn barod i gymryd rhan mewn brwydrau ieithyddol o'r fath.²⁰

Defnyddiwyd y cyfnodolion Cymraeg yn America yn helaeth i wrthweithio effeithiau'r dyhead cryf i ymdoddi'n ieithyddol a hynny drwy gyfrwng anerchiadau ac ysgrifau a oedd yn ennyn diddordeb yn yr iaith. Yn wir, roedd yn ystyriaeth i nifer o gyfranwyr y wasg wythnosol a chyfnodol yng Nghymru drwy gydol y ganrif gan na allent ei phriodoli'n daclus i beuoedd neilltuol, a gwelwyd nifer o lythyrau'n pryderu am ei dyfodol ar eu tudalennau.²¹ Gan nad oedd statws cyfreithiol i'r Gymraeg, bu'n rhaid i'r bobl gyffredin gymryd cyfrifoldeb am ei gwarchod; ac yn ôl Hywel Teifi Edwards, roedd yn llawer haws 'gofidio am sefyllfa'r iaith na gweithredu'n gadarnhaol o'i phlaid,' yr hyn a elwir ganddo yn '*passive goodwill*.'²²

Diffinia Bhabha bwysigrwydd iaith i'r diwylliant (*analytic pluralism*) fel sail i'r amrywiaeth o naratifau sy'n cynhyrchu, cynnal ac atgynhyrchu portreadau o'r genedl. Defnyddid amrywiaeth o ffurfiau gan yr holl gyhoeddiadau Cymraeg, yn gyfuniad o'r creadigol a'r ffeithiol, i ddarbwylllo'r Cymry ymfudedig o bwysigrwydd yr iaith. Yr hyn a oedd yn gyffredin rhwng cyfran helaeth o'r deunydd hwn oedd bod yr awduron yn tynnu ar elfennau Rhamantiaeth fel genre llenyddol i fynegi eu cenedligrwydd, ac mae'n egluro'r naws sentimental sy'n britho'r darnau hyn. Roedd y duedd hon yn nodweddiadol o'r disgwrs cenedlaetholgar a ymledai drwy Ewrop yn y cyfnod, a'r technegau hyn yn ffordd rymus i danio emosiwn aelodau o'r genedl i weithredu dros eu diwylliant.²³

Mae'r *Cyfaill* yn ymdaflu i'w ddyletswydd yn ddisymwth gydag ysgrif yn yr ail rifyn ar 'foddion a sefydliadau' a fydd yn 'llwyddiannus er cadw ac estyn oes y Gymraeg,' sy'n

i'n cyd-genedl fel dinasyddion da yn y Gorllewin,' a gweithreda fel ysbrydoliaeth i Lywodraeth ym Mhensylfania ac Efrog Newydd dderbyn yr un fraint.

²⁰ Cennadwri Llywiawdwr talaith Pennsylvania yn Gymraeg - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1840.

²¹ Edwards, Hywel Teifi (2001) 'Llef dros y Ganrif fwyaf,' t.73.

²² Ibid, t.74.

²³ Baycroft, Timothy (1998) *Nationalism in Europe, 1789-1945*, Cambridge University Press, t.14-5.

dangos bod yr iaith ar frig agenda'r cylchgrawn o'r dechrau. Ynghyd â'r Ysgol Sul a'r cymdeithasau Cymreig, rhestrir y wasg fel arf hanfodol yn y frwydr i warchod yr iaith:

Wrth chwilio ei ddail, yn mysg pethau eraill, tra dywenyddawl genyf weled cymaint awyddfryd dangosiadol oddiwrthy chwi ac eich Gohebwy'r i ryddhau y Gymraeg o gaethiwed Seisnigaidd y wlad hon; a gobeithiwyf yr amlha ac yr ymladaena yr yspryd gwladgarawl hwn yn mhob congl o'r eangdiroedd hyn, pa le bynag y mae neb o hil Gomer yn preswyllo.²⁴

Mynegir pwysigrwydd y misolion Cymraeg fel 'colofnau cedyrn i ddal i fynu y Gymraeg' a dywedir eu bod yn cynnig 'ymborth – prydlon a rheolaidd i'r Cymry uniaith.' Mae'r *Cyfaill* yn diwallu anghenion y Cymry drwy gyfrwng eu hiaith gyntaf gyda chysondeb, ac felly'n ymgorfforiad o'u hunaniaeth Gymreig drwy gwmpasu gwahanol elfennau eu Cymreictod:

Gan fod ein cenedl ni mal cenedloedd eraill, yn sychedig am wybodaeth yn ei gwahanol ganghenau, wele yma gyfryngau idd eu diwallu, mal nad oes achos iddynt dalu am dano ar fwrdd estron. Ac i'r pwrpas hyn, llwyddiant, meddwyf, i'r *Cyfaill*, i hir wasanaethu y Cymry yn America, yn eu hiaith enedigol eu hunain.²⁵

Yn hyn o beth, fe'i croesawyd fel darparwr gwybodaeth a chyfrwng mynegiant allweddol i wahanol anghenion nifer o Gymry America:

Gwallgof y cyfrifwyf y dyn, yn enwedig y Cymro, a ddywed mai afreidiol a diles cadw a choleddu yr iaith Gymraeg yn y wlad hon; y mae ei thrysorau yr un mor llawn o eiriau cynhwysfawr yn America ac yn Nghymru. Ond gwir fod ein helyntion ni yn wahanol i'n cydgenedl yno, gan ein bod yn ymddibynu ar ein cyfeillion Americanaidd am gyfryngau gwybodaeth mewn iaith estronol; ond eto credwyf a llawenychwyf fod Cymraeg i gael ei siarad gan genedl y Cymry yn y rhan hyn o'r ddaear, tra huan a lloer yn rhoi eu llewylch.²⁶

Ystyrir y *Cyfaill* yn un o gonglfeini parhad yr iaith, yn enwedig mewn 'gwlad estronol' lle mae cyfryngau o'r fath yn anhepgor i gadw'r Gymraeg:

Yn ganwyll i dywys hil Gomer hawddgaraf,
A chymhorth o'r mwyaf i gadw ein hiaith.²⁷

Roedd y cyfnodolion hefyd yn meithrin diwylliant trawsatlantig cyfnewidiol, sy'n dangos fod yr iaith yn ffenomen symudol y gellid ei chludo dros yr Iwerydd:

²⁴ Cadw y Gymraeg (Gomeriad, O-o) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1838.

²⁵ Ibid.

²⁶ Ibid.

²⁷ Llwyddiant i'r *Cyfaill* (R.ap Ioan, Cincinnati) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1839.

The Welsh as a nationality have a strong conservative tendency – they cling to their language, though scattered over lands where English is the language of court and business.²⁸

Nid o'r famwlad yn unig y deuai'r deunydd argraffedig i borthi awch y Cymry yn America am faeth printiedig, ond chwenychai trigolion Cymru eu cynnyrch hwy yn ogystal:

Bydd yn dda gan eich cydgenedl yn y wlad hon, weled gwaith brodorion Cymreig America yn dyfod drosodd yn argraffedig, i'n dyddanu a'n haddysgu yn yr hen famwlad dlawd...²⁹

(ii) 'A'r Cyfaill hwn derbyn.'

Roedd y *Cyfaill* yn cyflawni nifer o ddyletswyddau mewn ystyr gelfyddydol ac ymarferol, ond roedd angen pileri eraill i greu diwylliant cyflawn, megis yr Eisteddfodau a'r cymdeithasau Cymreig, a bu'r wasg gyfnodol yn ei chyfanrwydd yn gefnogol iddynt. Cyn i'r dwymyn eisteddfodol gydio o ddifrif yn yr 1850au, roedd y cymdeithasau gwladgarol yn cynhyrchu llenyddiaeth a danlinellai'r angen i fod yn ffyddlon o blaid y Gymraeg drwy gyfrwng anerchiadau, areithiau a cherddi. Cyn bod cyfnodolyn arall yn ymddangos i wasanaethu Cymry America, roedd y *Cyfaill* yn rhan o'r ymdrech gydweithredol i ddiogelu'r iaith drwy gyhoeddi eu gweithrediadau:

Ac yn gymmaint a'n bod fel cenedl wedi ymwasgaru ar hyd y wlad eang hon yn mhlith estroniaid, yr oedd yn angenrheidiol i'n gael Cylchgrawn trwy ba un y caem gyfrinachu, a hyny yn iaith ein mamau . . . a'n dyben wrth sefydlu y Gymdeithas hon ydyw amddiffyn a choleddu yr hen iaith ardderchawg sef yr Omeraeg.³⁰

Cri parhaus y cymdeithasau'n gyffredinol oedd anogaeth i 'fod yn aeddlawn a diwyd yn y gorchwyl o ddal a diffyn yr hen Omeraeg orwiw,³¹ sy'n dangos fod y wasg brint a'r cymdeithasau yn ymarfogi ar y cyd yn yr ymgyrch ieithyddol:

²⁸ Davies, Pch. David (1947) *Oshkosh, Wisconsin, Welsh settlement Centennial: Translation of 'Hanes y Cymry'*, Russell Stationery Co: Amarillo.

²⁹ At Olygydd y Cyfaill (Iago Trichrug) – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Hydref 1838.

³⁰ Anerchiad Cymdeithas Gymreigyddol Newark, Ohio – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1838.

³¹ 'Oes y Byd i'r iaith Gymraeg' – ail Gylchwyl Cymdeithas Cymreigyddion Maes-Tre-Mwnwyr - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1838.

Gan eich bod yn caru llwyddiant eich cenedl yn mhob peth da, mi a feddyliais mai nid anfuddiol anfon atoch yr hanes byr a ganlyn, er ei belydru trwy eich Cyhoeddiad llesol ger gwydd ein cenedl yn gyffredinol; ac yr wyf yn meddwl y bydd yn hoff gan achlesyddion yr iaith Gymreig.....Dybenion ein Cymdeithas ydyw dwyn y Cymry i achlesu a diffyn yr iaith Gymreig, trwy ei chadw mewn ymarferiad, a chwanegu gwybodaeth fuddiol yn ein plith, fel cenedl yn ngwlad uchelfreinniog ein dewisiad.³²

Yn hyn o beth, cydnabyddir arwyddocâd y *Cyfaill* fel cymwynaswr i'r iaith yng nghyfarfodydd gwahanol gymdeithasau a dathliadau Gŵyl Ddewi:

Bum yn synu rai prydiau wrth glywed amryw o lanciau Cymru, gwythienau pa rai a gadd eu llanw o waed ar fryniau hyfryd Gwalia, wedi iddynt aros yn y wlad hon flwyddyn neu ddwy, yn gwisgo amdanynt siaced fraith y Sais, ac yn rhydyllio y fath gymmysgedd allan, gan ffugio eu bod wedi anghofio iaith eu mamau, hyd nes y byddo yn ddigon i daflu y Cymro gwladgarol a synwrol i lesmair wrth wrando arnynt. Ond...fe gododd yr haul ar y Cymry, ac y mae ei belydr mor danbaid nes y mae yr ystlumod a'r dylluanod yn gorfod ffoi i'w tyllau.³³

Mae'r delwedd yr haul yn awgrymu bod teimlad fod y *Cyfaill* yn arwydd o wawr newydd yn nhynged y Gymraeg. Arwyddair a ddefnyddid yn gyson mewn ymgynulltiadau o'r fath oedd 'Eu Hiaith a Gadwant,' ac amlinellir edmygedd cymdeithasau gwladgarol o'r *Cyfaill* fel cynhaliaeth i'r iaith wrth iddynt annog pawb sy'n siarad Cymraeg i'w brynu.³⁴ Yn rheolaidd, cysylltir cariad at yr iaith Gymraeg â dyletswydd i gefnogi'r *Cyfaill* gan feirdd ac awduron Cymraeg Americanaidd:

A gâr fêr iaith y gwir frythyn – cyfod,

A'r *Cyfaill* hwn derbyn...³⁵

Maent yn addo dyfodol llewyrchus iddo os parha yn ei wasanaeth ieithyddol:

Gelynion ddigalonir,
Cofia ein hiaith, cei fyw'n hir.³⁶

³² Sefydliad Cymdeithas Gymroaidd - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Medi 1838.

³³ Anerchiad Cymdeithas Gymreigyddol Newark, Ohio – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1838. Hefyd gw. Rhagoroldeb yr Omeraeg – talfyriad o araith Gwyl Ddewi, Palmyra, Ohio - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1841. "...gan ddymuno llwydd i'r 'Cyfaill o'r Hen Wlad,' i helaethu gwybodaeth o'r iaith Gymreig yn mhlith fy nghydedd sydd yn wasgaredig ar hyd eang-diroedd America, yn nghyda phob man arall lle y maent."

³⁴ Cyfarfod y Cymry yn Blossburg - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1839; Anerchiad i'r *Cyfaill* (B.T.Glyniaen, Ebens). "O'm calon dymunwn ei lwydd; ac nid oes genyf un amheuaeth na bydd i bob Cymro, sydd yn caru yr hen iaith glodfawr Gymraeg, idd ei gynnorthwo, yn ei fabandod, mewn gwlad estronol" - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

³⁵ Anerchiad i'r *Cyfaill* (Eos Glan Twrch) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1838.

³⁶ Anerchiad i'r *Cyfaill o'r Hen Wlad* (Gwilym ab Ioan) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1840.

Roedd nifer o'r cymunedau hyn yn ymroi'n frwd i'r achos ieithyddol drwy arddel y cysylltiad gyda'r hen wlad, gan roi pwys ar yr iaith fel nodwedd annatod o'u hunaniaeth yn y ddwy wlad:

...ydym wir Omeriaid, yn ceisiau efelychu ein hen deidiau a ein brodyr presennol, draw ar lanerchau hen Walia wiw, trwy ddal i fynu sefydliad Cymreig, neu Gymdeithas Gymreigyddawl...ac er bod yn anhyffordd a thrwsgl, eto barnwyf mai ein dyledswydd ydyw diffyn, achlesu a noddi yr hen Omeraeg odidawg...³⁷

Roedd sefydlu'r cymdeithasau hyn yn un o'r dulliau mwyaf effeithiol o warchod yr 'iaith hybleth a hyber' a oedd yn agos at galon nifer o'r Cymry ymfudedig, yn ogystal ag uno'r genedl ynghyd:

Boed genym Gymdeithas
I uno yn urddas,
Yn weddus i'r ddinas,
A Ilias* i'n llu:
I'w chadw a'i chynnal
Yn ddifyr a dyfal,
Mewn gofal bob cymal,
Fel Cymru.³⁸

Dengys yr awydd i greu awyrgylch 'fel Cymru' ddyhead yr ymfudwyr i greu hunaniaeth Gymreig-Americanaid ar lun a delw'r hen wlad, a'u bod i raddau helaeth yn ceisio ail-greu rhyw lun o Gymreictod yn America. Yr iaith, felly oedd yn caniatáu i'w hetifeddiaeth ddiwylliannol fwrw gwraidd unwaith eto ar ddaear estron. Nid yw'r pellter yn oeri eu brwdfrydedd dros yr iaith, a defnyddir y cymdeithasau i atgyfnerthu eu brawdgarwch ar sail y cwlwm ieithyddol:

Cydunwn hil Gomer yn dyner rai doniol,
I lunio Cymdeithas lawn addas lón weddol,
Er cynau ein heniaith yn lanwaith olynol....
Er gadael tir Gwalia fwyneiddiaf anneddau.....
O amgylch mwyneiddlan gartrefle ein teidiau.³⁹

³⁷ Anerchiad Cymdeithas Gymreigyddol Minersville – 'Tra Byd Cymraeg' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1838.

³⁸ Annogaethau barddonawl iddein hiaith: I sylwi ar enwogrydd ein mêl-iaith, yn nghydag iddei hamddiffyn - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1842. *Cynt - nwyd.

³⁹ Can i anerch 'Lloerawl Gymdeithas sir Oneida' (Y Fwyalchen) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1841.

I rai, roedd yr ymlyniad hwn wrth iaith y tadau yn gryfach ar dir estron fel un o'r nodweddion cenedlaethol a oedd yn peri bod gwahaniaeth rhyngddynt a'u cymdogion Americanaidd:

Er y dywed rhai, (fel y Coffaodd M*1*r M*n, yn Rhifyn Ionawr), mai gwag ag ofer ydyw dal i fynu yr iaith Gymraeg yn y wlad hon; o'm rhan fy hun gallwyf ddywedyd mai po bellaf yr elwyf oddiwrth fy mro gynhenid, mai anwylach cares ydyw i mi...⁴⁰

Yn debyg i amcan y *Cyfaill*, diben y cymdeithasau, yn ogystal ag amddiffyn yr iaith, oedd ei gloywi a'i phuro, a sicrhau fod y Gymraeg yn gyfrwng teilwng i drafod gwahanol bynciau:

Ein dyled hygred, er hagrwch hil Dic
F'awlyd acen, cofiwch,
Yw cadw'n hiaith, hydraith wiwdrwch,
Mewn da lun rhag myn'd i lwch.⁴¹

Er bod y Cymry'n canu clodydd yr iaith Gymraeg i eithafion sentimental yn y cyfarfodydd, roeddent hefyd yn effro iawn i'r angen taer am ymestyn ei pheuoedd, a ffurfiwyd nifer o gymdeithasau 'idd y dyben o addysgu y naill y llall yng ngwahanol ranau yr Omeraeg orwiw, yn ngydag eangu eu gwybodion mewn amrai bethau llesawl eraill.⁴² Er gwaethaf dylanwad pellgyrhaeddol y Saesneg, teimlent 'ddyled a braint' i ddarparu gwybodaeth i'w cydgenedl drwy gyfrwng y famiaith. Yn union fel William Rowlands a'i gynlluniau yn y *Cyfaill*, credai'r cymdeithasau'n frwd y dylid ehangu gorwelion y Cymry yn eu gwlad newydd, ond yn anad dim yn nefnydd y famiaith i'r pwrpas hwn. Er nad oeddent yn argyhoeddedig o safon yr addysg ar brydiau, roedd yr angen i drafod pynciau dyrys yr oes drwy gyfrwng y Gymraeg yn fater uwchlaw pob ystyriaeth arall.

⁴⁰ *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1838.

⁴¹ Pennill gan Ab Dyfnwal. Cymdeithas Lonaconing - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Medi 1838.

⁴² *Ibid.*

(iii) 'Yr iaith Omeraeg.'

Mae tudalennau'r cyfnodolion Cymraeg yn frith o anerchiadau gan Gymry'r hen wlad yn cynghori eu cymrodyr yn America i warchod yr iaith a chefnogi'r wasg i'r diben hwn, a defnyddiwyd nifer o dechnegau rhyngwladol i ddyfnhau'r ergyd:

Wfftiwch blant Sion a Malen Ty-n-y-Mynydd, a phlant Dic Shon Dafydd, da chwithau, o'ch mysg.⁴³

Gweithredai'r cymeriad enwog yng ngwaith Jac Glan-y-Gors fel trosiad am y sawl a oedd wedi troi cefn ar eu hetifeddiaeth ar ôl glanio ar y cyfandir, er iddynt gael eu magu ar aelwyd Gymraeg yng Nghymru:

...ac y maent yn cablu eu tad a'u mam, a'u gwlad, a'u hiaith, a'u cenedl yn arswydus – ac yn enwedig eu mam. Clywais amrai o honynt cystal a dyweyd, pe gallent gael gafael yn eu hen fam, y byddai iddynt osod dwylaw angeuawl arni.⁴⁴

Dywed un awdur fod 'plant Dic gynt' yn 'aml iawn yma,' sy'n awgrymu fod nifer o'r Cymry yn anghofio eu genedigaeth-fraint ar ôl ymgartrefu yn America. Roedd personoli'r iaith fel 'mam' a darlunio'r dynfa emosiynol yn strategaeth rethregol effeithiol a ddefnyddid yn gyson yn yr ymgyrch i dynnu tannau'r galon a dylanwadu ar deimladau'r unigolyn tuag ati. Dywed Fishman fod defnyddio trosiadau teuluol yn dechneg drawiadol i rymuso'r cwlwm ethnig gydag iaith, ynghyd â rhoi ymdeimlad oesol iddi.⁴⁵ Yn ychwanegol, rhoddai awduron o'r fath enghraifft o hanesyn yn aml i bortredu'r broblem ddyrys a wynebai garedigion yr iaith wrth geisio atal llifddorau'r Saesneg, a gweithredai hyn fel moeswers i rybuddio eraill i beidio â dilyn yr un trywydd.

Mae swyddogaeth yr aelwyd i feithrin parhad yr iaith hefyd yn thema gref yn rhyngwladol y disgwrs ieithyddol dro ar ôl tro ar dudalennau'r wasg gyfnodol, fe ag yr oedd yn llenyddiaeth

⁴³ At Olygydd y Cyfaill (Iago Trichrug) – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Hydref 1838. Mae'r enw 'Dic Shon Dafydd' wedi ei seilio ar gymeriad o faled a oedd yn anghofio ei wlad a'i iaith ar ôl mynd i Loegr am gyfnod, a daeth yn llysenw poblogaidd i ddisgrifio'r sawl oedd yn ddifater am eu cenedligrwydd yng Nghymru ac yn y manau eraill yr oeddent wedi ymsefydlu. Ceir cyfeiriad at y defnydd o'r enw yn Jones, Maldwyn A. (1975) 'From the Old Country to the New: The Welsh in nineteenth century America', *Flintshire Historical Society Publication*, 27, t.91.

⁴⁴ Llythyr at Olygydd y Cyfaill (Cymro ap Gomer) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1838.

⁴⁵ Joseph, J, *Language and Identity*. Dyfynnir geiriau Fishman yng nghyfrol Joseph.

Cymry America.⁴⁶ Trwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, Saesneg oedd iaith dinasyddiaeth gyhoeddus, tra bod defnydd o'r Gymraeg wedi ei gyfyngu i'r byd domestig a phreifat.⁴⁷

Er nad yw'r ffynnon ymfudol wedi sychu eto, mynegir pryder am 'duedd y plant yn gryf at yr iaith Sâesonig' yn ystod yr 1840au, a cheir cyfeiriadau mynych tuag at drwytho ieuencid yn y famiaith. Rhoddir pwyslais arbennig ar eu diwyllio gyda llyfrau Cymraeg ynghyd â chyfrifoldeb y fam i'w dysgu i ddarllen yn yr iaith yn ifanc:

Yn mhob llafur y mae elw, felly elw ac enw da i'n plant fod ganddynt ddwy iaith, oblegid tueddol a thebygol y bydd ein plant yn y wlad hon yn medru yr iaith Saesonig, yn neillduol y rhai sydd yn cael eu codi yn y trefydd... Nid wyf yn erbyn i'n plant ac ereill ddysgu iaith y wlad, ond yr wyf tros i'n plant fod yn medru siarad a darllen yr iaith Gymreig, er mwyn ei rhagoriaeth fel iaith, a'n dyledswydd fel cenedl i'w chadw.⁴⁸

Eto i gyd, nid oedd y Cymry brwd dros yr iaith yn ddall i'w diffygion mewn rhai peuoedd, ond roedd ei hatyniad sentimental yn drech nag unrhyw ystyriaethau materol:

Dywed rhai o'n cydwladwyr, nad yw cadw yr iaith Gymraeg i fynu, yn y wlad hon, o un budd. Digon gwir nad yw o ddim lles mewn masgnach, a pethau gwledig eraill; eto, iaith Cymru i'r Cymro o flaen un sothach estronol. Nid wyf yn meddwl i lawer o ddynion rhinweddol a dysgedig gael eu meithrin ar fryniau Cymru, nad oeddynt yn llawer mwy hoffus o'r iaith Omeraeg, nac un o ieithoedd bastardaidd gwledydd tramor.⁴⁹

Mae'r ieithwedd gref hon yn adlewyrchu dyfnder angerdd rhai o Gymry America tuag at y Gymraeg, a'r duedd i'w dyrchafu'n uwch nag ieithoedd tramor eraill yn thema gyson mewn ysgrifau a cherddi o'r fath.⁵⁰ Ynghanol y myrdd o ieithoedd a glywir yn America, mae'r *Cyfaill* yn gweithredu fel pont rhwng y gorffennol a'r presennol, gan ddangos gallu'r iaith i groesi moroedd. Ni honnir ei bod yn iaith ddefnyddiol ar gyfer manteision bydol, ond yn iaith

⁴⁶ Gray, Melinda (1998) 'Language and Belonging: A Welsh Language Novel in Late-Nineteenth-Century America,' yn (gol) Sollors, Werner, *Multilingual America: Transnationalism, Ethnicity, and the Languages of American Literature*, New York University Press: London.

⁴⁷ Gray, Melinda (2002) 'Grave Matters: Poetry and the Preservation of the Welsh language in the United States,' yn (gol) Shell, M, *American Babel*, Harvard University Press, London, t.307-22.

⁴⁸ Dymuniad am sylw ar yr iaith Gymreig yn America (David Rees, Temperanceville) – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1847. Hefyd gw. Hanes Cincinnati – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1838.

⁴⁹ Anerchiad oddiwrth Ewyllysiwr da i'r Cyfaill (M*L*R*M*N) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

⁵⁰ Cân i'r Iaith Gymreig (Thomas Jones, Palmyra) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1841 & Emyn i'r Iaith Gymreig (Thomas Jones, Palmyra) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1841.

‘fynegiadol’ ar lefel bersonol ac ysbrydol,⁵¹ ac mae ei disgrifio fel iaith ‘y galon a’r teimlad’ yn britho llenyddiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg. O’r herwydd, daethai’n iaith diwylliant a chapel i raddau helaeth, gan na thybid bod gwerth iddi mewn cyd-destun swyddogol yn ideoleg y cyfnod. Fe’i gosodir, felly, ar lwyfan ieithoedd y byd fel cyfrwng mynegiant diwylliant unigryw, a phwysleisir ei hadnoddau haniaethol yn wyneb ei gwendidau ymarferol.

Yn wir, llafur cariad dros yr iaith yn hytrach nag unrhyw fuddiannau economaidd a ysgogai gymwynaswyr yr iaith i fentro i fyd cyhoeddi mor anwadal,⁵² fel y mynega un cyfrannwr i’r *Cyfaill*:

Dir yw mai lles eich cenedl a chariad at yr iaith, a’ch cymhellodd i gynnyg gwybodaeth fuddiol er lles y cyffredin. A pheth sydd yn fwy cymhwys na Chyfaill mewn gwlad estronol?⁵³

Mae’r ffaith nad oes llawer o elw yn deillio o’r cyhoeddiad yn dyfnhau parch yr awdur hwn tuag ato fel achos teilwng yn y genhadaeth ieithyddol. Er gwaethaf rhagolygon pesimistaidd i’r iaith ar dir estron, gweithreda’r *Cyfaill* fel ffynhonnell o hyder i’r Cymry barhau yn eu hymdrechion i sicrhau dyfodol i’r iaith Gymraeg yn America.

Mae amlinellu rhagoriaeth yr iaith hefyd yn dacteg boblogaidd i atgoffa Cymry America o’u genedigaeth-fraint yng ngweithredoedd cymdeithasau ac areithiau dydd Gŵyl Dewi a gyhoeddir yn y *Cyfaill*. Rhestrir ei nodweddion arbennig megis gwreiddioldeb, helaethrwydd a rhagoroldeb mewn barddoniaeth,⁵⁴ ac mae caredigion mwyaf pybyr yr iaith yn bychanu’r iaith Saesneg ormesol yn ei hymyl:

⁵¹ Edwards, D.Miall (1927) *Iaith a Diwylliant Cenedl*, Y Brodyr Hughes: Dolgellau, t.59. “Ac y mae iddi ei chylchoedd ei hun ble y mae’n berffaith gartrefol a digonol, yn arbennig cylchoedd y bywyd personol ac ysbrydol, y cylchoedd agosaf at y galon, a’r teimlad, byd dychmyg a rhamant a chyfeillgarwch, hiraeth a dyhead a delfryd, y cywydd a’r englyn a’r delyneg, yr emyn a’r weddi a’r bregeth. Yn y cyfeiriadau hyn ac eraill galledd feddwl ei bod yn un o’r ieithoedd mwyaf mynegiadol yn y byd.”

⁵² Williams, Gwyn A (1985) *When was Wales?* Black Raven Press: London, t.153. “Patriotism was a prime motive for trying to publish anything at all in a singularly unprofitable language like Welsh.”

⁵³ Anerchiad i’r *Cyfaill* a’i Olygydd (Dyoll Samoht) – *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Medi 1838.

⁵⁴ Rhagoroldeb yr Omeraeg – talfyriad o araith Gwyl Ddewi, Palmyra, Ohio - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Mai 1841: “... dymunaf ar bawb sydd yn coleddu yr iaith Gymreig, ei derbyn yn garedig, am mai o wir gariad at

...yr hyn sydd yn profi yn ddigon eglur fod y Saesonaeg yn mhell iawn ar ol y Gymraeg mewn helaethrwydd. Onid rhyfedd fod neb o'r Cymry mor ynfyd a cheisio ymlusgo i'r fath iaith fêr a bratiog ag yw y Saesonaeg, gan adael hen iaith wreiddiol? O! dylwyth Dic Shon Dafydd, pa fodd yr ydych yn meddwl dangos eich gwynebaw wedi gwadu yr hen Gymraeg glodwiw? Trowch rhag cywilydd ac na fyddwch yn euog o'r cyhuddiad yma ddim yn hwy!⁵⁵

Defnyddir geiriau megis 'euog' a 'chyhuddiad' yn helaeth mewn ysgrifau a cherddi i finiogi'r edliw i Gymry America am eu hesgeulustod o'r iaith, ac yn aml caiff y duedd i wadu'r Gymraeg ei darlunio fel trosedd neu frad ar eu cenedl mewn ymgais i'w cywilyddio.⁵⁶ Mae ailadrodd yr ansoddair 'hen' yn y darn hefyd yn amlygu thema gyson yn y testunau sy'n ymdrin â'r iaith, wrth i'r awduron ymfalchïo yn hynafiaeth 'iaith yr hen Frytaniaid.'⁵⁷ Roedd pwysleisio'r ffaith fod iaith gynharaf Prydain wedi goroesi cyhyd yn rhoi urddas iddi, techneg a gâi ei defnyddio'n fynych gan awduron Cymraeg America i adnewyddu ei bri ymhlith y garfan a oedd yn ddifater o'i cholli.

Fodd bynnag, er bod y treflannau Cymreig yn meithrin rhwydweithiau clôs drwy gymorth y capeli, y cymdeithasau a'r wasg, roedd y Cymry hyn yn effro iawn i rym hollbresennol y Saesneg o'u hamgylch. Er mai'r Gymraeg oedd cyfrwng pennaf y gweithgareddau diwylliannol yn y mwyafrif o'r treflannau Cymreig yn America, roedd tynfa gref at ddwyieithrwydd o'r cychwyn. Nid oeddent yn gwrthod cydnabod y rheidrwydd i ddysgu'r Saesneg i ymgynefino â'u hamgylchiadau dieithr, ond awgryma nifer o awduron y dylid rhoi blaenoriaeth i'r iaith Gymraeg dros unrhyw iaith arall oherwydd yr hyn a welent fel ei rhinweddau arbennig:

Gymry a Chymraeg y darfu im' ei hysgrifenu; a gobeithiaf y bydd hyn yn foddion i gyffroi rhywun, neu rywrai, helaethach eu dawn a'u gwybodaeth i ddangos 'Rhagoroldeb yr Iaith Gymreig.'"

⁵⁵ Rhagoroldeb yr Omeraeg – talfyriad o araith Gwyl Ddewi, Palmyra, Ohio - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1841.

⁵⁶ Hefyd gw. yn ddiweddarach e.e. Gwarth y Cymro sydd yn gwadu iaith ei wlad (Gwilym Hafren, Llanidloes) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1853.

⁵⁷ Cân – yn dangos ffoledd rhai Cymry sydd yn chwennych troi yn Saeson gan wadu eu hiaith eu hunain. Cynghor i'r Cymry (Ab Cinmerchyn) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1841. Hefyd gw. Hunter, T.G. (1998) *The Literary Nation: Textual Constructions of Welsh Nationhood c.1282-1997*, *Proceedings of Harvard Celtic Colloquim*, 18, t.73-115. Mae'n edrych ar destunau ieithyddol yn hanesyddol, a sut mae cof cenedl yn britho'n deunydd.

Wrth ddweyd fel yma, nid wyf yn erbyn i'r Cymro ddysgu Saesonaeg, yn nghydag ieithoedd eraill gynnifer ag a ewyllysio, ond iddo gofio cadw ac arddel ei iaith ei hun, yr hon sydd yn

Iaith hylwydd, iaith helaeth,
Iaith burfwyn, iaith berffaith:
Iaith gymhwys, iaith gymhen,
Iaith garaf – iaith gywre'n.⁵⁸

(iv) 'Ennill tir' – 1847.

Erbyn diwedd yr 1840au, gwelir gorwelion y *Cyfaill* yn ehangu, a cheir symudiad tuag at gydweithio rhwng y ddwy iaith yn hytrach na dyrchafu'r Gymraeg yn ormodol, wrth i'r Saesneg yn anochel dreiddio i wahanol agweddau o fywydau'r ymfudwyr. Yn ôl Dicker, roedd pwysau cynyddol ar ymfudwyr i droi at y Saesneg fel cyfrwng cyfathrebu.⁵⁹

Yn y flwyddyn 1847, hysbysa'r *Cyfaill* fod 'efrydu yr iaith Gymreig yn ennill tir yn mhlith ein cymdogion Americanaidd,' a derbynnir y cyhoeddiad yn nau o brif golegau'r Unol Daleithiau. O fewn cwta ddeng mlynedd, mae'r golygydd wedi ymledu parthau'r *Cyfaill* a'r iaith Gymraeg, ac estyn y tu allan i gylchoedd y genedl i ymffrostio yn ei hadnoddau. Noda ei gynllun - 'os cawn annogaeth ddigonol' - i gyhoeddi gramadeg yr iaith Gymraeg drwy gyfrwng y Saesneg, i'r bwriad o 'hwyluso ymchwiliadau yr Americanaid.' Mae golygydd y *Cyfaill*, felly yn ceisio croesi ffiniau ieithyddol, a dengys yr awydd i ledaenu ymwybyddiaeth o'r iaith ei falchder ohoni.

Mae'n hynod arwyddocaol fod y Gymraeg yn ffynnu yng nghymunedau alltud America yn yr union flwyddyn y cyhoeddwyd y Llyfrau Gleision yng Nghymru. Tra oedd Cymry America yn ymfalchïo fod eu cymdogion Americanaidd yn cymryd diddordeb yn eu hiaith, roedd y Comisiwn Addysg yng Nghymru wedi sarhau'r Gymraeg gyda'i sylwadau

⁵⁸ Rhagoroldeb yr Omeraeg – talfyriad o araith Gwyl Ddewi, Palmyra, Ohio - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1841.

⁵⁹ Dicker, Susan.J. (2003) *Languages in America*, Cromwell Press: UK.

beirniadol am gyflwr addysgiadol a moesol y genedl, a'i darlunio fel iaith gyntefig a oedd yn israddol i'r Saesneg.⁶⁰

Roedd William Rowlands yn weithgar o blaid yr iaith yng Nghymru cyn gadael am yr Unol Daleithiau, ond mae'n bosibl iddo gael mwy o ryddid i ddatblygu'r ymgyrch ieithyddol yn America ymhell o ormes y llywodraeth Brydeinig a geisiai ddileu unrhyw ffiniau yn enw Prydeindod unedig. Yn ogystal, mae'n bosibl fod y croestoriad amryliw o ymfudwyr i America yn magu mwy o oddefgarwch at ieithoedd gwahanol, ac felly teimlai William Rowlands y byddai'r iaith leiafrifol yn cael ei derbyn yn rhwydd gan drigolion y cyfandir.

Roedd 1847 hefyd yn flwyddyn dyngedfennol i'r byd llenyddol Cymraeg yn America wrth i awduron gefnogi sefydlu llyfrgell Gymraeg ar y cyfandir, un o'r dulliau cadarnaf i sicrhau ffyniant yr iaith:

Hyderaf y cawn fel cenedl ymestyn at yr un peth, ac ymwroli fel un gŵr at gadwraeth yr iaith Gymreig yn y wlad hon. Mor flin yw gweled Cymro, ie Cymry lawer yn diystyru eu hiaith; yn esgeuluso dysgu'r iaith Gymreig i'w plant.⁶¹

Erbyn diwedd yr 1840au, mae nifer o ysgrifau tebyg yn amlinellu'r rheidrwydd i gadw cydbwysedd rhwng addysgu'r plant yn y Saesneg a'r cyfrifoldeb i drosglwyddo'r Gymraeg yn y dyfodol fel elfen sy'n parhau i fod yn rhan annatod o'u hunaniaeth.

Trafodir yr angen i ymfyddino dros yr iaith yng nghloriau'r wasg brint a'r cymdeithasau Cymreigyddol, ac mae'r dyfyniad uchod yn nodweddiadol o dechnegau amlycaf yr awduron a'r beirdd ar gyfer plycio tannau calonnau'r Cymry drwy danlinellu'r dyletswydd i'w gwarchod. Mae'r wedd hon i'w hunaniaeth ieithyddol yn parhau i gael ei broffesu'n frwd fel dull effeithiol i godi euogrwydd ar y Cymry di-ofal o'u hetifeddiaeth, a ddengys bod yr iaith yn parhau i fod yn bwnc llosg ar ôl iddynt fagu gwreiddiau ar y cyfandir. Fodd bynnag, a oedd un elfen arall yr un mor ganolog i'w Cymreictod, a oedd yn felltith ac yn fendith i hynt yr iaith yn America?

⁶⁰ Jones, Robert Owen, *'Hir Oes i'r Iaith'*, t.274.

⁶¹ *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1847.

(v) ‘Eu Nêr a folant a’u hiaith a gadwant’: Crefydd ac iaith.

Roedd crefydd yn rhan anwahanadwy o hunaniaeth y Cymry yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar sawl lefel ideolegol:

Trwy eu gwaith yn efengylu, yn pregethu, yn cynnal ysgolion Sul ac yn cyhoeddi swm enfawr o lenyddiaeth, magodd yr eglwysi Ymneilltuol yn ystod y ganrif ddegau ar filoedd o ddarlennenwyr Cymraeg ac o bobl a oedd yn gyfarwydd â mynegi eu meddyliau yn effeithiol trwy gyfrwng yr iaith...A chan fod rhai o brofiadau dwysaf pobl wedi eu cysylltu’n agos â’r Gymraeg, yr oeddynt yn teimlo ymlyniad grymus tuag ati yn y cylch crefyddol.⁶²

Yng Nghymru oes Fictoria, gorfodwyd arweinwyr crefyddol y cyfnod i efengylu drwy gyfrwng y Gymraeg er budd y werin uniaith a gefnodd ar Eglwys Loegr, ac felly cysylltid y defosiwn crefyddol yn ei wahanol agweddau â’r iaith:

There is no doubt that Welshmen in that silver age of the expansion of religion commonly believed that the extraordinary success of religion among the common people in county and town was to be found in the continued existence of the Welsh language....This was true, they thought, whether success was measured quantitatively in the multitudes of believers and the aggregations of places of worship, or whether it was judged by the purity of the faith and the spirituality and piety of its confessors. For all these dimensions of religion – structure, divinity, morality – had depended upon the existence of the Welsh language. In no other language could this have been achieved.⁶³

Mae toreth o astudiaethau am y cyfnod wedi pwysleisio’r cwlwm cryf rhwng crefydd ac iaith yng Nghymru,⁶⁴ a chlodwyd yr un gred i’r cymunedau alltud wrth i lwyddiant crefydd yn gynyddol ddod yn gyfystyr â ffyniant yr iaith:

⁶² Jones, R.Tudur (1999) *Ymneilltuaeth a’r Iaith Gymraeg yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a’i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.249. Hefyd gw. Lloyd, D.Tecwyn (1987) *Drych o Genedl*, Tŷ John Parry: Abertawe, t.15-6.

⁶³ Jones, Ieuan Gwynedd (1987) *Communities: Essays in the social history of Victorian Wales*, Gomer: Llandysul, t.225-6.

⁶⁴ Jones, R Tudur (1970) *Rhyddiaith Grefyddol y Bedwaredd Ganrif ar bymtheg*, yn Bowen Geraint (gol) *Y Traddodiad Rhyddiaith: Darlithiau Rhydychen*, Gomer: Llandysul, t.352. Honna fod yr iaith yn uno Duw a dyn yn y cyfnod, gan mai’r iaith oedd cyfrwng ‘dychymyg creadigol Duw.’ Rhoddai llenorion y bedwaredd ganrif ar bymtheg fri ar yr iaith fel modd i esbonio’r Beibl: “Beth bynnag am eu hieithyddiaeth, yr oeddynt yn gwneud eu ngorau yn ol eu goleuni i fynegi’r argyhoeddiad fod yr iaith ei hunan, cyfrwng y gwareiddiad a oedd dan eu dwylo, yn rhodd Duw. Yr oedd iddi hithau ei lle anrhydeddus yn harmoni’r Cread.” Am wybodaeth ar wreiddiau ieithyddol yr achos Methodistaidd yn benodol gw. Roberts, Parchedig Gomer Morgan (1973) *Hanes Methodistaeth Galfinaidd Cymru: cyfrol 1, Y Deffroad Mawr*, Llyfrfa’r Methodistaidd Calfinaidd: Caernarfon, t.312-3; Williams, Parchedig D.D. (1927) *Llawlyfr Hanes Cyfundeb y Methodistaidd Calfinaidd*, Pwyllgor Llenyddiaeth y Cyfundeb: Caernarfon, t.283. Am y berthynas yn gyffredinol gw. Betts, Clive (1976) *Culture in Crisis: the future of the Welsh Language*, Ffynnon Press: Wirral, t.57: “Historically, the most important institution to the language has been the chapel ...Time and again people concerned about the fate of the language

Religious incentives were intimately involved with the use and preservation of the Welsh language, not only in Wales itself but also among communities of Welsh exiles in England, the USA, and elsewhere. The safeguarding of the language was regarded by many of them as synonymous with upholding religion; to abandon the former, was to run the risk of losing the latter.⁶⁵

Y sail gadarnaf i barhad y Gymraeg ar dir America, felly, oedd cyfraniad crefydd yn chwythu anadl i enau'r iaith mewn amrywiol ffyrdd; a bu'r ffaith ei bod yn ganolog i'w crefydd yn feincnod hollbwysig i'w statws ym meddylfryd y bobl:

Mesur o egni creadigol bywyd Cymru'r ganrif ddiwethaf oedd ei lewyrch ymhlith Cymry'r diaspora. Y cyfrwng canolog a drysorid yn anwylaf ganddynt oedd y capel Cymraeg a'r iaith yn rhan annatod o'r addoliad.⁶⁶

Gweithredai'r capel fel llwyfan cyhoeddus i'r iaith drwy ei amrywiol gyfarfodydd, gan ddangos bod ganddi ddefnydd cymdeithasol yn ogystal ag adnoddau llenyddol. Crefydd oedd un o'r dulliau i ddiogelu'r iaith Gymraeg, yn wahanol i iaith y Gwyddelod a oedd yn edwino o'i achos.⁶⁷

Er bod William Rowlands yn pregethu yn y Saesneg yn amlach ar ddechrau ei yrfa fel gweinidog, dywedir bod ei boblogrwydd a'i ddylanwad yn dibynnu'n helaeth ar arddull ac ysbryd Cymreig ei bregethau, a'i fod wedi meistroli iaith gyhyrog yn ei genadwri ar lafar ac yn ei gynnyrch print a oedd yn fodd i drosglwyddo'r efengyl yn effeithiol:

Rho'i iaith gref, ac wrth ei gwraidd,
Y dwysder Methodistaidd.⁶⁸

Roedd William Rowlands yn ymwybodol iawn o'i swyddogaeth fel golygydd i'r perwyl hwn:

lament the decline of the chapels." Hefyd gw. Shepperson, W.S. (1957) *British Emigration to North America: Projects and Opinions in the early Victorian Period*, Basil Blackwell: Oxford, t.32; Ellis, P. Berresford (1968) *Wales – A Nation Again: The Nationalist Struggle for Freedom*, Library 33: London, t.56.

⁶⁵ Williams, Glanmor (1979) *Religion, Language and Nationality in Wales*, University of Wales Press: Cardiff, t.25.

⁶⁶ Williams, Glanmor (1976) *Y Baradwys Bell: Cymru a'r Unol Daleithiau 1776-1914*, Darlith Radio Flynyddol BBC Cymru. Qualitex: Caerdydd, t.16. Am fraslun o'r berthynas rhwng y ddwy wedd gw. Ellis, David Maldwyn (1973) 'The Assimilation of the Welsh in Central New York', *Welsh History Review*, cyfrol 6, rhif 4, t.424-47.

⁶⁷ Tynnwyd fy sylw at y ffaith hon mewn sgwrs â Kevin van Anglen tra oeddwn yn America wrth i ni drafod cyd-destun crefyddol cenedligrwydd.

⁶⁸ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*, t.139 a t.366 - Eos Glan Twrch.

Y gweinidogion a'r offeiriaid oedd yr unig ddosbarth cymdeithasol addysgedig â chanddynt reidrwydd anorfod i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddeallus a chelfydd, ar lafar ac mewn print.⁶⁹

Fel misolyn o natur grefyddol yn yr iaith Gymraeg, roedd gan y *Cyfaill* felly swyddogaeth bwysig i feithrin y cysylltiad rhwng crefydd ac iaith, a thrafodwyd y mater yn helaeth ar ei dudalennau. Fodd bynnag, er i'r ddwy wedd roi maeth i'w gilydd yng nghyfnod cynnar y treflannau, amlygodd crefydd yr angen cynyddol i groesawu dwyieithrwydd wrth i genedlaethau iau droi at y Saesneg yn gynyddol, a thanlinellwyd yr angen i ddewis rhwng gwarchod un elfen ar draul y llall.

Mynegwyd y duedd hon yn fwyaf croyw gan y trafodaethau ynghylch yr Ysgol Sul, a ystyrid yn rhan anhepgor o'r modd y trosglwyddid yr iaith i'r plant yn y cyfnod, a'i dylanwad yn bellgyrhaeddol oherwydd sêl y Cymry dros grefydd yn yr amryfal dreflannau. Mynegir teimladau cymysglyd am yr Ysgol Sul drwy gyfrwng y *Cyfaill*, ac er na ellir cyffredinoli ynghylch ei heffaith ar gymunedau Cymreig America wrth iddi amrywio yn ôl treflan ac amser, mae'r pwnc llosg yn amlinellu amryw o agweddau cynrychioladol ynghylch yr iaith yn y cyfnod.

Rhestrir yr Ysgol Sul fel y 'mwyaf dyledus' yn y gwaith o feithrin y cysylltiad cryf rhwng crefydd ac iaith yn 1838:

Dyma y Colegau lluosog ac elusengar, lle y seinir ein hen iaith ystwythber gan filoedd o feibion a merched a fagwyd ar ei bronau maethlon. Trwy ei ddiwydrwydd y mae ei chyffredinolrwydd gymmaint nes y mae bron wedi cyrhaedd pob congl a chell o Gymru, ac amrywiol fanau o Loegr ac America, lle y mae ein cenedl yn gwladychu; ac analluadwy o'r braidd ydyw i un plentyn gael ei ddwyn i fynu yn y wlad hono heb ddysgu darllen iaith ei wlad ...⁷⁰

Roedd yn briodol iawn fod cyfnodolyn Cymraeg a gysylltid â'r Methodistiaid yn dyrchafu'r Ysgol Sul yn brif warchodfa'r iaith fel yr enwad a'i sefydlodd, ac yn hynny o beth yr enwad Cymreiciaf yn yr ystyr ei fod wedi cynyddu lefelau llythrennedd ymysg yr addolwyr, gan

⁶⁹ Williams, Glanmor (1989) *Grym Tafodau Tân: Ysgrifau Hanesyddol ar Grefydd a Diwylliant*, Gomer: Llandysul, t.265.

⁷⁰ Cadw y Gymraeg (Gomeriad, O-o) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1838.

‘gryfhau statws swyddogaethol y Gymraeg.’ Roedd yr Ysgol Sul nid yn unig yn darparu gwersi am yr efengyl, ond hefyd yn symbol o ddiwylliant a’i bwyslais yn drwm ar addysgu a thrafod deunydd ysgrythyrol mewn print ac ar lafar drwy gyfrwng y Gymraeg:

Roedd y Gymraeg yn gyfrwng neges bwysig, aruchel ym mywyd yr unigolyn, a hefyd daeth yn gyfrwng astudio, myfyrio ac ymresymu, a hynny yn bennaf drwy’r Ysgol Sul.⁷¹

Ysyaeth, erbyn diwedd yr 1840au, mae cwestiynau am y berthynas rhyngddi a’r iaith yn cyniwair ar dudalennau’r *Cyfaill* fel mae’r rhod yn troi o blaid y Saesneg mewn rhai ardaloedd. Mewn ysgrif yn y *Cyfaill* yn ystod 1847, mae’r awdur yn gresynu at y rhieni sy’n ‘esgeuluso siarad a dysgu yr iaith Gymreig i’w plant sydd tra anobeithiol; a diystyr am gadwraeth yr iaith Gymreig.’ O ganlyniad, gorfodir yr Ysgolion Sul Cymraeg i ddarparu llyfrau Saesneg i’r aelodau, ‘yr hyn sydd yn barod i raddau yn anhawstra i gael tuedd y plant at ddysgu Cymraeg.’⁷² Dywed Robert Owen Jones fod y duedd hon yn nodweddiadol o wladfeydd eraill yn ogystal, ac er bod digon o Gymry i gynnal capeli, lleiafrif yn y gymuned oedd yn trosglwyddo’r iaith i’r plant.⁷³

Mae hoelion wyth y genedl yn parhau i arddel y llinyn arian rhwng crefydd a’r iaith Gymraeg, ac yn credu mewn ‘trysori pur air Duw’ yn y famiaith. Yn wir, awgryma’r un awdur nad yw’r ieuengtid mor ‘egwyddorol yn Ngair Sanctaidd Duw’ o’i ddarllen drwy gyfrwng y Saesneg, ac felly maentumia fod yr iaith yn llawforwyn anhepgor i addoli’n effeithiol. Amlinella’r angen i ddarparu llyfrau Cymraeg ‘yn wobr’ i blant yr Ysgolion Sul, gan erfyn yn daer ar ei gyd-Gymry i ymgysgru yn yr ymgyrch i drosglwyddo’r iaith i’r cenedlaethau sydd i ddod:

Wrth weled cynifer o ieuengtid Cymraeg yn y wlad hon heb fedru yr iaith Gymreig, a llawer eto yn debyg o fod yr un fath. Erfyniaf am i ryw rai o ddawn a dylanwad

⁷¹ Jones, Robert Owen, *Hir Oes i’r Iaith*, t.252-3.

⁷² Dymuniad am sylw ar yr iaith Gymreig yn America (David Rees, Temperanceville) – *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Mehefin 1847.

⁷³ Jones, Robert Owen, *Hir Oes i’r Iaith*, t.297.

eiddigeddu tros gadwraeth yr iaith Gymreig yn America...Ydwyf, un sydd tros lwyddiant Cymro a Chymraeg.⁷⁴

Mae gofyniad gan ‘Ewyllysiwr pobpeth da’ yn 1848 hefyd yn nodweddiadol o bryderon Cymry America ar y pryd, wrth iddo holi a ddylai’r Ysgol Sul ddarparu deunydd Saesneg fel bo’r angen i’r plant nad ydynt wedi derbyn yr iaith Gymraeg gan eu rhieni. Fodd bynnag, er bod y Gymraeg wedi bod yn ganolog i’r Ysgolion Sul a gweithgareddau amrywiol y capeli a’r enwadau Anghydfurfiol yng Nghymru ac America, mae ateb William Rowlands yn cynrychioli’r garfan sy’n daer mai crefydd yw’r brif flaenoriaeth, a hynny mewn unrhyw iaith:

Carem yn fawr i’r Cymry ddwyn eu plant i fyny hyd y byddo modd yn hyddysg yn yr iaith Gymraeg, a bod hono yn iaith ddealladwy iddynt, ac o ganlyniad yn briodol eu hegwyddori ynddi yn yr Ysgol Sabbothol; ond, os Saesonaeg yn unig fydd ddealladwy i’n plant, ein meddwl ni yw, y dylent gael eu haddysg Sabbothol yn yr iaith hono, fel y caffont y fantais hyny am iachawdwriaeth ei heneidiau.⁷⁵

Yn nodweddiadol o arweinwyr crefyddol yr oes yng Nghymru ac yn America fel ei gilydd, lledaenu’r genhadaeth ysbrydol oedd yr ystyriaeth bennaf, ond gorau oll pe gellid gwneud cymwynas â’r iaith yn ogystal oherwydd ei hadnoddau cyfoethog llenyddol i’r diben efengylaidd. Fel y dywed Ieuan Gwynedd Jones:

All, without exception, believed that it was the religion of Wales that was its distinguishing mark, and it was to the purity and virility of this religion as embodied in the experiences of countless men and women that they devoted their lives. They were not blind to the role of the Welsh language in this: it is simply that they gave the priority to religion and morality.⁷⁶

Nid yw William Rowlands yn awgrymu y dylid anwybyddu’r iaith, ond creda’n gryf fod gwrthod rhannu addoliad crefyddol gyda’r sawl a fedrai’r Saesneg yn unig yn ‘anghyson â gair Duw,’ ac yn groes i’r pwys a roddid ar ledaenu’r efengyl yn eang. Gall ‘oddef Beibl

⁷⁴ Dymuniad am sylw ar yr iaith Gymreig yn America (David Rees, Temperanceville) – *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Mehefin 1847.

⁷⁵ Ateb y Golygydd i ofyniad ‘Ewyllysiwr Pobpeth Da’ - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Mawrth 1848. Gw. hefyd Williams, Parchedig D.D. (1927) *Llawlyfr Hanes. Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd*, Pwyllgor Llenyddiaeth y Cyfundeb: Caernarfon, t.283.

⁷⁶ Jones, Ieuan Gwynedd, *Communities*, t.233.

Saesonaeg' yn y sicrwydd fod y plant yn mynd i barhau â'r 'ysbryd cenhadol ar ein holau,' gan mai cyhoeddi neges Duw ym mha bynnag iaith y dewisir yw'r nod. Pwysleisir bod crefydd uwchlaw unrhyw genedligrwydd wrth iddo ddymuno i'r athrawon drosglwyddo deunydd crefyddol i bob plentyn, 'bob llwyth, iaith a chenedl.' Ethos debyg a arweiniodd at yr 'Inglis Côt' yn ddiweddarach.⁷⁷ Roedd yr un tyndra i'w gael yng Nghymru yn y cyfnod.

Fel y mynegir gan Ieuan Gwynedd Jones:

There are those who believe that the Welshness of the revelation vouchsafed to the people of Wales is unique, and by definition different in important respects from that revealed in other languages to other peoples...From this there follows the religious obligation to preserve the language, for, *mutatis mutandis*, to preserve the language is to preserve the uniqueness of the revelation. This is contested by others who hold that the medium of communication should not determine the message, that it is the substance of the revelation which must be proclaimed whatever the language and that the true faith is not diluted when it is anglicised.⁷⁸

Yn yr un modd, holltwyd Cymry America yn eu golygon ar berthnasedd yr iaith i'r genhadaeth grefyddol, a nifer yn credu bod crefydd yn hawlio statws pwysicach na'r iaith, tra oedd eraill yn teimlo fod y naill wedd yn llawforwyn i'r llall. Roedd ambell olygydd Anghydfurfiol radical yn y wasg gyfnodol yr hen wlad hyd yn oed yn anobeithio am yr iaith ac yn credu y dylid derbyn y dynged mai'r Saesneg oedd iaith y dyfodol.⁷⁹ Fodd bynnag, nid oes amheuaeth fod gan olygydd y *Cyfaill* gariad amlwg at yr iaith wrth dystio i'w ymdrechion drosti mewn sawl cyd-destun, ond mae yntau hefyd yn coleddu'r agwedd 'Gwell colli yr iaith na cholli eneidiau':

A haws bob gwir Gristion yw aberthu ei serch at yr hoff Omeraeg, na'i serch at Iesu Grist a Chadwedigaeth eneidiau. Gyda hyny nis gwyddom beth all fod cydwybodau y rhieni hyny, na fedrant gynnal dyledswyddau teuluaidd ond yn yr iaith Gymraeg, ac eto a esgeulusant wneyd eu plant yn ddealladwy o'r iaith hono. Mae yr holl ymddyddan yn Saesonaeg, ond y darllen a'r gweddio hwyr a boreu yn Gymraeg!⁸⁰

⁷⁷ *ibid*, t.211. Mudiad ydoedd i ddarparu gwasanaethau Saesneg i ymfudwyr di-Gymraeg – roedd lledaenu'r genhadaeth grefyddol yn bwysicach na glynu at un iaith.

⁷⁸ Jones, Ieuan Gwynedd, *Mid-Victorian Wales*, t.59; Jones, Ieuan Gwynedd (1980) 'Language and Community in Nineteenth Century Wales, yn (gol) Smith, David, *A People and Proletariat: Essays in the History of Wales, 1780-1980*, Pluto: London, t.53.

⁷⁹ Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.26. Credai David Rees o Lanelli, y golygydd Anghydfurfiol mwyaf radical yn hanner cyntaf y ganrif yn ôl Glanmor Williams, er tristed colli'r famiaith, y rheidrwydd i arddel egwyddorion crefyddol a gwleidyddol a ddyrchafai'n uwch na chyfrwng iaith.

⁸⁰ Ateb y Golygydd i ofyniad 'Ewyllysiwr Pobpeth Da' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1848.

Mae'n eironig bod y rhieni hyn yn parhau'n ffyddlon i draddodiad yr hen wlad o ddarllen a gweddio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan wrthod trosglwyddo'r iaith i'w plant fel cyfrwng eu bywydau beunyddiol, sy'n dangos bod dolen gyswllt bendant rhwng crefydd ac iaith o hyd. Mae esgeuluso'r ddwy elfen yn peri pryder i William Rowlands gan eu bod mor annatod i hunaniaeth Gymreig y ddwy wlad, ac er bod William Rowlands wedi amddiffyn y wedd ieithyddol ar grefydd yn nechrau'r 1840au, crefydd sy'n cael y lle blaenaf ganddo pan deimlai ei bod yn adeg o argyfwng i'w pharhad ymhlith cenedlaethau i ddod.

Y paradocs hwn sydd i gyfrif am y cymysgedd o lwyddiannau a methiannau a ddaeth i ran y cymunedau Cymreig yn eu brwydr i gadw'r iaith. Er y derbyniwyd y Saesneg yn gynyddol fel iaith dysg, parhâi'r iaith yn symbol o arwahanrwydd y Cymry, yn enwedig yn y cyd-destun crefyddol a oedd mor drwm ei ddylanwad ar eu cymdeithas a'u diwylliant. Mae rhai cofnodion cymantfaoedd yn parhau i synio bod angen cydbwysedd rhwng crefydd a'r Gymraeg:

Anogwyd rhieni i arfer pob diwydwydd mewn magu eu plant yn grefyddol, ie eu magu yn yr eglwys; ac i fod yn ofalus i gadw yr iaith Gymraeg mewn ymarferiad, ac na byddai hyn yn un math o anhwylysdod i'r plant i gyrhaedd gwybodaeth o'r Saesonaeg ac ieithoedd eraill. Arferer pob ymdrech i'r plant fod yn ddysgedig, ond gofaled y Cymry am gadw yr iaith Gymraeg, rhag i ni fod yn debyg i ryw un llafurus, yn ceisio cael gafaél mewn arian, ac wrth hyn yn colli yr aur.⁸¹

Ategir y dyhead i'r Cymry fedru'r Saesneg er mwyn ymdoddi i'r tirlun aml-ethnig Americanaidd a fyddai'n eu hybu'n economaidd, ond cyffelybir yr iaith Gymraeg i 'aur', a'i harwyddocâd yn ddyfnach nag unrhyw fuddiannau materol. Yn wir, credai nifer fod yr iaith yn rhodd gan Dduw ac wedi deillio o dŵr Babel, a byddai'r duedd i briodoli'r iaith i ddylanwad Duw mewn llenyddiaeth grefyddol yn cynyddu'r bri a roddwyd arni o ystyried cryfder argyhoeddiad ysbrydol y Cymry:

Ni ddylai neb fod eto,
Yn brysur i ddibrisio,
Mo'r iaith i ni a roddes Duw,

⁸¹ Cymanfa Racine, Wisconsin - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Medi 1850.

A chyfiawn yw ei chofio.⁸²

Fodd bynnag, effaith gymysglyd a gafodd y cysylltiad crefyddol ar ddelwedd yr iaith, oherwydd crewyd rhyw fath o drefn hierarchiaeth mewn perthynas i'r Gymraeg a'i dylanwad ar wahanol agweddau o fywyd:

It was common by the middle of the century to accept that while English was the language of science, business and commerce, philosophy, and the arts, Welsh was the language of religion.....The Welsh clung to their language which seemed to give them no hope for the future beyond a compensatory heaven beyond earth...⁸³

Yn wir, honnai un o drigolion ardal Utica yn 1860 fod hyd yn oed plant rhai ymfudwyr gwreiddiol a oedd wedi eu geni yn America yn dewis yr iaith Gymraeg ar gyfer addoli, er eu bod yn defnyddio'r Saesneg ar gyfer eu 'galwedigaethau bydol,' a oedd yn adlewyrchiad o'r sefyllfa yng Nghymru hefyd:

Felly, y mae llawer o Americanaid genedigol yn credu fod sain pregethiad yr efengyl yn yr hen iaith Gymraeg, yn llawer mwy effeithiol a mwy dymunol i'w gwranddo na dim a glywsant erioed yn yr iaith Americanaidd. Clywais un yn dyweyd am y bobl ieuainc yn ei ardal ef, pan y maent yn dyfod i sobrwydd yn achos eu heneidiau, er eu bod yn nghwmni y Saeson, eto, y maent yn dyfod i ymofyn am aelodaeth yn yr eglwys Gymreig.⁸⁴

Achosodd y newidiadau economaidd enfawr yng Nghymru i'r Saesneg ddod yn allwedd i gynnydd, gan danseilio gwerth y Gymraeg i'r sawl oedd yn frwd dros fynd ymlaen yn y byd,⁸⁵ yr hyn a elwir yn 'anghyfartaledd cyweiriol' gan Robert Owen Jones.⁸⁶ Yng ngeiriau Glanmor Williams: 'I'w wneud yn rhywun yn y byd hwn roedd rhaid i'r Cymro wrth Saesneg. I'w wneud yn gymwys i'r byd arall roedd rhaid iddo wrth y Gymraeg.'⁸⁷

⁸² Cân yn dangos ffoledd rhai Cymry sydd yn chwennych troi yn Saeson gan wadu eu hiaith eu hunain. Cynghor i'r Cymry (Ab Cinmerchyn) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1841.

⁸³ Jones, Ieuan Gwynedd, *Mid-Victorian Wales*, t.69-76. Achosodd y newidiadau economaidd enfawr yng Nghymru i'r Saesneg ddod yn allwedd i gynnydd, gan danseilio gwerth y Gymraeg i'r sawl oedd yn frwd dros fynd ymlaen yn y byd. Roedd mwyafrif y werin yn uniaith Gymraeg am gyfran helaeth o'r ganrif.

⁸⁴ Howell, Llewelyn.D. (1860) *Traithawd ar ddechreuad a chynnydd y Cymry yn Utica a'i hamgylchoedd*, R.R.Meredith: Rome, t.9.

⁸⁵ Jones, Ieuan Gwynedd, *Mid-Victorian Wales*, t.59; Coupland, Sir Reginald (1954) *Welsh and Scottish Nationalism: A Study*, Collins: London, t.190.

⁸⁶ Jones, Robert Owen, *'Hir Oes i'r Iaith'*, t.274.

⁸⁷ Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.110.

Ystyrid yr iaith o'r herwydd fel ffenomen haniaethol yn unig, a oedd yn gyfyng ei defnyddioldeb ymarferol ac yn israddol i'r Saesneg, agwedd a broffesid gan nifer o arweinwyr crefyddol yn y cyfnod.⁸⁸ Serch hynny, ar yr un pryd fe'i coleddid fel iaith y werin a oedd yn fynegiant cadarn o'u hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol, ac yn aml defnyddid trosiadau rhamantaidd am yr iaith fel 'trysor' neu 'gem aur,' gan gyffelybu ei gwir sylwedd o'i gymharu â chyfoeth bydol.

Parha pwnc yr iaith i gael sylw yn y *Cyfaill* am weddill y flwyddyn yn 1848, pan leisir gwrthwynebiad i ysgrif Owen Jones a oedd yn ymffrostio na chaniateid i Saeson fynychu Ysgolion Sul Jackson a Gallia yn Ohio. Mae'r awdur J.B.W. yn cymryd safiad cadarn fod crefydd ar gael i bawb, ac na ellir 'cyfyngu crefydd i un iaith,' gan fod neges gyffredinol yr efengyl yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau ieithyddol:

Cofiwch y bydd yr iaith Gymreig yn gwaeddi yn eich gwynebau . . . Os ydym fel cenedl, ar ol dyfod o wlad estronol, i blith gwahanol ieithoedd, yn cael cyfranogi o'u pethau cnawdol, ai pechod yw i ni fel cenedl gyfranu iddynt hwy ein pethau ysbrydol? Nid wyf yn tybied.⁸⁹

Ni pheidiodd y pwnc â bod yn destun trafod i awduron a chymanfaoedd gwahanol daleithiau drwy gydol golygyddiaeth William Rowlands a thu hwnt, a phroffeswyd y ddwy ochr mor frwd â'i gilydd, sy'n dangos bod yr iaith yn parhau i fod yn ffactor amlwg yng Nghymreictod rhai o dras Cymreig tan yr ugeinfed ganrif mewn rhai achosion.

Mae'r ymryson dros grefydd ac iaith hyd yn oed yn ymestyn i diriogaeth cerddoriaeth, ac yn ffrwydro mewn dadl dros lyfr tonau Cymreig. Gwelir Geo. Brentinel yn gwrthod haeriadau E. J. Lewis 'fod nerth a godidawgrwydd yn perthyn i'r iaith Gymraeg nad yw y Saesonaeg nag un arall yn feddiannol arno.' Cryfed yw angerdd Lewis dros ei famiaith nes iddo gredu bod perthynas uniongyrchol ac unigryw rhwng cerddoriaeth a'r iaith, ac mai'r Gymraeg yw'r unig gyfrwng addoliad teilwng. Mae'n un o'r garfan sy'n dyrchafu'r Gymraeg

⁸⁸ Jones, Ieuan Gwynedd, *Mid-Victorian Wales*, t.69.

⁸⁹ Yr iaith Saesonig a'r Ysgol Sabbothol (J.B.W.) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1848.

a'i phriodoleddau yn uwch na'r Saesneg ac ieithoedd eraill, ac yn arddel ymlyniad sentimental anweledig rhwng yr iaith â'i chysylltiadau amrywiol, yn enwedig yn achos crefydd. I'r gwrthwyneb, cred Brentinel fod cerddoriaeth yn gyfrwng naturiol a chyffredinol i bawb, 'yr hyn a deimlid ac a adnabyddid gan yr holl fyd; ond fod pob iaith barablaidd yn neillduol a chelfyddydol, yn cael ei deall yn unig gan y rhai a'u cyfansoddant ac a'u dysgant,' ac felly'n creu cylch cyfyngedig ar sail yr iaith. Trwy gyflwyno tystiolaeth dros darddiad iaith, maentumia nad oes perthynas rhyngddynt, ond eto teimla'n gryf fod angen llyfr tonau Cymreig:

...y mae yn amhosibl i gynnulleidfaeodd Cymreig yn y wlad hon, nac un wlad arall o ran hyny, ffynu heb amrywiaeth o lyfrau canu Cymreig, ond dychymyg disail yw fod perthynas rhwng cerdd ac iaith.⁹⁰

Serch hynny, yn 1860 mae ysgrif yn yr *Arweinydd* yn gresynu am rieni sy'n esgeuluso trosglwyddo'r iaith i'w plant ac yn dweud bod hynny yn gyfystyr â'u magu yn 'esgeuluswyr addoli,' sy'n dangos bod y cysylltiad rhwng crefydd ac iaith yn parhau'n gryf ym meddyliau carfan o Gymry America.⁹¹ Yn wir, mae'r ffaith bod William Rowlands yn cyhoeddi 'Arweinydd esmwyth i ddysgu darllen Cymraeg' at wasanaeth yr Ysgol Sul yn 1863 yn dangos ei bod yn adnodd amhrisiadwy i hybu llythrennedd yn y Gymraeg.⁹²

A fyddai pwysigrwydd yr iaith yn lleihau felly wrth i'r 1850au wawrio yn hanes y Cymry a oedd wedi ymgartrefu yn America ers blynyddoedd, ac yn fwy na dim yn hanes y rhai o dras Cymreig a aned yn America?

⁹⁰ Cerddoriaeth – y ddadl (Geo. Brentinel, Coalport, Ohio) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Medi 1854.

⁹¹ *Yr Arweinydd* – Mawrth 25 1860. "Peth arall sydd yn galw am ddysgu darllen yn yr Ysgol Sabbothol Gymraeg ydyw, mai mewn iaith estronol y mae y Cymry yn cael ei haddysg ddyddiol, iaith estroniaethus, na ddeallir gan y plant, am dymhor maith. Mae yn wir mai Saesonaeg yw iaith masnach y Cymry, iaith ei llywdoraeth, a iaith eu cyfraith – yr ydym yn byw yn ei chanol. Ond yn y capel cawn yr iaith Gymraeg – dyma iaith eu crefydd. Yr ydym ni yn clywed mawrion weithredoedd duw, yn yr iaith y'n ganed', ac y mae o hyny yn fwy tarawiadol i ni. Buasai yr iaith Gymraeg wedi darfod mewn rhai manau yn America, oni buasai y pwlpud a'r Ysgol Sabbothol; ac nid oes yn ei chadw heddyw mewn rhai parthau ond hwynt-hwy. Mae deheurwydd mewn bod yn meddu dwy iaith, ac ni bydd yn golled i neb ei chadw; ie, y mae addoli yn Gymraeg, ac esgeuluso dysgu yr iaith hono i'n plant, yn dyfod i'r un peth a'u dwyn i fyny yn *esgeuluswyr* addoli. Addoli Duw ydyw dyben penaf bywyd dyn yn y byd, ac yn yr Ysgol Sabbothol yn unig y dysgir yn gyhoeddus, i dair rhan o bedair o'r Cymry, yn yr iaith y gall addoli Duw ynddi."

⁹² Am enghraifft arall i'r un diben gw. Jones, J. William (1860) *Yr Athrawydd Parod: sef Hyfforddydd anffaeledig i ddarllen ac ysgrifenu Cymraeg, yn nghyda rheolau barddoniaeth Gymreig ac elfenau rhifyddiaeth*, Davies & Griffiths: Utica.

(vi) Iaith 'bur' neu 'fratiog'? Degawd yr 1850au.

Roedd degawd yr 1850au yn gyfnod cyfnewidiol ei effaith ar yr iaith Gymraeg, gan fod niferoedd y Cymry yn parhau i gynyddu yn America. Eto i gyd, roedd yr ymfudwyr a ymgartrefodd yno eisoes yn gynyddol ymgyfarwyddo â'r Saesneg erbyn y cyfnod hwn ac yn magu eu plant ymysg Americanwyr, a mynegwyd pryder am siarad cymysgedd o'r ddwy iaith. Fe'u hwynebwyd gyda chwestiwn oesol parthed yr iaith Gymraeg, sef y dewis rhwng colli iaith 'bur' neu gadw iaith lafar 'fratiog' yn gymysgedd o'r Saesneg a oedd mor rymus o'u hamgylch yn y wlad ddieithr. Mae sawl ysgrif a cherdd yn difriio'r iaith Saesneg am faeddu purdeb y Gymraeg, gan feirniadu'r genedl fod 'iaith drwsogl a chymysgedig' yn feius mewn Cymro:

Byddai i raddau beth bynag yn esgusodol mewn Sais, neu ryw un arall dyeithr i ein iaith, yr hwn trwy lawer o drafferth a ddysgodd ychydig o'r Omeraeg ond nid cymaint ag i allu ei llefaru yn berffaith ddigymysg. Clywais rai, mewn modd diystyrllyd yn dyweyd, 'Nid yw y Saesonaeg ond *clytiaith*.' Addefaf hyn yn rhwydd eithr gellir meddwl wrth glywed ambell un yn llefaru, ei fod naill ai yn meddwl darnio y glytiaith oddiwrth eu gilydd gyda golwg ar ei difodi, neu ei fod yn cenfigenu wrth ei harddwch; ac am ymdrechu i oreuro yr Omeraeg â rhai o'r clytiau yma.⁹³

Fodd bynnag, nid oedd safon yr iaith yn bryder i Gymry America yn unig oherwydd presenoldeb y Saesneg o'u hamgylch. Roedd y duedd hon hefyd yn broblem yn ardaloedd diwydiannol Cymru ers dechrau'r ganrif wrth i rieni yn fwriadol siarad Saesneg â'u plant er mwyn eu cynnydd addysgiadol, a daeth dyrchafu'r Saesneg ar draul y Gymraeg mewn rhai achosion yn esgus i rieni beidio â throsglwyddo'r iaith o gwbl i genedlaethau'r dyfodol.⁹⁴ Yn ystod yr 1850au, gwelid erthyglau am safoni'r Gymraeg yn britho cyfnodolion yng Nghymru yn ogystal, a ddengys fod y genedl y ddwy ochr i'r Iwerydd yn brwydro'n erbyn yr un bygythiad gan y Saesneg.⁹⁵

Wedi blynyddoedd o dawelwch yn adran y gwersi gramadeg a gyhoeddwyd yn gyntaf ar ddechrau gyrfa'r *Cyfaill*, atgyfodir yr angen am wers ieithyddol yn 1852 gan ohebydd sy'n

⁹³ Iaith fy mam – sylw ar ofyniad Ioan (Cymro, Sardis) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Hydref 1855.

⁹⁴ Jones, Robert Owen, *'Hir Oes i'r Iaith'*, t.251.

⁹⁵ Jones, Aled, 'Yr Iaith Gymraeg a Newyddiaduraeth.'

atgoffa'r darllenwyr mai amcan penodol y *Cyfaill* yw bod yn 'gludai gwybodaeth fuddiol i genedl y Cymry.' Y mae'n annog y cyfrannwr Idloes i anrhegu'r cyhoeddiad â llythyrau ar y pwnc, er mwyn sicrhau nad yw'r *Cyfaill* yn anghofio ei ddyletswyddau i Gymry America,⁹⁶ sy'n awgrymu fod angen safoni'r iaith yn eu plith. Yn fwy na hynny, adleisir thema gynharach, sef bod y Beibl yn esiampl goeth i iaith lafar ac iaith ysgrifenedig, a ddengys fod yr efengyl yn parhau'n rym elfennol yng nghadwraeth yr iaith Gymraeg yn America fel cyfeirlyfr safonol i'r Cymry fireinio eu harddull:

Cynghorem bob un a chwennycho ddyfod yn ysgrifennydd Cymreig medrus, ddarllen yn ofalus y cyfieithiad cyffredin o'r Ysgrhythrau, yr hwn, yn ddiau, a ddylai fod yn safon yr iaith Gymraeg.⁹⁷

Fodd bynnag, er bod nifer o'r awduron hyn yn hybu dwyieithrwydd, maent hefyd yn daer dros gadw'r ddwy iaith o fewn eu ffiniau penodol, a'u defnyddio i ddibenion neilltuol mewn cyd-destun ffurfiol ac anffurfiol. Condemnir y rhai hynny nad ydynt yn eu hystyried eu hunain yn 'ddynion' os na fyddant yn 'britho eu siarad a rhyw hanner Saesonaeg,' a'r llediaith drwsgl hon sy'n tramgwyddo'r puryddion ieithyddol:

Pob parch i'r Saesoneg, mae yn iaith dda, ac nid oes hanner digon o ymdrech gan y rhan fwyaf o'r Cymry i'w dysgu, ond paham yr arferir y fath gymysgedd didrefn . . . y mae yn ddyledus ar bawb ymdrechu bod yn gyfarwydd yn yr iaith y maent yn ei harfer yn fwyaf cyffredin. Diau, pa fwyaf pur, a digymysg yr arferir unrhyw iaith, mai harddaf yr ymddengys.⁹⁸

Er gwaethaf ymlyniad dwfn y Cymry cenedlgarol at eu hiaith, roedd ganddynt hefyd ymwybyddiaeth gref o'r angen i ddysgu Saesneg, ond credent y dylid cadw'r ddwy ar wahân. Gan mai rhesymau economaidd a ysgogodd nifer helaeth i ymfudo, roedd y Saesneg felly'n angenrheidiol i 'wella eu byd,' yn enwedig yn yr ardaloedd diwydiannol.⁹⁹ Yr hyn sy'n ennyn gwawd y Cymro ffyddlon i'w iaith yw'r dryswch a bery'r cyfuniad o'r ddwy iaith:

Clywir ambell i areithiwr a Saesonaeg mor aml ar flaen ei dafod nes taflu dyrswch ar ei holl fater, pan na oddef y cyfryw air pan mewn cyfarfod y byddo rhyw un yn cael ei

⁹⁶ Iaith y Cyfnodolion Cymreig (John Williams, Drefnewydd) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1852.

⁹⁷ Ibid.

⁹⁸ Iaith fy mam – sylw ar ofyniad Ioan (Cymro, Sardis) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Hydref 1855.

⁹⁹ Jones, William.D., 'Y Gymraeg a Hunaniaeth Gymreig mewn Cymuned ym Mhennsylvania,' t.265.

osod i lefaru yn Saesonaeg ynddo i un gwall gymeryd lle yn yr iaith, heb siarad am dano, a chwerthin hwylus am ben y llefarwyr. Atolwg, foneddigion, diwygiwch ychydig eich hunain, cyn dechrau beio ar eraill.¹⁰⁰

(vii) ‘Medra i ddim Cymreg.’

Mewn ymddiddan ffuglennol a gyhoeddwyd yn 1853, ceir sylwadau am gyflwr yr iaith yn niwedd y pumdegau, wrth i Bob ymateb i ofyniad Ned pam na ddysgodd ddarn i’w adrodd yn yr Eisteddfod:

Gwyddost i fi ca’l geni yn America, Ned; a medra i ddim Cymreg yn *gramatical*; a do’s neb yn cymydogoeth fi yn ceisio dysgu plant i ddeall Cymreg yn iawn; ac o’dd dim o’r plant hyny hefyd i gyd yn siarad hi fel yr hen dynion hyny.¹⁰¹

Mae’r defnydd o iaith wallus gan Bob yn adlewyrchiad o safon y Gymraeg ymhlith rhai o blant yr ymfudwyr gwreiddiol o Gymru a fagwyd ar system addysg Seisnig ei hiaith, ac yn ymgais i ddeffro cyneddfau’r Cymry yn America i’r pryder bod yr iaith ar drai. Awgrymir ei bod yn prysur ddyfod dan warchae yn rhai o gymunedau America erbyn diwedd yr 1850au, gan ei chydabod fel iaith y genhedlaeth hŷn oherwydd diffyg trosglwyddiad i’r plant a anwyd yn America:

Ned.-Wel, Bob, ti elli dithau siarad Cymraeg yn well na hyna, ond i ti ddweyd pob gair yr un fath a dy fam, a pheidio a’i hateb hi yn Saesneg pan y byddo hi yn gofyn yn Gymraeg i ti.

Bob.-Ma mam fi yn falch bod i bachgen hi’n *scholar*, ac yn deall y Sesneg; ac y ma’ hi yn dechre siarad tipyn o Sesneg i hunan hefyd; ond ma’ fi wedi dysgu darllen Cymreg yn da iawn yn yr Ysgol Sul; ac mi dreia i dysgu pisie hefyd erbyn Eisteddfod nesa.¹⁰²

Mae’r ymddiddan yn portreadu’r agendor ieithyddol yn hynod gelfydd rhwng y ddwy genhedlaeth a’r shifft o’r Gymraeg i’r Saesneg o ganlyniad. Darlunnir y duedd gyffredin ymysg cymunedau Cymry America i’r to hŷn ddefnyddio iaith ‘safonol’ a gludwyd o’r hen wlad, a’r ifanc yn siarad iaith lafar fratiog a oedd wedi ei sigo gan bwysau hollbresennol y

¹⁰⁰ Iaith fy mam – sylw ar ofyniad Ioan (Cymro, Sardis) - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Hydref 1855.

¹⁰¹ Eisteddfod Utica: ymddiddan rhwng Ned a Bob - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Chwefror 1858.

¹⁰² Ibid.

Saesneg. Yn wir, awgrymir fod hyd yn oed rhai o'r ymfudwyr gwreiddiol yn troi i'r Saesneg mewn rhai achosion, yn sgil y meddylfryd dylanwadol a ymdreiddiai ledled America ei bod yn gyfystyr â chynnydd, ac felly ymhyfrydid yn nawn y 'scholar' ar draul yr iaith. Fodd bynnag, parha'r Ysgol Sul a'r Eisteddfod yn angor cadarn i'r Gymraeg ynghanol y llif Seisnig.

Yn y darn hwn, dychwelir at yr un themâu sy'n eu hamlygu eu hunain ers dechrau gyrfar *Cyfaill* mewn perthynas â'r iaith, a dengys hyn mai'r un beichiau ieithyddol sy'n berthnasol i Gymry America ymhell i ganol y ganrif. Fodd bynnag, mae rhai treflannau Cymreig yn America, megis Steuben a Remsen, yn ymffrostio bod 'eto lawer o hil Gomer' yn gwneud defnydd cyffredin o'r famiaith ar drothwy'r chwedegau,¹⁰³ sy'n dangos nad yw eto'n hanner nos ar yr iaith yn y cymunedau cryfaf o ran nifer.

Dau ddegawd ers sefydlu'r *Cyfaill*, nid yw'r gred angerddol yng ngallu'r iaith i wrthsefyll agweddau gelyniaethus a dylanwadau'r Saesneg wedi llesgáu er gwaethaf pryderon mynych am ei dirywiad:

Iaith bêr, iaith Gomer, iaith gymen – iaith lwys
Iaith lesol i'w pherchen;
Iaith a'i gwaith o wyth gwythen,
Iaith a saif, er eitha sen.¹⁰⁴

Mewn ardal yn nhalaith Vermont, ofnid gan yr awdur fod y Cymry wedi troi'n 'Yankees' yno, ond cryfhau a wnaeth yr achos ieithyddol yno er dechrau'r pumdegau pan ddaeth rhagor o Gymry i'r gymdogaeth. Trwy sefydlu capel, Ysgol Sul a denu pregethwyr Cymreig yno, dadleua'r gohebydd yn erbyn yr 'Yankee' a ddywed wrtho 'y darfyddai'r iaith Gymraeg

¹⁰³ Howell, Llewelyn.D. (1860) *Traithawd ar ddechreuad a chynnydd y Cymry yn Utica a'i hamgylchoedd*, R.R.Meredith: Rome, t.6. "Y mae yn Steuben a Remsen eto lawer o hil Gomer yn gwneud defnydd cyffredin o'r hen iaith, ac y maent yn hoffi llawer o bethau ag sydd yn phertyn i ni fel cenedl Gymreig; ac mewn gwirionedd, y maent hwy eu hunain yn hoff o gael y cyfleustra i amlygu eu perthynas â'u hynafiaid Cymreig. Y rhai hyn ydynt y bobl sydd yn anrhydedd iddeu cenedl, ac nid y rhai hyn sydd yn cymeryd arnynt eu bod wedi anghofio eu heniaith cyn dysgu yr un arall yn ei lle....Y mae yr hen iaith Gymreig heddyw yn swnio mor soniarus ar hyd bryniau a broydd prydferth a hyfryd Steuben a Remsen ag y clywyd hi erioed ar hyd broydd a bryniau iachusol ein genedigol wlad."

¹⁰⁴ Y Cymry yn Vermont - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1852.

ymhen hanner can mlynedd,' sy'n dangos bod gan yr ymfudwyr ffydd o hyd yng ngallu'r treflannau hyn i warchod yr iaith:

Mai nid un oes, na dwy a wisgai ymaith yr hen iaith Gymraeg i ddarfodedigaeth. Ac yn wir i chwi, yr wyf yn teimlo gwaed Cymroaidd digon cynes i ddweyd mwy na hynyna wrtho. Mai pan chwytho yr Archangel yr udgorn i alw ynghyd bob llwyth ac iaith, ac y bydd defnyddiau Vermont gan wir wres yn toddi, y pryd hwnw yr ymedy yr iaith Gymraeg o'i mynyddoedd a'i brynau; o'r hyn lleiaf dyna fy nheimlad i yn bresenol.¹⁰⁵

Mewn cyfres o lythyrau gan Dewi Egwan ar yr 'hen iaith' yn rhan olaf y pumdegau, mae yntau hefyd yn gwrthod derbyn fod yr awr dduaf wedi gwawrio ar y Gymraeg:

Garw yw ein twrw a'n trafferth am yr hen iaith fyth a hefyd. Gellid meddwl wrth glywed llawer araeth, a gweled aml draethawd fod yr awdwyr ar fin tori eu calonau am nad yw yr hen foneddiges yn cael y parch y mae yn deilyngu oddiwrth ei deiliaid; ond ni choeliaf nad rhagrith o'r fath atgasaf yw mwy na'r hanner. Yn hyn, ceir lluaws o'n dynion mwyaf gwybodus, talentog, a phwyllog yn barnu mai ein dyledswydd yw defnyddio pob moddion galluadwy er ei chadw yn fyw.¹⁰⁶

Creda'n ddiysgog yng ngallu'r 'hen foneddiges' i oroesi oherwydd ymdrechion y Cymry pybyr dros 'wir freintiau dyn,' er iddo resynu bod yr iaith wedi ei diorseddu yn nheyrnas Prydain yn swyddogol ers canrifoedd.¹⁰⁷ Ymfalchïa fod y Cymry'n hawlio goruchafiaeth ar genhedloedd eraill fel y 'gwrolaf' yn gwarchod un o brif nodweddion eu cenedl, ac aiff ymlaen i dynnu cymariaethau rhwng Cymru a gweddill y gwledydd Celtaidd o ran eu sefyllfa ieithyddol. Yn wir, roedd ei sylwadau yn gydnaws â syniadaeth y mudiad Rhamantaidd yn Ewrop o ran adfywio diddordeb yn hanes ac iaith cenedloedd lleiafrifol, yn ogystal â'u gwreiddio yng nghyd-destun ehangach diwylliannau eraill megis y Celtiaid, dull a roddai undod ar lefel uwch na chenedlaethol iddynt, yr hyn na wnaethai'r diwygiadau Anghydfurfiol a'u ffocws ar y genedl yn unig.¹⁰⁸

¹⁰⁵ Ibid.

¹⁰⁶ Yr Hen Iaith – llythyr I (Dewi Egwan) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1856.

¹⁰⁷ Ibid. "Byddaf yn teimlo yn eiddigeddus rai amserau wrth feddwl fod ein hen iaith wedi bod yn bendefiges holl Ewrop, ond yn yr oesoedd diweddaf hyn yn cael ei chyfyngu i gan lleied cylch. Mae y mwyaf oeraidd yn rhwym o farnu mai y Cymry yw y rhai gwrolaf ar wyneb yr holl ddaear dros wir freintiau dyn, ac yn neillduol eu hiaith, eu gwlad a'u cenedl."

¹⁰⁸ Mayo, Patricia Elton (1974) *The Roots of Identity: Three National Movements in Contemporary European Politics*, Allen Lane: London, t.70.

Yn fwy na hynny, mae'n cysylltu'r iaith yn uniongyrchol â chenedligrwydd drwy haeru am y gwledydd Celtaidd a ymwadodd â'u hiaith, '....nad oes nemawr rhyngddynt a bod yn Saeson, ond yn unig gwahanol enwau ar y gwledydd y cânt eu geni a'u magu.' Creda'r awdur felly mai'r iaith yw prif ddilysnod y cenedloedd Celtaidd sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth eu cymdogion Seisnig. Er ei fod yn eiddigeddu wrth yr 'Albaniaid' eu bod ar y blaen i'r Cymry mewn 'dysgeidiaeth, moesau, a pharch cenedlaethol,' adleisia thema gyson yn yr ysgrifau gwladgarol fod gan y Cymry gyfoeth y tu hwnt i bethau materol:

Wel, a chyfrif y cwbl at eu gilydd, y Cymry ydynt yn troi y fantol o ddigon o du cenedlgarwch. Mae ganddynt wlad, a'r un fwyaf gyfoethog, ar amryw ystyriaethau, fe allai a berthyn i'r chwarter hwnw o'r ddaear, pa un y mae ynddo.¹⁰⁹

Yn ei ail lythyr, ceisia'r awdur adfywio hyder yn yr iaith drwy ysgwyd y Cymry difater o'u 'hanwybodaeth ac ofergoeledd,' a'u darbwylo fod yr hen iaith yn 'gyflawnach o filoedd ar filoedd o eiriau' nag y bu yn oes Babel, a bod 'cyfryngau gwybodaeth fuddiol' yn yr iaith wedi cynyddu'n ddirfawr. Dymuna i'r Cymry ymfalchïo yn eu hiaith drwy ddatgan na fu erioed well beirdd, darlithwyr a gweinidogion yn gweithio drosti:

Yn ddilys, swnia yr hen iaith yn beraidd ar gloch ein clustiau, pa un bynag ai barddoniaeth ai rhyddiaith a fyddo. Pa iaith yn y byd a garia y fath effaith ar deimladau ei gwrandawyr, yn enwedig pan y bydd rhai o'n henwogion yn sefyll i fyny?¹¹⁰

Er bod y don ymfudol yn parhau i olchi dros lannau America yn ystod yr 1850au, roedd y Cymry pybyr eisoes yn poeni am ddyfodol yr iaith a'r dyletswydd i'w throsglwyddo i'r cenedlaethau i ddod. Yr hyn sy'n datblygu yw ymwybyddiaeth o ffiniau'r iaith ynghyd â'i defnyddio mewn peuoedd neilltuol, mewn ystyr ddiwylliannol yn bennaf. Trwy gydol gyrfa'r *Cyfaill*, pwysleisir gwerth ei thrysorau llenyddol a barddonol sy'n gafael yn y Cymry ac yn caniatáu i'r iaith groesi terfynau daearyddol:

Ysgatfydd na bydd serch y cyfryw wedi cael eu hennill at iaith eu mamau, erbyn y byddont yn ei deall, trwy odidawgrwydd ei llëenyddiaeth neu ystwythder ei

¹⁰⁹ Yr Hen Iaith – llythyr I (Dewi Egwan) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1856.

¹¹⁰ Yr Hen Iaith – llythyr II (Dewi Egwan) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1857.

barddoniaeth mal na ollyngont eu gafael o honi pa le bynag y byddo eu tynged amserol yn disgyn.¹¹¹

Er gwaethaf y brwdfrydedd ymddangosiadol yma i gynnal yr iaith, dadleua Robert Owen Jones mai ‘darlun gobeithiol ffug’ yn llawn ‘teimladrwydd bas’ a geir yng ngherddi gwladgarol y ganrif ar ôl 1850 yn yr hen wlad. Yn ei dyb ef, ‘gwerth addurnol’ yn unig oedd i’r Gymraeg ar ôl Brad y Llyfrau Gleision.¹¹² Pa ran a chwaraeai’r wasg gyfnodol Gymraeg felly i ddiogelu’r iaith drwy ddefnyddio rhai o’i phrif gonglfeini, barddoniaeth a llenyddiaeth, a pha mor ddilys oedd y cyfrwng hwn i gynnal eu cenedligrwydd yn America?

¹¹¹ Cadw y Gymraeg (Gomeriad, O-o) - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Chwefror 1838.

¹¹² Jones, Robert Owen, *Hir Oes i’r Iaith*, t.277.

Pennod 6: ‘Llon heddy yw llenyddiaeth?’ Y TRADDODIAD LLENYDDOL A

DIWYLLIANT.

Cywreinfia ferth, cronfa fad
O lenyddiaeth, lan naddiad.¹

Ni allai'r iaith oroesi mewn gwagle yn America, ac fel yn yr hen wlad daeth yn gyfrwng mynegiant naturiol i'r diwylliant traddodiadol, fel y pwysleisir gan nifer o astudiaethau.² Fel nifer o genhedloedd eraill, ni ellir gorbwysleisio ei phwysigrwydd i hybu gwerthoedd diwylliannol unigryw'r genedl.

The Welsh tongue is a 'social passport' which alone ensures participation in these many cultural amenities.³

Ffurfiar cwlwm rhwng iaith a diwylliant ruddin hunaniaeth y Cymry alltud wrth i'r cyfuniad adlewyrchu eu harwahanrwydd ynghanol amrywiaeth diwylliannol cenedloedd America, a'r ddwy ffenomen yn cyfnewid maeth ac yn creu undod:

The great instrument of this communication is language: The effective range of culture is marked by the possibility of understanding through language. The community of communication is a close one only as far as the community of language extends.⁴

Un o'r dulliau sicraf, felly, o gadw gafael ar eu cenedligrwydd oedd creu diwylliant newydd a oedd yn seiliedig ar yr iaith fel storfa i'r etifeddiaeth a gludwyd ar draws yr Iwerydd, Byddai hyn hefyd yn mabwysiadu gwedd Americanaidd maes o law. Roedd y diwylliant hwn yn yr ystyr ehangaf yn blethiad o elfennau megis crefydd, cymdeithasau Cymreig, gwyliau a chynnyrch print.

¹ I'r 'Cyfaill o'r Hen Wlad' (Llinos Glan Ohio) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1858.

² Edwards, D.Miall (1927) *Iaith a Diwylliant Cenedl*, Y Brodyr Hughes: Dolgellau, t.77. "Ymgawdoliad ydyw o anianawd cenedl; cronicl ei hymdrechion, ei chyraeddiadau, ei dyheadau; trysordy ei phrofiadau amrywiol a chyfoethog. Heb ddiwylliant nid yw'r iaith ond megis corff heb enaid, plisgyn heb gnewyllyn, olwynion heb ysbryd y peth byw."

³ Dicker, Susan.J. (2003) *Languages in America*, Cromwell Press: UK, t.1 & 4. Gw.

⁴ Bauer, O (1996) 'The Nation,' in (ed) Balakrishnan, G, *Mapping the Nation*, Verso: London. t.53; Evans, Gwynfor & Rhys, Ioan (1968) 'Wales,' yn (goln) Dudley, Owen et al, *Celtic Nationalism*, Routledge: London.

Yn wir, o ystyried y cyflwynwyd addysg mewn iaith estron, ar ystyr ddiwylliannol yn unig y ffynnai Cymreictod, o gylch yr undod hwnnw a ddeilliai o'r capel a'r cymdeithasau drwy gyfrwng y wasg.⁵ Ffurfiar darllenwyr hyn y gymuned graidd a oedd yn allweddol i gynnal undod y genedl, a'r ymdeimlad o rannu ei gwerthoedd a'i thraddodiadau unigryw:

In the Western model of national identity nations were seen as culture communities, whose members were united, if not made homogenous, by common historical memories, myths, symbols and traditions.⁶

Un o'r cyfryngau mynegiant mwyaf gwerthfawr i'r genedl ei hail-greu ei hun o'r newydd ynghyd â chadw ei gafaél ar yr iaith a'i chyfoeth hanesyddol oedd llenyddiaeth. Awgryma'r gerdd uchod y gweithredai'r *Cyfaill* felly fel ysgogiad i lenorion y genedl hogi eu crefft er mwyn trosglwyddo eu gwaith yn gyhoeddus drwy'r cyfrwng print.

Fel creadigaeth ddychmygol, proses naturiol oedd i'r genedl ddefnyddio adnoddau llenyddol a barddonol i ddarlunio eu diwylliant newyddanedig, wrth i ddelwedd a bri y genedl ddibynnu ar y nodweddion hyn o ganlyniad i ddiffyg gwladwriaeth.⁷ O'r herwydd, creai'r traddodiad llenyddol fframwaith ideolegol cadarn ar gyfer defnydd o'r iaith, yn ogystal â chreu diwylliant a hybai ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig drwy glymu cymuned lenyddol ynghyd:

A language, moreover, does not stand on its own. Once a significant vernacular literature exists, it creates a more conscious community of those who read it, of those in whose houses it is to be found and it quickly builds up an enhanced sense of historical cultural particularity.⁸

Galluogai'r cyfrwng llenyddol yr awduron i gynhyrchu ystyron ar ran y gynulleidfa, a oedd yn ymateb i gymdeithas yr oes. Mae Daniel Williams wedi dadansoddi sut y creodd awduron Cymreig-Americanidd hunaniaeth newydd drwy gyfrwng naratifau, tra bod ysgolheigion fel

⁵ Miller, David (1995) *On Nationality*, Clarendon Press: Oxford.

⁶ Smith, Anthony (1991) *National Identity*, Penguin: London, t.11.

⁷ Day, Graham & Thompson, Andrew (2004) *Theorizing Nationalism*, Palgrave Macmillan: Hampshire, t.104.

⁸ Hastings, Adrian (1997) *The Construction of Nationhood: Ethnicity, Religion and Nationalism*, Cambridge University Press, t.31.

yntau a E.Wyn James wedi edrych ar swyddogaeth barddoniaeth wrth ymdrin â digwyddiadau'r oes megis caethwasanaeth.⁹ Cafwyd ambell astudiaeth ar gyfansoddiad penodol mewn dyfnder, ac eto i gyd mae'r diffyg sylw i lenyddiaeth greadigol Cymry America wedi arwain Jerry Hunter i'w ddisgrifio fel y 'traddodiad llenyddol coll.'¹⁰ A oedd gan yr ymfudwyr lenyddiaeth werth sôn amdani felly, a beth fyddai swyddogaeth y cyfrwng print yn y cyd-destun hwn?

(i) 'Yr Awen Gymroaidd.'

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid oedd yn annisgwylidig i'r syniad bod cyswllt rhwng trefn rhagluniaeth a thynged yr iaith Gymraeg fwrw gwraidd mewn daear ffrwythlon. Credid yn gryf bod pwrpas arbennig gan 'Ragluniaeth Ddwylol' dros gadw'r iaith a'i siaradwyr, a throsglwyddwyd y gredo drwy amrywiol gyfryngau:

The enthusiasms generated were transmitted from the eighteenth century to the nineteenth century by means of patriotic societies, eisteddfodau, and, most potently and effectively of all, by the rapid development of printed literature in Welsh.¹¹

Nid ffenomenon ynysig oedd y traddodiad llenyddol Cymraeg, a defnyddid y sefydliadau gwahanol hyn i'w feithrin ar y cyd â'r wasg brint.¹² Fodd bynnag, cylchoedd elitaidd oedd yn bennaf gyfrifol am gynnal diwylliant yn y ddeunawfed ganrif,¹³ ond yn ystod y ganrif

⁹ Williams, Daniel (2003) 'Cymry Ewyrth Sam: Creu hunaniaeth Gymreig yn yr Unol Daleithiau c.1860-1900, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Cof Cenedl XVIII*, Gomer: Ceredigion; James E.Wyn (2003) 'Caethwasanaeth a'r Beirdd', *Taliesin*, 119, Haf, t.37-60; Williams, Daniel.G, gol (2010) *Canu Caeth: Y Cymry a'r Affro-Americaniaid*, Gomer: Llandysul.

¹⁰ Gray, Melinda (1998) 'Language and Belonging: A Welsh Language Novel in Late-Nineteenth-Century America,' yn (gol) Sollors, Werner, *Multilingual America: Transnationalism, Ethnicity, and the Languages of American Literature*, New York University Press: London; Hunter, Jerry (2003) 'Y Traddodiad Llenyddol Coll', *Taliesin*, 118, Gwanwyn, t.13-44.

¹¹ Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.25. Hefyd gw. Williams, Glanmor (2000) *Cymru a'r Gorffennol – Côt o Leisiau*, Gomer: Llandysul; Coupland, Sir Reginald (1954) *Welsh and Scottish Nationalism: A Study*, Collins: London.

¹² Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.25. "Certainly the nineteenth century gave rise to an efflorescence of Welshness that was astonishingly prolific and varied in its expression."

¹³ Colley, Linda (1992) *Britons: Forging the Nation*, Pimlico: London, pennod ar gymdeithasau elitaidd yn ail-greu diwylliant.

ganlynol camodd y wasg gyfnodol i'r adwy yn bont rhwng y werin a llenyddiaeth ar lefel gymdeithasol ac mewn print. Er bod rhai o Gymry America yn poeni am effaith rhai o'r arferion hyn ar gyflwr eu moesoldeb, roeddent yn cydnabod bod nifer wedi cael eu 'cynhyrfu a'u codi i ymestyn am wybodaeth trwyddynt,' ffaith a ddengys bod ganddynt swyddogaeth gymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol.

Cynyddwyd proffil y deunydd print drwy gyfrwng y Gymraeg yn enwedig ar ôl 1815 gyda chymorth cymdeithasau megis y Cymreigyddion a leolwyd yn Llundain, sy'n dangos bod yr elfen gymdeithasol a'r diwylliant print yn cydgerdded.¹⁴ Cyhoeddwyd tua 8,500 o lyfrau yn y Gymraeg o'i gymharu â 1,200 yn flaenorol a rhoddodd y myrdd cylchgronau a phapurau newydd awdurdod i 'iaith leiafrifol ac anwladwriaethol.'¹⁵ Daeth y pwyslais cynyddol ar ddarllen ac ysgrifennu llenyddiaeth yn un o brif nodweddion hunaniaeth y genedl, a rhoddwyd gwedd gymdeithasol i'r traddodiad:

Literacy and prosperity in Wales, and elsewhere in Europe, encouraged a greater sense of national awareness, and its outcome was the founding of a whole crop of patriotic societies.¹⁶

Cyfrannodd y cymdeithasau hyn ddoniau amhrisiadwy i fyd llenyddol Cymru a'r cymunedau alltud drwy hybu eisteddfodau, astudiaethau llenyddol a hanesyddol, a dathlu dydd Gŵyl Dewi. Byddai'r cymdeithasau hefyd yn fodd i glymu'r Cymry alltud ynghyd ar dir estron:

The exodus of thousands of the Welsh overseas gave rise to the familiar nostalgia of exiles and the desire to found societies which might help to preserve common links and memories.¹⁷

Yn ôl Miller, yr ymdeimlad hwn o rannu diwylliant cyffredin sy'n rhoi bod i'r cysyniad o genedligrwydd ym meddyliau'r bobl:

¹⁴ Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.121. Dyfyniad gan olygydd un o'r cyfnodolion Cymreig cynharaf yn 1828. "In comparison with earlier times, the present age can be described as the age of *books* – the age of *readers* – the age when everyone is eagerly extending his hands to the tree of knowledge . . . It would have been unbelievable even at the beginning of the century that the printing presses of Wales should have given birth to so many monthly publications as well as to a multitude of books on all aspects of knowledge."

¹⁵ Jones, Robert Owen, *'Hir Oes i'r Iaith'*, t.242.

¹⁶ Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.121.

¹⁷ *Ibid*, t.122.

...a national identity requires that the people who share it should have something in common, a set of characteristics that in the past was often referred to as a 'national character,' but which I prefer to describe as a common public culture . . . There must be a sense that the people belong together by virtue of the characteristics that they share.¹⁸

Nid swyddogaeth gymdeithasol yn unig a gyflawnai'r cymdeithasau Cymreig hyn felly, ond gweithredent fel symbyliad diwylliannol i gadw'r iaith a'i thraddodiadau'n fyw yn y treflannau Cymreig a oedd ar wasgar yn yr Unol Daleithiau. Yn ôl y dystiolaeth a geir yng nghofnodion dathliadau'r cymdeithasau Cymreigyddol, mae'n amlwg fod gan lenyddiaeth swyddogaeth bwysig fel cyfrwng mynegiant i wahanol elfennau eu hunaniaeth, a bod y cerddi a'r areithiau'n rhan ganolog o'r wledd. Fel nodwedd mor allweddol i'w Cymreictod, roedd taer angen am feithrin diwylliant llenyddol y garfan hon o ymfudwyr fel mynegiant i'w cenedligrwydd.

Terfynid dathliadau Gŵyl Ddewi a chyfarfodydd y cymdeithasau eraill yn fynych gydag erfyniad taer am barhad yr hunaniaeth Gymreig, ac awgrymir pwysigrwydd llenyddiaeth i'r perwyl hwn gyda'r cyfeiriad cyson at 'awen' yn cerdded law yn llaw â Chymreictod y ddwy ochr i'r Iwerydd:

...dymunwyd iechyd ac hir oes i'r Cymry, yn eu gwahanawl sefydliadau yn Amerig, i feithrin a choledd dysgeidiaeth ac Awen Gymroaidd. Hefyd, dymunwyd yr unrhyw idd ein brodyr yn ein bro gynhenid.¹⁹

Os ydym yn dilyn camau mewn ymgyrch lenyddol, fel a drafodir gan Skardial yng nghydestun llenyddiaeth Norwyaidd yn America, gellid dadlau bod y Cymry'n cynrychioli'r trydydd cam fel '*preservationists*' yn y modd yr oeddent yn credu'n frwd ym mharhad eu hetifeddiaeth Gymreig - er gwaethaf amlddiwylliannedd America - ac felly'n ei thrin fel is-ddiwylliant wrth dynnu ar elfennau o'r ddwy wlad.²⁰ Gwelir hyn yn y pwyslais cyson yn y

¹⁸ Miller, David, *On Nationality*, t.25.

¹⁹ Ail Gylchwyl Cymdeithas Cymreigyddion Maes-Tre Mwnwyr - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1838.

²⁰ Skardial, Dorothy (1983) *Scandinavian-American Literature*, yn (gol) Pietro, Robert & Ifkovic, *Ethnic Perspectives in American Literature: selected essays on the European contributions*, Modern Language Association of America: New York, t.242. Y ddau gam arall fyddai: i) derbyn y ffordd Americanaidd o fyw yn

Cyfaill, a'r wasg gyfnodol yn gyffredinol, ar drosglwyddo cyfoeth llenyddol i ieuencid, wrth i Gymry America geisio sicrhau parhad eu diwylliant.²¹

Ategir yr atyniad at lenyddiaeth pan gynigir llwncdestun i fardd neilltuol neu ffigwr blaenllaw yng Nghymru ac America, megis i 'Iechyd y Parch Thos. Price, Carnhuanawc.' Yn y cyfnod cynnar, awgrymir fod egin traddodiad llenyddol Cymry America ynghlwm â thraddodiad eu cymrodyr yng Nghymru:

Victoria, fwynaf fanon, - hael nodda
 Lenyddiaeth y Brython;
 Canu wna beirdd heirdd i hon,
 A'i charu dan ei choron.²²

Fodd bynnag, amlygir fod eu teyrngarwch i'r goron yn dibynnu'n helaeth ar nawdd y frenhines i lenyddiaeth y Cymry a dyled y beirdd i'w haelioni. Ni ellir dirnad a yw'r Cymry yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn eu hystyried eu hunain yn Brydeinwyr neu a ydynt yn swcro'r goron fel modd i sicrhau nawdd, o gofio bod lenyddiaeth yn un o gonglfeini hunaniaeth Gymreig yn y ddwy wlad o boptu'r Iwerydd.

Yn wir, trwy gyfrwng llenyddiaeth yn ei amrywiol ffurfiau y mynegir teimladau gwladgarol y Cymry tuag at eu nodweddion unigryw:

...y dylifodd tyrfa luosog o feib hen Gomer hyglodus yn nghyd, gwenau siriawl pa rai a arwyddynt yn eglur fod yn orhoff ganddynt lwyddiant llëenyddiaeth Gymreig, pryd yr anerchwyd yr ewyddolion ag araith fer ond cynnwysfawr, yn nghyd a'r Englynion canlynol...²³

gyfan gwbl, ii) creu rhywbeth newydd, ond eu bod hefyd yn ymwybodol ei fod am ddiplannu. Mae'r dystiolaeth brint yn awgrymu fod y Cymry'n credu ym mharhad eu diwylliant ac yn rhoi sylfeini llenyddol am genedlaethau i ddod.

²¹ Cyfarfod Cystadleuol at holl lenorion, beirdd a chantorion Cymreig swydd Oneida - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1855. "I holl Gymry swydd Oneida yn unig y mae caniatad i gystadlu y tro hwn. A chan mai cyffroi ieuencid y swydd hon yn fwyaf neillduol i ymdrechion llenyddol, yw ein hamcan yn hyn, hyderwn y bydd i LAWER gyfansoddi, neu benderfynu canu neu adrodd, oreu y gallant."

²² Cerdd gan W.J.W. - Gwledd y Cymry ar Wyl Ddewi 1838, Caerefrog Newydd - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1838.

²³ Ail Gylchwil Cymdeithas Cymreigyddion Maes-Tre Mwnwyr - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1838.

Gwneir apêl cyson yn y gweithrediadau i ‘ddeffro y beirdd’ a’r ‘awen bêr, rydd,’²⁴ fel y prif gyfrwng i gyfleu gwladgarwch. Cynhyrchu llenyddiaeth ac ymestyn gwybodaeth yw prif ddiben y cymdeithasau fel modd i hybu cenedligrwydd, a chynhelir cystadleuaeth lenyddol fel rhan o gyfarfodydd gŵyl Ddewi. Anfonir cyfansoddiadau mewn amrywiol ffurfiau megis traethodau a phryddestau am wobrwyon, ac ystyrir yr adran hon o’r cyfarfod yn allweddol i ffyniant llenyddiaeth ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg:

Llawdd ydym o’n llwydd odiaeth – in’
 Yn llamu wybodaeth, [llyma,
 Llon heddy’ yw llenyddiaeth,
 Y ‘mrig ffrw y Gymraeg ffraeth.’²⁵

Yn ogystal ag adrodd y cerddi gwladgarol ar lafar yn ystod ymgynulladau diwylliannol, byddai cyhoeddi’r gweithrediadau yn y wasg Gymraeg yn impio ffuglen yn gadarn o fewn y diwylliant print ac yn cynnig cynulleidfa ehangach. Cymwynas enfawr y gwahanol gyfnodolion i hybu’r ymdrechion i greu traddodiad lenyddol oedd gweithredu fel cyfrwng i hysbysu’r amrywiol dreffannau o weithrediadau amrywiol gyfarfodydd diwylliannol.

Roedd diwylliant lenyddol Cymry America, felly’n dibynnu i raddau helaeth ar y wasg am seiliau cadarn i’w hybu, a thrwy gyhoeddi deunydd lenyddol y gwahanol gymdeithasau a chyfarfodydd lleol yn y cyfnodolion - daeth yn ymdrech ar y cyd i fowldio hunaniaeth newydd ddwyochrog ar lefel genedlaethol:

Dymunaf arnoch yn ostyngedig roddi lle i’r ychydig linellau hyn yn rhyw gongl o’r Cyfaill, er rhoi hysbysrwydd o’r Cyfarfod, fel y gallo yr oes a ddel ganfod llafur eu tadau er meithrin gwybodaeth, a pharchu eu hiaith pan yn mhell o wlad eu genedigaeth.²⁶

Roedd adroddiadau am ddigwyddiadau’r genedl yn gweithredu fel baromedr i fywiogrwydd diwylliannol y cymunedau Cymreig yn America, a chyfraniad gwahanol awduron yn dyst i’r egni creadigol a ffrydiai o’r diwylliant hwn. Ystyrir y cyfrwng print yn allweddol i roi

²⁴ Gwyl Ddewi 1840, Gwledd Flynyddol y Cymry yn Nghaerefrog Newydd - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Ebrill 1840.

²⁵ Englyn gan Ab Dyfnwal, Gwyl Ddewi Sant Lonaconing - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Ebrill 1839.

²⁶ Cyfarfod y Cymry yn Mhottsville - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Awst 1841.

cyfoeth llenyddol a gwybodaeth ar gof a chadw ynghyd â chynnal yr iaith, yn enwedig er mwyn i'r cenedlaethau dilynol elwa a sicrhau parhad eu Cymreictod ymhell o'r famwlad.

Sut mae modd felly diffinio'r berthynas rhwng y wasg argraffu, diwylliant a llenyddiaeth? Beth oedd swyddogaeth y cyfnodolion yng nghynhaliadaeth y diwylliant Cymraeg cynhenid, a chreu traddodiad llenyddol a fyddai'n adlewyrchiad o'r hunaniaeth newydd?

(ii) 'Llenyddiaeth gu.'

Canlyniad llythrennedd oedd rhoi swyddogaeth anhepgor i'r wasg brint yng Nghymru a'r cymunedau diasporaidd o ran bod yn ddeorfa i ddiwylliant llenyddol y genedl, yn enwedig gan nad oedd amrywiaeth o gyfryngau fel yn y byd cyfoes, yn ogystal â chreu rhwydwaith barod o ddarllenwyr ar gyfer awduron. Fel creadigaethau annibynnol, nid oes amheuaeth nad oedd cynnyrch llenyddol swmpus y ganrif yn ddyledus i'r twf yn y wasg newyddiaduro, ²⁷ ac nid yw'n gyd-ddigwyddiad ychwaith ei fod yn cyd-fynd â datblygiad ffuglen gwasg gylchgronol Saesneg America yn ystod yr 1840au.²⁸ Lleisir canmoliaeth yn fynych am safon 'danteithion y cu feirddion' ar ei 'fyrddau,'²⁹ ac unwaith eto roedd y *Cyfaill* yn ymdebygu i gylchgronau megis *Seren Gomer* yng Nghymru a oedd yn ceisio hybu'r diddordeb mewn llenyddiaeth.³⁰

Fel croth i lenyddiaeth a fforwm drafod fywiog, dibynnai'r beirdd yn helaeth ar lwyddiant y wasg am eu bywoliaeth, sefydliad a elwir yn '*author-sustaining formation*' gan

²⁷ Rhys, Robert (1999) Llenyddiaeth Gymraeg y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.251. Hefyd gw. Jones, T. M. (1893) *Llenyddiaeth fy ngwlad*, P. M. Evans: Treffynnon, t.184 am fraslun o ddylanwad llenyddol y cylchgronau.

²⁸ Bell, Michael Davitt (1995) Conditions of Literary Vacation, yn (gol) Bercovitch, Sacvan, *The Cambridge History of American Literature, vol 2 1820-65*, Cambridge University Press, t.13.

²⁹ Anerchiad idd y Cyfaill ar ei ymddangosiad cyntaf (Gwilym ab Ioan) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1838.

³⁰ Jones, T.Gwynn (1920) *Llenyddiaeth Gymreig y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg: Llawlyfr at wasanaeth darllenwyr*, Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig: Caernarfon, t.10.

Price a Smith.³¹ Byddai cyhoeddi gwaith awduron yn brawf iddynt bod eu gwaith yn deilwng o'i argraffu, ac felly caent gydnabyddiaeth a oedd yn gymhelliant pendant i'w datblygiad.³²

Yn yr un modd roedd y *Cyfaill* yn ddyledus am gryn fesur o'r llwyddiant hwn i safon y cynnyrch llenyddol:

Llenyddiaeth gu, llawn dda'th glog,
Gaf allan, 'Gyfaill' enwog.³³

Ond i bwy y perthynai'r corff hwn o lenyddiaeth, America ynteu Cymru? I ba raddau yr oedd y llenyddiaeth yn gyfuniad o'r Cymreig a'r Americanaidd, ac felly'n creu traddodiad llenyddol a adlewyrchai ddeuoliaeth o ran hunaniaeth? A oedd gorgyffwrdd rhwng llenyddiaeth yr ymfudwyr Cymreig a'u cymrodyr yng Nghymru?

(iii) 'Ysgydwyd y napcynau.'

Mae Jerry Hunter eisoes wedi ceisio ateb y cwestiwn a oedd gan Gymry America ddiwylliant llenyddol annibynnol ai peidio, gan ddod i'r casgliad bod yr ymfudwyr Cymraeg eu hiaith wedi defnyddio'r wasg gyfnodol i gyflwyno llenyddiaeth a wasanaethai eu hanghenion penodol, a'i defnyddio fel un o'r dulliau i adeiladu hunaniaeth newydd ddwyochrog.³⁴ Yr hyn sy'n arwyddocaol yw rôl allweddol y wasg yn yr orchwyl hon.

Dadleua fod llythyr gan artist o gymuned Gymraeg Lerpwl i'r *Drych* yn 1856 yn gofyn am gynnwys awduron Cymraeg Americanaidd mewn oriel lenyddol a ffurfiad ym Mhrydain yn gam ymlaen i ganoneiddio llenyddiaeth Gymraeg Americanaidd. Fodd bynnag, mae'n

³¹ Price, K & Smith, Susan (1995) *Periodical Literature in Social and Historical Context*, yn (gol) Price, K & Smith, Susan, *Periodical Literature in Nineteenth Century America*, Virginia University Press: London, t.5.

³² Jones, Aled (1999) *Yr Iaith Gymraeg a Newyddiaduraeth*, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.366.

³³ Dau englyn i'r *Cyfaill* a'i olygydd (Gwentydd Bach) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1854.

³⁴ Hunter, Jerry (2007) *Sons of Arthur, Children of Lincoln: Welsh Writing from the American Civil War*, University of Wales Press: Cardiff.

credu na welir genedigaeth traddodiad llenyddol Cymry America o ddifrif tan 1859.³⁵ Yn niwedd degawd yr 1850au yn ei dyb ef y gwelir yr ‘elfennau hanfodol er mwyn creu a chynnal diwylliant llenyddol;’ megis poblogaeth ddigonol, sefydliadau crefyddol, cymdeithasol a diwylliannol, a rhwydweithiau megis y wasg wedi datblygu digon i’w meithrin.³⁶

Fodd bynnag, er nad oedd cronfa swmpus o lenyddiaeth wedi ei chyfansoddi tan y cyfnod hwnnw, gwelir arwyddion fod ymwybyddiaeth o draddodiad llenyddol neilltuol yn bod yn y wasg Gymraeg mor gynnar ag 1838 drwy gyfrwng y *Cyfaill*. Er bod y cyfnodolion Cymraeg yn America yn cynnal diwylliant trawsatlantig drwy ail-dwymo deunydd print yr hen wlad, roeddent hefyd yn creu gofod helaeth i gyfraniadau llenorion ymfudedig y genedl yn gynnar iawn yng nghwrs y wasg brint gyfnodol. Mewn darn o ffuglen ar ffurf ymddiddan yn rhifyn cyntaf y *Cyfaill*, mynegir hyder yn noniau Cymry America, heb ddibrisio trysorau o Gymru:

...eto y mae yn y wlad yma hefyd, amryw o Gymry cyfoethog, mewn ofyddiaeth a barddoniaeth, sydd wedi addaw fy anrhegu yn fisawl a ffrwyth eu llafur myfyriawl.³⁷

Rhoddai William Rowlands fri yn ogystal ar gyfraniadau Cymry America i’r traddodiad llenyddol newyddanedig yr esgorodd y wasg arno, ffaith sy’n adlewyrchu ei bwyslais ar fewnbwn y darllenwyr i gynhaliaeth y cylchgrawn. Ymfalchïai fod y *Cyfaill* wedi chwarae ei ran yn neffroad y doniau celfyddydol ymhlith y genedl a oedd yn ymgymryd â’r orchwyl i ‘greu’ diwylliant i gwrdd ag anghenion y gynefin newydd. Defnyddia drosiad o’r byd milwrol i gryfhau ei neges, gan roi gwedd lenyddol i ffrwyth ei fyfyrdodau, yn y gobaith o bosibl, o gynnig ysbrydoliaeth i fwy o lenorion Cymry America gyfrannu eu doniau llenyddol i’r cylchgrawn.

³⁵ Ibid, t.28-9. Mewn rhifyn o’r *Drych* yn 1859, mae’n rhoi enghraifft o dri darn llenyddol sy’n arwyddo annibyniaeth traddodiad llenyddol Cymry America.

³⁶ Hunter, Jerry (2003) ‘Y Traddodiad Llenyddol Coll’, *Taliesin*, 118, Gwanwyn, t.32.

³⁷ Y *Cyfaill* a’i Gydgenedl: ymddiddan - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

Mae lluosowgrwydd y gohebiaethau a ddylifant atom yn fisol yn peri syndod cyffredinol, ac nis gellir gwadu nad oes yn y gymysgfa amrylaw rhai darnau o athrylith rhagorol. Ymddangosai yn anhygoel fod yn mhlith Cymry allwladedig America y fath ddoniau, nes i udgorn y *Cyfaill* eu deffroi i'r maes; yna, fel y gwelir yn y gyfrol hon, ymarfogasant yn ôl eu gwahanol gynheddfau – yn ysgrifenywyr rhyddiaith cymhwys – yn feirdd medrus ar fesurau rhyddion a chaethion, yn nghyda chyfansoddwyr tonau derbyniol. Ysgydwyd y napcynau a daeth y talentau cuddedig i'r golwg.³⁸

Yng ngolwg William Rowlands, roedd diwyllio'r genedl gyda maeth celfyddydol yn codi ei statws ymysg cenedloedd eraill, ac yn adfywio'i balchder yn ei doniau cynhenid a oedd wedi eu diwreiddio yn sgil y symudiad o'r hen wlad. Roedd y wasg brint hefyd yn adnodd allweddol i ymfudwyr o genhedloedd eraill arddangos eu doniau:

The newspaper was both an aspect of culture and an instrument of culture. Every alien group bred its own favorite authors. The beginnings were modest. Desiring to set down the experiences of migration, the writers sent their compositions to the editor, who printed them, although they were often little more than incoherent collections of words. This started, the literature evolved from poems to stories, from stories to novels, from novels to histories...³⁹

Mae'r ffaith i'r egin llenyddol dyfu'n draddodiad aeddfed yn achos nifer o genhedloedd yn tystio i bwysigrwydd y byd cyhoeddi fel magwrfa i awduron, a oedd yn ei thro yn sicrhau cynhaliath i'r wasg drwy ehangu'r ddarpariaeth i ddarllenwyr.

Mae ysgrif arall yn ystod blwyddyn gyntaf y *Cyfaill* yn maentumio fod Cymry America yn genedl yn ei hawl ei hun gan eu bod wedi sefydlu'r gwahanol elfennau y tybid eu bod yn angenrheidiol i greu hunaniaeth Gymreig o'r newydd:

Mae ganddynt Feiblau Cymreig, cyhoeddiadau Cymreig, esboniadau Cymreig, Geiriaduron Cymreig, argraffyddion Cymreig, efengyl yn cael ei chyhoeddi yn Gymraeg, cyfarfodydd mawrion Cymreig, a chymdeithasau Cymreig; ac y maent yn fawr eu gwybodaethau am y pethau gorau gaed.⁴⁰

Ym mis Ionawr 1839, cyhoeddir casgliad o benillion ar 'Lesiant a rhagoroldeb cymdeithasau dirwestol' fel 'cydymdrech y beirdd Cymreig yn America,' a ddengys bod cymdeithas o

³⁸ Rhagdraeth - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1838.

³⁹ Hansen, Marcus Lee (1940) *The Immigrant in American History*, Harvard University Press: Cambridge, t.138.

⁴⁰ Ysgrif 'Y Gomeriaid' (Iorwerth, Dyffryn Tawel) – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1838.

feirdd yn dechrau ffurfio yn y wlad fabwysiedig. Trwy gynnig cyfrwng i gyfraniadau beirdd Cymry America, roedd y *Cyfaill* yn rhannol gyfrifol am ddiffinio a chreu traddodiad llenyddol a safai ar ei draed ei hun. Bellach, nid oedd raid dibynnu ar gynhysgaeth yr hen wlad wrth i Gymry America ddechrau magu hyder i lenwi'r gwacter celfyddydol fel endid ar wahân.

Fodd bynnag, mae cywydd gan un o hoelion wyth y gymdeithas farddol Gymreig-Americanaid, Eos Glan Twrch, yn 1838 yn gresynu am ddiffyg cydweithio'r beirdd ar wasgar ar y cyfandir wrth iddo eu hannerch yn uniongyrchol.⁴¹ Negyddol yw ei gywair wrth iddo ddisgrifio cyflwr y traddodiad llenyddol Cymraeg yn America, gan fynegi ei siom nad yw 'plant yr awen' yn y wlad newydd yn ei ddiwallu â 'chân iachus' fel y chwenychai:

Byw'n egwan heb annogaeth,
 Heb gyfeillion i'w lloni,
 Na cân at ei hanian hi.
 Ni cha gêd na noded neb,
 Ni rydd anian rwyddineb;
 Chwithig yr edrych weithon
 I Walia deg y wlad hon.⁴²

Llym yw ei feirniadaeth o swm a sylwedd gwaith beirdd Cymry America, wrth iddo hiraethu am 'swm mwyn, cysson a maws' beirdd yr hen wlad. Fodd bynnag, er iddo ddyheu am gadw safonau Cymru, sonia am 'Walia deg y wlad hon' fel cangen ar wahân i Gymru. Mae tynnu cymhariaeth uniongyrchol rhwng 'awenyddion' y famwlad a fyddai'n uno i greu 'music hoff...brydferth ar bob perth' yn ei 'iachus fro fechan,' a'r diffyg barddonol ar gyfandir America yn awgrymu fod rhyw fath o draddodiad ar wahân mor gynnar â diwedd y tridegau:

Eithr y wlad ddyeithriol hon
 Ni fedd y cyfryw foddion.
 Yma nid oes amnaid dydd
 Gân hudol gan ehedydd.
 Ys anhyfryd swm Efrog,
 Un fronfraith ychwaith na chôg,

⁴¹ Cywydd i anerch y beirdd yn yr Unol Daleithiau (Eos Glan Twrch) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1838.

⁴² Ibid.

Draw'n y llwyn, heb dro'n eu llais,
Ar nos glaiar nis clywais.⁴³

Yng Nghymru, ymhyfrydai'r Eos yn natur gymdeithasol y beirdd yn eu cymunedau, ond erbyn hyn gresyna eu bod yn cyfansoddi mewn unigrwydd ar hyd wyneb y cyfandir, ac wedi colli sioncrwydd eu hawen yn ei sgil. Mae'r cyfeiriad at 'nawdd' a 'chybyddlyd' yn y rhan hon hefyd yn cysylltu ag arferiad yr hen wlad o noddi llenyddiaeth, gan roi ymdeimlad oesol i'r traddodiad hir o feirdd a fagodd y genedl. Er mwyn sicrhau parhad i'r etifeddiaeth hon, teimla'r Eos reidrwydd i ymgymryd â'r 'serchog swydd' o annog y beirdd ac 'ennyn eu dawn anwyl' yn America 'wedi mawr ddystawrwydd.' Mae'n ymgymryd â thaith ddychmygol o amgylch treflannau Cymreig America ac yn cynnig sylwadau ar y beirdd a driga yn y gwahanol ardaloedd. Cynyddu y mae ei feirniadaeth o feirdd Cymry America am beidio ag efelychu dewrion Cymru a glodforai eu gwlad:

Yn awelon hen Walia
Megir beirddion dewrion, da;
O fewn hon haddefu wnant –
Eu gwlad firain glodforant;
Boddlon, ac nid cybyddlyd,
I'w bro nhw geir bron i gyd.
Eithr chwi sydd ymaith ar chwâl,
Lu, hyd wyneb gwlad anial,
Mal adar rhwysgar esgyll
A wylltiwyd draw a bollt dryll,
Wedi ysgar yn disgyn
Gyda braw ar goed y bryn.⁴⁴

Mae'r delweddau o adar a byd natur yn atgyfnerthu ei apêl i'r beirdd drwy eu hatgoffa o dirlun Cymru a'r cysyniad o frogarwch, ac mae darlunio'r beirdd yng nghyd-destun adar yn ffordd gelfydd o bwysu a mesur eu gorchestion barddonol. Yn wir, enwau adar yw'r ffugenwau mwyaf poblogaidd ymhlith beirdd Cymry America, a'r dewis o aderyn yn llwythog o ystyron trosiadol a oedd yn arwyddo'u safle yn yr hierarchiaeth farddol.

⁴³ Ibid.

⁴⁴ Ibid.

Mae'n ymddangos, felly, fod ymwybyddiaeth o draddodiad llenyddol ar wahân yn cyniwair yn anerchiad yr Eos mor gynnar ag 1838, blwyddyn dechreuad y wasg gyfnodol Gymraeg yn America, wrth i'r darllenwyr ddechrau ymgyfarwyddo ag enwau barddol y traddodiad newydd. Er bod yr Eos wedi datgan ei hiraeth am awen y famwlad, mae'n argyhoeddedig fod doniau barddonol i'w canfod yng nghymunedau Cymreig yr Unol Daleithiau, ac felly teimla ddyletswydd i'w chwynnu. Trwy restru enwau'r beirdd a sylwi ar eu nodweddion, gellir dadlau ei fod yn paratoi i ganoneiddio'r traddodiad barddol drwy broffesu annibyniaeth Cymry America.

Ond er bod Cymry America wedi ymddihatu i raddau oddi wrth ddiwylliant llenyddol yr hen wlad, mae ei gyfeiriadau cyson at Gymru yn y gerdd yn awgrymu bod olion safon llenyddiaeth Cymru'n parhau'n drwm ar eu meddylfryd yn y dyddiau cynnar. Yn wahanol i feirniadaeth lenyddol 1859 sy'n trafod beirdd Cymry America fel uned annibynnol, mae'r gymhariaeth gyson rhwng llenyddiaeth Gymraeg America a'r hen wlad yng ngherdd Eos Glan Twrch yn 1838 yn awgrymu nad yw'r diwylliant wedi torri llinynnau'r ffedog eto.

Mae sefydlu'r *Cyfaill* yn 1838 felly'n darparu cyfrwng i seinio'r utgyrn i ddeffro cyneddfau beirdd Cymry America i ymysgwyd i'r posiblwydd o greu eu diwylliant llenyddol eu hunain i'w gwasanaethu fel cenedl newydd. Pwysleisia Daniel Williams bwysigrwydd ystyried llenyddiaeth Cymry America o fewn cyd-destun cymdeithasol y ddwy wlad wrth iddynt ail-ddiffinio eu Cymreictod drwy ymateb i ddylanwadau'r ddwy wlad, '*processes of self-definitions, by negation, by alteration and by contrast.*'⁴⁵ Yr un ffactorau oedd yn effeithio'r ddwy genedl o boptu'r Iwerydd oherwydd eu safle yn y cyd-destun Eingl-Americanaid:

For as Welsh-Americans looked across the Atlantic they saw a slightly distorted and sometimes troubling reflection of their idealized homeland; conversely, the Welsh

⁴⁵ Williams, Daniel (2002) 'The Welsh Atlantic: Mapping the Contexts of Welsh-American Literature, yn (gol) Shell, M, *American Babel*, Harvard University Press, London, t.344.

who turned their gaze toward their relatives in America saw there a reflection of their own problems of constructing a Welsh identity within a dominant English context.⁴⁶

Yn wir, mae'r gri dros ail-greu llenyddiaeth y Cymry yn adlais o faniffesto'r llenor Americanaidd, Ralph Emerson yn 1837 yn ei ddarlith 'The American Scholar.' Mae erfyniad yr Eos yn 1838 i'r beirdd Cymraeg yn America gynhyrchu llenyddiaeth nad yw'n dibynnu ar yr hen wlad yn gydnaws ag ethos Emerson flwyddyn ynghynt o ddwyn perswâd ar ei gyd-lenorion i greu traddodiad llenyddol gwreiddiol, nad oedd yn gaeth i gonfensiynau sefydledig Ewrop a Phrydain. Yn wir, roedd America ei hun yn y cyfnod ymhlyg mewn ymgyrch i greu hunaniaeth newydd i'r genedl aruchel a oedd ar fin esblygu, a fyddai'n deilwng o werthoedd moesol y Datganiad o Annibyniaeth, gorchwyl a fyddai'n cydblethu ag ymgais llw o ymfudwyr i ail-ddiffinio eu cenedligrwydd ar y cyfandir, ac yn adlewyrchu'r ddeuoliaeth a deimlid ar y ddwy ochr.⁴⁷

Ystyrid llenyddiaeth yn un o'r prif gyfryngau i arddangos yr hyder hwn a hydreiddiai'r cyfandir yn eu hannibyniaeth newydd, wrth i genedlaetholdeb llenyddol ddod yn llawforwyn i ddiwylliant, sefyllfa debyg i Gymry America yn eu hymgyrch i atgyfnerthu hygredd eu hunaniaeth arbennig:

The theme of identity is endemic to New World literature. Although it is true that almost any work of American poetry, prose or drama can in some sense be said to exemplify a quest for identity, the real vitality of this theme stems from a fundamental feature of the New World culture: the emphasis on development or change, on becoming viable, culturally, politically or individually.⁴⁸

⁴⁶ Ibid, t.345.

⁴⁷ Jackson, David (1998) Introduction: An American Journey, yn (gol) Jackson, David, *The Immigration Reader: America in a Multidisciplinary Perspective*, Blackwell: Oxford; Rossiter, Clinton (1971) *The American Quest 1790-1860: An Emerging nation in search of identity, unity and modernity*, Harcourt Brace Jovanovich Inc: New York; Pullen, John (1971) *Patriotism in America: A Study of changing devotions 1770-1970*, American Heritage Press: New York; Kohn, Hans (1957) *American Nationalism: an interpretive essay*, Macmillan Company: New York; Hunter, Gordon (1999) *American Literature, American Culture*, Oxford University Press.

⁴⁸ Fitz, Earl (1991) *Rediscovering the New World: Inter-American Literature in a comparative context*, University of Iowa Press, t.168.

Roedd deallusion America yn gwbl argyhoeddedig fod llenyddiaeth o safon yn arwydd o genedl lewyrchus ac yn sylfaen i ddiwylliant deallusol aeddfed,⁴⁹ cri a glywid yn ymdrechion y Cymry i ddatblygu llenyddiaeth Gymreig-Americanaid. Yng ngeiriau Rossiter, nid oeddent bellach eisiau diwylliant wedi ei 'fenthg,' ond yn hytrach yn dymuno 'creu' un newydd,⁵⁰ ac fel William Rowlands - bwriad Emerson oedd addysgu'r genedl i ffurfio ei dychymyg unigryw.⁵¹

Daliwyd yr Unol Daleithiau mewn rhwyd o ddeuoliaeth debyg i genedl y Cymry, wrth iddynt gael eu tynnu ddwy ffordd rhwng clymau'r gyfundrefn lenyddol a oedd wedi ei sefydlu eisoes a'r dyhead am ffresni a newydd-deb:

American literature found itself caught between two contradictory claims: the need for literary independence and republican originality, and the hereditary tie for nourishing contact with the European cultural past. All this fed the contentious literary debates of new America.⁵²

Gelwir y duedd hon o ailddiffinio eu llenyddiaeth Saesneg gan Giles yn '*transnationalism*,' yn y modd yr oeddent yn croesi ffiniau rhwng dau fyd, a'r gymdeithas yr oeddent wedi ei chreu ar sail ddychmgol yn adlewyrchu yn y pen draw ragdybiaethau ideolegol gwreiddiol y genedl.⁵³ Fel y Cymry, ni allent dorri'n gyfan gwbl rydd o ddylanwadau Ewrop er mwyn osgoi '*cultural alienation*,'⁵⁴ ac felly gwelir elfennau rhyngddiwylliannol cryf o hyd mewn rhai gweithiau, gan eu bod o hyd yn rhan o'r '*Atlantic reading culture*' ar seiliau ieithyddol.⁵⁵

⁴⁹ Baym, Nina et al (2007) *The Norton Anthology: American Literature. 7th Edition, volume B, 1820-65*, Norton and Company: New York, t.931.

⁵⁰ Rossiter, Clinton (1971) *The American Quest 1790-1860: An Emerging nation in search of identity, unity and modernity*, Harcourt Brace Jovanovich Inc: New York, t.108.

⁵¹ Tanner, Tony (1965) *The Reign of Wonder: Naivety and Reality in American Literature*, Cambridge University Press, t.26.

⁵² Ruland, Richard & Bradbury, Malcolm (1991) *From Puritanism to Postmodernism: A History of American Literature*, Routledge: London, t.63.

⁵³ Giles, Paul (2006) *Atlantic Republic: The American Tradition in English Literature*, Oxford University Press.

⁵⁴ Maini, Darshan (1976) *Psychoanalysis and Modern American Criticism*, yn (gol) Chander, J & Pradhan, N, *Studies in American Literature: essays in honour of William Mulder*, Oxford University Press.

⁵⁵ Frank, Armin Paul (1999) *An Invitation to Inter-American Literary Studies*, yn (gol) Frank, Armin Paul & Bmann, Helga E (1999) *The Internationality of National Literatures in either America: Transfer and transformation*, Wallstein: Gottingen.

Croesawai Emerson hefyd gyfraniad ymfudwyr o wahanol genhedloedd i genedlaetholdeb America,⁵⁶ fel ei gyfoeswr Walt Whitman, bardd blaenllaw yn y cyfnod a geisiai uno diwylliannau o dan faner un corff o lenyddiaeth:

Here is not merely a nation but a teeming nation of nations...The American poets are to endorse old and new for America in the race of races. Of them a bard is to be commensurate with a people. To him the other continents arrive as contributions...he gives them reception for their sake and his own sake. His spirit responds to his country's spirit.⁵⁷

Roeddent yn ymdrechu i greu '*declaration of community*,' a olygai adlewyrchu ei gwahanol ystyron,⁵⁸ ac yn y dull hwn aethpwyd ati i greu safbwynt a realiti newydd yn llenyddiaeth y genedl.⁵⁹ Roedd beirdd megis Emerson, Whitman a Thoreau, a nofelwyr fel Twain, Hawthorne a Melville ar fin cychwyn ar daith o '*self discovery*,'⁶⁰ ac er bod cymeriad Americanaidd i'w gweledigaeth, roedd elfen ryngwladol hefyd i'w chanfod yn rhai o'u gweithiau.⁶¹

Tra oedd yr Americanwyr yn ymdrechu i adlewyrchu amlddiwylliannedd y cyfandir, roedd y Cymry yn ail-greu diwylliant a oedd yn parhau i gynnwys aelodau o un gymuned ieithyddol yn unig. Yn wahanol i'r Americanwyr a oedd yn creu traddodiad o'r newydd ac yn creu mythau o brofiadau a gobeithion y cyfnod,⁶² roedd y Cymry'n ymwybodol bod ganddynt hanes hir o draddodiad llenyddol i'w ddilyn, ac felly roedd angen ymgorffori'r gwreiddiol a'r newydd yn hytrach nag adeiladu llenyddiaeth ar ddalen wag.

⁵⁶ Jones, Maldwyn Allen (1960) *American Immigration*, University of Chicago Press, t.93.

⁵⁷ Whitman, Walt (1997) *Leaves of Grass: Selected Poems and Prose*, Doubleday: New York, rhagymadrodd. Hefyd gw. Tanner, Tony, *The Reign of Wonder*, t.43; Reynolds, David.S. (1995) From periodical writer to poet: Whitman's journey through popular culture, yn (gol) Price, K & Smith, Susan, *Periodical Literature in Nineteenth Century America*, Virginia University Press: London, t.48.

⁵⁸ Bercovitch, Sacvan (1995) Introduction, yn (gol) Bercovitch, Sacvan, *The Cambridge History of American Literature, vol 2 1820-65*, Cambridge University Press, t.3.

⁵⁹ Tanner, Tony, *The Reign of Wonder*.

⁶⁰ Chander, Jagdish (1976) American novel - a Voyage of Self-discovery, yn (gol) Chander, J & Pradhan, N, *Studies in American Literature: essays in honour of William Mulder*, Oxford University Press.

⁶¹ Srinath, C.N. (1976) Notes from 'Chrysalys': some glimpses of Thoreau's poetry, yn (gol) Chander, J & Pradhan, N, *Studies in American Literature: essays in honour of William Mulder*, Oxford University Press, t.185.

⁶² Sesbachari, Neila (1976) Leslie.A.Fiedeer: Critic as Mythographer, yn (gol) Chander, J & Pradhan, N, *Studies in American Literature: essays in honour of William Mulder*, Oxford University Press.

Yn hyn o beth, nid oeddent eisiau bod yn rhan o ddiwylliant llenyddol America, cam a fyddai'n rhoi eu hannibyniaeth yn y fantol, ond roedd elfennau Americanaidd yn anochel yn cael eu hymgorffori yn eu diffiniad newydd hwy o'u hunaniaeth. Roedd defnyddio cyfieithiadau o lenyddiaeth Saesneg y wlad hefyd yn awgrymu eu bod yn awyddus i ehangu eu gorwelion llenyddol drwy dderbyn dylanwadau'r diwylliant mwyafrifol, er nad oeddent yn cyfrannu iddo ar sail iaith.

Yr hyn sy'n arwyddocaol yw i'r cyd-destun Cymreig ac Americanaidd ddefnyddio'r wasg brint i hybu'r ymgyrch am gelfyddyd a fyddai'n ddrych o'u cenedligrwydd yn ei amrywiol agweddau:

In an age of spirited political debate, magazines and newspapers arose in quantity to declare the need for a national art, a national science, a national architecture, a national literature and national language that would be entirely American – consistent with its newness and its classicism, its radicalism and its traditionalism, its democracy and its high religious principles.⁶³

Defnyddiodd y Cymry eu misolion i apelio am lenyddiaeth unigryw i wasanaethu'r genedl, tra brithid cyhoeddiadau megis y *North American Review* gan ysgrifau yn erfyn am lenyddiaeth wreiddiol. Wynebai'r ddwy garfan yr un her, gan nad ar chwarae bach y gellid ymryddhau o fframweithiau sefydledig yr hen wlad:

From the perspective of British literary nationalists, such emancipation would be slow in coming, if not impossible, given that, as they regularly maintained, American literature would always be overshadowed and subsumed by the long literary tradition of the parent country.⁶⁴

Yn wir, yn rhan olaf cywydd anerchiadol yr Eos, mae'n chwarae â dwy ystyr y gair 'Cyfaill,' ac yn disgrifio'r misolyn ac ef ei hun fel cyfaill i'r beirdd, ond yn anad dim mae'n canmol y *Cyfaill* am ei wasanaeth yn rhoi llwyfan i'r beirdd:

Y Cyfaill, ei enw cofir
Tra Cymry, bydd hyny'n hir-
Cyfaill bardd cuaf lle b'o,

⁶³ Ruland, Richard & Bradbury, Malcolm, *From Puritanism to Postmodernism*, t.61.

⁶⁴ Baym, Nina et al, *The Norton Anthology*, t.932.

E fyn hwn y fan hono.....
 Beunydd, gwael a bonedd gwych,
 I fewn atoch yn fwynwch,
 Wele'n dod fisolyn da.⁶⁵

Caiff y ganmoliaeth hon ei hategu droeon yn ystod golygyddiaeth William Rowlands, fel y datblygai'r *Cyfaill* yn fagwrfa iach i feirdd y genedl arddangos eu doniau:

Treiddio mae trwyddo i'n mysg,
 Gwaith fawr-ddysg goethwch feirddion.⁶⁶

Mae'r Eos yn canmol y golygydd yn uniongyrchol yn rhan olaf ei gywydd am ei ofal 'tadol' yn meithrin 'dawn neu dalent' ar 'fwrdd cyfnewid' y *Cyfaill*, ac am ei grebwyll doeth fel golygydd yn osgoi cyhoeddi 'gohebiaeth sal a chul, isel ei chwaeth:'

Didol o hyd, odlau iach
 Dwys ethol, gwrthod sothach....
 Yr iaith wael a erthyla.....
 Yn dda trwytha bob traethawd,
 Na âd le i un wê dlawd.⁶⁷

Canmola'r golygydd nid yn unig am gynnig gofod i gyhoeddi deunydd barddol, ond hefyd am sicrhau 'awen bur' a safon uchel y cynnyrch, er y gallai'n rhwydd gynnwys pob cyfraniad yn ddi-wahân er mwyn plesio cyfranwyr ar ddechrau menter mor uchelgeisiol yn y byd llenyddol.

Roedd datblygiad y wasg Gymraeg yn y cyfnod yn rhan o chwyldro ehangach y diwydiant print a gerddai drwy'r cyfandir, wrth i'r ffrwydrad yn y byd cyhoeddi o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen roi mynegiant i gynnyrch awduron. Rhoddai'r cyfnodolion yn enwedig wasanaeth pellach na'r cyhoeddwy'r llyfrau, drwy ddarparu fforwm ar gyfer trafod deunydd, a'i leoli yn nghyd-destun yr amrywiol bynciau a oedd yn cael eu hamlygu i sylw'r wlad ar y pryd. Rhoddai'r cyhoeddiadau hyn gyfrwng delfrydol i awduron

⁶⁵ Cywydd i anerch y beirdd yn yr Unol Daleithiau (Eos Glan Twrch) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1838.

⁶⁶ Pennillion yn ymofyn y 'Cyfaill' - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1849.

⁶⁷ Cywydd i anerch y beirdd yn yr Unol Daleithiau (Eos Glan Twrch) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1838.

fireinio eu crefft a chodi ymwybyddiaeth o'u gwaith ymhlith y 'cymunedau dehongliadol,' a ddeuai'n angor i'r traddodiad llenyddol yn y pen draw.⁶⁸

Cyfeiria'r Eos hefyd at amrediad eang y *Cyfaill* o ran ei fod yn apelio at bobl o amrywiol gefndiroedd wrth iddo dreiddio drwy amrywiol gymunedau'r Cymry, yn ogystal â'i gymwynas â'r iaith yn ei ddarpariaeth addysgol a llenyddol:

Hoff red y Cyfaill mwyn ffraeth
Yn hylaw drwy'r Unoliaeth,
Diamgen, da ei ymgais,
Heb air sen, heibio i'r Sais.
Dwyn addysg adnewyddawl
Er gwledd, fe raglydda fawl,
Wna bob mis, gwyddis, a'i gol
Yn llawn addurn llëenyddol.
Beirdd cu awenyddu wnant,
Ei ddalenau'n dda lanwant
O ddidor gyraeddiadau
Meddylgar, wyr clodgar clau.⁶⁹

Er bod yr Eos yn collfarnu gwendidau beirdd Cymreig America o'u cymharu â chewri Cymru yn nechrau ei gywydd, clodforir y *Cyfaill* fel cyfrwng allweddol i drosglwyddo llenyddiaeth i aelodau'r genedl.

Esgorodd y r alwad yn ystod yr 1830au yn y wasg brint am ddeffroad mewn rhyddiaith a barddoniaeth a oedd yn torri tir newydd yn ystod yr ugain mlynedd dilynol – i'r Cymry a'r Americanwyr fel ei gilydd. Mae'n bosibl iawn, felly, fod yr Eos yn rhoi mynegiant Cymreig i genadwri a oedd ar gerdded ymhlith deallusion y diwylliant Americanaidd Saesneg ei iaith yn yr un cyfnod, a'r *Cyfaill* a sefydlwyd yn 1838 yn gyfrwng delfrydol i'w ledaenu dros barthau eang. Creda Jerry Hunter yn gryf nad cyd-ddigwyddiad yw'r datblygiadau

⁶⁸ Baym, Nina et al, *The Norton Anthology*, t.937.

⁶⁹ Cywydd i anerch y beirdd yn yr Unol Daleithiau (Eos Glan Twrch) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*. Gorffennaf 1838.

cyfamserol yn llenyddiaeth iaith Saesneg a Chymraeg y wlad yn ysbaid yr ugain mlynedd tyngedfennol.⁷⁰

(iv) ‘Ymborth iach.’

Nid creu traddodiad l llenyddol newydd yng ngogledd America oedd nod y Cymry, ond creu traddodiad newydd o safon. Barnai Eos Glan Twrch ei bod yn well peidio â chyfansoddi yn hytrach na chynganeddu’n ddiffygiol:

A ninau, sydd yn weiniaid,
Cofiwn, yn ol rheol, rhaid
Naddu ein cynganeddion
At y sill, neu tewi son.⁷¹

Yn yr un modd, roedd llenorion fel Melville yn galw am ‘*national greatness*’ yn y celfyddydau drwy gydol yr 1840au,⁷² sy’n dangos bod dyhead y Cymry yn gydnaws â’r ymgyrch ehangach yn y Saesneg.

Adleisir y pryder ynghylch diffygion y beirdd o ran cadw at reolau’r mesurau caethion gan Gwilym Fardd yn ei ysgrif ‘Cwyn y Beirdd,’ wrth iddo deimlo rheidrwydd i leisio cŵyn nifer fod ‘anrhydedd y Cyfaill’ a’i ohebwy yn y fantol:

Dywenydd yw genyf fod y Cyfaill yn dyfod i ymweled a mi bob mis, a da genyf weled fod cymmaint o Ohebwy mor ymdrechgar i anfon lluniaeth iddo, gogyfer a’i gynnal yn gysurus; ac yn neillduol y dysgleidiau barddonawl melys-ber er ei loni a’i adfywio; ond nid yw pob peth sydd yn cael ei anfon yn fagwriaethol; y mae arno eisiau ymborth iach. Y mae rhai pethau wedi cael eu hanfon iddo, pa rai a wnaethant fwy o niweid nag o les, yn enwedig ambell ddysglaid dan yr enw *barddoniaeth*, a roddwyd iddo o bryd i bryd, a barodd iddo wyneb-lwydo, ac edrych yn gul.⁷³

⁷⁰ Hunter, Jerry, ‘Y Traddodiad Llenyddol Coll’, t.35-6. Mae’n argyhoeddedig fod ‘awydd yr Americanwyr Cymraeg i fynegi eu hunaniaeth lenyddol newydd yn rhannol ddyledus i’r hinsawdd deallusol a nodwedddai ddiwylliant Saesneg y wlad ar y pryd.’

⁷¹ Cywydd i anerch y beirdd yn yr Unol Daleithiau (Eos Glan Twrch) - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Gorffennaf 1838.

⁷² Bercovitch, Sacvan, *The Rites of Assent*, t.179.

⁷³ Cwyn y Beirdd (Gwilym Fardd) - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Ionawr 1839.

Awgrymir effaith dyngedfennol yr adran farddonol ar ddiwyg cyffredinol y *Cyfaill* gan Gwilym Fardd, wrth i safon cynnyrch yr awen beri iddo ‘fywiogi’ neu ‘wyneb-lwydo,’ a’r deunydd felly’n sylfaen hanfodol i’r cyhoeddiad wrth iddo bennu ei safon. Mae’r ddelwedd o ymborth a lluniaeth hefyd yn cyfleu’r cysyniad o gyfnewid maeth, wrth i’r *Cyfaill* gynnig magwrfa i’r doniau barddonol besgi, tra bydd y ‘dysgleidiau’ barddonol maes o law yn effeithio ar iechyd y cyhoeddiad. Erfynia ar y *Cyfaill* i gyhoeddi rheolau cerdd dafod er mwyn goleuo’r beirdd, a dengys hyn fod gan y misolyn swyddogaeth bendant fel hyfforddwr i’r awen, nid gofod argraffu yn unig. Mae Gwilym Fardd yn datgan nad ei fwriad yw ‘dolurio meddwl na theimladau yr un o blant yr Awen; ond yn hytrach rhoddi pob annogaeth iddynt i goleddu a meithrin yr Awen.’ Ei amcan yw ymestyn traddodiad llenyddol Cymry America heb golli gafael ar y safon a’r cywirdeb a feithrinwyd yn yr hen wlad. Roedd sylfaenwyr traddodiad llenyddol Cymry America yn effro iawn i’r angen i feithrin beirniadaeth a safon o’r dechrau wrth iddynt greu o’r newydd mewn awyrgylch ansicr.

Gweithreda’r *Cyfaill* nid yn unig fel hyfforddwr ac ysgogiad i gynhyrchu barddoniaeth, ond hefyd fel fforwm agored i feirdd Cymry America leisio eu cwynion a’u pryderon. Yn wir, roedd William Rowlands yn rhinwedd ei swydd fel golygydd yn athro llenyddol yn y modd yr oedd yn hyfforddi ac yn cynghori gohebwydr drwy gywiro ysgrifau a rhoi gair o anogaeth ar y clawr i’w calonogi, ac hefyd yn anfon llythyrau o gyfarwyddyd atynt. Mae’r modd yr oedd yn annog yr ifanc a’r dibrofiad yn enwedig yn brawf o’i ymrwymiad i warantu parhad y traddodiad llenyddol, a honna ei gofiant mai ‘ei blant ef yn yr ystyr hwn ydyw amrai o lenorion galluog ein gwlad,’⁷⁴ sy’n adlewyrchu ei swyddogaeth fel un o hoelion wyth y traddodiad llenyddol yn sgil ei gysylltiad â’r diwylliant print.

Yn unol â’i bolisi gwrthrychol mewn peuoedd eraill megis crefydd a gwleidyddiaeth, coleddir yr un egwyddor ym maes llenyddiaeth wrth i’r cyhoeddiad roi’r cyfle i’r beirdd

⁷⁴ Powell, Parchedig Howell (1873) *Cofiant y diweddar Barchedig William Rowlands, D.D., Utica Efrog Newydd*, Mrs Catherine Rowlands: Utica, NY, t.395.

ymateb i'w gilydd yn rhydd. Yn yr un modd, roedd adolygiadau ar lyfrau ac ar gyhoeddiadau eraill y wasg gyfnodol yng Nghymru ac America mewn un misolyn yn magu sylwebaeth a fyddai'n greiddiol i ymestyn safonau beirniadol y byd cyhoeddi ac yn atgyfnerthu'r berthynas rhyngddynt. Yn wir, ceid adolygiadau o ffrwyth llenyddol Cymry America yng nghyfnodolion yr hen wlad,⁷⁵ sy'n dangos fod y llenorion hyn yn cyfrannu i lenyddiaeth y genedl y ddwy ochr i'r Iwerydd.

Llwyfennir dadleuon rhwng aelodau o frawdoliaeth farddol Cymry America yn gynnar yng ngyrfa'r *Cyfaill*, ac roedd hyn yn rhagflaenu'r diwylliant eisteddfodol cecrus a fyddai'n dilyn yn ystod yr 1850au,⁷⁶ sy'n dangos ei fod yn rhan o'r ymgyrch gynnar i greu traddodiad llenyddol newydd i Gymry America. Yn wir, honna Jerry Hunter fod ymrafael dros bynciau barddol ar faes y wasg yn hawlio sylw cymuned arbennig o ddarllenwyr, beirdd a beirniaid llenyddol, sydd wedi ei chreu gan y berthynas rhwng y testun a'r gynulleidfa. Trwy gyfarch y gymuned lenyddol Gymreig hon, mae'r wasg yn gyfrifol am ddiffinio carfan neilltuol o fewn y 'gymuned ddehongliadol' ehangach ar wahanol adegau sy'n rhannu nodweddion cyffredin.⁷⁷ O'r herwydd, gallant ddehongli ystyron sy'n berthnasol i'r genedl ar ran y derbynwyr, gan gynrychioli gwahanol agweddau eu traddodiad llenyddol wrth iddynt ddatblygu fframwaith o ddisgwyliadau am eu 'delfrydau, chwaeth a swyddogaeth llenyddiaeth.' Mae'r consensws unigryw hwn sydd wedi ei fowldio i arwain diwylliant y gymuned benodol hon felly'n adlewyrchu amrywiol begynnau eu hunaniaeth:

Ceir ystyriaethau Cymreig a Chymraeg yn ogystal ag ystyriaethau Americanaidd. Fe'i nodweddir hefyd gan awydd hunan-ymwybodol i ieuo'r gwahanol ffactorau ynghyd a chreu rhywbeth newydd. Mae disgwyliadau penodol yn diffinio'r gymuned ddehongli hon hefyd; er enghraifft, gellid dweud ei bod hi'n mesur gwerth testun llenyddol yn ôl ei berthynas â'r cenedlaetholdeb Cymreig-Americanaidd a'i coledai.⁷⁸

⁷⁵ Griffiths, T.Solomon (1896) *Hanes Methodistiaid Calffinaidd Utica, New York*, T.J.Griffiths: Utica, t.33-4.

⁷⁶ Hunter, Jerry (2007) *Sons of Arthur, Children of Lincoln: Welsh Writing from the American Civil War*, University of Wales Press: Cardiff, t.32.

⁷⁷ Hunter, Jerry, 'Y Traddodiad Llenyddol Coll', t.20.

⁷⁸ Ibid, t.21.

Cwyna bardd a'i geilw ei hun yn 'Mwyalchen Glan Wnion' fod yr Eos, 'weinidog mwynion adar' a bardd blaenllaw ymhlith Cymry America, wedi ei anwybyddu wrth annerch y beirdd yn ei gywydd. Adlewyrchir dylanwad yr Eos o fewn y traddodiad wrth i'r 'Fwyalchen' awgrymu bod y beirdd yn gwrando'n astud arno:

Gan mor bêr dy leferydd
Deni weilch i dwyn o wÿdd,
Eryrod, paenod, mewn perth,
Gwlad isel, gwaelod dyserth,
A wrendy dy wiwgu wawd,
Yn ddfion wrth hen ddefawd;
Ni chei gas gan fran gras gri –
Llu boddus bawb lle byddi.....
Ehedaist mewn mawrhydi
Awenyddol, freiniol fri.⁷⁹

Teimla'r 'Fwyalchen' i'r byw nad yw'r Eos wedi ei grybwyll yn ei anerchiad, wedi iddo chwilio America'n ddyfal i 'ganu mawl cu' a diddanu'r beirdd:

Minau wyf edn aflednais,
Gownddu liw a gwanaidd lais,
Mwyalchen big-felen fach,
Sylwyd na fu fy salach
Am ganu yn mysg llu llon,
Ar lwyf neu orael afon.
Pan glywais adlais dy odl,
Yr Eos fin-nos fwynodl,
Chwiliais, ac edrychais dro,
Am anerch i mi yno;
Ond er dyfal ymchwalu,
Osgo llawn yn mysg y llu,
Ni welais, ni chefais chwaith
I mi anerch am unwaith.⁸⁰

Yn ei hunandosturi, gwelwn ei fod wedi ei dramgwyddo wrth gael ei alltudio o'r traddodiad barddol, a theimla unigrwydd wrth sefyll y tu allan i gylch dethol beirdd o bwys yn nhyb yr Eos. Gwelid yr un duedd yn llenyddiaeth Saesneg y wlad, wrth i olygyddion cyhoeddiadau megis *Atlantic Monthly* geisio poblogeiddio barddoniaeth a'i wneud yn hygyrch i'r bobl

⁷⁹ Cywydd yr Ham: Mwyalchen Glan Wnion at Eos Glan Twrch - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1839.

⁸⁰ Ibid.

gyffredin, tra oedd hoelion wyth y traddodiad llenyddol newydd yn darlithio i gylchoedd deallusol ym mhrifysgol Harvard.⁸¹

Mae parhad y delweddu adar hefyd yn dadlennu llawer am awyrgylch y traddodiad ac yn rhoi disgrifiad rhethregol o statws y beirdd, wrth i'r 'fwyalchen' deimlo'n israddol yn ymyl yr adar mwy pwerus. Nid yw'n hyderus yn llwyddiant ei awen, ond gofynna i'r Eos am fwynder a sylwadau ar ei feiau fel un o'r 'adar difai.' Yn rhan olaf y cywydd, ehangir y drafodaeth rhwng y ddau ar lefel bersonol i gwmpasu Cymru ac America. Datgana'r 'Fwyalchen' 'er cystal yw gwlad Madog,' ei fod yn ffafrio amgylchiadau'r hen wlad a bro Meirionnydd i fireinio ei awen:

A gwlad Feirion dirion deg,
I hawddgar adar gwiwdeg.
Yno, mewn mwyniant anwyl,
Y mae adar gwar a gwyl,
Yn canu o fwyngu fodd,
Yn ddigwyn, anfwyn, unfodd-
Caffwyf finau gangau gwydd
'Ar fryniau sir Feirionnydd.'⁸²

Yn aml mynegir hiraeth y Cymro am yr hen wlad yng ngherddi amrywiol feirdd, ond clywir cri hiraethus am y gymdeithas farddol a adawyd ar ôl yn y wlad enedigol mewn ardal benodol, sy'n dangos bod elfen o frogarwch o hyd yn eu gwladgarwch:

Os oes un gainc a adleisir yn ddi-ffael yn yr holl gyfieriadau at ymfudo, hiraeth anniffoddadwy'r Cymro am ei fro yw honno.⁸³

Roedd Rhamantiaeth yn gonfensiwn a ymledai drwy Ewrop yn y cyfnod, ac yn hynod addas i fynegi'r cenedlaetholdeb llenyddol newydd, yn enwedig yn nisgwrs cymunedau diasporaidd ledled y byd a oedd yn ceisio apelio'n emosiynol i sefydlu hunaniaeth newydd fel modd i

⁸¹ Rydw i'n ddiolchgar am sgwrs gyda'r Athro Elisa New i drafod swyddogaeth lenyddol y cyfnodolion Saesneg yn America.

⁸² Cywydd yr Ham: Mwyalchen Glan Wnion at Eos Glan Twrch - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1839.

⁸³ Williams, Glanmor (1989) *Grym Tafodau Tân: Ysgrifau Hanesyddol ar Grefydd a Diwylliant*, Gomer: Llandysul, t.225.

wrthryfela'n erbyn diwylliant y mwyafrif.⁸⁴ Gwelwyd toreth o gerddi hiraethus am Gymru yng nghyfnodolion Cymraeg America a oedd yn ymdebygu'n fawr i ganu sentimental y bardd Ceiriog yng Nghymru, a oedd hefyd yn alltud ar ôl symud i Loegr. Byddai 'cynnig delwedd bur a glân o Gymru wledig' yn apelio at gymunedau alltud,⁸⁵ a oedd hefyd yn hel atgofion am diriogaeth yr hen wlad.

Roedd ymlyniad y Fwyalchen gryfed ati nes na cheir yr un ymdeimlad o berthyn i gymuned lenyddol yn America ganddo:

A gadael yn ddigas y glân foneddigion,
 Sef hoffwyr cân lanwaith a barddwaith y beirddion,
 A glewddoeth goleddwyr y clerwyr mwyneiddlon,
 A gânt yn gynnil, yn gynnil ddigwynion:
 A gadael yn lanwaith glerwriaeth glaer eirian –
 Ni chawn yn Amerig un diddig wr dyddan,
 A saif i ni yn noddwr diffynwr hoff anian,
 Ond pawb er lles unig ei ewyllys ei hunan.⁸⁶

Teimla'r Fwyalchen unigrwydd ar dir America heb nawdd i'w gefnogi, sy'n brawf o swyddogaeth werthfawr y cymdeithasau a'r wasg Gymraeg yn darparu llwyfan i'r llenorion, ar lafar ac mewn print. Er bod y cysylltiadau'n parhau rhwng y ddwy wlad, yn America mae rheidrwydd ar y beirdd i ganfod ffyrdd newydd i rwydweithio a meithrin eu hawen. Yn sgil yr hiraeth a deimlai rhai beirdd, defnyddir yr hen wlad fel ffynhonnell cysur o'i chymharu ag America, sy'n awgrymu bod eu llenyddiaeth wedi ei gwreiddio i raddau yn nhiriogaeth Cymru.

Fodd bynnag, mae'r cywydd hefyd yn dadlennu bod traddodiad barddol yn esblygu'n barod yn America, a'i fod wedi creu haenau er gwaethaf ei newydd-deb, wrth i feirdd fel y 'Fwyalchen' deimlo'n alltud o'r cylch barddol a hiraethu am gyfansoddi yn amgylchiadau cyfarwydd Cymru. Fodd bynnag, ceisia'r Eos brofi i'r gwrthwyneb drwy syrthio ar ei fai yn

⁸⁴ Rivlah, Julie & Ryan, Michael (1998) Introduction: English Without Shadows, Literature on a World Scale, yn (gol) Rivlah, Julie & Ryan, Michael, *Literary Theory: An Anthology*, Revised ed. Blackwell: Oxford, t.852-3.

⁸⁵ Edwards, Hywel Teifi (1987) *Ceiriog*, Gwasg Pantycelyn: Caernarfon, t.22. Hefyd gw. Johnston, Dafydd (1994) *A Pocket Guide: The Literature of Wales*, University of Wales Press: Cardiff, t.74.

⁸⁶ Can i anerch 'Lloerawl Gymdeithas swydd Oneida' (Y Fwyalchen) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1841.

ostyngedig, ac ateb cywydd y ‘ddifalch fwyalchen.’ Mae’n ymddiheuro na chafodd y ‘fwyalchen’ ei hannerch efo ‘Dewraf frawd, adar ei fro,’ ond nad oedd yn gwybod amdano fel bardd pan gychwynnodd ar ei daith. Cynghora’r Eos y ‘fwyalchen’ i ganu ac arfer ei dalent, gan ei sicrhau na fydd yn ei esgeuluso fel athro barddol:

Gan eilio i’w Gynnalydd
 Yn was da bob nos a dydd,
 Am fad ddarpariad puriach
 Awdwr byd i adar bach.
 Ni âd y Tad adar tô,
 Eu helaeth fwrdd mae’n hilio –
 I gywion cigfran rhan rhydd;
 Gwybiant ato, - a gwybydd:
 Ei dynher nawdd trefnawdd tros
 Fwyalch a thlotaf.⁸⁷

Yr unig fardd ar wahân i’r Fwyalchen i ymateb i gwynion yr Eos ar faes y *Cyfaill* yw Gwilym Fardd, yn sgil ei gyfeiriad ato yn ei anerchiad:

At Wilym Fardd, er’s talm fu
 A’i esgud ddawn yn cysgu;
 Nid pryd hepian weithian yw,
 Ond cain adeg cân ydyw.⁸⁸

Nid collfarnu’r Eos am ei feirniadu y mae Gwilym Fardd, ond yn hytrach edmygu’r ‘Eos a’i ddewr awen’ yn ‘annog yr egwan....I geisio cyweirio cân,’ sy’n arwydd o gyflwr iach y traddodiad llenyddol ffres o feithrin beirniadaeth. Dengys ei werthfawrogiad y gall sylwadau o’r fath gael effaith gadarnhaol yn yr ymgyrch i greu traddodiad safonol newydd sy’n deilwng o’r genedl a’i hanes hir o gyfoeth llenyddol.

⁸⁷ Cywydd Eos Glan Twrch at Fwyalchen Glan Wnion - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Medi 1839.

⁸⁸ Cywydd i anerch y beirdd yn yr Unol Daleithiau (Eos Glan Twrch) - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Gorffennaf 1838.

(v) Beirniadu'r beirniad.

Mae'n eironig fod Eos Glan Twrch wedi beirniadu safon ddiffygiol y traddodiad llenyddol yn 1838, oblegid gwelir pos o'i eiddo ac iddo'r teitl 'Dychymyg' yn esgor ar ddad; ynghylch cywirdeb yn 1840.⁸⁹ Nid poeni am ddyfodol yr iaith Gymraeg yn unig a wna'r Cymry pybyr yn America, ond roedd y sefydliadau diwylliannol yn ymrwymedig hefyd i sicrhau ei phurdeb honedig fel dilysnod i'r diwylliant llenyddol. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid cadw unrhyw lun ar yr iaith oedd yn bwysig i nifer o awduron a golygyddion. Roedd ei 'chywirdeb' a'i gramadeg cyn bwysiced yn eu golwg â'i throsglwyddiad i genedlaethau'r dyfodol. I'r diben hwn, neilltuodd golygydd y *Cyfaill* adran 'Congl yr Athraw' er mwyn darparu addysg mewn gramadeg, llythreniaeth a sillafu yn fuan wedi sefydlu'r cyhoeddiad:

Oherwydd anafateision y Cymry yn y wlad hon, gyda golwg ar gynnyddu mewn llëenyddiaeth Gymreig, barnasom mai nid anfuiddiol, nag annerbyniol, fuasai neillduo congl fechan o'r Cyfaill, yn fisol, i'r Athraw.⁹⁰

I'r 'gymuned ddehongliadol' a oedd yn ymwneud â'r wasg brint, roedd cyflwr yr iaith a ffyniant llenyddiaeth yn mynd law yn llaw, a chamodd y *Cyfaill* i'r adwy fel hyfforddwr.

Ofnai B.W. Jones fod y bardd poblogaidd ymysg Cymry America wedi 'colli Gramadaeg ei iaith' yn sgil camgymeriad ynghylch sill. Yn ei amddiffyniad, nid yw'r Eos yn ddig wrth B. W. Jones am ei adolygiad. Fe'i disgrifir ganddo fel 'ysgrifenydd canmoladwy' a oedd yn ymgyraedd at ddibenion da 'nid amgen nag addysgu ei gydgenedl mewn gramadeg.' Lles y gyd-genedl sy'n bwysig i'r bardd ac felly mae'n barod i unrhyw un ei oleuo, 'canys yr wyf bob amser yn barod i sefyll neu syrthio yn wyneb profion,' ond ni theimla fod ganddo ddadl ddilys.⁹¹

⁸⁹ *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1840. 'Dychymyg' yw pos i'w ddatrys wedi ei ysgrifennu ar ffurf cerdd gan y bardd adnabyddus Eos Glan Twrch.

⁹⁰ Congl yr Athraw, geiriau'r golygydd - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1838.

⁹¹ Adolygu Adolygiad B.W.Jones (Eos Glan Twrch) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1840.

Arweinia'r ymryson at ohebydd arall yn dyfod i'r maes o dan yr arwyddair 'Chwareu teg a churo twyll,' ac mae'n teimlo rheidrwydd i gynghori yr Eos i 'ddylyn' ei alwedigaeth ac oedi yr ysgrifell' er mwyn ei 'gymmeriad ieithadurawl.' Rhyfedda'r awdur 'Chwareu Teg,' sef William Rowlands, nad oedd 'ieithydd medrus' wedi gwneud sylwadau, a'i orfodi yntau yn 'anewyllysgar i'ymaflyd yn y gorchwyl' o ymuno â'r ddadl ieithyddol. Cymer ergyd yn erbyn yr Eos ac o blaid darllenwyr y *Cyfaill*:

...oblegid diamheu, yn fy meddwl i, oedd, fod Eos, &c., yn ei awyddfryd diffynawl, wedi collfarnu brawddeg ddillynaidd o'n hiaith wiwber, heblaw beiau eraill; ac hyderwyf y gwyddai llawer o ddarllenwyr y 'Cyfaill' hyny yn dda...⁹²

Yn y dadleuon llenyddol hyd yn oed, mae ennyn cefnogaeth ei gynulleidfa i atgyfnerthu ei safbwynt unigol. Beia B. W. Jones ac Eos Glan Twrch am gollfarnu ei gilydd gyda geiriau megis 'ynfyd' a 'ffol,' er na fedr yr un o'r ddau eu hamddiffyn eu hunain yn ddigonol, sy'n adlais unwaith eto o bolisi niwtral golygydd y cyhoeddiad:

Nid da ceisio iselhau gohebydd gwrthwynebol oblegid methu amddiffyn ei hun. Gobeithiwyf y gwelir llai o hyn ar faes ein cyhoeddiad misol.⁹³

Manyla ar briodoleddau'r fannod mewn ymgais i gywiro'r ddau adolygydd, cyn rhoi ergyd derfynol i'r Eos yn ei ddiwedd glo:

Gadawaf ar hyn yn awr, gan roddi cynghor cyffelyb i Mr.Eos i'r hyn a roddodd efe wrth derfynu i Mr.B.W.J., sef, Peidiwch, syr, a myned i feirniadu nes y caffoch gymhwysderau beirniadydd, ac y bydd genych rywbeth i'w feirniadu; a byddwch fedrus iawn mewn *silliadaeth* a rhanau ymadrodd yr iaith Gymreig cyn beirnadu ei chystrawiaeth, ac yna ni fydd neb mwy dyiolchgar i chwi am amddiffyn purdeb hoff iaith fy mam na 'Chwareu Teg.'⁹⁴

Mae cywair ymfflamychol William Rowlands wrth annerch y bardd adnabyddus ymysg ei gyd-genedl, a chyfrannwr cyson i'r cylchgrawn, yn dyst i ddyfnder ei ymrwymiad i sicrhau yr hyn a ystyriai yn safon yr iaith Gymraeg.

⁹² Beirniadu Beirniadaeth Eos Glan Twrch, pan yn 'Adolygu Adolygiad B.W.Jones' (Chwareu Teg) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, - Awst 1840.

⁹³ Ibid.

⁹⁴ Ibid.

Tanbeitiach fyth yw arddull yr Eos yn ei ymateb wrth geisio gwrthsefyll y cyhuddiadau yn erbyn safon ei ramadeg, o gymharu â'i ysgrif flaenorol. Gwna'r bardd sylw coeglyd ar y defnydd o ffugenw gan yr ysgrifwr, er mai dyna'r arferiad yn y traddodiad llenyddol er mwyn cael beirniadaeth deg, a mynega ei siom nad oedd 'mynydd o sylwedd' yn yr ysgrif fel yr addawyd yn y rhagymadrodd, ond yn hytrach 'chwyddiaith grwydrol.' Mae cynnwys yr ysgrif a'i hawdur o dan lach yr Eos:

Gan mai i'r orsedd yr ymddyrfachodd, ac mai beirniadaeth yw yr enw â pha un yr anrhydeddodd ei ysgrif, galleid ei ddisgwyl yn ddigon awdurdodol i derfynu pob dadl ar unwaith; ond 'Nid wrth ei phig mae prynu cyffyllog'buan y canfyddais nad oedd amgen na thwmpath o bridd y wadd; a meddyliais ar yr olwg gyntaf am gamu drosto fel peth anhaeddiannol o sylw, ond rhag y digwydd iddo fod yn fagl i'r anneallus, adolwynwyf eich caniatad idd ei chwalu oddiar ffordd y cyfryw.⁹⁵

Mae'r Eos hefyd yn ceryddu Iorwerth Glan Aled am feirniadu ei ramadeg ar ddalennau'r *Cyfaill*, ac yn ei gynghori i fod yn 'fedrus iawn mewn silliadaeth, a rhanau ymadrodd yr iaith Gymreig cyn beirniadu ei chystrawiaeth.' Ysywaeth, mae wedi ennyn dicter yr Eos wedi iddo ddefnyddio enghraifft anghywir mewn 'silliadaeth i brofi cywirdeb cysrawen':

Ow! ein beirniaid!.....Ar ol hyn, ni a'i cawn ef yn llechu yn nghysgod amlen y Gwladgarwr; ond gan nad yw y Cyhoeddiad hwnw ychwaith yn sefyll ar dir perffeithrwydd, gwell peidio codi'i wendidau yn rheolau idd eu hefelychu.⁹⁶

Mae ei saethau tuag at y beirniad yn ymestyn i faes cyhoeddiad o Gymru, a ddengys fod gorgyffwrdd cyson rhwng y wasg yn y ddwy wlad, a hynny'n arwain at ymryson ar brydiau. Dychwela'r awdur i saethu'r ergyd derfynol at yr awdur 'Chwareu Teg' am beidio â phrofi ei olygon gramadegol:

Hefyd chwenychwyf ddychwelyd fy nghydnabodaeth am eich cynghorion, oblegid credwyf fod eich haelioni cymydogol wedi gorwedd yn nes atoch y tro hwn nag eich angen cartrefol; ond gan eich bod yn tystiaw mai y Gymraeg yw iaith eich mam, hyderwyf fod ynddoch ddigon o weddillion teimladol tuag at yr hen wreigan, ag eich

⁹⁵ Ibid.

⁹⁶ Syll-ddrych i'r beirniad (Eos Glan Twrch) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Hydref 1840.

tueddu i ddysgu ei hiaith ychydig gywirach, a chan ewyllysio i chwi bob rhwyddineb i hyny.⁹⁷

Byddai'r ergyd hon yn ddraenen yn ystlys golygydd y *Cyfaill* a ymhyfrydai yn safon yr iaith, ond yn fwy na hynny byddai personoli'r iaith fel 'iaith eich mam' ac 'hen wreigan' yn atgyfnerthu ei feirniadaeth drwy apelio at y Cymry ar lefel emosiynol.

Cyfansodda 'Chwareu Teg' ysgrif ymosodol faith i roi pin yn swigen yr Eos:

Olygydd hynaws, - ni feddyliais dri mis yn ol, pan yn diffyn brawddeg ddiledryw a dilediaith o'n hiaith fygedawg rhag dedfryd anghyfiawn Mr.E.G.Twrch, a chynnal B.W.J. rhag ei lyngcu gan amod tristwch dan ymosodiadau lledgoddawl yr un gohebydd, y cawsw'n fy ngalw mor fuan i amddiffyn fy hun a'm hysgrif; ond canfyddi mai felly y mae. Mewn gradd o betrusder yr wyf yn ymwneyd â'r gorchwyl, nid am nad ydyw yn dra hawdd, ond oblegid taw goreu po bellaf y cedwir oddiwrth ohebydd yn medru y fath iaith, ac yn ddarostyngedig i'r fath nwydau ag ydynt yn weledig trwy ysgrif Eos GT.⁹⁸

Teimla William Rowlands reidrwydd i amddiffyn ei safbwynt, ac yn unol â'i bolisi golygyddol o sicrhau 'chwareu teg' i wahanol onglau'r ddadl, mae hefyd yn amddiffynol o'i ohebwy'r sydd yn derbyn cam. Ni all oddef gweld yr Eos yn 'iselhau' Iorwerth Glan Aled, gan mai 'dynoethi ei hun' y mae, a daw'n amlwg ei fod yn arddel arwyddocâd ei enw i'r carn:

Ymattaliaf rhag gwneuthur unrhyw sylw ar y dull yma o ddadleu nes y caffo E.G.T. gyfle i ateb drosto ei hun, oblegid 'Chwareu Teg' yw fy enw.⁹⁹

Yn wir, cymaint yw ei ymlyniad wrth yr enw nes iddo deimlo'n sur bod yr Eos wedi ei alw'n 'feirniad' yn hytrach na chyfeirio at ei enw dewisol:

Nid oes genym eto ond casglu pwy a ewyllysia ei ddynodi wrth yr enwad 'Beirniad,' eithr cymerwyf yn ganiataol taw cymeryd ei ryddid a wnaeth i osod enw ar 'Chwareu Teg,' na osododd hwnw na'i rieni erioed arno o'r blaen.¹⁰⁰

⁹⁷ Ibid.

⁹⁸ Trem ar syll-ddrych Eos Glan Twrch (Chwareu Teg) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Rhagfyr 1840.

⁹⁹ Ibid.

¹⁰⁰ Ibid.

Mae'r ieithwedd awdurdodol a ddefnyddia yn gyson yn yr ysgrifau amddiffynnol hyn yn awgrymu ei fod yn ystyried y wasg fel llys barn ar adegau, a'i fod yn cynnal fforwm agored ar gyfer gwahanol safbwyntiau ar batrwm achos llys. Yn yr achos hwn, teimla golygydd y cyhoeddiad reidrwydd dyfnach i weithredu fel gwarchodwr cywirdeb yr iaith:

Heblaw hynna, sicr yw na thwyllir neb o'ch darllenyddion i ledgoelio fod Mr E.G. Twrch ar dir goleu, pe buasai ei haeriadau yn brofedig, - mae ysbryd ei ysgrif yn rhy wylltaws a chynhyrfiedig; ac os meddyliodd ef ei hun y buasai y cyfryw yn llwyddiannus, y mae y golygiad hwnw yn sarhad ar wybodaeth, synhwyr cyffredin a moesgarwch y Cymry. Ond er ei hyfforddiant ef ei hun geill y byddai ychydig o nodiadau ar ei ysgrif yn fuddiol.¹⁰¹

Mae'n amlwg nad y camgymeriadau eu hunain sydd wedi ei gythruddo, ond arddull yr Eos yn ogystal. Dengys ei gyfeiriad at y 'darllenyddion' ei fod yn eu defnyddio fel rheithgor yn yr achos, gan arddangos ffydd yn eu gallu i wneud penderfyniad a ffurfio barn. Pledia ei achos yn effeithiol hefyd drwy gyfeirio at y genedl yn ei chyfanrwydd, a htrwy awgrymu y byddai ochri â'r gelyn yn niweidiol i fuchedd y Cymry. Yn ei ysgrif hirfaith, y mae'n pentyrru dadansoddiadau gramadegol ac yn ymdrechu i'w cefnogi gyda chymorth 'Prif-Eiriaduron':

Nid ydyw iaith fel hyn yn gofyn un diffyniad oddiwrthyf fi, oblegid iselu ei hun y mae awdwr y cyfryw ymadroddion, ac nid ei wrthwynebydd....Gwelir yn y Syll-ddrych amryw nodiadau a ymddangosynt i mi yn *anghywir*. Yr wyf yn rhoddi yr enw esmwythaf arnynt o herwydd nad fy amcan yw dolurio teimladau E.G.T., ond amcanu ei ddwyn i fod yn fwy gofalus am gywirdeb yn ei ysgrifau.¹⁰²

Ei bolisi cyson gyda'r *Cyfaill* oedd osgoi tramgwyddo neb wrth gyflwyno dadl, er nad yw'n ofni cyfleu ei deimladau yn ddiflewyn-ar-dafod pan gaiff ei gamgyhuddo:

Rhaid i chwi brofi hyn neu fod yn y cywilydd.....camgyhuddiad pwysfawr yw dweyd i mi droi y Beibl yn ramadaeg. Ac yr oedd E.G.T. wrth ffurfio y camgyhuddiad hwn, naill ai yn gwybod ei fod yn gamgyhuddiad, neu ynte yr oedd *heb wybod*. Os oedd heb wybod, rhyfedd fyddra ei amgyffred, ac os oedd *yn gwybod*, gwaeth fyth. Hefyd, camsynied mawr yn E.G.T. yw dywedyd fy mod yn ddiffygiol o'r hyn y lledgyfaddefa ei fod ef ei hun, oblegid i mi gyfeirio at fy Meibl i brofi dillyndra y frawddeg mewn dadl; dywedai pawb eraill taw arwydd o barch i'r Beibl oedd hyny.-

¹⁰¹ Ibid.

¹⁰² Ibid.

Pe buaswn yn chwiliaw y ‘Gyfrol Wir’ am enw difriawl i’w osod ar ohebydd buasai yn beth hollol wahanol.....Gwelir yn y Syll-ddrych lawer o *haeriadau noethion heb unrhyw fath o brofion*.¹⁰³

Byddai taflu baw at William Rowlands mewn cysylltiad â’r Beibl yn sarhad o’r radd eithaf iddo, o ystyried ei ffyddlondeb i’r Gair sanctaidd fel gweinidog yr efengyl. Yn fwy na hynny, fel plismon iaith honna fod yr Eos wedi sarhau ‘coffadwriaeth yr esgobion duwiol, ac eraill y rhai a gyfieithasant y Beibl i’r iaith Gymreig,’ drwy honni nad cywirdeb iaith oedd eu prif ddiben. Roedd y sylw hwn yn dân ar groen golygydd y *Cyfaill* a roddai gymaint o bwyslais ar gywreinrwydd iaith, ac ymhellach byddai gwneud sylw dilornus am y Beibl mewn perthynas â’r iaith yn foddion chwerw i sawl Cymro a ystyriai’r ddwy elfen hon fel conglfeini eu hunaniaeth. Dengys y ddadl hon, ac ysgrif hirfaith ‘Chwarae Teg’ fod golygydd y *Cyfaill* yntau yn un o arweinwyr blaenllaw y gymuned lenyddol a’r ymgyrch i gadw safon, ac felly’n feirniad cymwys heb yn wybod i’r darllenwyr. Trwy ddefnyddio ffugenw, gall gyflwyno sylwebaeth ddeifiol ond gwrthrychol ar ffyniant y traddodiad, gan na fyddai eisiau colli cefnogaeth y cyfranwyr llenyddol a oedd yn asgwrn cefn i’r cyhoeddiad.

Codir cwestiynau am berthynas golygydd y *Cyfaill* â’r Eos yn niwedd glo ysgrif ‘Chwareu Teg,’ wrth iddo wrthod cydnabod ei fod yn gymydog iddo gyda chryn finigrwydd:

Wrth derfynu geilw E.G.T. ei hun yn *gymydog* i mi. Yr wyf yn diarddelwi yr anrhydedd, ac yn ffeiddio egwyddor yr awgrym. Ond byddaf yn barod bob amser i ymgomio ag ef ar unrhyw bwngc, er ei fod yn rhestru ei hun yn mhlith fy isafon, (yr hyn ni chynhigiwyf wadu), ond rhaid iddo beidio galw enwau. Mae y cyfryw beth yn tueddu i gyffroi y dadleuwyr a diflasu y darllenwyr, heblaw ei fod yn arwydd sicr bob amser o fychandra enaid yr hwn a’i harfero. Ydwyf, Mr Golygydd, eich ewyllysiwr da chwi ac Eos G.T., ac oni bai fod yn yr ysgrif uchod ryw bethau yn tueddo, yn ol fy marn i, at ehangu gwybodaeth eich derbynwyr, ni fuaswn yn gofyn iddi le yn eich cyhoeddiad buddiawl.¹⁰⁴

¹⁰³ Ibid.

¹⁰⁴ Ibid.

Er bod yr Eos yn bresenoldeb cryf ar ddalennau'r *Cyfaill* gyda'i gynnyrch a'i hyfforddiant barddonol, mae anoddefgarwch y golygydd o arddull yr Eos yn ddwysach na'i hoffter o'r bardd, gan mai bodloni ei ohebwy'r a'r ddarllenwyr yw ei brif flaenoriaeth er lles y cylchgrawn. Er ei fod yn dymuno'n dda i'r Eos, mae ei ddyletswydd i warchod purdeb y dadleuon ar faes y *Cyfaill* a sicrhau tegwch yn flaenaf bob amser, ac yn ysgogiad bythol i gymryd rhan yn y ddadl.

(vi) 'Plant yr Awen Gymreig.'

Ceir dadl arall yn yn ystod yr un flwyddyn ar yr union linellau, wrth i awdur yn defnyddio'r ffugenw Eryr Gwernabwy gwyno fod yr Eos wedi esgeuluso gramadeg mewn dehongliad o'i eiddo i'r pos 'Dychymyg' yn y *Cyfaill*. Caiff ei siomi wrth ddeall mai'r Eos yw awdur y gerdd ddiffygiol gan ei fod yn fardd buddugol, a phrydera am y to newydd yn ei efelychu:

Hyderwyf, Mr Gol, na welir wyneb y Cyfaill, o hyn allan, wedi ei ddifwyno a rhyw sothach o'r fath yma.¹⁰⁵

Awgryma ei gyfeiriad at y *Cyfaill* fod cyfranwyr tebyg yn frwd dros gadw cywirdeb yn y cyhoeddiad, sy'n deillio o bwysigrwydd llenyddiaeth i gynhالياeth y cylchgrawn a'i berthnasedd i'w cenedligrwydd. Honna'r Eos ei fod yr un mor ymrwymedig i gynnal safon y misolyn, gan wrthryfela'n erbyn 'nadau annymunol a therfysglyd' yr Eryr mewn amddiffyniad grymus:

Mr.Golygydd – Nid ydwyf yn gwybod i mi erioed o'r blaen fod yn nod i grëadur mor ysglyfaethus a'r eryr; a gellid meddwl na fyddai ddim gwell i aderyn mor fychan a diymadferth a'r eos, na ffoi rhag syrthio yn ei grafangau angeuol; ond gan nad yw yr eryr ag a wnelwyf fi ag ef y tro hwn ond lled anghraff ei olygon a thrwsgl ei

¹⁰⁵ Adolygiad ar Ddehongliad i Ddychymyg Doe Glan Taf (Eryr Gwernabwy) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1840.

adenydd, ni ddylid ei ofni ond yn gyfatebol idd ei allu. Y mae yn wir fod ei wanc yn fawr, a'i ysfa yn fileinig, pe gwyddai pa fodd idd eu gosod ar waith.¹⁰⁶

Parha i'w amddiffyn ei hun yn erbyn 'crecian' yr 'Eryr' yn null celfydd y delweddu adaryddol, gan daro'n erbyn ei 'anwybodaeth a'i rodres' drwy egluro mai cerdd rydd oedd ei eiddo. Ni all ochel ymhellach rhag ergydio'r 'Eryr' yn ei ddiwedd glo, ac mae'n llunio englyn i'r achos, sy'n dangos bod llenyddiaeth greadigl hyd yn oed yn arf mewn dadl:

Yn awr cynghorwyf yr Eryr i ddysgu ei ramadaeg ychydig yn hwy. Y mae ei waith yn beirniadu yr eiddo eraill yn ei anwybodaeth presennol, yn swm mor annaturiol i ddyn a wyr rywfaint am y cyfryw beth, a lleisiad eryr o'r cyfandir dwyreiniol ar feusydd Gwalia; ac hyd oni wnelo hyny dywedaf,

Os crach eryr a ysgrechian – eilwaith,
Lle'i hely edn aflan,
Af o'i glyw, swydd yw sydd wan,
I un dryllydd droi allan.¹⁰⁷

Dychwela'r 'Eryr' i faes y ddadl:

Tybiwyf nad oeddych yn dysgwyl fy ngweled mor fuan ar faes y Cyfaill, wedi clywed fy mod wedi syrthio i fagl yr Eos; ond er syndod i chwi, ac amrai eraill, dyma fi, yn gallu cerdded ac ehedeg mor gyflym ag o'r blaen, heb gael nemawr niwed yn y fagl dybiedig. Er mai Eryr ydwyf, nid ydwyf yn hollol mor gigyddlyd ac ysglyfaethus a'r dysgrifiad a roddodd ef o honof, eto os ydyw ef am fyned i frwydr, byddai yn well iddo gymeryd rhyw aderyn o gylch ei faintoli ei hun i ymladd yn ei erbyn, rhag iddo ddyfod allan yn *ail oreu*.¹⁰⁸

Mae'r delweddau adaryddol i gyfleu statws y beirdd o fewn y traddodiad llenyddol, a'r cyfeiriad at fagl a brwydro, yn dramateiddio awyrgylch yr ornest yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r 'Eryr' yn consurio awyrgylch llys barn wrth iddo ateb cyhuddiadau a chywiro gramadeg yr Eos mewn amddiffyniad, sydd yn nodweddiadol o nifer o ddadleuon ar amrywiol bynciau yn y *Cyfaill*. Defnyddia'r wasg i gynnwys y darlennydd yn y ddadl, sy'n atgyfnerthu swyddogaeth ddiwylliannol y cyhoeddiad a'r modd y mae'r darllenwyr yn rhan o'r fforwm:

¹⁰⁶ Eryr yn y fagl (Eos Glan Twrch) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Medi 1840.

¹⁰⁷ Ibid.

¹⁰⁸ Yr Eos wedi ei ddal yn ei fagl ei hun (Eryr Gwernabwy) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1840.

...dymunwyf ar y darllenydd sylwi yn fanwl ar fy ysgrif gyntaf; a barned yn ddiuedd drosto ei hun os cafodd yr Eos achos cyfreithlawn o fewn i'r ysgrif hono i arfer y fath eiriau. Gobeithiwyf y bydd mwy o addfwynder yn fy nhôn na'r eiddo ef; er y gallid dysgwyl i'r gwrthwyneb.¹⁰⁹

Fel adlais i ddiwedd glo yr Eos, cyfansodda'r 'Eryr' englyn i ddwysáu'r ddadl:

Eirf ingawl yw crafangau – yr Eryr
 Hwyl yrrant eu cwysau-
 Afrywiog rhoddant friwiau –
 Da Eos bach dos i bau.¹¹⁰

Trwy ddarlunio nodweddion yr eryr, mae'n pledio goruchafiaeth ar yr Eos ac yn arddangos ei ddoniau barddonol drwy gyfrwng mesur yr englyn.

Fodd bynnag, yn ystod yr 1840au, profai'r Eos yn fardd hynod o doreithiog ar dudalennau'r wasg gyfnodol, ac mae nifer o gerddi mawl iddo'n cadarnhau ei statws fel hyfforddwr barddol y genedl ar y cyfandir. Mynegir pryder am gyflwr y mesurau caethion unwaith eto yn 1842, wrth i lythyrwr sylwi na chyhoeddwyd un testun caeth i'r beirdd gan y cymdeithasau amrywiol yn ystod y deng mis blaenorol. Mentra ofyn ai'r rheswm am y duedd hon yw'r diffyg beirdd hyddysg yn y mesurau caeth, 'mor lleied o nifer fel na byddai bron neb i ganu, pe pennodid dau neu dri i farnu y cyfansoddiadau?'¹¹¹ Unwaith eto, gweithreda'r *Cyfaill* fel fforwm agored i gyfnewid barn, pan geisia gohebydd brofi i'r gwrthwyneb drwy gasglu enghreifftiau o gerddi ar y mesurau caeth gan amrywiol feirdd Cymreig yn America.

Yn ôl awdur di-enw, ymddengys bod nifer o 'Blant yr Awen Gymreig' a gyfansodda yn y mesurau caeth wedi ymfudo i America, ond 'o herwydd eu dyeithriwch i ddarllenwyr y Cylchgronau Cymreig,' bod nifer ohonynt wedi ymfudo i dalaith Texas ac ymhellach neu wedi marw ar y cyfandir. Mae'r ffaith iddo gyfeirio at absenoldeb lleisiau rhai beirdd yn y wasg gyfnodol yn awgrymu mai'r un criw dethol yn y 'gymuned ddehongliadol' o gyfranwyr sy'n cynnal y cyhoeddiadau, ac awgrymir fod trwch darllenwyr y wasg a'r beirdd wedi eu

¹⁰⁹ Ibid.

¹¹⁰ Ibid.

¹¹¹ Beirdd Cymreig yn America (J.J.Jones, Caerefrog Newydd) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1842.

cyfyngu i daleithiau'r Dwyrain. Cadarnheir hyn gan y dystiolaeth fod y mwyafrif o'r Cymry yn America yn trigo yn nhaleithiau Efrog Newydd, Ohio, Pennsylvania a Wisconsin, ac o bosibl collid beirdd unigol a fentrau y tu allan i'r cylchoedd llenyddol yn y treflannau Cymreig cryfaf hyn.

Serch hynny, parheir i arddel y *Cyfaill* fel rhan o rwydwaith ddefnyddiol ar gyfer canfod atebion i ofyniadau amrywiol, wrth i'r gohebydd ofyn a wŷr unrhyw un o ddarllenwyr y *Cyfaill* hanes bardd neilltuol. Er gwaethaf y perygl o alltudio rhai darllenwyr a magu'r un cyfranwyr yn y cymunedau Cymreig cryfaf, parha'r misolyn yn fforwm gymdeithasol i'r beirdd rannu eu safbwyntiau mewn dull agored. Beth yn union oedd y berthynas rhwng y wasg a'r cymdeithasau hyn, ac a oeddent yn magu elitiaeth llenyddol?

(vii) 'Cyfunwn hil Gomer?': Diwylliant Eisteddfodol yr 1850au.

Yn ystod yr 1850au, daeth cydymaith arall i ymuno â'r sefydliadau diwylliannol a oedd mor allweddol i feithrin llenyddiaeth Cymry America. Cynhaliwyd cyfarfodydd llenyddol gan yr Ysgolion Sul a chystadlaethau gan y cymdeithasau Cymreigyddol yn ystod yr 1840au, ond cynyddodd eisteddfodau mewn poblogrwydd yn ystod y degawd dilynol yn dilyn y gyntaf a gynhaliwyd yn Carbondale, Pennsylvania yn 1850. Bu adroddiad negyddol Brad y Llyfrau Gleision yn 1847 yn gymhelliad i sbarduno dadeni diwylliannol a fyddai'n adfer balchder yn yr iaith, fel y dengys cerdd anerchiadol yn y *Seren* y flwyddyn honno a oedd yn cymell y genedl i ddangos ei doniau gyda chydweithrediad y misolion:

Cyfunwn hil Gomer, yn seinber ein sain,
I ddangos fod mawredd a rhinwedd yn rhain,
Nid byw fel dieithriaid, dyfodiaid difudd,
Gan adael trysorau dawn goreu dan gudd.
Meithrinwch yr awen, wyr llawen er llwydd,
Gael codi'n *iaith* seiriol, ireiddiol a rhwydd.
Cewch ryddid dan haulwen, a'r SEREN i'r swydd.
Cyfryngau gwybodaeth ryw doraeth a dardd.

CENHADWR, cain odiaith, mwyn helaeth mae'n hardd,
A CHYFAILL iach hefyd er bywyd y bardd.¹¹²

Bu atgyfodi'r Eisteddfod fel un o draddodiadau hynafol y Cymry yn fodd i adfywio'r diddordeb yn eu diwylliant yn sgil y sarhad a ddioddefwyd.¹¹³ Yn ogystal, un o gonglfeini'r mudiad Rhamantaidd yn Ewrop a effeithiai ar Gymru oedd y pwyslais mawr ar wreiddiau,¹¹⁴ ac felly atgyfodwyd un o draddodiadau'r gorffennol i atgoffa'r genedl o'r enedigaeth-fraint.

Ymledodd y chwiw eisteddfodol dros yr Iwerydd yn gyflym, a thrwy gymunedau Cymreig America yn nhaleithiau Efrog Newydd, Ohio, Pennsylvania a Wisconsin, sy'n cadarnhau fod y cysylltiad trawsatlantig yn parhau'n gryf. Sefydlwyd nifer o wyliau blynyddol a roddai fframwaith mwy ffurfiol a chyhoeddus i ddatblygu'r cynnyrch llenyddol:

...there is no doubt that it was the eisteddfodau in general which did most to stimulate the literary activity in Welsh, not to mention the proud bardic pseudonyms, which were once so popular.¹¹⁵

Er bod y wasg brint eisoes yn gaffaeliad i'r traddodiad llenyddol Cymraeg yn America, cyhoeddir anerchiad i'r gyd-genedl ar y cyfandir gan Iorthryn Gwynedd yn 1852 yn gofyn am fwy o gefnogaeth i'r agwedd hon ar eu Cymreictod drwy gyfrwng y *Cyfaill* a'r *Cenhadwr*. Mae'r ysgrif yn cadarnhau fod ymgyrch ymwybodol ar droed i adnewyddu eu hymwybyddiaeth genedlaethol, a'r gorgyffwrdd rhwng y cynnwys yn awgrymu eu bod yn ymfyddino i sicrhau parhad diwylliant Cymry America:

Y mae yn America, yn ddiâu, lawer o feirdd rhagorol, ac o lenorion medrus; a gallent gyrhaedd mawredd mwy a defnyddioldeb eangach, pe caent *fwy o gefnogaeth deilwng*. Darllenasom rai darnau campus yn cynnwys gwir farddoniaeth, a rhai traethodau penigamp, yn cynnwys gwir chwaeth, athrylith a goreuddawn, yn y cyhoeddiadau Cymreig Americanaidd.¹¹⁶

¹¹² Llinellau at hil Gomer yn America (Aderyn Du o'r Dyffryn) - *Y Seren Orllewinol*, Mawrth 1847.

¹¹³ Kinealy, t.110-11. Hefyd gw. Edwards, Hywel Teifi (2000) *The Eisteddfod Poet: An Embattled Figure, yn (gol) A Guide to Welsh Literature c.1800-1900*, University of Wales Press: Cardiff, t.35.

¹¹⁴ Gellner, Ernest (1997) *Nationalism*, Weidenfield & Nicholson:, t73.

¹¹⁵ Williams, Glanmor (1979) *Religion, Language and Nationality in Wales*, University of Wales Press: Cardiff, t.230.

¹¹⁶ Testynau a Gwobrau i Lenorion Cymreig America (Iorthryn Gwynedd) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1852.

Yn ogystal â chanmol y cynnyrch llenyddol fel endid a saif yn annibynnol oddi wrth yr hen wlad, cydnabyddir rôl y wasg yn yr orchwyl o'i ddatblygu. Yn fwy na hynny, canmolir y cymysgedd o Gymry a ddaw ynghyd i sicrhau ffyniant y traddodiad llenyddol, 'Cymry pur, dilediaith, dyngarol, awenyddol ac aiddgar,' sy'n awgrymu bod 'cymuned ddehongliadol' wedi ei chreu erbyn y cyfnod hwn a oedd yn cynnwys cyfuniad o alwedigaethau:

Goreuon eich gwlad, pobl wedi gwneyd, ac yn barod eto i wneyd, llawer o aberthau pwysig er mwyn coethi a chefnogi eu hiaith, a llesoli eu cenedl. Am ystod blynyddau lawer, llafuriasant yn galed a ffyddlon er eich mwyn chwi – collasant lawer o'u hamser gwerthfawr, a threuliasant lawer o'i harian a'u heiddo, er mwyn codi, sefydlu, a pheri i Llenoriaeth Gymreig fod yn anrhydeddus, dylanwadol, a llesol. Onid yw golygyddion, a gohebwy, a beirdd medrus eich cyhoeddiadau, yn nghydag awdwyr, cyhoeddwy, argraffyddion, a dosparthwyr y llyfrau Gymreig yn America wedi gwneyd y pethau hyn? – ac yn wir deilwng o arganmoliaeth gyhoeddus eu cenedl yn gyffredinol? Gwir.¹¹⁷

Yn dilyn ei ymweliad â'r Unol Daleithiau, mae awdur yr ysgrif yn llawn edmygedd o ymdrechion y genedl i greu traddodiad llenyddol newydd ar dir estron, wrth i Gymry o wahanol gefndiroedd gydweithio i esgor ar ddiwylliant llenyddol llewyrchus, yr hyn a ddisgrifia Jerry Hunter fel 'gwasanaeth cymdeithasol' yr awdur i'w genedl.¹¹⁸ Fodd bynnag, er nad yw eu 'llafur yn ofer,' erfynia'r awdur ar y Cymry i roi mwy o 'gefnogaeth a chynorthwy' iddynt ddatblygu gweithiau 'mwy derbyniol ac effeithiol,' sy'n awgrymu nad yw eu llenyddiaeth wedi cyrraedd ei hanterth eto.

Yn ei dyb ef, eisteddfodau a 'Chymdeithasau Llenorol' yw rhai o'r dulliau sicraf i gynnal y traddodiad llenyddol newydd yn America, ynghyd ag iaith a diwylliant y genedl, gan eu sefydlu ar batrwm Cymru. Mae'n annog Cymry America i ddilyn ôl troed cyfarfodydd eisteddfodol 'lluosog ac anrhydeddus' y famwlad, er mwyn profi 'adfywiad mawr a llesol ar yr Awen a Llenoriaeth Gymreig' fel y gwnaethpwyd yng Nghymru ers cychwyn y mentrau eisteddfodol dair blynedd ynghynt. Nid yw Iorthryn yn credu y gallai America efeylchu a dilyn y famwlad yn eu gorchestion diwylliannol ar unwaith, am nad ydynt yn ddigon aeddfed

¹¹⁷ Ibid.

¹¹⁸ Hunter, Jerry, *Sons of Arthur, Children of Lincoln*, t.6.

i roi ‘cefnogaeth unol a theilwng’ i gynnal ‘*Eisteddfod Urddasol* yn unman yn America’ y flwyddyn ganlynol. Byddai cynnal Eisteddfod Anrhydeddus yng Nghaerefrog Newydd yn 1853 yn rhy fuan yn ei dyb ef, ond rhagwelai y byddai’r genedl yn barod i lwyfannu cyfarfod o’r fath yn 1854 neu 1855:

Meddylwch. Trefnwch. Ond y mae eisiau gwneyd rhywbeth, a gellir gwneyd llawer o bethau *cyn hyny*, er *calonogi* Beirdd a Llenorion Cymreig America.¹¹⁹

Mae’r ymgyrch hon i sefydlu Eisteddfod Genedlaethol ar gyfandir America yn cydweddu â’r hinsawdd eisteddfodol yng Nghymru a gydiodd o ddifrif ar yr un adeg.¹²⁰ Adlewyrcha’r ymgyrch y ddeuliaeth a wynebai Gymry America, wrth iddynt frwydro i ddal gafael ar sylfeini eu gwerthoedd diwylliannol o’r hen wlad, ond hefyd wrth iddynt ddyheu am adeiladu eu fersiwn unigryw eu hunain o’r gwerthoedd hynny a fyddai’n gyfaddas â’u cynefin newydd.

Wrth i Iorthryn gynnu’r fflam ym meddyliau darllenwyr y *Cyfaill*, mae hefyd yn peri iddynt ystyried ffyrdd eraill o ‘galonogi’ beirdd a llenorion Cymry America. Cyn dyfodiad y sefydliadau ffurfiol, mae’n atgoffa’r Cymry fod llawer dull o feithrin yr awen, a bod y wasg brint yn braenaru’r tir ar gyfer cystadlaethau eisteddfodol. Serch hynny, mae ganddo ffydd gadarn yng ngallu’r ymfudwyr i ffurfio sefydliadau llenyddol newydd yn America:

Diau fod genych ddynion digon teilwng i fod yn Feirdd Cadeiriol, ac yn Feirniaid medrus a diduedd ar y cyfansoddion mwyaf rhagorol ac etholedig; y maent wedi profi a dangos eu medrusrwydd eisoes yn eu cylchoedd *cartrefol*. Ond y mae eisiau rhyw gynllun effeithiol i’w codi i sylw eu cenedl yn gyffredinol yn yr *Hen Wlad*, ac yn yr *holl* America, fel na byddo gan neb wedi hyny amheuaeth o barth i’w medrusrwydd a’u rhagoriaethau awenyddol a llenorol.¹²¹

Er bod Iorthryn wedi cychwyn ei ysgrif drwy ganmol y cyhoeddiadau Cymraeg am drosglwyddo’r cynnyrch llenyddol i ddarllenwyr y genedl, mae’n arwyddocaol ei fod yn teimlo mai mewn ‘cylchoedd cartrefol’ yn unig y mae’r llenorion wedi gwneud eu marc. Er

¹¹⁹ Testynau a Gwobrau i Lenorion Cymreig America (Iorthryn Gwynedd) - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Mai 1852.

¹²⁰ Hunter, Jerry, *Sons of Arthur, Children of Lincoln*, t.5.

¹²¹ Testynau a Gwobrau i Lenorion Cymreig America (Iorthryn Gwynedd) - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Mai 1852.

i'r wasg ymdrechu i dreiddio drwy'r cyfandir cyfan, mae'n bosibl fod y cyfnodolion wedi eu cyfyngu i bocedi bychain rhai treflannau o fewn y taleithiau Cymreiciaf, yn enwedig o amgylch ardal argraffu'r cyhoeddiadau, ac mae hyn yn adlais o sylwadau un gohebydd i'r *Cyfaill* yn 1842.

O'r herwydd, yn sgil ei daith yn America geilw Iorthryn ar y Cymry i greu traddodiad llenyddol sy'n deilwng i'w ystyried ar lefel genedlaethol, yn ogystal ag ymestyn y cysylltiad trawsatlantig i arddangos llewyrch y diwylliant yn y ddwy wlad fel ei gilydd. Mae'r ffaith iddo hefyd seinio'r alwad am 'godi i sylw' yr hen wlad yn awgrymu ei fod yn ymdrin â thraddodiad llenyddol Cymry America fel ffenomen ar wahân, a bod y beirdd a'r beirniaid 'medrus' sydd wedi datblygu y tu hwnt i'r Iwerydd yn ddigonol i deilyngu'r teitl hwn. Serch hynny, mae'n ymwybodol o hyd o'r cysylltiad â Chymru, ac yn eiddgar i brofi eu dilysrwydd gerbron y gyd-genedl, ac mae'r modd y mae'n cymharu'r ddwy wlad yn awgrymu fod Cymry America yn parhau i edrych at y famwlad am arweiniad yn eu hymgyrch i greu hunaniaeth newydd sy'n cwmpasu'r hen.

Fodd bynnag, er iddo bleidio annibyniaeth lenyddol, mae ei ysgrif yn ennyn ymateb chwyrn gan ohebydd a ystyriai Gymry America yn uned ar wahân i Gymru, gan fod yr eisteddfodau'n hybu'r broses o greu hunaniaeth. Fe'i cyhuddir o ragfarn yn ei lythyr am anwybyddu doniau'r genedl ar gyfandir America:

Ond a raid croesi môr i gael beirniaid cymhwys? Ac wedi ei groesi, a raid aros o fewn terfynau Gogleddbarth Cymru? Ac os rhaid, a oes neb ond Annibynwyr a wnant y tro? Traethodau Americanaidd, ymgeisyddion Americanaidd, a thestynau Americanaidd, ond beirniaid Prydeinig! Wfft byth i'r fath anghysondeb. Y Peirch. Wm.Rees, Liverpool a S.Roberts, Llanbryn-mair i farnu rhagoriaethau neu waeleddau traethodau ar y Sefydliadau Cymreig yn America! O Ragfarn, yr wyt ti'n ddall.¹²²

Yn wir, parha'r arferiad o benodi beirniaid o Gymru yn yr eisteddfodau Americanaidd drwy gydol y degawd fel modd i dafoli gwir safonau'r beirdd Cymraeg yn America, sy'n awgrymu

¹²² Sylw ar anerch Iorthryn Gwynedd (Methodsyn o'r De) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1852.

fod Cymry America yn parhau i fod yn is-gymuned eilradd i Gymry'r hen wlad. Yn Eisteddfod Utica 1859, penodwyd Caledfryn, un o'r beirniaid llymaf yng Nghymru i dafoli'r cystadlaethau barddol, a byddai ei feirniadaeth lenyddol arbenigol, yr oedd galw mawr amdani yng Nghymru, yn fodd i Gymry America ehangu eu gorwelion llenyddol yn ôl safonau'r hen wlad. Yn ychwanegol, roedd cyhoeddi beirniadaethau a chynnyrch yr eisteddfodau hyn yn fodd i borthi awch Cymry America am ddiwylliant llenyddol yn ei hawl ei hun a fyddai'n gwasanaethu cynulleidfa ehangach na rhigol yr Eisteddfod.

Fodd bynnag, dengys yr awdur ffydd yng ngallu aelodau'r genedl ymfudedig i feithrin traddodiad llenyddol nad yw'n dibynnu ar feirniaid Cymru, ac mae ei restr o'r beirniaid cymwys yn yr Unol Daleithiau yn brawf o'r traddodiad annibynnol a oedd yn dechrau blaguro yno:

Pa le yr oedd y Peirch Henry Rees, neu John Hughes, Liverpool? Pa le yr oedd Eben Fardd, neu Iorwerth Glan Aled? Pa le yr oedd Lewis Edwards, neu John Phillips, dau fachgen o'r Deheubarth? Gwell i Mr 'Iorthryn' roi tro eto trwy ein gwlad rydd, gwneyd ei hunan yn fwy cydnabyddus a'r Cymry sydd yma yn gyffredinol, ac ymgynghori a'r hen sefydlwyr, cyn myned i drefnu materion o'r fath hyn o'i ben a'i fympwy ei hun.¹²³

Tystiolaeth o draddodiad cynyddol annibynol Cymry America yw apêl gan fardd sydd wedi ymfudo o Gymru i gael ei dderbyn i blith cylchoedd llenyddol ei wlad fabwysiedig:

A oes groesaw, weis goriesin – imi
Dd'od yma'n ddiwrdrin,
Ac anadl 'Gwlad y Cennin,'
Yn hyf a moch yn fy min?¹²⁴

Prawf o greadigaeth y byd llenyddol ar wahân yw ei fod yn apelio am groeso gan feirdd Cymry America, ac awgrymir ei awydd i gymathu â'r traddodiad newydd wrth iddo gyfaddef fod dylanwad Cymru'n drwm arno os caiff ymuno â'r rhwydwaith farddol. Adleisir yma'r croesdynnu sy'n nodweddiadol o ddiwylliant, ac yn wir, hunaniaeth Gymreig America,

¹²³ Ibid.

¹²⁴ At y Beirdd (Thomas G Price) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1852.

rhwng arddel gwerthoedd yr hen wlad a mabwysiadu arferion newydd. Ar un llaw, ffurfir sefydliadau megis eisteddfodau, yn dilyn yr hen batrwm, ac ar y llaw arall rhoddir stamp y wlad newydd ar y testunau drwy ddethol pynciau Americanaidd.

Er bod rhai o Gymry America yn proffesu annibyniaeth drwy greu traddodiad newydd i ddiwallu eu hanghenion, roedd gorgyffwrdd rhwng llenyddiaeth Cymru ac America'n anochel oherwydd i hoelion wyth y byd llenyddol deithio yn ôl a blaen dros yr Iwerydd. Yn ogystal, cludwyd y cyfnodolion dros y cefnfor a sicrhâi hyn fod y diwylliant print yn meithrin y cysylltiad hwn, ac felly ni allai traddodiad llenyddol Cymry America ymwahanu'n llwyr oddi wrth ddylanwad llenyddiaeth yr hen wlad, hyd yn oed erbyn yr 1850au pan oedd ail genhedlaeth o Gymry yn codi a oedd wedi eu geni yn Americanwyr. Er eu bod yn frwd dros osod stamp unigryw Cymreig-Americanaidd ar eu diwylliant, honna Jerry Hunter: *'they did not define that new entity in rebellious opposition to the Welsh language tradition of Wales.'*¹²⁵ Yn hytrach, roedd y ddwy ongl i'w hunaniaeth yn plethu ac yn cydreddeg er mwyn creu a chynnal delwedd newydd a fyddai'n anadlu awelon ffres America, ond heb ddiystyru'r clymau cynhenid a roddai fod i'w cenedligrwydd.

Dywed Hywel Teifi Edwards bod geiriad testunau'r eisteddfodau yn mynegi 'gyriadau a phangau'r cyflwr Cymreig,' ac y gellid gosod y testunau o dan ddau bennawd: 'Dinasyddiaeth Newydd' a 'Hen Wladgarwch.'¹²⁶ Dangosodd yr Eisteddfod bod modd priodi'r ddwy elfen yn llwyddiannus yn eu cenedlaetholdeb:

Os yw'n wir i'r Cymry ddefnyddio'r eisteddfod yn eu mamwlad i brofi eu gwerth a'u cymodi eu hunain â'r diwylliant Prydeinig ymerodrol, y mae'r un mor wir iddynt yn yr Unol Daleithiau ei defnyddio i arddangos y rhinweddau Cymreig a'u gwnaent y math gorau o ymfudwyr derbyniol – ymfudwyr yr oedd eu balchder yn eu tras a'u hetifeddiaeth yn sail diymwad i'w teyrngarwch i'w gwlad newydd.¹²⁷

¹²⁵ Hunter, Jerry, *Sons of Arthur, Children of Lincoln*, t.41.

¹²⁶ Edwards, Hywel Teifi (1990) *Eisteddfod Ffair y Byd Chicago 1893*, Gomer: Llandysul, t.55.

¹²⁷ Ibid, rhagymadrodd.

Enghraifft o gyfansoddi i'r felodi Americanaidd ar gainc Gymreig yw testunau eisteddfod a gynhelir gan Gymdeithas Lenyddol y Cymry yn Scranton, Pennsylvania yn 1854, un o gymunedau Cymreiciaf yr Unol Daleithiau. Cynigir gwobrwyon am lunio traethodau ar bynciau megis 'Hanes y Cymry yn Pennsylvania' a'r iaith Gymraeg, ynghyd â phryddest ar yr 'Areithfa Gymreig,' a ddengys fod yr hadau gwreiddiol o'r hen wlad yn blaguro i greu consensws Cymreig-Americanaidd a oedd wedi ei deilwra ar gyfer hunaniaeth ddeublyg yr ymfudwyr. Tra oedd Whitman wedi cyhoeddi cyfrol o farddoniaeth *Leaves of Grass* yn 1855 a oedd yn torri clymau'r dylanwad Ewropeaidd ac yn cynyddu hyder llenorion Americanaidd, parhâi craidd y Cymry o hyd yn eu cysylltiad â Chymru. Yn wahanol i lenorion cynharach megis Brown, Irving a Cooper a oedd yn cyfuno'r traddodiad Prydeinig â gwedd Americanaidd, llawenhaodd y genedl Americanaidd fod Whitman yn ei hadnewyddu,¹²⁸ ond roedd Cymry ar y llaw arall yn defnyddio'r hen wlad fel ffynhonnell ysbrydoliaeth o hyd.

Serch hynny, roedd y testunau niferus a ofynnai am gofnod o hanes Cymry America yn brawf o'u hymwybyddiaeth eu bod yn genedl ar wahân i Gymru, ac yn ddull pwysig i fynegi balchder yn eu hunaniaeth newydd. Byddai manylu ar yr elfen lenyddol wrth groniclo'r hanes hefyd yn awgrymu eu bod yn gwbl bleidiol dros eu hannibyniaeth yn eu gorchestion llenyddol, a'u sicrwydd yn y traddodiad ar wahân yn dyrchafu statws yr agwedd hon ar eu diwylliant.¹²⁹

Adlewyrchir y stamp Americanaidd ar y meddwl Cymreig pan ddefnyddir cysyniadau megis '*Manifest Destiny*' mewn ysgrif yn pledio ymgyrch i sefydlu Eisteddfod Genedlaethol Gymreig ar y cyfandir.¹³⁰ Yn yr un modd, detholir darnau adrodd o gyfnodolion megis y *Traethodydd* ac 'ymddyddan' o'r *Gymraes*, cyfnodolion o Gymru, sy'n adlewyrchu'r

¹²⁸ Fish, Carl (1913) *The Development of American Nationality*, American Book Company: New York, t.283.

¹²⁹ Hunter, Jerry, 'Y Traddodiad Llenyddol Coll', t.28.

¹³⁰ Hunter, Jerry, *Sons of Arthur, Children of Lincoln*, t.7-8.

berthynas drawsatlantig glos rhwng y wasg a'r Eisteddfod fel sefydliadau i warchod hunaniaeth y Cymry dramor.

Ar gyfer Cyfarfod Llenyddol Cymreig yn Utica yn 1856, penderfyna'r pwyllgor gynnig rhai testunau ar bynciau cyfan gwbl Americanaidd megis yr 'hysbysai gwefrol' (*electric telegraph*), a ddengys ymroddiad Cymry America i gymathu â'u cynefin dieithr drwy hybu gwell dealltwriaeth o'i nodweddion unigryw. Roedd eu llenyddiaeth felly yn ei ail-greu ei hun yn barhaus i ymateb i newidiadau cymdeithasol yn America a Chymru. Byddai gosod testunau ymarferol o'r fath hefyd yn nodwedd o'r mudiad eisteddfodol yng Nghymru yn y cyfnod er mwyn 'dangos defnyddioldeb y sefydliad' fel adwaith i Frad y Llyfrau Gleision.¹³¹ Rhoddai gweithiau ffeithiol 'bwrpas utilitaraidd' i'r Eisteddfod, yn ogystal ag adlewyrchu pynciau cyfoes a oedd yn berthnasol i'r gymdeithas. Fel y dywed Robert Rhys, 'beiwyd y cymhelliad addysgiadol, buddiol am lwydni unffurf llên y ganrif,'¹³² ond roedd ganddo arwyddocâd cymdeithasol fel modd i godi hyder y genedl yn eu haddysg.

Credai ymfudwyr o rai cenhedloedd, megis y llenor Boyesen o Norwy, y dylid gadael dylanwadau'r hen wlad ar ôl a chreu llenyddiaeth cwbl newydd yn America,¹³³ er y dywed yr Athro Henry Louis Gates Jr fod llenyddiaeth Affro-Americanaidd a nifer o genhedloedd eraill yn ysgrifennu 'rhwng' dau ddiwylliant.¹³⁴

Fodd bynnag, yn amlach na pheidio cyplysyr yr elfennau Cymreig ac Americanaidd er mwyn datblygiad neu fudd y genedl, er enghraifft mewn traethawd ar y testun 'Y moddion goreu i'w arferyd i sicrhau Defnyddioldeb Ieuengctyd Cymry America i'w cenedl eu

¹³¹ Edwards, Hywel Teifi (1980) *Gŵyl Gwalia: Yr Eisteddfod Genedlaethol yn Oes Aur Victoria. 1858-1868*, Gomer: Llandysul, t.60-1. Hefyd gw. Edwards, Hywel Teifi (1976) *Yr Eisteddfod: Cyfrol dathlu wythganmlwyddiant yr Eisteddfod, 1176-1976*, Gomer: Llandysul.

¹³² Rhys, Robert, *Llenyddiaeth Gymraeg y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, t.263.

¹³³ Daniels, Roger (1990) *Coming to America: A History of Immigration and Ethnicity in America Life*, Harper Collins: New York, t.175-6.

¹³⁴ Sgwrs gyda'r Athro Henry Louis Gates Jr yn ystod fy nghyfnod ym mhrifysgol Harvard.

hunain.¹³⁵ Fel y dywedodd llenor a ymfudodd o Norwy i America, Rolvaag, a oedd yn cyfansoddi yn ei famiaith ar y cyfandir:

We can call these works....emigrant literature, but then we give the child a wrong name. For they are not that; they are American literature in the Norwegian language.¹³⁶

Mae'r ffaith iddo gyfeirio at 'blentyn' hefyd yn awgrymu yr ystyriai fod y traddodiad yn ei fachgendod o'i gymharu â'r famwlad, sy'n cadarnhau'r angen i adlewyrchu'r ddwy wedd i genedligrwydd ei bobl.

Every effort to cling to inherited ways of acting and thinking had led into a subtle adjustment by which those ways were given a new American form.¹³⁷

Disgrifia Daniel Williams hunaniaeth Gymreig rhan olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel 'fffenomenon luosog ac amrywiol,' ond dywed fod 'ansefydlogrwydd a chyfnewidoldeb hunaniaethau ethnig' yn nodweddu llenyddiaeth Gymraeg America drwy gydol y ganrif.¹³⁸

Yn groes i argymhellion Iorthryn yn 1852 o ddewis beirniaid o Gymru, dewisir ceffylau blaen y traddodiad llenyddol Cymreig Americanaidd i feirniadu yn eisteddfodau'r genedl ar y cyfandir erbyn canol y ganrif. Yn aml, Eos Glan Twrch a benodid yn feirniad barddoniaeth ac Iorthryn ei hun i feirniadu traethodau, sy'n brawf o annibyniaeth Cymry America yn meithrin eu sefydliadau heb fynd ar ofyn yr hen wlad am lenorion cymwys. Magu nerth a wnâi'r eisteddfodau newyddanedig yn ystod y degawd, ac erbyn 1858 hysbysir Eisteddfod Utica ar ddydd Calan ar gyfer Cymry Oneida a siroedd cyfagos drwy gyfrwng y *Cyfaill* gyda chryn arddeliad:

Y mae pob peth yn argoeli y bydd yr Eisteddfod ddyfodol, nid yn unig mor uchel ei chymeriad a'r rhai a aethant heibio, ond yn llawer mwy dyddorol ar amryw ystyriaethau. Dysgwylir amryw o enwogion dyeithriol i fod yn bresenol. Yr ydym yn sicr na bydd neb yn edifarhau am fod yn bresenol. Ni a appeliwn at bawb sydd yn

¹³⁵ Cyfarfod Cystadleuol at holl lenorion, beirdd a chantorion Cymreig swydd Oneida. *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1855.

¹³⁶ Daniels, Roger, *Coming to America*, t.175-6.

¹³⁷ Handlin, Oscar (1959) *Immigration as a factor in American History*, Prentice Hall Inc: New Jersey.

¹³⁸ Williams, Daniel, 'Cymry Ewyrth Sam', t.158.

caru ffyniant Barddoniaeth, Llenyddiaeth a Cherddoriaeth Gymreig yn mhlith ein cenedl, yn y wlad hon, i roddi eu presenoldeb yn yr Eisteddfod hon.¹³⁹

Adlewyrcha'r geiriau fri yr Eisteddfod yn nghrud Cymry America, ac mae ei thwf aruthrol mewn ychydig o flynyddoedd yn awgrym o angerdd y genedl dros y sefydliad. Yn ogystal, gwelir tebygrwydd mawr rhwng yr apêl i'r sawl sy'n frwd dros y celfyddydau Cymreig i gefnogi'r Eisteddfod hon a'r ymbil am gefnogaeth i'r *Cyfaill* yn ei fabandod fel cerbyd gwerthfawr i lenyddiaeth y genedl. Dengys hyn bwysigrwydd y ddau sefydliad ar gyfer meithrin traddodiad llenyddol Cymry America. Yn wir, tynnai'r ddau faeth oddi wrth ei gilydd. Ar un llaw, darparai'r wasg ofod hysbysebua gofod i gyhoeddi cynnyrch llenyddol a gweithrediadau'r Eisteddfod, a chyfrannodd hynny yn ei dro at roi iddi ennill statws answyddogol Eisteddfod Genedlaethol America. Ar y llaw arall, roedd yr Eisteddfod yn fodd i gyflenwi a chyfoethogi arlwy farddonol y cyfnodolion.

Mae anerchiad at wahanol feirdd yn y *Cenhadwr*, sy'n cael ei ailgyhoeddi yn y *Cyfaill* fis yn ddiweddarach yn ystod 1852 hefyd yn awgrymu bod y traddodiad llenyddol wedi grymuso'n ddirfawr erbyn y degawd hwn gyda chynorthwy'r sefydliadau diwylliannol eraill. Cyhoeddir casgliad o englynion gan dri bardd yn ymateb i'w gilydd, sy'n dangos fel y ffurfiad cyfeillach glos o feirdd o fewn y traddodiad barddol ehangach, fel y byddai'r cyfarfodydd diwylliannol yn cynyddu adnabyddiaeth beirdd o'i gilydd:

Cofiaw ollhoen cyfeillach – y beirdd wyf;
Ha! beraidd gyfrinach;
Ni bu mynwes neb mwynach;
Mynwyd budd am enyd bach.¹⁴⁰

Cana Llinos Glan Ohio i'r bardd Robyn Wyn o Feirion gan sôn am ei 'gerddi mâd a gwadal' a'i 'weithiau têg o eitha' tal,' ond Iorthryn Gwynedd sy'n derbyn y ganmoliaeth uchaf ganddo:

Ac Iorthryn, cawrddyn cywirddoeth – esgud

¹³⁹ Eisteddfod Utica - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Rhagfyr 1857.

¹⁴⁰ Arfolliad y Beirdd – *Y Cenhadwr Americanaidd*, Mai 1852. / Gorddygan y Beirdd - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1852.

Addysgwr yr annoeth;
Mydrydd cain ymadrodd coeth,
Gomerddyn gwiw a mawrddoeth.

Pond anadl y gynnadledd – fu Iorthryn,
Hyf athraw o Wynedd,
Fe chwythai dân cynghanedd,
Fuddiawl rîn, i foddawl reddf.¹⁴¹

Awgryma'r cyfeiriad at 'gynnadledd' fod y beirdd wedi cynnal rhyw fath o gyfarfod cymdeithasol, ac felly rhoir llwyfan i'r gyfeillach farddol hon drwy gyfrwng y *Cyfaill*.

Awgrymir hefyd y caiff Iorthryn ei gydnabod yn rhyw fath o athro neu 'addysgwr' yr awen, a diddorol yw nodi na chrybwyllir yr Eos yn yr englynion, o ystyried y myrdd o gerddi mawl a gyhoeddwyd iddo yn y *Cyfaill* fel athro barddol Cymry America. Cyferchir y ddau fardd yn olaf gan Iorthryn, a dymuna'n dda iddynt yng nghyfansoddiad eu hawen, gan wrthod unrhyw gydnabyddiaeth yn ostyngedig:

Difyr yw croesaw deufardd – Robyn Wyn,
Arebawl yw'r prif fardd;
Lliwnos hir i'r Llinos hardd,
Gwr o fri yn gywirfardd.

Ond Iorthryn a raid wrthod – yr hawlfraint
I'm haelfawr deilyngdod;
Wrth nawddle'u traed heb wrthnod,
Awen fwyn, dymunai fod.

Llwydd nef yn mhob lle iddynt – goreufeirdd,
Gair o fawredd haeddynt;
Ymado'n awr! am danynt
Bydd clod, 'nol eu hynod hynt.¹⁴²

Mae cyfnewid canmoliaeth rhwng tri bardd dethol yn brawf o'r rhwydweithiau llai a fodolai o fewn y cylch barddol ehangach erbyn yr 1850au, sy'n cyferbynnu ag ymdrech yr Eos i gyfarch y mwyafrif o feirdd Cymraeg America yn 1838. Gellid dadlau felly fod y traddodiad

¹⁴¹ Gorddygan y Beirdd - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1852.

¹⁴² Ibid.

llenyddol wedi aeddfedu digon i ffurfio is-gymunedau barddol, a bod cyfarchion y beirdd hyn i'w gilydd yn arwydd o ffyniant y diwylliant.

(viii) 'Y Beirdd wrth Lathen': diwedd yr 1850au.

Mae darn a gyhoeddir yn y *Drych* yn ystod yr 1850au, 'Y Beirdd wrth Lathen' yn adleisio galwad gychwynnol yr Eos yn 1838. Ynndo, mae'r awdur, o dan y ffugenw 'John Bunnau', yn defnyddio ffon fesur feirniadol ddirugaredd i ysgwyd y beirdd, gan gyflwyno ei feirniadaeth llenyddol mewn siart sy'n cymharu ugain o feirdd Cymraeg America drwy roi marciau iddynt mewn categorïau gwahanol. Mae'r ffaith ei fod yn trafod 'beirdd Cymreig America' sy'n byw ac yn cyfansoddi yn America yn arwyddocaol:

Dyma feirniad o Americanwr Cymraeg yn trafod gwaith gan feirdd Cymraeg America (a beirdd Cymraeg America'n unig) mewn papur wythnosol a gyhoeddiid yn yr Unol Daleithiau'n benodol ar gyfer Cymry America. Mewn geiriau eraill, awgryma'r 'Beirdd wrth Lathen' fod gan Gymry America eu diwylliant llenyddol eu hunain.¹⁴³

Dadleua Jerry Hunter mai John Bunnau yn 1859 yw'r cyntaf i 'gasglu, tafoli a thrafod beirdd Cymraeg yr Unol Daleithiau,'¹⁴⁴ er bod ymdrechion i'r perwyl hwn mor gynnar â'r 1830au. Dywedodd Mathiesen fod y dadeni llenyddol Americanaidd wedi ei gynnu yn ystod yr 1830au, ac wedi cyrraedd ei anterth erbyn yr 1850au, sy'n adleisio hynt y Cymry yn eu hymgyrch am annibyniaeth gelfyddydol.¹⁴⁵ Yn wir, ar drothwy'r 1850au yn 1848 cyhoeddwyd 'Fable for Critics: A Glance at a few of our literary progenies' gan Lowell a oedd yn trafod llenorion America mewn modd dychanol,¹⁴⁶ sy'n dangos fod ymagweddu dychanol i'w gael yng nghyd-destun y traddodiad llenyddol Saesneg hefyd i ddynodi'r

¹⁴³ Hunter, Jerry, 'Y Traddodiad Llenyddol Coll', t.15.

¹⁴⁴ Ibid.

¹⁴⁵ Matthiessen, F.O. (1968) *American Renaissance: art and expression in the age of Emerson and Whitman*, Oxford University Press: London.

¹⁴⁶ Rydw i'n ddiolchgar am gael astudio'r modiwl 'Poetry in America' gan yr Athro Elisa New ym mhrifysgol Harvard, a oedd yn trafod hyn.

groesffordd rhwng ei greu a'i feirniadu yn ei ffurf ddatblygedig. Mewn cyswllt â diwylliant Saesneg America hefyd ceid cyfnewid llythyrau yn trafod datblygiad y traddodiad llenyddol ar faes y wasg gyfnodol, ac mae'r darn hwn yn cynrychioli parodrwydd i gydnabod corff o lenyddiaeth a oedd yn perthyn i'r genedl a'r awydd i ystyried sut i'w wella.

Erbyn yr 1850au, roedd cenedlaetholdeb llenyddol wedi cydio'n dynn yn niwylliant America, a'r berthynas rhwng llenyddiaeth a hunaniaeth wedi cyrraedd ei hanterth wrth i leisiau newydd greu traddodiad gwreiddiol ei naws.¹⁴⁷ Yn 1838, galwad i'r beirdd ymfyddino i greu traddodiad llenyddol newydd a geir gan yr Eos, ac yn 1859 cawn fersiwn llawer mwy datblygedig o'r ymgyrch honno wrth i'r beirniad llenyddol ddefnyddio enwau barddol i gyfleu safon y beirdd, sy'n dynodi bod y traddodiad llenyddol wedi ei sefydlu ei hun yn gadarn yn niwylliant Cymry America. Mewn ysbaid o ugain mlynedd, cadarnhawyd bodolaeth llenyddiaeth Gymreig Americanaidd benodol, a chrisialwyd hynny mewn darn o feirniadaeth lenyddol ddeifiol gan rai oedd yn gyfrannog yn y diwylliant, a darllenwyr y cyhoeddiadau erbyn hyn yn gwbl hyddysg yn enwau barddol cynheiliaid diwylliant llenyddol a fyddai ar wahân.¹⁴⁸ Mae ysgrifau o'r fath yn dangos sut yr oedd y *Cyfaill* a gweddill y wasg gyfnodol yn clymu'r gwahanol 'gymunedau dehongliadol' ynghyd, ac yn pontio rhyngddynt â chynnwys y cylchgronau.

Erbyn diwedd yr 1850au roedd cyhoeddi'r *Gwyddoniadur Cymreig* hefyd yn garreg filltir hollbwysig yn natblygiad llenyddiaeth Gymraeg yn America, ac yn cynyddu'r bri a roddid ar yr iaith a'i helfennau. Roedd y *Cyfaill* yn frwd ei anogaeth i'r fenter, ac yn ysgogi aelodau'r genedl, yn enwedig ieuencid i 'fawrhau y fraint anghydmorol hon mewn llenyddiaeth Gymreig.' Rhoddai'r *Gwyddoniadur* elfen o annibyniaeth i'r Gymraeg fel nad oedd angen defnyddio'r Saesneg i dderbyn gwybodaeth:

¹⁴⁷ Hunter, Jerry, 'Y Traddodiad Llenyddol Coll', t.33.

¹⁴⁸ Hunter, Jerry, *Sons of Arthur, Children of Lincoln*, t.32. "John Bunnau was a Welsh-American critic concerned with assessing specifically Welsh-American poets on the pages of a Welsh-language newspaper published in the United States for a primarily American readership."

Ni welodd ein cenedl, oddiar gymysgedd Babel hyd yr amser presenol, y fath gynygiad a'r presenol; a dyma'r drysorfa fwyaf gyflawn, o bob math o wybodaethau, a ddarfu i ni agor ein llygaid erioed arnynt, yn ein hiaith ein hunain, nac unrhyw iaith arall. Ni fydd eisiau ar un Cymro o hyn allan, golli ei iaith ei hun, wrth chwilio am wybodaeth yn yr iaith Saesoneg. Bydd pob cangen idd ei chael yn yr iaith Gymraeg, trwy gyfrwng y Gwyddoniadur, ddim ond troi at y gair a darllen rhag blaen.¹⁴⁹

Cynrychiolai'r Gwyddoniadur ysgwydd gadarn i'r iaith Gymraeg, a fyddai'n gynhaliath i gynnrych llenyddol y Cymry yn America:

Gallaf ddweyd yn ddibetrus, na chododd yr haul erioed ar y fath gorff cyfan o bob gwybodaeth mewn un iaith yn mhlith holl lwythau Adda, yn deilwng i'w gydmaru a'r Gwyddoniadur. Dyma'r golofn gadarnaf a godwyd eto, i gynnal yr iaith Gymraeg am oes y byd . . . Ni ddylai na bardd na llenor fynd hebdo...¹⁵⁰

Erbyn y cyfnod hwn, mae perthynas agos iawn rhwng safon yr iaith a'r diwylliant llenyddol fel arwydd o draddodiad aeddfed a llewyrchus, ffaith y cyfeiriwyd ati eisoes yn y cyd-destun ieithyddol. Adlewyrchir y tirlun diwylliannol mewn ymddiddan ffuglennol rhwng Ned a Bob am Eisteddfod Utica ddydd Calan 1858, wrth iddynt drafod ei rhagoriaethau a'i chyfraniad i genedligrwydd y Cymry. Gresyna Bob dalu pris mynediad i ariannu'r beirniaid, y beirdd, y cantorion a'r llenorion, a'r plant yn unig sy'n derbyn canmoliaeth:

Bob.-O ie, a'r plant yn ca'l dim. Gadawa i Gymreg fyn'd i crogi ynte. Y peth diflusa gen i yn yr Eisteddfod oedd yr holl darllen beirniadaeth hyny. Rhai o b'le gafodd mwya' o'r arian, Ned?

Ned.-Rhai o Ohio, Pennsylvania, Tennessee, a New York, &c.

Bob.-Ha, ha! hen ffylid Sir Oneida yn rhoi'r holl arian i dynion pell am chwerthin am i pene, a gadel plant i hunen i dori calone. Ca nw ddim o dau swllt fi mwy, Ned.¹⁵¹

Mae'n amlwg bod y cymeriad 'Bob' yn cynrychioli safbwynt rhai o drigolion sir Oneida y dylid cadw'r arian 'i'w plant a'u pobol i hunen i ga'l llyfre, a dynion i'w dysgu' a rhoi'r ganmoliaeth i 'ddynion pell.' Yn gynnil drwy gyfrwng yr ymddiddan, ceisir cyfiawnhau'r drefn o roi gwobrau i drigolion cymunedau Cymreig eraill yn America, ac adroddir hanesyn

¹⁴⁹ Y Gwyddoniadur Cymreig - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ionawr 1858.

¹⁵⁰ Ibid.

¹⁵¹ Eisteddfod Utica: ymddiddan rhwng Ned a Bob - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1858.

gan Ned i'r diben hwn. Cofia Ned stori o Gymru am Cati Dafydd Domos Ifan yn cael difyrrwch gyda'i ieir, a mynega fel y mae 'hen langciau a hen langcesi' angen difyrrwch. Gweithreda'r hanesyn fel alegori i sefyllfa'r Eisteddfod, ffurf a ddefnyddid o hyd i daro'r maen i'r wal. Darlunia Ned sut y mae ceiliogod yn dwyn y bwyd gorau o badell Cati, a'r cywion yn dioddef nes i Cati adeiladu cw b i'r ieir a'r cywion, sy'n cynnig ateb i ddatrys yr amheuan am yr Eisteddfod:

...ac yn siwr, Bob, pe gadewid i'r hen geiliogod llenyddol yr Eisteddfod i fyw ar ganmoliaeth am dymhor fel yr oeddit ti yn dweyd, a chael ysgolion llenyddol yma a thraw ar hyd sir Oneida ag arian yr Eisteddfod fel cw b Cati i fagu'r plant, ti gollit ac ugeiniau o blant eraill y tafod *Yankee* yna, ac fe ddeuech yn fuan i bigo'r gwobrau o badell fawr yr Eisteddfod, cystal a neb.¹⁵²

Ymateb Bob yw yr hoffai fod yn Gymro, ond nad yw'r Ysgol Sul yn ei ddysgu i fod yn fardd neu'n llenor, ac felly bod angen moddion eraill i addysgu plant mewn 'gramer ac ysgrifenu Cymreg yn iawn' er mwyn cystadlu yn yr Eisteddfod. Gresyna Ned nad oes cyfarfodydd llenyddol iddo ef a'i gyfoedion ddysgu Cymraeg yn rheolaidd. Byddent yn cyflawni nifer o swyddogaethau ac yn cwmpasu sawl elfen o'u hunaniaeth Gymreig:

...fel y galloch fod yn athrawon defnyddiol yn yr Ysgol Sul, ac yn Feirdd a Llenorion da i wasanaethu eich cenedl trwy yr argraffwasg, ac yn areithwyr hyawdl gyd a phob achos da; a phwy a wyr na byddai llawer un o honoch yn cael eich cymwysu i'r pwlpudd, wrth adrodd eich darnau mewn cyfarfodydd llenyddol.¹⁵³

Fel ymateb i ddyhead Bob i'r plant ennill y prif wobrau yn hytrach na'r 'dynion pell hyny,' eglura Ned fod 'dynion mawr sir Oneida yn cael gwobrau o leoedd pell hefyd:'

Bob.-O, fi yn gwel'd hi nawr; ma hwy fel dau hen geffyl tad, yn cosi'u gilydd – cosa di fi, cosa ine di; gwell i ni ca'l cyfarfodydd llenyddol i Sir Oneida, a rhoi gwobrau yn y rheini; fe ddaw llai o gosi ar hen *chaps* yr Eisteddfod wedi'n, Ned.

Ned.-Boddlon wyf fi iddi fod felly, Bob, er fod yr Eisteddfod yn gwneyd llawer o les fel y mae, ond digon tebyg y gwnai cyfarfodydd llenyddol yn mhob ardal, llawer mwy o ddaioni i Ysgolion Sabbothol ac eglwysi Sir Oneida.¹⁵⁴

¹⁵² Ibid.

¹⁵³ Ibid.

¹⁵⁴ Ibid.

Mae'r ffaith fod rhai o Gymry sir Oneida yn dymuno dyfnhau doniau'r rhanbarth penodol hwn, a adlewyrchid yn y penderfyniad i gyfyngu'r cystadlu i drigolion yr ardal yn Eisteddfod Utica yn 1856 yn hytrach nag ymuno â'r rhwydwaith eisteddfodol genedlaethol ar hyd y cyfandir, yn awgrymu bod elfen leol i'w hunaniaeth yn ogystal. Wedi'r cwbl, roedd yn grud i'r presenoldeb Cymreig yn America a dyfodd yn ganolfan argraffu llenyddiaeth o bwys, a thrigai nifer o feirdd yn yr ardal.¹⁵⁵

Tra oedd yr Eisteddfod yng Nghymru yn ceisio creu beirdd o statws cenedlaethol gyda thestunau epig a haniaethol,¹⁵⁶ roedd America o bosibl yn ceisio cadw'r elfen leol o ran cenedligrwydd gan fod cymunedau ar wasgar yn America. Yn wir, roedd hyd yn oed athroniaeth Emerson o greu cenedl aruchel yn rhoi pwyslais ar gyfuno elfennau lleol i ymgyrraedd at lefel genedlaethol.¹⁵⁷

(ix) 'Anfoesoldeb a llygredigaethau.'

Perthynas ddeublyg oedd rhwng sefydliadau diwylliannol a chrefydd y Cymry. Ar y naill law, roedd y diwylliant llenyddol a'r cyfryngau a'i hybai yn deillio o'r capel, ond ar y llaw arall roedd moesoldeb y capel yn gosod ei stamp ar y gwyliau a'r dathliadau:

What we seen then is a dual process occurring in the second quarter of the nineteenth century, on the one hand, the bawdy, rough colourful and even lewd characteristics of popular Welsh cultural life are ruthlessly stamped out by the leaders of Welsh society, and on the other hand, chapel folk gradually come to accept that cultural societies and eisteddfodau were in themselves useful tools to civilise, and by the 1850s only the Methodists stood out against attending them.¹⁵⁸

¹⁵⁵ Howell, Llewelyn.D. (1860) *Traithawd ar ddechreuad a chynnydd y Cymry yn Utica a'i hamgylchoedd*. R.R.Meredith: Rome, t.24-5, "Gellir gweled oddiwrth y llyfrau, a'r nifer cyfrolau Cymreig a gyhoeddir yn y cylchoedd hyn, nad ydyw ein cenedl yn ddi-archwaeth na di-awydd am ddarllen a choethi meddwl mewn gwybodaeth a llenoriaeth Gymreig. Y mae yn y swydd hon luaws o lenorion ag sydd yn wir deilwng o'r enw a'r anrhydedd, os ydyw un ag sydd yn cael y fraind o breswyllo yn eich mysg yn gymhwys i roddi barn ar y mater. Nid rhaid eu henwi, ond gellir eu hadnabod wrth eu gweithiau cyhoeddedig."

¹⁵⁶ Lewis, Saunders (1973) *Meistri'r Canrifoedd*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.329.

¹⁵⁷ Wilson, Edmund (1956) *The Shock of Recognition: The development of literature in the United States recorded by the men who made it*, W.H.Allen: London, t.492.

¹⁵⁸ Morgan, Prys (2001) *The Tempus History of Wales*, Tempus: Gloucs, t.180.

Mor gynnar ag 1840 mewn Cymdeithasfa a gynhaliwyd gan y Trefnyddion Calфинаidd yng Nghymru, mynegir pryder am ddylanwad yr eisteddfodau ar y genedl, a chyfeirir at y sefydliad yn y penderfyniadau:

Gwnawd crybwylliad yn nghylch Eisteddfodau Cymreig. Dywedwyd ein bod yn dal at y penderfyniad sydd genym; sef, nad yw ein haelodau i fyned i'r cyffelyb gyfarfodydd, oblegid y llygredigaeth sydd yn arferol o fod ynddynt. Sylwyd nad ydym mewn un modd yn milwrio yn erbyn yr Iaith, Dysgeidiaeth a Barddoniaeth Gymreig; ond gan fod llawer o anfoesoldeb a llygredigaethau wedi bod hyd yma ynglyn a'r cyfarfodydd hyn, nid ydym yn gweled yn addas galw yn ol ein penderfyniad, hyd nes y gwelom fod diwygiad wedi cymeryd lle ynddynt.¹⁵⁹

Er iddynt gydnabod buddioldeb y cyfarfodydd i'r traddodiad llenyddol, mae'r bygythiad i gymeriad parchus achosion crefyddol yn gorbwysu cyfoeth y cynnyrch, a dilynodd y duedd hon yr ymfudwyr i America. Crefydd a moesoldeb oedd bwysicaf o hyd mewn ystyriaethau diwylliannol.¹⁶⁰ Gwelid yr un ymagweddu yng nghyd-destun dathliadau Gŵyl Ddewi a oedd yn cynnwys dawnsfeydd, yn enwedig yn ystod 1847 pan oedd y genedl yn sensitif i'w chyflwr moesol yn dilyn Brad y Llyfrau Gleision.¹⁶¹

Hydreiddiai'r ffydd yn sofraniaeth Duw gymunedau Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chredid fod 'calon dyn dan lywodraeth gair Duw,' a bod gallu dyn i greu diwylliant yn ddibynnol ar y goruchaf.¹⁶² Wrth gwrs, dyma un o gonglfeini'r meddylfryd Calфинаidd a goleddai William Rowlands. O'r herwydd, natur grefyddol oedd i'r grym diwylliannol hwn, ac yn sgil y pryderon am fuchedd y genedl a'r dyhead i achub eneidiau, ystyrid fod diddanwch yr eisteddfodau yn gwyro oddi ar y llwybr cul a osodasai Duw. Credid y dylai bywyd cymdeithasol dynion fod yn atebol i Dduw, ac y dylent gysegru eu diwylliant i efengylu ac addysgu am y ffydd er mwyn creu byd gwaraidd a oedd yn deilwng o weledigaeth yr Hollalluog. Mae'r egwyddor o arddel crefydd o flaen diwylliant yn gwau

¹⁵⁹ Eisteddfodau Cymreigyddawl ac Odyddiaeth: Cymdeithasfa y TC yn Ninbych - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Hydref 1840.

¹⁶⁰ Jones, R Tudur (1970) Rhyddiaith Grefyddol y Bedwaredd Ganrif ar bymtheg, yn Bowen Geraint (gol) *Y Traddodiad Rhyddiaith: Darlithiau Rhydychen*, Gomer: Llandysul, t.319.

¹⁶¹ Gwylmabsant Dewi. *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Gorffennaf 1847.

¹⁶² Jones, R Tudur, Rhyddiaith Grefyddol y Bedwaredd Ganrif ar bymtheg, t.328.

drwy'r traddodiad llenyddol Americanaidd yn ogystal. Er enghraifft, gwelir yr Eos yn cynghori'r bardd Gwentydd Bychan o ofalu am yr ergyd grefyddol cyn y sŵn:

Dod grefydd Gwentydd yn gyntaf - a hwyl
I'th Delyn yn nesaf;
Try fel hyn trwy y flaenaf,
Yr holl elw'n enw'i Naf.¹⁶³

Ar un llaw, gellir synio mai tila dros ben fyddai cynnyrch llenyddol y ganrif heb symbyliad crefyddol, ond ar y llaw arall llesteiriwyd creadigrwydd diwylliannol yr Eisteddfod i raddau gan gyfyngiadau moesol y cylchoedd crefyddol.

Coleddai rhai o'r Anghydfurfwyr agwedd elyniaethus tuag at yr eisteddfodau oherwydd ei chysylltiad â'r eglwys a'r meddylfryd bod 'blas rhy fydol' ar y cyfarfodydd,¹⁶⁴ er mai ei gwrthwynebwyr mwyaf pybyr oedd y Methodistiaid, a oedd wedi eu cyflyru i filwrio'n ei herbyn yn unol â chonfensiynau moesol yr enwad.¹⁶⁵ Nid gorchwyl hawdd fyddai adweithio yn erbyn y syniadaeth mai 'dyfais aflan uffern i ddal eneidiau'n ol' oedd yr 'eisteddfodau a'r *concerts*, a'u gwag chwerthiniad ffol,' ideoleg a oedd wedi ei blannu'n ddwfn yn yr isymwybod ysbrydol o ganlyniad i ferw diwygiadau crefyddol canol y ganrif.¹⁶⁶ Achub eneidiau oedd nod eu crefydd, yn hytrach nag achub yr iaith ac ymollwng i bleserau diwylliannol:

It frowned upon the wordly vanities associated with the more carefree and, in its eyes, more sinful society of old Wales. It suspected the activities of the eisteddfod and the literary and patriotic societies as providing occasions for carousing, roistering and other fleshly pursuits unbecoming the elect of God.¹⁶⁷

Cynigiai'r eisteddfodau ddihangfa oddi wrth y gyfundrefn grefyddol lem a oedd yn rhan mor ganolog o fywydau'r Cymry, a hybai'r sefydliad y ddelwedd fod angen 'gŵyl o lawen

¹⁶³ Cynghor Eos i Gwentydd Bychan - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1857.

¹⁶⁴ Richards, Melville (1968) Eisteddfod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn *Twf yr Eisteddfod: tair darlith*, Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, t.32-3.

¹⁶⁵ Jones, Pch. D. Ambrose (1922) *Llenyddiaeth a Llenorion Cymreig y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, Hugh Evans: Lerpwl, t.98.

¹⁶⁶ Edwards, Hywel Teifi, *Gŵyl Gwalia*, t.57.

¹⁶⁷ Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.140.

chwedl, gŵyl ddifyr-greadigol a roi i'r Cymry gyfle i ymryddhau o'r pruddglwyf Calфинаidd a diwyllai eu bywydau ar hyd y flwyddyn.¹⁶⁸

Yn gydnaws â'r sefyllfa yng Nghymru, defnyddid y wasg gyfnodol Gymraeg yn America i lwyfannu dadleuon a gwyntyllu pryderon parthed y gwyliau diwylliannol a'u heffaith ar fuchedd y genedl. Yn y ddwy wlad, blinid hyrwyddwyr yr ymgyrch yn erbyn yr Eisteddfod gan ddiffyg parchusrwydd y sefydliad, ac fel un o gonglfeini hunaniaeth Gymreig, syniai'r cymwynaswyr hyn yn aml fod 'caritor cenedl y Cymry' i'w ddiffinio yn ôl 'caritor' yr Eisteddfod.¹⁶⁹ Roedd agendor enfawr rhwng y sawl a goleddai ei llesoldeb i fywyd diwylliannol yr hen wlad a'r iaith, a'r garfan grefyddol geidwadol a ddirmygai yr hyn a ystyrient fel yr elfen lygredig yn ei chyfansoddiad.

Wrth i'r *Cyfaill* wasanaethu enwad y Methodistiaid yn gynyddol erbyn yr 1850au, daw'n gyfrwng amlycach na'r cyfnodolion eraill i fynegi pryder am y berthynas rhwng crefydd a chelfyddyd, a hynny gan ddefnyddio dadleuon athrawiaethol. Mae awdur a'i geilw ei hun, yn arwyddocaol, yn 'Cydwibod Dyner', yn gweld yr eisteddfodau fel bygythiad i ymarweddiad parchus y genedl:

Yr wyf yn cael fy mhoeni yn fawr y dyddiau hyn yn nghylch y cyfarfodydd yr arferai y Methodistiaid Calфинаidd yn Nghymru a Lloegr eu hystyried yn gyfarfodydd rhy lygredig i oddef eu haelodau beryglu eu hiachawdwriaeth trwy fyned iddynt; a charwn gael gwybod pa un ai eu tywyllwch hwy yn gwrthod goddef hyny, ai ynte ein tywyllwch ni, nid yn unig yn ei oddef, ond trwy esiamplau ein pregethwyr a'n gweinidogion, yn cymhell ereill i'r cyfryw leoedd, yw yr achos o'r gwahaniaeth?¹⁷⁰

Teimla ddyletswydd arno wrthwynebu'r ddwy ddefod ddiwylliannol gan ddilyn fframwaith moesol enwad y Methodistiaid Calфинаidd. Mae'r arferiad o gystadlu am wobrau ariannol yn wrthun iddo, fel nifer o Gymry America, ac yn croesi'r ffin rhwng y sanctaidd a'r bydol:

Am yr Eisteddfodau.....O'm rhan i nid wyf yn gallu gweled ond cam bychan iawn rhwng y cyfarfodydd hyn a'r chwareudy, ac y mae yn dra sicr genyf am y dylanwadau sancteiddiol a ddylai fod yn brif ddyben fy ymgyrch i bob cynnulliad, nas gallai fod

¹⁶⁸ Edwards, Hywel Teifi, *Gŵyl Gwalia*, t.386.

¹⁶⁹ Ibid, t.53.

¹⁷⁰ Gwylmabsantau ac Eisteddfodau (Cydwibod Dyner) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1854.

yn ddim llai, os can lleied, yn syllu ar un o chwareuon addysgiadol y doeth Shakespeare, ac yn syllu ar gydymdrechion amrysongar enwogion yr Eisteddfod, neu wrando ymffrost cenedlaethol ffol yr Wylmabsant.¹⁷¹

Mae awdur a'i geilw ei hun yn Jeremiah hefyd yn gwrthwynebu'r eisteddfodau a'r cyfarfodydd cystadleuol gan eu bod yn magu 'cynen a gwag-ogoniant.'¹⁷²

I rai, crefydd a moesoldeb oedd y mynegiant praffaf o wladgarwch y Cymry, a chwmpasent nodweddion euraid eu hunaniaeth fel yn yr hen wlad. I'r garfan hon, yr ymwybyddiaeth ddofn o foesoldeb ac argyhoeddiad ysbrydol dwys a rannent gydag aelodau'r genedl oedd conglfeini eu cenedligrwydd, ac roedd yn brawf mwy cynnil o'u hunaniaeth nag 'ymffrost cenedlaethol' cyhoeddus yr eisteddfodau a gwleddoedd Gŵyl Ddewi.

Serch hynny, credai rhai o arweinwyr mwyaf brwd y diwylliant eisteddfodol a rhai oedd hefyd yn grefyddwyr mawr, megis y bardd a'r beirniad Eos Glan Twrch, fod yr Eisteddfod yn fodd i ddiwyllio'r genedl, a chael 'moesau yn Gymraeg.'¹⁷³ Yn wahanol i'r sawl a danlinellai ei niwed i gyflwr ysbrydol y genedl, gwêl yr Eos foesoldeb y Cymry drwy lygaid diwylliant. Iddo ef, mae elwa ar ddiwylliant drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn America yn gyfystyr â sicrhau cymdeithas wâr ar gyfer ei genedl, ac o'r herwydd mae'n annog ei gyd-genedl i gefnogi Eisteddfod Utica drwy ei chanmol yn uchel.

Yr un pryderon sy'n ddraenen yn ystlys gwasg gyfnodol Cymru, wrth i Gymro a elwir yn 'Anti-Humbug' gyflwyno ysgrif o'r *Amserau*, 'mor hynod o gymhwysiadol i ryw ddsbarth o'n cenedl, mewn amrai fanau o'r Taleithiau Unedig, yn eu Gwylmabsantau a'u Heisteddfodau.' Teimla y byddai cyhoeddi ysgrif am ffolineb Cymry Llundain yn eu dathliadau Gŵyl Ddewi o les moesol i'r Cymry yn America, a dengys hyn y gorgyffwrdd rhwng pynciau llosg y ddwy wlad.¹⁷⁴

¹⁷¹ Ibid.

¹⁷² Y Byd a'r Eglwys (Jeremiah) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Chwefror 1856.

¹⁷³ *Y Drych*, Mawrth 15 1856.

¹⁷⁴ Dydd Gwyl Dewi Sant (E.Ellis) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mehefin 1855.

Eto i gyd, yr eironi mwyaf yw fod y cyfrwng diddanwch hwn yn deillio o fywyd cymdeithasol y capeli, ac yn ddatblygiad o'r cyfarfodydd llenyddol a gynhelid ynddynt. Yn wir, darparodd y peuoedd crefyddol rwydweithiau parod o gyfranwyr a darllenwyr i'r Eisteddfod a'i diwylliant llenyddol yn amgylchfyd Cymreig yr Unol Daleithiau.¹⁷⁵ Yng Nghymru, ychydig o sylw a roddid i weithgareddau'r cymdeithasau a'r cyfarfodydd cystadleuol yn y cyfnodolion enwadol ar wahân i *Seren Gomer* yn rhan gyntaf y ganrif,¹⁷⁶ Dengys hyn fod y *Cyfaill* yn ceisio apelio'n eang, er gwaethaf gwrthwynebiad enwad y golygydd i effeithiau'r eisteddfodau.

Er gwaethaf y pryderon am bleserau bydol yr Eisteddfod, canlyniad Brad y Llyfrau Gleision yn y pendraw oedd uno egnion y Cymry i wella delwedd y genedl, a daeth celfyddyd yn rhan o ddiwylliant y capel. Yn raddol, daethai gweinidogion yr enwadau Ymneilltuol eraill i gymryd rhan yn yr Eisteddfod, er mai'r Methodistiaid Calфинаidd oedd y mwyaf ymarhous i'w chroesawu.¹⁷⁷

Canlyniad cysylltu'r capel â'r Eisteddfod oedd y swmp o lenyddiaeth o natur grefyddol a ddeilliodd o'i chrombil, ac, yn unol â hinsawdd grefyddol ddwys y cyfnod, testunau ysgrythyrol a moesol a osodid gan y sefydliadau diwylliannol yn amlach na pheidio, yn ogystal â rhai hanesyddol neu addysgiadol.¹⁷⁸ Canwyd cerddi maith ar bynciau Beiblaidd, adnodau a thestunau haniaethol megis gwirionedd, elusengarwch, a dedwyddyd, testunau a fyddai'n darparu rhyw fath o foeswers i dywys yr eneidiau colledig yn ôl i'r gorlan.¹⁷⁹ Er y ddeunawfed ganrif, defnyddiwyd llenyddiaeth i'r diben o buro eneidiau gan y

¹⁷⁵ Hunter, Jerry, *Sons of Arthur, Children of Lincoln*, t.16.

¹⁷⁶ Walters, Huw (1999) *Y Gymraeg a'r Wasg Gylchgronol*, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.333.

¹⁷⁷ Jones, T.Gwynn (1920) *Llenyddiaeth Gymreig y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg: Llawlyfr at wasanaeth darllenwyr*, Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig: Caernarfon, t.33.

¹⁷⁸ Edwards, Hywel Teifi, *Gŵyl Gwalia*, t.169-70.

¹⁷⁹ Richards, Melville (1968) *Eisteddfod y bedwaredd ganrif ar bymtheg*, yn *Twf yr Eisteddfod: tair darlith*, Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, t.40-1. Hefyd gw. Jones, T.Gwynn (1920) *Llenyddiaeth Gymreig y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg: Llawlyfr at wasanaeth darllenwyr*, Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig: Caernarfon, t.33; Jones, Pch. D. Ambrose (1922) *Llenyddiaeth a Llenorion Cymreig y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, Hugh Evans: Lerpwl, t.30.

Methodistiaid,¹⁸⁰ ac yn gyffredinol defnyddiai'r enwadau Anghydfurfiol y cyfrwng print yn helaeth i genhadu.

Yn wir, roedd y deunydd a gyfansoddid yn yr eisteddfodau ar destunau crefyddol yn rhan o'r gronfa enfawr o lenyddiaeth ysgrythyrol a gynhyrchid yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn sgil y ffrwydrad mewn deunydd print a oedd yn un o ddatblygiadau mwyaf y ganrif. Crefydd oedd canolfur y diwylliant llenyddol yng Nghymru ac America yn gymdeithasol ac mewn print, a'r toreh o lenyddiaeth o natur grefyddol yn adlewyrchu'r argyhoeddiad ysbrydol dwys a oedd wedi meddiannu cyfran sylweddol o Gymry'r cyfnod,¹⁸¹ er nad oedd ei sylwedd yn arbennig o aruchel ym marn rhai ysgolheigion:

What Wales experienced in the nineteenth century was a series of religious revivals which had sanitized its literature, without enriching the literary life of the country in a broad sense.¹⁸²

Creda nifer o ysgolheigion mai ychydig iawn o berlau a geir yn nhraddodiad llenyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan fod cysgod moesoldeb yn drwm ar ei fywiogrwydd. Er gwaethaf eu hymdrechion i gynnal safon, barna Thomas Parry nad oedd yr holl ddadlau dros bynciau haniaethol ac athrawiaeth yn llesol i gymeriad llenyddol y genedl:

Rhwng y dadlau caled a'r pregethu hyfforddiadol ni chaniateid i neb yr hamdden i ysgrifennu rhyddiaith goeth.¹⁸³

Tra oedd y Cymry'n dewis parhau'n deyrngar i un o gonglfeini eu hunaniaeth yn yr hen wlad, roedd llenyddiaeth Saesneg yr Americanwyr yn fwy anturus, gan mai dim ond 20% o'u

¹⁸⁰ Morgan, Derec Llwyd (1970) *Rhyddiaith Pantycelyn*, yn (gol) *Y Traddodiad Rhyddiaith: Darlithiau Rhydychen*, Gomer: Llandysul.

¹⁸¹ Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.141. Hefyd gw. Berthoff, Rowland (1980) *Welsh*, yn (gol) Thernstrom, Stephan & Orlov, Ann, *Harvard Encyclopedia of American Ethnic Groups*. Harvard University Press: Cambridge, Mass - deunydd o natur grefyddol e.e. llyfrau emynau, traethodau diwinyddol a phregethau oedd i gyfrif am gyfran sylweddol o'r 100 o lyfrau neu bamffledi a gyhoeddwyd gan Gymry America erbyn 1870; Coupland, Sir Reginald (1954) *Welsh and Scottish Nationalism: A Study*, Collins: London, t.204.

¹⁸² Davies, Russell (2005) *Hope and Heartbreak: A Social History of Wales and the Welsh, 1776-1871*, University of Wales Press: Cardiff, t.348. Hefyd gw. Jones, Bobi (1991) *Yr Hen Ganrif*, Yr Academi Gymreig: Caerdydd, t.7.

¹⁸³ Parry, Thomas (1944) *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.230.

ffuglen rhwng 1831-60 oedd yn ymdrin â phynciau domestig neu grefyddol,¹⁸⁴ ac nid cyddigwyddiad yw y cydnabyddir mawredd y llenorion hyn yn nhraddodiad y cyfandir heddiw. Ar y llaw arall, yng nghyd-destun llenyddiaeth Gymraeg, ystyrir y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn anghyson ei safonau yn ôl beirniadaeth gyfoes, er ei bod yn nodedig o gynhyrchiol.¹⁸⁵

(x) Llenyddiaeth grefyddol.

Eto i gyd, roedd crefydd yn asgwrn cefn i'r diwylliant Cymreig mewn modd annuniongyrchol, a thila iawn fyddai cynnrych llenyddol y ganrif heb y sêl grefyddol:

Defnyddient yr iaith mewn modd llai hunanymwybodol nag a wnaethai'r ysgolheigion a'r gwladgarwyr, ac os cul a chwannog i foesoli oedd y diwylliant a luniwyd ganddynt, diwylliant Cymraeg ydoedd ac yr oedd toreth ohono.¹⁸⁶

Er bod cangen fwy ceidwadol y garfan Anghydfurfiol yn gwgu ar ffuglen fel cyfrwng anfoesol,¹⁸⁷ roedd yr egni a chwistrellwyd i'r gymdeithas Gymraeg o ganlyniad i grefydd yn esgor ar lu o fanteision diwylliannol. Canlyniad y bwrlwm crefyddol oedd twf aruthrol yn nifer y capeli, yr Ysgolion Sul a llythrennedd, ac arweiniodd y dyfeisgarwch hwn at ffurfio sefydliadau diwylliannol a oedd yn awchu am ymborth llenyddol, a'r misolion crefyddol yn eu plith:

¹⁸⁴ Reynolds, David.S. (1995) From periodical writer to poet: Whitman's journey through popular culture, yn (gol) Price, K & Smith, Susan, *Periodical Literature in Nineteenth Century America*, Virginia University Press: London, t.36.

¹⁸⁵ Morgan, Dyfnallt (1968) *Gwŷr llên y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'u cefndir*, Christopher Davies: Llandybie, t.7. Hefyd gw. Johnston, Dafydd, *A Pocket Guide*, t.70; Edwards, Hywel Teifi (2000) Victorian Stocktaking, yn yn (gol) *A Guide to Welsh Literature c.1800-1900*, University of Wales Press: Cardiff, t.210.

¹⁸⁶ Davies, John (2007) *Hanes Cymru*, Penguin Books: London, t.313. Hefyd gw. Roberts, Parchedig Gomer Morgan (1973) *Hanes Methodistiaeth Galffinaidd Cymru: cyfrol 1, Y Deffroad Mawr*, Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd: Caernarfon. Mae'n trafod y defnydd o lenyddiaeth foesol gan y Methodistiaid fel y prif ddull o achub eneidiau. Y dylanwad mwyaf i'r perwyl hwn yn nhyb yr awdur oedd dosbarthu llyfrau a phamffledi yn rhan, a fyddai hefyd yn addysgu'r genedl; Jones, Philip Henry (1999) Argraffu a Chyhoeddi yn yr Iaith Gymraeg 1800-1914, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr Iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.

¹⁸⁷ Johnston, Dafydd, *A Pocket Guide*, t.75.

O ganlyniad i'r gweithgarwch hwn, cododd cenhedlaeth newydd o bobl a gai flas ar ddarllen llyfrau a chylchgronau Cymraeg a chyfrannu barddoniaeth, llythyrau ac erthyglau iddynt.¹⁸⁸

Mae'n wir mai ychydig iawn o ddeunydd ysgafn a welid yng nghynnwys y cylchgronau crefyddol yn sgil y gred fod nofelau a straeon yn wastraff amser pe na baent yn moli Duw,¹⁸⁹ ond mae'n rhaid cydnabod hefyd eu cyfraniad i ffuglen a chreadigrwydd y Cymry.

Mae misolion megis y *Cyfaill* yn dyst i wedd Gymreig y berw ysbrydol a nodweddi'r ganrif, ac er ei fod yn amcanu i ddiwallu anghenion Cymry America yng ngwahanol agweddau eu bywydau, cyflwyno deunydd o natur grefyddol oedd ei brif nod.

Er gwaethaf negyddiaeth Davies tuag at gyfraniad crefydd i lenyddiaeth y Cymry, defnyddid dulliau amrywiol i gyfleu hanfodion crefydd. Blaenoriaeth y golygyddion o ran cynnwys y cylchgronau oedd pregethau ac ysgrifau neu draethodau ar bynciau diwinyddol a rhinweddau moesol yr unigolyn. Yr hyn sy'n rhoi cnawd am esgyrn sychion y traethu maith yw'r ffurfiau llenyddol a ddewisir i gyfleu'r efengyl mewn dull amgen i'r arddull bregethwrol a duwiol a nodweddi lenyddiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg i raddau helaeth. Er bod Jones yn tanlinellu'r defnydd o lenyddiaeth i ddibenion buddiol ac addysgiadol yn unig,¹⁹⁰ mae'r amrywiaeth o ffurfiau a welir yn lenyddiaeth Gymraeg America yn tystio i'w creadigrwydd. Roedd Rhamantiaeth, fel un o'r prif ddylanwadau ar arddull lenyddol Cymry'r cyfnod, yn ddelfrydol i'r Methodistiaid yn enwedig er mwyn atgyfnerthu apêl at galon a theimladau'r werin.¹⁹¹

Un o'r ffurfiau mwyaf poblogaidd oedd 'hanesynau' yn gweithredu fel dameg neu wers foesol, ac yn cynnig ychydig o ysgafnder ynghanol yr athronyddu. Roedd 'holwyddoreg' yn cyfnewid gofyniadau ac atebion yn dechneg addas i ddod â'r sefyllfa'n

¹⁸⁸ Jones, R Tudur, Rhyddiaith Grefyddol y Bedwaredd Ganrif ar bymtheg, t.320.

¹⁸⁹ Evans, Paul De Mund (1914) *The Welsh in Oneida County, New York*, Thesis MA heb ei gyhoeddi: Prifysgol Cornell.

¹⁹⁰ Jones, R. Tudur, Rhyddiaith Grefyddol y Bedwaredd Ganrif ar bymtheg, t.12.

¹⁹¹ Roberts, Parchedig John (1934) *The Calvinistic Methodism of Wales*, Llyfrfa'r Cyfundeb: Caernarfon, t.70; Roberts, Parchedig John (1931) *Methodistiaeth Galffinaidd Cymru: ymgais at athroniaeth ei hanes*, Darlith Davies 1930, Foyle: Llundain.

fyw i'r darlennydd, ond defnyddiwyd ffurf yr ymddiddan yn helaeth i gyfleu'r neges grefyddol mewn dull mwy deinamig, er enghraifft deialog ar wahanol bynciau crefyddol rhwng 'Shon y blaenor a Shan ei wraig' mewn cyfres yn 1857. Treiddia'r ffurf hon i'r adran farddoniaeth yn ogystal, a llwyfannir dadleuon dychmygol rhwng cymeriadau megis 'Mr Alcohol' a 'Mr Dirwest' i amlinellu'r neges yn huawdl.¹⁹² Mewn llwyr gyferbyniad â'r traethodau hirion a sychion, cyflwynir darnau byrion, dywediadau ac ymadroddion er mwyn hwyluso'r treulio ar y deunydd trwm, a ffurfiau megis trioedd a rhestrau byr hefyd yn ysgafnhau'r llwyth.

Erys dyfeisgarwch y cyfranwyr llenyddol i'r cyfnodolion yn eu gallu i drafod pynciau o bwys mewn ffuglen lenyddol ac mewn naratif bywiog sy'n aros yng nghof y darlennydd. Yn aml, defnyddir cymeriadau gydag enwau tebyg i gryfhau'r llinyn storïol ac apelio at y darlennydd, megis 'Morys a Malen,' lle gorwedd y wers foesol yng ngrym y darlun o'u sefyllfa wrth i'r ddau beidio â mynychu'r addoliad ar ôl bod yn y dafarn ar nos Sadwrn.¹⁹³ Defnyddir cynghorion neu gyfarwyddyd yn aml i wthio'r darllenwyr ar y llwybr cywir, megis 'Y ffordd i ddewis gwraig,'¹⁹⁴ ond profa'r 'chwedlau' yn fwy effeithiol drwy greu portread o gig a gwaed yn hytrach na phregethu. Yn aml, cyfieithir y straeon hyn o gyhoeddiadau Saesneg, neu fe'u tynnir o gyfnodolion Cymru, a ddengys ymroddiad y golygydd i drosglwyddo maeth crefyddol i'r Cymry o wahanol ffynonellau.

Cyfrennir nifer o lythyrau i'r *Cyfaill* sy'n rhoi sylwadau ar grefydd, neu'n darlunio'r achos yn nhreflannau Cymreig America a'r hen wlad er mwyn goleuo'r genedl. Mae'r toreth hwn o gynnyrch llenyddol yn y *Cyfaill* yn tystio i bwysigrwydd llenyddiaeth fel cyfrwng mynegiant i'r efengyl, a'r gwahanol ffurfiau a ddefnyddir yn amrywio'r neges er mwyn cryfhau'r effaith ar y darllenwyr. I'r Methodistiaid Calфинаidd yn arbennig, bu'r briodas rhwng crefydd a'r diwylliant print yn un ffrwythlon o'r dechrau, gan fod llenyddia a

¹⁹² *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1838.

¹⁹³ *Y Cwrdd ar y Saboth - Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Awst 1839.

¹⁹⁴ *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Tachwedd 1841.

chyhoeddi yn ddull dihafal i ledaenu'r efengyl drwy rym geiriau ac adnoddau ieithyddol cyfoethog.¹⁹⁵

Roedd William Rowlands hefyd yn cynrychioli'r berthynas baradocsaid rhwng crefydd a diwylliant. Fel un o weinidogion ceidwadol y Methodistiaid, lleisiai ei farn yn gryf yn erbyn manteisio ar y dathliadau cyhoeddus i yfed alcohol, a rhybuddiai rhag 'gwag-ogoniant,' twyll a 'checrus ddadleuon' yr eisteddfodau a oedd yn niweidiol i 'lwyddiant Cristionogaeth bur.' Eto, bu iddo gyhoeddi eu gweithrediadau.¹⁹⁶ Credai Rowlands yng ngrym celfyddyd i'r diben o wasanaethu Duw yn unig, a gwelir hynny yn ei gynnyrch toreithiog fel llenor. Serch hynny, er nad oedd yn cymeradwyo ysgafnder yn ormodol, credai fod barddoniaeth yn cynnig difyrrwch, a oedd yn gyfrwng delfrydol i gyflwyno'r neges.¹⁹⁷

Yn fwy na hynny, er na chydiodd y nofel fel genre yn y traddodiad llenyddol Cymraeg am gyfnod hir yn sgil y rhagfarn Anghydfurfiol yn ei herbyn,¹⁹⁸ mae'r ffaith i William Rowlands a Robert Everett gyhoeddi *Uncle Tom's Cabin* ar ffurf cyfres yn awgrymu eu bod yn croesawu ffuglen mewn amgylchiadau a oedd yn gofyn am ddiwygiad moesol:

Ar ôl Brad y Llyfrau Gleision a'r ymdrechion diwygiadol y dechreuwyd arnynt gan y Rhyddfrydiaeth newydd i ddihuno gwerin grefyddol Cymru a rhoi iddi nod ac amcan, roedd ymddangosiad 'Uncle Tom's Cabin' yn amserol iawn. Yn y llyfr hwn tafluniwyd egwyddorion y ddadl Gymreig yn erbyn cefndir ehangach ac mewn termau nad oedd modd eu gwrthod.¹⁹⁹

Mae'r ffaith i Gwilym Hiraethog hefyd gyhoeddi addasiad yn yr *Amserau* yng Nghymru yn 1853, a agorodd y drws i ddefnydd cyson o'r 'ffugchwedl' yn y wasg gyfnodol Gymraeg o hynny ymlaen, yn awgrymu bod golygyddion Cymraeg America ar flaen y gad yn y garreg filltir hon yn y traddodiad llenyddol:

¹⁹⁵ Roberts, Parchedig Gomer Morgan (1973) *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru: cyfrol 1, Y Deffroad Mawr*, Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd: Caernarfon, pennod 12.

¹⁹⁶ Thomas, R.D. (1872) *Hanes Cymry America*, T.J.Griffiths: Utica, rhan 3, t.176.

¹⁹⁷ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*.

¹⁹⁸ Parry, Thomas (1948) *Hanes ein Llên*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.83.

¹⁹⁹ Williams, Ioan (1989) *Capel a Chomin: Astudiaeth o Ffugchwedlau y pedwar llenor Fictoriaidd*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.31.

Bu golygyddion papurau newydd, felly, yn gymorth i gyfreithloni ffuglen ac i ymgorffori ffurfiau diwylliannol newydd megis y nofel ym mhrif ffrwd llenyddiaeth gydnabyddedig.²⁰⁰

Nid proses unffordd yn unig, felly, oedd y dylanwadau hyn ar y traddodiad llenyddol Cymraeg ar draws yr Iwerydd, a gellid dadlau bod y weithred yn America wedi ysbrydoli'r nofel gylchgronol yng Nghymru. Mae'n bosibl hefyd fod gwasg Saesneg America wedi dylanwadu ar William Rowlands yn hyn o beth, wrth i nofelwyr fel Melville gymryd rhan mewn dadleuon am athrawiaeth mewn cyfnodolion megis y *Christian Examiner* a'r *Christian Register*,²⁰¹ ffaith a ddengys bod modd i ryddiaith ddychmygus a chrefydd ddifrifol gyd-fyw.

(xi) Safoni: yr 1860au.

Nid yw'n syndod bod William Rowlands yn cael ei ddewis i fod yn rhan o'r ymgyrch yn 1866 i safoni'r iaith er lles y diwylliant llenyddol yn sgil ei gyfraniad i'w thwf:

Nid oes dim y gallai yr Eisteddfod Genedlaethol hynodi ei chychwyniad gymaint, ac ar yr un pryd lesoli Llenyddiaeth Gymreig, a thrwy fod yn offerynol i sefydlu Safon Llythyreniaeth yr Iaith Gymraeg. Ac ni bu erioed adeg mor ffafriol i gyflawni y gorchwyl gwir angenrheidiol hwn a'r un bresenol.²⁰²

Yn ddiddorol iawn, ceir ysgrif yn y *Drych* sy'n nodi y byddai'n rhwyddach cyflawni'r orchwyl yn America yn hytrach nag yng Nghymru, a'r personau cyntaf a awgrymir ar gyfer y gwaith yw golygyddion y cyfnodolion:

Gan nad oes ond ychydig yn dilyn y gwaith o argraffu a chyhoeddi cyhoeddiadau a llyfrau yma, gellid meddwl y byddent oll yn foddolawn i gyduno ar Llythyreniaeth a sefydliad gan, dywedwn, bump o ddynion cyfaddas i'r gwaith, wedi eu pennodi gan 'lais y wlad' trwy offerynoliaeth yr Eisteddfod Genedlaethol.²⁰³

²⁰⁰ Jones, Aled (1999) Yr Iaith Gymraeg a Newyddiaduraeth, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.368-9. Hefyd gw. Rhys, Robert (1999) 'Llenyddiaeth Gymraeg y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', t.265; Millward, E.G. (1991) *Cenedl o Bobl Ddewrion: Agweddau ar Lenyddiaeth Oes Victoria*, Gomer: Llandysul, t.91; Morgan, Dyfnallt, *Gwyr llên y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'u cefndir*, t.246.

²⁰¹ New, Elisa, 'Bible Leaves! Bible Leaves! Hellenism and Hebraism in Melville's *Moby Dick*,' *Offprint from Poetics Today*, Duke University Press.

²⁰² Safon Llythyreniaeth yr iaith Gymraeg - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1866.

²⁰³ Ibid.

Yn wir, mae damcaniaeth King a Plunkett am swyddogaeth luosog awduron (*modes of authorship*) yn ddefnyddiol i drafod golygyddion y wasg gyfnodol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan na ellir eu gosod mewn categori taclus. Gellir eu disgrifio fel golygyddion, beirniaid llenyddol, llenorion, newyddiadurwyr, cyhoeddwyr, ac yn achos William Rowlands gyda'i ffugenwau – fel gohebydd - sy'n dangos eu bod yn hyddysg mewn amrywiaeth o ffurfiau llenyddol, yr hyn a elwir gan Foucault yn '*author-functions*.'²⁰⁴ Byddent felly'n gyfrifol am addasu'r berthynas rhwng y testun a'r gwahanol 'gymunedau dehongliadol' yn ôl gofynion y gynulleidfa, ac felly fe'u hystyrir yn addas ar gyfer y gwaith o safoni fel cymwynaswyr yr iaith a'r traddodiad llenyddol:

oblegid mae y Dr. Rowlands, Dr. Everett, Mr. Robert Richards, New York, a Gwyneddfardd, yn meddu ar cymhwysderau angenrheidiol, a gellid dewis y lleill o blith llenorion mwyaf cymhwys at y gwaith.²⁰⁵

Dengys hyn felly fod William Rowlands a Robert Everett yn cael eu hystyried yn olygyddion Cymraeg profiadol, ac yn ddau o gewri'r diwylliant llenyddol. Rhoddodd eu profiad gyda'r wasg Gymraeg gymwysterau iddynt ymgymryd â'r dasg, ac felly fe'u hystyrir gan ddarllenwyr o blith Cymry America yn brif cymwynaswyr yr iaith a gwarchodwyr eu hetifeddaeth lenyddol. Pan nad oedd eu hathrawiaeth yn gwrthdaro felly yn y cyd-destun crefyddol a gwleidyddol, gwelir fod y golygyddion yn cydweithio er lles y genedl mewn materion diwylliannol ac ieithyddol.

²⁰⁴ King, Andrew & Plunkett, John (2005) *Victorian Print Media: A Reader*, Oxford University Press, t.166.

²⁰⁵ Safon Llythyreniaeth yr iaith Gymraeg - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1866.

Pennod 7: 'TRA MÔR TRA BRYTHON?'

Lladai,* y 'Cyfaill ydwyd – praw' odiaeth,
 Priodol y'th enwyd;
 Cofia llu mai Cyfaill wyt,
 Ba ryfedd? Ti a brofwyd.¹

Mae'r englyn hwn gan y bardd adnabyddus Llinos Glan Ohio yn nodweddiadol o'r math o ganmoliaeth a fynegwyd am y *Cyfaill* ar ei dudalennau gan sawl ffynhonnell. Adlewyrcha hyn fel y câi ei ystyried gan nifer yn gydymaith printiedig i'r ymfudwr Cymraeg yn America yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r cerddi hyn yn enghreifftiau o'r modd y defnyddiwyd llenyddiaeth yn greadigol i ymateb i gyfrwng llenyddol y wasg gyfnodol, ac effaith ei wasanaeth fel arloeswr gwasg Gymraeg America, gwasanaeth nad aeth yn angof ym meddyliau'r Cymry:

Y fe oedd y Cymro a welais i gynta;
 Oedd werth i mi siarad ar dir yr America.

Wyth mlynedd a chwaneg sydd oddiar hyny,
 Pan nad oedd ond ei hunan drwy'r wlad hon yn tramwy;
 A mawr oedd y siarad - pob pentwr o Gymry-
 Wrth wel'd y fath Gyfaill yn do'd i'w dyfyru.²

Adleisir y gri fod y cyhoeddiad yn 'gyfaill i Gymro' gan nifer o feirdd wrth i sawl llenor chwarae ag arwyddocâd y teitl i fynegi eu teimladau tuag at y cyfnodolyn, gan hefyd ei ddisgrifio fel 'gwladwr,' aelod o'r genedl a gyflwynir i'w plith.

I ba raddau, felly, yr oedd y *Cyfaill* yn driw i arwyddocâd ei deitl ac yn cyfrannu at hunaniaeth y Cymry fel rhan o wasg gyfnodol y gymuned ddiasporaidd yn y cyfnod?

¹ Englyn i'r Cyfaill (Llinos Glan Ohio) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Medi 1846. *bearer of favors.

² Pennillion wrth dderbyn y *Cyfaill* yn ei hen ddull cyntefig (Ab Gwilym, Pitts) – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1846.

(i) Dylanwad y wasg.

Mae defnyddio'r wasg gyfnodol i asesu hunaniaeth cenedl yn codi nifer o gwestiynau am ei dilysrwydd fel ffynhonnell ddibynadwy. Er bod nifer o elfennau sy'n ymwneud â chenedligrwydd yn cael eu cynrychioli trwy gyfrwng y wasg, erys natur y dasg o gynnig diffiniad pendant yn anodd yn sgil y myrdd o ddehongliadau posibl, ac felly mae'r ymchwil hwn yn rhan o'r dasg o ddadlau a chwestiynu er mwyn gwthio'r maes ymhellach yn raddol.³

Amhosib fyddai cyffredinolli beth oedd union ddylanwad y cyfnodolion yn America, ond o ystyried profiadau ymfudwyr eraill, gellid dweud gyda chryn sicrwydd eu bod yn rhan weladwy o'u diwylliant yn y cyfnod mewn cydweithrediad â'r sefydliadau eraill. Yng ngeiriau Roberts, roeddent yn fynegiant o ymateb y cyhoedd i ddigwyddiadau a datblygiadau'r oes (*'barometer of public concern and interests.'*)⁴ Yn hyn o beth, mae'r wasg yn symbol o amrywiaeth ideolegol y genedl ynghyd â'r ymgyrch i'w hail-ddiffinio ei hun mewn amgylchfyd newydd. Yn ôl T. M. Jones a ysgrifennai ar ddiwedd y bedwaredd ar ganrif ar bymtheg, roedd y cyfnodolion yn 'gyfryngau effeithiol i gynhyrchu a meithrin y teimlad cenedlaethol,' a'r modd yr oedd y wasg yn cael ei llywio yn 'arwydd o osgo y genedl.'⁵

Bu defnyddio fframwaith ddamcaniaethol o ystyried y genedl fel cymuned yn sylfaen hanfodol i'r astudiaeth, yn arbennig y cysyniadau modernaidd a oedd yn archwilio

³ Lawrence, Paul (2005) *Nationalism: History and Theory*, Pearson & Longman: London. t.1: "Because of the many kinds of national self that present themselves in practice (a natural result of the multifaceted nature of the nation), nationalist doctrine has been attacked as logically contradictory and incoherent. The indeterminacy of national criteria and their vague, shifting, often arbitrary character in the writings of nationalists have undermined the ideology's credibility, even where respect has been accorded to individual nationalist propositions such as the idea of cultural diversity. At best the idea of the nation has appeared sketchy and elusive, at worst absurd and contradictory." Hefyd gw. Smith, Anthony (1991) *National Identity*, Penguin: London, t.17: "Often, definitive answers have seemed within reach, only to fade from view with the arrival of fresh evidence or the advent of newer, seemingly more sophisticated theories."

⁴ Roberts, Brynley F. (1990) 'Welsh Periodicals: A Survey.' in (ed) Brake, Laurel & Jones, Aled & Madden, Lionel, *Investigating Victorian Journalism*, Macmillan: Hampshire, t.71.

⁵ Jones, T. M. (1893) *Llenyddiaeth fy ngwlad*, P. M. Evans: Treffynnon, t.219 a t.182.

cymhlethdod perthyn i wahanol gymunedau, sy'n agor llu o bosibliadau i ehangu'r ideoleg.⁶ Yn fwy na hynny, roedd y ddealltwriaeth o hunaniaeth fel creadigaeth naturiol yn cynnig rhyddid i archwilio'r modd y cyplyswyd yr hen a'r newydd mewn ymgyrch ymwybodol i ail-ddiffinio cymuned ystyrion ar wahanol haenau.

Heb diriogaeth na gwladwriaeth, roedd y genedl yn ffynnu ar lefel haniaethol yn unig yn America, ond roedd y cysyniad o gymdeithas ddychmygol yn dilysu'r teimlad o berthyn gan fod y fersiwn diwygiedig o hunaniaeth Cymry America yn ymgorffori elfennau o ddiwylliant Cymru ac America - elfen a oedd yn seiliedig ar realiti eu ffordd o fyw. Yn hyn o beth, roedd y disgwrs yn dehongli ac yn ailgylchu ystyrion crefyddol, gwleidyddol, ieithyddol a llenyddol ar ran y gymdeithas, a oedd yn hanfodol i ffurfio hunaniaeth ar ei newydd wedd. Roedd America hyd yn oed yn dibynnu ar rethreg i ffurfio cysyniad o'r genedl, 'a nation made of words.'⁷

Fodd bynnag, mae'n rhaid cofio mai cyfran fechan o gymdeithas Cymry America yr oedd y wasg brint yn ei gwasanaethu mewn gwirionedd:

...largely consists of the opinions of those who set the norms of Welsh-American life and who were most active in interpreting their Welshness and nurturing a consciousness of it.⁸

Fel cyhoeddiad yn yr iaith Gymraeg, un gymuned ieithyddol yn unig oedd ei chynulleidfa, carfan leiafrifol a oedd yn dibynnu'n helaeth - nid yn unig ar gylchoedd crefyddol am ddarlennwyr - ond rhai enwadol llai fyth. Cysylltai llawer â'r iaith, ond nid oedd gan nifer o Gymry America fynediad i'r wasg o gwbl,⁹ a honna rhai fod y mwyafrif wedi ymdoddi er budd manteision cymdeithasol ac economaidd.¹⁰ Yr unig gliwiau a dderbyniwn am weddill yr ymfudwyr o Gymru yw cyfeiriadau achlysurol bod nifer ohonynt wedi cymathu'n rhwydd

⁶ Miller, David (2000) *Citizenship and National Identity*, Polity Press: Cambridge, t.32.

⁷ Panini, Jay (2008) *Promised Land: 13 books that changed America*, Doubleday: New York, t.345.

⁸ Jones, W. (1993) *Wales in America: Scranton and the Welsh, 1860-1920*, University of Wales Press: Cardiff, t.146.

⁹ Humphreys, E.Morgan (1924) *Cymru a'r Wasg*, Urdd y Deyrnas: Caerdydd, t.3.

¹⁰ Jones, Maldwyn A. (1975) 'From the Old Country to the New: The Welsh in nineteenth century America', *Flintshire Historical Society Publication*, 27, t.92.

drwy anghofio eu cenedl a'u hiaith, er bod rhai'n dadlau mai'r Cymry oedd y lleiaf parod o genhedloedd Prydain i ddiosg eu cenedligrwydd.¹¹ Mae'n deg casglu, felly, mai lleiafrif oedd cefnogwyr y wasg, carfan a oedd yn edwino'n raddol wrth i nifer o ddisgynyddion y Cymry ymfudedig fabwysiadu arferion Americanaidd ar ôl y genhedlaeth gyntaf. Serch hynny, er bod eu cylchrediad yn gyfyng, dadleua Brock bod cylchgronau crefyddol Saesneg yn cynrychioli ystod eang o gefndiroedd cymdeithasol o fewn y gynulleidfa yn y cyd-destun hwn.¹² Yn yr un modd, byddai'r *Cyfaill* yn cynrychioli safbwyntiau aelodau mwy dysgedig yn y gymdeithas yn ogystal â'r werin a oedd wedi eu cwmpasu o dan faner unedig crefydd a Chymreictod.

Anodd dros ben yw nodi ffigyrau pendant ar gyfer cylchrediad y *Cyfaill*, gan ei fod yn amrywio'n fawr yn ystod gyrfa'r cylchgrawn, gan ddibynnu ar leoliad ac amser penodol fel y wasg yng Nghymru.¹³ Mae'n bur debyg hefyd fod copïau a ddosbarthwyd yn cael eu rhannu ymysg aelodau eraill o'r capel a'u teuluoedd estynedig, felly mae'n bosibl iawn fod nifer y darllenwyr yn sylweddol uwch na'r amcangyfrif iddo amrywio rhwng 1800-2000 yn ei anterth yn ôl tystiolaeth y cloriau.¹⁴

Er bod rhaid cydnabod nad oedd y cylchrediad hwn yn arbennig o uchel yn ôl meini prawf newyddiadurol cyffredinol, nid ar sail ystadegau cylchrediad moel y mae pwysu a mesur ei ddylanwad ar Gymry America, ond drwy sylwi ar ei effaith ar y gynulleidfa a'u disgwyliadau, fel y dywed Paul D. Evans amdano yn ei gyfanrwydd:

Its influence was not measured by the number of its subscribers. Rowlands, Roberts and Griffiths were leaders of their denomination and their words carried great weight. Many Welsh homes had no other paper. Its monthly appearance was eagerly awaited, the whole of its contents carefully read, and much of it treasured for future reading

¹¹ Brock, William (1975) *The United States, 1789-1890*, Cornell University Press: Ithaca, New York, t.15.

¹² *ibid*, t.189.

¹³ Jones, Aled (2000) 'The Welsh Newspaper Press,' in (ed) Edwards, Hywel Teifi, *A Guide to Welsh Literature, 1800-1900, volume 5*, University of Wales Press: Cardiff, t.4.

¹⁴ Mae ysgrifau golygyddol yn y *Cyfaill* yn gofyn am gefnogaeth drwy brynu'r cylchgrawn yn hytrach na'i rannu hefyd yn cadarnhau'r ddamcaniaeth hon.

and thought. In many homes it was a constant companion for long years, and the respect and esteem in which it was held was unbounded.¹⁵

Dywed Williams y dylid cydnabod pwysigrwydd cyfnodolion oherwydd dilyniant a pharhad eu dylanwad ar ddarllenwyr dros y blynyddoedd.¹⁶ Mae'r diwylliant print fel prif gyfrwng cyfathrebu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn offeryn gwerthfawr i asesu meddylfryd y garfan hon o'i ystyried fel cynnyrch ei gyfnod. Yn ogystal â chyflawni swyddogaeth gymdeithasol, roedd cynnyrch y cyfnodolion hefyd yn cael ei ystyried yn llenyddiaeth yn y cyfnod, ac felly mae'r wasg fel ffynhonnell gynradd yn cynnig amryw o ddisgyrsiau sy'n adlewyrchiad o gymuned ddiaspora'r oes a'i diffiniad o hunaniaeth yn ôl amgylchiadau a chyfnod:

Welsh newspapers, then, were appreciated critically by their contemporaries as a form of literature, and were the subjects of active discussion as well as objects to be read.¹⁷

Yn wir, ni welwyd canrif mor gynhyrchiol o ran llenyddiaeth a oedd yn ymateb i newidiadau'r oes,¹⁸ ac yn ôl Millward mae angen edrych ar y cyd-destun hwn i ddeall cymhlethdod 'chwaeth darllen y werin Gymraeg a seicoleg cyhoeddi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.'¹⁹

Barna Huw Walters hefyd nad yw llenyddiaeth y ganrif wedi cael sylw digonol, gan amlinellu pwysigrwydd ei gosod yng nghyd-destun cymdeithasol yr oes:

...mae'n bwysig inni geisio deall beth yn union oedd swyddogaeth llenyddiaeth i lenorion y cyfnod – llenyddiaeth sy'n gweld bywyd trwy lygaid y bobl gyffredin, ac sy'n fodd i daflu goleuni ar eu problemau, eu gobeithion a'u dyheadau. Yr oedd cyfran helaeth o olygyddion y wasg gylchgronol Gymraeg yn perthyn i'r un cefndir cymdeithasol â'u darllenwyr, ac y mae'n rhaid, felly, fod y cynnyrch llenyddol ei hun yn ddrych cywir i feddwl y cyfnod.²⁰

¹⁵ Evans, Paul De Mund (1914) *The Welsh in Oneida County, New York*, Thesis MA heb ei gyhoeddi: Prifysgol Cornell.

¹⁶ Williams, Glanmor (1979) *Religion, Language and Nationality in Wales*, University of Wales Press: Cardiff, t.142. 'regularity' a 'continuity.'

¹⁷ Jones, Aled, 'The Welsh Newspaper Press', t.21.

¹⁸ Parry, Thomas (1944) *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.228.

¹⁹ Millward, E.G. (1991) *Cenedl o Bobl Ddewrion: Agweddau ar Lenyddiaeth Oes Victoria*, Gomer: Llandysul.

²⁰ Walters, Huw (1999) *Y Gymraeg a'r Wasg Gylchgronol*, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.349.

Mae'r ffaith bod y golygyddion a'r darllenwyr yn rhannu'r un cefndir, yn wahanol i'w cymrodyr yn Lloegr, yn ei dyb ef yn allweddol i werth y cyfrwng print fel adnodd hanesyddol. Yn wir, er bod William Rowlands yn ddeallusyn yn y modd yr oedd yn ddysgedig, roedd hefyd yn uniaethu â'r gynulleidfa ar seiliau crefyddol. Er bod sawl beirniad a hanesydd wedi amau ansawdd y llenyddiaeth, fe'i disgrifir fel y 'ganrif fawr' o ran maint ei chynnyrch,²¹ ac yn nhyb Walters, ni ddylid bychanu'r 'prysurdeb llenyddol hwn' gan fod iddo arwyddocâd cymdeithasegol, yn bennaf y modd yr oedd y werin gyffredin yn cynnal y wasg gyfnodol drwy gydol y ganrif.

Atega Hywel Teifi Edwards fod angen ystyried y cyfraniad llenyddol hwn fel ymateb i newidiadau chwyldroadol y ganrif, ac nad oedd yn 'llynyddiaeth seithug' o'r herwydd. Ysgrifennai'r Cymry o dan bwysau 'rhagdybiau ieithyddol-ddiwylliannol' negyddol a'i gwnaethai'n anodd i gynnal traddodiad llenyddol hyderus, ffactorau y mae angen eu hystyried cyn anwybyddu eu cynnyrch llenyddol yn y cyfnod:

Yn nannedd yr agweddau hynny y ceisiodd beirdd a llenorion yr oes honno ddal ati i lenyddiaeth, i gadw chwedl y genedl yn fyw yn yr iaith a fuasai'n dafod iddi am y rhan orau o ddwy fil o flynyddoedd. Gan amlaf yn brin eu haddysg, heb sefydliadau ac eithrio'r eisteddfod i gynnig iddynt sylw a statws, heb nawdd penderfion, ac ar drugaredd israddolder gwlad a fynnai ei gweld ei hun yn deg yn nrych cydnabyddiaeth Lloegr, ymroesant i lenyddiaeth.²²

Mae anferthedd cynnyrch print y genedl yn y cyfnod, beth bynnag ei ansawdd, yn ogystal â lluosogrwydd ei gwasg gyfnodol mewn gwahanol wledydd yn brawf o gryfder hunaniaeth a gynhaliwyd ar seiliau iaith leiafrifol:

When one considers the paucity of their numbers in comparison to other ethnic groups that emigrated to America and their rather wide dispersion geographically, the record of the Welsh in the field of journalism is rather remarkable and indicative of the tremendously important hold which their native tongue had upon them.²³

²¹ Ibid, t.348.

²² Edwards, Hywel Teifi (2001) 'Llef dros y Ganrif fwyaf,' yn (gol) Jenkins, Geraint.H., *Cymru a'r Cymry 2000 – Trafodion Cynhadledd Milflwyddiant Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru*, Gomer: Llandysul, t.72.

²³ Hartmann, Edward (1967) *Americans from Wales*, Christopher Publishing House: Boston, t.127.

Dywed Elisa New y gall deuoliaeth hunaniaeth lethu llenyddiaeth cenedl neu roi egni creadigol iddo ('*paralyzing or productive*'), ac yn achos y Cymry yn America, roedd y dylanwadau amrywiol yn cydblethu i greu llenyddiaeth gynhyrchiol. Fel cymhariaeth, ychydig iawn o lenyddiaeth a gyfansoddwyd yn yr iaith Wyddeleg, er bod niferoedd llawer uwch wedi ymfudo o Iwerddon, sy'n dangos bod yr elfen lenyddol ac ieithyddol yn allweddol yng nghynhaliaeth diwylliant lleiafrifol fel y Cymry yn America. Un o'r cenedloedd mwyaf cynhyrchiol oedd Norwy, a oedd yn ymdebygu i Gymru yn y modd yr oedd yn brwydro'n erbyn dylanwad Daneg, a'r deallusion yn yr un modd yn defnyddio llenyddiaeth i bledio eu harwahanrwydd fel cenedl.²⁴

Mae'r testunau sy'n trafod y *Cyfaill* a'i osod yng nghyd-destun y wasg Gymraeg, arferiad sy'n nodweddiadol o'r wasg enwadol yn ei chyfanrwydd, yn tystio fod y darllenwyr yn tafoli'r cyhoeddiadau fel gweithiau llenyddol ac yn ymateb iddynt yn y cyd-destun hwnnw. Nid oes ond angen edrych ar y myrdd o gerddi ac anerchiadau canmoliaethus i'r *Cyfaill* am effaith ei gyfraniad, a hynny gan ei wir feirniaid, sef aelodau o blith Cymry America yn yr oes honno.

Serch hynny, camgymeriad dybryd fyddai tybio nad oedd ganddo ei wrthwynebwyrr na'i wendidau, ac mae edrych ar ohebiaethau yn ymdrin â dadleuon amrywiol ochr yn ochr â chyhoeddiadau eraill yn dangos nad oedd yn gwbl ddilychwin fel y proffesai ei olygydd. Roedd cyd-destunoli'r wasg yn gwbl hanfodol i fagu pellter beirniadol fel ymchwilydd, a'i dehongli fel endid a oedd yn gybolfa gymhleth o ddynmeg yn sicrhau osgoi syrthio i'r un fagl o ddiffyg gwrthrychedd â William Rowlands.

²⁴ Rydw i'n ddiolchgar am sgwrs gyda'r Athro Werner Sollors, a wnaeth y gymhariaeth hon mewn sgwrs.

(ii) 'Egwyddorion adnabyddus yn mhlith y Cymry.'

Tasg gymhleth yw ceisio asesu safle'r *Cyfaill* yng nghyd-destun y wasg Gymraeg yn America, ond mae dewisiadau golygyddol William Rowlands yn tystio i unigolyddiaeth y cyhoeddiad, ac nad yw'n ofni torri ei gwys ei hun a thorri'n rhydd o gonfensiwn y wasg enwadol. Mae anerchiad gan William Rowlands yn 1854 yn dadlennu tipyn am ei agwedd at y cyhoeddiad a sylfaenodd:

Yn gyhoeddiad crefyddol y bwriadwyd y *Cyfaill* o'i ddechreuad; i genedlu a meithrin chwaeth grefyddol, ac i bleidio crefydd yn ei holl ranau, amgylchiadau a chysylltiadau; a'r cymhelliad cryfaf i barhau yn ei olygiaeth yw gallu gobeithio nad yw ein llafur yn hollol ofer yn sefydliad a lledaeniad 'y deyrnas nad yw o'r byd hwn.' Nid oedd ond ei hun yn y dechreu ar faes y Cymry yn America; ac er fod eraill, amryw, wedi ei ddilyn erbyn heddyw, y mae yn parhau braidd yn unigol eto yn ei bleidgarwch i ddsbarth o egwyddorion adnabyddus yn mhlith y Cymry...²⁵

Ar wahân i fwynhau breintiau amlwg y misolyn cyntaf i wasanaethu Cymry America, cred y golygydd y saif yn uwch na gweddill y cyhoeddiadau oherwydd ei egwyddorion golygyddol.

Mae sawl darn o farddoniaeth yn y *Cyfaill* yn ei ddyrchafu o blith y wasg gyfnodol:

Dymunaf fawr lwyddiant i bob cyfrwng dwysgaill,
Ond rhaid rhoi'r FLAENORIAETH o'r cyfan i'r *Cyfaill*.²⁶

Serch hynny, canmolwyd y cyfnodolion gan wahanol lenorion ar eu tudalennau bob un yn eu tro, sy'n dangos fod tasg y golygydd o ddiffinio cynulleidfa yn berthnasol i'r math o deyrngarwch a dderbyniwyd gan ddarllenwyr maes o law fel perthynas symbiotig. Rhaid cofio hefyd fod llawer o orgyffwrdd rhwng y cyfnodolion enwadol o ran deunydd a chynnwys fel na ellid gwahaniaethu'n ormodol rhwng eu hamcanion, ac mae'r ffaith fod rhai darllenwyr yn trafod gwahanol gyhoeddiadau yn dangos fod rhaid i ninnau hefyd ystyried y wasg gyfan fel endid diwylliannol.

²⁵ Rhagymadrodd/anerchiad y golygydd – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, 1854.

²⁶ Pennillion wrth dderbyn y *Cyfaill* yn ei hen ddull cyntefig (Ab Gwilym, Pitts) – *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mawrth 1846.

Dywed un gohebydd yn 1845 nad ‘prawf bychain o’i gymeradwyaeth’ yw bod y cylchgronau a ddilynodd y *Cyfaill* i faes y wasg wedi ‘ceisio efelychu ei brif nodweddion,²⁷ ond fel y gwelwyd wrth gymharu’r *Cyfaill* â chyfnodolion Cymru, roedd yntau hefyd yn dilyn patrwm arferol gwasg gyfnodol y Cymry o ran cynnwys. Yn wahanol i wasg swmpus grwpiau niferus megis yr Almaenwyr a oedd yn darllen papurau newydd yn ôl eu mympwy, mae’n debyg fod nifer o Gymry America’n tanysgrifio i fwy nag un mewn ymgais i gefnogi’r wasg fel sefydliad.²⁸ Mae un bardd yn gwerthfawrogi’r *Cyfaill* fwyfwy drwy ei osod ymhlith ei gymrodyr newyddiadurol:

Gwn y cofir gwên Cyfaill – a’i flas, gwn,
Fydd fel gwin, rhwng dau efaill,
Anian y llall yn y naill,
Haws ei garu yn mysg ereill.²⁹

Yn wahanol i rai beirdd sy’n dyrchafu’r *Cyfaill* uwchlaw’r cyhoeddiadau eraill, i’r beirniad hwn saif ei ragoriaeth fel rhan o glytwaith y wasg enwadol yn ei chyfanrwydd, a’r gorgyffwrdd rhyngddynt yn arwydd o gryfder.

Fodd bynnag, er bod strwythur y cyhoeddiadau yn ymdebygu i’w gilydd, mae’n bwysig ymbellhau oddi wrth y cysyniad o’r wasg enwadol yn cydweithio mewn cytgord, fel y dengys nifer o ddadleuon. Mae asesu cyfraniad y *Cyfaill* yng nghyd-destun y wasg gyfnodol yn rhoi darlun, nid yn unig o’r berthynas rhwng y cyhoeddiadau, ond hefyd y cymhlethdod mewnol rhwng y darllenwyr, y gohebwyd a’r golygyddion. Yn hyn o beth, roedd dadansoddi’r isdestun yn y gohebiaethau rhyngddynt yn dadlennu cyfrolau am eu safbwyntiau.

Gan nad oedd William Rowlands yn cyhoeddi rhai ysgrifau ond yn hytrach yn cyfeirio atynt wrth fynd heibio, bu’n rhaid chwilio’n fanwl iawn am atebion, gan gynnwys darllen rhwng y llinellau wrth olrhain ei agenda o ddethol ysgrifau ynghyd â sylwi ar

²⁷ Anerchiad: llythyr gan H.Gwlachmai - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, 1845.

²⁸ Daniels, Roger (1990) *Coming to America: A History of Immigration and Ethnicity in America Life*, Harper Collins: New York, t.162.

²⁹ I’r *Cyfaill* (D.J.) - *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, Chwefror 1854.

gyfeiriadaeth ymddangosiadol gynnil yn yr adrannau newyddion. Ni ellir ychwaith orbwysleisio pwysigrwydd craffu ar y print mân ar gloriau'r cyfnodolion, a oedd yn cynnwys sylwadau hynod ddadlennol y gllid yn hawdd eu hanwybyddu. Daeth yn amlwg mai daliadau'r golygyddion fel unigolion oedd yn llywio eu hymdriniaeth â'r themâu a astudir yma, ac yn gwahaniaethu'r cyhoeddiadau oddi wrth ei gilydd wrth iddynt ddod yn rhan o we gymhleth o brosesau cymdeithasol a oedd yn cwmpasu'r testun, y gymdeithas a'r diwylliant print yn gyffredinol.

(iii) 'Y gwir Gymreig Apostol.'

Er bod William Rowlands wedi derbyn dogn helaeth o ganmoliaeth a cherydd yn ystod ei olygyddiaeth, mae'r ffaith i'r *Cyfaill* ddal ei dir yn ystod y tymhestloedd hyn yn dyst i'w ymroddiad i gynnal y diwylliant Cymreig. Prawf ymarferol o'i gyfraniad yw fod cyfaill i William Rowlands, John Samuel o Philadelphia, wedi cynnig casglu tysteb o fil o ddoleri iddo yn 1857 am iddo sefydlu'r misolyn ac am ei wasanaeth defnyddiol i'r genedl. Gwelir nifer o ysgrifau cymeradwyol yn y *Cyfaill* yn ogystal â chefnogaeth cymdeithasau crefyddol, ysgolion Sul a chymanfaoedd ar draws y taleithiau, ac er na chyrrhaeddwyd y targed a osodwyd i ddechrau, cyflwynwyd cannoedd o ddoleri iddo flynyddoedd yn ddiweddarach. Yn ogystal, dywed ei gofiant iddo dderbyn caredigrwydd ariannol sawl tro oddi wrth wahanol eglwysi yn ogystal â rhoddion gan unigolion, sy'n awgrymu'r gwerthfawrogiad ohono mewn gwahanol gylchoedd. Yn wir, Bedyddiwr oedd John Samuel, sy'n dangos fod y *Cyfaill* yn parhau i apelio at aelodau o wahanol enwadau yn yr 1850au, a rhestrir presenoldeb nifer o addolwyr o enwadau eraill yn ei angladd.³⁰

³⁰ Powell, Parchedig Howell (1873) *Cofiant y diweddar Barchedig William Rowlands, D.D., Utica Efrog Newydd*, Mrs Catherine Rowlands: Utica, NY, t.431-7.

Mae'n arwyddocaol hefyd fod Iorthryn Gwynedd - hanesydd Cymry America a gweinidog gydag enwad yr Annibynwyr - yn dweud y bu'r *Cyfaill* 'o wasanaeth dirfawr i'n cenedl yn y wlad hon,' a bod dylanwad ei olygydd yn uchel yn yr eglwysi, y pwlpud a'r wasg Gymraeg.³¹ Mae T. M. Jones, hyd yn oed ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn trafod dylanwad y *Cyfaill* yn fwy na'r un cylchgrawn arall, ac yn annog ei ddarllenwyr i sylweddoli 'gwerth cylchgrawn o'r cymeriad hwn.' Priodola lwyddiant y cylchgrawn i ffrwyth taith William Rowlands o amgylch treflannau Cymreig America yn 1837, ac am y rheswm hwnnw y dylid anfarwoli ei enw ymhlith y Cymry.³²

Os ydym yn defnyddio meini prawf Iorthryn Gwynedd ar gyfer golygyddion Cymry America i gloriannu cyfraniad William Rowlands, gwelwn ei fod wedi llwyddo i gyflawni'r mwyafrif o nodweddion a amlinella ar gyfer yww swydd yn yr oes honno. Dengys tystiolaeth y *Cyfaill* ei fod yn ddysgedig, yn 'feirniad craffus yng ngwahanol ganghenau llenyddiaeth,' ac o 'chwaeth goethedig' yn ei ddetholiadau o ran safon y deunydd. Fodd bynnag, ni ellir honni ei fod yn 'hollol ddiuedd'. Mae dulliau golygyddol megis defnyddio ffugenwau a'r modd yr oedd yn siapiro'r agenda yn dangos fod ei feirniadaeth fel unigolyn yn britho'r cyhoeddiad, a'i fod mewn gwirionedd yn arddel ei ddylanwad fel golygydd. Nid oedd, felly mewn gwirionedd yn olygydd cwbl ddiuedd fel yr honnai, er nad oedd y ffaith hon, efallai, yn wybyddus i gymuned darllenwyr y *Cyfaill*. Trwy eu hanwybodaeth, câi yntau hefyd fod yn rhan o drafodaeth yr un gymuned ddehongliadol a chael mynediad i rychwant o farnau, gan gymryd y cyfle i fynegi sylwebaeth bersonol y tu ôl i len ymddangosiadol wrthrychol ei bellter beirniadol fel golygydd.

Eto i gyd, mae'r teyrngedau i William Rowlands yn dilyn ei farwolaeth yn 1866 yn llefaru cyfrolau am ei gymwynas i ddiwylliant Cymraeg America fel golygydd, llenor a gweinidog. Gwelir nifer o lythyrau yn canmol ei gyfraniad yn y *Cyfaill* a chyhoeddiadau

³¹ Ibid, t.50 a t.173 – Iorthryn Gwynedd.

³² Jones, T. M., *Llenyddiaeth fy ngwlad*, t.220-1.

eraill y wasg gyfnodol, yn enwedig gan yr hen sefydlwyr, yn ogystal â rhai o Gymru. Yn fwy na hynny, gohebwyd gan grefyddwyr ymhlith yr Americanaid yr oedd wedi cymdeithasu â hwy, a cheir cyfeiriadau ym mhenderfyniadau cymdeithasfaoedd, cymanfaoedd ac eglwysi gwahanol enwadau mewn sawl talaith, sy'n brawf o'i allu i groesi ffiniau. Mae'r ffaith bod cerdd goffa i William Rowlands gan y bardd Llew Llwyfo yn fuddugol yng nghystadlaeth y bryddest yn Eisteddfod Gadeiriol Utica yn 1870 hefyd yn tystio ei fod yn ffigwr o bwys ymhlith y gymuned Gymreig-Americanaidd, ac yn cyflawni sawl swyddogaeth:

Bellach, mae'r gwladwr gŵyl, y llengecyn hoew,
 Y dyfal ysgolhaig, y Cristion gloew,
 Y dwys Bregethwr, yr Efridydd cryf,
 Yr hael Gymydog, y Cenhadwr hyf,
 Yr Athraw dwfn, y Llenor diwylliedig,
 Y gwir Gymreig Apostol ymroddedig.³³

Beth oedd hanes y *Cyfaill* felly ar ôl marwolaeth ei syflaenydd?

(iv) Goroesi.

O ran ansawdd a pharhad diwylliant Cymry America, ni ellir cyffredinoli gan fod y sefyllfa'n amrywio rhwng treflannau ac unigolion, ond i'r genhedlaeth gyntaf o ymfudwyr yn enwedig, roedd y cof am yr hen wlad yn fyw o hyd i nifer fel nad oedd eu dinasyddiaeth Americanaidd yn glastwreiddio eu Cymreictod:

To all outward appearances, therefore, Welsh American life seemed to be as effervescent with vigour and creativity as that of Wales. But more than one observer commented that this culture was essentially that of the *first* generation.³⁴

Serch hynny, nid oeddent yn Gymry mwyach yn yr ystyr absoliwt eu bod yn arddel un math o genedligrwydd, ond yn rhan o genedl newydd:

³³ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands - Cerdd goffa Llew Llwyfo*. Hefyd gw. Walters, Huw (1987) *Y Wasg Gyfnodol Gymreig 1735-1900 – arddangosfa 1987 yn y Llyfrgell Genedlaethol*, Gwasg breifat, t.22. Roedd Llew Llwyfo yn newyddiadurwr gyda nifer o bapurau yng Nghymru ac America, ac mae'r ffaith iddo gyfansoddi'r gerdd goffa felly'n tystio i ddylanwad William Rowlands yn y diwylliant print.

³⁴ Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.230.

Sometimes identities merge, often people find ways to permit different identities to coexist, frequently individual people own to more than one identity.³⁵ Mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod y *Cyfaill* yn atgynhyrchu ystyron a oedd yn cadw elfennau cynhenid Gymreig ac yn ymgorffori rhai Americanaidd, ac felly deuai'r ymfudwr yn rhan o'r hyn a ddisgrifia Jerry Hunter fel 'un gymuned genedlaethol, y Gymru Americanaidd newydd.'³⁶ Mae dyfyniad Hywel Davies am y Bedyddwyr a ymfudodd i America yn y ddeunawfed ganrif yr un mor berthnasol i'r ganrif ddilynol:

The Welsh did not have to choose between Welsh exclusiveness or English inclusiveness. There was more than one choice and no necessary structural ambivalence which meant that Welsh identity could only be preserved at the expense of their 'American identity.'³⁷

Yn wir, er bod cynnal Cymreictod yn dibynnu i raddau helaeth ar gryfder eu cenedligrwydd cyn ymfudo o Gymru, a chyfran ohonynt yn ddifater beth bynnag, dadleua Glanmor Williams y cynyddodd ymwybyddiaeth rhai o'r 'alltudion' ar ôl gadael eu tiriogaeth.³⁸ Fel y mynega cerdd mewn dathliad Gŵyl Ddewi:

Yn mhlith y gwir Frython, po *bellaf* y teithiont
Agosaf a fydd eu meddylfryd i'w gwlad.³⁹

Fodd bynnag, er nad oedd yr ymdeimlad o Gymreictod o reidrwydd yn breuo yn America wrth i'r cysylltiad trawsatlantig ei gynnal, mae Jones yn dadlau eu bod yn awr yn genedl ymylol ('*marginal men*') a oedd yn perthyn yn rhannol i ddau fyd, ac er i'r hen draddodiadau barhau yn America, daethai digwyddiadau Prydain yn llai perthnasol iddynt gyda threigl amser.⁴⁰

Eto i gyd, un o'r ffactorau mwyaf tyngedfennol yng nghynhaliaeth Cymreictod y tu hwnt i'w thiriogaeth gynhenid oedd nad oedd yr ymfudwyr wedi eu hynysu'n gyfan gwbl o'r

³⁵ Fevre, Ralph & Thompson, Andrew (1999) *Nation, Identity and Social Theory: perspectives from Wales*, University of Wales Press: Cardiff, t.22.

³⁶ Hunter, Jerry (2003) 'Y Traddodiad Llenyddol Coll,' *Taliesin*, 118, Gwanwyn, t.13-44.

³⁷ Davies, Hywel.M (1995) *Transatlantic Brethren: Rev. Samuel Jones (1735-1814) and his friends. Baptists in Wales, Pennsylvania and beyond*, Associated University Presses: London, t.73.

³⁸ Williams, Glanmor (1989) *Grym Tafodau Tân: Ysgrifau Hanesyddol ar Grefydd a Diwylliant*, Gomer: Llandysul, t.227.

³⁹ Cerdd gan Gwilym ab Ioan, Caerefrog Newydd – Gwyl Ddewi 1840, Gwledd flynyddol y Cymry yn Nghaerefrog-Newydd - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Ebrill 1840.

⁴⁰ Jones, Maldwyn.A. (1976) *Destination America*, Weidenfeld & Nicolson: London, t.117.

famwlad. Yn wir, roedd teitl y *Cyfaill* yn cynrychioli'r gobaith a deimlid am ddyfodol y genedl:

The two countries shared in a religious, political, moral and cultural connexion, which brimmed over with a spirit of confidence and optimism.⁴¹

Gwelir perthynas amlwg rhwng y ddwy wlad wrth i faterion enwadol, y wasg a natur eu cymdeithasau orgyffwrdd yn helaeth,⁴² cysylltiad a oedd yn ddibynnol ar y cyfan ar y cyfrwng print drwy gyfnewid deunydd a chyhoeddiadau. Yng ngeiriau'r bardd Llinos Glan Ohio mewn cyfarchiad i'r *Cyfaill*, 'Tirion lyw wyt o'r 'Hen Wlad.'⁴³ Yn hyn o beth, bu cymharu diwylliant print y ddwy wlad yn achlysurol yn allweddol i gynyddu dealltwriaeth o natur eu cenedligrwydd wrth i'w patrymau orgyffwrdd yn rhyfeddol o aml.

Parhaodd kannwyll y diwylliant Cymraeg i fudlosgi drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth i ymfudo pellach o Gymru a disgynyddion a oedd yn arddel eu hetifeddiaeth atgyfnerthu rhai cymunedau tra oedd eraill yn cael eu herydu. Yn wir, mae'r ffaith i'r *Cyfaill* oroesi tan 1933 yn brawf o'r angen am gyfnodolyn i wasanaethu Cymry America, er ei fod yn cynnwys deunydd Saesneg yn gynyddol wedi troad y ganrif. O ystyried fod cyfraddau methiant cyfnodolion o Gymru yn llawer uwch na'u cymdogion Seisnig, mae'r ffaith i'r misolyn crefyddol gyrraedd gwth o oedran yn awgrymu ei fod yn sefydliad diwylliannol o bwys i'r gymuned Gymraeg yn America na ddylid ei ddibrisio.

Tasg anoddach fyth fyddai cynnal misolyn ar dir estron mewn cyfnod bregus yn economaidd a chymdeithasol, yn ogystal â chadw rhyw lun o Gymreictod a oedd yn cael ei fygwth beunydd gan y llif Seisnig. Yn wir, gwelid methiannau niferus yn y wasg gyfnodol Saesneg yn America, a chylchrediad cymharol fychan a oedd gan y cylchgronau mwyaf llwyddiannus o ystyried y boblogaeth enfawr yn ôl Brock.⁴⁴ Eto i gyd, tueddai'r cylchgronau

⁴¹ Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales*, t.235.

⁴² *Ibid*, t.234.

⁴³ Englynon arobryn i'r *Cyfaill* o'r Hen Wlad (Llinos Glan Ohio) - *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, Mai 1854.

⁴⁴ Brock, William (1975) *The United States, 1789-1890*, Cornell University Press: Ithaca, New York, t.188-9.

crefyddol i oroesi'n hwy na chyhoeddiadau eraill, sy'n awgrymu fod y diwylliant crefyddol yn asgwrn cefn i'r wasg brint yn y cyd-destun Cymreig ac Americanaidd.

Ond er y cyd-destun crefyddol, honna cofiant William Rowlands fod sawl teulu wedi cadw rhifynnau o'r *Cyfaill* a'u rhwymo, sy'n awgrymu fod rhai o Gymry America yn ei drysori fel corff o lenyddiaeth.⁴⁵ Mae'n bur debyg mai ei swyddogaeth amlbwrpas o ran diwallu gwahanol anghenion y genedl oedd i gyfrif am ei lwyddiant, ac yn hyn o beth roedd ei gynnwys yn ymdebygu'n fawr i nifer o gyhoeddiadau gwasg gyfnodol Saesneg y wlad.⁴⁶ A fu iddo adael ei farc ar ddiwylliant Cymry America yn y cyfnod felly?

(v) Safbwyntiau.

Nid yw craffu ar egwyddorion golygyddol unigolyn yn achos un cyfnodolyn yn dadlennu llawer y tu hwnt i fod yn astudiaeth lenyddol dreiddgar ar lefel rethregol fanwl, ond mae eu gosod yng nghyd-destun y diwylliant print a chyfnod hanesyddol yn datgelu llawer mwy am y gymdeithas a hunaniaeth cenedl:

...each separate journal exercises but little authority but power of the periodical press is second only to people.⁴⁷

Er na ellir cynnig damcaniaeth strwythuredig am y wasg brint a'i defnyddio i ddiffinio hunaniaeth cenedl felly, mae'r dystiolaeth yn awgrymu'n gryf fod y *Cyfaill* yn un o'r sefydliadau diwylliannol a oedd yn creu a chynnal hunaniaeth ddeublyg Gymreig-Americanaidd. Camgymeriad dybryd, wrth gwrs, fyddai tybio bod y wasg gyfnodol yn faes astudiaeth a all esbonio holl gymhlethdodau hunaniaeth cymunedau diasporaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond mae methodoleg dadansoddol y traethawd hwn yn cydnabod

⁴⁵ Powell, Parchedig Howell, *Cofiant William Rowlands*.

⁴⁶ Rydw i'n ddiolchgar iawn i'r Athro Elisa New am roi'r cyfle i mi ddefnyddio ei hystafell i pori drwy ei chasgliad personol o gyfnodolion Saesneg Americanaidd yn ystod fy nghyfnod ym mhryfysgol Harvard.

⁴⁷ Tocqueville, Alexis de (1998) *Democracy in America*, Wordsworth Editions Ltd: Herts, t.81.

cyfraniad y wasg i genedligrwydd drwy ystyried natur amrywiol y dystiolaeth, yn hytrach na dehongliad caethiwus system feintiol.

Bu cyfuno safbwyntiau hanesyddol a llenyddol yn allweddol i'r astudiaeth, gan gynnwys craffu'n agos ar naratifau yn ogystal â rhoi ystyriaeth hanesyddol i nodweddion y cyfnod, ac yn ffordd o ddyfnhau dealltwriaeth o ffactorau cymdeithasol, diwylliannol ac ideolegol cymunedau Cymraeg America. Bu ymateb yn llenyddol i'r disgwrs yn ei ffurf gysefin a'i leoli yn ei gyd-destun hanesyddol gyda chymorth darllen cefndirol hefyd yn fodd i gyfleu'r berthynas rhwng y testun a meddylfryd ehangach y gymdeithas. Rhoddwyd y sylw pennaf i gynnwys ac arddull y dystiolaeth brint yn y modd yr oedd yn cynhyrchu ystyron ar raddfa eang, ond bu cyfle hefyd i fanylu ar dechnegau ieithyddol awgrymog yn y portreadau o genedl a oedd yn rhoi arwyddocâd dyfnach iddynt. Mae'r *Cyfaill* ynddo ei hun yn cynrychioli talp o ddiwylliant yn y modd yr oedd yn arddangos celfyddyd, ond roedd hefyd yn gyfrwng gweithredol byw i greu hunaniaeth wrth iddo bontio nifer o gymunedau. Roedd yn un o'r sefydliadau a feddai'r gallu i glymu aelodau o'r un genedl ynghyd ar draws nifer o ffiniau: ar lefel genedlaethol yn America, yn drawsatlantig ac fel llinyn cyswllt rhwng y diaspora Cymreig.

Yn hyn o beth, roedd y disgwrs hefyd yn amlygu'r rhyngweithio rhwng y gohebwy, y darllenwyr a'r golygydd, ac yn darlunio'r cylch cymdeithasol cymhleth a'r wyddor grym rhyngddynt yn y modd yr oeddent yn dehongli ac yn ymateb i ystyron o ganlyniad i amrywiol ddylanwadau. Roedd y dylanwad a gawsai yn dangos fod Cymry America yn creu hunaniaeth ar y cyd fel rhan o wahanol gymunedau amlhaenog. Roedd William Rowlands hefyd yn rhan o wahanol gymunedau fel golygydd a gweinidog. Llwyddodd i raddau i wireddu ei amcan o uno cymunedau ar wasgar mewn rhwydwaith brint-ieithyddol bellgyrhaeddol drwy sefydlu'r cylchgrawn llwyddiannus cyntaf yn yr iaith Gymraeg ar gyfer y genedl gyfan, sef y gymdeithas gynhwysol yr oedd yn ceisio ei sefydlu a'i gwasanaethu. Ar yr un pryd, crëwyd

isgymunedau yn ogystal drwy ail-ddiffinio cynulleidfa a swyddogaeth y cyhoeddiad droeon o ganlyniad i effaith ei ddaliadau personol ar y cylchgrawn.

Roedd terfynau'r cyhoeddiad yn amrywio yn ôl cyd-destun economaidd, enwadol a gwleidyddol, ac roedd croesdynnu parhaus ym meddwl Rowlands rhwng gwasanaethu'r gymuned yn ei chyfanrwydd a hybu ei agenda bersonol drwy dargedu cymunedau lleiafrifol yr oedd hefyd yn aelod ohonynt.

(vi) Ymchwil pellach.

Un o brif adnoddau'r wasg gyfnodol yw'r ffaith ei bod yn rhychwantu nifer o bynciau, ac felly mae'n rhaid i ymchwil yn y dyfodol fagu safbwynt rhyngddisgyblaethol er mwyn cynyddu ein dealltwriaeth o'i chymhlethdod. Mae'n ffynhonnell gynradd sy'n cynnig potensial i ddilyn llwybrau llenyddol, ieithyddol a hanesyddol, yn ogystal â seicolegol, cymdeithasegol neu anthropolegol mewn dyfnder, yr hyn na ellid ei gyflawni yma oherwydd ehangder di-ben-draw y maes. Dylid trin yr ymchwil hwn, felly, fel ymgais i godi cwr y llen ar y cyfoeth y mae'r wasg yn ei gynnig ar gyfer ysgolheictod yn y dyfodol, ac fel agoriad i sawl trywydd posib.

O'r herwydd, tynnwyd yn bennaf ar astudiaethau hanesyddol a chymdeithasol er mwyn cyflwyno'r darllynydd i ehangder y maes, a olygai nad oedd gofod i ddehongli prosesau golygyddol ac awdurol drwy ddefnyddio theori lenyddol o sylwedd. Yn wir, mae angen dybryd am fframwaith ddamcaniaethol sy'n ystyried y wasg gyfnodol fel genre ar wahân, gan nad yw beirniadaeth lenyddol yn rhoi ystyriaeth i'r rôl olygyddol mewn llenyddiaeth, nac yn addas i archwilio cymhlethdod y cyfnewid yn y berthynas drionglol rhwng y testun, y derbynwyr a'r golygydd. Tuedda i ganolbwyntio ar fanylder y disgwrs, gan ddarlunio proses unffordd lle mae'r awdur yn cyflwyno'r testun i'w gynulleidfa, yn hytrach

nag ystyried ei ddylanwad ar y darllenwyr nes eu bod maes o law yn weithredol ac yn ymateb fel awduron a gohebwyd eu hunain. Mae cwestiynau o'r fath yn berthnasol i gyfryngau cyfathrebu mewn unrhyw oes, yn ogystal â natur y gynulleidfa a'u derbyniad o'r testun (*reader-response theory*), maes sydd wedi ei ddatblygu yn ystod y degawdau diweddar.

Mae llawer mwy i'w ganfod yng nghynnyrch print Cymry America am natur y gymuned a'i hagweddau, a'r modd yr oedd ei harweinwyr yn ffurfio ac yn lledaenu ystyron gyda chydweithrediad y darllenwyr, yn enwedig cofiannau pregethwyr y cyfnod. Tanlinella'r astudiaethau unigol ac annibynnol am y wasg gyfnodol Gymraeg y potensial enfawr am gydweithio i ffurfio safbwynt cymharol gyda chynnyrch newyddiadurol o wahanol gefndiroedd ethnig,⁴⁸ yn enwedig y byd cyhoeddi Saesneg yn America a oedd yn gystadleuaeth uniongyrchol i ymdrechion y Cymry. Byddai'r traethawd hwn yn sicr o fod wedi elwa o archwilio cyfnodolion crefyddol Saesneg yn America am gymariaethau.

Mae angen mwy o gydnabyddiaeth i gyfraniad llenyddiaeth y Cymry i draddodiad llenyddol Saesneg America yn gyffredinol,⁴⁹ fel ag y mae'r traddodiad Affro-Americanaid yn cael ei ystyried yn endid ar wahân, ond hefyd yn rhan o'r cyd-destun ehangach. Fodd bynnag, gwelwyd symudiad i'r cyfeiriad hwn mewn rhai antholegau sy'n ymdrin â gweithiau llenyddol ymfudwyr o wahanol gefndiroedd ieithyddol.⁵⁰ Dengys hyn fod llenyddiaeth ymfudwyr yn fwy na thrafodaeth ar ymfudo a chymathu ac yn haeddu ei lle yn y canon llenyddol:

⁴⁸ Mewn sgwrs gyda Werner Sollors, dywedodd fod y wasg gyfnodol yn allweddol i hunaniaeth ymfudwyr o nifer o genhedloedd, a gellid cymharu'r Cymry â phrofiadau cenedloedd lleiafrifol eraill er mwyn datblygu dealltwriaeth mwy cyffredinol o berthynas y wasg â chenedligrwydd.

⁴⁹ Wada, Gunilla (2006) *Studying Transcultural Literary History*, Walter de Gruyter: Berlin. Mae'n amlinellu'r angen i olrhain hanes traddodiad llenyddol America sy'n rhoi ystyriaeth i gyfraniad cenedloedd eraill yn ogystal. Pietro, Robert & Ifkovic gol. (1983), *Ethnic Perspectives in American Literature: selected essays on the European contributions*, Modern Language Association of America: New York.

⁵⁰ Shell, Marc & Sollors, Werner (2000) *The Multilingual Anthology of American Literature: A Reader of original texts with English translations*, New York University Press; Shell, Marc (2002) 'Babel in America,' yn (gol) Shell, M, *American Babel*, Harvard University Press, London, t.3-34; Whitfield, Esther (2002) 'Mordecai and Haman: The Drama of Welsh America,' yn (gol) Shell, M, *American Babel*, Harvard University Press, London, t.93-117; Gray, Melinda (1998) 'Language and Belonging: A Welsh Language Novel in Late-Nineteenth-Century America,' yn (gol) Sollors, Werner, *Multilingual America: Transnationalism, Ethnicity, and the Languages of American Literature*, New York University Press: London.

...part of a transnational world, though authors who complicate the fit of authorship, citizenship and language have been marginalized by pervasive national organisation of literature.⁵¹

Mae'r ffaith bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn y gwaith diweddar hwn yn dangos bod gan y Cymry gyfraniad, waeth pa mor fychan i draddodiad llenyddol y wlad, gan fod y genedl Americanaidd yn llawn o ystyron amrywiol hefyd:

...not offshoot of a single mother country, but many countries...result of interaction of many linguistic and cultural trajectories...⁵²

Dadleua Melinda Gray hefyd yn erbyn erbyn y syniad o lenyddiaeth 'ethnig' Saesneg yn America, gan fod y corff hwn mewn deialog barhaus â diwylliannau ymfudwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.⁵³ Byddai hefyd yn ddelfrydol medru clymu'r llinynnau anorffenedig rhwng deunydd print y diaspora Cymreig yn gyffredinol er mwyn cymharu'r profiad Cymreig mewn gwahanol gyd-destunau.

Mae syniadaeth rymus cenedlaetholdeb hefyd wedi ein cyflyru i feddwl mai perthyn i un genedl y mae pawb, ac mae gwir angen datblygu dealltwriaeth o gymhlethdodau hunaniaeth amlochrog le mae dau ddiwylliant yn cyd-fyw, cwestiynau sydd yn berthnasol iawn heddiw yn sgil globaleiddio, amllddiwyllianedd ac effaith y diwylliant Eingl-Americanaidd ar Gymreictod. Yn wir, rydym yn parhau i ail-greu diwylliannau sy'n croesi nifer o ffiniau gyda thestunau sy'n amrywiol eu hystyron.⁵⁴

Yn wir, nid yw'r astudiaethau o Gymry America hyd yma wedi trafod yr agwedd Brydeinig i'w hunaniaeth, a oedd yn parhau'n gryf ar ôl ymfudo yn hanes llawer o'r Cymry Cymraeg mwyaf pybyr hyd yn oed, fel y mynegir yn llwncdestunau dathliadau Gŵyl Ddewi

⁵¹ Sollors, Werner (2000) Introduction, yn (gol) Shell, Marc & Sollors, Werner *The Multilingual Anthology of American Literature: A Reader of original texts with English translations*, New York University Press, t.7.

⁵² Ibid, t.8. Am y berthynas rhwng Canada, America a Phrydain gw. Eldridge, C.C. (1997) *The North Atlantic Triangle revisited*, yn (gol) Eldridge, C.C. *Kith and Kin: Canada, Britain and the United States from the Revolution to the Cold War*, University of Wales Press: Cardiff; Buckner, P.A. (1997) *Making British North America British, 1815-1860*, yn (gol) Eldridge, C.C. *Kith and Kin: Canada, Britain and the United States from the Revolution to the Cold War*, University of Wales Press: Cardiff.

⁵³ Gray, Melinda, 'Language and Belonging'.

⁵⁴ Walter, Roland (2003) *Narrative Identities: (Inter) Cultural In-betweenness in the Americas*, Peter Lang: Berlin. Yn ogystal, cefais astudio modiwl 'Poetry Across Borders' gyda'r Athro Stephanie Sandler yn ystod fy nghyfnod yn Harvard, a roddodd wedd gyfoes ar y pontio rhwng diwylliannau.

a'r adran newyddion yn y *Cyfaill*. Mae fframweithiau defnyddiol ar gael i ystyried cymhlethodau hunaniaeth Gymreig fel endid ethnig a diwylliannol ar wahân yn erbyn y cefnlen Prydeinig, a fyddai hefyd yn ddefnyddiol i asesu eu safle fel cenedl leiafrifol o fewn diwylliant ehangach yn y cyd-destun Americanaidd.⁵⁵

Ni ddylid anghofio ychwaith fod cymdeithasau Gymreig yn parhau i ffynnu yn yr Unol Daleithiau heddiw, a chymanfaoedd canu a dathliadau Gŵyl Ddewi yn parhau fel symbolau o etifeddiaeth ddiwylliannol y Cymry i'w disgynyddion. Gwelir y papur *Ninnau* a ddatblygodd o'r *Drych* mewn siopau llyfrau yng Nghymru, ac er ei fod yn Saesneg at ei gilydd erbyn hyn, mae'n brawf o'r berthynas â'r hen wlad a oedd mor ganolog i ffyniant Cymreictod yn America. Yn wir, mae'r gyfrol *Gweld Sêr*, sydd wedi ei golygu gan M.Wynn Thomas, yn dangos sut mae apêl America yn parhau i ddenu ymateb gan Gymry Cymraeg i America yn yr ugeinfed ganrif, ac mae Jerry Hunter yn rhestru llu o weithiau gan lenorion modern y genedl sydd wedi eu hysbrydoli gan y wlad.⁵⁶ Yn wir, creodd Gwyneth Lewis hunaniaeth farddol o'r newydd yn ystod ei chyfnod fel myfyrwraig yno, a'r plethiad o ddylanwadau dwy wlad yn dangos bod llenorion heddiw hefyd yn ymrafael am eu lleisiau

⁵⁵ Kinealy (1999). Nairn, Tom (1977) *The Break-up of Britain: Crisis and neo-nationalism*, NLB: London. Haerai ei ddamcaniaeth y dylid rhoi ystyriaeth i ormes y wladwriaeth ar y diwylliant ymylol, a'r triniaeth a dderbyniwyd gan yr uned wleidyddol. Ymresyma hefyd mai'r allwedd i ddealltwriaeth lawn o Gymru yw ei chymharu â'r Alban. Yn wahanol i seiliau ieithyddol a llenyddol yn creu ymwybyddiaeth genedlaethol ar ran y Cymry, creda fod cenedl yr Alban wedi goroesi oherwydd strwythur gymdeithasol ddyfnach, a chreda y dylid astudio'r ddwy achos ochr yn ochr i ddatblygu damcaniaeth i genedligrwydd Cymreig. Hefyd gw. Colley, Linda (1992) *Britons: Forging the Nation*, Pimlico: London. Haerai fod angen edrych ar Gymry'r 19eg ganrif fel rhan o'r mudiad i greu undod Prydenig, ond nad oedd eu teyrngarwech tuag ati yn diwreiddio eu hymlyniad tuag at arwahanrwydd ieithyddol a diwylliannol y genedl. Mynnai fod Cymru yn fwy unigryw na Lloegr a'r Alban ar y seiliau canlynol: gallu'r iaith i uno'r genedl, llai dinesig, a llai o ddiddordeb mewn militariaeth ac imperialaeth. Honna y crewyd ymdeimlad o Brydeindod rhwng 1707-1837, ar drothwy oes Fictoria, o ganlyniad i ryfeloedd Prydain yn erbyn Ffrainc, Tyfodd y Prydeindod unedig hwn fel ymateb i wrthdaro o'r tu allan, yn wyneb bygythiad yr 'Other,' nid oherwydd goruchafiaeth Prydain dros ddiwylliannau bychain. Cadwodd Cymru ei harwahanrwydd er gwaethaf ymuno â'r mudiad cenedlaethol Prydeinig. Am ystyriaeth deg o sefyllfa Cymru yng nghyd-destun gweddill cenedloedd Prydain, gw. Kinealy, Christine (1999) *A Disunited Kingdom? England, Ireland, Scotland and Wales, 1800-1949*, Cambridge University Press, sy'n trafod Cymru fel uned ar wahân, gan ddarlunio amrywiol nodweddion unigryw ei hunaniaeth. Am wedd fodern ar Gymru o fewn y Deyrnas Unedig, gw. Evans, Neil (1989) *Identity and Integration in the British Isles*, yn gol Evans, Neil, *National Identity in the British Isles*, Coleg Harlech Occasional Papers in Welsh Studies.

⁵⁶ Hunter, Jerry (2001) 'O'r Ymfudwr Ffuglennol i'r Twrist Barddol, yn (gol) Thomas, M.Wynn, *Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.

wrth fyw mewn ‘bydoedd cyfochrog.’⁵⁷ Ceir gweithgarwch ysgolheigaidd hefyd yn ymdrin â llenyddiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chyfnodau eraill yn y cynadledau Celtaidd a gynhelir yn flynyddol ar y cyfandir,⁵⁸ sy’n dangos fod y diddordeb yn parhau yn y cysylltiad rhwng y ddwy wlad.

Dylid felly atgyfnerthu ein cysylltiadau â’r cymdeithasau Cymreig yn America gan ei fod yn bur debyg fod ganddynt gyfoeth o destunau’n llechu mewn ystafelloedd llychlyd yn disgwyl am ymchwilwyr, bydd hynny yn ei dro yn cyfoethogi ein hunaniaeth ninnau hefyd:

Er na chafodd breuddwydion y Cymry eu gwireddu, fel dal i ni gofio’r ymdrech, a deall yr un pryd sut mae eu profiadau’n rhan o’n hanes ninnau. Nid yw hi chwaith yn rhy hwyr i ddefro Cymreictod y genhedlaeth hon o Americanaid Cymreig a rhoi iddynt rôl ym mharhad ein Cymreictod bregus ni.⁵⁹

Fel y dywed M.Wynn Thomas, ‘carreg ateb o wlad yw’r Taleithiau Unedig ar un ystyr.’⁶⁰

⁵⁷ Lewis, Gwyneth (2001) ‘Byw mewn Bydoedd Cyfochrog’ yn (gol) Thomas, M.Wynn, *Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.

⁵⁸ Mae sawl cyfrol o’r *Proceedings of Harvard Celtic Colloquim, Journal of Welsh American Studies* sy’n ffrwyth cymdeithas NASSWCH a chynhadledd flynyddol CSANA yn brawf o’r cysylltiad rhwng America a’r gwledydd Celtaidd.

⁵⁹ Gruffydd, Heini (2001) ‘Pen Draw Cymreictod,’ yn (gol) Thomas, M.Wynn, *Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.98.

⁶⁰ Thomas, M.Wynn, (2001) ‘America: Cân fy Hunan,’ yn (gol) Thomas, M.Wynn, *Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.27.

LLYFRYDDIAETHLlyfrau.

Adamson, David L (1991) *Class, Ideology and the Nation: A Theory of Welsh Nationalism*, University of Wales Press: Cardiff.

Anderson, Benedict (1983) *Imagined Communities: Reflections on the origin and spread of nationalism*, Verso: London.

Barth, Fredrik (2000) *Ethnic Groups and Boundaries: The Social Organization of Culture Difference*, Little, Brown & co: Boston.

Bauer, O (1996) 'The Nation,' in (ed) Balakrishnan, G, *Mapping the Nation*, Verso: London.

Baycroft, Timothy (1998) *Nationalism in Europe, 1789-1945*, Cambridge University Press.

Baym, Nina et al (2007) *The Norton Anthology: American Literature. 7th Edition, volume B, 1820-65*, Norton and Company: New York.

Beetham, Margaret (1990) 'Towards a theory of the periodical as a publishing genre,' in (ed) Brake, Laurel & Jones, Aled & Madden, Lionel, *Investigating Victorian Journalism*, Macmillan: Hampshire.

Bell, Michael Davitt (1995) Conditions of Literary Vacation, yn (gol) Bercovitch, Sacvon, *The Cambridge History of American Literature, vol 2 1820-65*, Cambridge University Press.

Benmayor, Rina & Skotres, Andor (1994) Some Reflections on Migration and Identity, yn (gol) Benmayor, Rina & Skotres, Andor, *Migration and Identity*, Oxford University Press.

Bennett, Richard (1909) *Blynyddoedd Cyntaf Methodistiaeth*, Llyfrfa'r Cyfundeb: Caernarfon.

Benson, Lee (1961) *The Concept of Jacksonian Democracy: New York as a test case*, Princeton University Press.

Bercovitch, Sacvan (1993) *The Rites of Assent: Transformations in the Symbolic Construction of America*, Routledge: London.

Bercovitch, Sacvan (1995) Introduction, yn (gol) Bercovitch, Sacvon, *The Cambridge History of American Literature, vol 2 1820-65*, Cambridge University Press.

Bernard, William.S. (1998) Immigration: History of United States Policy, yn (gol) Jackson, David, *The Immigration Reader: America in a Multidisciplinary Perspective*, Blackwell: Oxford.

Berthoff, Rowland (1980) Welsh, yn (gol) Thernstrom, Stephan & Orlov, Ann, *Harvard Encyclopedia of American Ethnic Groups*, Harvard University Press: Cambridge, Mass.

- Berthoff, Rowland (1971) *An Unsettled People: Social Order and Disorder in American History*, Harper & Row: New York.
- Betts, Clive (1976) *Culture in Crisis: the future of the Welsh Language*, Ffynnon Press: Wirral.
- Billig, M (1995) *Banal Nationalism*, Sage: London.
- Baycroft, Timothy (1998) *Nationalism in Europe, 1789-1945*, Cambridge University Press.
- Bhabha, Homi.K. (1991) Introduction: narrating the nation, yn (gol) Bhabha, Homi.K. *Nation and Narration*, Routledge: London, t.1-8.
- Bhabha, Homi.K. (1991) DissemiNation: time, narrative, and the margins of the modern nation, yn (gol) Bhabha, Homi.K. *Nation and Narration*, Routledge: London, t.291-323.
- Black, Jeremy (2000) *New History of Wales*, Sutton: Gloucs.
- Blackwell, Henry (1977) *A Bibliography of Welsh Americana*, Aberystwyth.
- Bodnar, John (1987) *Transplanted: A History of Immigrants in Urban America*, Indiana University Press.
- Boorstin, Daniel.J. (1965) *The Americans: The National Experience*, Random House: New York.
- Brake, Laurel et al (2000) Introduction, yn (gol) Brake, Laurel et al, *Nineteenth Century Media and the Construction of Identities*, Palgrave: New York.
- Brake, Laurel & Codell, Julie (2005) Introduction: Encountering the Press, yn (gol) Brake, Laurel & Codell, Julie, *Encounters in the Victorian Press: editors, authors and readers*, Houndmills: Basingstoke.
- Brock, William (1975) *The United States, 1789-1890*, Cornell University Press: Ithaca, New York.
- Brogan, D.W. (1933) *The American Political System. (Government of the People)*, Hamish Hamilton: London.
- Buchanan, Keith & Armstrong, Warwick (1968) The Roots of Scottish and Welsh Nationalism, yn (gol) Thompson, Frank.G, *Maintaining a National Identity*, Baile AthaCliath: Eire.
- Buckner, P.A. (1997) Making British North America British, 1815-1860, yn (gol) Eldridge, C.C, *Kith and Kin: Canada, Britain and the United States from the Revolution to the Cold War*, University of Wales Press: Cardiff.
- Carroll, Peter & Noble, David.W (1988) *The Free and the Unfree: A New History of the United States*, Penguin: London.

Carter, Harold (2010) *Against the Odds: The Survival of Welsh Identity*, Institute of Welsh Affairs.

Cavaoli, Frank & La Gumina, Salvatore (1974) *The Ethnic Dimension in American Society*, Hollbrook Press Inc: Boston.

Chander, Jagdish (1976) American novel - a Voyage of Self-discovery, yn (gol) Chander, J & Pradhan, N, *Studies in American Literature: essays in honour of William Mulder*, Oxford University Press.

Coleman, Terry (1972) *Passage to America: A history of emigrants from Great Britain and Ireland to America in the mid nineteenth century*, Hutchinson: London.

Colley, Linda (1992) *Britons: Forging the Nation*, Pimlico: London.

Conway, Alan (gol) (1961) *The Welsh in America: Letters from the Immigrants*, University of Wales Press: Cardiff.

Conzen et al (1989) yn (gol) Sollors, Werner, *The Invention of Ethnicity*, Oxford University Press.

Cragoe, Matthew (2004) *Culture, Politics, and National Identity in Wales 1832–1886*, Oxford University Press.

Coupland, Sir Reginald (1954) *Welsh and Scottish Nationalism: A Study*, Collins: London.

Dakin, A (1940) *Calvinism*, Duckworth: London.

Daniels, Roger (1990) *Coming to America: A History of Immigration and Ethnicity in America Life*, Harper Collins: New York.

Davies, Pch. David (1947) *Oshkosh, Wisconsin, Welsh settlement Centennial: Translation of 'Hanes y Cymry'*, Russell Stationery Co: Amarillo.

Davies, E.T. (1981) *Religion and Society in the Nineteenth Century*, Christopher Davies: Llandybie.

Davies, Pch. Hugh (1898) *Hanes Cymanfa Dwyreinbarth Pennsylvania, 1845-1896*, T.J.Griffiths: Utica.

Davies, Hywel.M (1995) *Transatlantic Brethren: Rev. Samuel Jones (1735-1814) and his friends. Baptists in Wales, Pennsylvania and beyond*, Associated University Presses: London.

Davies, John (1996) *The Making of Wales*, Alan Sutton: Cardiff.

Davies, John (2007) *Hanes Cymru*, Penguin Books: London.

Davies, Russell (2005) *Hope and Heartbreak: A Social History of Wales and the Welsh, 1776-1871*, University of Wales Press: Cardiff.

Day, Graham & Thompson, Andrew (2004) *Theorizing Nationalism*, Palgrave Macmillan: Hampshire.

Dicker, Susan.J. (2003) *Languages in America*, Cromwell Press: UK.

Dodd, A.H. (1957) *The Character of Early Welsh Emigration to the United States*, University of Wales Press: Cardiff.

Du Bois, W.E.B. (1997) The Souls of Black Folk, yn (gol) Gates, Henry Louis Jr, *Norton Anthology of African-American Literature*, W. W. Norton: New York.

Eagleton, Terry (1996) *Literary Theory: An Introduction, 2nd edition*, Blackwell: Oxford.

Edwards, D.Miall (1927) *Iaith a Diwylliant Cenedl*, Y Brodyr Hughes: Dolgellau.

Edwards, Hywel Teifi (1976) *Yr Eisteddfod: Cyfrol dathlu wythganmlwyddiant yr Eisteddfod, 1176-1976*, Gomer: Llandysul.

Edwards, Hywel Teifi (1980) *Gŵyl Gwalia: Yr Eisteddfod Genedlaethol yn Oes Aur Victoria, 1858-1868*. Gomer: Llandysul.

Edwards, Hywel Teifi (1987) *Ceiriog*, Gwasg Pantycelyn: Caernarfon.

Edwards, Hywel Teifi (1990) *Eisteddfod Ffair y Byd Chicago 1893*, Gomer: Llandysul.

Edwards, Hywel Teifi (2000) *The Eisteddfod Poet: An Embattled Figure, yn (gol) A Guide to Welsh Literature c.1800-1900*, University of Wales Press: Cardiff, t.24-48.

Eldridge, C.C. (1997) The North Atlantic Triangle revisited, yn (gol) *Eldridge, C.C, Kith and Kin: Canada, Britain and the United States from the Revolution to the Cold War*, University of Wales Press: Cardiff.

Ellis, P. Berresford (1968) *Wales – A Nation Again: The Nationalist Struggle for Freedom*, Library 33: London.

Evans, D. Gareth (1989) *A History of Wales, 1815-1906*, University of Wales Press: Cardiff.

Evans, Gwynfor & Rhys, Ioan (1968) 'Wales,' yn (gol) Dudley, Owen et al, *Celtic Nationalism*, Routledge: London.

Evans, Gwynfor (1968) Celtic Nationhood: Fundamental Individuality, yn (gol) Thompson, Frank.G, *Maintaining a National Identity*, Baile AthaCliath: Eire.

Evans, Pch. John. *Bywyd ac Athrawiaeth John Calfin*, Llyfrfa y Cyfundeb: Caernarfon.

Evans, Neil (1988) The Urbanization of Welsh Society, yn (gol) Trevor Herbert & Gareth Elwyn Jones, *People and Protest: Wales 1815-1880*, Cardiff University Press.

Evans, Neil (1989) Identity and Integration in the British Isles, yn gol Evans, Neil, *National Identity in the British Isles*, Coleg Harlech Occasional Papers in Welsh Studies.

Evans, Neil (1989) Gogs, Cardis, Hwntws: Regions, nation and state in Wales, 1840-1940, yn gol Evans, Neil, *National Identity in the British Isles*, Coleg Harlech Occasional Papers in Welsh Studies.

Fevre, Ralph & Thompson, Andrew (1999) *Nation, Identity and Social Theory: perspectives from Wales*, University of Wales Press: Cardiff.

Fillmore, Charles.J (1997) *Lectures on Deixis*, CSLI Publications: California.

Fish, Carl (1913) *The Development of American Nationality*, American Book Company: New York.

Fish, Stanley (1980) *Is There a Text in this class?: The Authority of Interpretive Communities*, Harvard University Press: Cambridge, Massachussets.

Fitz, Earl (1991) *Rediscovering the New World: Inter-American Literature in a comparative context*, University of Iowa Press.

Frank, Armin Paul (1999) An Invitation to Inter-American Literary Studies, yn (gol) Frank, Armin Paul & Bmann, Helga E (1999) *The Internationality of National Literatures in either America: Transfer and transformation*, Wallstein: Gottingen.

Franklin, John Hope & Moss, Alfred.A Jr (1994) *From Slavery to Freedom: A History of African Americans, 7th edition*, Alfred A.Knopf: New York.

Gellner, Ernest (1997) *Nationalism*, Weidenfield & Nicholson: London.

Gellner, Ernest (1983) *Nations and Nationalism*, Basil Blackwell: Oxford.

George, Parchedig Stephen. *Ein Heghwys: ei hystyr, ei hanes a'i bywyd: Llyfr rhodd i gymunwyr ieuanc*, Llyfrfa'r Methodistiaid Calфинаidd: Caernarfon.

Giles, Paul (2006) *Atlantic Republic: The American Tradition in English Literature*, Oxford University Press.

Gjerde, Jon (1998) *Major Problems in American Immigration and Ethnic History*, Houghton Mifflin: New York.

Grant, Robert.D (2005) *Representations of British Emigration, Colonisation and Settlement: Imagining Empire, 1800-1860*, Palgrave Macmillan: Hampshire.

Gray, Melinda (1998) 'Language and Belonging: A Welsh Language Novel in Late-Nineteenth-Century America,' yn (gol) Sollors, Werner, *Multilingual America: Transnationalism, Ethnicity, and the Languages of American Literature*, New York University Press: London.

Gray, Melinda (2002) 'Grave Matters: Poetry and the Preservation of the Welsh language in the United States,' yn (gol) Shell, M, *American Babel*, Harvard University Press, London, t.307-22.

Griffiths, T.Solomon (1896) *Hanes y Methodistiaid Calfinaidd yn Utica, N.Y.* T.J.Griffiths: Utica.

Gruffydd, Heini (2001) 'Pen Draw Cymreictod,' yn (gol) Thomas, M.Wynn, *Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.

Guibernau, Montserrat (1997) Introduction, yn (gol) Guibernau, Montserrat & Rex, John, *Ethnicity Reader: nationalism, multiculturalism and migration*, Blackwell: Cambridge, t.1-15.

Guibernau, Montserrat (2007) *The Identity of Nations*, Polity Press: Cambridge.

Handlin, Oscar (1959) *Immigration as a factor in American History*, Prentice Hall Inc: New Jersey.

Hansen, Marcus Lee (1940) *The Immigrant in American History*, Harvard University Press: Cambridge.

Hansen, Marcus Lee (1951) *Atlantic Migration 1607-1860: A History of the continuing settlement of the United States*, Harvard University Press: Cambridge.

Hartmann, Edward (1967) *Americans from Wales*, Christopher Publishing House: Boston.

Hartmann, Edward (1979) *American Immigration*, Lerner: Minneapolis, Minnesota.

Hastings, Adrian (1997) *The Construction of Nationhood: Ethnicity, Religion and Nationalism*, Cambridge University Press.

Heale, M.J. (1977) *The Making of American Politics*, Longman: London.

Hechter, Michael (1975) *Internal Colonialism: The Celtic Fringe in British National Development, 1536 – 1966*, Routledge: London.

Hempton, David (1996) *Religion and Political Culture in Britain and Ireland*, Cambridge University Press.

Hess, Andreas (2000) *American Social and Political Thought: A Concise Introduction*, Edinburgh University Press.

Hobsbawm, E.J. (1990) *Nations and nationalism since 1780: Programme, myth, reality*, Cambridge University Press.

Hofstadter, Richard (1962) *The American Political Tradition, and the men who made it*, Jonathan Cape: London.

Holifield, E.Brooks (2003) *Theology in America: Christian Thought from the Age of the Puritan to the Civil War*, Yale University Press: New Haven.

Howell, David.W (1977) *Land and People in Nineteenth-Century Wales*, Routledge: London.

Howell, David (1988) *The Rebecca Riots*, yn (gol) Trevor Herbert & Gareth Elwyn Jones, *People and Protest: Wales 1815-1880*, Cardiff University Press.

Hughes, David, [Arfonydd] (1923) *Welsh People of California, 1849 – 1906*, 14st – San Fransisco.

Hughes, Garfield.H. (1976) *Rhagymadroddion 1547-1659*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.

Hughes, Pch. Thomas E et al (gol) (1895) *Hanes Cymry Minnesota, Foreston a Lime Springs, Iowa; wedi ei gasglu gan amryw o'r hen sefydlwyr*, The Free Press: Mankato, Minnesota.

Humphreys, Emyr (2000) *The Taliesin Tradition*, Seren: Bridgend.

Hunter, Gordon (1999) *American Literature, American Culture*, Oxford University Press.

Hunter, Jerry (2001) 'O'r Ymfudwr Ffuglennol i'r Twrist Barddol, yn (gol) Thomas, M.Wynn, *Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.

Hunter, Jerry (2003) *Llwch Cenhedloedd: Y Cymry a Rhyfel Cartref America*, Gwasg Carreg Gwalch: Llanrwst.

Hunter, Jerry (2007) *Sons of Arthur, Children of Lincoln: Welsh Writing from the American Civil War*, University of Wales Press: Cardiff.

Hunter, Jerry (2007) *I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn erbyn Caethwasanaeth Americanaidd*, Gwasg Carreg Gwalch: Llanrwst.

Hunter, Jerry (2010) 'What can the Welsh do? Robert Everett and the Welsh-American Abolition Movement 1840-4,' yn (goln) Charles-Edwards, T. M. a Evans, R. J. W. *Wales and the Wider World: Welsh history in an International Context*, Shaun Tyas: Donnington, t.157-83.

Humphreys, E.Morgan (1924) *Cymru a'r Wasg*. Urdd y Deyrnas: Caerdydd.

Jackson, David (1998) Introduction: An American Journey, yn (gol) Jackson, David, *The Immigration Reader: America in a Multidisciplinary Perspective*, Blackwell: Oxford.

Jackson, David (1998) Introduction: An American Journey, yn (gol) Jackson, David, *The Immigration Reader: America in a Multidisciplinary Perspective*, Blackwell: Oxford.

Jackson, J.A. (1969) Migration – editorial introduction, yn (gol) Jackson, J.A., *Migration*, Cambridge University Press.

James E.Wyn (2003) 'Caethwasanaeth a'r Beirdd,' *Taliesin*, 119, Haf, t.37-60.

James, Paul (1996) *Nation Formation: Towards a Theory of Abstract Community*, Sage: London.

- Jenkins, Daniel (1975) *The British: Their Identity and their religion*, SCM Press: Gloucs.
- Jenkins, Geraint.H. (1999) 'Cymru, Cymry a'r Gymraeg': Rhagymadrodd, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.
- Jenkins, Philip (1992) *A History of Modern Wales, 1536-1990*, Longman: London.
- Jenkins, R.T. (1933) *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.
- Johnston, Dafydd (1994) *A Pocket Guide: The Literature of Wales*, University of Wales Press: Cardiff.
- Jones, Aled Gruffydd (1988) Y Wasg Gymreig yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, yn (gol) Jenkins, Geraint.H. *Cof Cenedl III*, Gomer: Llandysul, t. 89-117.
- Jones, Aled Gruffydd (1993) *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales*, University of Wales Press: Cardiff.
- Jones, Aled (1999) Yr Iaith Gymraeg a Newyddiaduraeth, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, tt.353-75.
- Jones, Aled (2000) 'The Welsh Newspaper Press,' in (ed) Edwards, Hywel Teifi, *A Guide to Welsh Literature, 1800-1900, volume 5*, University of Wales Press: Cardiff.
- Jones, Aled (2000) The Nineteenth Century Media and Welsh Identity, yn (gol) Brake, Laurel et al, *Nineteenth Century Media and the Construction of Identities*, Palgrave: New York.
- Jones, Aled & Jones, Bill (2001) *Welsh Reflections: Y Drych & America, 1851-2001*, Gomer: Llandysul.
- Jones, Alexander (1855) *The Cymry of '76; or Welshmen and their Descendants of the American Revolution, an Address with an appendix, containing notes, sketches and nomenclature of the Cymbri*, Sheldon: New York.
- Jones, Bobi (1991) *Yr Hen Ganrif*, Yr Academi Gymreig: Caerdydd.
- Jones, David J.V. (1988) Scotch Cattle and Chartism, yn (gol) Trevor Herbert & Gareth Elwyn Jones, *People and Protest: Wales 1815-1880*, Cardiff University Press.
- Jones, Ieuan Gwynedd (1980) 'Language and Community in Nineteenth Century Wales, yn (gol) Smith, David, *A People and Proletariat: Essays in the History of Wales, 1780-1980*, Pluto: London.
- Jones, Ieuan Gwynedd (1987) *Communities: Essays in the social history of Victorian Wales*, Gomer: Llandysul.

Jones, Ieuan Gwynedd (1988) *People and Protest: Wales 1815 – 1880*, yn (gol) Trevor Herbert & Gareth Elwyn Jones, *People and Protest: Wales 1815-1880*, Cardiff University Press.

Jones, Ieuan Gwynedd (1988) *Parliament and People in mid-nineteenth century Wales*, yn (gol) Trevor Herbert & Gareth Elwyn Jones, *People and Protest: Wales 1815-1880*, Cardiff University Press.

Jones, Ieuan Gwynedd (1992) *Mid-Victorian Wales: The Observers and the Observed*. University of Wales Press, Cardiff.

Jones, J. William (1860) *Yr Athrawydd Parod: sef Hyfforddydd anffaeledig i ddarllen ac ysgrifenu Cymraeg, yn nghyda rheolau barddoniaeth Gymreig ac elfenau rhifyddiaeth*, Davies & Griffiths: Utica.

Jones, Maldwyn Allen (1960) *American Immigration*, University of Chicago Press.

Jones, Maldwyn.A. (1976) *Destination America*, Weidenfeld & Nicolson: London.

Jones, Maldwyn A (1983) *The Limits of Liberty: American History 1607-1980*, Oxford University Press.

Jones, Merfyn (1988) *Rural and Industrial Protest in North Wales*, yn (gol) Trevor Herbert & Gareth Elwyn Jones, *People and Protest: Wales 1815-1880*, Cardiff University Press.

Jones, Philip Henry (1990) *Yr Amserau: The First Decade 1843-52*, yn (gol) Brake, Laurel et al, *Investigating Victorian Journalism*, Macmillan: Llundain.

Jones, Philip Henry (1999) *Argraffu a Chyhoeddi yn yr Iaith Gymraeg 1800-1914*, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.

Jones, Richard Wyn (2007) *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru, cyfrol 1*, Gwasg Prifysgol Caerdydd.

Jones, Robert Owen (1997) *'Hir Oes i'r Iaith': Agweddau ar hanes y Gymraeg a'r Gymdeithas*, Gomer: Llandysul.

Jones, R. Tudur (1970) *Rhyddiaith Grefyddol y Bedwaredd Ganrif ar bymtheg*, yn Bowen Geraint (gol) *Y Traddodiad Rhyddiaith: Darlithiau Rhydychen*, Gomer: Llandysul.

Jones, R. Tudur (1974) *The Desire of Nations*, Christopher Davies: Llandybie.

Jones, R. Tudur (1986) *Duw a Diwylliant: Y Ddadl fawr, 1800-30*, Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Jones, R. Tudur (1999) *Ymneilltuaeth a'r Iaith Gymraeg yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.

- Jones, T. M. (1893) *Llenyddiaeth fy ngwlad*, P. M. Evans: Treffynnon.
- Jones, W. (1993) *Wales in America: Scranton and the Welsh, 1860-1920*, University of Wales Press: Cardiff.
- Jones, Parchedig R.W. (1935) *Y Ddwy Ganrif Hyn: Trem ar hanes y Methodistiaid Calфинаidd o 1735 hyd 1935*, Cymanfa Gyffredinol yn y Llyfrfa: Caernarfon.
- Jones, William.D. (1998) 'Y Gymraeg a Hunaniaeth Gymreig mewn Cymuned ym Mhennsylvania,' yn Jenkins, Geraint.H. *Iaith Carreg fy Aelwyd: Iaith a Chymuned yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.255-81.
- Joseph, J (2004) *Language and Identity*, Palgrave & Macmillan: Hampshire.
- Kedourie, Elie (1960) *Nationalism*, Blackwell: Oxford.
- Keen, Michael (1968) *The Welsh in the United States*, yn (gol) Thompson, Frank.G, *Maintaining a National Identity*, Baile AthaCliath: Eire.
- Kinealy, Christine (1999) *A Disunited Kingdom? England, Ireland, Scotland and Wales, 1800-1949*, Cambridge University Press.
- Keen, Michael (1968) *The Welsh in the United States*, yn (gol) Thompson, Frank.G, *Maintaining a National Identity*, Baile AthaCliath: Eire.
- Kelly, Alfred & Harbison, Winfred (1948) *The American Constitution: Its Origins and Development*, WW Norton and Company: New York.
- King, Andrew & Plunkett, John (2005) *Victorian Print Media: A Reader*, Oxford University Press.
- Knowles, Anne Kelly (1997) *Calvinists Incorporated: Welsh Immigrants on Ohio's Industrial Frontier*, University of Chicago Press: London.
- Kohn, Hans (1955) *Nationalism: its meaning and history*, D. Van Nostrand: London.
- Kohn, Hans (1957) *American Nationalism: an interpretive essay*, Macmillan Company: New York.
- Kolchin, Peter (1993) *American Slavery, 1619-1877*, Penguin: London.
- Kraus, Michael (1966) *Immigration: the American Mosaic*, D.Van Nostrand: Canada.
- Lawrence, Paul (2005) *Nationalism: History and Theory*, Pearson & Longman: London.
- Leoussi, Athena.S. (2001) *Encyclopedia of Nationalism*, Transaction: London.
- Lewis, Gwyneth (2001) *Byw mewn Bydoedd Cyfochrog yn (gol) Thomas, M.Wynn, Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.

- Lewis, Saunders (1973) *Meistri'r Canrifoedd*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.
- Llobera, Joseph (2004) *Foundations of National Identity: From Catalonia to Europe*, Berghann: Oxford.
- Lloyd, D.Tecwyn (1987) *Drych o Genedl*, Tŷ John Parry: Abertawe.
- Lloyd, Syr John Edward et al (1953) *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940*, Bedford Square: Llundain.
- MacDonagh, Oliver (1973) *Emigration in the Victorian Age: Debates on the Issue from Nineteenth Century Critical Journals*, Gregg International Publishers Ltd.
- Maidment, B.E. (1990) Victorian Periodicals and Academic Discourse, in (ed) Brake, Laurel & Jones, Aled & Madden, Lionel, *Investigating Victorian Journalism*, Macmillan: Hampshire.
- Maini, Darshan (1976) Psychoanalysis and Modern American Criticism, yn (gol) Chander, J & Pradhan, N, *Studies in American Literature: essays in honour of William Mulder*, Oxford University Press.
- Matthews, P.H. (2007) *Concise Oxford Dictionary of Linguistics*, Oxford University Press.
- Matthiessen, F.O. (1968) *American Renaissance: art and expression in the age of Emerson and Whitman*, Oxford University Press: London.
- Mayo, Patricia Elton (1974) *The Roots of Identity: Three National Movements in Contemporary European Politics*, Allen Lane: London.
- Miller, David (1995) *On Nationality*, Clarendon Press: Oxford.
- Miller, David (2000) *Citizenship and National Identity*, Polity Press: Cambridge.
- Miller, Douglas (1970) *The Birth of Modern America 1820-1850*, Pegasus: New York.
- Millward, E.G. (1991) *Cenedl o Bobl Ddewrion: Agweddau ar Lenyddiaeth Oes Victoria*, Gomer: Llandysul.
- Morgan, Derec Llwyd (1970) Rhyddiaith Pantycelyn, yn (gol) *Y Traddodiad Rhyddiaith: Darlithiau Rhydychen*, Gomer: Llandysul.
- Morgan, Dyfnallt (1968) *Gwŷr llên y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'u cefndir*, Christopher Davies: Llandybie.
- Morgan, Prys & Thomas, David (1984) *Wales: The Shaping of a Nation*, David & Charles: London.
- Morgan, Prys (1984) 'From Long Knives to Blue Books,' yn Davies, R.R. et al (gol) *Welsh Society and Nationhood: Historical Essays presented to Glanmor Williams*, University of Wales Press: Cardiff.

- Morgan, Prys (2001) *The Tempus History of Wales*, Tempus: Gloucs.
- McQuillan, Martin (1999) Reader-Response Theories, yn (gol) Wolfreys, Julian, *Literary Theories: A Reader and Guide*, Edinburgh University Press.
- Nairn, Tom (1977) *The Break-up of Britain: Crisis and neo-nationalism*, NLB: London.
- New, Elisa, 'Bible Leaves! Bible Leaves! Hellenism and Hebraism in Melville's *Moby Dick*,' *Offprint from Poetics Today*, Duke University Press.
- Noll, Mark.A (2002) *America's God: From Jonathan Edwards to Abraham Lincoln*, Oxford University Press.
- Parini, Jay (2008) *Promised Land: 13 books that changed America*, Doubleday: New York.
- Park, Robert Ezra (1922) *Immigrant Press and its Control*, Harper and Brothers: New York.
- Parry, Thomas (1944) *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.
- Parry, Thomas (1948) *Hanes ein Llên*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.
- Perry, Lewis (1973) *Radical Abolitionism: Anarchy and the Government of God in Antislavery Thought*, Cornell University Press.
- Phillips, Pch.D.C. [Celyddon] (1891) *Gweithiau barddonol y Pch.D.C.Phillips*, T.J.Griffiths: Utica.
- Pope, Robert (2001) *Religion and National Identity: Wales and Scotland, c.1700-2000*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.
- Powell, Parchedig Howell (1873) *Cofiant y diweddar Barchedig William Rowlands, D.D., Utica Efrog Newydd*, Mrs Catherine Rowlands: Utica, NY.
- Price, Angharad (2000) *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.
- Price, K & Smith, Susan (1995) Periodical Literature in Social and Historical Context, yn (gol) Price, K & Smith, Susan, *Periodical Literature in Nineteenth Century America*, Virginia University Press: London, t.3-16.
- Pullen, John (1971) *Patriotism in America: A Study of changing devotions 1770-1970*, American Heritage Press: New York.
- Pykett, Lyn (1990) 'Reading the Periodical Press: Text and Context,' in (ed) Brake, Laurel & Jones, Aled & Madden, Lionel, *Investigating Victorian Journalism*, Macmillan: Hampshire.

Rees, Henry & Parry, Moses (1841) *Y Genadaeth i'r America: Golygiad byr ar agwedd crefydd y 'mhlith y Methodistiaid Calfinaidd yn Unol Daleithiau America, y nghyd â hanes taith Henry Rees a Moses Parry i ymweled â'r eglwysi yno*, T.Thomas: Caerlleon.

Renan, Ernest (1990) What is a nation? Cyfieithiad gan Martin Thom yn (gol) Bhabha, Homi.K, *Nation and Narration*, Routledge: London.

Reynolds, David.S. (1995) From periodical writer to poet: Whitman's journey through popular culture, yn (gol) Price, K & Smith, Susan, *Periodical Literature in Nineteenth Century America*, Virginia University Press: London.

Richards, Melville (1968) Eisteddfod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn *Twf yr Eisteddfod: tair darlith*, Llys yr Eisteddfod Genedlaethol.

Riker, William (1953) *Democracy in the United States*, Macmillan Company: New York.

Rivlah, Julie & Ryan, Michael (1998) Introduction: English Without Shadows, Literature on a World Scale, yn (gol) Rivlah, Julie & Ryan, Michael, *Literary Theory: An Anthology*, Revised ed, Blackwell: Oxford.

Roberts, Brynley F. (1990) 'Welsh Periodicals: A Survey.' in (ed) Brake, Laurel & Jones, Aled & Madden, Lionel, *Investigating Victorian Journalism*, Macmillan: Hampshire.

Roberts, Ellis.W. (1986) *Journey through Welsh hills and American Valley*, Wyoming Historical and Genealogical Society :Wilkesbarre.

Roberts, Parchedig Gomer Morgan (1973) *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru: cyfrol 1, Y Deffroad Mawr*, Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd: Caernarfon.

Roberts, Parchedig Gomer Morgan (1978) *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru: cyfrol 2, Cynnydd y Corff*, Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd: Caernarfon.

Roberts, Parchedig John (1931) *Methodistiaeth Galfinaidd Cymru: ymgais at athroniaeth ei hanes, Darlith Davies 1930*, Foyle: Llundain.

Roberts, Parchedig John (1934) *The Calvinistic Methodism of Wales*, Llyfrfa'r Cyfundeb: Caernarfon.

Roberts, Millard F. (1914) *A Narrative History of Remsen, New York, including parts of adjoining townships of Steuben and Trenton, 1789-1898*, Cyhoeddwyd gan yr awdur.

Roberts, Parch.T (1894) *Llenyddiaeth, Calfiniaeth a Methodistiaeth*, W.Evans: Caernarfon.

Roderick, A.J. (1982) *Golwg ar hanes Cymru o gyfnod y Tuduriaid hyd heddiw*, Ivan Corbett: Truro.

Roper, Moses (1841) *Hanes bywyd a ffoedigaeth Moses Roper o gaethiwed Americanaidd*, Rees a Thomas: Llanelli.

- Rossiter, Clinton (1971) *The American Quest 1790-1860: An Emerging nation in search of identity, unity and modernity*, Harcourt Brace Jovanovich Inc: New York.
- Ruland, Richard & Bradbury, Malcolm (1991) *From Puritanism to Postmodernism: A History of American Literature*, Routledge: London.
- Rhys, John & Brynmor-Jones, David (1900) *The Welsh People: Chapters on their origin, history, laws, language, literature and characteristics*, T. Fisher Unwin: London.
- Rhys, Robert (1999) Llenyddiaeth Gymraeg y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.251-75.
- Rhys, Robert (2007) *James Hughes: Iago Trichrug*, Gwasg Pantycelyn: Caernarfon.
- Schmidt, Albert-Marie (1960) *John Calvin and the Calvinistic Tradition*, Longmans: London.
- Sernett, Milton.C (2002) *North Star Country: Upstate New York and the crusade for African American Freedom*, Syracuse University Press.
- Sesbachari, Neila (1976) Leslie.A.Fiedeer: Critic as Mythographer, yn (gol) Chander, J & Pradhan, N, *Studies in American Literature: essays in honour of William Mulder*, Oxford University Press.
- Seton-Watson, Hugh (1977) *Nations and States: An Enquiry into the Origins of Nations and the Politics of Nationalism*, Methuen: London.
- Shell, Marc (2002) 'Babel in America,' yn (gol) Shell, M, *American Babel*, Harvard University Press, London, t.3-34.
- Shepperson, W.S. (1957) *British Emigration to North America: Projects and Opinions in the early Victorian Period*, Basil Blackwell: Oxford.
- Skardial, Dorothy (1983) Scandinavian-American Literature, yn (gol) Pietro, Robert & Ifkovic, *Ethnic Perspectives in American Literature: selected essays on the European contributions*, Modern Language Association of America: New York.
- Smith, Anthony (1991) *National Identity*, Penguin: London.
- Smith, Anthony (1998) *Nationalism and Modernism: A critical survey of recent theories of nations and nationalism*, Routledge: London.
- Smith, Anthony (1999) *Myths and Memories of the Nation*, Oxford University Press.
- Smith, Susan (1995) Serialization and the nature of 'Uncle Tom's Cabin,' yn (gol) Price, K & Smith, Susan, *Periodical Literature in Nineteenth Century America*, Virginia University Press: London.
- Sollors, Werner (1986) *Beyond Ethnicity: Consent and Descent in American Culture*, Oxford University Press.

- Sollors, Werner (2000) Introduction, yn (gol) Shell, Marc & Sollors, Werner *The Multilingual Anthology of American Literature: A Reader of original texts with English translations*, New York University Press.
- Srinath, C.N. (1976) Notes from 'Chrysalys': some glimpses of Thoreau's poetry, yn (gol) Chander, J & Pradhan, N, *Studies in American Literature: essays in honour of William Mulder*, Oxford University Press.
- Tanner, Tony (1965) *The Reign of Wonder: Naivety and Reality in American Literature*, Cambridge University Press.
- Thomas, John (1865) *Traethodau, Pregethau, yn nghyd a hanes ei daith yn America*, T.J.Griffiths: Utica.
- Thomas, M.Wynn (2001) 'America: Cân fy Hunan,' yn (gol) Thomas, M.Wynn, *Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.1-28.
- Thomas, Pch. Owen (1890) *Cofiant y Pch. Henry Rees, cyfrol 1*, Hughes a'i Fab: Wrecsam.
- Thomas, R.D. (1872) *Hanes Cymry America*, T.J.Griffiths: Utica.
- Thompson, Andrew & Day, Graham (1999) Situating Welshness: Local Experience and national identity, yn (gol) Fevre, Ralph & Thompson, Andrew, *Nation, Identity and Social Theory: perspectives from Wales*, University of Wales Press: Cardiff.
- Tocqueville, Alexis de (1998) *Democracy in America*, Wordsworth Editions Ltd: Herts.
- Trosset, Carol (1993) *Welshness Performed: Welsh Concepts of Person and Society*, The University of Arizona Press: London.
- Turner, Christopher (1988) The Nonconformist Response, yn (gol) Trevor Herbert & Gareth Elwyn Jones, *People and Protest: Wales 1815-1880*, Cardiff University Press.
- Van Vugt, William.E. (2006) *British Buckeyes: The English, Scots and Welsh in Ohio, 1700-1900*, Kent State University: Kent, Ohio.
- Wada, Gunilla (2006) *Studying Transcultural Literary History*, Walter de Gruyter: Berlin.
- Walter, Roland (2003) *Narrative Identities: (Inter) Cultural In-betweenness in the Americas*, Peter Lang: Berlin.
- Walters, Huw (1993) *Llyfryddiaeth Cylchgronau Cymreig 1735-1850*, Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Aberystwyth.
- Walters, Huw (1999) Y Gymraeg a'r Wasg Gylchgronol, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr iaith Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.327-53.

- Whitfield, Esther (2002) 'Mordecai and Haman: The Drama of Welsh America, yn (gol) Shell, M, *American Babel*, Harvard University Press, London, t.93-117.
- Whitman, Walt (1997) *Leaves of Grass: Selected Poems and Prose*, Doubleday: New York.
- Williams, Colin.H. (1982) *National Separatism*, University of Wales Press: Cardiff.
- Williams, Daniel (2001) 'Y Coch a'r Du: Moderniaeth a Chenedligrwydd yn Harlem a Chymru,' yn (gol) Thomas, M.Wynn, *Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.
- Williams, Daniel (2002) 'The Welsh Atlantic: Mapping the Contexts of Welsh-American Literature, yn (gol) Shell, M, *American Babel*, Harvard University Press, London, t.343-69.
- Williams, Daniel (2003) 'Cymry Ewyrth Sam: Creu hunaniaeth Gymreig yn yr Unol Daleithiau c.1860-1900, yn (gol) Jenkins, Geraint.H, *Cof Cenedl XVIII*, Gomer: Ceredigion.
- Williams, Daniel.G, gol (2010) *Canu Caeth: Y Cymry a'r Affro-Americaniaid*, Gomer: Llandysul.
- Williams, Daniel Jenkins, D.D. (1937) *One Hundred Years of Calvinistic Methodism in America*, Westminster Press: Philadelphia.
- Williams, David (1950) *A History of Modern Wales*, John Murray: London.
- Williams, David (1975) *Cymru ac America*, Cardiff University of Wales Press.
- Williams, Parchedig D.D. (1927) *Llawlyfr Hanes Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd*, Pwyllgor Llenyddiaeth y Cyfundeb: Caernarfon.
- Williams, Emyr.W. (1989) The Dynamic of Welsh Identity, yn gol Evans, Neil, *National Identity in the British Isles*, Coleg Harlech Occasional Papers in Welsh Studies.
- Williams, Glanmor (1979) *Religion, Language and Nationality in Wales*, University of Wales Press: Cardiff.
- Williams, Glanmor (1989) *Grym Tafodau Tân: Ysgrifau Hanesyddol ar Grefydd a Diwylliant*, Gomer: Llandysul.
- Williams, Glanmor (2000) *Cymru a'r Gorffennol – Côr o Leisiau*, Gomer: Llandysul.
- Williams, Gwyn A (1980) *The Search for Beulah Land: The Welsh and the Atlantic Revolution*, Croom Helm: London.
- Williams, Gwyn A (1980) Locating a Welsh Working Class: the Frontier Years, yn (gol) Smith, David, *A People and a Proletariat: Essays in the History of Wales, 1780-1980*, Pluto: London.
- Williams, Gwyn A ((1982) *The Welsh in their History*, Croom Helm: London.

- Williams, Gwyn A (1985) *When was Wales?* Black Raven Press: London.
- Williams, Gwyn A (1987) *Madoc: The Making of a Myth*, Oxford University Press.
- Williams, G.J. (1970) *Y Wasg Gymraeg ddoe a heddiw*, Llyfrau'r Faner: Y Bala.
- Williams, Ioan (1989) *Capel a Chomin: Astudiaeth o Ffugchwedlau y pedwar llenor Fictorianaid*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.
- Williams, Ioan (2000) Gwilym Hiraethog (William Rees 1802-83), Williams, Ioan (1989) *Capel a Chomin: Astudiaeth o Ffugchwedlau y pedwar llenor Fictorianaid*, Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd, t.48-69.
- Williams, Jay G (1993) *Memory Stones: A History of Welsh-Americans in Central New York and their churches*, Purple Mountain Press: Fleischmanns, New York.
- Williams, Lynn (1999) 'National Identity and the Nation State: Construction, Reconstruction and Contradiction,' in (ed) Cameron, K, *National Identity*, Intellect: Exeter.
- Williams, William (1884) *Welsh Calvinistic Methodism: A Historical Sketch of the Presbyterian Church in Wales*, Publishing Office of Presbyterian Church of England: London.
- Williams, William .H.A. (1998) Immigration as a pattern in American Culture, yn (gol) Jackson, David, *The Immigration Reader: America in a Multidisciplinary Perspective*, Blackwell: Oxford.
- Wilson, Edmund (1956) *The Shock of Recognition: The development of literature in the United States recorded by the men who made it*, W.H.Allen: London.
- Wodak, R et al (1999) *The Discursive Construction of National Identity*, Edinburgh University Press.
- Wynne, Ellis (1998) *Gweledigaethau y Bardd Cwsg*, Golygwyd gan Donovan, Patrick.J & Thomas, Gwyn. Gomer: Llandysul.

Erthyglau.

- Caulkins, D.Douglas (2002) Welsh Reflections: Y Drych and America 1851-2001 – review. *Journal of American Ethnic History*, Hydref, t.103-4.
- Coupland, Nikolas et al (2003) Home Truths: Globalisation and the Iconising of Welsh in a Welsh-American Newspaper. *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, cyfrol 24, rhif 3, t.153-77.
- Ellis, D. Maldwyn (1961) 'The Welsh in Oneida County in New York State', *Transactions of Honourable Society of Cymmrodorion*, t.115-25.

Ellis, David Maldwyn (1973) 'The Assimilation of the Welsh in Central New York', *Welsh History Review*, cyfrol 6, rhif 4, t.424-47.

Ellis, David M. (1981) 'The Welsh in Utica', *Transactions of Honourable Society of Cymmrodorion*, t.127-37.

Hunter, Jerry (2003) 'Y Traddodiad Llenyddol Coll', *Taliesin*, 118, Gwanwyn, t.13-44.

James, E.Wyn (2003) 'Caethwasanaeth a'r Beirdd', *Taliesin*, 119, Haf, t.37-60.

Jones, Maldwyn A. (1975) 'From the Old Country to the New: The Welsh in nineteenth century America', *Flintshire Historical Society Publication*, 27, t.85-101.

Jones, Maldwyn A. (1985) Welsh Americans and the anti-slavery movement in the United States, *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, t.105-29.

Lewis, Idwal (1942) 'Welsh newspapers and journals in the United States', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 2, Haf, t.124-42.

Owen, Bob (1950) 'Welsh American newspapers and periodicals' *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, cyfrol 6, rhif 3, t.373-84.

Owen, Bob (1958) 'Cymry ac Addysg America', *Lleufer*, 14, t.29-34.

Tyler, Robert (2008) 'Y Wasg Gymraeg yn Nhrefedigaeth Awstralia,' *Llafur*, cyfrol 10, rhif 1, t.21-32.

Van Vugt, William E. (1991) 'Welsh emigrants to the USA during the mid nineteenth century', *Welsh History Review*, 15, t.545-61.

Walters, Huw (1987) 'Cyfarpar Llenyddol gwasg gyfnodol Gymreig y bedwaredd ganrif ar bymtheg', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 25, t.411-45.

Traethodau.

Bowen, Benjamin.F. (1876) *America Discovered by the Welsh in 1170 AD*, Lippincott & Co: Philadelphia.

Deacon, Richard (1967) *Madoc and the Discovery of America: Some new light on old controversy*, Muller: London.

Edwards, Ebenezer (1899) *Welshmen as Factors*, T.J.Griffiths: Utica.

Evans, Paul De Mund (1914) *The Welsh in Oneida County, New York*, Thesis MA heb ei gyhoeddi: Prifysgol Cornell.

Griffiths, Robert Huw (2004) *The Welsh and the American Civil War, 1840-65*, Phd Thesis: Cardiff University.

Howell, Llewelyn.D. (1860) *Traithawd ar ddechreuad a chynnydd y Cymry yn Utica a'i hamgylchoedd*, R.R.Meredith: Rome.

James, Thomas.L. (1913) The Welshman's Contribution to the Development of the United States and America, yn *The Royal Blue Book: Prize Productions of the Pittsburgh International Eisteddfod*, Press of American Printing Co: Pittsburgh.

Jones, David (1913) A Brief History of the Welsh People, yn *The Royal Blue Book: Prize Productions of the Pittsburgh International Eisteddfod*, Press of American Printing Co: Pittsburgh.

O'Loughlin, Kathleen (1947) *Madoc ap Owain Gwynedd*, St Catherines: Ontario.

Stephens, Thomas (1893) *Madoc: An Essay on the discovery of America by Madoc ap Owain Gwynedd in the 12th Century*, Longmans Green: London.

Tudur, Rhys (2000) *Y Cymro 1932-45: Hanes sefydlu Y Cymro, ei ddatblygiad a'i gynnwys hyd ddiwedd yr Ail Ryfel Byd*, Traethawd Phd: Prifysgol Bangor.

Darlithoedd.

Jones, Bill (2003) 'Raising the Wind: Emigrating from Wales to the USA in the late nineteenth century and early twentieth century', Darlith flynyddol Canolfan Uwchefrydiau Cymry America – prifysgol Caerdydd.

Williams, Glanmor (1976) *Y Baradwys Bell: Cymru a'r Unol Daleithiau 1776-1914*, Darlith Radio Flynyddol BBC Cymru. Qualitex: Caerdydd.

Papurau cynadleddau.

Edwards, Hywel Teifi (2001) 'Llef dros y Ganrif fwyaf,' yn (gol) Jenkins, Geraint.H., *Cymru a'r Cymry 2000 – Trafodion Cynhadledd Milflwyddiant Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru*, Gomer: Llandysul.

Hunter, T.G. (1998) The Literary Nation: Textual Constructions of Welsh Nationhood c.1282-1997, *Proceedings of Harvard Celtic Colloquim*, 18, t.73-115.

Jones, Robert Owen (1992) 'From Wales to Saskatchewan via Patagonia', *Proceedings of 2nd North American Congress of Celtic Studies*, McCurdy: Canada.

Ffynonellau eraill.

Hanes cyfansoddiad, rheolau dysgyblaethol yn nghyda Chyffes Ffydd y corph o Fethodistiaid Calфинаidd yn Nghymru a gytunwyd arnynt yn Nghymdeithasfaoedd Aberystwyth a Bala, 1823, (1852) Argraffiad Americanaidd 1af, E.E.Roberts: Utica.

Jones (1855) *Appendix – Historical Sketch of The St David's Benevolent Society of the cities of New York and Brooklyn*, supplied by a member.

Cyfnodolion.

Y Cyfaill o'r Hen Wlad.

Y Cenhadwr Americanaidd.

Y Seren Orllewinol.

Y Drych.

Yr Arweinydd.

Adroddiadau.

Griffiths, Huw (2002) *Report of a research project on Y Drych and Welsh-American identities, 1851-1951*. University of Wales, Board of Celtic Studies: History and Law Committee.

Arddangosfeydd.

Walters, Huw (1987) *Y Wasg Gyfnodol Gymreig 1735-1900 – arddangosfa 1987 yn y Llyfrgell Genedlaethol, Gwasg breifat.*

